

**Bangor University**

## **DOCTOR OF PHILOSOPHY**

'Mae'r Beibl o'n tu': Y dadleuon Beiblaidd ynghylch caethwasiaeth ar dudalennau gwasg gyfnodol Gymraeg America, 1838-1868

Evans-Jones, Gareth Hugh

*Award date:*  
2017

*Awarding institution:*  
Bangor University

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

‘Mae’r Beibl o’n tu’: Y dadleuon Beiblaidd  
ynghylch caethwasiaeth ar dudalennau  
gwasg gyfnodol Gymraeg America,  
1838-1868.

Traethawd PhD

Gareth Hugh Evans-Jones

Ysgol Athroniaeth a Chrefydd / Ysgol y Gymraeg  
Prifysgol Bangor

Rhagfyr 2017

# Datganiad a Chaniatâd

## Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

**Enw'r Awdur:** Gareth Hugh Evans-Jones.

**Teitl:** 'Mae'r Beibl o'n tu': Y dadleuon Beiblaidd ynghylch caethwasiaeth ar dudalennau gwasg gyfnodol Gymraeg America, 1838-1868.

**Goruchwyliwr/Adran:** Yr Athro Eryl Wynn Davies a'r Athro Jerry Hunter / Ysgol Athroniaeth a Chrefydd, ac Ysgol y Gymraeg.

**Corff cyllido (os oes):** AHRC.

**Cymhwyster/gradd a enillwyd:** .....

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

## Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

## Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

### **Datganiad 1:**

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 2:**

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 3:**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

**ON:** Dylai ymgeiswyr y mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad ar eu rhan, ddefnyddio'r fersiwn canlynol o **Ddatganiad 3:**

### **Datganiad 3 (gwaharddiad):**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ar ôl i waharddiad ar fynediad ato ddod i ben.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

#### **Datganiad 4:**

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	
a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y <b>gwaharddiad ar fynediad</b> cymeradwy wedi ei godi.	
c)	Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n <b>dewis peidio</b> â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

*Dylid defnyddio Dewis B dim ond os yw'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad.*

#### **Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:**

1. Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
2. Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
4. Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.
5. Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
6. Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: ..... Dyddiad : .....

Ond y mae ymdrech diflino y dyddiau hyn i wneud y tair [plaid wleidyddol: y Democratiaid, y Dimwybyddion a'r Gweriniaethwyr] yn un, ac aberthu pob gwahaniaeth, er mwyn sicrhau y fuddugoliaeth o blaid eu pwnc mawr, sef Caethiwed; am hynny, Werinwyr, 'byddwn bybur, ac ymwrolwn'—mae'r Beibl o'n tu.

'Y Llywyddiaeth', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Hydref 1860), 395.

## Crynodeb

Amcan yr astudiaeth hon yw archwilio rôl y Beibl ymysg Cymry America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth iddynt ymateb i gaethwasiaeth, un o brif heriau eu gwlad fabwysiedig. Ymdriniwyd â'r mater yn helaeth ar dudalennau gwasg gyfnodol Gymraeg America, a defnyddid testunau Beiblaidd a chysyniadau Cristnogol yn fynych er mwyn trafod yr hyn a ystyrir gan amryw yn un o 'bechodau mwyaf ysgeler' yr Unol Daleithiau.

Gan fod y diwylliant print yn hynod ddylanwadol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, canolbwyntia'r traethawd hwn ar yr ymateb llenyddol a gafwyd i gaethwasiaeth gan Gymry America yn eu cyfnodolion a gyhoeddid yn ystod y cyfnod 1838-1868: oes aur y wasg gyfnodol Gymraeg yn yr Unol Daleithiau.

Er mwyn ystyried eu defnydd o'r Beibl yng nghyd-destun y broblem gyfoes, archwilir defnydd Cymry America o bedwar testun neu thema Feiblaidd unigol ym mhedair pennod gyntaf y thesis. Cynnwys y rhain: Cham a Gomer, deddfau'r Pumllyfr a'r Jiwbili, y Gaethglud ym Mabilon, ac Iesu a'r Testament Newydd. Wrth asesu'r modd y defnyddiwyd y testunau a'r themâu hyn, ystyrir pa mor debyg yr oedd ymdriniaeth gwahanol awduron ohonynt. Yn ogystal, ymholir i ba raddau yr oedd holl Gymry America'n gwrthwynebu caethwasiaeth, ac a oedd rhai, mewn gwirionedd, wedi parhau i gefnogi'r gyfundrefn ar bwys y Beibl.

Mae'r bumed bennod o natur wahanol i'r rhelyw gan y cymerir cyfraith a basiwyd gan lywodraeth yr Unol Daleithiau, a oedd yn arwyddocaol i'r ymgyrch diddymol, Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850 fel astudiaeth achos, ac ystyrir y modd yr ymatebwyd iddi ar seiliau Beiblaidd. Awgrymir yn y bennod hon i radicaliaeth y Cymry ei hamlygu ei hun ymhellach yn sgil pasio cyfraith ddadleuol 1850.

Daw'r thesis i glo drwy bwysu a mesur arwyddocâd y dadleuon Beiblaidd mewn trafodaethau ynglŷn â chaethwasiaeth, a chasglu i'r Ysgrythur fod yn ddylanwadol yng ngweithgarwch llenyddol, gwleidyddol a chymdeithasol hil Gomer yr Unol Daleithiau.

## Cynnwys

Crynodeb	vi
Cydnabyddiaethau	viii
Byrfoddau	ix
Nodyn am y termau a ddefnyddir	x
Nodyn am y Beiblau a ddefnyddir	xi
Rhagymadrodd	1
Pennod 1. ‘Teulu Ham sy’n cael eu hymlid’: Cysyniadau ‘Meibion Cham’ a ‘Hil Gomer’ yng ngwasg gyfnodol Gymraeg America	9
Pennod 2. ‘O henffych, henffych fore clir, / Pryd na bydd gorthrwm yn ein tir!’: Gwasg Gymraeg America, deddfau’r Pumllyfr a blwyddyn y Jiwibili	48
Pennod 3. ‘I ddwyn y gaethglud fawr yn rhydd’: Y Gaethglud ym Mabilon a’r Gaethwasiaeth Americanaidd	100
Pennod 4. ‘Hyn ydyw crefydd Crist’: Dysgeidiaeth Iesu a’r caethion cyfoes	150
Pennod 5. ‘[D]ylem ufuddhau i Dduw o flaen ufuddhau i ddynion’: Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850 ac ymateb gwasg Gymraeg America	189
Diwedd glo	250
Llyfryddiaeth	259



## Cydnabyddiaethau

Mae fy niolch yn aruthrol i lawer am yr holl gymorth a chefnogaeth a dderbyniais yn ystod cyfnod ymchwilio a llunio'r traethawd hwn.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch o waelod calon i'm cyfarwyddwyr, Yr Athro Emeritws Eryl Wynn Davies a'r Athro Jerry Hunter am eu cyfarwyddyd a'u cyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd. Cefais fudd eithriadol o bob sgwrs a chyngor, a dysgais lawer iawn ganddynt. Diolch yn fawr.

Diolch i holl aelodau staff Ysgol y Gymraeg ac Ysgol Athroniaeth a Chrefydd am fod mor barod eu cymwynas, ac i'r gymuned ôl-radd yn Ysgol y Gymraeg am y gefnogaeth ac am y sgysiau difyr dros baned bob dydd Mercher.

Hoffwn gydnabod fy ngwerthfawrogiad i holl staff Llyfrgell ac Archifau Prifysgol Bangor. Treuliais gyfnodau estynedig yn archifdy'r brifysgol yn pori drwy amryw gasgliadau ac yn manteisio ar arbenigedd y staff, yn arbennig felly, y cyn-Archifydd Einion Thomas a Shan Robinson. Diolch hefyd i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Llyfrgell Widener, Prifysgol Harvard, a Llyfrgell Gladstone, Penarlâg am eu cymorth.

Bu nifer o unigolion eraill hefyd yn hynod gefnogol a chymwynasgar. Am bob cymorth a sgwrs, diolch i Eirug Davies, Dr Katherine Forsyth, Dafydd Guto Ifan, Dr Sheila M. Kidd, yr Athro Catherine McKenna, yr Athro Angharad Price, a'r Dr David Sullivan. Diolch i'r Parch. Emllyn Richards, Rhiannon ac Evan John Hughes, a'r Parch. Carwyn Siddall am rannu'n hael o'u llyfrgelloedd, ac i Carwyn am y sgysiau difyr. Diolch yn ogystal i Lyn Bechtel am ei harweiniad a'i hamynedd wrth imi fentro dysgu Hebraeg.

Diolch yn fawr i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am ariannu blwyddyn gyntaf yr ymchwil, ac i'r Ganolfan Hyfforddiant Ddoethurol mewn Ieithoedd Celtaidd a'r AHRC am ddyfarnu ysgoloriaeth imi gwblhau'r prosiect. Heb y nawdd hwn, ni fyddai'r astudiaeth wedi bod yn bosibl.

Ar nodyn personol, hoffwn ddiolch i'm teulu a'm ffrindiau am bob cefnogaeth ac anogaeth, a diolch yn arbennig i Mam.

## Byrfoddau

ANET	J. B. Prichard (gol.), <i>Ancient Near Eastern Texts: Relating to the Old Testament</i> (Princeton, NJ: Princeton University Press, 1955; ail argraffiad)
CC	Cyn Crist
CH	Cod Hammurabi
JNES	<i>Journal for Near Eastern Studies</i>
JSOT	<i>Journal for the Study of the Old Testament</i>
KJV	The King James Version Bible
LI	Cod Lipit-Ishtar
NIV	The New International Version Bible
NRSV	The New Revised Standard Version Bible
OC	Oed Crist
VT	<i>Vetus Testamentum</i>

## Nodyn am y Termau a Ddefnyddir

Gan y defnyddir rhai termau llai cyfarwydd yn y thesis, priodol fyddai cynnig diffiniad i bob un:

Caeth-bleidiwr: rhywun a oedd yn bleidiol i gaethwasiaeth.

Gwrth-gaethiwr: rhywun a oedd yn gwrthwynebu caethwasiaeth, ond roedd gwahanol fathau o wrth-gaethiwr yn bod. Ceid rhai gwrth-gaethiwr yn beirniadu caethwasiaeth ond yn dewis peidio â gweithredu. Ceid gwrth-gaethiwr eraill yn gwrthwynebu caethiwed ond yn cefnogi dulliau'r Gymdeithas Drefedigaethol – y rhain oedd y gwrth-gaethiwr trefedigaethol. Math arall o wrth-gaethiwr oedd sawl a fuasai'n gwrthwynebu caethwasiaeth, yn anghytuno â dulliau'r Gymdeithas Drefedigaethol ac a gefnogai gynllun i ryddfrenio'r caethion yn raddol.

Diddymwr: rhywun a oedd yn cefnogi dulliau diddymiaeth, sef terfynu caethwasiaeth yn fuan. Y diddymwr oedd adain fwyaf radical y gwrth-gaethiwr. Ceid gwahanol fathau o ddiddymwr, megis y garfan a weithredai mewn ffyrdd di-drais ac a fyddai'n dadlau ar sail moeseg (*moral suasion*). Carfan arall oedd y rhai a weithredent i ddiddymu caethwasiaeth ar unwaith drwy apelio at foeseg yn ogystal â gwleidyddiaeth. Yn yr astudiaeth hon, fodd bynnag, defnyddir y term yn ei ystyr ehangaf i gyfeirio at y sawl a oedd yn gefnogol i'r syniad o ryddhau'r caethion ar unwaith. Fel y gwelir yn y thesis, defnyddid amryw enwau yn y cyfnodolion i gyfeirio at y diddymwr, gan gynnwys 'diddymwr', 'gwrthgaethiwr', 'gwrthgaethiwr politicaidd', 'gwrthgaethiwr penboethlyd', ac 'abolisioniaid'.

## Nodyn am y Beiblau a Ddefnyddir

Oni nodir yn wahanol, dyfynnir o'r *Beibl Cymraeg Newydd* (1988) yng nghorff y thesis. Gan na chyhoeddwyd fersiwn Gymraeg o'r Beibl yn America tan 1858 (cyhoeddwyd fersiwn ddwyieithog o'r Testament Newydd ym 1854, a fersiwn uniaith Gymraeg ym 1859), y mae'n anodd dweud pa fersiwn o'r Beibl a ddefnyddid gan Gymry America yn y cyfnod dan sylw.<sup>1</sup> Mae'n debyg mai fersiynau o Feibl Peter Williams (1770) a oedd y mwyaf poblogaidd, ond nid oes modd dweud yn bendant.

---

<sup>1</sup> Eryn M. White, *The Welsh Bible* (Stroud, Gloucestershire: Tempus, 2007), 112-13.

## Rhagymadrodd

‘Mae “Cymry America,” er ys blyneddau, yn genedl luosog, yn bobl gyfoethog a chyfrifol, ac yn Gristionogion Beiblaidd, selog, a dylanwadol, yn y wlad hon.’<sup>1</sup> Dyna sylw’r Parch. R. D. Thomas (Iorthryn Gwynedd) yn ‘Rhaglith’ ei gyfrol gyfoethog, *Hanes Cymry America*, ac fel y datgan y gweinidog, roedd crefydd yn rhan greiddiol o fywyd y Cymro Americanaidd. O’r herwydd, nid gorddweud fyddai awgrymu bod syniadaeth ac ieithwedd y Beibl yn ganolog i ddiwylliant Cymraeg America’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn wir, roedd yr argyhoeddiad crefyddol hwn wedi ymdreiddio i wahanol agweddau ar fywydau’r Cymry gan ei wneud ‘yn un o brif fynegbyst eu cenedligrwydd yng Nghymru ac yn y cymunedau diasporaidd’, fel y dywed Rhiannon Heledd Williams.<sup>2</sup>

Arwydd o rym y grefydd Anghydfurfiol ym meddwl y mewnfudwyr Cymreig yw mai un o’r pethau cyntaf a wnaent ar ôl glanio ar dir America fyddai trefnu sefydlu capel yn eu treflan. Ynghyd â bod yn addoldy, gweithredai’r capel fel man ddiwylliannol a chymdeithasol o bwys eithriadol. Cynhelid yno gymdeithasau llenyddol a dirwestol, ymgsglid yno ar gyfer ymarferion corau a chymanfaoedd, ac ynghyd â’r oedfaon cyson, cynhelid ysgolion Sul a chyrddau gweddi. Gwelid sêl grefyddol y mewnfudwyr hyn gan ba mor gyflym y datblygodd y gwahanol enwadau Anghydfurfiol Cymreig yn yr Unol Daleithiau. A chyda’r fath gynnydd, amcangyfrifir i oddeutu 600 capel Cymreig gael eu sefydlu gan y gwahanol enwadau yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>3</sup> Yn wir, roedd y grefydd Anghydfurfiol yn gymaint ran o hunaniaeth Gymreig yr ymfudwyr, fel y sylwa William D. Jones wrth drafod y Cymry a fwriodd eu gwreiddiau yn ninas Scranton:

For many of the Welsh it [Nonconformity] was not only a particular religious belief; it was an integral element of Welshness, and as the involvement of local ministers in the

---

<sup>1</sup> R. D. Thomas [Iorthryn Gwynedd], *Hanes Cymry America; a’u sefydliadau, eu heglwysi, a’u gweinidogion, eu cerddorion, eu beirdd a’u llenorion: yn nghyda thiroedd rhad y llywodraeth a’r reilffyrdd; gyda phob cyfarwyddiadau rheidiol i ymfudwyr i sicrhau cartrefi rhad a dedwyddol. Cyfrol I* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1872), iii.

<sup>2</sup> Rhiannon Heledd Williams, *Cyfaill Pwy o’r Hen Wlad? Gwasg gyfnodol Gymraeg America 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), 21-2.

<sup>3</sup> D. Gareth Evans, *A History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1989), 22. Noda R. D. Thomas, *Hanes Cymry America*, 345, fod yn yr Unol Daleithiau ym 1871 gyfanswm o 50,053 yn mynychu eglwysi o bob enwad. Roedd gan y Methodistiaid Calфинаidd 152 capel ag 20,200 yn eu mynychu, yr Annibynwyr 154 capel ag 20,828 yn eu mynychu, 8,595 yn mynychu 71 eglwys y Bedyddwyr, a bod 430 yn mynychu’r saith eglwys Wesleiaidd. Gweler hefyd Ronald L. Lewis, *Welsh Americans: A History of Assimilation in the Coalfields* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 2008), 141-2.

city's Welsh publishing ventures well symbolizes, religion was inextricably entwined with the Welsh language and the Welsh culture. Although not all the Welsh in Scranton were religious or attended Services, religious attendance was widespread and, as in Wales, religion, in the words of Glanmor Williams, was a 'uniquely compelling force'.<sup>4</sup>

Ond fel yr oedd Cristnogaeth yn ganolog i'r modd yr oedd llawer o fewnfudwyr Cymreig a'u disgynyddion yn ymwneud â phob agwedd ar eu bywydau, felly hefyd yr oedd caethwasiaeth yn ganolog i sylfeini economaidd rhannau helaeth o'u gwlad newydd. Sut, felly, roedd yr Americanwyr Cymraeg hyn yn canfod cydfodolaeth Cristnogaeth a chaethwasiaeth yn yr Unol Daleithiau?

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai Cymry'n ymfudo i America am resymau amrywiol.<sup>5</sup> Fel y mae'r hanesydd William D. Jones wedi'i nodi, roedd y penderfyniad i ymfudo yn un dyrys a chymleth,<sup>6</sup> ond i amryw, ystyrid America fel 'y wlad yn llifeirio o laeth a mêl' oherwydd yr holl gyfleoedd a gynigai. Ar un wedd, felly, roedd yna atyniad, ond roedd yna hefyd ymdeimlad â gorfodaeth i ymfudo, gan na chredent y deuai tro ffafriol ar eu byd yn fuan yn eu mamwlad.<sup>7</sup>

Roedd amodau byw yng Nghymru'n anffafriol i lawer gyda chyni ariannol a phrinder gwaith yn broblem gyson; felly, cynigai America welliannau economaidd.<sup>8</sup> Byddai nifer yng Nghymru'n denantiaid ffermydd ac yn gorfod talu rhenti uchel a byw dan iau landlordiaid, ond yn yr Unol Daleithiau, roedd tir ffrwythlon ar gael am brisiau rhesymol. Er bod cyfran uchel o boblogaeth y famwlad bellach yn Anghydfurfwyr, rhaid oedd iddynt barhau i dalu'r degwm a byw mewn gwlad lle roedd Eglwys Sefydledig mewn bod. Nid oedd hynny i'w gael ar draws yr Iwerydd. Yn yr un modd, roedd nifer o'r Cymry'n gynyddol wrthwynebus i frenhiniaeth Prydain ac, o'r herwydd, apeliai ddemocratiaeth Gogledd America.

---

<sup>4</sup> William D. Jones, *Wales in America: Scranton and the Welsh 1860-1920* (Cardiff: University of Wales Press/University of Scranton Press, 1993), 91.

<sup>5</sup> Dylid nodi nad oes modd dweud i sicrwydd faint o Gymry a ymfudodd i'r Unol Daleithiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nodwyd yng Nghyfrifiad 1850 yr Unol Daleithiau fod 29,868 o Gymry'n byw yno ac erbyn 1860, i'r nifer gynyddu i 45,763. Awgryma Jerry Hunter, fodd bynnag, ei bod yn dra thebygol fod nifer y siaradwyr Cymraeg neu unigolion o dras Gymreig yn America'n sylweddol uwch na'r niferoedd yn y ddau Gyfrifiad gan fod plant, wyrion a wyresau'r fewnfudwyr hefyd yn cael eu haddysgu i siarad Cymraeg. Gweler, Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), 14-5.

<sup>6</sup> Bill Jones, "'Raising the Wind": Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth and early twentieth centuries' (Caerdydd: Ysgol y Gymraeg, 2004), 7.

<sup>7</sup> Gwelir bod y theori 'push-pull' yn nodweddu patrwm ymfudo amryw genhedloedd. Gweler Lewis, *Welsh Americans*, 36-7.

<sup>8</sup> Glanmor Williams, *Religion, Language, and Nationality in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1979), 140-1.

Er i Glanmor Williams ddadlau mai ystyriaethau economaidd oedd y pennaf rheswm dros ymfudo, gellid awgrymu i ffactorau eraill hefyd fod yn arwyddocaol yn ysgogi'r Cymry i groesi'r Iwerydd.<sup>9</sup> Ystyrid America fel gwlad a gynigai ryddid crefyddol, gwleidyddol, diwylliannol ac ideolegol. Serch hynny, roedd y ffaith fod caethwasiaeth yn parhau yn y wlad yn her i'r mewnfudwyr Cymreig, a pherodd y paradocs hwnnw i amryw ymateb.

Fe'u sbardunwyd hefyd gan yr hinsawdd grefyddol newydd a sefydlwyd yn sgil yr Ail Ddeffroad Mawr: cyfres o ddiwygiadau crefyddol a gyneuwyd gan y cyn-gyfreithiwr a gweinidog gyda'r Presbyteriaid, Charles Grandison Finney. Pregethai Finney fesurau diwinyddol newydd a ymwrthodai â hen gysyniadau Calфинаidd megis rhagordeiniad a phechod gwreiddiol, ac a roddai fwy o bwys ar y gydwybod fel grym moesol.<sup>10</sup> Cawsai'r diwygiadau hyn, a ymledodd fel tân eithin drwy'r taleithiau, ddylanwad ar nifer gan gynyddu'r ymdeimlad o ddyletswydd foesol ymysg credinwyr. Meddai Maldwyn A. Jones:

It engendered a mood of moral perfectionism which filled men with a sense of responsibility not only for their own salvation but also for that of their fellow men. It produced a determination to stamp out every form of evil, to reform the social order and bring about the earthly millennium.<sup>11</sup>

O ystyried y cyd-destun hwn, felly, gellir deall pam y teimlai'r Cymry reidrwydd i ymateb. Felly hefyd, oherwydd rôl y Beibl yn yr ymrafael am gaethwasiaeth gyfoes. Gallai'r gwrth-gaethiwyd yn yr un modd â'r caeth-bleidwyr ganfod yn y gyfrol honno dystiolaeth i gefnogi'u safbwyntiau cyferbyniol. Achosodd hyn her foesol ddybryd, fel y dywed Randall Balmer:

These divergent interpretations of the same book, the same stories, constituted the basis for the nation's first truly moral crisis. Just as the political realm had to deal with the fundamental contradiction [...] between the horrors of slavery and the soaring republican rhetoric about "the right of man" and "the pursuit of happiness" in America's charter documents, so too American Protestants were condemned to address the fundamental contradiction between servitude here on earth and freedom in Christ. The contradiction would expose fissures among America's Protestants – the Methodists split in 1844, the Baptists the following year, and the Presbyterians in 1857 – and no one captured the dilemma of Protestant biblical interpretation better than Abraham Lincoln in his Second Inaugural Address. Both sides in this bitter war,

---

<sup>9</sup> Glanmor Williams, *Y Baradwys Bell?* (Caerdydd: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, 1976), 7-8.

<sup>10</sup> Milton C. Sernett, *North Star Country: Upstate New York and the Crusade for African American Freedom* (Syracuse, NY: Syracuse University Press, 2002), 12-3.

<sup>11</sup> Maldwyn A. Jones, 'Welsh Americans and the Anti-Slavery Movement', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1985), 108.

the beleaguered president declared, prayed to the same God and read the same Bible.<sup>12</sup>

Roedd gan Gymry America wasg gyfnodol Gymraeg fywiog iawn yn y cyfnod, ac er mwyn archwilio'r berthynas rhwng cynnwys y wasg Gymraeg Americanaidd honno a'r ddadl foesol genedlaethol ynglŷn â chaethwasiaeth, canolbwyntia'r astudiaeth hon ar gynnwys detholiad o gyfnodolion a gyhoeddwyd rhwng 1838 a 1868.

Cyhoeddwyd cannoedd o lyfrau ac oddeutu 65 o gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg eu hiaith yn America, er mai llai na phum mlynedd oedd hyd nifer ohonynt.<sup>13</sup> Yn wir, roedd i'r llyfrau niferus a gyhoeddwyd wedd grefyddol gref, fel y dywed Paul DeMund Evans, 'The Welsh literature reflects the character of the people; it is essentially religious.'<sup>14</sup> Felly hefyd, y cyfnodolion.<sup>15</sup> Mewn modd cyffelyb i Anghydfurfiaeth, roedd y wasg gyfnodol yn nodweddiadol o ddiwylliant y Cymry. A chyda nifer fawr o sefydliadau ar wasgar yn America, roedd y wasg gyfnodol yn offeryn hwylus i greu ymdeimlad o gymuned genedlaethol yn y Gwasgariad. Yr oedd yn fforwm lle gallai Gymry America o bob cwr o'r Unol Daleithiau drafod materion a chreu'r hyn a eilw Benedict Anderson yn 'gymuned ddychmygol'.<sup>16</sup>

Gan nad oes modd trafod yr holl gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg a gyhoeddwyd yn America – oherwydd prinder ffynonellau cynradd ymysg rhesymau eraill – canolbwyntia'r thesis hwn ar chwe chyfnodolyn poblogaidd a gylchredid yn ystod y cyfnod 1838 i 1868: oes aur y wasg gyfnodol Gymraeg yn America. Bydd canolbwyntio ar y cyfnod hwn yn benodol yn ein galluogi i ddeall yn llawnach rôl y Cymry yn y disgwrs am gaethwasiaeth gan fod y blynyddoedd hyn yn rhychwantu twf yr ymgyrch diddymol,

---

<sup>12</sup> Randall Balmer, 'Casting Aside the Ballast of History and Tradition: White Protestants and the Bible in the Antebellum Period', yn Vincent L. Wimbush (gol.), *African Americans and the Bible: Sacred Texts and Social Textures* (New York a London: The Continuum International Publishing Group Inc., 2000), 199.

<sup>13</sup> Glanmor Williams, *Y Baradwys Bell?*, 19.

<sup>14</sup> Paul DeMund Evans, 'The Welsh in Oneida County, New York' (MA Prifysgol Cornell): <<http://www.rootsweb.ancestry.com/~nyunywh/upstatenywelsh/OneidaWelsh.pdf>> (Cyrchwyd 6 Medi 2017).

<sup>15</sup> D. Eirug Davies, 'Llyfrau a Phamffledi Cymraeg a gyhoeddwyd yn yr Unol Daleithiau', *Llên Cymru*, 26 (2003), 107-9.

<sup>16</sup> Benedict Anderson, *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism* (London: Verso, 2016; pedwerydd argraffiad), 5-6: 'I propose the following definition of the nation: [...] It is *imagined* because the members of even the smallest nation will never know most of their fellow-members, meet them, or even hear of them, yet in the minds of each lives the image of their communion.'



digwyddiadau cyfnewidiol y 1850au, y Rhyfel Cartref, a chyhoeddi Datganiad Rhyddid Lincoln, yn ogystal ag ychydig flynyddoedd ar ôl rhyddhau'r caethion.

Oherwydd bod y traddodiad Anghydfurfiol yn elfen nodweddiadol o'r Cymry Americanaidd, ystyrir tri misolyn enwadol. Y cyfnodolyn Cymraeg cyntaf i lwyddo ar dir America, a'r hynaf o'r cyhoeddiadau a drafodir yn y thesis hwn oedd *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*. Fe'i sefydlwyd ym 1838 gan y Parch. William Rowlands, ac er gwaethaf y bwriad cychwynol iddo fod yn gyhoeddiad ar gyfer Cymru America gyfan, troes y misolyn yn fuan yn gylchgrawn ar gyfer y Methodistiaid Calфинаidd yn bennaf.<sup>17</sup> Ym 1840, dechreuodd *Y Cenhadwr Americanaidd*, misolyn yr Annibynwyr Cymraeg, ei oes dan gyd-olygyddiaeth y Parchn. James Griffiths, Morris Roberts a Robert Everett – un o ddiddymwyr Cymraeg mwyaf nodedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg – ac yna, o 1843, dan olygyddiaeth Everett yn unig.<sup>18</sup> Buan y dilynodd y Bedyddwyr Cymraeg y ddau enwad uchod gan sefydlu *Y Seren Orllewinol* ym 1844. Bu gan y misolyn hwn amryw olygyddion a daeth i ddiwedd ei oes dymhestlog ym 1867. Ceir yn y cyfnodolion hyn ymdrin â chaethwasiaeth ond amrywia'r tri ynglŷn â pha faint a pha fath o sylw a roddid i'r pwnc.<sup>19</sup>

Er mwyn gwerthfawrogi ymhellach ba mor amlwg oedd y syniadaeth Feiblaidd yn niwylliant Cymraeg America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig mewn perthynas â chaethwasiaeth gyfoes, ystyrir tri chyhoeddiad nad oedd ganddynt unrhyw rwymau enwadol. Yn wir, roedd *Y Dyngarwr* yn gyfnodolyn a geisiai oresgyn ffiniau enwadaeth drwy gynnwys deunydd gan unigolion o bob enwad. Cyhoeddwyd y misolyn hwn gan wasg Robert Everett ym 1843 gyda'r gweinidog yn golygu. Canolbwyntiai'r misolyn ar ddau bwnc yn unig, sef dirwest a chaethwasiaeth, a rhennid pob rhifyn yn unol â hynny. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, cyhoeddid llai o ddeunydd yn adran 'Dirwest' a chynyddai'r deunydd yn adran 'Rhyddid' yn sylweddol. O'r herwydd, ac o ystyried cynnwys beiddgar y cyfnodolyn, gellir

---

<sup>17</sup> Am ragor o wybodaeth am hanes *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, gweler Williams, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?*

<sup>18</sup> D. Davies [Dewi Emlyn] (gol.), *Cofiant y Diweddar Barch. Robert Everett, D. D. a'i briod, Steuben, Swydd Oneida, N.Y. Yn Nghyd a Detholion o'i Weithiau Llenyddol* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1879), 28-30. Am ragor o wybodaeth am *Y Cenhadwr Americanaidd* a Robert Everett, gweler Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst: Carreg Gwalch, 2007).

<sup>19</sup> Yn wahanol i'r hyn ddywedodd Maldwyn A. Jones, 'Welsh-Americans and the Anti-Slavery Movement in the United States', 119, roedd *Y Seren Orllewinol* wedi trafod caethwasiaeth – diau nid mor fynych â'r *Cenhadwr Americanaidd*, er enghraifft, ond roedd amryw ffactorau'n gyfrifol am hynny, gan gynnwys amrywiaeth barn ymysg y golygyddion ynghylch yr union ddulliau gwrth-gaethiwol y dylid eu harddel, a phroblemau ariannol y cyhoeddiad. Gweler ymhellach drafodaeth gynhwysfawr Huw Walters, 'Gwasg Gyfnodol y Bedyddwyr Cymraeg yn America: ei thwf a'i thranc', *Llên Cymru*, 32 (2009), 161-90.

awgrymu bod *Y Dyngarwr* yn enghraifft unigryw o gyfnodolyn diddymol Cymraeg. Er hyn, ni pharodd y cyhoeddiad fwy na blwyddyn; mae'n debyg oherwydd y golled ariannol. Nid oedd yn fwriad gan Everett elwa ar y fenter; yn wir, byddai'n anfon copi o bob rhifyn at holl weinidogion Cymraeg America am ddim. Yn yr un modd â nifer o gyhoeddiadau diddymol Saesneg yr oes, profodd y golled ariannol yn faen tramgwydd i barhau'r ymdrech ddyngarol.<sup>20</sup> Serch hyn, mae'r deuddeg rhifyn a gyhoeddwyd yn gyforiog o destunau'n trafod caethwasiaeth gyfoes yng nghyd-destun crefydd, ac felly'n ffynhonnell greiddiol i'r astudiaeth hon.

Cyhoeddiad arall a ddatganai nad oedd ganddo unrhyw ymlyniad crefyddol na gwleidyddol oedd *Y Drych*, papur newydd Cymry America a ymddangosodd am y tro cyntaf ym mis Ionawr 1851, ac a gyhoeddwyd yn wythnosol. Er nad oedd o anian grefyddol, byddai testunau Beiblaidd a rhethreg Gristnogol yn britho'r erthyglau newyddiadurol, y llythyrau a'r farddoniaeth, ac nid yw hynny'n syndod o gofio bod gweinidogion Anghydfurfiol America ymysg cefnogwyr mwyaf brwd y papur.<sup>21</sup>

Y cyfnodolyn olaf a grybwyllir yw *Y Traethodydd yn America*, a gyhoeddwyd gyntaf ym 1857 dan olygyddiaeth William Roberts. Yn wahanol i'r cyhoeddiadau eraill, roedd hanfod y cyfnodolyn hwn yn fwy academiaidd. Cynhwysai draethodau'n ymwneud â diwinyddiaeth, natur, hanes, ieithyddiaeth, yn ogystal â barddoniaeth. Yr oedd hefyd yn gyhoeddiad trawsatlantig, gan y cyhoeddwyd deunydd gan awduron o America ac o Gymru.

Gyda'r ffynonellau hyn yn sylfaen, archwilir y disgyrsiau crefyddol Cymraeg a geid yn America am gaethwasiaeth gyfoes, ac er mwyn gwneud hyn, cymerir testun neu thema Feiblaidd unigol fel sail ar gyfer trafodaeth pedair pennod gyntaf y thesis. Yn hyn o beth, efelychir yn llac fethodoleg monograff Allen Dwight Callahan, *The Talking Book: African Americans and the Bible*.<sup>22</sup> Wedi olrhain hanes y Beibl yn y traddodiad Affrican Americanaidd, canolbwyntia Callahan ar bedair thema Feiblaidd arwyddocaol i'r traddodiad hwnnw – y Gaethglud, yr Exodus, Ethiopia ac Emaniwel. Y Gaethglud yw'r unig thema o blith rhai Callahan a drafodir yn fanwl yn y thesis hwn.

Yn y bennod gyntaf, ystyrir dau ymadrodd a oedd yn gyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg: 'Hil Cham' a 'Hil Gomer'. Daethai'r naill, a oedd yn seiliedig ar Genesis 9:25,

---

<sup>20</sup> Sernett, *North Star Country*, 53.

<sup>21</sup> Aled Jones a Bill Jones, *Welsh Reflections: Y Drych & America 1851-2001* (Llandysul: Gomer, 2001), 5.

<sup>22</sup> Allen Dwight Callahan, *The Talking Book: African Americans and the Bible* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2006).

Ile ceir Noa'n melltithio Canaan am gyflawni anfadwaith yn ei erbyn, yn hynod boblogaidd ymysg caeth-bleidwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eu dehongliad cyfeiliornus oedd mai Cham a felltithiwyd i fod yn 'was i weision ei frodyr', a bod yr Affricaniaid cyfoes wedi etifeddu'r felltith honno i fod yn gaethion. Trafodir hyn yng nghyd-destun derbyniad y testun mewn hanes (*reception history*), gan sylwi'n arbennig ar ddylanwad canrifoedd o ddehongli'r testun mewn dull cyfeiliornus ar y cyfnod dan sylw. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y Cymry hefyd yn dueddol o gyfeirio at y caethion cyfoes fel 'hil Cham', ac felly, cyfyd hyn y cwestiwn, a oeddent hwythau o'r farn fod yr Affricaniaid wedi'u tynghedu i gaethwasiaeth? Er mwyn ceisio ateb y cwestiwn hwnnw, ystyrir yr ymadrodd a arddelai'r Cymry, a oedd hefyd â seiliau Beiblaidd, 'hil Gomer', gan ymholi beth yn union oedd y cysylltiad rhwng y ddau ymadrodd a ddynodai genhedloedd arbennig.

Yn yr ail bennod, ystyrir y modd yr ymdriniodd Cymry America â'r deddfau yn y Pumllyfr a amodai'r ffordd y dylid trin caethion. Gan fod y deddfau hynny'n arwyddo bod Duw'n goddef, os nad yn wir yn caniatáu, caethwasiaeth, astudir dehongliad y Cymry o'r deddfau hyn, gan fanylu'n arbennig ar gysyniad a oedd yn seiliedig ar Lefiticus 25, ac a ddaeth yn un o brif arwyddeiriau'r gwrth-gaethiwyd, y Jiwbili.

Trafodir cysyniad arall yn y bennod ddilynol, sef y gaethglud. Wedi olrhain yn gryno'r Gaethglud ym Mabilon, archwilir dealltwriaeth y Cymry o'r digwyddiad hwnnw yn hanes Israel, cyn trafod y modd y'i priodolid i gaethwasiaeth Unol Daleithiau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn rhan olaf y bennod, ystyrir yr ail elfen, sef 'Babilon', a thrachefn, y defnydd creadigol a wnaed ohoni.

Eir ymlaen i roi sylw i'r Testament Newydd yn y bedwaredd bennod, ac yn arbennig felly, ddysgeidiaeth Iesu. Un o brif ddadleuon y caeth-bleidwyr oedd na lefarodd Iesu air o feirniadaeth, hyd y gwyddys, yn erbyn caethwasiaeth a bod hynny, o'r herwydd, yn awgrymu ei fod yn derbyn y gyfundrefn. Yn hyn o beth, sylwir ar ddealltwriaeth y Cymry o Iesu fel esiampl y dylid ei efelychu, ei ddysgeidiaeth am gariad a chyfiawnder, a'r modd y credai amryw ohonynt fod caethwasiaeth yn gyferbyniol i'r efengyl. Yr oedd caethwasiaeth, ym marn nifer helaeth, yn 'bechod'. Gan fod 'pechod' wedi'i ddiffinio'n eglur yn y traddodiad Cristnogol, roedd cyfeirio at gaethwasiaeth yn y fath fodd yn ffordd o gyfuno holl rym moeseg Gristnogol ar unwaith a'i byddino'n erbyn caethiwed.

Mae'r bennod olaf o natur wahanol i'r gweddill. Yn hytrach na defnyddio testun neu thema Feiblaidd fel sail i'r bennod, cymerir cyfraith a basiwyd gan lywodraeth yr Unol

Daleithiau, Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850, fel maen prawf i'r drafodaeth ac ystyrir y modd yr ymatebwyd iddi ar seiliau Beiblaidd.

Bydd yr astudiaeth hon yn ceisio adeiladu ar ymchwil ysgolheigion megis Jerry Hunter, E. Wyn James a Rhiannon Heledd Williams, yn ogystal ag ysgolheictod diweddar ym maes moeseg Feiblaidd gan Hector Avalos ac Eryl W. Davies, er enghraifft.

Nod yr astudiaeth hon, felly, yw adeiladu ar yr ymchwil arloesol a wnaed yn ddiweddar ym maes llenyddiaeth Gymraeg America, gan ystyried ymateb crefyddol y mewnfudwyr Cymraeg i un o faterion mwyaf dyrys y bedwaredd ganrif ar bymtheg: caethwasiaeth.

## Pennod 1

### ‘Teulu Ham sy’n cael eu hymlid’<sup>1</sup>

#### Cysyniadau ‘Meibion Cham’ a ‘Hil Gomer’ yng ngwasg gyfnodol Gymraeg America

‘Melltigedig fyddo Canaan; gwas gweision i’w frodyr fydd’ (Gen. 9:25). Mae’r felltith neu’r broffwydoliaeth hon wedi cael ei thrin a’i thrafod yn helaeth ar hyd y canrifoedd, wedi ei chamenwi’n ‘Felltith Cham’, ac wedi esgor ar nifer o ddehongliadau cyfeiliornus. Ar gyfer y bennod hon, ystyrir un llinyn o’r traddodiad deongliadol hwnnw a gysylltodd y ‘Felltith Cham’ honedig â’r Affricaniaid. Am i Noa dyngu caethwasiaeth fel cosb, ac y canfuwyd gan rai esbonwyr, maes o law, elfennau yn y testun a gyfeiriai at groen tywyll, daeth y stori hon yn un o’r testunau mwyaf poblogaidd ymysg caeth-bleidwyr yr Unol Daleithiau yn ystod y blynyddoedd hyd at y Rhyfel Cartref.

Bydd y bennod hon yn craffu ar y testun Beiblaidd ei hun (Gen. 9:18-27) a’i dderbyniad mewn hanes cyn ystyried yn fanylach ei rôl yn ystod twf y gaethfasnach drawsatlantig ac, yn arbennig felly, ei ddylanwad yn yr Unol Daleithiau. Yn y cyswllt hwn, astudir y modd yr ymatebodd y Cymry Americanaidd i’r cysyniad a gyfreithlonai gaethiwo Affricaniaid cyfoes; yn ogystal, ystyrir eu dealltwriaeth a’u defnydd o’r ymadrodd ‘hil Cham’. Wedi gwneud hynny, trafodir cysyniad ‘hil Cham’ yng nghyd-destun yr enw a arddelid gan Gymry’r cyfnod, ‘hil Gomer’.

#### Melltith Noa

Digwydd yr hyn a gamadnabyddir fel ‘Melltith Cham’ yn Genesis 9:18-27, ac edrydd stori Noa a’i deulu’n ymsefydlu ac yn ailboblogi’r ddaear wedi’r Dilyw. Ceir Noa’n plannu’r winwydden gyntaf, yn meddwi ar ei ffrwyth, ac yn syrthio i gysgu’n noeth yn ei babell. Daw Cham, un o feibion Noa,<sup>2</sup> ar draws ei dad, gweld noethni’r patriarch, a’i adael heb ei

---

<sup>1</sup> Robert Maurice, ‘Anerchiad i’r Gymdeithas Wrthgaethiwawl’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1842), 147.

<sup>2</sup> Yn Gen. 9:18-19 (sy’n debyg i’r patrwm achyddol yn Gen. 5:32; 6:10; 7:13; 10:1; 1 Cron. 14), awgryma trefn yr enwau mai Cham oedd ail fab Noa, ond yn Gen. 9:24, pan fo Noa’n deffro ac yn dod i wybod yr hyn ‘yr oedd ei fab ieuengaf wedi ei wneud iddo’, ymddengys mai Cham a olygir. Gweler J. Ernest Shufelt, ‘Noah’s Curse and Blessing. Gen. 9:18-27’, *Concordia Theological Monthly*, 17, rhif 10 (1946), 737; Nahum Sarna, ‘The Anticipatory Use of Information as a Literary Feature of the Genesis Narratives’, yn Richard Elliott Friedman (gol.), *The Creation of Sacred*

orchuddio; gweithred a ddynodai amarch tuag at riant.<sup>3</sup> Yn dilyn hynny, â Cham at ei frodyr ac adrodd wrthynt am gyflwr Noa. Mae Sem a Jaffeth yn ymateb mewn ffordd dra gwahanol i'w brawd, drwy gymryd mantell, cerdded 'yn wysg eu cefnau' i'r babel, 'rhag gweld noethni eu tad' (Gen. 9:23), a'i orchuddio; gweithred a arwyddai barch ac anrhydedd tuag at riant yn ei wendid. Ar ôl i Noa ddeffro a deall yr hyn 'yr oedd ei fab ieuengaf wedi ei wneud iddo' (Gen. 9:24), y mae'n tyngu melltith *nid* ar Cham, ond ar Canaan, mab Cham, i fod yn 'was i weision ei frodyr' (Gen. 9:25). Mae'r ymadrodd עבד עבדים yn cryfhau ergyd y felltith drwy gyfleu mai gwas o'r radd isaf a broffwydir gan Noa, hynny yw, caethwas. Wedi'r melltithio, bendithir Sem a Jaffeth am i'r ddau ddangos gwir barch tuag at eu tad, yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig gan y traddodiad Hebreig.

### Derbyniad Genesis 9:18-27 mewn hanes

Gan fod y stori mor gryno, yn amwys ac yn anghyson, cyfyd hyn nifer o gwestiynau sydd wedi peri cryn drafodaeth ymysg ysgolheigion, ac sy'n parhau i wneud: megis beth oedd union natur yr anfadwaith a wnaed yn erbyn Noa; ai gweld tad noeth wedi meddwi ynteu rywbeth mwy sinistr?<sup>4</sup> Os mai Cham a droseddodd, pam mai Canaan sy'n cael ei gosbi?<sup>5</sup> A

---

*Literature: Composition and Redaction of the Biblical Text* (California a London: University of California Press, 1981), 77.

<sup>3</sup> Cain Hope Felder, 'Race, Racism, and the Biblical Narratives', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 1991), 131.

<sup>4</sup> Awgrymodd rhai o'r rabiniaid cynnar bod Cham/Canaan wedi disbaddu Noa. Gweler Jack P. Lewis, *A Study of Interpretation of Noah and the Flood in Jewish and Christian Literature* (Leiden: E. J. Brill, 1978), 40; James L. Kugel, *The Bible as it Was* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1997), 116. Yn wir, mae i'r syniad fod Cham/Canaan wedi disbaddu Noa'n ymdebygu i hanesion diwylliannau eraill, megis mytholeg Groeg, lle ceir Cronos yn disbaddu Wranws (gweler John M. Robertson, *Christianity and Mythology* (London: Watts & Co., 1910; ail argraffiad), 28), ac un o chwedlau'r Hethiaid, pan fu i Cumabi, mab anystywallt y prif dduw, Anu, ddisbaddu ei dad drwy ei frathu ac yna'i ddilorni nes peri i Anu ei felltithio (Robert Graves a Raphael Patai, *Hebrew Myths: The Book of Genesis* (Manchester: Carcanet, 2005; argraffiad newydd), 120-5). Ystyria rhai fod 'gweld corff noeth' yn ffordd arall o awgrymu gweithred rywiol (cymh. â Lef. 20:17). Cynigwyd gan rai fod Cham/Canaan wedi cam-drin Noa'n rhywiol. Ceir mewn tri chyfieithiad cynnar o'r Hen Destament i'r Roeg (Aquila, Symmachus, a Theodotion) ddisodli'r gair εἶδεν, 'gweld' (Gen. 9:22) â gair a ddefnyddiai Paul i ddynodi gweithred wrywgydiol (e.e. Rhuf. 1:27), ἀσχημοσύνη, 'ymddygiad cywilyddus'. Gweler James L. Kugel, *Traditions of the Bible: A Guide to the Bible as it was at the start of the Common Era* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1998), 222; Albert I. Baumgarten, 'Myth and Midrash: Genesis 9:20-29', yn Jacob Neusner (gol.), *Christianity, Judaism and Other Greco-Roman Cults: Part 3, Judaism Before 70* (Leiden: E. J. Brill, 1975), 65-6. Ceir dehongliad hynod ddiddorol gan Ilona N. Rashkow, 'Daddy-Dearest and the "Invisible Spirit of Wine"', yn Athalya Brenner (gol.), *Genesis: The Feminist Companion to the Bible* (Sheffield: Sheffield University Press, 1998), 98. Mewn astudiaeth sy'n cyfuno damcaniaethau Freud (fod gan

ddylid cymryd mai'r un person yw Cham a Canaan? Pwy yn union sy'n cael eu tyngedu i gyflwr o ddarostyngiad?<sup>6</sup>

Esgorodd yr anghysonderau a'r amwysedd hyn ar bob math o ddehongliadau cyfeiliornus, fel y gwelir maes o law.

Y farn fwyaf cyffredin, ond nid unfrydol, ymysg ysgolheigion cyfoes yw mai chwedl etiolegol yw hon, a'i diben oedd esbonio tarddiad dynoliaeth yn ei holl amrywiaeth, gan mai o dri mab Noa, dywedid, yr ailboblogwyd y Ddaear.<sup>7</sup> Credir gan rai, yn ogystal, fod i'r stori

---

bawb chwantau cynhenid a ffantasiau sy'n gyffredinol annerbyniol gan gymdeithas, a bod celfyddyd yn fodd o'u mynegi) ag ysgolheictod Beiblaidd, awgryma Rashkow mai Noa a bechodd yn y 'darn hwn o gelfyddyd', drwy geisio cyfathrachu'n llosgachol â'i fab. Am iddo godi cywilydd arno'i hun yn y fath fodd, troes Noa'i euogrwydd tu chwith ac anelu'i ddieter at Cham drwy felltithio Canaan. Ceir ymdriniaeth nid annhebyg gan Karen Armstrong, *In The Beginning: A New Interpretation of Genesis* (London: Vintage Books, 2011; ail argraffiad). Awgrym arall yw bod Cham wedi cyfathrachu'n rhywiol gyda gwraig Noa, neu gyda'i wraig ei hun pan oeddent ar yr arch er gwaethaf y gorchymyn iddynt fod yn ddiwair. Gweler, ymhellach, Rashkow, 'Daddy-Dearest', 91; Robert A. Gagnon, *The Bible and Homosexual Practice: Texts and Hermeneutics* (Nashville, TN: Abingdon Press, 2001), 123-54; Devora Steinmetz, 'Vineyard, Farm, and Garden: The Drunkenness of Noah in the Context of Primeval History', *Journal of Biblical Literature*, 113, rhif 2 (1994), 198.

<sup>5</sup> Cyniga Frederick W. Bassett, 'Noah's Nakedness and the Curse of Canaan, a Case of Incest?', *Vetus Testamentum*, 21, rhif 2 (April 1972), 232-7, eglurhad am hyn drwy ddweud fod y gair Hebraeg am 'fab', בן, hefyd yn gallu golygu 'ŵyr'. Noa oedd y tad, ond ystyrid ei feibion a phob ŵyr yn בן (lluosog: בנים) iddo – eu bod oll yn perthyn i'r un grŵp, yn 'feibion Noa'. O'r herwydd, ac yn unol â theithi Hebraeg, gallai Canaan, mab ieuengaf Cham (cf. Gen. 10:6), a gyflwynir yn gyntaf yn Gen. 9:18, yntau gael ei alw'n 'fab' i Noa; yn wir, yn fab 'ieuengaf'. Yn ôl rhesymeg Bassett, felly, Canaan a wnaeth yr anfadwaith ac a haeddai gael ei felltithio. Ymysg Dogfennau'r Môr Marw a ganfuwyd yn Qumran, ceir esboniad ar lyfr Genesis a ddywed na allai Cham gael ei felltithio gan Noa am iddo eisoes fod wedi'i fendithio gan Dduw (cf. Gen. 9:1), a dyna'r rheswm pam y melltithiwyd Canaan yn hytrach na'i dad. Gweler David M. Goldenberg, 'What did Ham do to Noah?', yn Mauro Perani (gol.), *The Words of a wise man's mouth are gracious (Qoh. 10, 12)* (Berlin: Walter de Gruyter, 2005), 258. Difyr yw nodi i Gerhard von Rad, *Genesis: A Commentary* (cyfieithiad John H. Marks; Kent: W. & J. Mackay & Co. Ltd, 1963), 137-8, gasglu mai adolygiad i'r testun gwreiddiol a berodd i feibion Noa gael eu rhestru fel 'Sem, Cham, a Jaffeth'. Meddai von Rad, 'the actual narrative is talking, not about this *ecumenical* scheme of nations, but about a much older and more limited *Palestinian* one: Shem, Japheth, and Canaan. A redactor attempted to remove the inconsistency by making Ham, and not Canaan, appear in the story. [...] But this correction only brought the narrative into external agreement with that *ecumenical* scheme; its inner orientation toward Canaan and the Palestinian sphere remained (cf. v. 24, "his youngest son") [...] the insertion of Ham is obviously supposed to bring our story into harmony with the scheme of ch. 10.' Yn ôl von Rad, felly, Canaan oedd yr un a gosbwyd ac ef oedd y troseddwr.

<sup>6</sup> Cred C. Westermann, *Genesis 1-11: A Commentary* (cyfieithiad John J. Scullion; Minneapolis, MN: Augsburg, 1985), 484, er enghraifft, fod Cham a'i holl ddisgynyddion drwy Cus, Misraim a Put, yn ogystal â Canaan, yn cael eu cynnwys yn y felltith. Dadleua, yn debyg i Bassett yn nhroednodyn 5 uchod, y byddai gwrandawyr cynnar y stori wedi ystyried disgynyddion Cham yn gytras â disgynyddion Canaan, ac felly, fod yr enwau unigol yn cynrychioli'r un gangen o feibion Noa: 'The Yahwist has preserved, together with the story of Ham's outrage, a curse over Canaan which could be presumed because of the genealogical proximity of Canaan to Ham. Those who heard the story knew the descendants of Ham as identical with those of Canaan.'

<sup>7</sup> Westermann, *Genesis 1-11*, 486; Gene Rice, 'The Curse that Never Was (Genesis 9:18-27)', *Journal of Religious Thought*, 29, rhif 1 (1972), 13.

hon arwyddocâd gwleidyddol-ddiwinyddol a'i bod yn perthyn i gyfnod yr Hebreaid yn meddiannu Gwlad yr Addewid ac yn concro'r Canaaneaid.<sup>8</sup> Yn ôl melltith Noa, Canaan a dynghedwyd i gael ei ddarostwng; felly, ar un wedd, nod y stori oedd difriô'r Canaaneaid (disgynyddion Cham) a chyfiawnhau awdurdod yr Israeliaid (disgynyddion Sem) a'r Philistiaid (disgynyddion Jaffeth) drostynt.<sup>9</sup>

O ran y testun presennol, y darlleniad symlaf – ac efallai'r mwyaf rhesymegol – yw bod Cham wedi pechu am godi cywilydd ar ei dad drwy sôn wrth y brodyr am ei feddwod. Amharchu rhiant yw'r 'drosedd' a gyflawnir a gellid awgrymu mai stori i atgoffa am ddyletswydd plant tuag at eu rhieni ydyw (cf. Deut. 27:16).<sup>10</sup> Roedd hon yn ddyletswydd ddisgwyliedig ymysg cymdeithasau'r hen Ddwyrain Agos, fel y gwelir mewn amryw destunau, gan mai'r uned deuluol oedd hanfod y gymdeithas ehangach.<sup>11</sup> Cosbwyd Canaan am bechod ei dad, Cham, am iddo yntau amharchu ei dad, Noa.<sup>12</sup>

Serch hyn, gan fod y testun yn frith o anghysonderau, datblygodd traddodiad deongliadol a gafodd effaith bellgyrhaeddol, yn arbennig felly ar yr Affricaniaid.

Mae hanes dehongliadau'r testun hwn eisoes wedi'i drafod mewn astudiaethau cyfoethog, ond da o beth fuasai crynhoi rhai o brif elfennau'r traddodiad hwnnw gan mai'r

---

<sup>8</sup> K. Renato Lings, *Love Lost in Translation: Homosexuality and the Bible* (Bloomington, IN: Trafford Publishing, 2013), 150. Dylid nodi, fodd bynnag, fod mwyafrif ysgolheigion cyfoes o'r farn nad yw digwyddiadau 'mynediad' a 'choncwest' Canaan fel a geir yn llyfr Josua mewn difrif yn rhan o hanes Israel, ac nad yw hanes y genedl yn dechrau'n iawn tan oddeutu cyfnod brenhiniaeth Saul.

<sup>9</sup> Robert Alter, *The Five Books of Moses* (New York: W. W. Norton & Company, 2008), 52-3; Frederick W. Bassett, 'Noah's Nakedness and the Curse of Canaan, a Case of Incest?', 232. Mae J. Hoftijzer o'r un farn, ond dadleua fod y stori'n cyfeirio hefyd at ddarostyngiad yr Israeliaid i bobloedd eraill. Gweler Hoftijzer, 'Some Remarks to the Tale of Noah's Drunkenness', yn B. Gemser *et. al.*, *Studies on the Book of Genesis* (Leiden: E. J. Brill, 1958), 25-6. Awgryma Rice, 'The Curse that Never Was', fod y testun hwn yn cynnwys dau draddodiad cyfochrog ond gwahanol, y naill yn draddodiad byd-eang (Gen. 9:18-19; cf. 5:32; 6:10; 7:13; 10:1; 1 Cron. 1:4) a'r llall yn gyfyngedig ac yn fwy plwyfol i Balesteina (Gen. 9:20-27; gweler hefyd Gen. 10:21).

<sup>10</sup> Felder, 'Race, Racism, and the Biblical Narratives', 131; H. Hirsch Cohen, *The Drunkenness of Noah* (Tuscaloosa, AL: University of Alabama Press, 1974), 14-6; Allen P. Ross, 'Studies in the Book of Genesis Part 1: "The Curse of Canaan"', *Bibliotheca Sacra*, 137 (1980), 223-40; Gordon P. Wenham, *Word Biblical Commentary: Genesis 1-15* (Waco, TX: Word Books, 1987), 198-201; Umberto Cassuto, *A Commentary on the Book of Genesis* (cyfieithiad Israel Abrahams; Jerusalem: Magnes Press, 1964), cyfrol 2, 149-54; Westermann, *Genesis 1-11*, 484-8.

<sup>11</sup> Er enghraifft, cyfeirir yn chwedl Aqhat at berthynas tad a mab a'r cyfrifoldeb ar i bob plentyn ufuddhau, parchu, ac anrhydeddu eu rhieni. Yn y chwedl honno, cyfeirir at sefyllfa nid annhebyg i Cham a Noa gyda thad dan ddylanwad alcohol, ond yn yr achos hwn, dengys y mab y gofal disgwyliedig tuag at ei dad: 'So shall there be a son in his house, / A scion in the midst of his palace: / [...] Who takes him by the hand when he's drunk, / Carries him when he's sated with wine.' J. B. Pritchard (gol.), 'Aqht A. i.24-5 & 32-3', *Ancient Near Eastern Texts: Relating to the Old Testament* (Princeton: Princeton University Press, 1955; ail argraffiad), 50.

<sup>12</sup> Mae'r cysyniad o gosbi plant am bechod eu tadau'n un a adleisir mewn nifer o fannau eraill yn y Pumillyfr (e.e. Ex. 34:6-7; Num. 14:18; Deut. 5:9).



cysyniad hwn, yn anad yr un cysyniad arall, meddai Stephen R. Haynes, a ddefnyddid i gyfiawnhau caethiwo miloedd o Affricaniaid.<sup>13</sup>

[T]he Bible is a text which treats of issues apparently pertinent to race and ethnicity, but in a manner oblivious of the fact of racial difference. It describes, for example, the peopling of the world, but ignores the racial identity of the detailed lineage it describes which originated with Noah's sons. It is this very incongruity between the Bible's significance for an understanding of ethnicity and its silence on matters of race that has tempted theologians and other readers of scripture, including anthropologists, race scientists and ideologues of all sorts, to import racial meanings and categories in the Bible.<sup>14</sup>

Fel y gwelir isod, ceisiodd esbonwyr egluro'r gwahaniaethau rhwng cenedloedd, a chanfod yn y testun Beiblaidd gyfeiriadau at wahanol hiliau a lliwiau croen.

Cafwyd dehongliadau cynnar gan rabiniaid a Thadau Eglwysig a gysylltai Cham â chroen tywyll.<sup>15</sup> Yn y Midrash, er enghraifft, awgryma un rabi fod Cham wedi llesteirio Noa rhag cenedlu pedwerydd mab, ac, o'r herwydd, melltithiwyd pedwerydd mab Cham. Canlyniad hyn, yn ôl rabi arall, oedd i ddisgynyddion Cham fod yn 'hyll ac yn dywyll eu crwyn'. Ychwanegodd trydydd rabi mai oherwydd i Cham fynd yn groes i'r gorchymyn a chyfathrachu'n rhywiol pan oedd yn yr arch y cafodd ei droi'n ddu ei liw.<sup>16</sup> Ymddengys motiff camymddwyn yn yr arch a duo lliw croen hefyd yn y Talmwd, wrth i'r ci, y frân a Cham gael eu cosbi mewn ffyrdd gwahanol.<sup>17</sup> Yn fuan iawn, felly, troes mab Noa i fod yn blentyn y fall yng ngolwg amryw.

---

<sup>13</sup> Stephen R. Haynes, *Noah's Curse: The Biblical Justification of American Slavery* (New York: Oxford University Press, 2002). Am yr astudiaethau diweddar ynglŷn â hanes derbynriad Melltith Cham, ynghyd â Haynes, *Noah's Curse*, gweler Thomas Virgil Peterson, *Ham and Japheth: The Mythic World of Whites in the Antebellum South* (Metuchen, NJ a London: The Scarecrow Press, Inc. and The American Theological Library Association, 1978); David M. Goldenberg, *The Curse of Ham: Race and Slavery in Early Judaism, Christianity, and Islam* (Princeton, NJ ac Oxford: Oxford University Press, 2003); David M. Whitford, *The Curse of Ham in the Early Modern Era: The Bible and the Justification for Slavery* (Burlington, VT: Ashgate, 2009); Michael Taylor, 'British Proslavery Arguments and the Bible, 1823-1833', *Slavery and Abolition*, 37, rhif 1 (2016), 139-58.

<sup>14</sup> Colin Kidd, *The Forging of Races: Race and Scripture in the Protestant World, 1600-2000* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006), 20.

<sup>15</sup> Gweler, er enghraifft, David H. Aaron, 'Early Rabbinic Exegesis on Noah's Son Ham and the So-Called "Hamitic Myth"', *Journal of the American Academy of Religion*, 63, rhif 4, (Winter 1995), 721-59.

<sup>16</sup> H. Freedman a Maurice Simon (goln), *Midrash Rabbah, Genesis* (London: The Soncino Press, 1939), pen. 36; 7-8, 239.

<sup>17</sup> 'Our Rabbis taught: "Three copulated in the ark, and they were all punished—the dog, the raven, and Ham. The dog was doomed to be tied, the raven expectorates [his seed into his mate's mouth], and Ham was smitten in his skin."' I. Epstein (gol.) *Hebrew-English Edition of the Babylonian*

Datganodd rhai o'r Tadau Eglwysig ddehongliad tebyg. Er enghraifft, dywed Origen (c. 184-254) y byddai disgynyddion Cham, 'du eu lliw', yn sicr o adlewyrchu eu cyn-dad drwy ildio i gaethwasiaeth drygioni. Noda Awstin (354-430) mai anfadwaith Cham oedd tarddiad caethwasiaeth. Daliodd Emrys o Filan (339-397) fod melltith Noa wedi'i phriodoli i ddisgynyddion tywyllaf Cham yn unig, a chredid bod Effrem o Nisibis (m. 373) wedi aralleirio Noa, 'melltigedig fyddo Canaan, a boed i Dduw dduo'i wyneb'.<sup>18</sup>

Roedd newid y testun, fel y gwnaeth Effrem o Nisibis, yn weddol gyffredin yn y canrifoedd cynnar. Yn wir, ceisiwyd cysoni'r stori drwy roddi 'melltigedig fyddo Cham' mewn rhai llawysgrifau Groeg a Lladin o'r Beibl, yn ogystal â rhai trafodaethau eglwysig cynnar a thestunau Arabeg.<sup>19</sup> Gwelwyd hyn hefyd mewn nifer o weithiau diweddarach. Ceir mewn cerdd gan Cædmon, y bardd Eingl-Sacsonaidd o'r seithfed ganrif, er enghraifft, fynegi mai Cham a felltithiwyd. Felly hefyd yn fersiwn y nawfed ganrif o'r *Historia Brittonium*, lle sonnir am 'Cam', y mab a felltithiwyd am iddo sarhau ei dad; ac mewn darn o lenyddiaeth epig o Ethiopia, *Kebrā Nagast*, olrheinir stori Cham yn y Beibl a nodi mai ef a felltithiwyd â chaethwasiaeth.<sup>20</sup>

Yn ystod y canrifoedd canlynol, parhawyd i arddel y gred mai mab Noa a felltithiwyd a bod y lliw du'n gysylltiedig â hynny, gan mai dyna oedd ystyr yr enw 'Cham'. Mewn astudiaethau etymolegol, daethpwyd i'r casgliad fod yr enw 'Cham', חם, yn ymdebygu i'r gwreiddyn חמום, a olygai 'poeth', neu חום, 'du', 'tywyll'. Mae ysgolheigion diweddar wedi dangos mai camddehongliad oedd hwn mewn gwirionedd. Nid ydynt yn gwadu nad oedd yr awduron Beiblaidd yn ymwybodol o wahanol liwiau croen a nodweddion hiliol, ond pwysleisiant nad oedd bydolwg yr awduron hynny'n debyg i'r dehongliadau diweddarach mewn hanes, yn enwedig y rhai a oedd yn drwm dan ideolegau trefedigaethol a rhagfarnau hiliol, megis pan oedd gweithgareddau'r trefedigaethwyr Ewropeaidd yn eu hanterth.<sup>21</sup> Bryd hynny, defnyddid y dehongliad etymolegol uchod fel tystiolaeth bellach fod cysylltiad rhwng

---

*Talmud* (cyfieithiad Jacob Schachter ac H. Freedman; London: The Soncino Press, 1969), *Sanhedrin* 108b.

<sup>18</sup> Gweler Haynes, *Noah's Curse*, 24-30 am drafodaeth bellach.

<sup>19</sup> Rhestrir amryw fersiynau o Genesis 9:25 sy'n cynnwys yr amrywiad 'Cham' yn lle 'Canaan', a rhai astudiaethau am hynny, yn Goldenberg, *The Curse of Ham*, 340 nodyn 1.

<sup>20</sup> '9. Concerning the Covenant of Noah', *Kebrā Nagast*, yn E. A. Wallis Budge (gol.), *The Queen Sheba and Her Only Son Menyelek* (Cambridge, ON: In Parenthesis Publications, 2000), 6, 126. Difyr yw nodi fod yr Ethiopiaid, yn ôl *Kebrā Nagast*, yn eu hystyried eu hunain yn ddisgynyddion Sem ac mai'r bobl o'u hamgylch oedd disgynyddion Cham. Gweler, er enghraifft, Richard Pankhurst, 'The History of Bareya, Sanqella and Other Ethiopian Slaves from the Borderlands of the Sudan', *Sudan Notes and Records*, 58 (1997), 2, 4-5, 30-2; E. A. Wallis Budge, *A History of Ethiopia* (London: Methuen, 1928), 190.

<sup>21</sup> Felder, 'Race, Racism, and the Biblical Narratives', 127.

y cyflwr o gaethwasiaeth a'r lliw du.<sup>22</sup> Credid hefyd, gan fod cysylltiad rhwng yr enw 'Cham' a'r ansoddair 'poeth', fod modd adnabod disgynyddion cyfoes mab Noa fel y bobl a drigai mewn gwledydd poeth ac a oedd â chroen tywyll. Yn ôl Genesis 10:1-6, lle rhestrir achau meibion Noa, dywedir bod Misraim (Yr Aifft), Cus (Ethiopia), Put a Canaan ymysg disgynyddion Cham, sef pobl y mae eu gwledydd wedi'u lleoli ar gyfandir Affrica. Buan yr ymresymwyd gyda hynny mai'r Affricaniaid yr effeithwyd arnynt gan broffwydoliaeth Noa.<sup>23</sup>

Gwelwyd hyn yn arbennig yn ystod twf y gaethfasnach Affricanaidd dan law'r Arabiaid Mwslemaidd ac ymhellach gan yr Ewropeaid Cristnogol. Roedd yn rhaid i'r ddwy garfan gyfiawnhau caethiwo Affricaniaid duon, a gwnaed hynny drwy honni eu bod yn ddisgynyddion i Cham, ac felly'n etifeddion y felltith; roeddent i'w darostwng i fyw dan iau eraill.<sup>24</sup>

Hyd yn oed heb gynseiliau hiliol, dengys testun Genesis 9 y cysylltiad rhwng caethwasiaeth a chosb. Er nad oes union gysylltiad rhwng 'Cham' a 'dŵch' yn y Beibl, gallai'r caeth-bleidwyr gasglu fod Duw wedi caniatáu caethiwo grŵp arbennig o bobl am gamweddau eu tad. Nid oedd y syniad o *imago Dei* wedi rhwystro neb rhag caethiwo pobloedd eraill yn y Beibl nac ychwaith mewn hanes. Dyna'n wir, yng ngolwg amryw, a roddodd sêl bendith yr Ysgrythur ar weithgareddau'r caeth-fasnachwyr.<sup>25</sup>

---

<sup>22</sup> Gweler crynodeb cynhwysfawr a chyfeiriadau at drafodaethau eraill yn Goldenberg, *The Curse of Ham*, 144-56.

<sup>23</sup> Enghraifft o ysgolhaig cyfoes sy'n parhau i arddel y syniad fod cysylltiad rhwng yr enw Cham a'r ansoddeiriau 'poeth' a 'thywyll' yw Charles B. Copher. Deil hyn wrth gyfeirio'n arbennig at restr achau meibion Noa, yn hytrach nag at destun Gen. 9. Meddai: 'Although the attribution of the name Ham to one of Noah's sons as indicative of a black color is inconsistent with his having been turned black, and although the term is translated "warm/hot," it appears that it has connotations of blackness in the biblical text, including the Table of Nations. In the table, the Hamites are southerners not only in Africa but also in Asia. Moreover, there would seem to have been some historical reality underlying the locations of a land of Ham in Canaan; the designations of Egypt as the tents and land of Ham; and the rabbinical attribution of black color to Ham.' Copher, 'The Black Presence in the Old Testament', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we Trod*, 151-2.

<sup>24</sup> John Coffey, *Exodus and Liberation: Deliverance Politics from John Calvin to Martin Luther King Jr.* (New York: Oxford University Press, 2014), 216. Deil rhai ysgolheigion fod dehongliad hiliol Gen. 9:18-27 i'w gael yn Ewrop yn yr unfed ganrif ar bymtheg neu'n fuan yn yr ail ganrif ar bymtheg, e.e., Winthrop Jordan, *White Over Black: American Attitudes toward the Negro* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 1968), 15. Priodola Gene Rice darddiad Ewropeaidd y Felltith i gyhoeddiad J. L. Hannemann, *Curiosum scrutinium nigridinis filiorum Cahm* (1677); gweler, 'The Curse that Never Was (Genesis 9:18-27)', 27, nodyn 117. Yn fwy dadleuol, olrheindir y tarddiad gan Ivan Hannaford i'r athronydd Iddewig o'r ddeuddegfed ganrif, Moses Maimonides. Gweler *Race: The History of an Idea in the West* (Baltimore, MD: John Hopkins University Press, 1996), 112.

<sup>25</sup> Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011), 70.

Nodwedd ddiddorol yn ystod yr Oesoedd Canol ac wedi hynny oedd y modd y dygid carcharorion rhyfel a'u darostwng i gaethwasiaeth. Gwelwyd hyn yn arbennig mewn 'rhyfeloedd sanctaidd' rhwng Cristnogion a Mwslemiaid. Daeth dilynwyr y ddwy grefydd i gredu y dylid cenhadu ymysg y sawl nad oeddent yn rhannu'r un gred, ac mai un ffordd o wneud hynny oedd drwy eu caethiwo. Gan fod y Cristnogion a'r Mwslemiaid yn ystyried ei gilydd yn baganiaid, cafodd llawer o ddilynwyr y ddwy grefydd eu caethiwo. Buan y cymathwyd y math hwn o 'genhadu' i'r bobl dduon yr ystyrid eu bod yn ddigrefydd.<sup>26</sup>

Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, fel y noda David Whitford, roedd gan y Felltith dair elfen nodweddiadol: fod croen du'n ganlyniad i felltith a bod y lliw hwnnw'n arwyddo tynged gaethiwus; fod yr Affricaniaid yn ymgorffori'r anian felltigidig honno drwy'u gorhoffter o ryw; a bod yr Affricaniaid yn baganiaid anwaraidd a fuasai ar eu hennill o fod wedi'u caethiwo a'u cyflwyno i'r efengyl dda. Sefydlodd hyn ddelwedd yr 'Affrican paganaidd' y dylid ei wareiddio, ac roedd hyn o fudd i'r trefedigaethwyr Ewropeaidd wrth iddynt grwydro gwledydd, rheibio cymunedau a chaethiwo brodorion.<sup>27</sup> Cynigiodd y fersiwn hon o Felltith Cham, felly, gyfiawnhad ideolegol dros eu gweithredoedd.

Un o'r problemau mwyaf a wynebai diwinyddion oedd bodolaeth pechod ar ôl y Dilyw, a'r ateb a geid yn fynych oedd mai Cham a ailgyflwynodd pechod i'r byd.<sup>28</sup> Nid yw hil na lliw croen yn ymddangos yn Genesis 9 ond, fel y noda Whitford, roedd cysylltu caethwasanaeth â phechod yn arwyddocaol yn y Cyfnod Modern Cynnar, yn enwedig yn America'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ei fod yn gwneud y caethwas ei hun yn euog, yn hytrach na'r meistr.<sup>29</sup>

Buan iawn, felly, y newidiwyd y math o gaethwasiaeth a fodolai. Ffiwdaliaeth, bellach, oedd yn nodweddu'r gaethfasnach, a'r cyfiawnhad dros gaethiwo'r brodorion wedi newid o resymau crefyddol (bod angen cenhadu'r efengyl i'r paganiaid) i resymau hiliol (mai disgynyddion melltigedig Cham oedd yr Affricaniaid ac y gellid manteisio arnynt am lafur rhad). Roedd i hyn oblygiadau sylweddol, sef twf a ffyniant y fasnach drawsatlantig mewn

---

<sup>26</sup> L. Richard Bradley, 'The Curse of Canaan and the American Negro', *Concordia Theological Monthly*, 42 (1971), 105-6.

<sup>27</sup> David Whitford, 'A Calvinist Heritage to the "Curse of Ham": Assessing the Accuracy of a Claim about Racial Subordination', *Church History and Religious Culture*, 90, rhif 1 (2010), 27.

<sup>28</sup> Roedd y syniad hwn i'w ganfod yn gynnar iawn, er enghraifft, yng ngyrfa'r athronydd Iddewig o'r ganrif gyntaf OC, Philo o Alecsandria. Credai fod meibion Noa yn cynrychioli'r da, y drwg a'r difater, ac mai Cham oedd yr ieuengaf a'r mwyaf anystywallt o'r tri. Dywedodd fod Cham yn coleddu drygioni ond mai Canaan a fyddai'n gweithredu'r drwg. Roedd y tad a'r mab, felly, yn cynrychioli 'anfadrwydd'. Gweler, Haynes, *Noah's Curse*, 26.

<sup>29</sup> Whitford, *The Curse of Ham in the Early Modern Period*, 175.

caethion.<sup>30</sup> Wrth i lwybrau'r fasnach ledaenu drwy Ewrop ac i America, lledaenodd y Felltith hefyd a dioddefodd nifer yn ei sgil. Yn wir, fel y dywedodd y diddymwr enwog, Theodore Weld ym 1837, 'This prophecy of Noah is the *vade mecum* of slaveholders, and they never venture abroad without it; it is a pocket-piece for sudden occasion.'<sup>31</sup> Cafwyd nifer o ysgrifau a phregethau'n dadlau yn erbyn y dehongliad hwn o Felltith Cham ond, serch hynny, daeth y Felltith yn un o fynegbyst y ddadl hiliol o blaid caethiwo Affricaniaid.<sup>32</sup>

## Melltith Cham yn America

Mae Eugene D. Genovese wedi bwrw amheuaeth ynghylch gwir arwyddocâd a dylanwad y cysyniad hwn, gan iddo gredu bod y dadleuon 'gwyddonol' newydd a ddefnyddid i gyfiawnhau caethiwo'r Affricaniaid wedi prysur ddisodli'r rhai ar seiliau Beiblaidd:

Before the [Civil] War the [Southern proslavery] divines had not rested their case on race. They had explicitly declared slavery scripturally sanctioned and ordained of God regardless of race. True, many divines did invoke the Noahic curse and the supposed black descent from Ham in an ideology that took deep root among the people, but Thornwell and Robert L. Dabney, among other prominent divines regarded it with suspicion since neither the Bible nor science demonstrated that the blacks descended from Ham.<sup>33</sup>

Er i Genovese dybio fod dadleuon gwyddonol am hiliau dynoliaeth wedi tyfu'n fwy dylanwadol, y mae nifer o ysgolheigion, megis Haynes a Thomas V. Peterson, wedi dadlau i'r cysyniad Beiblaidd hwnnw barhau'n boblogaidd yn Unol Daleithiau'r bedwaredd ganrif ar

---

<sup>30</sup> Fay Botham, *Almighty God Created the Races: Christianity, Interracial Marriage, and American Law* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina, 2009), 96.

<sup>31</sup> Theodore D. Weld, *The Bible Against Slavery. An Inquiry into the Patriarchal and Mosaic Systems on the subject of Human Rights* (New York: The American Anti-Slavery Society, 1838; pedwerydd argraffiad), 66.

<sup>32</sup> Er enghraifft, mewn ymateb i ysgrif gaeth-bleidiol o eiddo John Saffin, ceir trafodaeth gan Samuel Sewall yn *The Selling of Joseph* (Boston, MA: Bartholomew Green and John Allen, 1700), am y felltith gan gasglu, 'it is possible that by cursory reading, this Text may have been mistaken. For *Canaan* is the Person Cursed three times over, without the mentioning of *Cham*. [...] this Prophecie [*sic.*] was accomplished in the Extirpation of the *Canaanites*, and in the Servitude of the *Gibeonites*, *Vide Pareum*. Whereas the Blackmores are not descended of *Canaan*, but of *Cush*. Psal. 68. 31. *Princes shall come out of Egypt [Mizraim] Ethiopia [Cush] shall soon stretch her hands unto God*. Under which Names, all *Africa* may be comprehended; and the Promised Conversion ought to be prayed for' (t. 2). Pwyslais yn y gwreiddiol. Gweler ymhellach, Louis Ruchames (gol.), *Racial Thought in America, vol. 1, From the Puritans to Abraham Lincoln* (Boston, MA: University of Massachusetts Press, 1969), 47-58.

<sup>33</sup> Eugene D. Genovese, *A Consuming Faith: The Fall of the Confederacy in the Mind of the White Christian South* (Athens, GA: University of Georgia Press, 1998), 81.

bymtheg.<sup>34</sup> Yn wir, pan ystyrir nifer y pregethau, erthyglau newyddiadurol a phamffledi a gyhoeddwyd yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a oedd yn trafod caethwasiaeth gyfoes ac a grybwyllai Melltith Cham, gwelir nad oedd ei rôl wedi edwino. Tystiwyd i hyn gan Alexander Crummell, dyn a anwyd i rieni a arferai fod yn gaethion yn America, mewn erthygl arwyddocaol ganddo. Dywed fod Melltith Cham i'w gweld:

in books written by learned men; and it is repeated in lectures, speeches, sermons, and common conversation. So strong and tenacious is the hold which it has taken upon the mind of Christendom, that it seems almost impossible to uproot it. Indeed, it is an almost forgone conclusion, that the Negro race is an accursed race, weighed down, even to the present, beneath the burden of an ancestral malediction.<sup>35</sup>

Amlygwyd hyn gan nifer o unigolion dylanwadol yn yr Unol Daleithiau, yn arbennig felly, yng ngyrfa Josiah Priest, y gweinidog Presbyteriaidd ac un o hoelion wyth y diwinyddion caeth-bleidiol. Yn ei *Bible Defense of Slavery*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym 1843 dan y teitl, *Slavery, as it relates to the Negro or African Race*, datgan Priest fod yr Affricaniaid wedi'u rhagordeinio i gaethwasiaeth oherwydd eu bod yn hanu o Cham:

The appointment of this race of men to servitude and slavery was a *judicial* act of God, or, in other words, was a divine judgement. [...] The great and everywhere pervading fact of their degraded condition, both *now* and in *all time* [...] we are not mistaken—namely, that the negro race, as a people, are judicially given over to a state or *peculiar* liability of being enslaved by the other races.<sup>36</sup>

Ynghyd â hyn, myn fod Cham wedi'i eni'n ddu er iddo gael ei eni o'r un fam a esgorodd ar Sem a Jaffeth. Noda i Sem fod wedi'i eni'n goch, Jaffeth wedi'i eni'n wyn, 'differing from the red color of his parents, while [God] caused Ham to be born black, a color

---

<sup>34</sup> Deil Thomas V. Peterson, *Ham and Japheth*, 42-7, 102, 149, fod y cysylltiad rhwng disgynyddion Cham, y Felltith a'r bobl dduon gyfoes wedi'i wreiddio yn y De, a bod y Cristnogion hynny'n gwirioneddol gredu mai Cham oedd y dyn du cyntaf.

<sup>35</sup> Alexander Crummell, 'The Negro Race Not Under a Curse: An Examination of Genesis IX. 25', *The Future of Africa, being Addresses, Sermons, etc., etc., Delivered in the Republic of Liberia* (New York: Negro Universities Press Year, 1862), 327-8.

<sup>36</sup> Josiah Priest, *Bible Defense of Slavery; or the origin, history, and fortunes of the Negro race, as deduced from history, both sacred and profane, their natural relations—moral, mental, and physical—to the other races of mankind, compared and illustrated—their future destiny predicted, etc.* (Louisville, KY: J. F. Brennan, 1851), 99. Pwyslais yn y gwreiddiol. Enghraifft arall yw Iveson L. Brookes, *A Defense of Southern Slavery, against the Attacks of Henry Clay and Alex'r Campbell* (Hamburg, SC: Robinson and Carlisle, 1851), 5: 'it was negro slavery, or the bondage of the Canaanitish descendants of Ham, whom God authorized to be held in hereditary bondage, under the laws of the Jewish polity.'

still further removed from the red hue of his parents than white.<sup>37</sup> Er mwyn ategu at y gred hon, deil mai ystyr ‘Cham’ yn yr Hebraeg yw ‘du’ a chyfeirir at eiriadur Beiblaidd Calmet i gadarnhau hyn.<sup>38</sup> Cesglir bod darostyngiad y caethion Affricanaidd yn gwireddu bwriad Duw, yr hyn a fynegodd drwy gyfrwng proffwydoliaeth Noa:

The servitude of the race of Ham, to the latest era of mankind, is necessary to the veracity of God Himself, as by it is fulfilled one of the oldest of the decrees of the Scriptures, namely, that of Noah, which placed the race as servants under other races.<sup>39</sup>

Roedd yr ymresymiad hwn a’r ddadl fod ‘Cham’ yn gyfystyr â ‘du’ yn gyffredin ymysg caeth-bleidwyr, ac i’w ganfod mewn nifer o ysgrifau a phregethau’r cyfnod dan sylw.<sup>40</sup> Yn wir, yn dilyn astudiaeth o ysgrifau caeth-bleidiol a gwrth-gaethiwol a gyhoeddid yn America rhwng 1837 a 1864, casglodd Ron Bartour mai’r brif ddadl a ddefnyddid i gyfiawnhau caethiwo Affricaniaid oedd Melltith Cham, a’r gred fod yr enw Hebraeg yn gyfystyr â ‘phoeth’ a ‘thywyll’.<sup>41</sup> Dengys hyn, felly, fod y Felltith wedi dal ei dylanwad mewn cylchoedd diwinyddol ac ar lefel bropropaganda; er hynny, ni ddylid diystyrru amheuron Genovese, oherwydd mae’n debyg, gyda datblygiadau gwyddonol y ddeunawfed a’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chyda damcaniaethau am bolygenesis ynghyd â theorïau am esblygiad organebau yn dyfod yn fwyfwy cyffredin, y buasai rhesymau ‘gwyddonol’ wedi tyfu’n boblogaidd i gyfiawnhau natur eilradd pobl â chroen tywyll. Gallai hiliaeth fodoli ar seiliau gwyddonol yn hytrach na chrefyddol. Dichon felly y buasai hyn wedi cael effaith ar y

---

<sup>37</sup> Priest, *Bible Defense of Slavery*, 33.

<sup>38</sup> Ibid., 33-5. Yn Augustin Calmet, *Calmet’s Dictionary of the Holy Bible* (Boston, MA: Crocker & Brewster, 1835; seithfed argraffiad), 476, diffinnir “‘HAM”, or CHAM, burnt, swarthy, black; the youngest son of Noah.’

<sup>39</sup> Priest, *Bible Defense of Slavery*, 393-4.

<sup>40</sup> Megis James A. Sloan: ‘All Ham’s posterity are either black or dark colored, and thus bear upon their countenance the mark of inferiority which God put upon the progenitor. ... Black, restrained, despised, bowed down are the words used to express the condition and place of Ham’s children. Bearing the mark of degradation on their skin.’ Sloan, *The Great Question Answered; or, Is Slavery a Sin in Itself* (Memphis, TN: Hutin, Gallaway & Co., 1857). Dyfynnir yn Tudor Parfitt, *Black Jews in Africa and the Americas* (Cambridge, MA a London: Harvard University Press, 2013), 28. Gweler ymhellach, J. Shelton Smith, *In His Image, But ... Racism in Southern Religion, 1780-1910* (Durham, NC: Duke University Press, 1972), 131. Enghraifft ddiddorol arall yw’r hyn ddywedodd J. J. Flournoy ym 1838: ‘The blacks were originally designed to vassalage by the Patriarch Noah.’ Flournoy, *A Reply, to a Pamphlet, Entitled “Bondage, a Moral Institution, Sanctioned by the Scriptures and the Saviour, &c., &c.” So far as it attacks the principles of Expulsion. With no defense, however, of Abolitionism* (Athens, GA: Sine nomine, 1838), 16.

<sup>41</sup> Ron Bartour, ‘American Views on Bible Slavery: 1835-1865, A Comparative Study’, *Slavery and Abolition*, 4 (1993), 41-55.

math o ddadleuon a geid ar bwys y Beibl, ond er mwyn casglu i ba raddau, y mae angen llawer mwy o ymchwil i'r maes diddorol hwn.<sup>42</sup>

Roedd y Felltith hiliol hon wedi parhau'n arwyddocaol er mwyn darostwng pobl o liw arbennig i gaethiwed, ac i atgyfnerthu'r ideoleg a nodweddai'r *Zeitgeist*, sef goruchafiaeth y bobl wynion.<sup>43</sup> Yn ogystal, fel y mae Haynes wedi dangos, byddai digwyddiadau Genesis 9 wedi apelio at amddiffynwyr caethwasiaeth yn y De oherwydd y syniad o anrhydedd. Yn ei hanfod, stori am beidio ag anrhydeddu rhiant ydyw, a chanlyniad y fath amarch yw cosb lem. Deil Haynes y buasai hyn wedi taro tant gyda chaeth-bleidwyr y De a ystyriai anrhydedd yn un o egwyddorion creiddiol cymdeithas.<sup>44</sup>

Wrth gwrs, wrth i ddadleuon o'r fath gael eu datgan, cafwyd cryn ymateb gan wrth-gaethiwyr a diddymwyr a geisiai danseilio rhesymeg y caeth-bleidwyr. Ystyrir hyn yn benodol isod pan drafodir y modd yr ymatebodd y Cymry Americanaidd i'r hyn a eilw David M. Goldenberg, '*the ideological cornerstone for the justification of Black slavery*'.<sup>45</sup>

## Y dehongliad Cymraeg Americanaidd

Roedd y cysyniad Melltith Cham a'r dehongliadau amrywiol ohoni wedi peri cryn ddrwschwch i nifer gan gynnwys y Cymry, ac y mae hyn i'w weld yn glir yn y gofyniad a gafwyd yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* ym mis Ionawr 1856 gan Evan Williams, Milwaukee. Ymholir pwy oedd y mab ieuengaf a wnaeth y drwg yn Genesis 9, gan mai Cham oedd yr ail fab, nid yr ieuengaf, ac mai Canaan a enwyd yn y felltith. Pam mai Canaan a gosbwyd o holl blant Cham? A yw effaith y broffwydoliaeth yn barhaol ynteu a ydyw wedi'i therfynu? Ac yn olaf, 'A ydyw hyn yn rho'i hawl gyfiawn i gaethwasanaeth Americanaidd, neu ryw gaethiwed ddynol arall' fodoli?<sup>46</sup>

---

<sup>42</sup> Gweler trafodaeth ddiddorol ynghyd â rhai o'r testunau 'gwyddonol' amlwg a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod cyn y Rhyfel Cartref yn Mason I. Lownace Jr. (gol.), *A House Divided: The Antebellum Slavery Debates in America, 1776-1865* (Princeton, NJ ac Oxford: Princeton University Press, 2003), 249-326; hefyd yn Mark A. Noll, *The Civil War as a Theological Crisis* (Chapel Hill, NC: The University of North Carolina Press, 2006), 51-74.

<sup>43</sup> '[T]he "Curse of Ham" interpretation was one of the props of the ideology of white supremacy.' Michael G. Cartwright, 'Ideology and the Interpretation of the Bible in the African-American Christian Tradition', *Modern Theology*, 9, rhif 2 (April 1993), 146.

<sup>44</sup> Haynes, *Noah's Curse*, 78-86.

<sup>45</sup> Goldenberg, *The Curse of Ham*, 175. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>46</sup> Evan Williams, 'Y Felldith ar Cam', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1856), 29. Nid ymddengys y cyhoeddwyd unrhyw ateb i'r cais hwn yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*; mae'n bosibl oherwydd bod yna drafodaeth danbaid yn digwydd rhwng awdur a alwai'i hun yn 'Tudur' ac Eos Glan Twrch yn ystod yr



Ymddengys mai'r ymdriniaeth gyntaf a gafwyd yn y wasg gyfnodol Gymraeg Americanaidd o destun Genesis 9, ac un a atebai rai o gwestiynau Evan Williams uchod, yw rhan o lythyr gan W. H. Thomas ym 1839. Ymateb yr oedd Thomas i ofyniad a gafwyd gan un yn dwyn y ffugenw 'Jonathan', a ddywed ei fod yn byw mewn talaith lle defnyddid y Beibl i gyfiawnhau'r fasnach mewn caethion.<sup>47</sup> Cyfeiria 'Jonathan' yn benodol at dair dadl o eiddo'i gymdogion, sef bod caethwasiaeth yn cael ei chaniatáu yn yr Hen Destament, na fu i Iesu na'i apostolion feirniadu'r arfer o berchen caethion, a bod Paul wedi dychwelyd caethwas at ei feistr.<sup>48</sup> Ymatebodd W. H. Thomas i'r dadleuon hyn, ac mewn llythyr manwl ganddo, â drwy bob dadl yn unigol, a phan drafoda'r Hen Destament, rhydd gryn sylw i Genesis 9, 'yr hon sydd bwngc cryf iawn gan rai er amddiffyn y Gaethfasgnach Americanaidd.'<sup>49</sup>

Cyfeirir yn gyntaf at y camsyniad cyffredin bod 'yr Affricaniaid yn hanu oddiwrth Canaan', ac eglura fod cyfandir Affrica, mewn gwirionedd, wedi'i boblogi gan blant eraill Cham – Misraim (yr Aifft) a Cus (Ethiopia). Roedd y camsyniad hwnnw, mai disgynyddion Canaan oedd yr Affricaniaid, yn un a oedd i'w gael yng Nghymru yn y degawd hwnnw hefyd. Er enghraifft, cafwyd erthygl yn trafod 'Yr Arabiaid, &c.' yn *Y Gwyllydydd* fis Mawrth 1832, a nodi, 'Y mae caethiwed parhaus yr Affricaniaid, disgynyddion Canaan, ar yr hwn y dywedwyd, "Gwas gweision i'w frodyr fydd," [...] yn tystiolaethu hyd heddyw wirionedd y geiriau a lefarwyd gan Noah'.<sup>50</sup>

Dadl gan gaeth-bleidwyr, a gydnabyddent mai disgynyddion Misraim a Cus oedd yr Affricaniaid, oedd bod mellithio 'Canaan yn cynnwys holl hiliogaeth Cam', ac felly, fod disgynyddion Misraim a Cus, yr Affricaniaid, hefyd yn etifeddion y felltith ynghyd â'r Canaaneaidd gynt, ond ni chytuna Thomas. Dywed:

nid yw y brophwydoliaeth wedi ei chyflawni. Meibion eraill i Cam a breswylasant yr Aipht ac Assyria; ac mewn undeb [â] Shem, Persia; ac wedi hyny, i ryw raddau,

---

un cyfnod â gofyniad Williams, a bod rhan o'r drafodaeth honno'n trafod dylanwad y felltith. Gweler ymryson 'Tudur' ac Eos Glan Twrch isod.

<sup>47</sup> 'Jonathan', 'GOFYNIAD. Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Medi 1838), 273.

<sup>48</sup> Cafwyd dau lythyr yn ymateb i gais 'Jonathan', y naill gan Owen Jones, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 12-4, a'r llall gan W. H. Thomas mewn dwy ran, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 14-5, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1839), 46-7.

<sup>49</sup> Thomas, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1839), 47.

<sup>50</sup> 'C. Ll.', 'Yr Arabiaid &c.', *Y Gwyllydydd* (Mawrth 1832), 76.

ymerodraethau Groeg a Rhufain. Felly ni a ganfyddwn mai nid hiliogaeth Canaan ydyw yr Affricaniaid, ond hiliogaeth Cus a Misraim.<sup>51</sup>

Yn ôl Thomas, Canaan a felltithiwyd, nid Cham, a meibion Cus a Misraim a boblogodd Affrica, felly, ni ellid cyfiawnhau caethiwo'r Affricaniaid am nad oedd y felltith a roddwyd ar *Canaan* yn eu cynnwys hwy.<sup>52</sup>

Cafwyd ymateb i sylwadau Thomas yn rhifyn mis Mehefin 1839 *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* gan awdur a arwyddai ei lythyrau â 'G.R.', ynghyd â chwestiynau ychwanegol ganddo ynghylch y dadleuon a gyflwynodd Thomas. Yn achos Melltith Cham, cydnabyddir 'nid hiliogaeth Canaan ydyw yr Affricaniaid', ond gofynna 'G.R.':

beth pe byddai i ni ganiatau fod yr Affricaniaid yn hiliogaeth Canaan, a bod y felldith a gyhoeddodd Noah yn dal perthynas [â] hwy, dymunwyf genad i ofyn yn sobr i'r caethfasgnachwyr, a'u hamddiffynwyr, a ydyw hyn yn eu cyfiawnhau yn y fasnach uchod? Fe ddywedodd Duw wrth Abraham, (Gen. xv.13) 'Bydd dy had di yn ddieithr mewn gwlad nad yw eiddynt, ac a'u gwasanaethant; a hwythau a'u cystuddiant bedwar can' mlynedd.' A oedd hyn yn cyfiawnhau yr Aiffiaid yn eu gwaith yn eu cystuddio a'u caethiwo? Nag oedd.<sup>53</sup>

Mae beiddgarwch 'G.R.' yn gofyn ar i unrhyw un a gefnogai'r syniad o gaethwasiaeth ymateb i'w gais yn arwyddocaol. Nid ymddengys i lythyr nac erthygl gael eu cyhoeddi a gyfeiriai'n uniongyrchol at y cais hwn, felly mae'n bosibl bod nifer yn cydweld â 'G.R.', a Thomas uchod, mai camddehongliad oedd credu bod y felltith wedi effeithio ar yr Affricaniaid – am nad hwy oedd disgynyddion Canaan.

Mewn dull cyffelyb i W. H. Thomas, cafwyd erthygl yn *Y Cenhadwr Americanaidd* yn rhestru'r 'Cam-ddywediadau' am gaethwasiaeth y Beibl. Wedi trafod yr honiad fod Abraham, "tad y ffyddloniaid" yn *slaveholder*, cyfeirir at y camsyniad 'mai "gwas gweision i'w frodyr" oedd Ham, ac am hyny mai caethion a ddylai pobl dduon a melynion a lledwynion deheubarth ein gwlad fod'.<sup>54</sup> Deil yr awdur anhysbys na fydd proffwydoliaeth sy'n peri niwed i bobl yn cael ei gwireddu a myn nad Cham a felltithiwyd ond Canaan. Gan

---

<sup>51</sup> Thomas, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1839), 47.

<sup>52</sup> Cafwyd casgliad tebyg mewn crynodeb o bregeth a draddodwyd yn Eglwys y Tabernacl, Efrog Newydd, gan y Parch. J. P. Thompson, 'Dim Caethwasiaeth yn Nebraska. Llef Duw yn erbyn pechod gwlad', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1854), 132.

<sup>53</sup> 'G.R.', 'Y Gaethwasanaeth', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehefin 1839), 169.

<sup>54</sup> 'Cam-ddywediadau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1844), 346-7.

hynny, nid yr Affricaniaid a effeithiwyd gan y felltith ond ‘hiliogaeth Canaan, a breswylasant wlad Canaan, yr hon oedd yn Asia.’<sup>55</sup>

Ymddangosodd cais tebyg i un ‘Jonathan’ uchod, gan Lewis Lewis o Trenton yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Mai 1842. Dywed Lewis ei fod yn ymwybodol o nifer o ‘ein cyd genedl [sy’n defnyddio] Gen. 9:25 [...] yn *warrant* ysgrythyrol i ddadleu dros gaethwasanaeth Negroaidd’.<sup>56</sup> Ni wyddys ai cyfeirio at ei gyd-genedl, y Cymry yn America, ynteu at ei gyd-genedl, yr Americanwyr, a wna Lewis. Os at y Cymry Americanaidd, dyma dystiolaeth fod rhai wedi parhau i gefnogi caethwasiaeth yn ystod y cyfnod dan sylw. Serch hynny, gan nad yw’n cyfeirio at enghreifftiau penodol o’i ‘gyd-genedl’ sy’n cefnogi caethwasiaeth, ni ellid dwyn casgliad sicr ynghylch pwy oedd ganddo mewn golwg.

[A] ellir profi trwy Hanesyddiaeth Santaidd neu gyffredin o awdurdod ddiamheuol, fod y dynion duon, gwallt crych a gyfaneddant ganol-dir Affrica (o ba rai y mae caethion yr Unol Daleithiau yn deilliaw,) yn hiliogaeth Canaan ai nad ydynt—ac, os ydynt, A ydyw prawf o’r ffaith hon yn cyfiawnhau ymddygiad y rhai a’u caethiwent—a foddlon a lawer un heblaw yr eiddoch, LEWIS LEWIS.<sup>57</sup>

Dyma sylwedd yr ymholiad ac fel yr awgryma’r cymal clo, roedd nifer o’r Cymry Americanaidd yn ansicr ynghylch union effaith proffwydoliaeth Noa.

Atebwyd Lewis gan lythyr yn rhifyn mis Gorffennaf 1842 *Y Cenhadwr Americanaidd* o eiddo’r Parch. Erasmus W. Jones. Cyfieithiad yw mwyafrif y llythyr ‘o un o bregethau y diweddar Barch. R. Watson’. Dengys hyn ba mor amlwg yr oedd y wedd drawsatlantig ar y cyfnodolyn, ynghyd â’r modd yr oedd y drafodaeth Gymraeg Americanaidd am gaethwasiaeth yn rhan o ddisgwrs ehangach.<sup>58</sup>

Traddodwyd y bregeth wreiddiol gan Watson wrth Gymdeithas Genhadol y Methodistiaid Calфинаidd yng Nghapel Newydd, City Road, Llundain ar 28 Ebrill 1824, a hynny fel rhan o gyfres o bregethau gan weinidogion ynghylch cenhadu i’r caethion yn nhrefedigaethau’r India Ddwyreiniol.<sup>59</sup>

---

<sup>55</sup> Ibid., 347.

<sup>56</sup> Lewis Lewis, ‘Gofyniad’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1842), 145.

<sup>57</sup> Ibid.

<sup>58</sup> Erasmus W. Jones, ‘Ateb i ofyniad Lewis Lewis, Trenton’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1842), 207.

<sup>59</sup> Richard Watson, ‘Sermon V.—*The Religious Instruction of the Slaves in the West India Colonies Advocated and Defended*’, yn Watson, *Sermons and Sketches of Sermons, Vol. 1* (New York: B. Waugh and T. Mason, 1836), 67-8.

Yn y bregeth honno, ac yn llythyr Erasmus W. Jones, darlunnir sefyllfa adfydus yr Affricaniaid, wedi cael eu hamddifadu o addysg a'u gwneud yn "Anathema" Dwyfol', am i lawer gymryd eu bod yn 'hiliogaeth ddiofrydig a melldigedig'.<sup>60</sup> Fodd bynnag, gwrthbrofir hyn yn fuan drwy ddadlau na chafodd y felltith ei thyngu ar 'hiliogaeth y Negro', ond iddi syrthio yn 'benaf ar Asia, ac ar Affrica, i raddau ond bychain iawn', ac yn hyn o beth, cyfeirir yn uniongyrchol at destun Genesis 9; 'syrthiodd [y felltith], fel mae geiriau 'r brophwydoliaeth yn llefaru yn amlwg ar "Canaan," hyny yw, ei hiliogaeth, sef y *Canaaneaid*', y sawl a ddarostyngwyd gan Israel, 'ac fe allai y *Carthagiaid*, y rhai a ddarostyngwyd gan y Rhufeiniaid.'<sup>61</sup>

Wedi egluro'r dehongliad y credai oedd gywiraf, eir ymlaen i ddadlau, hyd yn oed pe buasai 'prophwydoliaeth Noah yn [...] cael ei chyfeirio at y Negroaid', na fuasai ei heffaith wedi parhau '*yn oes yr efengyl*'.<sup>62</sup> Dyma gyflwyno dadl gyffredin gan y gwrth-gaethiwy'r diddymwyr – bod egwyddorion dyngarol yr efengyl yn drech na rhai deddfau, arferion a phroffwydoliaethau'r Hen Destament, 'yr hen oruchwyliaeth'. Diau fod hyn ynghlwm wrth y ddadl dros genhadu i'r caethion, gwedd amlwg ar bregeth Watson, a chenhadaeth amlwg ymysg y gwrth-gaethiwy'r sicrhau rhyddid corfforol ac ysbrydol i'r caethion.<sup>63</sup>

Difyr yw craffu'n fanwl ar baragraff clo'r llythyr sy'n dilyn y dyfyniad. Deil Erasmus W. Jones y rhydd y drafodaeth 'foddlonrwydd i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr y "Cenhadwr," ond mae'n debyg na foddlonant bawb.'<sup>64</sup> Mae'r sylw hwn yn hynod ddadlennol; er y ceir nifer o ysgrifau'n trafod truenusrwydd sefyllfa'r caethion ac yn pwysleisio nad hwy a effeithiwyd gan y felltith am nad hwy oedd disgynyddion Canaan, ceir mewn rhai erthyglau ddehongliadau gwahanol ynghylch dylanwad y felltith, ac felly diffyg unfrydedd barn.

Yr hyn a boenai amryw oedd hyd amseryddol dylanwad melltith Noa: a oedd modd i felltith broffwydol gael effaith am ganrifoedd ar ei hôl? Fel y gofynnodd 'Perthyn Pell i'r Hen Adda': 'A ydyw prophwydoliaeth am unrhyw beth, megys, y bydd caethion yn bod, yn cyfiawnhau pobl am ddal eu cydgreaduraid yn gaethion,—a ydyw hyny yn cyfiawnhau rhyw rai am eu camymddygiadau?'<sup>65</sup>

Yn unol â dymuniad perthynas Adda, ymatebodd S. A. Williams, Deerfield, gydag erthygl gryno'n dadlau na fuasai unrhyw broffwydoliaeth a fuasai'n peri 'i ddrygu

<sup>60</sup> Jones, 'Ateb i ofyniad Lewis Lewis, Trenton', 207.

<sup>61</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>62</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>63</sup> Gweler trafodaeth bellach am y nod o sicrhau rhyddid corfforol ac ysbrydol ym Mhennod 4.

<sup>64</sup> Jones, 'Ateb i ofyniad Lewis Lewis, Trenton', 207.

<sup>65</sup> 'Perthyn Pell i'r Hen Adda', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1842), 242.

cydgreadur yn ei berson, yn ei gymeriad, nac yn ei feddiannau' yn cael ei gwireddu.<sup>66</sup> Yn y cyswllt hwn, cyfeirir at 'y felltith hono o fod yn "was gweision ei frodyr"', a dyngwyd ar Canaan a gofynnir, 'a ellir cadarnhau i fod y farn hono i ddisgyn ar ei hiliogaeth ar ei [ô] am fil o genedlaethau?'<sup>67</sup> Mae'n bosibl fod Williams yma'n adleisio ambell wrth-gaethiwr drwy amau gallu Noa i dyngu melltith broffwydol am nad proffwyd mohono.<sup>68</sup> Â chymryd fod y felltith wedi effeithio ar y caethion presennol, deil Williams nad yw hynny'n esgusodi dim ar ymddygiad y sawl sy'n eu prynu a'u gwerthu, oherwydd nid cyflawni'r broffwydoliaeth a wnaent ond gweithredu 'er mwyn budr elw'.<sup>69</sup> Cred Williams, felly, na ddylai – ac na fuasai – proffwydoliaeth sy'n peri niwed, gael ei gwireddu. Dyma ddatganiad nid annhebyg i'r hyn a gafwyd yn y 'Cam-ddywediadau' uchod.

Fe gyffelybir y sawl sy'n masnachu mewn caethion wedyn â Jiwdas yn '[g]werthu Crist'.<sup>70</sup> Dichon fod hyn yn fodd o ddefnyddio un o'r troseddau mwyaf yn y Testament Newydd i godi cywilydd ar y caeth-bleidwyr, ac ategir at hynny drwy eu hatgoffa y bydd dioddefaint y 'fam ddu, a'r plentyn du, a'r tad du' yn pwysu ar eu cydwybod am weddill eu hoes.<sup>71</sup> Fodd bynnag, yr hyn a awgrymir yw, serch 'proffwydoliaeth' Noa a'r cyfreithiau gwladol sy'n cynnal y gyfundrefn gaethiwol, fod 'yr Ysryd [Glân, yr hwn] a gynhyrfodd y rhai a broffwydasant[, wedi] rhagweled fod egwyddorion y byd yn ddigon drwg i werthu a phrynu ei gilydd', ac wedi sicrhau egwyddorion dyngarol a fuasai'n goresgyn hyn. Gellid dweud mai hon yw'r genhadaeth wrth-gaethiwol Gristnogol: dylai pob Cymro Americanaidd da arddel cyfraith cariad yn hytrach na gorthrwm a gafael y geiniog.<sup>72</sup>

Fel yr awgryma Williams ac Erasmus W. Jones uchod, nid oedd pawb yn unfryd unfarn yn eu dehongliad o'r felltith, ac enghraifft o hynny yw rhai o erthyglau J. J. Jones o Efrog Newydd.

---

<sup>66</sup> S. A. Williams, 'Ateb i ofyniad Perthyn Pell i'r Hen Adda', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1842), 272.

<sup>67</sup> Ibid.

<sup>68</sup> Megis Joseph L. Blau (gol.), *Relation of Master and Servant, as Exhibited in the New Testament: Together with a Review of Dr. Wayland's Elements of Moral Science on the Subject of Slavery* (Richmond, Va., 1836), 95-6. Gweler yn Willard M. Swartley, *Slavery, Sabbath, War and Women* (Scottsdale, PA: Herald Press, 1983), 282.

<sup>69</sup> Williams, 'Ateb i ofyniad Perthyn Pell i'r Hen Adda', 272.

<sup>70</sup> Ibid.

<sup>71</sup> Ibid.

<sup>72</sup> Ibid.

Mewn erthygl yn trafod ‘Hanesyddiaeth yr Oesoedd Cyntefig’, darlunia J. J. Jones stori Noa, ei feibion a’u disgynyddion.<sup>73</sup> Yn ôl ei ddehongliad, ‘Cham a welodd noethni ei dad’, ef a ddywedodd wrth ei frodyr, a hwy a ymatebodd ‘yn ofalus a pharchus’.<sup>74</sup> Dywed hefyd i Noa ddysgu ‘trwy glywed’ gan eraill am yr hyn a wnaeth Cham. Awgryma hyn nad yw Jones yn credu i Cham fod wedi niweidio’i dad yn gorfforol, ac mai diffyg parch oedd y drosedd.

Pan drafodir y felltith ei hun, ceir ychydig amwysedd yn nehongliad Jones. Dywed, ‘dyma [Noa] yn [cyhoeddi sefyllfa] o *wasanaethu* yn bresenol yn rhan i deulu Ham, gan ddywedyd Melldigedig fydd Canaan gwas gweision i’w frodyr fydd’.<sup>75</sup> Nid yw’n glir ai ‘yn rhan i deulu’ Cham yn hytrach na dwy ran Sem a Jaffeth a olyga Jones, ynteu ‘yn rhan i’ bedwar mab Cham, sef Canaan. Mae’n bosibl fod hyn yn adlewyrchu ansicrwydd ar ran Jones wrth drafod y testun dyrys.

Ni sonnir gair am y caethion Affricanaidd cyfoes yn yr erthygl hon, nac mewn erthyglau dilynol gan Jones sy’n trafod gwasgariad meibion Noa. Ond yr hyn sy’n ddadlennol yw iddo yntau weld cysylltiad rhwng yr ansoddair ‘poeth’ â’r Affricaniaid. Er na chyfeirir at ystyr enw Cham, nac at y caethion yn benodol, ceir ymresymu:

A meibion Cham yr hwn a gafodd wlad yr Haf (yr hyn o’i gyfieithu yw, gwlad y gwres, *Affrica*,) i’w phreswyllo, oedd Cus, yr hwn a breswylodd Ethiopia (Arabia), a Mizraim, a Phut, y rhai a breswylasant yr Aipht yn wasgaredig, a Chanaan yr hwn a breswylodd wlad Canaan.<sup>76</sup>

Eir ymlaen i drafod disgynyddion meibion Cham gan bwysleisio eu natur ryfelgar drwy ystyried yn benodol yr ‘heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd’, Nimrod, yr hwn, dywedid, a lywiodd cynllun adeiladu Tŵr Babel (Gen. 11:1-9). Difyr yw’r cyferbyniad a geir rhwng meibion Cham a rhai Japheth, y ‘[m]ab hynaf’ a’r un ‘yr aeth Noa gydag ef’; gan mai o linach Jaffeth, drwy Gomer, y cred Jones y daeth y Cymry.<sup>77</sup> Yn wir, mae Jones, mewn erthygl ddiweddarach yn honni i ‘hiliogaeth Cam’ ddod ‘yn wasanaethgar i hiliogaeth

---

<sup>73</sup> Ceir ymdrin â hanes Noa a’i deulu mewn erthygl gynharach gan J. J. Jones, ‘Cynhanes’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1843), 267-8.

<sup>74</sup> J. J. Jones, ‘Hanesiaeth yr Oesoedd Cyntefig. Noa a’i Feibion’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1843), 336.

<sup>75</sup> *Ibid.* Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>76</sup> *Idem.*, ‘Tarddiad Cenhedloedd y Ddaear’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehfin 1844), 167. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>77</sup> Gweler y drafodaeth isod.

Japheth'.<sup>78</sup> O'i dehongli felly, gellid awgrymu efallai fod Jones yn cyfeirio at y sefyllfa gyfoes lle roedd disgynyddion Cham (yr Affricaniaid) yn 'wasanaethgar' i ddisgynyddion Jaffeth (trigolion amrywiol America).<sup>79</sup>

Dylid nodi, fodd bynnag, y bu newid nid ansylweddol ym marn Jones. Ym 1862, a'r Rhyfel Cartref wedi'i gynnau, cyhoeddodd Jones ysgrif am 'Ddechreu Byd o Newydd', â'r amcan o olrhain hanes Noa a'i feibion. Drwyddi draw, darlunnir Cham mewn modd hynod negyddol, fel 'cyw gwaelod y nyth', a oedd yn 'segura', a droseddodd, ac a 'gyhoeddodd allan gyda dirmyg' am gyflwr ei dad.<sup>80</sup> Yn wir, fe'i darlunnir fel cymeriad a grwydrodd oddi ar 'lwybr ei ddyledswydd', ac a ymgorfforai ddrygioni. Fodd bynnag, er mai Cham a droseddodd, meddai Jones, datganodd Noa 'ei EWYLLYS i'w feibion, gan ddywedyd, "Melldigedig fyddo Canaan, gwas gweision i'w frodyr fydd.[?]"<sup>81</sup> Yn yr ysgrif ddiweddarach hon, ceir Jones yn priodoli'r felltith i *Canaan* yn unig, ond gan ddarlunio holl 'epil Cam' fel pobl wrthnysig ac fel enghreifftiau 'o effeithiau y llygredigaeth ag oedd dynolryw wedi syrthio iddo drachefn.'<sup>82</sup> Yr hyn sy'n bwysig, fodd bynnag, yw na fu i Jones gyplysu 'epil Cam' â'r caethion duon.

Cafwyd dehongliad nid annhebyg i erthyglau cynharach Jones gan T. Ll. Hughes. Mewn traethawd sy'n rhan o gyfres 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', trafodir y Cham drygionus a'r camwri a wnaeth yn erbyn 'hen ŵr', ei dad.<sup>83</sup> Yn dilyn y drosedd, ceir Noa, 'mewn ysbryd prophwydoliaeth' yn bendithio Sem a Jaffeth, ac yn tyngu i 'eppil Cam anniolchgar gael eu darostwng i wasanaethu hiliogaeth ei frodyr, yr hon brophwydoliaeth sydd yn cael ei chyflawni yn fanwl trwy holl oesoedd y byd.'<sup>84</sup> Cyfeddyf mai cyfeirio at linach Canaan a wnaeth Noa a bod y broffwydoliaeth honno wedi'i chyflawni 'gan feibion Israel ar eu mynediad i Ganaan'.<sup>85</sup> Serch hynny, deil Hughes fod y broffwydoliaeth yn parhau, ac mai 'Eppil Cam eto ydyw y Negroaid sydd yn gaethion, a than draed hiliogaeth Sem a Japheth, ar hyd y byd bron yn mhob man.'<sup>86</sup> Ymddengys, felly, fod Hughes yn awgrymu na fuasai terfyn fyth ar y felltith a dyngwyd gan Noa, ac y buasai traean o'r

---

<sup>78</sup> Jones, 'Tarddiad Cenhedloedd y Ddaear', 166.

<sup>79</sup> *Ibid.*, 171.

<sup>80</sup> Jonathan J. Jones, 'Llenllith ar Ddechreu y Byd o Newydd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1862), 11.

<sup>81</sup> *Ibid.*

<sup>82</sup> *Ibid.*, 12.

<sup>83</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol. V', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Medi 1850), 258.

<sup>84</sup> *Ibid.*

<sup>85</sup> *Ibid.*

<sup>86</sup> *Ibid.*

ddynoliaeth yn gorfod bodoli'n barhaol dan iau disgynyddion y brodyr eraill. Nid oes ganddo amheuaeth ychwaith nad yr Affricaniaid Americanaidd cyfoes yw etifeddion melltith Noa.

Ymddangosodd sylw cyffelyb a gynhwysai holl hil Cham dan farn Noa mewn erthygl yn trafod hanes 'Ynys Prydain'. Wrth osod pwnc yr erthygl yn ei gyd-destun hanesyddol, cyfeirir at 'Europa', lle yr arferai hil Cham drigo cyn i ddisgynyddion Jaffeth ymsefydlu yno, ac mae'r hyn a ddywedir am Cham yn hynod ddadlennol:

Eppil Cam, ail fab Noa, (yr hwn a felldithwyd gan ei dad) a arglwyddiaethasant gyntaf; a hiliogaeth hwnw a lywodraethasant i orphen y ddwy fil gyntaf o oes y byd, heb un gyfraith, ac am hyny yr oedd eppil Sem ab Noah yn cadw eu hachau o'r dechreuad, gan wybod mai iddynt hwy yr oedd i lywodraethu'r ail ddwy fil, trwy gyfraith; ond eppil Japheth ab Noa (y rhai a berchenogasant dir Prydain) a adawant eu hachau a'u cyfarwyddyd, oblegid bod iddynt hwy dderbyn ffydd Crist.<sup>87</sup>

Awgrymir mai creaduriaid anystywallt a gwrthnysig i'r gyfraith oedd hil Cham, ac nid oes yma wahaniaethu rhwng gwahanol ganghennau disgynyddion y mab hwnnw, gan eu bod oll, yn ôl J. Long, wedi eu cyfranogi yn yr anffawd a dyngwyd ar eu tad.

Fis Hydref 1848, ymddangosodd erthygl gyfoethog yn trafod 'Hiliogaeth Pwy yw yr Affricaniaid?', o bosibl, er mwyn ymateb i'r gofyniadau niferus ynghylch caethwasiaeth America a dylanwad geiriau Noa. Gwnaeth yr awdur ddefnydd helaeth o lyfr gwrth-gaethiwol George Bourne, *A Condensed Antislavery Bible Argument; By a Citizen of Virginia*, gan aralleirio detholiad o'r llyfr hwnnw.<sup>88</sup>

Egyr yr erthygl gan J. D. Edwards, Floyd, drwy atgoffa 'mai dynion' yw'r Affricaniaid a'u 'bod yn perthyn i'r frawdoliaeth gyffredinol'.<sup>89</sup> Dichon fod hyn yn fodd o greu ymdeimlad o undod rhwng y darllenydd a'r caethion, gan eu bod oll yn fodau dynol. Yn dilyn hyn, trafodir y dadleuon a ddefnyddid i gyfiawnhau caethiwed, gan ddechrau gyda'r gred fod yr Affricaniaid yn ddisgynyddion Cain.

Roedd cysyniad 'Melltith Cain' i'w gael yn yr Unol Daleithiau ond nid i'r fath raddau â Melltith Cham.<sup>90</sup> Roedd gan y ddamcaniaeth ynghylch Cain ei chynseiliau yn y canrifoedd

---

<sup>87</sup> J. Long, 'Ynys Prydain. Cofrestr o'r Breninoedd a'r Tywysogion o Gymry neu Frytaniaid a Reolasant y Deyrnas Cyn Dyfod y Saeson', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1854), 54.

<sup>88</sup> George Bourne, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument; By a Citizen of Virginia* (New York: S. W. Benedict, 1845). Aralleirir penodau 4 a 5 llyfr Bourne yn erthygl J. D. Edwards.

<sup>89</sup> J. D. Edwards, 'Hiliogaeth pwy yw yr Affricaniaid?', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1848), 291.

<sup>90</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, i Cain a'r nod a roddwyd arno fod yn rhan arwyddocaol o syniadaeth Eglwys y Mormoniaid. Gweler ymhellach, Copher, 'The Black Presence in the Old Testament', 148-



cynnar ond daeth yn bennaf i'r amlwg o'r bymthegfed ganrif ymlaen. Sylwedd y 'felltith' oedd i liw croen Cain newid pan roddwyd y nod arno (Gen. 4:15). Byddai nifer o gaethbleidwyr y De'n cyfeirio at y syniad i Cain gael ei dduo fel cosb am iddo ladd Abel, ac mai'r lliw du oedd y nod a osodwyd arno.<sup>91</sup> Yn wir, cyfeiriodd Affrican Americanaidd o'r enw David Walker at y duedd hon ym 1829: 'Some ignorant creatures hesitate not to tell us that we, (the blacks) are the seed of Cain [...] and that God put a dark stain upon us, that we might be known as their slaves.'<sup>92</sup> Ac eithrio ymysg y Mormoniaid, nid oedd damcaniaeth hiliol Nod Cain mor gyffredin â Melltith Cham. Serch hynny, y mae i'w chanfod yn ysgrifau rhai awduron Americanaidd o 1733 ymlaen.<sup>93</sup>

Ar un wedd, roedd y theori ynghylch Cain yn fwy rhesymegol na'r un am Cham. Rhoddwyd nod ar Cain a'i gosbi am iddo fod y cyntaf i lofruddio rhywun, gweithred waeth, fe ellid dadlau, nag amharchu rhiant. Fodd bynnag, o ran perthynas lliw Cain â chaethwasiaeth, roedd Melltith Cham yn rhagori, gan fod caethwasiaeth yn cael ei henwi fel rhan o'r gosb (er nad oes sôn o gwbl am liw croen Canaan na'i dad). Sut felly oedd modd cysoni caethwasiaeth a'r lliw du, â Cain? Un ateb a gafwyd oedd bod Cham wedi priodi un o ddisgynyddion Cain – y llofrudd a'r dyn du cyntaf – a oroesodd y Dilyw.<sup>94</sup> Golygai hynny fod disgynyddion Cham, drwy Canaan, yn ddu ac oherwydd geiriau Noa, yn gaethion.<sup>95</sup>

---

50. Am drafodaeth bellach ynghylch 'Melltith Cain', gweler Regina M. Schwartz, *The Curse of Cain: The Violent Legacy of Monotheism* (Chicago a London: Chicago University Press, 1997).

<sup>91</sup> Cyfeirir at Nod Cain yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1849), 299-301, mewn cyfieithiad gan John Rees o araith a draddodwyd gan Horace Mann o Massachusetts yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr, 23 Chwefror 1849. Sylwedd yr araith oedd 'Y Gaethfasnach yn Rhandir Columbia'; 'Mae lluoedd o gaethion yn y De yn dwyn ar eu personau warthnod mor annileadwy ar eiddo Cain, ac mae y nod wedi ei rwymo wrthynt nid o herwydd eu troseddau ond o herwydd troseddau eu tadau. Yn wynepryd y caethion yr ydym yn darllen hanes dychrynlyd o euogrwydd y Caethfeistri' (t. 299). Difyr yw gweld cyffelybiaeth arall rhwng ymresymiad yr oes am Felltith Cham â Nod Cain, sef mai canlyniad i 'bechod y tadau' yw'r ddeubeth.

<sup>92</sup> David Walker, *Walker's Appeal, in four articles, together with a Preamble to the Coloured Citizens of the world, but in particular and very expressly to those of the United States of America. Written in Boston, in the State of Massachusetts, Sept. 28<sup>th</sup>, 1829.* (Boston, MA: Printed for the author, 1829), 60-1.

<sup>93</sup> Enghreifftiau o'r fath yw: Elihu Coleman, *A Testimony against the Anti-Christian Practice of Making Slaves of Man, wherein it is shewed to be contrary to the dispensation of the law and time of the Gospel, and very opposite both to grace and nature* (New-Bedford, MA: Abraham Sherman: 1825; adargraffiad), 16-7; David Child, *Oration in Honor of Universal Emancipation in the British Empire, Delivered at South Reading, August First, 1834* (Boston, MA: Garrison and Knapp, 1834), 10.

<sup>94</sup> John Fletcher, *Studies on Slavery, in Easy Lessons* (Natchez, MI: Jackson Warner, 1852), 248-52, 443-9.

<sup>95</sup> Mabwysiadwyd y dehongliad hwn fel rhan o gredo'r Mormoniaid pan sefydlwyd yr eglwys gan Joseph Smith. Daeth dŵch Cain yn wedd amlwg ar ddiwinyddiaeth y Mormoniaid o hynny ymlaen: 'The seed of Cain were black and had no place among [the seed of Adam]'. Dyfynnir yn Jerald Ray

Ymateb i ddadleuon o'r fath a wna Edwards yn ei ysgrif, a deil na allai'r Affricaniaid fod yn ddisgynyddion Cain oherwydd 'boddwyd holl hiliogaeth Cain yn y diluw. O hiliogaeth Seth ac nid Cain y tarddodd Noah, a hiliogaeth Noah yw holl drigolion y ddaear'.<sup>96</sup> Nid ystyriai, felly, fod unrhyw sail i'r ddamcaniaeth fod Cham wedi priodi un o ferched Cain.

Yn dilyn hyn, try Edwards ei sylw oddi wrth 'felltith' Cain ac at yr un ar 'Cham' gan ddatgan yn sicr fod y ddamcaniaeth honno'n gyfeiliornus. Deil mai disgynyddion Canaan a felltithiwyd, nid Canaan ei hun na Cham, a bod 'hiliogaeth Canaan i fod yn ddarostyngedig i eiddo Sem, ac nid i un rhyw genedl arall. Gwel[.] Gen. 10:15, 19; a'r 13:12; a'r 15:18, 21, a'r 17:8, yn nghyd ag amryw adnodau eraill sydd yn cadarnhau yr un gwirionedd.'<sup>97</sup> Pwysleisia nad 'hiliogaeth Canaan yw y Negroaid' oherwydd i'r hil honno '[w]ladychu yn y rhan hyny o Asia ag oedd yn cael ei alw[']n ... "d]ir Canaan"', yn ogystal, am nad oes tystiolaeth i unrhyw un o 'deulu Canaan' fod wedi 'gwladychu Affrica'.<sup>98</sup>

Credir bod y felltith eisoes wedi'i chyflawni gyda darostyngiad y Canaaneaid i'r 'Iddewon (hil Sem)', yr hyn sy'n cael ei ddarlunio yn yr Hen Destament (Jos. 6:1-12:24). Â Edwards yn ei flaen i ddadlau ar seiliau hanesyddol, 'fod mwy o hiliogaeth Sem a Japheth (sef yr hen Roegiaid, Rhufeiniaid, Saeson, Rwsiaid a Circassiaid &c.) wedi cael eu caethiwo a'u darostwng fel nwyddau masnachol, o bryd i bryd, nag a gaethiwyd felly o hiliogaeth Cam.'<sup>99</sup>

Deil mai o Cus, mab arall Cham, y daeth y 'genedl Negroaid', ac nad oedd yr un felltith wedi'i chyhoeddi arno ef. Gan hynny, dywed na chafodd disgynyddion Cus erioed eu darostwng gan ddisgynyddion Sem, ac os oedd hynny i fod wedi digwydd, yr oedd eto i'w gyflawni. Prif neges Edwards, ynghyd â dangos simsanrwydd melltith honedig 'Cham', oedd dangos mai disgynyddion meibion eraill Noa oedd yr Affricaniaid, nid Canaan, ac felly, gan mai Canaan a felltithiwyd ac nid Cham, i'r Affricaniaid cyfoes gael eu caethiwo ar gam.

Difyr yw nodi'r cysylltiad a wêl Edwards rhwng Cus a'r 'genedl Negroaid', oherwydd bod ysgolheigion cyfoes hefyd o'r farn y gellir uniaethu Cus ag Ethiopia, ac yn wir, gasglu mai du oedd lliw ei groen. Gwelir hyn, meddai rhai ysgolheigion, yn Numeri

---

Johansen, *A Commentary on the Pearl of Great Price* (Bountiful, UT: Horizon Publishers & Distributors, Inc., 1998; trydydd argraffiad), 87. Mae dylanwad 'Melltith Cain' yn parhau tu fewn i gorlan yr eglwys Formonaidd, ac yn wir, parhaodd y tu allan iddi tan ganol yr ugeinfed ganrif. Gweler Goldenberg, *The Curse of Ham*, 178-82 am grynodedeb o hanes tarddiad a datblygiad 'Melltith Cain'.

<sup>96</sup> Edwards, 'Hiliogaeth pwy yw yr Affricaniaid?', 291.

<sup>97</sup> *Ibid.*, 291-2.

<sup>98</sup> *Ibid.*, 292.

<sup>99</sup> *Ibid.*

12:1, pan feirniada Aaron a Miriam eu brawd, Moses am briodi gwraig o Ethiopia, ac felly gymysgu â gwraig o genedl ac o liw arall.<sup>100</sup> Meddai Charles B. Copher:

By far the most common term that designates a black color when reference is to a person, people, or land is *Kūš* (Cush), with its cognates. [...] When dealing with a black presence in the Old Testament, however, and *apart from Ham's sons, Canaan and Phut, in the Table of Nations*, Egypt must be included, along with Cush. Whatever modern scholars may argue pro and con about the black color of the ancient Egyptians, the testimony of ancient Hebrew, Greek, and Roman writers is that, at the least in their eyes, the Egyptians as well as the Ethiopians were both black and Negroid.<sup>101</sup>

### **Y Beibl o blaid caethwasiaeth: Ymryson 'Tudur' ac Eos Glan Twrch**

Cafwyd ymrafael ar dudalennau'r *Cyfaill o'r Hen Wlad* rhwng 1855 a 1856 ynglŷn â'r gofyniad, a oedd y Beibl yn cyfreithloni caethwasiaeth ai peidio. Yn debyg i 'Jonathan' uchod, roedd 'Ymdeithydd', yr un a ofynnodd y cwestiwn yn rhifyn Medi 1855, yntau wedi clywed ei gymdogion Cymraeg yn dadlau ymysg ei gilydd ynghylch yr union bwnc, gydag un yn condemnio'r Beibl am ei fod yn cyfiawnhau caethwasiaeth, un arall yn cyfaddef nad yw'r Beibl yn gwrthwynebu caethwasiaeth, a thrydydd yn dadlau fod y Beibl yn gwbl wrthwynebol i'r arfer o berchnogi pobl.<sup>102</sup>

Cafwyd ymateb i gais yr 'Ymdeithydd' yn rhifyn Tachwedd 1855 gan awdur a ddefnyddiai'r ffugenw 'Tudur'. Teimlai'r llythyrwr '[r]add o arswyd' wrth gynnig ateb oherwydd gwyddai fod y pwnc yn hynod ddadleuol, a bod 'rhyw ddrychiolaeth o lyfrau, megys "Caban 'n Ewyrth Twm," "Aelwyd 'n Ewyrth Robert," &c.' yn dueddol o gynhyrfu nifer o'u darllenwyr.<sup>103</sup> Mae barn 'Tudur' am y trosiadau hyn o *Uncle Tom's Cabin* yn drawiadol ac, fe ymddengys, yn annodweddiadol o'r farn gyffredin ymysg y Cymry Americanaidd, gan y credent fod y nofel hon ymysg offerynnau mwyaf dylanwadol yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth; dyna'n wir pam y'i cyfieithwyd amryw weithiau i'r Gymraeg, a'i chyhoeddi yn y cyfnodolion. Gellid awgrymu mai arwydd o'r agwedd

---

<sup>100</sup> Eryl W. Davies, *New Century Bible Commentary: Numbers* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 1995), 118-9; Idem, *Biblical Criticism: A Guide for the Perplexed* (London: Bloomsbury, 2013), 58-9.

<sup>101</sup> Copher, 'The Black Presence in the Old Testament', 152. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>102</sup> 'Ymdeithydd', 'Caethwasiaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Medi 1855), 349. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw 'Jonathan' yn nodi pa genedl oedd ei gymdogion, boed yn Gymry Americanaidd ai peidio, yn wahanol i 'Ymdeithydd' yma sy'n nodi'n glir mai Gymry a fu'n trafod.

<sup>103</sup> 'Tudur', 'Caethwasanaeth. Ateb i ofyniad "YMDEITHYDD," yn rhifyn Medi', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1855), 427.

negyddol, Fethodistaidd tuag at ffuglen ac nid o reidrwydd gefnogaeth i'r caeth-bleidwyr a nodweddaï sylwadau 'Tudur'; fodd bynnag, fel y gwelir isod, y gwrthwyneb yw'r gwir.<sup>104</sup> Yn ddiau, teimla 'arswyd' am y byddai ei sylwadau'n mynd yn groes i'r graen gwrth-gaethiwol. Wedi 'ymchwiliad manwl' o'r ysgrythurau, dywed na lwyddodd i '[g]anfod dim ynddynt yn anghymeradwyo, ond yn hytrach yn cefnogi caethwasanaeth', a thrafoda nifer o'r enghreifftiau hynny o'r Beibl.<sup>105</sup>

Ei destun cyntaf yw'r hyn ddigwyddodd wedi'r Dilyw, pan fu i Noa '[g]yhoeddi melldith ar ei fab Cam, ac ar ei hiliogaeth ynddo, am yr anmharch digywilydd a ddangosid ganddo tuag at ei dad.'<sup>106</sup> Nid oes cyfeiriad at gaethwasiaeth gyfoes, nac ychwaith ymgais gan 'Tudur' i wahaniaethu rhwng meibion Cham, ond yn hytrach, briodoli'r felltith yn gyfan i 'Cam a'i had'.<sup>107</sup>

Mewn gwirionedd, nid yw'n syndod i 'Tudur' ac eraill gyfeirio at Cham fel deiliad y felltith oherwydd pan ystyrir yr hyn ddywed un o lyfrau pwysicaf Cymry'r oes, *Geiriadur Ysgrythyrol*, Thomas Charles, ni cheir sicrwydd ynghylch yr union beth yn hwnnw. Diffinnir 'Ham' fel 'mab ieuengaf Noah, yr hwn a wawdiodd ei dad, ac a felldigwyd o'r achos, efe a'i hiliogaeth. Gen. 9. 22, &c.'<sup>108</sup> Serch hyn, nid yw Thomas Charles ei hun yn gyson ei ddehongliad oherwydd dywed am Canaan:

Yr ydoedd melldith Noah, tebygol, yn briodol yn *unig* i'r mab hwn i Ham, ac nid ydyw yn ymddangos iddo gyrhaedd i'w feibion eraill ef. Yr Hebraeid a gredent mai Canaan yn gyntaf a ganfu noethder ei daid Noah, ac a'i mynegodd i Ham ei dad; ac am hyny y disgynodd y felldith arno'<sup>109</sup>

Mae awgrym yn yr ysgrif fod 'Tudur' yn credu mai Cham a felltithiwyd ond ni chyfeirir at gaethwasiaeth gyfoes yn hyn o beth. Yn hytrach, cyfeiria 'Tudur' at un o'r enghreifftiau cyntaf a geir yn yr Hen Destament o unigolyn caeth, sef Hagar, gordderchwraig Abraham (Gen. 16), a deil ei bod yn un o ddisgynyddion Cham oherwydd ei chyflwr caethiwus.<sup>110</sup>

---

<sup>104</sup> Bu cryn ymateb i *Uncle Tom's Cabin* a hynny'n amrywio'n fawr. Cafwyd rhai'n canmol y llyfr i'r cymylau ac eraill yn ei gollfarnu. Yn wir, cyhoeddwyd nifer o nofelau gwrth-*Uncle Tom*, megis *Aunt Phyllis's Cabin; or, southern life as it is* (1852) gan Mary Henderson Eastman, er mwyn, dywedid, rhoi darlun tecach o sefyllfa'r caethion a'u perthynas gyda'u meistri.

<sup>105</sup> 'Tudur', 'Caethwasanaeth. *Ateb i ofyniad "YMDEITHYDD"*', 427.

<sup>106</sup> *Ibid.*, 428.

<sup>107</sup> *Ibid.*

<sup>108</sup> Thomas Charles, 'Ham', *Geiriadur Ysgrythyrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirmiadaeth ysgrythyrol* (Wrexham: Hughes and Son, 1885; seithfed argraffiad), 492.

<sup>109</sup> *Ibid.*, 'Canaan', 143. Fy mhwyslais.

<sup>110</sup> 'Tudur', 'Caethwasanaeth. *Ateb i ofyniad "YMDEITHYDD"*', 428.

Perodd y sylwadau hyn, a gweddill y drafodaeth ynghylch barn y Beibl am gaethwasiaeth, i llythyr chwyrn ymddangos gan y bardd Eos Glan Twrch (John Edwards). Mae'r Eos yn gadarn nad yw caethwasiaeth yn cael ei chyfreithloni gan y Beibl oherwydd 'Cyfiawnder yr olaf yw *Cariad*, hanfod y blaenaf yw *Trais*; ac y mae ceisio cyfuno y ddau ar dir Ysgrythyrol yn fwy nag a allesid yn rhesymol ei ddysgwyl'.<sup>111</sup>

Myn fod 'Tudur' yn dehongli'r felltith fel 'sail digonol dros uniondeb yr arferiad yn mysg dynolryw i un genedl ymddwyn at genedl yn yr un modd', ac ymhelaethir drwy gyfeirio at Gaethglud yr Iddewon ym Mabilon. '[C]osbedigaeth gyflawn gan Dduw ar y genedl am ei phechodau' ydoedd, ond i'r Babiloniaid fod wedi cam-drin yr Iddewon yn y broses.<sup>112</sup> Buasai 'Tudur' yn ystyried melltith Noa, meddai'r Eos, fel cyfiawnhad am weithredoedd y Babiloniaid, a hefyd, yn ddiweddarach, ymddygiad yr 'Iddewon at Grist'; nid felly Glan Twrch.<sup>113</sup>

Adleisia'r Eos ddadleuon rhai gwrth-gaethiwyr ynghylch Abraham a'i gaethion.<sup>114</sup> Cyfeddyf i gaethwasiaeth ac amlwreiciaeth fodoli yn ystod 'yr oruchwyliaeth batriarchaidd, a Moseianaidd', ond nad oedd hynny wrth fodd Duw mewn gwirionedd, a thrwy gyfrwng ei apostolion, deil yr Eos, yr amlygodd Duw, 'na fyn ef neb i wneyd dim o'i waith oni bydd yn [w]r un wraig'.<sup>115</sup> Yr awgrym, felly, yw bod caethwasiaeth, fel amlwreiciaeth, wedi edwino erbyn oes yr apostolion. Fel y gwyddys, ac fel y dengys ail ran llythyr yr Eos, fodd bynnag, roedd enghreifftiau o gaethwasiaeth i'w cael yn ystod oes yr apostolion ac wedi hynny.

Pan ystyrir sylwadau 'Tudur' am y deddfau a roddwyd i'r Hebreaid ynglŷn â sut i feddiannu a thrin caethion, dygir cysylltiad gyda'r sefyllfa gyfoes. Y 'casgliad addysgiadol' a gaiff 'Tudur', meddai'r Eos, 'ydyw profi mai Ysgrythyrol a chyfiawn prynu a gwerthu, a darost[wng] y genedl Affricanaidd at ewyllys a gwasanaeth eu huwchafion'.<sup>116</sup> Deil yr Eos nad oes sylfaen i hyn, a phwysleisia fod y deddfau am driniaeth a pherchnogaeth caethion yn rhai a berthyn i gyfnod a gwlad arall. Er tegwch â 'Tudur', ni ddadleuodd fod y cyfreithiau hynny'n cyfiawnhau deddfau'r Unol Daleithiau, ond deil yr Eos i 'Tudur' fod wedi awgrymu hynny, ac felly ystyria'r bardd y defnydd y gellid ei wneud o hen orchmynion ar y byd cyfoes:

---

<sup>111</sup> Eos Glan Twrch, 'Caethwasanaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1856), 27. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>112</sup> Ibid.

<sup>113</sup> Ibid.

<sup>114</sup> E. Brooks Holifield, *Theology in America: Christian Thought from the Age of the Puritans to the Civil War* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2003), 496.

<sup>115</sup> Eos Glan Twrch, 'Caethwasanaeth a'r Beibl', 27.

<sup>116</sup> Ibid.

[O]s gellir sefydlu cyfreithlondeb prynu caethion o fysg y Negröaid neu ryw genedl arall oddiwrth y blaenaf [fel Israel yn prynu caethion o'r 'cenedloedd eilunaddolgar'], ar yr un egwyddor y gellir cyfiawnhau eu dyfetha allan o'r byd a phlanu Cristionogion yn eu lle [fel yr Hebreaid yn concro gwlad Canaan].<sup>117</sup>

Erbyn llythyr ymateb 'Tudur', ceir mynegi'i farn yn groyw ac yn gwbl gyferbyniol i Eos Glan Twrch:

[B]arna [Eos] fod dal cyd-ddyn yn gaethwas yn bechod, ac fel y cyfryw yn cael ei gondemnio yn y Beibl. Yr wyf finau yn barnu fod Rhagluniaeth yn trefnu amgylchiadau dynion yn y byd fel ag i ddwyn y naill ddyn i wasanaethu y llall, ac felly nad ydyw caethwasiaeth yn bechod ynddo ei hun, nac mewn un modd yn cael ei wahardd yn yr Ysgrythyrau.<sup>118</sup>

Prysur a ddweud nad yw'n cefnogi triniaeth lem perchnogion tuag at eu caethion, a chred fod 'y meistr yn rhwym o ofalu am ei was—ei gynnal a'i ddilladu yn gysurus, yn nghyda gofalu am addysg grefyddol iddo'.<sup>119</sup>

Dyma fynegiant o barchu hawl unigolyn i berchen unigolyn arall, ar yr amod ei fod yn gofalu amdano'n ddigonol – yn faterol gyda chynhaliaeth ac yn ysbrydol gydag addysg. Yn ogystal, awgryma'r sylw, 'fod Rhagluniaeth yn trefnu amgylchiadau dynion yn y byd', fod 'Tudur' yn coleddu'r syniad diwinyddol o ragordeiniad ac, fel nifer o gaeth-bleidwyr yr oes, yn ystyried fod yr Affricaniaid Americanaidd yn gaethion oherwydd mai felly y'u crëwyd gan Dduw. Ac yntau'n cyhoeddi yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, a oedd yn fisolyn y Methodistiaid Calфинаidd, difyr yw gweld y cyferbyniad rhwng 'Tudur' a'r Eos ynghylch dylanwad diwinyddiaeth eu henwad ar eu dehongliadau am gaethwasiaeth (os mai Methodist Calфинаidd oedd 'Tudur'). Roedd y syniad fod y caethion wedi eu rhagordeinio i'w caethiwed o'u geni yn tystio, i rai, i gyfreithlonrwydd caethwasiaeth, ac yn faen tramgwydd i eraill a wrthwynebai'r gyfundrefn ond a oedd hefyd yn arddel y math hwn o ddiwinyddiaeth.

Gellid casglu, felly, fod 'Tudur' yn enghraifft o Gymro Americanaidd a oddefai'r gyfundrefn heb o reidrwydd fod yn gaeth-berchennog ei hun, neu'n wir, yn enghraifft brin yn y cyfnod o Gymro Americanaidd pleidiol i gaethwasiaeth. Ni wyddys pwy oedd 'Tudur' gan ei fod yn dilyn arfer hynod boblogaidd yn y wasg gyfnodol yn America a Chymru tan y

---

<sup>117</sup> Ibid.

<sup>118</sup> 'Tudur', 'Caethwasiaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1856), 154-5.

<sup>119</sup> Ibid., 155.

1890au o ysgrifennu dan ffugenw.<sup>120</sup> Yn yr achos hwn, gellid awgrymu i'r ffugenw fod yn fuddiol i'r llythyrwr sicrhau na ddeuai neb i wybod pwy ydoedd gan iddo fynegi safbwynt a aethai'n groes i duedd Gymraeg Americanaidd y cyfnod.

Parthed sylwadau'r Eos am ei ddadl, deil 'Tudur' fod caethwasiaeth wedi'i phroffwydo ar linach Cham, bod nifer wedi byw fel caethion, ond bod nifer hefyd wedi cam-drin y gyfundrefn, a'r enghraifft a rydd yw agwedd y 'Babiloniaid tuag at Judah'.<sup>121</sup>

Cythraddodd hyn yr Eos, ac yn llythyr olaf yr ymrafael, lluniodd ddadl a gollfarnai'r arfer o berchen a gwneud fel y mynnir gydag unigolyn arall. Ei sylw olaf am felltith Noa yw bod dadl 'Tudur' 'mor wan [...] fel nad hawdd cael allan pa le y mae ei rym'.<sup>122</sup> Diystyrir y ddadl hon o eiddo 'Tudur' oherwydd ei hansadrwydd ac amwysedd y testun Beiblaidd.

Ymddangosodd testun Genesis 9 mewn ymrafael arall yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, fis Medi 1863, a hynny rhwng Caethiwed a Rhyddid. Mewn darn a luniwyd ar ffurf ymgom, neu'n wir, holwyddoreg, ceir Caethiwed a Rhyddid yn cyfarch ei gilydd ac yn ceisio'n daer gwrthbrofi safbwyntiau ei gilydd, mewn modd nid annhebyg i 'Tudur' a'r Eos.

Egyr y darn gyda Chaethiwed yn cyfarch ei 'hen elynes', yn cyfeirio at y rhyfel presennol lle y mae Rhyddid 'wedi ymarfogi yn [ei] erbyn', ac yn dadlau mai ofer yw ymdrechion yr 'elynes' oherwydd ei fod ef o 'drefniad dwyfol'.<sup>123</sup> Er mwyn profi hyn, aralleiria Caethiwed Genesis 9:25:

onid wyf fi o drefniad dwyfol? onid gwas gweision i'r dyn gwyn feistroli y dyn du?  
Pa fodd gan hyny, y meiddi sathru ar dir mor sanctaidd [â] thir Pleidwyr  
caethwasiaeth?<sup>124</sup>

Tosturia Rhyddid wrth Gaethiwed ac yn hytrach nag ateb ei gwestiwn, try ei sylw at y digwyddiadau yn hanes yr Iddewon a dystiai i wrthwynebiad Duw o gaethwasiaeth, megis

---

<sup>120</sup> Aled Gruffydd Jones, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993), 39. Noda Aled Jones, 'The Welsh Newspaper', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900*, cyfrol 5 (Cardiff: University of Wales Press, 2000), 17, fod cuddio hunaniaeth awdur dan ffugenw yn ymgais i warchod preifatrwydd y llythyrwr. Gan ganolbwyntio ar y diwylliant print yng Nghymru, dywed, 'The anonymity of writers was carefully preserved, at least until the 1890s, in order to help ensure equally the uniformity of the text and the privacy of the author.'

<sup>121</sup> 'Tudur', 'Caethwasiaeth a'r Beibl', 155.

<sup>122</sup> Eos Glan Twrch, 'Caethwasiaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gorffennaf 1856), 266. Gweler Pennod 4 lle ceir trafodaeth am sylwadau 'Tudur' a'r Eos mewn perthynas ag Iesu, yr apostolion, a chaethwasiaeth.

<sup>123</sup> 'Glas Welltyn', 'Dadl Rhwng Caethiwed a Rhyddid', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1863), 268.

<sup>124</sup> Ibid.

gwaredigaeth yr Hebraid o'r Aifft. Dilynir hyn gan gymysgedd o gyfeiriadaeth Feiblaidd a digwyddiadau diweddar yn hanes America. Er i Gaethiwed ddal ei dir a mynnu na ddeuai ei '[dd]eiliaid byth tan [faner Rhyddid]', gorffennir yr ymgom gyda Rhyddid yn ei gollfarnu, 'O greulon Gaethiwed, mae yn bryd iti dewi – mae Cyfiawnder wedi selio dy dynged y bydd iti ddiiflanu fel niwl y bore.'<sup>125</sup>

Crisialwyd yr agwedd wrth-gaethiwol sy'n nodweddu'r ymgom uchod gan William Rowlands mewn pregeth ganddo wrth y Methodistiaid Calfinaidd yn Utica ar 20 Ebrill 1865. Ei destun oedd 'Caethwasiaeth—Yr Affricaniaid', a dadleua 'nad ydyw Caethwasiaeth mewn un modd wedi ei gyfryngu i'r dyn du.'<sup>126</sup> Diben pwysleisio hyn yw oherwydd bod rhagfarn tuag at liw y caethion wedi bod yn rhwystr i'w rhyddhau. 'Nid pobl dduon oedd Canaan a'i hiliogaeth, ar ba rai y disgynodd melldith Noah', meddai, a deil fod hynny'n wir am yr Eifftiaid ac am 'ieuenctyd teg Prydain Fawr [a fu] ar werth yn hëolydd Rhufain'.<sup>127</sup> Dichon fod hyn yn fodd o apelio at y cof cenedlaethol a hanesyddol, gan y credid fod cyn-deidiau'r Cymry ymysg yr 'ieuenctyd teg' a fasnachwyd gynt yn Rhufain. Dengys y cyfeiriad at groen y caethion hefyd fod yr agwedd hiliol ar Felltith Cham wedi parhau'n ddylanwadol drwy gydol y Rhyfel Cartref ac ar ôl hynny, gan beri i nifer barhau i ystyried pobl groenddu'n bobl eilradd.

Fel y gwelwyd, er i rai megis 'Tudur' gasglu fod Cham wedi'i gynnwys yn y felltith gan Noa, a bod hynny felly'n cyfiawnhau caethwasiaeth gyfoes, roedd mwyafrif y trafodaethau'n dadlau mai Canaan a felltithiwyd, bod y felltith wedi'i chyflawni gyda darostyngiad y Canaaneaidd i Israel, nad oedd sôn am liw na newid lliw fel rhan o'r gosb, ac nad oedd a wnelo'r felltith ddim â'r Affricaniaid mewn gwirionedd, oherwydd eu bod yn tarddu o feibion eraill Cham.

## **Hil Cham a Hil Gomer**

Dengys y drafodaeth uchod fod mwyafrif y Cymry a gyfrannai i'r cyfnodolion, ar wahân i eithriad fel 'Tudur', yn wrth-gaethiwyr na roddent fawr o goel ar y cysylltiad rhwng melltith Noa a chaethwasiaeth America. Fodd bynnag, nid oedd yn anghyffredin i gyfranwyr gyfeirio

---

<sup>125</sup> Ibid.

<sup>126</sup> William Rowlands, 'Caethwasiaeth—Yr Affricaniaid', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mai 1865), 146.

<sup>127</sup> Ibid.



at y caethion fel ‘Teulu Cam’,<sup>128</sup> ‘hil Ham’,<sup>129</sup> a ‘meibion Ham’.<sup>130</sup> Cyfyd hyn y cwestiwn, pam fyddai’r Cymry gwrth-gaethiwol yn cyfeirio at y caethion drwy ddefnyddio ymadroddion a gamddefnyddid yn fynych gan gaeth-bleidwyr i bwysleisio’r felltith honedig ar bobl dduon?

Nododd David M. Goldenberg yn ei fonograff, *The Curse of Ham*:

the biblical text does not describe anyone as Black. Nonetheless everyone assumed that Ham was Black and that he was somehow affected by the curse of slavery. It didn’t matter whether one supported the institution of Black slavery or not, or whether one was Black or not; everyone in nineteenth-century America seemed to believe in the truth of Ham’s blackness.<sup>131</sup>

Mae’n bosibl fod Goldenberg yn gorgyffredinoli drwy ddweud y byddai pawb wedi cytuno gyda hyn, ond diau fod y cysyniad wedi’i wreiddio’n ddwfn yn y meddwl cyhoeddus. Felly, ar un wedd, roedd yr ysgrifenywyr Cymraeg yn dilyn confensiwn eu gwlad fabwysiedig wrth gyfeirio at y caethion fel hil Cham. Yn wir, yn ôl eu dealltwriaeth o darddiad dynoliaeth, roedd yr Affricaniaid yn *hanu o Cham*.

Fodd bynnag, efallai bod rheswm arall dros ddefnyddio ymadrodd a oedd mor nodweddiadol o rethreg gaeth-bleidiol, a hynny at ddibenion gwrth-gaethiwol. Roedd cyfeirio at y caethion fel plant Cham yn fodd o fynegi’r gred fod dynoliaeth gyfan yn tarddu o’r un ach. Dyna’n wir a welsant yn stori Genesis 9, sef fod dynoliaeth yn ei holl amrywiaeth yn deillio o Sem, Cham a Jaffeth.<sup>132</sup>

Rhoddodd yr amgyffred hwn am darddiad dynoliaeth sail i’r Cymry allu ymresymu eu bod yn ddisgynyddion Gomer. Roedd i’r gred hon seiliau Beiblaidd a llinach a ddeilliai’n ôl i ffug-hanes yr Oesoedd Canol. Ceid cyn gynhared â’r nawfed ganrif awduron Cymraeg yn ysgrifennu fod Gomer, mab hynaf Jaffeth, mab Noa, yn gyn-dad yr hen Frythoniaid.<sup>133</sup> Er y byddai rhai Cymry yn yr Oesoedd Canol yn mynd gam ymhellach ac yn olrhain eu llinach at

---

<sup>128</sup> E.e., Owain Mathafarn, ‘Englynion’, *Y Dyngarwr* (Awst 1843), 64.

<sup>129</sup> E.e., Dewi Emlyn, ‘Heddwch’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1853), 340.

<sup>130</sup> E.e., T. Roberts, ‘Darlith a draddodwyd yn Ebenezer, Freedom, Cattaraugus, yr 2il o Hydref, 1856, er gosod allan ychydig o lawer o ddrygedd Caethwasanaeth’, *Y Seren Orllewinol* (Mai 1858), 107.

<sup>131</sup> Goldenberg, *The Curse of Ham*, 142.

<sup>132</sup> Westermann, *Genesis 1-11*, 486.

<sup>133</sup> Gweler, er enghraifft, yr *Historia Brittonum*; Jon Morris (gol.), *Nennius: British History and the Welsh Annals* (Surrey: Phillimore & Co. Ltd., 1980), 22, 63.

Adda ac Efa, cyfeiriai mwyafrif helaeth Cymry America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg at Gomer fel cyn-dad y Cymry.<sup>134</sup>

Roedd y gred hon mor gyffredin nes i Iorthryn Gwynedd gynnwys cymal yn *Hanes Cymru America* yn datgan:

Yr wyf fi, ac y mae miloedd ereill, yn teimlo dyddordeb mawr yn *Hanes CENEDL y Cymry* yn mhob oes a gwlad, o amser *Gomer* hyd yn awr. Gen. 10. 2—5. Hyfrydwch mawr i mi, ac i bob Cymro a Chymraes cenedlgarol yw darllen eu hanes boreuol yn ngwahanol wledydd Asia Leiaf, ac yn nhir Gaul, ac yn yr Ynys Wen[.]<sup>135</sup>

Gan hynny, ymddangosodd nifer o draethodau yn y cyfnodolion yn olrhain hanes y Cymry at Gomer fab Jaffeth,<sup>136</sup> yn trafod cymeriad moesegol y Cymry,<sup>137</sup> ac yn brolio hynafiaeth a phurdeb yr iaith, gan honni 'nad oes ar wyneb y ddaear iaith hŷn nac iaith Gomer'.<sup>138</sup> Yn rhifyn cyntaf *Y Drych*, papur newydd 'cenedlaethol' y Gymru America, cyfunwyd yr holl agweddau hyn mewn traethawd yn trafod 'Hanes y Prydeiniaid hyd Laniad Iwl Caisar yn Mhrydain'.<sup>139</sup>

Er mwyn gosod yr hanes hwn yn ei gyd-destun, trafodir stori creu'r byd hyd at y Dilyw a phwysleisir y cysylltiad gyda'r Cymry'n syth drwy gyfeirio at Jaffeth, tad Gomer. Yn ogystal, ceir dyfynnu *Drych y Prif Oesoedd* (1716) er mwyn canmol gwaedoliaeth y Cymry drwy olrhain yr achau at Dduw ei hun:

I Japheth, mab hynaf Noah y ganwyd mab a'i enw Gomer; o ba un y daeth allan y Cymry, neu'r Gomeriaid fel y gelwir hwynt weithiau. Felly ni a welwn fod y Cymry o gyfuwch gwaed a bonedd [â] neb dan haul; oblegyd hiliogaeth Gomer ydynt, mab

---

<sup>134</sup> Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), 16-7.

<sup>135</sup> R. D. Thomas [Iorthryn Gwynedd], *Hanes Cymry America; a'u sefydliadau, eu heglwysi, a'u gweinidogion, eu cerddorion, eu beirdd a'u llenorion: yn nghyda thiroedd rhad y llywodraeth a'r reilffyrdd; gyda phob cyfarwyddiadau rheidiol i ymfudwyr i sicrhau cartrefi rhad a dedwyddol. Cyfrol I.* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1872), 11. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>136</sup> Megis 'Iorwerth', 'Y Gomeriaid, neu y Cymry', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mawrth 1838), 70-2; 'Iorwerth', 'Y Gomeriaid', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehefin 1838), 174-5; 'Un o Blant y Bala', 'Yr Indiaid Cymraeg', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1838), 104-6.

<sup>137</sup> Megis 'Diwygiwr', 'Y Cymry All-fudawl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehefin 1838), 165-8.

<sup>138</sup> Megis Ioan Caerloyw, "'Y Drych.'" ANERCHIAD', *Y Drych* (2 Ionawr 1851), 2.

<sup>139</sup> 'Traethawd ar Hanes y Prydeiniaid hyd Laniad Iwl Caisar yn Mhrydain', *Y Drych* (2 Ionawr 1851), 3. Nodir mai hwn oedd testun cylchwyl Cymdeithas y Cymreigyddion Caerfyrddin ac mai'r traethawd hwn a enillodd yr 'Arian-dlws'.

hynaf Japheth, mab hynaf Noah ab Lamech, ab Methusela, ab Enoch, ab Jared, ab Mahaleel, ab Cenan, ab Enos, ab Seth, ab Adda, ab Duw.<sup>140</sup>

Ar ôl digwyddiadau Babel, dywedir i'r Ddaear gael ei rhannu rhwng meibion Noa ac i Sem dderbyn Asia, Cham, Affrica, ac y rhannwyd ynnysoedd y cenhedloedd, sef Prydain ac Ewrop 'rhwng meibion Japheth'.<sup>141</sup> Cred awdur y traethawd fod y Gymraeg ymysg yr ieithoedd a leferid ym Mabel wedi'r cymysgu. Dichon fod hyn yn fodd i apelio at falchder y darllenwyr, a chyda hynny ddwyn perswâd ar rai i sicrhau eu bod yn arddel eu Cymraeg yn y Gymru America. Yn wir, cafwyd nifer o erthyglau'n mynegi'r un gri.<sup>142</sup>

Yn dilyn hyn, manylir ar ffynonellau a dystiai fod Gomer yn dad y Cymry, drachefn er mwyn rhoi sicrwydd i'r gred:

Y mae genym brawf digonol oddiwrth hen awduron cyfrifol, mai Gomer ydoedd tad y Gomeriaid, y rhai a elwid dan amryfal enwau: sef, Celtiaid, Galiaid, Galatiaid, Galograeciaid, Cymmeriaid, Cymbri, neu Gymry, &c. "Y mae'r gair Cymro (medd y Parch. Theophilus Evans, awdwr *Drych y Prif Oesoedd*, Rhif. 1. Pen. 1.) yn hysbysu yn eglur ddigon o ba le y daethom; ac nid oes ond y dim lleiaf rhwng Cymru a Gomer." Ac ni's gellir amheu nad oddiwrth y gair *Cymro* y galwyd *Cymru*, sef lle preswylfod yr hen Omeriaid[.]<sup>143</sup>

Ar sail hyn, felly, gellid awgrymu fod y Cymry'n ystyried yr Affricaniaid yn ddisgynyddion Cham a oedd yn frawd i Jaffeth, tad Gomer. Gan hynny, credent fod hil Gomer yn perthyn i'r Affricaniaid, hil Cham. Roedd y caethion, felly, yn deulu estynedig i'r Cymry. O'r herwydd, ac yn ogystal â dadleuon moesol a chrefyddol eraill, credai'r Cymry gwrth-gaethiwol fod arnynt wir ddyletswydd i ymlafnio i ryddhau'r Affricaniaid o'u caethiwed: dylai hil Gomer gynorthwyo hil Cham.

---

<sup>140</sup> Ibid. Cymharer gyda Theophilus Evans, *Drych y Prif Oesoedd, yn ddwy ran* (Croesoswallt: W. Edwards, 1795; ail argraffiad), 4-5: 'ond Gomer, mab Japhet, ap Noah, ap Lamech, ap Methufelah, ap Enoch, ap Jared, ap Mahaleel, ap Cainan, ap Enos, ap Seth, ap Adda, ap Duw.'

<sup>141</sup> 'Traethawd ar Hanes y Prydeiniaid hyd Laniad Iwl Caisar yn Mhrydain', 3.

<sup>142</sup> Megis 'Gomeriad', 'Cadw y Gymraeg', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1838), 45-7. Cynhelid cyfarfodydd er mwyn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth mewn amryw fannau yn yr Unol Daleithiau. Gweler, er enghraifft, "'Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg.'" AIL GYLCHWYL CYMDEITHAS CYMMREIGYDDION MAES-TRE' MWNWYR, (*Minersville.*), *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1838), 127-8.

<sup>143</sup> 'Traethawd ar Hanes y Prydeiniaid hyd Laniad Iwl Caisar yn Mhrydain', *Y Drych* (2 Ionawr 1851), 3. Pwyslais yn y gwreiddiol. Enwir yr 'hen awduron cyfrifol' mewn troenodyn, sef '[.....] Llywyd, [Yvez] Pezron, [.....] Lewis, [Thomas] Charles, [.....] Rowland, [.....] Davies, [.....] Gill, &c.'

A defnyddio cysyniad theori lenyddol a gysylltir gyda Stanley Fish, roedd y Cymry Americanaidd hyn, drwy gyfrwng eu cyfnodolion, yn perthyn i gymuned ddeongliadol (*interpretive community*) unigryw a gynhwysai awduron, darllenwyr a chyfranwyr:

Interpretive communities are made up of those who share interpretive strategies not for reading (in the conventional sense) but for writing texts, for constituting their properties and assigning their intentions. [...] these strategies exist prior to the act of reading and therefore determine the shape of what is read rather than, as is usually assumed, the other way around.<sup>144</sup>

Fel rhan o'r gymuned ddeongliadol honno, byddai gan ymadroddion neu eiriau ystyron unigryw. Dyna'n wir a welir gyda'r defnydd o 'hil Gomer' – gyda'i isleisiau hanesyddol, cenedlaetholgar a chrefyddol, a chyda 'hil Cham' – gyda'i agweddau cymdeithasol, gwleidyddol a chrefyddol.<sup>145</sup>

Yr hyn a oedd yn greiddiol i'r Cymry, felly, oedd bod pob person wedi'i greu ar ddelw Duw a bod pobun yn perthyn i'w gilydd, fel y crisialwyd mewn cerdd o eiddo M. D. Morgans, a oedd yn athro yn Aber Siwgr. Trafod rhagrith yr Unol Daleithiau'n parhau i arddel caethwasiaeth ond eto'n proffesu iddi fod yn 'wlad rydd' a wna'r gerdd;<sup>146</sup> ac ar yr un gwynt, cyfeirir at eironi'r Datganiad Annibyniaeth, a ddywed 'fod pawb dynion wedi eu geni yn gydradd' â'r hawl i gael '[b]ywyd, rhyddid ac erlyniad dedwyddwch.'<sup>147</sup> Buan y gogwydda'r gerdd at y dioddefaint a brofai nifer yn y taleithiau caethion; yr 'ochain y griddfan a'r gwae'.<sup>148</sup> Nodir bod yr wylo'n waeth am na all y 'Negro' ddeall sut allai'r Cymry ei adael yn ei gadwynau, oherwydd, 'Fe glywodd yn rhywle fod Cymro yn frawd'.<sup>149</sup> Dichon fod y llinell hon yn lled-ddyfyniad o 'Ai gwir a glywodd Negro tlawd / Fod plentyn Cymro iddo'n frawd[?]', o'r gerdd boblogaidd gan Benjamin Price, 'Cân y Negro Bach'. Diben lled-ddyfynnu'r cwpled oedd pwysleisio'r undod a fodolai rhwng y Cymry rhydd a'r

---

<sup>144</sup> Stanley Fish, *Is There a Text in this class?: The Authority of Interpretive Communities* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1980), 11.

<sup>145</sup> Er enghraifft, ceid ambell awdur yn arddel y ffugenw 'Gomer'; gweler, Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln*, 396-401. Enghraifft arall yw yn yr ysgrif "'Oes y Byd i'r Iaith Gymraeg.'" Ail Gylchwyl Cymdeithas Cymmreigyddion Maes-tre' Mwynwyr, (*Minersville.*), *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1838), 127-8, lle cyfeirir at y cyd-Gymru yn yr Unol Daleithiau fel 'eich Brodyr Gomeriadd'.

<sup>146</sup> M. D. Morgans, 'Cwyn y Caethion yn America', *Y Dyngarwr* (Awst 1843), 64.

<sup>147</sup> Cyfieithiad o'r *Declaration of Independence*, 'Datganiad Annibyniaeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1842), 136.

<sup>148</sup> Morgans, 'Cwyn y Caethion yn America', 64.

<sup>149</sup> *Ibid.*

caethion, yn ogystal â'r ddyletswydd a oedd arnynt i ymateb.<sup>150</sup> Galwad i'r perwyl hwn a geir gan Morgans wrth iddo gyfarch y Cymry'n uniongyrchol yn y pennill clo:

O frodyr! Hil Gomer! Bob enw a lle,  
    *Gweddiwch, dadleuwch*, dros y Negro 'n ddible,  
*Pleidleisiwch* y doethion rhinweddol y sydd  
    Am ollwng y caethion o'u carchar yn rhydd.<sup>151</sup>

Mae'r defnydd o 'frodyr' a 'Hil Gomer' uchod yn ddyfais rethregol effeithiol gan fod i'r geiriau hyn arwyddocâd eithriadol, yn atgoffa'r Cymry eu bod yn perthyn i'r caethion, gan eu bod oll yn tarddu o feibion Noa ('Hil Gomer'), ac yn awgrymu, efallai, y buasai'r Affricaniaid yn 'frodyr' yn yr efengyl, oherwydd nod arall gan nifer helaeth o'r gwrth-gaethiwr oedd sicrhau anrhegu'r caethion gyda Christnogaeth, yn ogystal â rhyddid. Yn dilyn hynny, ceir adleisio awgrymiadau Robert Everett ynglŷn â'r hyn ddylai'r Cymry ei wneud er mwyn y caethion, sef gweddïo, siarad yn gyhoeddus am yr achos, a chefnogi ymgeiswyr arlywyddol a wrthwynebai gaethwasiaeth.<sup>152</sup>

Testun diddorol arall sy'n gwneud defnydd o gysyniad 'hil Gomer' yng nghyd-destun y caethion yw 'Rhyddid', gan y Parch. J. P. Harris (Ieuan Ddu). Egyr yr ysgrif drwy ddyfynnu geiriau'r nofelydd a'r clerigwr Anglicanaidd o Iwerddon, Lawrence Sterne: 'AMERICAN SLAVERY will rouse up every affection in nature—it will kill the humane, and touch the heart of Cruelty herself with pity.'<sup>153</sup> Eir ymlaen i drafod anfoesoldeb y gyfundrefn gaethiwol gan fynegi ei bod yn 'anghyfarwydd â'r rheol Gristnogol'.<sup>154</sup> Drachefn, dyfynnir darn o waith gwrth-gaethiwr nodedig, y bardd a'r emynydd Saesneg, William Cowper:

"Canst thou, and honor'd with a Christian name,  
Buy what is woman born, and feel no shame;  
Trade in the blood of innocence, and plead  
Experience, as a warrant for the deed[.]"<sup>155</sup>

Diben y dyfyniad hwn oedd mynegi cyferbyniad rhwng gaethwasiaeth a Christnogaeth, yn ogystal â beirniadu'r sawl a alwent eu hunain yn Gristnogion ond a oedd hefyd yn berchen ar

---

<sup>150</sup> Gweler Pennod 3 isod.

<sup>151</sup> Morgans, 'Cwyn y Caethion yn America', 64. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>152</sup> Cymh. â Robert Everett, 'Beth a all y Cymry Wneud?' *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 6-7.

<sup>153</sup> J. P. Harris, 'Rhyddid', *Y Seren Orllewinol* (Tachwedd 1844), 65.

<sup>154</sup> *Ibid.*

<sup>155</sup> *Ibid.*

gaethion, neu'n fodlon goddef yr arfer honno. Darlunnir y gyfundrefn fel 'anghenfil', 'y Moloch y mae Cristion yn euog o'i bleidio', a dywedir mai 'anghyfiawnder' yw hanfod ei chyfansoddiad.<sup>156</sup> Wrth i'r ysgrif ddirwyn i ben, cyfeirir yn uniongyrchol at y darllenwyr a'u hannog at eu gwaith, 'Ymwrolwch feibion rhyddid, chwi anghydfurfwyr y gogledd'.<sup>157</sup> Crefftus yw'r chwarae gyda'r gair 'anghydfurfwyr' yma, gan y gallai olygu'r unigolion gwrth-gaethiwol a wrthwynebai'r sêl bendith yr oedd y llywodraeth ffederal wedi'i rhoi ar y taleithiau deheuol i berchnogi caethion, ynghyd â'r Cymry Anghydfurfiol yn yr Unol Daleithiau.

Cyfeirir yn ogystal at grwyn y caethion a 'rhagfarn melldigedig lliw'.<sup>158</sup> Roedd nifer yn euog o fod yn amharod i ymlafnio ar ran y caethion oherwydd bod ganddynt ragfarnau hiliol tuag at bobl o liw. Nid oedd hyn yn anghyffredin ymysg diddymwyr yr Unol Daleithiau ychwaith.<sup>159</sup> Roeddent hyd yn oed yn trin gwrth-gaethiwyr o liw mewn ffordd fymryn yn wahanol i'w cyd-ymgyrchwyr gwynion, fel y dywed Maldwyn A. Jones:

Black participation in the antislavery movement revealed a lingering racism among white abolitionists. Many treated blacks condescendingly and expressed doubts as to the expediency of mixing the races at public functions. Blacks deeply resented such treatment, complaining of an 'overseer attitude' and of the subordinate role invariably assigned them in joint activities.<sup>160</sup>

Bu meddylfryd goruchafiaeth y dyn gwyn yn llesteiriol i nifer am flynyddoedd, a dyna'n wir pam y teimlai Harris orfodaeth i feirniadu'r 'rhagfarn melldigedig'.<sup>161</sup> Drachefn, ceir chwarae gyda'r ymadrodd yma er mwyn dwyn i gof y felltith ar Cham/Canaan a'r camsyniad fod croen tywyll yn ganlyniad i'r felltith a dyngodd Noa.

Daw'r ysgrif i ben gydag un gri derfynol, fel M. D. Morgans uchod, ar i 'Blant Gomer [dddefnyddio eu] dylanwad [i bleidio'r caethion]'.<sup>162</sup>

Roedd y ddadl honno i weithredu er gwaethaf y gwahaniaeth mewn lliw croen yn un a ddaeth yn gynyddol arwyddocaol yn y cyfnodolion. Yn wir, cafwyd 'Gair at y Cymry' yn galw arnynt i gynorthwyo'r caethion oherwydd y gred, 'A oes dim teimladau gan ddynion

---

<sup>156</sup> Ibid., 66.

<sup>157</sup> Ibid.

<sup>158</sup> Ibid.

<sup>159</sup> Gweler Swartley, *Slavery, Sabbath, War and Women*, 50.

<sup>160</sup> Maldwyn A. Jones, *The Limits of Liberty: American History 1607-1980* (New York: Oxford University Press, 1988; pedwerydd argraffiad), 173.

<sup>161</sup> Harris, 'Rhyddid', 66.

<sup>162</sup> Ibid.

duon fel y gwynion? O oes yn ddiarhebu.<sup>163</sup> Pwysleisia J. T. Richards yn yr anerchiad hwn y dylai'r Cymry broffesu rhyddid i bob un waeth beth fo'i liw, oherwydd eu bod hwythau wedi cael eu hanrhegu â rhyddid wrth ddyfod i'r Unol Daleithiau. O'r herwydd, dyfynna Richards y ddihareb, 'Agor dy enau dros y mud yn achos holl blant dinystr' (Diar. 31:8), wrth gloi'r ysgrif.<sup>164</sup>

Cafwyd adleisio'r alwad hon mewn traethawd yn trafod 'Caethiwed Cymru'. Ceir awdur y traethawd hwnnw, 'Iorwerth', yn crybwyll y modd y profai'r Cymry fath o ormes yn eu mamwlad drwy orfod ufuddhau i'r Goron, talu degwm i'r Eglwys sefydliadol er bod nifer helaeth o'r genedl yn Anghydfurfwyr, a gorfod byw ar drugaredd trefeddiannwyr cefnog. Gan eu bod hwythau wedi profi math o ormes cyn iddynt ymfudo i America, gallent o leiaf gydymdeimlo gyda'r caethion yn eu cadwynau, a chan eu bod bellach mewn sefyllfa well, mae'n bosibl bod 'Iorwerth' yn awgrymu bod gan Gymry America ddyletswydd i ymlafnio i ryddhau eu cyd-ddyn.<sup>165</sup>

Felly, mae'r ymdeimlad o rwymedigaeth i gynorthwyo'r caethion yn nodweddiadol o lawer o'r Cymry am eu bod hwythau wedi profi math o ormes. Bu i'r syniad hwn frigo i'r wyneb drwodd a thro, yn enwedig ar ôl adroddiad damniol y Llyfrau Gleision (1847). Yr hyn sy'n arwyddocaol i'r bennod hon yw bod geiriau mellith Noa wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio sefyllfa'r caethion yn y taleithiau deheuol, yn ogystal â sefyllfa'r Cymry ar drugaredd boneddigion Saesneg neu Gymraeg Seisnig. Gwelir hyn mewn drama fydryddol gan R. J. Derfel, *Brad y Llyfrau Gleision*, a luniwyd er mwyn tanio'r farn gyhoeddus yn erbyn ensyniadau adroddiad damniol y Comisiynwyr.<sup>166</sup>

Mewn golygfa wedi'i lleoli mewn ystafell 'yn heol Downing', cyflwynna ysbïwr o'r enw Haman (diau fod hwn yn gyfeiriad at y cymeriad cyfrwys yn llyfr Esther) ei adroddiad am y Cymry wrth yr Arglwyddi, ac ymddengys geiriau melltgedig Noa yng nghanol y dweud:

---

<sup>163</sup> J. T. Richards, 'Gair at y Cymry', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1842), 107.

<sup>164</sup> *Ibid.*, 108.

<sup>165</sup> 'Iorwerth', 'Caethiwed Cymru', *Y Dyngarwr* (Ebrill 1843), 29-30. Trafodir y math o ormes a ddiodeffai'r Cymry yn eu mamwlad ar hyd y canrifoedd mewn erthygl a gyhoeddwyd gan 'Iorwerth' tua diwedd blwyddyn gyntaf oes *Y Cenhadwr Americanaidd*. Y gormes hwnnw, meddai, fu'r rheswm i'r Cymry ymfudo ar draws yr Iwerydd: 'Rhyddid Americanaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1840), 360-1. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw 'Iorwerth' yn crybwyll sefyllfa'r caethion wrth ddisgrifio breiniau diweddar y Cymry o gael profi'r 'Rhyddid Americanaidd'.

<sup>166</sup> R. J. Derfel, *Brad y Llyfrau Gleision* (Rhuthyn: L. Clarke, 1854).

Y Cymro! dacw fo, edrychwch arno,  
Ei waith bob dydd, chwi welwch, yw llafurio,—  
Llafurio yn y baw, â thraed a dwylaw,  
Y gwaith iselaf yn mhob man ro’ir iddaw;  
Gwas gweision ydyw—caethwas i gaethweision  
Mae yn mhob man y tlotaf o’r tylodion[.]<sup>167</sup>

Roedd defnyddio’r enwau Beiblaidd Cham a Gomer, felly, yn ffordd o gyfleu fod pobun yn perthyn i’w gilydd, ac roedd i hynny arwyddocâd amgenach. Drwy bwysleisio’r cyswllt ‘teuluol’ hwn, gellid tanlinellu’r hawliau sylfaenol a oedd gan bob un fel aelodau o’r teulu dynol. Yn y cyswllt hwn, priodol fyddai cyfeirio at sylwadau Robert Everett yn ei ysgrif ‘Beth yw Rhyddid?’ Ei farn bendant oedd bod rhyddid yn hawl i ‘bob dyn, o bob lliw, iaith a chenedl, *trwy ddwyfol roddiad*’.<sup>168</sup> Byddai amddifadu unigolion o’u rhyddid yn mynd yn groes i ewyllys Duw ac yn dwyn eu hawl sylfaenol oddi arnynt. Gwelwn yma Everett yn apelio at gydwybod Gristnogol ei ddarllenwyr wrth danlinellu ei gred fod Duw wedi creu pob bod dynol yn gydradd ac yn rhydd. Mae hyn yn adleisio geiriau enwog John Wesley, ‘Liberty is the right of every human nature, as soon as he breathes the vital air; and no human law can deprive him of that right which he derives from the law of nature.’<sup>169</sup> Yn hyn o beth, apeliodd Everett hefyd at hunaniaeth ei ddarllenwyr wrth gyfeirio at ‘[I]iw, iaith a chenedl’.<sup>170</sup>

Roedd pwyslais o’r fath yn mynd yn fwriadol groes i ragfarnau hiliol yr oes. Ystyriai amryw Ddeheuwyf fod croen gwyn yn arwyddo gallu a gwybodaeth naturiol. Arwyddai groen du, ar y llaw arall, fod y bobl hynny wedi eu tynghedu gan ragluniaeth i wasanaethu fel llafurwyr o’r radd isaf. Ond roeddent yn angenrheidiol i bob cymdeithas. Perthyn y rhain, felly, i ddsbarth ‘mudsill’, ys dywedodd James Henry Hammond, Seneddwr De Carolina.<sup>171</sup>

Er nad oedd cyfran uchel o Gymry America’n berchen ar gaethion, roedd yr ychydig a fyddai’n parhau i ymwneud â’r gyfundrefn yn destun cywilydd i amryw ddiddymwyr Cymraeg. Dyna a welir mewn llythyr gan Thomas Davies o St. Louis wrth iddo drafod ‘Caethiwed yn Missouri’: ‘Fe allai nad yw ddim yn hysbys i holl ddarllenwyr y Cenhadwr bod rhai o hil Gomer yma mor ddigywilydd [â] bod yn berchenogion caethion, ond felly y

---

<sup>167</sup> Ibid., 120.

<sup>168</sup> Robert Everett, ‘Beth yw Rhyddid?’, *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 4. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>169</sup> Dyfynnir yn John Emory (gol.), *The Works of the Reverend John Wesley, A. M.*, cyf. IV (New York: J. Emory and B. Waugh, 1831), 292.

<sup>170</sup> Everett, ‘Beth yw Rhyddid?’, 4.

<sup>171</sup> Gwelw ‘The “Mudsill” Theory’, arraith a draddodwyd wrth y Senedd gan James Henry Hammond ar 4 Mawrth 1858: <<http://www.pbs.org/wgbh/aia/part4/4h3439t.html>> (Cyrchwyd 23 Ebrill 2017).



mae'n bod. "Oh na fynegwch hyn yn Gath, ac na chyhoeddwch yn heolydd Ascelon.""<sup>172</sup>

Diben dyfynnu 2 Samuel 1:20 oedd i Thomas Davies allu mynegi ei ddieter yn groyw tuag at ei gyd-wladwyr. A dwyseir y dieter hwnnw drwy nodi mai 'rhai o hil Gomer' sy'n gweithredu yn y fath fodd. Y prif destun cywilydd, felly, oedd y ffaith fod y Cymry yn caethiwo eu teulu eu hunain.

I'r diben o geisio dwyn perswâd ar y genedl Gymraeg yn y gwasgariad i wrthwynebu caethwasiaeth, mabwysiadodd y term 'Gomer' arwyddocâd gwleidyddol hefyd. Gwelir hyn mewn cerdd a gyhoeddwyd yn ystod ymgyrch arlywyddol 1856. Erbyn hynny, roedd nifer gynyddol o hil Gomer America'n gogwyddo tuag at y Gweriniaethwyr, ac un ffordd o sicrhau denu rhagor i gefnogi ymgeisydd y blaid honno, J. C. Frémont, oedd drwy apelio at eu balchder cenedlaethol a hynafiaeth eu llinach. Yn y gerdd honno, 'Fremont a Rhyddid', galwodd J. D. Morgan, Efrog Newydd mewn modd sy'n ymylu ar fod yn rhyfelgri, ar i'r Cymry lwyr gefnogi'r Gweriniaethwyr:

O deuwch, Omeriaid, ymunwch â hon—  
Mae cariad at ryddid fel tân yn eich bron:  
Tra pery yn ddysglaer yr haul yn y ne'  
Na foed i un Cymro ymgrymu i'r De[.]<sup>173</sup>

### **Unoliaeth yr hil ddynol**

Parhawyd i arddel y gred fod dynoliaeth gyfan yn tarddu o'r un man, bod y caethion yn yr un modd â'r Cymry yn 'hil Adda [ac] yn aelodau o'r un teulu',<sup>174</sup> hyd yn oed wedi'r Rhyfel Cartref. Enghraifft ddiddorol yw traethawd a gyhoeddwyd yn rhifyn Mawrth 1868 *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, a drafodai 'Gwasanaethgarwch y Gwyddorau i Grefydd'. Cyflwyna J. W. Nichols, Utica safbwynt a aethai'n groes i'r ethnolegwyr Julien-Joseph Virey, Camille Desmoulins a Jean-Baptiste de Lamarck, a oedd yn lladmeryddion polygenesis ac a gredai fod dynoliaeth wedi'i rhannu'n amryw rywogaethau. Gan gyfeirio at unigolion megis Johann Friedrich Blumenbach, Friedrich Wilhelm Heinrich Alexander von Humboldt a James Cowles Prichard, a gredai fod unoliaeth i'r hil ddynol, cyflwyna Nichols farn a gyfunai'r syniadau 'gwyddonol' hynny gyda'i ddaliadau crefyddol:

---

<sup>172</sup> Thomas Davies o St. Louis, 'Caethiwed yn Missouri', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1856), 266.

<sup>173</sup> J. D. Morgan, 'Fremont a Rhyddid', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1856), 386.

<sup>174</sup> 'Y Gaethfasnach Americanaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1851), 141.

Nid oes amheuaeth bellach am breswylwyr crasdiroedd Affrica, trigolion gwledydd yr îa yn y Gogledd, dynion cochion tir y Gorllewin, brodorion melynndu yr India ddwyreiniol, a disgynyddion glandeg y Celtiaid yn Ewrop, nad “brodyr o’r un bru ydynt.” [...] Yr ydym yn meddwl y gallwn herio y byd i nodi un engraifft i brofi fod mysgrwy yn lluosadwy, ond gellir cael cannoedd o deuluoedd yn yr Unol Dalaethau sydd wedi bod am genedlaethau yn felynog (*mulattoes*), gan hynny y mae yn rhaid fod gwahanol genedloedd y ddaiar yn wreiddiol o’r un hiliogaeth.<sup>175</sup>

Dengys hyn, felly, fod y gred mewn tarddiad cyffredin dynoliaeth, fel a geir yn Genesis 9, mor gryf ym meddwl amryw Gymry America, fel y gallasent ymwrthod ag unrhyw ddadl neu dystiolaeth wyddonol a fyddai’n bygwth eu daliadau crefyddol.

### Casgliad

Profodd amwysedd testun Genesis 9:18-27 yn hynod ddylanwadol wrth i nifer o draddodiadau esboniadol ddatblygu ohono. Sylwyd yn y bennod hon ar rôl y traddodiad deongliadol a gysylltodd y ‘Felltith Cham’ honedig â’r Affricaniaid, a’r modd y daeth yn un o gonglfeini dadleuon Beiblaidd caeth-bleidwyr Unol Daleithiau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Esgorodd y testun hwn ar gryn drafodaeth ymysg Cymry America gan beri i’r mwyafrif gasglu mai camddehongliad oedd y darlleniad a geid ymysg caeth-bleidwyr. Serch hynny, wrth drafod llythyrau ‘Tudur’, sylwyd bod ambell Gymro Americanaidd yn parhau i barchu hawliau eiddo caethfeistri, yn llwyr grediniol nad oedd y Beibl yn condemnio caethwasiaeth, ac mai’r Affricaniaid oedd y sawl a dynghedwyd i gyflwr o ddarostyngiad parhaol.

Sylwyd hefyd y defnyddiai’r Cymry rethreg gaeth-bleidiol at ddibenion gwrth-gaethiwol. Yr arfer ymysg caeth-bleidwyr oedd cyfeirio at yr Affricaniaid fel disgynyddion Cham er mwyn tanlinellu grym y Felltith. Yn ôl dealltwriaeth y Cymry, fodd bynnag, roedd dynoliaeth gyfan yn tarddu o dri mab Noa. Yn wir, credai’r Cymry eu bod yn ddisgynyddion Gomer fab Jaffeth, ac o’r herwydd, eu bod yn perthyn i bob aelod o’r hil ddynol. Gellid awgrymu mai dyna’n wir oedd diben cyfeirio at y caethion fel disgynyddion Cham – i atgoffa’r Cymry o’u dyletswydd tuag at eu teulu estynedig yn hytrach na thanlinellu’r felltith a dyngwyd gan Noa.

---

<sup>175</sup> J. W. Nichols, ‘Gwasanaethgarwch y Gwyddorau i Grefydd’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Mawrth 1868), 83. Bu’r drafodaeth Gymraeg yn America ynglŷn â hanfodion ‘hil’ yn weddol fywiog. Gweler ymdriniaeth ddiddorol Daniel Williams o safbwynt Samuel Roberts, Llanbryn-mair am hilgymysgedd yn ‘Hil, Iaith a Chaethwasanaeth; Samuel Roberts a “Chymysgiad Achau”’, *Y Traethodydd*, 159 (2004), 92-106.

Roedd defnyddio rhethreg, testunau a dadleuon caeth-bleidiol at ddibenion gwrth-gaethiwol yn wedd ddiddorol ar weithgarwch llenyddol Cymry America, ac archwilio enghraifft arall o hynny a wneir yn y bennod nesaf wrth ystyried y defnydd a wnaed o ddeddfau'r Hen Destament ynghylch y modd y dylid trin caethion.

## Pennod 2

**‘O henffych, henffych fore clir,  
Pryd na bydd gorthrwm yn ein tir!’<sup>1</sup>**

### **Gwasg Gymraeg America, deddfau’r Pumlyfr a blwyddyn y Jiwbili**

Therefore, the fact that God expressly authorized domestic slavery, among the peculiar and temporary civil laws of the Jews, while it does not prove that it is our positive duty to hold slaves, does prove that it is innocent to hold them, unless it has been subsequently forbidden of God.<sup>2</sup>

Here [in the laws of the Pentateuch] is the authority, from God himself, to hold men and women, and their increase, in slavery, and to transmit them, as property forever; here is plenary power to govern them, whatever measure of severity it may require, provided only, that to *govern*, be the object in expressing it.<sup>3</sup>

Y mae’r ddau ddyfyniad Saesneg uchod yn nodweddiadol o’r math o ddadleuon a gyflwynid gan gefnogwyr caethwasiaeth Unol Daleithiau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn eu barn hwy, roedd y deddfau niferus yn y Pumlyfr ynghylch y modd y dylai meistr drin ei gaethion yn rhagdybio fod caethwasiaeth yn cael ei goddef, os nad yn wir, ei chaniatáu gan Dduw. Gan eu bod yn byw yn ôl y Beibl, yr oedd yn iawn iddynt hwythau, felly, gadw caethion yn yr un modd â’r Israeliaid. Canlyniad y math hwn o ymresymu oedd llunio nifer o ysgrifau, pamffledi a phregethau’n egluro hawl y meistri Americanaidd i’w caethion. Esgorodd y doreth o lenyddiaeth gaeth-bleidiol honno ar adwaith gan y gwrth-gaethiwywr wrth iddynt gyflwyno’u dehongliadau eu hunain o deddfau’r Pumlyfr.<sup>4</sup> Ac yn wir, roedd Cymry America ymysg y garfan hon i ymateb.

Er mwyn deall y modd y defnyddiwyd deddfau’r Pumlyfr gan y ddwy ochr yn y drafodaeth am gaethwasiaeth, y mae gofyn craffu’n ofalus ar y testun Beiblaidd. Ystyrir yn gyntaf y deddfau a geir yn Exodus a Deuteronomium, cyn trafod prif destun y bennod hon, Lefiticus 25, a deddf blwyddyn y Jiwbili.

---

<sup>1</sup> ‘Preswyllydd Cwr yr Anialwch’, ‘Caethiwed’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1845), 214.

<sup>2</sup> Robert L. Dabney, *A Defense of Virginia, and through her, of the South, in Recent and Pending Contests against the Sectional Party* (New York: E. J. Hale & Son, 1867), 116.

<sup>3</sup> Thornton Stringfellow, *Scriptural and Statistical Views in Favor of Slavery* (Richmond, VA: J. W. Randolph, 1856; pedwerydd argraffiad gydag ychwanegiadau), 33. Pwyslais yn y gwreiddiol

<sup>4</sup> Er enghraifft, Isaac Allen, *Is Slavery Sanctioned by the Bible?* (Boston, MA: American Tract Society, 1860).

## Caethwasiaeth am Gyfnod

Yn Exodus 21:2-11 a Deuteronomium 15:12-18, ceir casgliad o ddeddfau yn nodi hyd cyfnod caethiwed yr ‘Hebreaid’. Gan fod amrywiadau nodedig rhwng testunau Exodus a Deuteronomium, trafodir y ddau yn unigol.

Ceir ymdriniaeth gyfreithiol gyntaf yr Hen Destament o bwnc caethwasiaeth ar ddechrau’r adran a elwir yn Llyfr y Cyfamod (Ex. 20:19-23:33), ac yn rhan gyntaf cyfres o ddeddfau achosol y משפטים. Mae lleoliad y deddfau, ar ddechrau corff arwyddocaol o ordinhadau, yn anghyffredin i gymharu gyda chodau cyfreithiol eraill yr hen Ddwyrain Agos.<sup>5</sup> Mae’n bosibl fod y deddfau hyn wedi’u cynnwys tua’r dechrau oherwydd ei fod yn bwnc amserol i’r Hebreaid, gan eu bod, yn ôl cronoleg llyfr Exodus, newydd gael eu harwain o gaethiwed yn yr Aifft.<sup>6</sup> Wrth gwrs, mae’r ffaith fod yr Hebreaid yn deddfu sut i drin caethion a hwythau newydd fod mewn caethiwed yn ymddangos braidd yn barodocsaidd ond testun trafod ar gyfer astudiaeth arall yw hwnnw.

Fel y gwyddys, roedd nifer o ffyrdd y deuai pobl yn gaeth yn yr hen Ddwyrain Agos. Cymerwyd carcharorion rhyfel yn gaethion,<sup>7</sup> byddai’r sawl a anwyd gan gaethferch yn gaeth o’r crud,<sup>8</sup> a gallai rhai troseddwr gael eu dedfrydu i gaethiwed fel cosb.<sup>9</sup> Ond yr achos mwyaf cyffredin, yn ôl I. Mendelsohn, oedd dyled a chyni ariannol.<sup>10</sup>

Mewn cymdeithas lle roedd amaethyddiaeth yn brif ddiwydiant trwch helaeth y boblogaeth, byddai tywydd gwael neu dir anffrwythlon yn peri i nifer orfod cymryd benthyciadau. Canlyniad hynny’n aml oedd y byddai’r benthyciwr yn methdal ac yn gorfod naill ai werthu aelod o’i deulu, neu ef ei hun, i’r echwynnwr a chyflawni cyfnod o gaethwasanaeth er mwyn gwneud iawn am y ddyled. Yr un oedd y canlyniad i unigolyn tlawd

---

<sup>5</sup> ‘Slave laws end rather than begin the Laws of Hammurabi (§§278-82), and the Laws of Eshnunna place its most substantial slave laws at the end (§49-52). Middle Assyrian laws only rarely deal with slaves at all.’ Joe M. Sprinkle, ‘Law and Narrative in Exodus 19-24’, *Journal of the Evangelical Theological Society*, 47, rhif 2 (2004), 244.

<sup>6</sup> Duane A. Garrett, *A Commentary on Exodus* (Grand Rapids, MI: Kregel Publications, 2014), 496.

<sup>7</sup> Er enghraifft, Gen. 14:12-24; Num. 31:9, 18; Deut. 21:10-14; 1 Sam. 30:3; 1 Bren. 20:39; 2 Bren. 5:2.

<sup>8</sup> Er enghraifft, Gen. 14:4; 17:12, 23, 27; Ex. 21:4-5; Lef. 22:11; 25:45-46; Jer. 2:14; CH 171.

<sup>9</sup> Er enghraifft, Ex. 22:22; CH 24-5; LI 35.

<sup>10</sup> I. Mendelsohn, *Slavery in the Ancient Near East: A Comparative Study of Slavery in Babylonia, Assyria, Syria, and Palestine from the middle of the third millennium to the end of the first millennium* (Westport, CT: Greenwood Press, Publishers, 1978; adargraffiad), 23: ‘Although slaves were recruited from various indigenous and foreign sources, the basic supply source for the ever mounting number of slaves in the Ancient Near East was the native debtor, for insolvency inevitably led to the debtor’s enslavement.’

nad oedd o reidrwydd yn ddyledus, ond nad oedd ganddo'r gallu ychwaith i'w gefnogi ei hun na'i deulu.<sup>11</sup> Y sawl a aethai'n gaeth oherwydd cyni ariannol neu ddyled a drafodir yn Exodus 21:2-6 a Deuteronomium 15:12-18.

Yr hyn sy'n cymhlethu'r drafodaeth yw nad yw'r Hen Destament fel petai'n gwahaniaethu rhwng gwahanol fathau o gaethwasiaeth gan ei fod yn defnyddio'r un term ar gyfer pob math o gaethwas, sef עֶבֶד.<sup>12</sup> Fodd bynnag, ceir gwahaniaethu rhwng y brodorion a syrthiodd yn gaeth a'r caethion o'r cenhedloedd.<sup>13</sup> Gan hynny, mae modd rhannu'r gwahanol fathau o gaethion a drafodir yn neddfau'r Pumllyfr i ddau gategori cyffredinol. Yn gyntaf, ceir Israeliaid a syrthiodd i gaethiwed. Gellir adnabod y rhain gan fod y testunau Beiblaidd yn dueddol o ychwanegu'r term עֶבֶרִי (Hebrëig) yng nghyd-destun yr עֶבֶד, a phwysleisir mai cyflwr dros dro yw eu caethwasiaeth i fod. Yr ail gategori yw'r caethion o estroniaid a oedd i fod yn gaethion parhaol, ac a ystyrid yn ddim mwy na 'chaethion o declynnau' (*chattel slaves*).<sup>14</sup> Y caethion sy'n perthyn i'r categori cyntaf yw pwnc Exodus 21:2-6.

## Exodus 21:2-11

Ceir yn llyfr Exodus stori fawr gwaredigaeth yr Hebreaid o wlad Yr Aifft – stori a gynigai gysur a gobaith i'r caethion Affricanaidd yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y Duw a waredodd yr Hebreaid a fuasai'n sicrhau rhyddid iddynt hwythau. Fodd bynnag, ceir yn yr un llyfr ddeddfau ynghylch sut i drin caethion.<sup>15</sup> Ond fel y sylwyd eisoes, y farn gyffredin

---

<sup>11</sup> Cyfeirir at unigolion yn mynd i gaethiwed oherwydd argyfwng economaidd neu dlodi yn Lef. 25:39; Deut. 15:12; 28:68; Es. 50:1; Amos 2:6; 8:6, a chyfeirir at rieni'n gwerthu eu plant i gaethiwed yn Ex. 21:7; 2 Bren. 4:1; Neh. 5:2, 5.

<sup>12</sup> Raymond Westbrook, 'Slave and Master in Ancient Near Eastern Law', *Chicago-Kent Law Review*, 70, rhif 4 (June 1995), 1640.

<sup>13</sup> Fodd bynnag, nid yw pob ysgolhaig yn derbyn y dylid gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd rhwng y gwahanol fathau o gaethwasiaeth. Er enghraifft, cred William H. C. Propp, *Exodus 19-40: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2006), 188: 'Unlike many moderns who have deeply investigated the phenomenon of ancient Near Eastern slaves (e.g., Cardellini, Chirichigno), I do not think that it is valid to insert distinctions among various types of slaves that the biblical text itself does not make – i.e., to suppose that some laws refer only to debt-slaves and others to bought slaves. I read the laws as broadly as possible.' Diau na ddylid creu gwahaniaethau nad ydynt yn y testun Beiblaidd, ond er mwyn y drafodaeth bresennol, gwahaniaethir rhwng y caethion Hebreig, yr Israeliaid a oedd yn gaeth gan amlaf oherwydd dyled neu dlodi, a'r caethion o estroniaid, a ddygwyd neu a brynwyd, neu a oedd yn hanu o wledydd eraill.

<sup>14</sup> S. Greengus, *Laws in the Bible and in Early Rabbinic Collections: The Legal Legacy of the Ancient Near East* (Eugene, OR: Cascade Books, 2011) 86-7.

<sup>15</sup> Ceir hefyd yn y llyfr hwn grybwyll y caethion yn y Deg Gorchymyn wrth restru'r sawl sydd i fwynhau'r Saboth (Ex. 20:10; Deut. 5:14) ac wrth restru 'eiddo' cymydog na ddylid ei chwennych (Ex. 20:17; Deut. 5:21).

ymsg ysgolheigion yw mai unigolion a orfodwyd, oherwydd tlodi neu ddyled, i werthu eu hunain neu aelod o'u teulu i gaethiwed yw'r rhai a ganolbwyntir arnynt yn Exodus 21:2-11. Ar un olwg, felly, cynnig cymorth i'r anghenus drwy eu cymryd yn weithwyr domestig oedd diben y deddfau hyn. Ond ar y llaw arall, fel y dealla rhai, cyfle i elwa a chael llafur rhad ydoedd.<sup>16</sup>

Caiff y caethwas yn Exodus 21:2-6 ei alw'n 'Hebrëwr' yn hytrach nag 'Israeliad'. Mae cryn drafod ymsg ysgolheigion yr Hen Destament ynglŷn ag union ystyr עבֵרִי a'i berthnasedd i bobloedd a enwir mewn testunau o gymdeithasau eraill yr hen Ddwyrain Agos.<sup>17</sup> Serch hyn, gellir deall y term fel un a wahaniaethai rhwng yr Israeliaid a syrthiai'n gaethion, a'r caethion a ddaethai o wledydd eraill, ac felly, egluro'r amodau arbennig a oedd gan y caethwas o Israeliad. Yn ogystal, y mae'r dewis o dermau'n arwyddocaol, yn ôl A. C. Phillips, er mwyn atgoffa'r Israeliaid o'u caethiwed yn yr Aifft (lle cawsent eu galw'n 'Hebreaid') ac felly ddarbwylllo'r genedl na ddylent, yn ddelfrydol, fyw dan iau eu cydwladwyr gan eu bod oll yn atebol i Yahweh, yr un a'u dygodd o'r Aifft.<sup>18</sup> Fodd bynnag, roedd yn anochel y byddai rhai'n syrthio'n gaeth ac felly diben y ddeddf hon oedd sicrhau mai caethwasiaeth dros dro a fyddai'r 'Hebrëwr' yn ei phrofi.

Yr oedd y caethwas i wasanaethu am chwe blynedd ac yna gael ei ryddhau yn y seithfed heb orfod talu. Nid oedd y gaethferch, fodd bynnag, i fynd yn rhydd.<sup>19</sup> Os daeth y

---

<sup>16</sup> Garrett, *A Commentary on Exodus*, 496.

<sup>17</sup> Caiff y term עבֵרִי ei ddefnyddio'n gyson yn yr Hen Destament, er enghraifft, er mwyn cyferbynnu'r Israeliaid â'r Eifftiaid (Gen. 39:14; 41:12; 43:32; Ex. 1:15-22; 2:1, 6; 3:18) a'r Philistiaid (1 Sam. 4:6; 13:3; 14:11). Mewn cyfnod diweddarach, daeth 'Hebreig' i olygu 'Iddewig' (Jer. 34:9). Gweler Brevard S. Childs, *The Book of Exodus: A Critical, Theological Commentary* (Philadelphia, PA: Westminster Press, 1974). Mae'r drafodaeth am y term wedi bod yn fywiog; am ragor o fanylion gweler, e.e., M. Greenberg, *The Hap/biru* (New Haven, CT: American Oriental Society, 1955); S. Paul, *Studies in the Book of the Covenant in the Light of Cuneiform and Biblical Law* (Leiden: E. J. Brill, 1970), 46; Niels P. Lemche, "'Hebrew Slave': Comments on the Slave Law Ex xxi 2-11", *VT*, 25 (1975), 129-44; Idem., 'Andurārum and Mīšarum: Comments on the Problem of Social Edicts and their Application in the Ancient Near East', *JNES*, 38, rhif 1 (January 1979), 11-22; Navid Na'aman, 'Hābiru and Hebrews: The Transfer of a Social Term to the Literary Sphere', *JNES*, 45 (1986), 271-88.

<sup>18</sup> A. C. Phillips, 'The Laws of Slavery: Exodus 21.2-11', *JSOT*, 30 (1984), 51-66.

<sup>19</sup> Mae llawer wedi canmol y ddeddf hon fel un ddyngarol oherwydd ei bod yn rhoi cyfyngiad ar hyd caethiwed yr Hebrëwr. Ond y mae Hector Avalos wedi dadlau bod deddf 17 CH yn cynnig amodau tecach nag Exodus. CH 117: 'If an obligation came due against a seignior and he sold (the services of) his wife, his son, or his daughter, or he has been bound over to service, they shall work (in) the house of their purchaser or obligee for three years, with their freedom reestablished in the fourth year.' Cyfieithiad J. B. Pritchard, *ANET* (Princeton, NJ: Princeton University Press, 1955; ail argraffiad), 170-1. Diddorol yw nodi nad yw CH yn cyfeirio at y sawl a werthwyd fel 'caethion', fel y dywed Carolyn Pressler, 'Wives and Daughters, Bond and Free: Views of Women in the Slave Laws of Exodus 21.2-11', yn Victor H. Matthews, Bernard M. Levinson a Tikva Frymer-Kensky (goln), *Gender and Law in the Hebrew Bible and the Ancient Near East* (Sheffield: Sheffield Academic

caethwas i dŷ ei feistr gyda gwraig, byddai hithau'n cael ei rhyddhau yn y seithfed flwyddyn, ond os rhoddwyd gwraig iddo a'i bod hithau wedi esgor ar blant, ni fyddai'r wraig na'r plant yn dilyn y caethwas yn rhydd oherwydd mai eiddo'r meistr oeddent (Ex. 21:3-4).<sup>20</sup> Gan na châi'r wraig na'r plant fynd yn rhydd, gellid awgrymu bod hon yn ffordd o glymu caethwas egwyddorol wrth aelwyd ei feistr. Pe byddai'r caethwas yn mynd yn rhydd ac yn gadael ei wraig, byddai hynny, meddai Brevard S. Childs, wedi mynd yn groes i'r disgwyl i ddyd 'lynu wrth ei wraig' (cf. Gen. 2:24; Math. 19:6), ac wedi amharchu cysyniad priodas.<sup>21</sup>

Gallai'r caethwas ddewis aros gyda'i feistr hefyd oherwydd na theimlai y gallai ymdopi'n economaidd nac yn gymdeithasol ar ei ben ei hun. Yn yr achosion hynny, datganai'r caethwas ei fod 'yn caru' ei feistr, ei wraig a'i blant, byddai'n cael ei ddwyn 'at Dduw', at ddrws neu gilbost a chael tyllu ei glust gyda mynawyd.<sup>22</sup> Byddai'r caethwas wedyn yn gwasanaethu 'am byth'.

Fel y nodwyd eisoes, ni fyddai'r gaethferch yn mynd yn rhydd yn yr un modd â'r caethwas, ond ceir yn Exodus 21:7-11 ymdrin ag achos yr אִמָּה, sef merch a werthwyd gan ei thad. Fel rheol, ni châi fynd yn rhydd ar ôl 6 blynedd, ond roedd amodau a allai beri iddi gael ei gollwng o'i 'chaethiwed' (Ex. 21:8-10).<sup>23</sup> Dywed rhai, fodd bynnag, nad oedd sefyllfa'r

---

Press, 1998), 152. Yn ôl CH, byddai unigolyn yn treulio hanner yr amser mewn caethiwed i gymharu gyda sefyllfa'r Hebrëwr, ac mae'r modd y trinnid caethion estronol yn debycach i'r modd y trinnid caethion brodorol. Mae hyn yn cyferbynnu â'r Hen Destament sy'n nodi y dylai caethion o wledydd eraill aros yn gaeth am byth a hyd yn oed gael eu trosglwyddo'n etifeddiaeth (Lef. 25:44-46). Yn hyn o beth, gellid awgrymu fod y ddeddf Hebreig yn cynrychioli, fel y dywed Avalos, 'a regression compared to the CH insofar as limits of servitude are concerned.' Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011), 77.

<sup>20</sup> Ceir amodau nid annhebyg yn neddfwriaeth Ur-Nammu, lle trafodir priodas rhwng dau gaeth: 'If a male slave marries a female slave, his beloved, and that male slave (later) is given his freedom, she/he will not leave (or: be evicted from?) the house.' Deddf Ur-Nammu 4. Cyfieithiad Martha T. Roth, *Law Collections from Mesopotamia and Asia Minor* (Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 1997; ail argraffiad), 17.

<sup>21</sup> Childs, *Exodus*, 468.

<sup>22</sup> Mae'r ddefod o dyllu'r glust wedi cael ei dehongli mewn nifer o ffyrdd. Gweler C. Houtman, *Exodus: Volume 3* (Leuven: Peters Publishers, 1999) 116-21, a V. Horowitz, "His Master Shall Pierce His Ear with an Awl" (Exodus 21:6): Making Slaves in the Bible in Light of Akkadian Sources', *American Academy for Jewish Research*, 58 (1992), 47-77.

<sup>23</sup> Childs, *Exodus*, 469. Cyniga Dorah O'Donnell Stell, 'Exodus', yn Carol A. Newsom & Sharon H. Ringe (goln), *The Women's Bible Commentary* (London: SCM Press, 1992), 34, ddadansoddiad ffeministaidd o'r deddfau, a chasglu eu bod yn fodd o sicrhau na fyddai'r ferch yn berson annibynnol: byddai'n wastad yn bodoli dan iau ei gŵr, ei meistr neu'i thad. Bu'r gwahaniaethu rhwng y caethwas a'r gaethferch yn destun trafod ers blynnyddoedd. Awgrym M. Noth, *Exodus: A Commentary* (cyfieithiad J. S. Bowden; Philadelphia, PA: Westminster Press, 1962), 177, yw y gallai'r gwahaniaethu ddeillio o'r gred mai dynion yn unig a oedd yn *bohl* ac mai *eiddo* oedd y merched. Deil G. von Rad, *Deuteronomy: A Commentary* (cyfieithiad Dorothea Barton; Philadelphia, PA: Westminster Press, 1966), 107, fod Exodus 21:2 yn ymwneud â chaethiwo tîrffeddiawyr oherwydd dyled; gan na châi merched ym more oes Israel fod yn berchen ar eiddo, ni fyddent wedi eu cynnwys



אָמַר yn un wael oherwydd bod ganddi hawliau arbennig a fyddai'n gofalu na chawsai ei cham-drin na'i hecsbloetio'n rhywiol.<sup>24</sup> Yn y cyswllt hwn, cred Walter C. Kaiser, Jr. y câi'r ferch ei gwerthu gan ei thad, nid i gaethiwed, ond ar gyfer priodas.<sup>25</sup>

### Deuteronomium 15:12-18

Ceir adolygu ac ymhelaethu deddfau caethion Exodus 21:2-11 yn Deuteronomium 15:12-18.

Mae'n arwyddocaol bod y fersiwn hon o ddeddfau parthed caethion i'w chael yn syth ar ôl deddf y flwyddyn Sabothol. Cynlluniwyd y flwyddyn Sabothol er mwyn lliniaru sefyllfa'r Israeliaid a fyddai'n benthyca gan eu cydwladwyr, oherwydd byddai'r holl ddyledion a gasglwyd yn ystod y chwe blynedd ddiwethaf yn cael eu 'dileu' (שָׁמַטָה) yn y seithfed flwyddyn (Deut. 15:1-3). Bob saith mlynedd, yn yr un modd, byddai'r holl ddyledwyr a orfodwyd i gaethwasiaeth yn cael eu rhyddhau (Deut. 15:12-18; cf. Ex. 21:2-

---

yn y ddeddf am na fyddent wedi eu gorfodi i gaethiwed oherwydd dyled. Cred A. C. Phillips, 'The Laws of Slavery: Exodus 21.2-11', *JSOT*, 30 (1984), 61, mai diben deddf rhyddhau'r caeth oedd adfer lle'r Israeliaid fel aelod llawn o'r gymdeithas; gan nad oedd merched yn aelodau llawn o gymuned y Cyfamod, ni chawsent eu cynnwys yn y ddeddf. Mae eraill, megis Dale Patrick, *Old Testament Law* (Atlanta, GA: John Knox Press, 1985), 71, wedi casglu mai unig ddiben gwerthu'r ferch oedd er boddhad rhywiol ei phrynwr ac, efallai, ei ddarparu â phlant. Difyr yw craffu ar ddadl Carolyn Pressler, 'Wives and Daughters', 162, yn enwedig. Deil mai merch yn cael ei gwerthu gan ei thad er mwyn dod yn ordderchwaig gyfreithlon i'r meistr yw'r hyn a geir yn Exodus 21:7-11. Wedi cydnabod fod Exodus 21:2-6 wedi'i chyfeirio'n arbennig at ddynion y gymdeithas, cyflwyna Pressler ddadl amgenach drwy nodi ei bod yn bosibl fod yr עַבְדָּ עִבְרִי yn cynnwys rhai benywod yn ogystal. Mae'n dilyn U. Cassuto a ddywed yn *A Commentary on the Book of Exodus* (cyfieithiad Israel Abrahams; Jerusalem: Magnes Press, 1967), 266, 'The term "Hebrew slave" in v.2, according to the plain meaning of the verse, includes also the bondwoman, and the law in regard to her is the same as that for the male slave.' Cred Cassuto mai'r hyn a geir yn Ex. 21:7-11 yw merch yn cael ei gwerthu gan ei thad i fod yn wraig gyfreithlon i'w meistr (t. 268). Mae Pressler yn cydnabod fod adnodau 3 a 7 yn cyfeirio'n arbennig at ddynion, gan y byddai'r merched yn dilyn eu gwŷr, neu'n ufuddhau i'w tadau i fynd i'w caethiwed. Fodd bynnag, deil Pressler y byddai'r weddw a'r benywod eraill nad oedd ganddynt ddyn i ofalu amdanynt, yn wan yn economaidd ac yn gymdeithasol, ac y buasant mewn mwy o berygl o gael eu caethiwo o'r herwydd. Gan hynny, a chan fod y ferch yn cael ei thrin yn yr un modd â'r dyn yn y deddfau ynglŷn â chaeth yn marw dan law'r meistr (Ex. 21:20) neu'n dioddef anaf (Ex. 21:26-7), cred Pressler y byddai'r fenyw yn y sefyllfa yma'n cael mynd yn rhydd yn y seithfed flwyddyn, yn yr un modd â'r caethwas; 'Wives and Daughters', 167-72. Gellid ymateb i'r awgrym hwn gan Pressler drwy holi, os oedd y fenyw mewn sefyllfa mor wan cyn ei chaethiwed, pa obaith, mewn gwirionedd, fyddai ganddi i fyw'n annibynnol unwaith iddi gael ei rhyddhau ar ôl chwe blynedd? Yn wir, deil Garrett, mai diben pennaf deddf yr אָמַר oedd sicrhau sefydlogrwydd iddi gan na fyddai ganddi unman i fynd ar ôl ei chaethiwed. Yn enwedig, felly, oherwydd bod yna berygl gwirioneddol y byddai'n syrthio i fagl puteindra er mwyn goroesi. Yn gyferbyniol i hyn, disgwyliad i'r dynion allu cael gwaith a modd i'w cefnogi eu hunain yn weddol fuan ar ôl cael eu rhyddhau. Garrett, *Exodus*, 497-8.

<sup>24</sup> Er enghraifft, Greengus, *Laws in the Bible*, 88; Cassuto, *Exodus*, 268.

<sup>25</sup> Walter C. Kaiser, Jr., *Toward Old Testament Ethics* (Grand Rapids, MI: Zondervan: 1991), 99.

11).<sup>26</sup> Diben y ddeddf, felly, oedd adfer cydraddoldeb ymysg trigolion Israel a rhoi'r cyfle i'r bobl hynny a aeth i drafferthion ariannol ac a golodd eu heiddo a'u rhyddid gychwyn eto.<sup>27</sup>

Ceir nifer o ddatblygiadau yn y fersiwn hon o ddeddfau, yn arbennig felly, o ran yr amodau sut y dylid trin caethion. Sylwer y caiff y gaethferch Hebreig (עבֵרִיָּה) yn ogystal â'r caethwas eu rhyddhau ar ôl cwblhau chwe blynedd o wasanaeth neu gael dewis aros mewn caethiwed am byth. Mae'n ddadlennol fod y caethwas a'r gaethferch yn cael eu galw'n gydwladwyr yma, a hynny er mwyn atgoffa'r meistri eu bod yn atebol i'r un Duw â'r caethion.<sup>28</sup>

Sylwn mai trafod yr עבֵרִיָּה a wneir yn y ddeddf hon ac nid yr אָמָה, felly, gellid awgrymu mai math tra gwahanol o 'gaethferch' a geir yn Exodus 21:7-11 i gymharu gyda'r עבֵרִיָּה yma. Rheswm posibl am y newid mewn terminoleg yn ôl Ginzberg, oedd bod merched yn y cyfnodau cynharaf yn dueddol o gael eu defnyddio ar gyfer gordderchaeth, ond wrth i'r gyfraith Iddewig ddatblygu, daethpwyd yn fwyfwy gwrthwynebol i'r arfer o ecsbloetio merched yn y fath fodd.<sup>29</sup>

Cred Phillips fod cynnwys merched yn rhan o arloesedd Deuteronomium. Roedd ganddynt hwythau, bellach, gyfrifoldeb cyfreithiol yn Israel. Er y byddai iawndal am unrhyw anfadwaith a wnaed tuag at y ferch yn cael ei thalu i'r dyn a oedd yn 'warcheidwad' arni (Deut. 22:29), byddai'r ferch, mewn cyd-destunau eraill, yn cael ei thrin yn gydradd â'r dyn yng ngolwg y gyfraith (Deut. 5:21; 7:3; 17:2-5; 22:22).<sup>30</sup>

Disgwyliid rhyddhau'r caethion yn ystod y seithfed flwyddyn ac fe ymddengys fod Deuteronomium yn fwy parod nag Exodus i annog y caethion i fynd yn rhydd drwy ddweud na ddylai'r meistri ganiatáu i'r caethion ymadael yn waglaw. Dylai eu hanrhegu gyda 'chynysgaeth hael [o'i] ddefaid [a'i] lawr dyrnu [a'i] winwryf,' er mwyn galluogi'r newydd-

---

<sup>26</sup> Byddai'r chwe blynedd yn cael ei chyfri o'r ennyd y daethai'r unigolyn i gaethiwed. Erbyn deddf gyfatebol Deuteronomium, fe ymddengys fod blwyddyn rhyddhau'r caeth yn flwyddyn sefydlog a neilltuwyd i ddigwydd bob saith mlynedd. Gweler E. W. Davies, *Prophecy and Ethics: Isaiah and the Ethical Tradition of Israel* (Sheffield: JSOT Press, 1981), 72; Phillips, 'The Laws of Slavery', 104-6; A. D. H. Mayes, *Deuteronomy: Based on the Revised Standard Version* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 1981), 250. Serch hyn, ceir anghytuno gan rai ysgolheigion a ddywed nad oedd yna flwyddyn sefydlog er mwyn rhyddhau'r caethion. Dywed Richard D. Nelson, *Deuteronomy: A Commentary* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2002), 198, er enghraifft, 'Deuteronomy itself does not intend that manumission take place at the same time as the debt remission.'

<sup>27</sup> Davies, *Prophecy and Ethics*, 71.

<sup>28</sup> Gellir cymharu hyn gyda Job 31:13-15: 'Os diystyrais achos fy ngwas neu fy morwyn pan oedd ganddynt gŵyn yn fy erbyn, beth a wnaeth pan gyfyd Duw? Beth a atebaf pan ddaw i'm cyhuddo? Onid ef a'n gwnaeth ni'n dau yn y groth a'n creu yn y bru?' Gweler F. C. Fensham, 'Widow, Orphan and the Poor in Ancient Near Eastern Legal and Wisdom Literature', *JNES*, 21 (1962), 129-39.

<sup>29</sup> E. Ginzberg, 'Studies in the Economics of the Bible', *Jewish Quarterly Review*, 22 (1932), 348.

<sup>30</sup> Phillips, 'The Laws of Slavery', 102.

ryddedig i ailsefydlu yn y gymdeithas. Er mwyn i'r meistr annog i'r caethion fynd yn rhydd, mae Deuteronomium 15:15 yn ei atgoffa o gaethiwed yr Hebreaid yng ngwlad yr Aifft a bod Yahweh wedi eu rhyddhau.<sup>31</sup> Pan fyddent yn ymadael, dywed y ddeddf na ddylai'r meistr edliw i'r caethion eu rhyddid oherwydd bod y gwasanaeth a gawsai ganddynt 'yn werth dwywaith tâl gwas cyflog', a byddai Yahweh yn bendithio'r meistr am ei weithred (Deut. 15:18).<sup>32</sup>

Serch hyn, mae'r ddeddf yn cydnabod y gallai unigolyn deimlo'n fwy diogel ar drugaredd ei feistr, yn hytrach nag ar drugaredd y gymdeithas ac felly, câi aros yn y cyflwr caethiwus hwnnw pe dymunai. Yn wahanol i Exodus, nid oes crybwyll statws priodasol y caeth na'u plant, felly mae'n ddichonadwy y buasent hwythau'n cael eu rhyddhau gyda'r caeth. Ond os oedd y caeth yn dewis aros, eu hoffter o'r meistr, yr aelwyd a'u sefyllfa yno fyddai'r rhesymau dros wneud hynny.<sup>33</sup> Drachefn, er mwyn gwneud y caethiwed yn barhaol, tyllid clust y caethion (Deut. 15:17).<sup>34</sup>

## Curo'r Caeth

Disgrifir achos yn Exodus 21:20-21 pan fo meistr yn curo'i gaethion â ffon. Hon oedd y ffordd fwyaf cyffredin o ddisgyblu'r caethion, yn enwedig pan na fyddent yn cyflawni eu dyletswyddau'n ddigonol (cf. Diar. 10:13; 13:24). Ond gan nad oedd y meistr i fod i guro'r caeth yn rhy galed, ceir yn y deddfau hyn ofalu am y caeth yn wyneb y fath drais.<sup>35</sup>

Os oedd y caeth yn marw yn y fan a'r lle, yr oedd y meistr i gael ei 'gosbi', ond os oedd y caeth 'yn byw am ddiwrnod neu ddau', nid oedd y meistr i gael ei 'gosbi oherwydd ei

---

<sup>31</sup> Difyr yw nodi yr atgoffir yr Israeliaid yn llyfr Exodus o'u caethiwed yn yr Aifft wrth grybwyll y cyfrifoldeb a oedd gan y genedl etholedig i ofalu am y גר yn eu plith (Ex. 22:21; 22:9).

<sup>32</sup> Dylid nodi fod yna anghytuno ynglŷn ag union ystyr yr Hebraeg מִשְׁנֵה. Meddai J. A. Thompson, *Deuteronomy: An Introduction and Commentary* (London: Inter-Varsity Press, 1974), 191: 'The term translated double in AV and half in RSV in Hebrew *mišneh*. It was probably a technical term meaning "equivalent to". In other words the service of an Israelite was equivalent to what would be paid for a hired servant.'

<sup>33</sup> M. Weinfeld, *Deuteronomy: Deuteronomy and the Deuteronomistic School* (Winona Lake, IN: Oxford University Press, 1992; adargraffiad), 282.

<sup>34</sup> Ynghyd â'r ddeddf a geisiai liniaru sefyllfa'r tlawd a'r dyledus, ceir yn y Pumllyfr nifer o orchmynion gyda'r egwyddor hon yn sylfaen iddynt, megis yr un a waharddai usuriaeth ymysg yr Israeliaid (Deut. 23:20). Gallai hepgor llog ar fenthyciadau liniaru sefyllfa'r dyledus, ond ni allai sicrhau na fyddent yn cwmpo i gaethiwed. Roedd y ddeddf Feiblaidd yn cyfateb i gymdeithasau eraill yr hen Ddwyrain Agos a geisiai reoli'r cyfraddau llog a godwyd ar fenthyciadau, er enghraifft, deddfau Eshnunna 18a, 19-21 a CH 50. Gweler Greengus, *Laws in the Bible*, 105 am drafodaeth bellach. Ynghyd â hyn, ceisiodd y deddfau ofalu am y tlawd a'r anghenus drwy gyfyngu ar y math o eiddo y gallai'r echwynnw'r ei gymryd yn wystl am fenthyciad (Ex. 22:25-7; Deut. 24:6, 10-13, 17).

<sup>35</sup> J. Gerald Janzen, *Exodus* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 1997), 164.

eiddo ef ydyw' (Ex. 21:21). Gosodwyd y ddeddf hon ar wahân i'r deddfau am ladd pobl rydd oherwydd nad oedd y caeth yn berson rhydd, ond nid oedd ychwaith yn 'eiddo' yn unig. Yr oedd ei statws braidd yn amwys, yn gorwedd rhywle rhwng dau begwn, ac roedd hynny'n cymhlethu'r sefyllfa. Mae'r cymal 'cosber y sawl a'i trawodd' (Ex. 21:20) wedi esgor ar drafodaeth fywiog ynghylch union natur y gosb a phwy fyddai'n ei gweithredu. Er bod Torah y Samariaid yn cynnwys y geiriau מוֹת יוֹמָת, mae'n annhebygol i feistr erioed gael ei roi i farwolaeth am ladd ei gaethwas. Gan fod cymal olaf y ddeddf, 'ei eiddo ef ydyw', yn cydnabod y ffaith fod y perchennog yn dioddef colled faterol gyda marwolaeth y caeth, dywed J. Hyatt, fod hynny'n gosb ddigonol.<sup>36</sup>

Serch hyn, deil D. A. Garrett, gan ddilyn R. Westbrook,<sup>37</sup> y byddai'r meistr yn cael ei gosbi drwy orfod talu dirwy am farwolaeth y caeth. Nid yw Garrett, fodd bynnag, yn nodi pwy fyddai'n derbyn yr arian nac yn ystyried beth ddigwyddai pe na fyddai gan y caeth deulu.<sup>38</sup>

Cafodd yr adnodau hyn eu defnyddio gan bleidwyr caethiwed yr Unol Daleithiau fel cyfiawnhad i guro'u caethion anufudd cyn amled ag y dymunid, ar yr amod na fyddent yn eu lladd.<sup>39</sup> Ond ymateb y gwrth-gaethiwyr oedd y byddai'r meistr yn Israel yn cael ei gosbi am farwolaeth y caeth, yn ogystal ag am ei gam-drin. Er mwyn ategu at y ddadl hon, byddent yn cyfeirio at ddeddfau megis Exodus 21:26-27.

Daw'r deddfau hyn ar derfyn adran sy'n trafod y *lex talionis* (Ex. 21:22-25), sef yr egwyddor y dylai'r gosb a roddir i unigolyn fod yn gyfwerth â'r drosedd, 'llygad am lygad', er mwyn sicrhau cyfiawnder. Nid yw'r egwyddor hon yn berthnasol i'r caethion yn llwyr, felly ceir amodau mymryn yn wahanol. Pan fyddai meistr yn curo llygad neu'n taro allan ddant ei gaethwas neu gaethferch, yr oedd i ollwng y caeth yn rhydd fel iawndal. Yn achos person rhydd, byddai'r gosb yn fwy llym. Diben deddf o'r fath oedd ceisio rhwystro'r meistri rhag ymddwyn yn dreisgar tuag at eu caethion.<sup>40</sup>

---

<sup>36</sup> J. Philip Hyatt, *Commentary on Exodus* (London: Oliphants, 1971), 233. Felly hefyd Cassuto, *Exodus*, 273: 'His master is also a human being, and his life must also be protected if absolute justice does not demand the forfeiture of his life; now this man did not actually kill his slave, but only caused his death indirectly, and he has already received material punishment through the loss of property, for he, the slave, is his money. Therefore, he shall not be put to death.'

<sup>37</sup> R. Westbrook, *Studies in Biblical and Cuneiform Law* (Paris: J. Gabalda, 1988), 90-1.

<sup>38</sup> Garrett, *Exodus*, 499-500. Am grynodeb llawnach o'r broblem, gweler Propp, *Exodus 19-40*, 219.

<sup>39</sup> Gweler, er enghraifft, John Richter Jones, *Slavery, Sanctioned by the Bible. The First Part of a General Treatise on the Slavery Question* (Philadelphia, PA: J. P. Lippincott & Co., 1861), 16-7.

<sup>40</sup> Propp, *Exodus 19-40*, 231.

Yn ôl Hans Walter Wolff, roedd Llyfr y Cyfamod yn rhagori ar systemau cyfreithiol eraill yr hen Ddwyrain Agos oherwydd yr ymdriniaeth o'r caeth a gollodd lygad neu ddant. Cyfeiria Wolff yn arbennig at CH 199 sy'n nodi y codid dirwy o hanner gwerth y caeth yn unig am iddo golli llygad neu dorri asgwrn.<sup>41</sup> O ran CH 199, dylid nodi nad cyfeirio at feistr yn curo'i gaethwas ei hun a wneir, ond at unigolyn arall yn curo caethwas un o'r *awīlu*.<sup>42</sup>

Dengys hyn, felly, fod gan y caethion eu hawliau ond fe ellid holi pa mor ddyngarol, mewn gwirionedd, fyddai rhyddhau caethion a hwythau wedi cael eu dallu, os mai dyna sut y dylid deall 'colli llygad'. Ond fel y dywed William H. C. Propp, 'To release a severely crippled slave would be no favor. Common sense suggests that injured servants would be entitled to lifelong support.'<sup>43</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'r testun Beiblaidd yn cynnwys disgwyliad o'r fath.

Serch hyn, yn ôl Childs, yr hyn sy'n arwyddocaol yw bod y caethion i'w rhyddhau am iddynt ddiodeff anafiadau fel *pobl* yn hytrach na 'phethau'.<sup>44</sup>

Ychydig adnodau'n ddiweddarach ym mhennod 21 llyfr Exodus, ystyrir achos lle câi caethwas neu gaethferch eu lladd gan anifail. Yn yr achos hwnnw, trafodir ych yn cornio, a nodir ei bod yn rhaid i berchennog yr ych dalu i'r meistr ddeg sicl ar hugain o arian fel iawndal ac y byddai'r ych yn cael ei labyddio i farwolaeth (Ex. 21:32). Roedd y gosb hon yn debyg i achos y person rhydd. Byddai ych a laddodd gŵr neu wraig rydd yn cael ei labyddio, ac ystyrir y perchennog yn ddieuog (Ex. 21:28), ond petai gan yr ych hanes o gornio, byddai'r perchennog hefyd yn cael ei roi i farwolaeth (Ex. 29:30).<sup>45</sup>

---

<sup>41</sup> 'In Israel the master's right of ownership finds its limits when his slave endures serious physical injury.' Hans Walter Wolff, 'Masters and Slaves: On Overcoming Class Struggle in the Old Testament' [cyfieithwyd gan Gary Satnsell], *Interpretation*, 27, rhif 3 (July 1973), 267.

<sup>42</sup> Roth, *Law Collections*, 121.

<sup>43</sup> Propp, *Exodus 19-40*, 232.

<sup>44</sup> Childs, *Exodus*, 473.

<sup>45</sup> Yr un math o gosb a geid mewn codau cyfreithiol eraill yr hen Ddwyrain Agos. Gesyd deddfau Eshnunna 54-55 ddirwy o ddeugain sicl am ych yn cornio person rhydd, a phymtheg sicl am gornio caeth. Noda CH 251-2 ddirwy o ddeg sicl ar hugain am farwolaeth aelod o ddsbarth yr *awīlu* ac ugain sicl yn achos y caeth. Er hyn, deil Noth, *Exodus*, 183, nad oedd y caethion yn cael eu hystyried yn ddim mwy nag eiddo yn yr achosion hyn. Y meistr a fyddai'n derbyn iawndal am niwed i'w 'eiddo', ni fyddai'r caethwas yn derbyn dim.

## Breiniau'r Caethion

Roedd gan y caethion eu breiniau yn ogystal. Gwaherddir cipio unigolion er mwyn eu gwneud yn gaethion (Ex. 21:16), a gorchmynnir peidio â dychwelyd at ei feistr gaethwas a ddihangodd (Deut. 23:15-16).<sup>46</sup>

Roedd gan y caethion hefyd yr hawl i orffwys ar y Saboth yn yr un modd â'u meistri (Ex. 20:10; Deut. 5:14). Mae'r rheswm a roddir am hyn yn fersiwn Deuteronomium o'r Dengair yn ddadlennol, sef am iddynt hwythau, yr Israeliaid, fod yn gaethion a bod Duw wedi eu gwaredu (Deut. 5:15). Câl'r caethion hefyd gymryd rhan mewn rhai gwyliau crefyddol (Deut. 12:18; 16:11, 14). Wrth gwrs, gellid awgrymu efallai nad oedd dathlu gwyliau crefyddol yr Iddewon yn frain i'r caethion o wledydd eraill, oherwydd byddent wedi gorfod gwadu eu crefydd eu hunain a throi'n Iddewon wrth ddod yn gaethion. Serch hyn, cafodd yr Israeliaid eu gorchymyn yn ogystal i beidio â chymryd mantais ar ei gilydd (Lef. 25:17) na 'thra-awdurdodi' dros eu caethion (Lef. 25:43).

## Blwyddyn y Jiwbili (Lef. 25:8-54)

Y farn gan nifer o ysgolheigion Beiblaidd yw bod enw blwyddyn y Jiwbili yn tarddu o'r Hebraeg יובל, sy'n gyfwerth â'r gair Arabeg am 'faharen', oherwydd datgenir dyfodiad blwyddyn y Jiwbili drwy seinio'r שופר, y corn maharen.<sup>47</sup> Cred eraill, fodd bynnag, fod gwir ystyr יובל i'w weld yn fersiwn y Deg a Thrigain o Lefiticus gyda'r gair ἄφεσις, sef 'rhyddhad'.<sup>48</sup> Fel y mae'r diffiniad olaf yn ei awgrymu, blwyddyn o ryddhad mewn sawl ffordd oedd y Jiwbili.

Canfyddir deddf blwyddyn y Jiwbili yn Lefiticus 25:8-54. Yn ei ffurf bresennol, egyr y bennod honno gyda Moses yn cyfarch y genedl ac yn cyflwyno iddynt y deddfau y dylid eu cadw unwaith iddynt gyrraedd gwlad Canaan.<sup>49</sup> Y ddeddf gyntaf a geir yw'r flwyddyn

---

<sup>46</sup> Gweler Pennod 5 am drafodaeth fanylach am y deddfau hyn.

<sup>47</sup> Megis Walter C. Kaiser Jr., 'The Book of Leviticus', yn *The New Interpreter's Bible*, cyfrol 1 (Nashville, TN: Abingdon Press, 1994), 1171-2; a Christopher J. H. Wright, 'Jubilee, Year Of', yn David Noel Freedman (gol.), *The Anchor Bible Dictionary: Volume 3 H-J* (New York: Doubleday, 1992), 1025.

<sup>48</sup> Megis R. North, *Sociology of the Biblical Jubilee* (Rome: Pontifical Biblical Institute, 1954), 96.

<sup>49</sup> Mae cryn drafod wedi bod ac yn parhau i fod ymysg ysgolheigion ynghylch dyddiad y testun hwn. Dadl J. Wellhausen, *Prolegomena to the History of Ancient Israel* (New York: Meridan Books, 1957), 117-20, er enghraifft, yw i'r Jiwbili gael ei dyfeisio gan y traddodiad Offeiriadol (P), a'i bod yn perthyn i gyfnod y Gaethglud neu wedi hynny. Dilynydd Wellhausen gan lawer (megis Robert

Sabothol, sy'n datgan mai am chwe blynedd yn unig y mae'r Israeliaid i drin y tir, bod y wlad i gael mwynhau 'Saboth o orffwys' yn ystod y seithfed (Lef. 25:2-4; cf. Ex. 23:10-11), ac na ddylid cynaeafu ffrwyth y tir mewn modd systematig ond, yn hytrach, ei adael i fod yn fwyd i bawb yn y gymdeithas.

Ar ôl saith blwyddyn Sabothol, sef naw a deugain o flynyddoedd, caiff utgorn ei ganu ar Ddydd y Cymod i ddatgan dechrau blwyddyn y Jiwibili.<sup>50</sup> Gelwir am i'r flwyddyn fod yn un gysegredig, wedi'i neilltuo i Dduw, ac yn flwyddyn o gyhoeddi 'rhyddhad trwy'r wlad i'r holl drigolion' (Lef. 25:10). Golygai hynny, felly, fod y tir i gael llonydd i orffwys heb gael ei drin; bod y tir a gollwyd ers y Jiwibili flaenorol, o ganlyniad i dlodi, twyll neu resymau eraill, yn cael ei ddychwelyd i'r perchnogion gwreiddiol neu eu disgynyddion; a bod yr Israeliaid a ddaeth yn gaethion oherwydd dyled yn cael eu gollwng yn rhydd a'u dychwelyd at eu tylwyth ac i 'drefnadaeth e[u] hynafiaid' (Lef. 25: 41).

Sylfaenwyd y ddeddf hon ar yr egwyddor mai eiddo Yahweh oedd y tir ac, o'r herwydd, na ellid ei werthu'n barhaol (Lef. 25:23). Rhannwyd y wlad yn wreiddiol ymysg y

---

Gnuse, 'Jubilee Legislation in Leviticus: Israel's Vision of Social Reform', *Biblical Theology Bulletin*, 15 (1985), 43-8; N. P. Lemche, 'The Manumissions of Slaves—The Fallow Year—The Sabbatical Year—The Jubel Year', *VT*, 26, 1 (1976), 38-59; Bernard M. Levinson, 'The Birth of Lemma: The Restrictive Reinterpretation of the Covenant Code's Manumission Law by the Holiness Code (Leviticus 24:44-46)', *Journal of Biblical Interpretation*, 124 (2005), 617-39, a ddadleua fod Leviticus 25 yn perthyn i gyfnod tua diwedd y Gaethglud neu wedi hynny a bod y testun, mewn gwirionedd, yn tynnu oddi ar gynnwys Llyfr y Cyfamod (Ex. 20:19-23:33) a Deuteronomium. Casgla Jeffrey A. Fager, *Land Tenure and the Biblical Jubilee: Uncovering Hebrew Ethics through the Sociology of Knowledge* (Sheffield: JSOT Press, 1993), 24-36, 60-2, fod Leviticus 25, yn ei ffurf bresennol, yn rhannol gynnyrch cyfnod diwedd y Gaethglud, a bod y Jiwibili – sy'n seiliedig ar gyfreithiau cynharach yr hen Ddwyrain Agos – yn ymgais i sicrhau dychwelyd tir a oedd yn perthyn i'r sawl a alludiwyd i Fabilon er mwyn eu galluogi i ailsefydlu yn eu cymdeithas gynhenid. Ceir eraill, fodd bynnag, yn dadlau bod y testun yn perthyn i gyfnod *cyn* y Gaethglud. Deil Walter C. Kaiser, Jr., 'Leviticus 25:1-55 Commentary', 170, er enghraifft, bod y cyffelybiaethau rhwng y Jiwibili a nifer o reolau a geid mewn cymdeithasau eraill yr hen Ddwyrain Agos yn profi ei bod yn ddeddf hynafol. Yn ogystal, pe bai Leviticus yn perthyn i gyfnod ar ôl Deut. 15:1-6, meddai, byddai hynny'n golygu bod dirywiad wedi digwydd yn neddfwriaeth Israel, wrth i'r breiniau a gyflwynwyd yn Deuteronomium gael eu hepgor. Yng ngolwg Kaiser, Jr., deddfau Llyfr y Cyfamod (Ex. 23:10-11) yw'r hynaf, wedyn rhai'r Cod Sanctaidd (Leviticus 25), ac mai Deut. 15:1-6 yw'r diweddaraf. Ceir J. S. Bergsma, *The Jubilee from Leviticus to Qumran: A History of Interpretation* (Leiden a Boston, MA: E. J. Brill, 2007), 56-76, hefyd yn dadlau o blaid dyddiad cynharach na'r un a gyflwynwyd gan ysgol Wellhausen a'u dilynwyr, gan fynnu nad yw *Sitz im Leben* cyfnod y Gaethglud neu gyfnod wedi'r Gaethglud yn cael eu crybwyll yn unlle yn neddf y Jiwibili, ac oherwydd bod cymaint o gyfatebiaethau rhyngddi a'r hyn a geid mewn cymdeithasau eraill yr hen Ddwyrain Agos. Am drafodaeth bellach o'r broblem, gweler, e.e., Benedict Zuckerman, *A Treatise on the Sabbatical Cycle and the Jubilee* (New York: Sepher-Hermon Press, 1974; adargraffiad), 1-12; North, *Sociology of the Biblical Jubilee*, 109-34; Robert S. Kawashima, 'The Jubilee, Every 49 or 50 Years?', *VT*, 53, 1 (January 2003), 117-20; Bergsma, *The Jubilee from Leviticus to Qumran*, 53-79.

<sup>50</sup> Dylid nodi y ceir peth amheuaeth ynghylch pryd yn union yr oedd y flwyddyn hon i gael ei chynnal, ai yn y 49ain flwyddyn ynteu'r 50fed. Gweler ymhellach, North, *Sociology*, 109 yml.

12 llwyth, a chan y byddai gan drigolion Israel radd o annibyniaeth economaidd petaent yn berchen ar lain o dir, byddai deddf y Jiwibili yn gofalu am gynnal tegwch cymdeithasol o'r fath. Gosodwyd amodau deddf y Jiwibili ar y seiliau diwinyddol na ellid gwerthu'r tir gan mai eiddo Yahweh ydoedd ac nad oedd yr Israeliaid ond yn 'estroniaid a thenantiaid' ar lecyn sanctaidd; ac na ellid gwerthu'r Israeliaid i gaethwasiaeth barhaol ychwaith am eu bod yn weision (עבדים) Yahweh, yr un a'u dygodd o wlad yr Aifft (Lef. 25:38-42, 55).<sup>51</sup> Rhodd yn rhan o addewid Yahweh i Abraham oedd y tir, ac o dderbyn y rhodd, derbyniodd yr Israeliaid y ddyletswydd i ofalu amdano a'r cyfrifoldeb i fyw yn ôl ewyllys Duw, drwy gadw'r amrywiol ddeddfau, gan gynnwys caniatáu i'r tir gael gorffwys. Gwelir yma, felly, gyfuno diwinyddiaeth â moeseg.<sup>52</sup>

Pe collai rhywun ei dir oherwydd cyni ariannol, dywedir bod dyletswydd ar ei berthynas agosaf (גאל) i brynu'r tir ar ei ran, neu pe bai'r unigolyn dyledus yn llwyddo i gasglu digon o arian, gallai brynu'r tir ei hun. Gorchmynnir y dylid cynorthwyo'r Israeliaid hyn 'fel y gwnait i estron neu ymsefydlydd gyda thi' (Lef. 25:35), a gwaherddir rhag benthycu arian ar log.<sup>53</sup> Cyfeirir at achos o Israeliaid yn gorfod ei werthu ei hun i wneud iawn am ei ddyled, a nodir na ddylai'r caethwas Israelaidd gael ei drin fel caethwas cyffredin (h.y. fel caethwas o blith y cenhedloedd; cf. Lef. 25: 44-47), ond yn hytrach, fel 'gwas cyflog neu ymsefydlydd' (Lef. 25:40), a chan hynny, ni ddylid ei 'dra-awdurdodi' (פרד).<sup>54</sup>

Diben egalitaraidd oedd i'r ddeddf, sef adfer cydraddoldeb mewn cymdeithas drwy gael gwared â'r arfer lle byddai ychydig unigolion yn casglu cyfoeth ac yn peri i nifer

<sup>51</sup> Rhannwyd y tir rhwng y 12 llwyth (cf. Num. 33:54; Jos. 13-21), ac er mwyn diogelu'r drefn honno, nid oedd modd gwerthu unrhyw ddarn o dir Israel yn barhaol. Yr egwyddor hon oedd y tu ôl i Naboth yn gwrthod gwerthu ei dreftadaeth yn 1 Bren. 21. Dywed y *Midrash Sifra, Bhar Sinai* 7:1, fod y Jiwibili wedi'i chyflwyno er mwyn cynnal y rhaniadau a sefydlwyd rhwng y llwythau. Am drafodaeth ynglŷn â'r modd y rhennid tir o fewn llwyth, ar sail y testunau Beiblaidd, gweler Baruch A. Levine, 'The Clan-Based Economy of Biblical Israel', yn William G. Dever a Seymour Gitin (goln), *Symbiosis, Symbolism, and the Power of the Past: Canaan, Ancient Israel and Their Neighbors from the Late Bronze Age through Roman Palestine* (Winona Lake, IN: Eisenbrauns, 2003), 445-53. Roedd mwyafrif cymdeithasau'r hen Ddwyrain Agos wedi ceisio cyfyngu ar hawl absoliwt unigolion i brynu a gwerthu tir. Gweler, e.e., Fager, *Land Tenure and the Biblical Jubilee*, 59; Gregory C. Chirichigno, *Debt-Slavery in Israel and the Ancient Near East* (Sheffield: JSOT Press, 1993), 335.

<sup>52</sup> W. H. Bellinger, Jr., *New International Biblical Commentary: Leviticus and Numbers* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, Inc., 2001), 149.

<sup>53</sup> Byddai amaethwr yn aml yn methdal yn Israel oherwydd cynhaeaf gwael, twyll, neu o ganlyniad i'r llog uchel a godid ar fenthyciad. Gweler, ymhellach, E. W. Davies, 'Land: Its Rights and Privileges', yn R. E. Clements (gol.), *The World of Ancient Israel: Sociological, Anthropological and Political Perspectives* (Cambridge: Cambridge University Press, 1989), 349-69.

<sup>54</sup> Difyr yw nodi mai'r term פרד yw'r un a geir yn Ex. 1:13 hefyd pan ddisgrifir y modd y 'gorfodwyd i'r Israeliaid weithio dan ormes' yng ngwlad yr Aifft. Roedd y profiad o fyw dan ormes yn yr Aifft, felly, i ddylanwadu ar y modd y byddai Israel yn trin ei chaethion o gyd-Israeliaid. Ni chaiff y caethion o blith y cenhedloedd eu cynnwys yn y gwaharddiad hwn.



sylweddol fod yn ddibynnol arnynt. Gan y byddai gan y tiffeddianwyr hyn eisoes radd o annibyniaeth economaidd, byddai'r ddeddf yn gofalu cynnal y sail economaidd honno a oedd wrth wraidd trefn sylfaenol cymdeithas.<sup>55</sup>

Dywed Robert S. Kawashima fod y Jiwibili'n arwyddocaol hefyd am ei bod yn adfer 'purdeb' yn Israel. Roedd caethwasiaeth a cholli tir, meddai, yn halogiad ar 'y drefn naturiol', felly, gofalai'r Jiwibili am adfer sefydlogrwydd, cyfiawnder a phurdeb yn y wlad, yn ogystal â thrwy'r bydysawd. Meddai, 'the Jubilee Year symbolizes and completes an atonement of socioeconomic pollution.'<sup>56</sup>

Serch hyn, cyfyd nifer o broblemau pan ystyrir pa mor ymarferol fyddai'r sefydliad wedi gallu bod mewn gwirionedd. Mae'r ddeddf yn gofalu am ryddhau'r caethion Israelaidd yn ystod y Jiwibili, ond nid oes cydnabod neu geisio ymateb i'r anawsterau lu a fuasai wedi codi wrth i'r cyn-gaethion geisio adfer eu lle mewn cymdeithas.<sup>57</sup> Os oedd blwyddyn y Jiwibili i ddigwydd ar ôl seithfed flwyddyn Sabothol, golygai hynny y byddai yna ddwy flynedd yn olynol pan na thrinnid y tir yn Israel: cawsai'r tir orffwys yn ystod y flwyddyn Sabothol ac yn ystod y flwyddyn ddilynol, y Jiwibili. Diau y buasai hynny wedi cael effaith niweidiol ar economi'r gymdeithas.<sup>58</sup> A phe byddai rhywun wedi syrthio'n gaeth yn syth ar ôl blwyddyn y Jiwibili, byddai wedi gorfod aros bron i hanner canrif cyn ei ryddhau, oni lwyddai i gasglu digon o arian yn y cyfamser, ac oni ufuddheid i ddeddf y flwyddyn Sabothol.<sup>59</sup>

Ar sail yr anawsterau hyn ac eraill, mae amryw ysgolheigion wedi dadlau na chafodd sefydliad y Jiwibili erioed ei roi ar waith ac mai'r cyfan ydoedd, mewn gwirionedd, oedd deddf iwtopaidd.<sup>60</sup> Fodd bynnag, ceir sefydliadau tebyg mewn mannau eraill yn yr hen Ddwyrain Agos sydd fel petaent yn awgrymu nad oedd deddf y Jiwibili yn nemor ddim ond cysyniad delfrydol na chafodd erioed ei arddel.<sup>61</sup> Ar sail hyn, deil rhai bod y ddeddf wedi'i

---

<sup>55</sup> Davies, 'Land: Its Rights and Privileges', 361.

<sup>56</sup> Robert S. Kawashima, 'The Jubilee Year and the Return of Cosmic Purity', *The Catholic Quarterly*, 65 (2003), 371.

<sup>57</sup> O leiaf yn Deut. 15:13-14, pan roddid y dewis i'r caethion fynd ymaith ar ôl 6 blynedd o wasanaeth, yr oedd disgwyl i'r meist'r gynnig rhoddion er mwyn i'r cyn-gaethion fod â gradd o annibyniaeth drachefn.

<sup>58</sup> C. Carmichael, 'The Sabbatical/Jubilee Cycle and the Seven-Year Famine in Egypt', *Biblica*, 80 (1999), 225.

<sup>59</sup> Davies, *Prophecy and Ethics*, 75.

<sup>60</sup> R. de Vaux, *Ancient Israel: Its Life and Institutions* (London: Darton, Longman & Todd, 1961), 175-7.

<sup>61</sup> Enghraifft o sefydliad tebyg i'r Jiwibili yw datganiad y *mīšarum*, sef cyhoeddiad 'rhyddid' a geid gan frenin adeg ei esgyniad i'r orsedd, neu yn ystod cyfnod enbydus. Bryd hynny, rhyddheid caethion, tir a dyledion er mwyn adfer sefydlogrwydd cymdeithas. Gweler, e.e. M. Weinfeld, *Social Justice in Ancient Israel and in the Ancient Near East* (Jerusalem: Magens / Minneapolis, MN: Fortress Press,

chyhoeddi ond iddi edwino'n raddol, ac yn y pen draw, droi'n ddi-rym, yn enwedig erbyn cyfnod y frenhiniaeth.<sup>62</sup>

Serch yr anawsterau a'r problemau hyn, roedd cysyniad y Jiwibili yn hollbresennol yn y ddadl am gaethwasiaeth yn yr Unol Daleithiau, yn enwedig felly, yn ysgrifau'r Cymry.

### **'O gwawried ar fyrder y Jubili fwyn'**<sup>63</sup>

Daeth Jiwibili Lefiticus 25 yn un o brif arwyddeiriau Cymry America yn fuan yn eu hymdrechion gwrth-gaethiwol. Roedd y syniad o ddeddf yn datgan rhyddid cyffredinol yn ddelfryd yr ymlafnient ati, ac felly, mabwysiadwyd y term fel un a ddiffinai eu hymgyrch cyfoes. Gwelwyd defnydd helaethach o'r cysyniad hwn a thestun Lefiticus 25 yn y cyfnodolion na'r defnydd a wnaed o destunau Exodus a Deuteronomium a ddywed sut y dylid trin caethion. Un rheswm posibl am hyn yw bod perygl y byddai'r deddfau hynny, a nodai'r hawl a roddwyd i'r Israeliaid fod yn berchen ar gaethion, yn tanseilio'r ymdrech wrth-gaethiwol gyfoes; yn enwedig, felly, oherwydd bod y deddfau hynny'n rhai yr apeliai gaeth-bleidwyr atynt yn aml fel tystiolaeth ddwyfol i gyfiawnhau perchnogi caethion Affrican Americanaidd.

Dyna a welwyd mewn amryw bregethau Saesneg ac, yn wir, mewn ambell destun Cymraeg yn y wasg gyfnodol.<sup>64</sup> Enghraifft ddiddorol o hyn yw epistolau'r awdur a arddelai'r ffugenw 'Tudur'. Fel rhan o'i ymrafael â'r bardd Eos Glan Twrch, deil 'Tudur' fod y deddfau a roddwyd i Israel yn tystio i'r ffaith nad oedd caethwasiaeth yn mynd yn groes i ewyllys Duw. Meddai:

---

1995), 152-78. Enghraifft o destun sy'n cynnwys gorchymyn o'r fath yw Cyhoeddeb Ammisaduqa. Gweler Pritchard (gol.), *ANET*, 526-8. Gweler ymhellach, J. B. Alexander, 'A Babylonian Year of Jubilee?', *Journal of Biblical Literature*, 57 (1938), 75-9; J. Milgrom, *Leviticus 23-27: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2001), 2168-9. Ceir trafodaeth ddiddorol gan Lee W. Casperson, 'Jubilee, and the Temple of Solomon', *VT*, 53, 3 (July 2003), 288-95, sy'n awgrymu fod Israel wedi efelychu arferion gwyliau *Sed* yr Aifft – pryd ddethlid parhad pharo ar yr orsedd ac y cysegrid ei deml neu godi un newydd yn ei enw – drwy godi, adfer, ac ailgysegru teml Solomon yn ystod cyfnodau a fuasai wedi cyd-daro â blwyddyn y Jiwibili.

<sup>62</sup> Megis J. van der Ploeg, 'Slavery in the Old Testament', yn P. A. H. Boer (gol.), *Congress Volume, Uppsala 1971* (Leiden: E. J. Brill, 1972), 72-87; S. Stein, 'The Laws on Interest in the Old Testament', *Journal of Theological Studies*, 4 (1953), 161-70.

<sup>63</sup> Wm. T. Williams, 'DRYGEDD CAETHIWED, A LLEF AM YMWARD', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1844), 243.

<sup>64</sup> Gweler, e.e., W. T. Hamilton, *The Duties of Masters and Slaves Respectively: or Domestic Servitude as Sanctioned by the Bible: A Discourse, delivered in the Government-Street Church, Mobile, Ala* (Mobile, AL: F. H. Brooks, 1845), 10-11; Robert L. Dabney, *A Defense of Virginia*, 116-21.

Wedi i Israel sefydlu yn eu hetifeddiaeth yn ngwlad Canaan, a chyn iddynt gael amser i ymlygru, maent yn cael caniatad, o leiaf, os nid gorchymyn gan yr Arglwydd eu Duw, i brynu iddynt eu hunain weision a morwynion o fysg y cenedloedd oedd o'u hamgylch, ac o blant y Canaaneaid oedd wedi eu gadael i drigo yn eu plith, wedi darostyngiad y wlad[.]<sup>65</sup>

Nid yw 'Tudur' yn crybwyll y sefyllfa gyfoes yn America ond wrth i Eos Glan Twrch ymateb i'r sylwadau hyn, myn yr Eos mai'r hyn a geisiai 'Tudur' ei wneud 'ydyw profi mai Ysgrythyrol a chyfiawn prynu a gwerthu, a darostwng y genedl Affricanaidd.'<sup>66</sup> O briodoli hynny i America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, haera'r Eos os yw rhai'n defnyddio'r deddfau hyn i gyfiawnhau cael caethion, yna fe allent ddefnyddio'r hanes cefndirol, sef concro a difa'r Canaaneaid, ar gyfer gweithgareddau dinistriol eraill:

Addefer fod yr Arglwydd wedi caniatáu a gorchymyn (os mwy dewisiol gan Tudur), i Israel brynu caethweision a chaethforwynion o'r cenedloedd eilunaddolgar hynny; mae yr un mor wir iddo orchymyn Israel eu difa am eu pechodau, a pherchenogi y tir yn etifeddiaeth iddynt eu hunain; ac os gellir sefydlu cyfreithlondeb prynu caethion o fysg y Negröaid neu ryw genedl arall oddiwrth y blaenaf, ar yr un egwyddor y gellir cyfiawnhau eu dyfetha allan o'r byd a phlanu Cristionogion yn eu lle[.]<sup>67</sup>

Deil 'Tudur' fod y sylwadau hyn yn gamarweiniol oherwydd diben Duw'n gorchymyn yr Hebreaid i goncro'r Canaaneaid oedd dangos Ei oruchafiaeth, meddai, 'rhoddi dedfryd yr Arglwydd Dduw fel barnydd yr holl ddaear mewn gweithred'.<sup>68</sup> Felly, diben caniatáu i'r Israeliaid gael caethion o blith y Canaaneaid a'r cenedloedd oedd er mwyn hwyslo'u byd yn eu gwlad newydd. Gan hynny, maentumia 'Tudur' nad oedd y trefniant yn anfoesol:

a debygech chwi y buasai yr Arglwydd yn rhoddi caniatad ac annogaeth i'w bobl ddewisiedig i ymdroi mewn peth pechadurus yn ei natur, trwy yr holl oesoedd meithion, ac yntau wedi eu gosod yn esiampl o rinwedd a duwioldeb i'r holl fyd?<sup>69</sup>

---

<sup>65</sup> 'Tudur', 'CAETHWASANAETH: *Ateb i ofyniad "YMDEITHYDD," yn rhifyn Medi*', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1855), 428.

<sup>66</sup> Eos Glan Twrch, 'CAETHWASANAETH A'R BEIBL', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1856), 27

<sup>67</sup> *Ibid.*

<sup>68</sup> 'Tudur', 'CAETHWASIANAETH A'R BEIBL', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1856), 155.

<sup>69</sup> *Ibid.*, 156.

Diau nad yw ‘Tudur’ yn cyfeirio’n uniongyrchol at y sefyllfa gyfoes wrth drafod y deddfau hyn, ond nid oes amheuaeth ganddo nad oedd y deddfau hynny a roddwyd i Israel yn rhai cyfreithlon a bod caethwasiaeth yn system a oedd yn rhyngu bodd Duw.

Serch hyn, mewn llythyr arall a anfonwyd i’r *Cyfaill o’r Hen Wlad*, bron ugain mlynedd yn flaenorol i sylwadau ‘Tudur’, defnyddiwyd deddfau Exodus a Deuteronomium at ddibenion gwrth-gaethiwol. Ymateb yr oedd Owen Jones o Philadelphia i ymholiad ynglŷn â’r ‘Gaethfasgnach’ yn yr Unol Daleithiau gan yr awdur a arddelai’r ffugenw ‘Jonathan’. Nododd ‘Jonathan’ yn ei lythyr iddo fod wedi clywed ei gymdogion yn cyflwyno tri rheswm dros fod yn bleidiol i gaethwasiaeth gyfoes, gan gynnwys, am ‘Fod y cyfryw fasgnach yn cael ei ganiatau dan yr hen oruchwyliaeth’.<sup>70</sup>

Beirnedir cymdogion ‘Jonathan’ yn hallt gan Owen Jones am iddynt gam-ddenyddio’r Beibl i ‘brofi mater mór ddrwg’, a chyfeirir at sefyllfa’r caethion yn yr Hen Destament gan ddadlau mai cyflwr dros dro oedd eu caethwasiaeth hwy, yn wahanol i’r hyn a geid yn yr Unol Daleithiau:

os oedd caethion dan yr hen oruchwyliaeth, caethion dros amser oeddynt, (Job vii.1.)—hyd y seithfed flwyddyn. Ex. xxi. 2; Deut. xv. 12-18; Jer. xxxiv. [1]4. Amser arall i’w gollwng yn rhydd oedd blwyddyn y Jubili. Lev. Xxv. 39-43.<sup>71</sup>

Roedd cyfeirio at y deddfau Beiblaidd ynglŷn â sut i drin y caethion yn ymgais ar ran Jones i gyflwyno tystiolaeth ddwyfol-gyfreithiol a wrthbrofai ddehongliadau ysgrythurol caeth-bleidiol yr oes, yn ogystal â cheisio dangos nad oedd yr Hen Destament yn llwyr gefnogi caethwasiaeth. Sylwer ei fod yntau’n amheus ynghylch union natur y ‘gaethwasiaeth’ a ddisgrifir yn Exodus a Deuteronomium – ‘os oedd caethion dan yr hen oruchwyliaeth’, meddai. Ond, gallai gasglu gan fod hyd penodol i gyfnod caethwasiaeth yr Hebreaid, nad oedd y gyfundrefn, felly, i fod yn un barhaol. Roedd cyfeirio at yr adnod yn llyfr Jeremeia a sôn am y gosb a ddaethai i ran yr Israeliaid am iddynt beidio â chadw at y ddeddf i ryddhau ‘Hebrëwr’ cyn pen saith mlynedd, yn fodd o awgrymu ymhellach ysbryd gwrth-gaethiwol y Pumlyfr, ac er mwyn ategu at hynny, crybwyllir deddf y Jiwibili.

Difyr yw sylwi ar y modd y cyfeirir at y deddfau eraill yn y Pumlyfr sy’n gysylltiedig â chaethion. Deddf o’r fath yw honno sy’n gwahardd cipio unigolyn er mwyn ei gadw neu ei werthu. Dywed Jones ei bod yn dda ganddo ‘nad oedd cymydogion Jonathan yn byw dan yr

---

<sup>70</sup> ‘Gofyniad. Gan Jonathan. Y Gaethfasgnach’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Medi 1838), 273.

<sup>71</sup> Owen Jones, ‘Y Gaethfasgnach’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 13.

hen oruchwyliaeth, oblegid pe buasant,' meddai, 'eu lladd fuasai raid yn ol y gyfraith am ddal yn mlaen y fath fasgnach. Gwel Ex. xxi. 16.'<sup>72</sup> Mae cyfeirio at yr adnod hon yn hynod ddiddorol gan ei bod yn fodd i Jones gyferbynnu seiliau caethwasiaeth yn America gyda'r hyn a geid ymysg yr Hebreaid. Awgrym Jones yw bod y naill wedi'i sylfaenu ar ladrata, lle cipiwyd pobl o'u mamwlad i'w darostwng i gaethiwed drwy naill ai gael eu cadw neu eu gwerthu'n gaethion i eraill (yr union beth a gosbid â marwolaeth yn Israel), a bod y llall yn gysylltiedig â chyni ariannol a chanddi gyfnod penodedig o gaethwasanaeth. Drachefn, dyna gyfleu'r ansicrwydd ynghylch union natur y 'gaethwasiaeth' a ddisgrifir yn Exodus a Deuteronomium; yr union beth a berai i Jones allu awgrymu nad oedd 'caethion' fel y rhai yn America yn bod 'dan yr hen oruchwyliaeth'.

Mynegir barn gyffelyb gan W. H. Thomas o Utica, a oedd hefyd wedi ymateb i gais 'Jonathan'.<sup>73</sup> Yn yr un modd ag Owen Jones, dadleua Thomas fod amodau byw a bod y caethion yn fwy ffafriol yn Israel nag yn yr Unol Daleithiau, ac ymhelaetha drwy nodi fod yr 'Arglwydd' yn '[d]iogelu y gweision hyny ag oeddynt yn ffoi oddiwrth eu meistriaid' (Deut. 23:15,16), i'r 'gweision' gael 'tal am eu gwaith' tra mewn caethiwed, a dywedir bod hyd yn oed sefyllfa'r Hebreaid yng Ngwlad yr Aifft yn well na chyflwr y caethion yn America.<sup>74</sup> Er mwyn dangos hyn, rhestra Thomas nifer o gyfreithiau a oedd yn nodweddiadol o'r taleithiau caethion,<sup>75</sup> a dywed nad ystyrid y caeth yn America'n amgenach nag 'eiddo', a bod hynny'n wahanol i ddeddfau'r Pumllyfr:

Mae caethiwed y wlad hon yn dadymchwelyd neu ddarostwng dyn i eiddo (*property*) ei gydgrëadur, heb ryddid i dd'weyd na gwneud dim fel crëadur rhesymol! Yn darostwng anfarwoldeb i nwyfau marsiandïaeth. [...] Dyn cyfrifol i Dduw yn cael ei wneud yn nwyf i'w ardrethu fel tŷ neu dyddyn o dir, am amser pennodol, a'i werthu fel anifail direswm[.]<sup>76</sup>

Fel y sylwyd uchod gyda'r ddeddf Feiblaidd ynglŷn â churo caethion, ni chawsai'r caeth o Hebrëwr ei ystyried fel 'peth' neu 'eiddo' cyffredin, ond fel unigolyn â statws a orweddai

---

<sup>72</sup> Ibid.

<sup>73</sup> W. H. Thomas, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 14-5 ; Idem., 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1839), 46-7.

<sup>74</sup> Idem., 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 15. Gweler Pennod 5 am drafodaeth bellach ynglŷn â Deut. 23:15-16.

<sup>75</sup> Thoms, 'Y Gaethfasgnach', 14.

<sup>76</sup> Ibid. Nodir mewn troednodyn gan Thomas y math o gyfreithiau taleithiol a gynhaliai gaethwasiaeth. Ei brif ffynhonnell yw llyfr George M. Stroud, *A Sketch of the Laws Relating to Slavery in the Several States of the United States of America* (Philadelphia, PA: Kimber and Sharpless, 1827), ac yn arbennig, 22-4.

rywle rhwng ‘teclyn’ a ‘pherson’. Yn hynny o beth, ac fel y mae Thomas yn dadlau yn ei lythyr, roedd cyflwr y caethion Hebrëig – yn yr Aifft ac yn Israel – yn rhagori ar gyflwr y caethion cyfoes yn America, nad oeddent yn ddim ond ‘eiddo’. Gellid awgrymu i Thomas ac Owen Jones ystyried bod sefyllfa’r ‘caethion’ yn Israel yn well na’r rhai yn America oherwydd bod hanfod tra gwahanol i gaethwasiaeth Israel. Fel y nodwyd uchod, y prif reswm y deuai rhai’n gaethion yn Israel oedd o ganlyniad i dlodi neu gyni ariannol ac felly, ffordd o gynorthwyo’r anghenus oedd eu cymryd yn ‘gaethion’, yn weithwyr domestig, hyd at y seithfed flwyddyn neu’r Jiwibili. Gan fod yr Affricaniaid yn America’n gaeth oherwydd iddynt gael eu cipio a’u masnachu, dadleuai Thomas, Jones a diddymwyr cyffelyb nad oedd cymhariaeth rhwng y gyfundrefn yn Israel a’r sefyllfa gyfoes.

Â Owen Jones yn ei flaen i restru adnodau eraill o’r Hen Destament er mwyn dangos nad ydyw’n llwyr gefnogi caethwasiaeth. Myn fod yr Hen Destament, mewn gwirionedd, yn pwysleisio cydraddoldeb ‘i’r brodor ac i’r dieithryn sy’n byw yn eich plith’ (Ex. 12:49), ynghyd â nodi bod yr un breiniau ar gael i bawb yn ystod dathliadau crefyddol: yr hawl i bawb ‘roddi heibio gwaith ac addoli. Lef. xxiii. 25, 35, 36’. Nodir na ddylid ‘gwneud cam â’r estron’, sef y caethion, na’u gorthrymu (cf. Ex. 22:21-24; Jer. 34:9-10), a dyfynnir Eseciel 58:6 i ddatgan yn groyw y dylid gollwng y gorthrymedig yn rhydd. Gan hynny, casgla fod gweithgareddau’r caeth-bleidwyr yn America’n groes i’r ysgrythurau: ‘Mae yn amlwg fod y planyddion yn hollol groes i lythyren ac ysbryd yr hen oruchwyliaeth.’<sup>77</sup>

Diau i Owen Jones lunio gwrth-ddadl ddiddorol ar sail deddfau’r Pumllyfr a thestunau cysylltiedig yn yr Hen Destament, a difyr yw sylwi iddo yntau gyfeirio’n anorfod at ddeddf y Jiwibili ond iddo beidio â’i thrafod mewn cryn fanylder. Roedd Jones, yn hyn o beth, yn eithriad i’r rheol, gan y byddai nifer helaeth o awduron gwrth-gaethiwol a fuasai’n llunio ysgrifau’n seiliedig ar destunau’r Hen Destament i wrthwynebu honiadau’r caeth-bleidwyr, yn tueddu i roi mwy o bwys ar y Jiwibili.

Gwelwyd hyn yn fuan ar dudalennau’r cyfnodolion Cymraeg, er enghraifft, gyda chofnodion o gyfarfodydd gwrth-gaethiwol. Cyhoeddwyd cofnod o’r fath yn rhifyn Ebrill 1842 *Y Cenhadwr Americanaidd* a drafodai ddigwyddiadau ‘Cymdeithas Wrthgaethiwol’ a gynhaliwyd yng Nghapel Uchaf, Steuben ar 27 Ionawr 1842. Wedi enwi’r sawl a anerchodd y cyfarfod, y penderfyniadau a basiwyd parthed y ‘drosedd uniongyrchol o’r ail orchymyn

---

<sup>77</sup> Owen Jones, ‘Y Gaethfasgnach’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 13.

mawr yn y gyfraith, sef, “C[â]r dy gymydog fel *ti dy hun.*”<sup>78</sup> ceir William Aubrey, Ysgrifennydd y cyfarfod, yn cynnig ychydig sylwadau terfynol, heriol eu naws, gan wneud defnydd helaeth o gysyniad Beiblaidd y Jiwibili.

Deil Aubrey y dylai aelodau'r cyfarfod a'r darllenwyr, fel dinasyddion yr Unol Daleithiau, 'gywilyddio' am eu gweithredoedd. Tra bo '*llef gwaed ein brawd*', sef cwynion y caethion, yn cyrraedd clustiau 'Arglwydd y lluoedd', meddai, maent hwy, y dinasyddion Americanaidd, yn 'diogi' gydag achos diddymiaeth. A chan bwysleisio fod '*Dwy filiwn a haner o'n cyd-ddinasyddion yn GAETHION yn ein hymyl!!*' gofynna, 'Pa le y mae Cristion na theimla wrth feddwl am hyn!!'<sup>79</sup>

Yn ddiau, diben cyhoeddi'r sylwadau hyn oedd procio'r gydwybod Gristnogol, a chyferbynnu anfoesoldeb y sefyllfa gyfoes gyda'r fath dangnefedd a brofid unwaith y rhyddheid y caethion. Hon yn wir oedd y ddelfryd yr oedd pob Cymro gwrth-gaethiwol yn ei choleddu, sef dydd diosg iau'r Affricaniaid Americanaidd:

Da genyf feddwl, a bendigedig Duw, fod rhyw arwyddion y dyddiau hyn fod dydd eu *Jubilee* yn nesu.—[M]ae yr Arglwydd fel wedi deffroi o'i fangre, ac yn ymweled [â] phreswylwyr y ddaear yn eu hachos. [...] Cyn hir bydd y miloedd trueiniaid, sydd yn awr yn gaethion ac yn *gorwedd yn e[u] gwaed*, yn meddu rhyddid moesol a naturiol— yn ymgwhwfanu mewn gogoniant yn ein hoes megys yr angel a welodd Ioan yn ehedeg yn nghanol y nef, a'r efengyl dragwyddol ganddynt.<sup>80</sup>

Difyr yw gweld Aubrey yma'n priodoli Jiwibili'r Hen Destament i'r caethion yn America, ac yn datgan y bydd gwedd Gristnogol gref ar eu Jiwibili hwy. Mae trydedd frawddeg y dyfyniad uchod yn gyfeiriad at destun Datguddiad 14:6-13, lle sonnir am agosrwydd Dydd y Farn, cwmp Babilon a dinistr addolwyr y 'bwystfil' (Datg. 14:6-11), a lle annogir dyfalbarhad o du dilynwyr Duw (Datg. 14:12-13). Bydd cyfnod y Jiwibili, a gaiff ei lywio gan Gristnogion America, yn gyffelyb i ddyfodiad Teyrnas Nef: câi'r sawl a fu yn '*gorwedd yn e[u] gwaed*', meddai, feddu ar ryddid 'moesol': hynny yw, caiff y caethion ddarllen y Beibl, gweddïo a mynychu cyrddau heb berygl erledigaeth, a chaent feddu ar ryddid 'naturiol', o ran bod yn gorfforol rydd.

Mae'r gyfeiriadaeth a geir uchod at yr 'efengyl dragwyddol' yr oedd angel Datguddiad 'Ioan' am ei chyhoeddi yn drawiadol. Noda Catrin Haf Williams: 'Nid cyfeirio at

---

<sup>78</sup> 'Cymdeithas Wrthgaethiwawl', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1842), 125. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>79</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>80</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

yr Efengyl Gristnogol a wna Ioan fel y cyfryw (ni ddefnyddir y fannod bendant yma), ond at “y newyddion da” sydd yn agored i bob cenhedlaeth.”<sup>81</sup> Gwelir Aubrey yma’n manteisio ar yr amwysedd hwn ac yn priodoli ei sylwadau at ddydd llwyddiant yr efengyl, pan gâi’r caethion ryddid ‘moesol’, yn ogystal â chyfeirio at ddydd llwyddiant rhyddid corfforol, pan gyhoeddid ‘y newyddion da’ ac y gollyngid y caethion o’u cadwynau.

Yr hyn sy’n ychwanegu haen ddyfnach i ysgrif Aubrey yw mai’r frwydr gosmig rhwng y dwyfol a’r dieflig a ddarlunnir yn Datguddiad 14 ac mai canlyniad y frwydr honno ‘yw bod angen i bawb ddewis rhwng y da a’r drwg, rhwng Crist a’r Anghrist’.<sup>82</sup> Roedd gosod pwnc caethwasiaeth yn y cyd-destun hwn yn arwyddocaol. Gan mai’r farn gyffredin yn y wasg oedd bod caethwasiaeth yn bechod ac mai rhyddid i bawb a oedd yn foesol gywir, gellid awgrymu fod Aubrey’n priodoli’r caeth-bleidwyr i garfan y bwystfil a’r Anghrist, a’r gwrth-gaethiwyr i garfan Crist. Roedd brwydr gyffelyb i’r frwydr gosmig yn digwydd yn America, a’r awgrym a geir yw y dylid ymlafnio er mwyn yr achos mwyaf cyfiawn.

Byddai’r cyfnod pan ryddheid y caethion a gofalu iddynt allu byw’n annibynnol a datblygu unrhyw alluoedd neu ddoniau sydd ganddynt, meddai Aubrey, yn amser o weithredu cyfiawnder ac o lawenydd cyffredinol; ac er mwyn pwysleisio hynny, dyfynna ychydig linellau o waith Robert Williams, Bangor:

“Gwawl anwyl, gwiw lawenydd,  
Heb ei fath, i bawb a fydd.”<sup>83</sup>

Mae’r englyn y dyfynnwyd y llinellau uchod ohono’n rhan o gyfres o ddau englyn sy’n pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo’r efengyl ‘ar hyd Wynedd’, ac i bawb ddod ynghyd i genhadu i gynifer am fod y diwedd ar droed: ‘i bob enw, / I bawb uno [â’i] gilydd’.<sup>84</sup>

Roedd syniadau diweddfaol neu filenaraidd o’r fath yn nodweddiadol o nifer o wrth-gaethiwyr a diddymwyr yr oes, yn enwedig wrth i’r Rhyfel Cartref ddynesu. Daethai nifer o Brotestaniaid o bob ochr i’r ddadl am gaethwasiaeth i gredu y byddai gwrthdaro’n siŵr o

---

<sup>81</sup> Catrin Haf Williams, *Llyfr Datguddiad* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2002), 98-9.

<sup>82</sup> *Ibid.*, 96. Mae cyfeirio at destun Datg. 14 yn arwyddocaol hefyd oherwydd yn y bennod honno y proffwydir cwmp Babilon a Rhufain, y ddwy ymerodraeth fawr a fu’n arddel caethwasiaeth. *Ibid.*, 98-100; G. K. Beale, *The Book of Revelation: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI/Carlisle, Cumbria: Wm. B. Eerdmans Publishing Co./Paternoster Press, 1999), 755-8. Gwelir Pennod 3 isod lle trafodir Babilon yng nghyd-destun y Gaethglud.

<sup>83</sup> ‘Cymdeithas Wrthgaethiwawl’, 125.

<sup>84</sup> Robert Williams, *Corph o Dduwinyddiaeth, neu Draethawd ar Etholedigaeth a Rhagarfaethiad; a’r pynciau eraill sydd yn ymddibynnu ar hynny, megis y gosodir allan yn y ddau Destament: sef yr Hen a’r Newydd* (Bangor: John Brown, 1831), viii.



ddigwydd maes o law, a hynny'n esgor ar gyfnod o wynfyd. Mae Frederick Douglass a William Lloyd Garrison ymysg yr amlycaf o'r diddymwyr a arddelai syniadaeth filenaraidd o'r fath.<sup>85</sup> Rhagfynegir yn yr ysgrif dan sylw adeg pan fyddai tangnefedd yn teyrnasu yn dilyn rhyddhau'r caethion, ond ni sonia Aubrey am ryfel neu wrthdaro o unrhyw fath. Gwelir y dehongliadau milenaraidd hynny mewn testunau a gyhoeddwyd yn nes at y Rhyfel Cartref, yn enwedig o'r 1850au ymlaen. Ond, roedd y gred yn y cysylltiad rhwng ymdrechu er mwyn y caethion a llywio dyfodiad y Filflwyddiaeth yn gryf, fel y dengys Aubrey, ac yn safbwynt a ddaethai'n gynyddol arwyddocaol. Meddai Jerry Hunter:

Gallai diddymwyr Cristnogol yr Unol Daleithiau gysylltu'u milflwyddiaeth â'u safiad gwrthgaethiwol drwy faentumio bod glanhau'r wlad o bechod caethwasanaeth yn rhan o'r hyn y dylid ei wneud er mwyn paratoi'r ddaear ar gyfer y milflwyddiant. Ochr arall y geiniog ddiwinyddol hon oedd y gred y byddai anwybyddu sefyllfa'r caethweision yn rhwystro ailddyfodiad Crist ac felly'n esgor ar ddial Duw.<sup>86</sup>

Roedd yr ymdeimlad o ddyletswydd a rheidrwydd gweithredu ynglŷn â sefyllfa'r caethion yn hollbresennol ym meddwl y diddymwyr Cymraeg, a difyr yw gweld Aubrey'n cyfuno'r syniadau Beiblaidd hyn gyda'r ddyletswydd foesegol a oedd ar y darllenwyr fel dinasyddion yr Unol Daleithiau, ac fel Cristnogion, i weithredu. Teimlir ergyd hyn yn arbennig wrth iddo ofyn pwy fuasai'n fodlon '[b]reio ei gydwybod' a pheidio â chynorthwyo'r caethion. Apelir at gydwybod Gristnogol y darllenwyr drachefn drwy ddyfynnu Diarhebion 31:8 a Hebreaid 13:3 er mwyn tanlinellu'r ddyletswydd y dylid cynorthwyo'r sawl sydd wedi eu 'carcharu' ar gam.<sup>87</sup>

Ceir sylwadau cyffelyb i'r uchod ar derfyn cofnod o gyfarfod 'Cymdeithas Wrthgaethiwol Palmyra' (16 Mai 1842), a gyhoeddwyd yn rhifyn Hydref 1842 *Y Cenhadwr Americanaidd*.<sup>88</sup> Wedi rhestru'r sawl a anerchodd y cyfarfod, nodir y penderfyniadau a basiwyd a'r 'Ardystiad' a fabwysiadwyd, cyn i Ysgrifennydd y Gymdeithas, T. B. Thomas, gynnig ei sylwadau terfynol ei hun.

---

<sup>85</sup> David W. Blight, *Frederick Douglass' Civil War: Keeping Faith in Jubilee* (Baton Rouge, LA: Louisiana State University Press, 1991; argraffiad clawr meddal), 102-3.

<sup>86</sup> Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), 164.

<sup>87</sup> 'Cymdeithas Wrthgaethiwawl', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1842), 125. Gweler Pennod 4 am drafodaeth ynglŷn â Heb. 13:3.

<sup>88</sup> T. B. Thomas, 'CYMDEITHAS WRTHGAETHIWOL PALMYRA', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1842), 344.

Geilw ar ‘Gymry! cenedl ag sydd wedi ei dyrchafu hyd y nef o ran breintiau’ i weithio er mwyn y caethion yn America, ac yn union fel Aubrey uchod, mae Thomas yn procio cydwybod y cyhoedd am i’r rhelyw, hyd yn hyn, fod yn anfoddog i weithredu: ‘Ystyriwch eich hunain yn sefyllfa ’r caethion, yn cael eich gyru megys anifeiliaid; chwi a’ch plant, heb un llwybr i gyrraedd gwaredigaeth’.<sup>89</sup> Wedi gwneud hynny, datgan Thomas, pe bai pawb sy’n arddel yr enw ‘Cristion’ yn cydweithio’n ddygn er mwyn diddymiaeth, y deuai dydd ymward y caethion yn fuan:

Pe bai pob un o fewn i’r Unol Daleithiau sydd yn *proffesu ei fod yn gristion* yn gwneud hyn, delai Jubilee i’r caethion yn fuan, ac heb i ryw rai wneud hyn, nid oes tebygolrwydd y deuant byth o’u caethiwed; a phwy a ddysgwylir i’r maes at hyn, os na ddaw cristionogion?<sup>90</sup>

Diau y buasai’r fath rethreg wedi ysgogi ymateb teimladol ymysg y darllenwyr. Yn ei hanfod, herio cymeriad y sawl a alwent eu hunain yn ddilynwyr Crist a wna Thomas, ac o gwestiynu daliadau Cristnogol honedig y bobl hynny, mae’n bosibl y gobeithiai Thomas y byddent yn ymateb, yn rhannol am iddynt gael eu cythruddo gan y feirniadaeth, ond yn bennaf, er mwyn cyflawni eu ‘dyletswyddau’ a gweddïo ‘ar yr Arglwydd am lwyddiant’ i’w llafur.<sup>91</sup>

Yn yr un modd ag yn yr erthygl hon, ceid mewn nifer o destunau yn aml grybwyll y Jiwibili wrth gloi darn. Byddai’r defnydd o’r ddeddf hon mewn perthynas â’r sefyllfa gyfoes yn yr Unol Daleithiau yn sicr yn ergyd drawiadol ar derfyn testun. Er enghraifft, mewn hysbyseb yn *Y Dyngarwr* (Ebrill 1843) am ‘Gynadledd y Byd ar Wrthgaethiwaeth’, a oedd i’w chynnal yn fuan, ceir brawddeg i gloi sy’n cyfleu’r dyhead dwfn a goleddid gan bob diddymwr: ‘O! deued y gyfundrefn felldigedig i lawr yn fuan, a pheraidd lais udgorn Jubilee a glywer yn adseinio trwy ’r holl ddaear.’<sup>92</sup> Dyma awgrymu, felly, fod un o’r themâu Beiblaidd wedi mabwysiadu swyddogaeth arddulliol benodol yn ogystal, sef cyfeirio at y Jiwibili wrth gloi darn. Yn wir, gellid dweud bod cynnwys a strwythur y darn llenyddol yn cydweithio’n berffaith â’r thema Feiblaidd, gan fod y Jiwibili yn dynodi diwedd y drefn gaeth, yn yr un modd ag y defnyddir y cysyniad hwnnw i arwyddo diwedd darn llenyddol.

Yn ogystal, gellid awgrymu bod y defnydd ‘proffwydol’ o’r Jiwibili, fel gair yn dynodi cyfnod yn y dyfodol pan ryddheid caethion America, yn rhannu syniadaeth â’r

---

<sup>89</sup> *Ibid.*, 344-5.

<sup>90</sup> *Ibid.*, 345. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>91</sup> *Ibid.* Trafodir y syniad o ddyletswydd Gristnogol ym Mhennod 4 isod.

<sup>92</sup> ‘Cynadledd y Byd ar Wrthgaethiwaeth’, *Y Dyngarwr* (Ebrill 1843), 32.

traddodiad proffwydol Cymraeg, yn enwedig, felly, o gofio elfennau gwleidyddol y Jiwibili Americanaidd a thraddodiad y canu darogan Cymraeg.<sup>93</sup> Yn wir, byddai amryw awduron Cymraeg America'n defnyddio agweddau ar draddodiad llenyddol eu mamwlad er mwyn ymateb i'w sefyllfa yn America.<sup>94</sup> Ond gan nad oes gofod yn y traethawd hwn, ni ellir archwilio'r rhagdybiaeth hon ymhellach.

Yn y cyfnod cynnar hwn yn hanes y cyfnodolion dan sylw, yr oedd unrhyw weithred a wneid o blaid yr ymgyrch gwrth-gaethiwol yn ymddangos fel petai'n cymell y Jiwibili i agosáu. Dyna'r argraff a geir o ddwy erthygl a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Mai 1843. Nodir yn y naill fod llywodraethwyr Massachusetts yn ddiweddar wedi pasio '*yn unfrydol*' weithred 'ER AMDDIFFYN YN MHELLACH RYDDID PERSONOL', drwy wahardd dinasyddion Massachusetts rhag erlid unrhyw un a ddaethai i'r dalaith ac a gyhuddid o fod yn gaeth ffoëdig.<sup>95</sup> Nodir yn y llall fod talaith Maine newydd basio deddf o anian gyffelyb i'r uchod. O glywed hyn, casgla Everett fod y gobaith am ymwared y caethion yn addawol; meddai, 'n[i]d yw yr amser yn mhell pan y clywir adlais y Jubili gyffredinol trwy holl ororau America.'<sup>96</sup>

Gwneir defnydd o'r Jiwibili hefyd fel rhan o'r rethreg Feiblaidd a dreiddia drwy anerchiad yr awdur 'Iorwerth' at y Cymry, wrth iddo restru'r 'Rhesymau dros fod yn wrth-gaethiwr'.<sup>97</sup> Yn yr ysgrif bwerus honno, dywed 'Iorwerth' fod gwrthwynebu caethiwed yn gydnaws â'r Datganiad Annibyniaeth; ac am fod 'o ddwy filiwn a haner i dair miliwn yn gaethion yn [...] yr Unol Dalaethau', am mai cyfiawn i bob gweithiwr ei gyflog, ac am fod masnachu mewn dynion yn gwbl anghyfiawn, dadleua y dylai'r Cymry fod yn wrth-gaethiwr. Gwelir yma'r awdur yn pontio rhwng y sanctaidd a'r gwleidyddol yn yr un llith – y Beibl fel y testun sy'n awdurdodi dadleuon crefyddol, a'r Datganiad Annibyniaeth fel y testun sy'n cyfiawnhau dadleuon gwleidyddol. A manteisiodd ar y rheswm olaf hwn, bod masnachu mewn dynion yn anghyfiawn, i drafod rhinweddau'r 'Gymdeithas Wrthgaethiwol Americanaidd, a hynny ar draul y Gymdeithas Drefedigaethol.

---

<sup>93</sup> Ceir trafodaeth ddiddorol sy'n ystyried y canu darogan Cymraeg yng nghyd-destun agweddau eraill, gan gynnwys y traddodiad Beiblaidd, gan Aled Llion Jones, *Darogan: Prophecy, Lament and Absent Heroes in Medieval Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 2013).

<sup>94</sup> Er enghraifft, trafodir ym Mhennod 3 isod y modd y defnyddiwyd *Gweledigaethu y Bardd Cwsc* fel sail i ysgrif yn darlunio drygedd caethwasiaeth.

<sup>95</sup> 'Massachusetts yn ymwrthod a Chaethiwed'; 'Maine hefyd yn ymddadrys oddiwrth yr achos caethiwol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1843), 150. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>96</sup> *Ibid.*

<sup>97</sup> 'Iorwerth', 'Rhesymau Dros fod yn Wrth-gaethiwr', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1844), 303-4.

Yn ystod y 1840au, roedd nifer yn dal yn parhau'n bleidiol i ymgyrch y Gymdeithas Drefedigaethol i ryddhau'r caethion a'u hanfon i drefedigaeth rydd Liberia yng Ngorllewin Affrica. Ers ei sefydlu ym 1816, credai nifer mai gan y Gymdeithas hon oedd y moddion mwyaf priodol i ymdrin â'r 'sefydliad neilltuol'.<sup>98</sup> Yn wir, roedd nifer o ddiddymwyr amlycaf America ymysg cefnogwyr cynharaf y Gymdeithas, gan gynnwys William Lloyd Garrison ac Abraham Lincoln. Byddai caethion a brynwyd drwy'r fasnach drawsatlantig, ynghyd â'r rhai a anwyd ac a fagwyd ar dir America, ond i rieni caethion, ymysg y sawl a anfonid 'yn ôl i Affrica' gan y trefedigaethwyr. Henry Clay, un o gyd-sylfaenwyr y Gymdeithas, a roddodd y prif reswm dros eu hanfon o gyfandir America sef, oherwydd yr 'unconquerable prejudice resulting from their color, they never could amalgamate with the free whites of this country'.<sup>99</sup> Y rheswm hiliol hwn, ynghyd ag un o brif amcanion y Gymdeithas wrth symud y 'free blacks' o'r wlad, sef er mwyn '[diminish] economic competitions with the whites' oedd wrth wraidd y gynnen rhwng y diddymwyr a'r gwrth-gaethiwyr trefedigaethol.<sup>100</sup>

Bu cryn drafodaeth yn fuan yn hanes *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* ynghylch y dull mwyaf addas i sicrhau diddymiaeth. I'r perwyl hwnnw, gofynnodd yr ymholwr a arddelai'r ffugenw 'Hebog Du', pa gymdeithas y dylid ei chefnogi – y 'Gymdeithas Wrthgaethiwol' ynteu'r Gymdeithas Drefedigaethol. Atebwyd 'Hebog Du' maes o law gan lythyrwr yn dwyn y ffugenw 'Chwareu Teg i Bob Ochr', a ddywedodd ei fod yn ffafrio dulliau'r Gymdeithas Drefedigaethol.<sup>101</sup> Fel y mae Rhiannon Heledd Williams wedi dangos, roedd y ffugenwau hyn ymysg y rhai a ddefnyddiai'r Parch. William Rowlands, golygydd *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, ac felly, ffordd o brocio'r darllenwyr ac ennyn trafodaeth ar dudalennau'i gyfnodolyn ydoedd. Ond fe ellid awgrymu, ar bwys yr hyn a fynegir yn llythyrau 'Chwareu Teg i Bob Ochr', fod William Rowlands 'yn ceisio troi'r rhod o blaid y gymdeithas [Drefedigaethol] yn hytrach na phrocio'r Cymry i ystyried eu dewisiadau' yn unig.<sup>102</sup>

---

<sup>98</sup> John R. McKivigan, *The War against Proslavery Religion: Abolitionism and the Northern Churches, 1830-1865* (Ithaca, NY: Cornell University Press, 1984), 34.

<sup>99</sup> Dyfynnir yn Maggie Montesinos Sale, *The Slumbering Volcano: American Slave Ship Revolts and the Production of Rebellious Masculinity* (Durham, NC a London: Duke University Press, 1997), 45.

<sup>100</sup> Milton C. Sernett, *North Star Country: Upstate New York and the Crusade for African American Freedom* (Syracuse, NY: Syracuse University Press, 2002), 22.

<sup>101</sup> 'Hebog Du', 'Gofyniad am "Y Gaethwasanaeth"', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gorffennaf 1839), 207; 'Chwareu Teg i Bob Ochr', 'Y Gaethwasanaeth (Ateb i ofyniad yr Hebog Du, t.d. 206)', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1839), 223-34.

<sup>102</sup> Rhiannon Heledd Williams, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad? Gwasg gyfnodol Gymraeg America 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), 113, 110-17. Cafwyd ymatebion pellach yn rhifynnau dilynol *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, yn cynnwys: William H. Thomas, 'Y Gaethwasanaeth. Sylwadau ar Ysgrif "Chwareu Teg i Bob Ochr"', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1840), 14-6; 'Idloes (John M. Jones)', 'Y Gaethwasanaeth: Sylw ar y Ddadl o barthed y Gaethwasanaeth.', *Y Cyfaill o'r*

Serch hyn, nid oes amheuaeth nad oedd 'Iorwerth' yn wahanol i Rowlands, gan iddo fynegi cefnogaeth lwyr i weithgareddau'r 'Gymdeithas Wrthgaethiwol' yn ei ysgrif. Er mwyn troi'r Cymry o blaid y gymdeithas honno, gofynna i'r darllenwyr ystyried sut y teimlent pe buasai'n rhaid anfon y 'Gomeriaid oll yn ol i Gymru'. Diau fod y defnydd o'r gair llwythog hwnnw, 'Gomeriaid', yn ychwanegu haen ddeallusol, emosiynol a phersonol at ei gwestiwn. Gan fod America'n wlad a ddaethai â buddiannau lu i gynifer o 'Gomeriaid', dylent weithio er mwyn i'r Affricaniaid gael profi buddiannau cyffelyb. Ategwyd hyn drwy gloi'r ysgrif â datganiad radicalaidd sy'n cynnwys cysyniad y Jiwibili fel dydd rhyddhau'r caethion Americanaidd:

Rhyddid i holl drigolion y byd yw ein dymuniad, a diau y dylem wneud yr hyn a allom dros i bawb gael hynny, ac felly ein penderfyniad yw bod yn wrthgaethiwr hyd angu, neu hyd flwyddyn y Jubili.<sup>103</sup>

Dylid bod yn fodlon marw er mwyn yr achos, neu weithio hyd eithaf gallu hyd at flwyddyn y Jiwibili. Roedd hwn yn ddatganiad a oedd yn cyfleu dyheadau dyfnion y diddymwyr mewn modd trawiadol a radicalaidd, ac fe welir 'Iorwerth' yn darfod erthyglau eraill ganddo yn yr un modd. Er enghraifft, yn rhan olaf ei 'Araeth Wrthgaethiwawl', wedi iddo bwysleisio 'dyledswydd amlwg [y Cymry yn America] fel dinasyddion' i '[d]ewis swyddogion gwladol a fyddont o du rhyddid', cloir gyda'r frawddeg,

Ein penderfyniad diysgog yw na fydd i ni roddi ein pleidlais byth mwy dros gaethfeistr i un math o swydd wladol ar y ddaear, ac ni a barhawn o du rhyddid y gorthrymedig sydd yn ein gwlad hyd farw, neu flwyddyn y Jiwibili.<sup>104</sup>

Mae'r fath rethreg yn adleisio'r hyn a geir yn llythyrau William Lloyd Garrison. I'r diddymwr hwnnw, cynhwysai'r Jiwibili Feiblaidd obaith milenaraidd ac, o'r herwydd, rhagdybiodd adeg pryd ailenwid dinas Washington ar ôl Wilberforce a phryd fuasai gan yr

---

*Hen Wlad* (Mawrth 1840), 77-8; 'Chwareu Teg i Bob Ochr', 'Y Gaethwasanaeth. Ateb i Sylwadau y Parch. Wm H. Thomas', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1840), 108-10; William H. Thomas, 'Y Gaethwasanaeth. Atebiad i Sylwadau "Chwareu Teg i Bob Ochr"', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehafin 1840), 174-5.

<sup>103</sup> 'Iorwerth', 'Rhesymau Dros fod yn Wrth-gaethiwr', 304.

<sup>104</sup> 'Iorwerth', 'GWRTH-GAETHIWED', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1845), 359.

Cyhoeddwyd rhan gyntaf yr ysgrif hon, 'Araeth-Wrthgaethiwawl', yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1845), 332-3; enghraifft arall yw 'Iorwerth', 'Y CAETHFEISTR I AMERICANAIIDD, A'R YSGRIFENYDDION A'R PHARISEAID', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf, 1846), 202.

Unol Daleithiau arlywydd a oedd yn ddu ei liw.<sup>105</sup> Fel rhan o'r gobaith milenaraidd hwn, hefyd, rhyddheid y caethion. Byddai Garrison yn arwyddo'i lythyrau gydag ymadroddion a oedd yn cyfleu ei syniadau eschatolegol, gan gynnwys, 'Yours for the deliverance of all who are bowed down'; 'Yours for [...] the reign of Christ throughout the earth',<sup>106</sup> ac mewn pump o'i lythyrau, cyfeiriodd at y Jiwibili – 'Yours for the Jubilee', a 'Yours to usher the Jubilee'.<sup>107</sup> Diau, felly, fod 'Iorwerth' yn coleddu daliadau radicalaidd cyffelyb i ddiddymwyr di-Gymraeg yr oes.

Roedd y wedd drawsatlantig ar y cyfnodolion yn arwyddocaol ac yn fodd o sicrhau deialog rhwng y Cymry yn yr henwlad ac yn America. Fel y gwyddys, roedd caethwasiaeth yn destun trafod cyson, ac mewn un llythyr a anfonwyd drwy gyfrwng *Y Cenhadwr Americanaidd* oddi wrth y Parch. Evan Watkins, Llangatwg, Crug Hywel at y Parch. T. Edwards, Cincinnati, trafodir amryw agweddau ar gaethwasiaeth gyfoes. Noda Watkins iddo synnu at ragrith 'amryw o weinidogion Saes'neg America [sy'n cymryd] arnynt gymeradwyo Iesu Grist a threfn achub', ond eto'n 'pleidio y gaethfasnach'. Deil na all hynny barhau a bod angen newid y drefn ar fyrder, ac felly, cyfeiria at y Cymry'n uniongyrchol gan fynegi gobaith y pleidleisient 'o blaid rhyddid yn yr Etholiad nesaf'.<sup>108</sup> O fwrw pleidlais yn y modd hwnnw, cred Watkins y deuai'r waredigaeth fawr i'r caethion yn fuan. Er mwyn mynegi hyn, dyfynna bennill o un o gerddi'r Parch. Samuel Roberts, Llanbryn-mair:

“O gylch elor gormes, mae myrdd o gadwynau,  
Ar wasgar, yn ddarnau drylliedig dan draed,  
A'r famaeth a'i mhaban yn llon gadw Jubil  
Uwch bedd yr anghenfil fu'n meddwi ar waed.”<sup>109</sup>

Cyfeirio at lwyddiant yr efengyl ac at gyfnod o wynfyd yn ystod y Milflwyddiant a wna Samuel Roberts,<sup>110</sup> ond dichon y cred Watkins mai sefyllfa gyffelyb a brofid unwaith i Jiwibili'r caethion Affrican Americanaidd ddigwydd. Wrth gloi'r llythyr, cyfeiria Watkins at

---

<sup>105</sup> Henry Meyer, *All on Fire: William Lloyd Garrison and the abolition of slavery* (New York: St Martin's Press, 1998), 125.

<sup>106</sup> Walter M. Merrill (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume III: No Union with Slaveholders, 1841-1849* (Cambridge, MA: Belknap Press of Harvard University, 1973), 222, 588.

<sup>107</sup> Louis Ruchames (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume IV: From Disunionism to the Brink of War, 1850-1860* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1976), 246; Walter M. Merrill (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume V: Let the Oppressed Go Free* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1979), 82, 86, 172, 260.

<sup>108</sup> Evan Watkins, 'Gohebiaeth o Gymru', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1856), 399.

<sup>109</sup> Ibid.

<sup>110</sup> Samuel Roberts, 'Buddugoliaeth yr Efengyl yn y Mil Blynnyddoedd', yn O. M. Edwards (gol.), *Gwaith Samuel Roberts. (S. R.)* (Llanuwchllyn: Ab Owen, 1906), 44.

yr allwedd a allai sicrhau dyfodiad y cyfnod o ryddid fel a ddisgrifir yn y pennill, sef yr etholiad arlywyddol nesaf. Yr unig un y mae'n ei enwi yw J. C. Frémont, ymgeisydd plaid y Gweriniaethwyr, a deil fod 'cyfiawnder yn galw am i bob Cymro a phob cenedl arall, i wneyd ei ddyledswydd dros y gorthrymedig', a phleidleisio dros y blaid newydd honno.<sup>111</sup>

Wrth i'r ymgyrch diddymol fynd o nerth i nerth, a chyda'r Rhyfel Cartref yn dynesu, gwelid defnydd amlach o gysyniad y Jiwibili ynghyd â'r awgrym y deuai heddwch i'r byd pan ryddheid y caethion. Datganodd Robert Everett hyn yn groyw mewn 'Cyfarchiad at Ieuencyd ar Ddechreu y Flwyddyn 1859'. Er gwaethaf y brwydro gwaedlyd a fu yn ddiweddar yn Kansas oherwydd caethwasiaeth, credai Everett fod 'ysbryd rhyddid' bellach wedi'i wreiddio'n ddwfn a'i fod yn ymlodaenu drwy'r wlad. O'r herwydd, cynghora ddarllenwyr iau'r *Cenhadwr Americanaidd*:

Ymbaratowch, ieuencyd, i'r Jubili fawr—daw America yn rhydd,—a daw yr holl ddaear yn rhydd oddiwrth y gwaradwydd a'r erchylldra hwn,—a bydd llawenydd ar y ddaear, a llawenydd yn y nef, yn nathliad y fuddugoliaeth fawr hon ar deyrnas y fagddu.<sup>112</sup>

Difyr yw gweld Everett yn cyfeirio at Jiwibili'r dyfodol gan annog yr 'ieuencyd' yn benodol i weithredu, gan mai'r bobl ifainc hyn fyddai'n byw yn y cyfnod newydd hwn.

Erbyn Ebrill 1862, a Gogledd America ym merw'r Rhyfel Cartref, ceid Robert Everett yn cyfeirio at y gwrthdaro gwaedlyd ond yn amlwg yn ffyddiog y byddai lluoedd yr Undeb yn ennill yn y diwedd, a chan hynny, meddai, 'Dylem fod yn ddiolchgar fod cymaint wedi ei wneyd mewn cyfeiriad i gadarnhau y Llywodraeth, a phan dderfydd y gwrthryfel annaturiol rhaid i ni gael Jubili Gyffredinol.'<sup>113</sup> Deuai gwaredigaeth i'r caethion ar yr amod bod y Gogledd yn llwyddiannus. Ond erbyn diwedd y flwyddyn, a'r datganiad fod Lincoln am sicrhau rhyddfrenio'r caethion ar 1 Ionawr 1863 yn hysbys, gallai Everett gasglu mai dyna fyddai 'Jubili y Caethion'.<sup>114</sup> Roedd hi'n hynod arwyddocaol, felly, i gyfieithiad o'r Datganiad Rhyddid (*Emancipation Proclamation*) gael ei gyhoeddi yn *Y Cenhadwr Americanaidd* fis Chwefror 1863 dan y pennawd 'BLWYDDYN Y JUBILI. Y GYHOEDDEB O RYDDID I DAIR MILIWN O GAETHION!'<sup>115</sup> Gyda hynny, cafwyd

<sup>111</sup> Watkins, 'Gohebiaeth o Gymru', 399.

<sup>112</sup> Robert Everett, 'Cyfarchiad at Ieuencyd ar Ddechreu y Flwyddyn 1859', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1859), 3.

<sup>113</sup> Idem., 'Y Talaethau Unedig', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1862), 157.

<sup>114</sup> Idem., 'Y Talaethau Unedig. Jubili y Caethion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1862), 400.

<sup>115</sup> Idem., 'BLWYDDYN Y JUBILI. Y GYHOEDDEB O RYDDID I DAIR MILIWN O GAETHION!', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1863), 62-3.

llewyrchyn o obaith yng nghanol yr ymladd; a gallai awdur a ysgrifennai dan yr enw ‘Glas Welltyn’ nodi mewn ysgrif greadigol o’i eiddo, ‘Dadl Rhwng Caethiwed a Rhyddid’, er bod perygl i ddiwedd y rhyfel fod ‘yn fil gwaeth na’[r] dechreuad’, y gallai pleidwyr rhyddid ‘b[ê]r ganu, gorfoleddu a dawnsio am ddyfod dydd a blwyddyn eu Jubili.’<sup>116</sup>

Serch hyn, gwelid peth gwahaniaeth barn yn y wasg. Er i ‘Glas Welltyn’ gydnabod yn ei ysgrif fod perygl i’r Rhyfel ddarfod gyda chanlyniadau dinistriol, nodyn o orfoledd a geir ganddo’n bennaf, am fod y caethion, bellach yng ngolwg y gyfraith, wedi cael eu rhyddid. Yn ei anerchiad blynyddol i Gyfrol XXVII *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, ar y llaw arall, ceir William Rowlands yn llai parod i ddathlu ac yn datgan y deuai’r gwir Jiwibili, ‘adeg [y] Jubili Americanaidd’, gyda therfyn y Rhyfel a chyda ‘dychwelyd i’r hen Undeb’.<sup>117</sup>

Adleisiwyd William Rowlands i ryw raddau gan Robert Everett yn ei gyfarchiad at ddarllenwyr *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Ionawr 1865.<sup>118</sup> Yr oedd yntau, bellach, o’r farn y deuai’r *wir* Jiwibili ar ôl i’r Rhyfel Cartref ddarfod yn llwyr, ond credai nad oedd y diwedd yn bell. Fel y dywed Jerry Hunter, ‘Caethwasanaeth oedd prif warthnod America yn [nhyb Robert Everett], ond gan ei bod ar fin trengi o’r tir roedd y “Jubili cyffredinol” ar wawrio.’<sup>119</sup>

Pan dorrodd y wawr honno, nid oedd prinder ymateb yn y wasg, a chafodd nifer o feirdd eu hysbrydoli i ganu amdani ar ffurf cerdd, cân ac emyn, fel y gwelir maes o law.<sup>120</sup> Yn wir, yr oedd y term yn arwyddocaol ymysg y caethion yn America nes iddynt ddatblygu traddodiad o gysylltu’r gair ‘Jiwibili’ gyda *genre* o ganeuon ysbrydol a lawenhâi wrth obeithio am ryddid. Fel y dywed Callahan:

African Americans came to associate the year of jubilee with the freedom for which they yearned with such longing. Negro spirituals that celebrate freedom came to be

---

<sup>116</sup> ‘Glas Welltyn’, ‘Dadl Rhwng Caethiwed a Rhyddid’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1863), 269.

<sup>117</sup> William Rowlands, ‘Yr Anerchiad Blynyddol i Gyfrol XXVII o’r “Cyfaill o’r Hen Wlad.”’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (1864), iv.

<sup>118</sup> Robert Everett, ‘Cyfarchiad at Ein Darllenwyr ar Ddechreu y Flwyddyn Newydd’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1865), 1-2.

<sup>119</sup> Jerry Hunter, *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004; ail argraffiad), 244; Gweler, hefyd, Idem., *I Ddeffro*, 237.

<sup>120</sup> Defnyddiwyd y Jiwibili hefyd mewn testunau a gyhoeddwyd yng Nghymru wrth ddathlu Datganiad Rhyddid Lincoln a diwedd y Rhyfel Cartref. Er enghraifft, ‘Uncle Tom’, ‘Rhyddhad Caethion America’, *Y Gwladgarwr* (28 Mawrth 1863), 7: ‘Eu Jubil ddaeth, dydd chwythu’r udgym sain’; ‘Wilberforce’, ‘Prydest Ar “Rhyddhad y Caethion yn America.”’, *Y Gwladgarwr* (21 Gorffennaf 1866), 7: ‘Gan anadl rhyddid, mae Jubil y caeth / Yn seinio o dalaeth i dalaeth’.



known as jubilee songs, and the word *jubilee* later came to designate the African-American quartets that sang this music in the late nineteenth century.<sup>121</sup>

### **‘Gwawr blwyddyn y Jubil o’r diwedd a ddaeth’<sup>122</sup>**

Cyn i Lincoln gyhoeddi’r Datganiad Rhyddid, ac yn yr un modd â’r caethion eu hunain, cyhoeddai’r diddymwyr nifer o gerddi ac emynau a oedd yn frith o gyfeiriadaeth Feiblaidd at y Jiwibili, y syniad o waredigaeth, a diosg iau caethiwed.<sup>123</sup> Fel y dywed Coffey, ‘Using these biblical materials, abolitionists created their own theology of liberation, one that was articulated in speeches, sermons, songs, poems, and prayers, and displayed in iconography.’<sup>124</sup> Ac yn wir, datblygodd y Jiwibili yn fotiff cyfarwydd ac effeithiol yng nghanu beirdd Cymraeg America.

Cyhoeddwyd ‘Anerchiad i’r Gymdeithas Wrthgaethiwawl’ ar ffurf cerdd gan Robert Maurice o Trenton yn rhifyn Mai 1842 *Y Cenhadwr Americanaidd*. Yn yr un modd ag ‘Iorwerth’ yn ei ysgrif uchod, yr oedd Maurice yn llwyr gefnogol i ymgyrch diddymol y ‘Gymdeithas Wrthgaethiwol’, a’r hyn a geir drwy gydol y gerdd yw annog y Gymdeithas i barhau gyda’i gweledigaeth. Cyfeirir at sefyllfa druenus y ‘Negro digred’ yn cael ei amddifadu o grefydd, a noda fod efengyl ddyngarol Crist yn awgrymu y buasai ‘yr Iesu’ o blaid y Gymdeithas. Ond yr hyn sy’n berthnasol i’r drafodaeth bresennol yw i bennill agoriadol yr Anerchiad gynnwys cyfeiriad at y Jiwibili, gan nodi y byddai hithau’n siŵr o ddyfod yn sgil ymdrechion y Gymdeithas:

Y Gymdeithas Wrthgaethiwol,  
Dos ymlaen;  
Ymledaena ’n gyffredinol,  
Dos ymlaen;  
Jubilee a ddaw i’r caethion,  
Mae i raddau dda arwyddion,  
Cant eu rhoddi oll yn rhyddion,  
Dos ymlaen.<sup>125</sup>

---

<sup>121</sup> Allen Dwight Callahan, *The Talking Book: African Americans and the Bible* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2006), 84.

<sup>122</sup> T. B. Morris, ‘Pryddest ar Broclomasiwn yr Arlywydd Lincoln yn Rhyddhau y Caethion’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Awst 1868), 249.

<sup>123</sup> Gweler Vicki Lynn Eaklor (gol.), *American Anti-Slavery Songs: A Collection and Analysis* (Westport, CT: Greenwood Press, 1988).

<sup>124</sup> John Coffey, *Exodus and Liberation: Deliverance Politics from John Calvin to Martin Luther King Jr.* (New York: Oxford University Press, 2014), 108.

<sup>125</sup> Robert Maurice, ‘Anerchiad i’r Gymdeithas Wrthgaethiwawl’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1842), 147.

Roedd defnyddio'r term llwythog hwnnw yn y pennill uchod yn fodd o gyfleu cenhadaeth y diddymwyr mewn ffordd gryno a chofiadwy.

Delweddir dydd dyfod y Jiwibili mewn nifer o gerddi fel diwrnod o ddathlu mawr, lle cenid ffanfer fuddugoliaethus – a hynny'n atgoffaol o'r corn maharen (שופר) a seinid adeg dyfodiad y Jiwibili Iddewig (Lef. 25:9). Mynegid hyn yn aml gyda llinellau megis, 'Achub fy nghenedl o'u gwae; / Swnied udgorn Jubili, / Bloeddied ryddid i ni'; a 'Swnier Jubil fawr trwy'r gwledydd, / Tyner y carcharau i lawr'.<sup>126</sup> Roedd y ddelwedd honno o seinio rhyddid i'r caethion Americanaidd yn nodweddiadol o ganeuon ysbrydol y caethion eu hunain yn ogystal.<sup>127</sup>

Datgenid yn aml hefyd y byddai dyfodiad y Jiwibili yn gyffelyb i doriad gwawr ar ôl noson o dywyllwch hirfaith. Enghraifft nodedig o'r ddelweddaeth hon yw'r 'Ychydig Benillion' a gyflwynwyd gan Jane Williams o Turin, Swydd Lewis, ac a gyfansoddwyd ganddi gyda golwg at y dyfodol pan fyddai rhyddid yn llwyddo.<sup>128</sup> Yn llinell gyntaf y pennill agoriadol, ceir datganiad proffwydoliaethol ei naws wrth i Jane Williams ddweud, 'Fe wawria y Jubili ddydd, / Fe dorir cadwynau y caeth', gan fynegi'n syth y dyhead a'r ffydd ddiysgog ymysg y diddymwyr y deuai ymwarded yn fuan; 'Gwir ryddid gyhoeddir yn rhad, / Trwy'r eang dalaethau i gyd.'<sup>129</sup>

Difyr yw nodi'r modd y disgrifia Williams ddyfodiad rhyddid i'r Affricaniaid Americanaidd. Daw'r Jiwibili â 'gwir ryddid' i'r Unol Daleithiau a chaiff 'Plant Affrica [...] ryddid i ddarllen y Gair', ond bydd angen cryn ddycnwch cyn i hynny ddigwydd, ac fe ellid dadlau mai'r awgrym a geir yw y bydd gwrthdaro cyn iddynt lwyddo. 'Caethiwed a deflir i lawr' pan fydd y caethion yn ennill eu hawliau sylfaenol, a phan lwydda 'eu concwest' yn

---

<sup>126</sup> Cyfieithiad o waith E. W. Jones gan Morris Roberts, 'Cwyn y Caethddyn. (*A genir ar y Don "Anthem Americanaidd."*)', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1844), 51; Cyflwynwyd gan S. A. Williams, 'Ocheneidiau y Negro', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1844), 114.

<sup>127</sup> Er enghraifft: 'I'll Be Free, I'll Be Free', a 'Song of the Coffle Gang', yn William W. Brown (gol.), *The Anti-Slavery Harp: A Collection of Songs for Anti-Slavery Meetings Compiled by William W. Brown, A Fugitive Slave* (Boston, MA: Bela Marsh, 1849; ail argraffiad), 11, 19-20, 29.

<sup>128</sup> Enghraifft ddiddorol arall sy'n werth ei chrybwyll yn y cyswllt hwn yw 'C[â]n am Ryddid' gan T. Edwards, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 144. Yn y gerdd honno, rhestra Edwards nifer o enghreifftiau nodedig o unigolion a chymdeithasau gormesol a fu ar hyd y canrifoedd. Cyfeirir at Nero, yr Ymerodraeth Rufeinig, Domitian, Diocletian a Mari Waedlyd, ac awgryma fod caethiwed America yn y llinach hon. O'r herwydd, ceir Edwards yn dyheu, 'O gwawried y Jubil lon / Ar y trigolion sydd / Mewn dig gaethiwed cyflwr coll / Nes oll eu rhoddi 'n rhydd'. Yn yr achos hwn, felly, roed y 'Jiwibili' yn cyfleu'n union yr ymwarded rhag gorthrwm a ddeuai i ran caethion America.

<sup>129</sup> Jane Williams, 'Ychydig Benillion A gyfansoddwyd ar Fuddugoliaeth Rhyddid', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1845), 340.

[f]awr'. Digwydd hynny cyn bo hir, meddai, oherwydd bod cynifer yn ymlafnio 'Trwy rym egwyddorion y ffydd'.<sup>130</sup> Diau mai gormodiaith a geir yma er mwyn cyfleu dwyster y sefyllfa, ond gellir ystyried y geiriau 'a deflir', 'concest' a '[g]rym' fel rhagargoel o'r gwrthdaro a ddigwyddai oherwydd caethwasiaeth, ac yn arbennig, felly'r Rhyfel Cartref, a fyddai'n terfynu ymhen ugain mlynedd i gyhoeddi'r penillion hyn.

Cyfeirir mewn amryw gerddi yn y 1840au, fel y sylwyd eisoes, at ddyfodiad y waredigaeth fawr gan gynnwys llinellau megis 'Cawn yn fuan Jubili'; 'O ai ti yw'r Jubili', a 'Dedwydd dyddiau fydd / Pan LWYDDO'R JUBILI!'<sup>131</sup> Drachefn, roedd hyn hefyd yn nodweddiadol o'r cerddi ac emynau diddymol Saesneg a gyhoeddiid yn America.<sup>132</sup>

A phan gafodd Datganiad Rhyddid Lincoln ei roi ar waith, gwelid nifer yn gorfoleddu o'i herwydd. Er enghraifft, yn rhifyn Mehefin 1864 *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, ailgyhoeddwyd cerdd nid anenwog ymysg y Cymry gan Daniel Ddu o Geredigion, 'Cwyn y Caethwas'. Cerdd yn galaru am gyflwr y caethion ac yn cynnwys lleisiau amryw rai sy'n byw dan iau gorthrwm ydyw. Ond y tro hwn, ychwanegwyd tri phennill o eiddo R. H. Evans, Columbus, Ohio at ddiwedd y gerdd, er mwyn datgan fod 'Duw y nefoedd wedi gwranddo' ar gri'r caethion. Gweithiodd Duw drwy Lincoln i gyhoeddi na 'cheir gwerthu dyn am arian' mwyach, ac o'r herwydd, gall Evans ddatgan 'Fod y Jubil wedi gwawrio!'<sup>133</sup>

Ceir datganiad cyffelyb mewn cerddi eraill,<sup>134</sup> ond ceir hefyd naws chwerw-felys yng nghanu rhai o'r beirdd oherwydd – ar y naill law – sicrhawyd rhyddid i'r caethion, ond ar y llaw arall, llofruddiwyd Lincoln yn fuan wedi'r fuddugoliaeth.

Dyna'n wir yr hyn a welir yn y farwnad 'Deigrin Hiraeth' gan 'Glaswelltyn'.<sup>135</sup> Ceir y bardd yn galaru am y golled ddiweddar, a chyda hynny mewn golwg, dywed i Lincoln ddod yn ferthyr gyda'i farwolaeth. Daeth yr arfer o gyfeirio yn y fath fodd yn weddol gyffredin yn y cyfnodolion,<sup>136</sup> ac ynghyd â'r syniad i Lincoln ddod 'Yn Ferthyr dros fywyd ei wlad',<sup>137</sup>

---

<sup>130</sup> Ibid.

<sup>131</sup> Gwilym Oneida, 'Penillion Gwrthgaethiwol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1844), 114; Lewis Powell, 'Groesawiad I'r Flwyddyn Newydd', *Y Seren Orllewinol* (Ionawr 1849), 8.

<sup>132</sup> Er enghraifft: Charles Pickard Ware, 'Rock O' Jubilee', yn William Frances Allen (gol.), *Slave Songs of the United States* (New York: Cosimo, 2009; argraffiad gwreiddiol ym 1867), 25; 'Jubilee Song', yn William W. Brown (gol.), *The Anti-Slavery Harp*, 11; William Lloyd Garrison, 'The Triumph of Freedom', *The Liberator* (10 January 1845). Gweler, hefyd, William Lloyd Garrison, *Selections from the Writings and Speeches of William Lloyd Garrison* (Boston, MA: B. F. Wallcut, 1852), 316.

<sup>133</sup> R. H. Evans, 'Cwyn y Caethwas', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehefin 1864), 216.

<sup>134</sup> Er enghraifft, Dewi Emlyn, 'Y Telynau ar yr Helyg', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1865), 82.

<sup>135</sup> Yr un bardd o Racine, Wisconsin oedd 'Glaswelltyn' a 'Glas Welltyn'.

<sup>136</sup> Er enghraifft, 'Ein Llywydd Wedi ei Ferthyru', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mai 1865), 144.

roedd yn anorfod y byddai hefyd yn cael ei uniaethu â Moses, yr ‘Abolitionist mawr hwnw’ a arweiniodd yr Hebreaid o’r Aifft,<sup>138</sup> ac yn arbennig, ag Iesu Grist, a fu farw er mwyn rhyddhau’r ddynoliaeth o’i phechod.

Clodforir prif gamp y diweddar arlywydd yn sicrhau ‘Y Jubil hedd’ drwy ddymchwel ‘[c]aethglud Cham a’i had’. Mynegir ing y golled, ond gwelir ‘Glaswelltyn’ hefyd yn cyson bwysleisio’r hyn a gyflawnodd Lincoln yn ystod ei oes; ac o’r herwydd, gall gasglu y bydd hynny’n sicrhau y cofir am yr arlywydd gyda ‘[ph]arch’ o’r mwyaf. Meddai:

Ein Llywydd mwyn tra ’r wylwn ni,  
Ein colled wrth dy golli di,  
Y mae rhyw afon fawr ei si  
    Yn rhedeg draw:  
I ddwyn dy glod, y gwron cu,  
Tra ’r huni yn y beddrod du,  
Agoraist ddrws y Jubili  
    I rai mewn braw.<sup>139</sup>

Gwelir y cysylltiad rhwng Lincoln ac Iesu’n arbennig yn llinellau clo’r farwnad. Wedi gresynu nad oes ganddo adenydd i allu hedfan at fedd Lincoln er mwyn ‘cysegr[u] iaith / O barch yn llawn’, dymuna ‘Glaswelltyn’ i angylion ofalu am y diweddar arlywydd a’i amddiffyn rhag llid gelynon:

---

<sup>137</sup> David Price (Dewi Dinorwig), ‘Teyrnged i Goffadwriaeth Abraham Lincoln’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1865), 241. Ceir hefyd gyfeirio at Lincoln a Moses ar yr un gwynt mewn testunau eraill, er enghraifft, yn Thos. Jenkins, ‘Marwolaeth y Llywydd Lincoln. Pregeth.’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1865), 195 [193-8], nodir, ‘Yr oedd Lincoln yn offeryn gan Dduw fel Elias i adfer sefydliadau y wlad, ac fel Moses i waredu caethion yr Aifft.’; Samuel Williams, ‘PREGETH. *Ar farwolaeth a chladdedigaeith yr Anrhydeddus ABRAHAM LINCOLN, diweddar Lywydd yr Unol Dalaethau, a draddodwyd gan Samuel Williams, Scranton, yn Nghapel yr Annibynwyr, nos Sabboth, Ebrill 23, 1865*’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1865), 198-201; ‘Moses’, *Y Seren Orllewinol* (Hydref 1867), 231-4.

<sup>138</sup> E. R. Lewis, ‘Marwolaeth A. Lincoln’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1865), 149.

<sup>139</sup> ‘Glaswelltyn’, ‘Deigrin Hiraeth *Am ein parchus Lywydd ABRAHAM LINCOLN.*’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1865), 210. Cyfeirir at y ‘Jiwibili’ yng nghyd-destun marwolaeth arlywydd arall mewn cerdd gan ‘E.V.’ yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1841), ‘Ar farwolaeth ein diweddar Lywydd William Henry Harrison’, 208. Roedd nawfed arlywydd yr Unol Daleithiau yn bleidiol i’r achos gwrth-gaethiwol ond bu farw yn fuan iawn ar ôl i’w dymor arlywyddol ddechrau ym 1841. Gyda’i farwolaeth, collwyd cefnogwr dylanwadol i’r ymgyrch gwrth-gaethiwol, a dyna’n wir a fynegir yn ail bennill y farwnad: ‘Plant Ethiopia, a wylant yn drwm, / Rhyd maesydd y Dehau yn gaethion a llwm; / Heb obaith am Jubili, i dd’od i’w rhyddhau, / Am golli eu Noddwr dwfn ydyw eu gwae.’

Dymunwn i angylion hedd  
I wylion dyner iawn dy fedd,  
Fel na ch[â]i gelyn byth mwy sedd  
O'th amgylch di:  
Na golwg ar y llanerch clyd,  
Sy'n cynwys trysor hoffa'r byd,  
A deiliad Iawn yr angau drud,  
Ein Lincoln ni.<sup>140</sup>

Mae'n ddiddorol i 'Glaswelltyn' gyfeirio at Lincoln fel 'deiliad yr Iawn' uchod, gan sicrhau haen ddiwinyddol ychwanegol i'r gerdd.<sup>141</sup> Yn ôl 1 Ioan 2:2 (cf. 1 In. 1:7), yr Iesu yw 'yr iawn dros ein pechodau ni: ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd.'<sup>142</sup> Yr awgrym a geir gan 'Glaswelltyn' yw y bu farw Lincoln er mwyn gwneud 'iawn' am bechodau trigolion yr Unol Daleithiau yn yr un modd ag y gwnaeth Iesu er mwyn y ddynoliaeth. Roedd cyfochri Lincoln ag Iesu, a chyda'r weithred a oedd yn greiddiol i hanfod Cristnogaeth, sef yr aberth ar y groes, yn ddyfais hynod drawiadol.<sup>143</sup>

O ystyried athrawiaeth yr Iawn mewn cyd-destun ehangach, gwelir bod haen ddiwinyddol hyd yn oed yn ddyfnach i'r gerdd. Sicrhaodd 'aberth' Lincoln '[g]ymmod dros [... b]echodau' trigolion Gogledd America.<sup>144</sup> Gyda hynny, gwelir cysylltiad â thestunau Luc 4:18 ac Eseia 61:1 (cf. 58:6) a'r broffwydoliaeth honno yr oedd Lincoln fel petai wedi'i chyflawni, i 'gyhoeddi rhyddad i garcharorion, [...] i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi blwyddyn ffafr yr Arglwydd'.

Gwelir hefyd gysylltiad â deddf y Jiwibili, sef sylfaen testunau Luc 4:18 ac Eseia 61:1. Roedd yr 'Iawn' neu'r 'cymod' (ἰλασμός) fel a geir yn 1 Ioan 2:2 yn atgoffaol o ddeddf y Jiwibili oherwydd defnyddir y gair ἰλασμός yn fersiwn y Deg a Thrigain o Lefiticus wrth drafod Dydd y Cymod (ἰλασμοῦ), pan gyhoeddid '[rh]yddid trwy'r wlad i'r holl drigolion', a

---

<sup>140</sup> 'Glaswelltyn', 'Deigryn Hiraeth', 210.

<sup>141</sup> Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), 479-82. Am drafodaeth ddiddorol ynglŷn â'r modd y galarwyd am Lincoln a'r modd y defnyddiwyd ffigyrau amlwg y Beibl yn y cyd-destun hwnnw, gweler *Ibid.*, 474-7.

<sup>142</sup> Dyfynnir yma gyfieithiad Peter Williams, *Y Bibl Sanctaidd; sef, yr Hen Deftament a'r Newydd, Gyd a Nodau a Sylwadau ar Bob Pennod* (Caerfyrddin: J. Ross, 1770), gan mai Beibl Peter Williams, neu fersiynau o'r cyfieithiad hwnnw, yn ôl pob tebyg, a oedd yn boblogaidd yn yr oes. Mae'r cyfieithiad hwn yn debyg i'r adnod yn *Y Bibl Cyssegr-lan*, ond yn wahanol i fersiwn y *Beibl Cymraeg Newydd* sy'n cyfieithu ἰλασμός fel 'cymod', yn hytrach nag 'iawn'.

<sup>143</sup> L. L. Morris, 'Atonement', yn Sinclair B. Ferguson a David F. Wright (goln), *New Dictionary of Theology* (Downers Grove, ILL: Inter-Varsity Press, 1988), 54.

<sup>144</sup> Thomas Charles, 'IAWN', yn *Geiriadur Ysgrhythrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrhythrol* (Wrexham: Hughes and Son, 1885; seithfed argraffiad), 526.

dechrau blwyddyn y Jiwbili (Lef. 25:9-10).<sup>145</sup> Gwelir, felly, fod cysylltiad arall, anuniongyrchol â deddf y Jiwbili wrth nodi bod Lincoln yn '[dd]eiliad yr Iawn', gan iddo wneud 'aberth cymod' am bechod caethwasiaeth, yr hwn a fu'n warthnod ar yr Unol Daleithiau gyhyd.<sup>146</sup>

Fel y sylwyd eisoes, roedd Jiwbili Lefiticus, yn ôl dadansoddiad Kawashima, yn fodd o wneud iawn am lygredigaeth gymdeithasol ac economaidd yn Israel,<sup>147</sup> ac yn ôl dealltwriaeth 'Glaswelltyn', gellid dweud i 'aberth' Lincoln wneud cymod cyffelyb er mwyn adfer 'purdeb' yng nghymdeithas ac economi Gogledd America.

Yn ddiau, gwnaeth 'Glaswelltyn' ddefnydd amlweddol a thrawiadol iawn o gysyniad y 'Jiwbili' yn y farwnad hon.

Cyhoeddwyd pryddest ar 'Broclomasiwn yr Arlywydd Lincoln yn Rhyddhau y Caethion', a ddaeth yn fuddugol yn Eisteddfod Utica, 1 Ionawr 1868, gan T. B. Morris (Gwyneddfardd) yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* ym mis Gorffennaf 1868. Yn y bryddest honno, yn yr un modd, dethlir bod diwedd caethiwed wedi dyfod, a bod yr Unol Daleithiau bellach yn mwynhau breiniau rhyddid; ac yn y cyswllt hwn, defnyddir cysyniad y Jiwbili dair gwaith. Er enghraifft:

Dyrchafer llawen-fleodd ar aellau 'n clogwyni,  
Cyfarched peroriaeth ddyffrynoedd ein gwlad;  
Gosodwch i chwifio y "SER A'R BRITHRESI,"  
Ar feddau dirmygus Caethiwed a brad:  
Gwên blwyddyn y Jubil sy'n gwisgo 'r Talaethau,  
Fel mantell ysgarlad o'r mynydd i'r môr;  
Mae bysedd yr awel yn chwareu 'r telynuau,  
Gyflewyd er's oesau yn nhemlau ein Iôr.<sup>148</sup>

Olrheinir, mewn modd dramatig, hanes 'plant Affric yn nghyffion Caethiwed' America, a'r modd y cyneuwyd y rhyfel, a hynny'n bennaf, er mwyn gofalu am ryddid i'r caeth. Ynghyd â bwrw golwg ar y digwyddiadau diweddar, llawenheir drwy gydol y gerdd fod y Rhyfel wedi peidio, bod 'RHYDDID yn cael chwerthin yn ngawr y boreuddydd', a bod y caethion, bellach, yn cael mwynhau iawnderau crefyddol a rhyddid cyffredinol; a

---

<sup>145</sup> Judith M. Lieu, *The Theology of the Johannine Epistles* (Cambridge a New York: Cambridge University Press, 1991), 63.

<sup>146</sup> Thomas F. Johnson, *1, 2, And 3 John* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, Inc., 1993), 35.

<sup>147</sup> Kawashima, 'The Jubilee Year and the Return of Cosmic Purity', 371.

<sup>148</sup> T. B. Morris, 'Pryddest Ar Broclomasiwn yr Arlywydd Lincoln yn Rhyddhau y Caethion', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gorffennaf 1868), 216.

hynny am i'r arlywydd droi 'ei olwg at orsedd y nefoedd', a chael cefnogaeth ddwyfol i'r crwsâd:

Sain udgorn y Jubil a gyrhaedd bob goror,  
Hysbysir trwy'r ddaiar fod rhyddid i'w rhan;  
Eu breinlen anwylant—hon yw eu prif drysor,—  
Ymwarded ddaeth trwyddi i'r truan a'r gwan.<sup>149</sup>

Cyfeirir at gyflwr y caethion bellach yn 'ddarlun o wynfa', yn cael byw heb ofn cael eu fflangellu, ac yn hyn o beth, crybwyllir sefyllfa'r gaethferch yn benodol:

Nid mwyaf yn llusgo ei chadwyn ceir "Yamba,"  
Mewn gobraith a rhyddid yr hun a'r wâr hon.<sup>150</sup>

Roedd yn ddadlennol i Morris ddefnyddio'r enw 'Yamba' i gyfeirio at y gaethferch uchod. Ers 1797, daethai 'Yamba' yn symbol neu'n gymeriad stoc i gynrychioli caethferched mewn llenyddiaeth wrth-gaethiwol. Yn y flwyddyn honno, cyhoeddwyd y gerdd 'The Sorrows of Yamba; or, the *Negro Woman's Lamentation*', gan Hannah More ac Eaglesfield Smith, a ddarluniai druenusrwydd caethferch wrth iddi alaru am ei chyflwr presennol a hiraethu am ei chartref a'i theulu.<sup>151</sup> Daeth y gerdd yn un boblogaidd a mabwysiadwyd cymeriad 'Yamba' i lenyddiaeth Gymraeg pan rydd-gyfieithwyd y gerdd gan Samuel Roberts, Llanbryn-mair; 'Cwynion Yamba. Y Gaethes Ddu'.<sup>152</sup> Er mai cyd-destun gwreiddiol llunio'r gerdd oedd yr ymgyrch i ryddhau'r caethion mewn tiriogaethau Prydeinig megis Jamaica yn y 1830au, daethai'n destun poblogaidd a dylanwadol ymysg yr ymgyrch diddymol yn yr Unol Daleithiau.<sup>153</sup> Ym marn E. Wyn James, roedd hon yn un o'r ddwy gerdd wrth-gaethiwol Gymraeg fwyaf dylanwadol.<sup>154</sup> Yn wir, cafodd trosiad Samuel Roberts ei

---

<sup>149</sup> Ibid.

<sup>150</sup> Ibid.

<sup>151</sup> Hannah More ac Eaglesfield Smith, *The Sorrows of Yamba; or, the Negro Woman's Lamentation* (London: J. Marshall et al., 1797). Gweler ymhellach, Clare Midgley, *Women Against Slavery: The British Campaigns, 1780-1870* (London a New York: Routledge, 1992), 27-9.

<sup>152</sup> Glanmor Williams, *Samuel Roberts, Llanbryn-mair* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1950), 59, 61. Cyhoeddwyd y gerdd am y tro cyntaf gan Samuel Roberts yn *Y Dysgedydd* yn Ebrill 1830.

<sup>153</sup> E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', 56.

<sup>154</sup> Idem., 'Welsh Ballads and American Slavery', *The Welsh Journal of Religious History*, 2 (2007). Y gerdd arall oedd 'Cân y Negro Bach' gan Benjamin Price (Cymro Bach). Gweler Pennod 3 isod am drafodaeth bellach.

gyhoeddi ar fwy nag un achlysur yn y wasg Gymraeg yn America, a defnyddiwyd ‘Yamba’ mewn rhai cerddi gwreiddiol ac ysgrifau gwrth-gaethiwol.<sup>155</sup>

Yr hyn sy’n drawiadol yw i Morris ganu am y digwyddiadau cefndirol a arweiniodd at gyhoeddi’r Datganiad Rhyddid, ac am effaith y Datganiad drwy ddefnyddio hen ffurf o draddodiad barddol ei famwlad, y bryddest, mesur Cymreig, i drafod pwnc Americanaidd. Felly hefyd iddo wneud defnydd o’r cymeriad stoc ‘Yamba’, a amlygwyd mewn llenyddiaeth wrth-gaethiwol Saesneg, ond at ddibenion amgenach yma – er mwyn datgan bod y caethion bellach wedi’u rhyddhau, ac felly, fod sefyllfa ‘Yamba’ bellach wedi’i thrawsnewid.

Tua diwedd y bryddest, nodir i Lincoln lwyddo yn ei weithredoedd i sicrhau y byddai ‘ei enw yn fythol gerfiedig / Ar wynion golofnau teml rhyddid a hedd’.<sup>156</sup> Mewn modd nid annhebyg i ‘Glaswelltyn’ uchod, ceir yma Morris yn delweddu Lincoln fel arwr, os nad, yn wir, fel sant i’r Affricaniaid Americanaidd. Dywed y cofient am Lincoln ‘tra dwfr yn y Werydd’, ac mewn modd defosiynol, yr ‘Eneiniant [â]’u dagrau briddellau ei fedd’.<sup>157</sup>

## Y Jiwili Gristnogol

Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd Jiwili yr Hen Destament i Gristnogion Cymraeg Cymru ac America, yn ogystal â bod yn arwyddair i lwyddiant ymgyrch diddymiaeth yr Unol Daleithiau, yn rhyw fath o gysgod o’r rhyddid ysbrydol a ddeuai gyda’r efengyl.<sup>158</sup>

Gwelir y gred hon yn niffiniad Thomas Charles am y ‘Jubili’ yn ei *Eiriadur Ysgrythyrol*. Wedi trafod y ddeddf a geir yn Lefiticus 25, noda:

Udganiad yr udgorn a arwydda pregethiad yr efengyl, neu y cyhoeddiad o aberth Crist, a rhyddid i bechaduriaid o’u caethiwed mawr yn ganlynol yn hyny. Fel yr oedd nid yn unig ryddid i’r caethion ar flwyddyn y Jubili, ond hefyd yr hyn oll a fforffedwyd, ac a gollwyd, yn cael ei ddwyn yn [ô]; felly trwy Grist y mae rhyddhad i

---

<sup>155</sup> Er enghraifft, cyhoeddwyd rhydd-gyfieithiad Samuel Roberts, ‘Cwynion “Yamba,” Y Gaethes Ddu’, yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1842), 210-11.

<sup>156</sup> T. B. Morris, ‘Pryddest Ar Broclomasiwn yr Arlywydd Lincoln yn Rhyddhau y Caethion’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Awst 1868), 249.

<sup>157</sup> Ibid.

<sup>158</sup> Roedd y dehongliad hwn yn un poblogaidd yn ystod yr oes. Er enghraifft, cyfeiriodd John Robinson yn ei *A Theological, Biblical, and Ecclesiastical Dictionary* (London: G. Sidney, 1815), at y sylwadau a geir yn y *Parkhurst’s Hebrew and English Lexicon*: ‘The Jubilee, says Mr. Parkhurst, was a most lively and animating prefiguration of the grand consumation of time, which will be introduced in like manner by the *trump* of God (1 Cor.xv.52), when the children and heirs of God shall be delivered from all their forfeitures, and restored to the eternal *inheritance* allotted to them by their fathers’.



bersonau pechaduriaid yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl, ac hefyd, adferiad i'r holl freintiau a gollwyd trwy bechod, a llawer mwy.<sup>159</sup>

Yn unol â sylwadau Charles uchod, defnyddid y gair i gyfeirio at gyfnod o lwyddiant crefyddol unwaith y derbynid Crist, ac fe gydiodd y syniadaeth hon yn nychymyg amryw Gymry. Er enghraifft, cyhoeddwyd pregeth gan y Parch. John Jones, Llanllyfni yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* fis Ionawr 1843, yn trafod testun 2 Corinthiaid 6:2 ac 'Iachawdwriaeth'. Mae rhan gyntaf yr adnod hon, meddai'r gweinidog, yn atgoffaol o eiriau'r proffwyd Eiseia (49:8), a oedd yn seiliedig ar Lefiticus 25 a deddf blwyddyn y Jiwibili. Wedi nodi seiliau Iddewig y ddeddf honno, cyflwyna Jones ddehongliad Cristnogol o'r cysyniad, a gyfeiriai at lwyddiant ysbrydol:

y Jubili Iddewig gynt; pryd y byddai y caethion yn cael eu rhyddhau, a'r etifeddiaeth yn cael ei rhoddi yn [ô]l i'r etifedd; yr oedd yr amser hwnw yn gysgod o amser goruchwyliaeth yr Efengyl. Amser i amlygu ewyllys da Duw i ddynion ydyw amser goruchwyliaeth yr Efengyl. Pan ddaeth yr angylion i gyhoeddi genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist, eu cân oedd, 'Tangnefedd ar y ddaear, i ddynion ewyllys da.'<sup>160</sup>

Yn ychwanegol at hynny, defnyddid y 'Jiwibili' i gyfeirio at gyfnod ar ddiwedd amser ei hun a dyfodiad y Jiwibili nefol – pan na fyddai pechod na chaethiwed mwy.<sup>161</sup> Enghraifft nodweddiadol o hyn yw erthygl T. Edwards sy'n trafod 'Ernes Etifeddiaeth y Saint'.<sup>162</sup> Sail yr ysgrif yw Effesiaid 1:14, ac amcan Edwards drwyddi draw yw pwysleisio'r modd y dylai pob un sy'n arddel yr enw 'Cristion' efelychu'r 'saint' a welir yn y Beibl. O wneud hynny, byddai'r efengyl yn llwyddo, ac anrhydeddid Duw am eu hachub rhag pechod. Yn ogystal, byddai'n fodd o gynorthwyo'r amcan uwch, sef sicrhau bod dynoliaeth yn 'hollol rydd' i gael

---

<sup>159</sup> Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol*, 564.

<sup>160</sup> Cyflwynedig gan Thos. Lloyd Hughes, 'PREGETH, A draddodwyd gan y Parch. JOHN JONES, Llanllyfni, yn Nghymanfa y Bala, Meh. 16eg, 1830, oddiar 2 COR. VI.2—"Wele, yn yr amser cymeradwy; wele, yn awr ddydd yr iachawdwriaeth."', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1843), 1.

<sup>161</sup> Gweler trafodaeth ddifyr E. Wyn James am ddefnydd Morgan John Rhys o'r gair 'Jubil' yn ei emyn 'Torriad y Wawr' (a gyhoeddwyd ym 1794), yn 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), 46-8. 'Rhyddid ysbrydol sydd mewn golwg ganddynt [Cymry'r ddeunawfed ganrif] fel arfer wrth ddefnyddio'r gair ['Jubili'], ond pan fydd yn digwydd yng nghyd-destun trafodaethau am gaethwasiaeth, ni ellir ac ni ddylid osgoi cyd-destun gwreiddiol y gair yn ogystal – yn union fel na ddylid osgoi'r amwysedd (bwriadol?) yng ngeiriau olaf trydydd pennill Morgan John Rhys, "pwrcas gwaed": "Caiff caethion byd ar fyr ryddhad / Mewn jubil berffaith, pwrcas gwaed." Cyfeirio at Grist yn prynu rhyddid ysbrydol i bechaduriaid trwy ei farwolaeth y mae'r geiriau "pwrcas gwaed" yn y lle cyntaf, ond y maent yn ddiweddglo cyfoethog i'r pennill o gofio'r modd yr oedd llenyddiaeth wrth-gaethwasiaid yn pwysleisio natur waedlyd y fasnach mewn caethion' (t. 48).

<sup>162</sup> T. Edwards, 'Ernes Etifeddiaeth y Saint', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ebrill 1851), 107-8.

‘cwbl waredigaeth ac iachawdwriaeth’.<sup>163</sup> Pan ddigwydd hynny, meddai Edwards, daw diwedd y byd yn ei gyflwr presennol a byddent ar drothwy cyfnod newydd, cyfnod y Jiwbili ysbrydol: ‘Yn y dydd olaf bydd jubili gyffredinol y saint i gymeryd lle, a gwna yr oll i ddwyn gogoniant i Dduw am achubiaeth torf nas gall neb ei rhifo.’<sup>164</sup>

Cyfunid y dehongliad o Jiwbili’r caethion gyda’r Jiwbili ysbrydol a llwyddiant yr efengyl Gristnogol hefyd mewn ambell destun.

Yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Tachwedd 1843, ymddangosodd dyfyniadau o anerchiad a draddodwyd yn Cincinnati fis Mawrth y flwyddyn honno, gan y Parch. E. Smith o Pittsburgh, dan y teitl, ‘Caethiwed Ddim yn Cael ei Gefnogi yn y Bibl’. Yr hyn a berodd i Smith lunio’r bregeth oedd clywed ‘dynion yn dyweyd eu bod yn erbyn caethiwed, ond eu bod yn credu fod y Bibl yn ei gyfiawnhau.’<sup>165</sup> Fel y trafodir yn fanwl mewn manau eraill yn y traethawd hwn, nid oes gair yn y Beibl sy’n llwyr gondemnio caethwasiaeth, ond i Smith a’i gyfoeswyr gwrth-gaethiwol, roedd barn y Beibl yn glir, ac er mwyn dangos hynny, aeth ati yn y bregeth i wrth-brofi rhai o brif ddadleuon Beiblaidd y caeth-bleidwyr. Ei fan cychwyn oedd Lefiticus 25:44-46, ‘y brif ysgrhythyr yr ymddibynir arni’ i *gefnogi* caethwasiaeth.<sup>166</sup>

Sylwedd yr adnodau hynny yw bod Duw yn caniatáu i’r Israeliaid gael caethion i’w gwasanaethu ac i’w trosglwyddo’n etifeddiaeth i’w disgynyddion ar yr amod bod y caethion hynny’n rhai a gymerwyd ‘o blith y cenedloedd’, ‘o blith yr estroniaid sydd wedi ymsefydlu’ yn eu mysg, ‘a’r rhai o’u tylwyth sydd wedi eu geni yn eich gwlad’; nid eu cyd-wladwyr cynhenid. Bu i’r geiriau hynny daro tant gyda chaeth-bleidwyr yr Unol Daleithiau.<sup>167</sup> Credent fod Duw yn cefnogi caethwasiaeth, ac o’u huniaethu eu hunain gydag Israel, casglwyd ei bod yn dderbyniol iddynt hwythau gaethiwo’r Affricaniaid neu’r Affricaniaid Americanaidd am eu bod yn hanu o wlad arall. Meddai Clarice J. Martin:

---

<sup>163</sup> Ibid., 108.

<sup>164</sup> Ibid.

<sup>165</sup> E. Smith, ‘Caethiwed Ddim yn Cael ei Gefnogi yn y Bibl’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1843), 331.

<sup>166</sup> Ibid.

<sup>167</sup> Er enghraifft, Albert Taylor Bledsoe, ‘Liberty and Slavery; or, Slavery in the Light of Moral and Political Philosophy’, yn E. N. Elliott (gol.), *Cotton is King, and Pro-slavery arguments; Comprising the writings of Hammond, Harper, Christy, Stringfellow, Hodge, Bledsoe, and Cartwright, on this important subject* (Augusta, GA: Pritchard, Abbott & Loomis, 1860), 474: ‘God engrafted hereditary slavery upon the constitution of government.’ Gweler hefyd, e.e., Thornton Stringfellow, ‘An Examination of Elder Galusha’s Reply to Dr. Richard Fuller of South Carolina’, yn Elliot (gol.), *Cotton is King*, 502; Willard M. Swartley, *Slavery, Sabbath, War and Women: Case Issues in Biblical Interpretation* (Scottsdale, PA: Herald Press, 1983), 47.

Leviticus 25:44-46 also provided such grist for the proof-texting mill. The supposition of the proslavery argument based on Leviticus 25 could be aptly summarized: “If God gave the Hebrews ‘written permission’ to buy, hold, and sell men and women in perpetual servitude, why should we not do so as well?” Again, the *literal* reading of biblical narrative in support of slavery was thus designed to provide moral and legal sanction for the South’s defence of slaveholding.<sup>168</sup>

Dehongliad Smith yw bod tair elfen nodweddiadol i Lefiticus 25 ac nad yw’r un ohonynt yn cefnogi caethwasiaeth. Mae yntau, meddai, fel ‘yr holl esponwyr, hyd yr wyf yn wybod’ o’r farn fod y deddfau ynglŷn â chaethion a roddwyd i Israel gan Dduw, yn rhagdybio llwyddiant yr efengyl a rhyddid ysbrydol a chorfforol. Wrth fanylu ar destun Lefiticus 25, dywed;

fod y cymod yn gysgod o iawn Crist dros bechaduriaid; y Jubili yn gysgod o genadwri yr efengyl yr hon oedd i gael ei chyhoeddi i’r holl fyd yn gyhoeddiad o waredigaeth oddiwrth bechod, ac i ganlyn ing Calfaria. Ac yr wyf yn ychwanegu fod derbyniad i mewn weision o blith y cenedloedd dienwaededig yn cysgodi casgliad y bobloedd i deyrnas yr efengyl, neu i eglwys Dduw, trwy bregethiad y gwirionedd—y jubili efengylaidd o ryddid oddiwrth gaethiwed llygredigaeth, a dygiad i mewn ryddid meibion Duw.<sup>169</sup>

Wedi pwysleisio hanfod Cristnogol y deddfau a roddwyd i’r genedl Iddewig, â Smith yn ei flaen i egluro nad oedd y drefn honno o brynu ‘gweision’ o blith y cenedloedd yn niweidiol, ond yn hytrach, yn ‘osodiad o ddwyfol dosturi’.<sup>170</sup> Dadleua fod prynu’r paganiaid yn fodd o’u dwyn at ‘[dd]rws trugaredd a iechydwriaeth’, a chyda hynny, ‘at y gwir Dduw a byw’; yr oedd, mewn gwirionedd, yn fodd o’u cyflwyno at y grefydd gywir ac felly geisio ‘[II]eshad y gweision.’<sup>171</sup>

Ar yr un gwynt, cyfeirir at arwyddocâd y tir yn Israel fel eiddo Duw a rannwyd ‘rhwng llwythau, teuluoedd, a phersonau meibion Jacob’.<sup>172</sup> Nodir y gallai perchnogaeth llecynnau tir gael eu trosglwyddo o’r naill i’r llall, ond yn ystod blwyddyn y Jiwibili, adferid y drefn. Fodd bynnag, am nad oedd modd i bobl o’r cenedloedd brynu tir yn barhaol ac am nad oedd ganddynt lecyn o dir a oedd yn perthyn i’w treftadaeth, meddai, ni allent ymsefydlu yn Israel oni bai y caent eu darostwng yn gaethion neu eu derbyn i fyw ymysg y Lefiaid

---

<sup>168</sup> Clarice J. Martin, ‘The *Haustafeln* (Household Codes) in African American Biblical Interpretation: “Free Slaves” and “Subordinate Women”’, yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony The Road We Trod*, 215. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>169</sup> Smith, ‘CAETHIWED DDIM YN CAEL EI GEFNOGI YN Y BIBL’, 331.

<sup>170</sup> *Ibid.*

<sup>171</sup> *Ibid.* Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>172</sup> *Ibid.*

mewn dinasoedd caerog; ‘Ni allent gael *trigle* yng ngwlad Judea, oddieithr yn y cymeriad o weision neu rai dan deyrnged, onid mewn dinas gaerog.’<sup>173</sup>

Drachefn, gan mai gwlad a roddwyd gan Dduw oedd Israel, rhaid oedd i’w thrigolion Ei addoli. Ni allai’r estroniaid a fyddai’n ymsefydlu yn Israel wneud hynny oni bai iddynt droi’n Iddewon. Unwaith i’r dynion gael eu henwaedu, yn unol â’r gyfraith (Gen. 17:10-15), deuent yn gaethion Iddewig o dras y cenhedloedd, a chael mwynhau breintiau niferus yr Iddewon, gan gynnwys dathlu’r Saboth a’r gwyliau (Ex. 34:23-24; Ex. 12:43-49; Deut. 16:1-18).

Gellir dadlau mai’r hyn a wneid mewn gwirionedd oedd gorfodi’r unigolion o’r cenhedloedd i droi’n Iddewon er mwyn i’r Israeliaid gael caethion, ond ceir Smith yma’n sicrhau ei bod yn rhaid i bob ‘ufudd-dod i Dduw’ fod ‘*yn ufudd-dod GWIRFODDOL*’.<sup>174</sup> Pe byddai caethwas yn gwrthod ufuddhau i Dduw, fe’i rhoddid ‘allan o’r eglwys Iuddewig, ac felly allan o le yn mhlith y genedl, yr hyn a ddengys yn anwadadwy mai yr amcan mewn golwg ydoedd *daioni ysbrydol* yr eneidiau hyny o blith y cenhedloedd’, meddai.<sup>175</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, nad ymddengys i ddigwyddiad o’r fath, lle cawsai caethwas o’r cenhedloedd ei yrru o aelwyd ei feistr Israelaidd am iddo wrthod plygu i Yahweh, gael ei gofnodi yn unman yn yr Hen Destament. Serch hynny, roedd y syniad bod y sefydliad hwn o les i’r ‘gweision’ o’r cenhedloedd yn gred boblogaidd ymysg y diddymwyr, ac yn gyferbyniad pellach â’r sefydliad cyfoes yn America.

Mewn araith gan Edward Davies a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Ebrill 1845, nodir bod sefydliad caethwasiaeth, fel a geir yn y Pumlllyfr, ynghyd â deddfau Cyfraith Moses, yn wahanol i’r hyn a oedd yn bod yn America: ‘Yr oedd y “gwasanaeth” hwnw, o les tymhorol ac ysbrydol i’r *gweision*; [tra bo’r] caethiwed sydd yn America, er budd a budr elw i’r *meistriaid* yn unig.’<sup>176</sup>

A thrachefn, fis Chwefror 1863, cyhoeddodd *Y Cenhadwr Americanaidd* drawsgrifiad o bregeth a draddodwyd yn Pittsburgh y flwyddyn flaenorol ar y testun ‘Y Tebygolrwydd o Ddilead Caethiwed yn destyn diolchgarwch’, gan y Parch. R. R. Williams. Erbyn diwedd 1862, daeth yn hysbys fod Lincoln wedi ysgrifennu’r Datganiad Rhyddid a fyddai’n rhyddhau’r caethion yn y taleithiau gwrthryfelgar pan y’i harwyddid ar 1 Ionawr 1863. Gyda

---

<sup>173</sup> Ibid. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>174</sup> Ibid. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>175</sup> Ibid., 332. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>176</sup> Edward Davies, ‘At y Cymry yn America’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1845), 109. Pwylais yn y gwreiddiol.

hynny mewn golwg, gallai Williams fynegi diolchgarwch fod seiliau'r gyfundrefn gyfoes yn America yn simsanu; y gyfundrefn gaethiwol a oedd yn waeth na'r un a gafwyd ymysg yr Hebreaid. Yn hynny o beth, dywed nad oedd deddfau'r Hebreaid parthed caethwasiaeth yn niweidiol ond, yn wir, yn 'ymdrech y Nefoedd i wrthweithio caethwasiaeth yn fwy goleu o dan oruchwyliaeth Moses.'<sup>177</sup> Fodd bynnag, canolbwyntio ar y deddfau perthnasol i'r caethion o Hebreaid yn unig a wna; ni chrybwyllir y caethion 'o blith y cenedloedd'.

Â Smith yn ei flaen i gyfeirio at ddadl gyhoeddus a gafodd gyda 'Gweinidog Presbyteriaidd' a bwysleisiodd mai "'caethwas" a "chaethweision" a ddefnyddir yn Lef. 25: 39, 42.' Dywed Smith iddo fod wedi edrych yn ei Feibl Hebraeg a gweld 'mai yr un gair yw ag a gyfieithir "gwas" a "gweision" mewn manau eraill', a chasgla nad 'oes dim yn y iaith Hebraeg i ateb i'r rhan-air "caeth" yn y manau uchod.' Yn syth ar ôl y sylw hwn, ceir nodyn golygyddol gan Robert Everett yn ymhelaethu ar y mater ac yn datgan na all ddeall paham y mynnai rhai ddefnyddio'r gair 'caethwas' yn Lefiticus 25:

Ystyr briodol y gair [yn yr Hebraeg (עבד)] yw *gwas*; mae yn darddiol oddiwrth air arall a arwydda *llafurio* neu *wasanaethu*. A'r un gair sydd yn y Bibl Hebraeg yn y manau canlynol. Salm 116: 16. O Arglwydd yn ddiau dy *was* di ydwyf fi &c. Dan. 6:21, Daniel GWASANAETHWR y Duw byw &c. Esaiah 42: Wele fy NGWAS a lwydda &c. Felly yn gyffredinol dyma y gair a ddefnyddir, pan sonir am y Messiah fel *gwas* y Tad, ac am y proffwydi, ac am ei bobl fel ei weision. Gwel, Neh. 1: 10, Ezra 5:11, Salm 105: 6, 42, Jos. 24: 29, Salm 18: 1, 36: 1, 78:70, Hag. 1:24, a llaweroedd eraill.<sup>178</sup>

Mae'r sylwadau hyn gan Everett yn adleisio rhai W. H. Thomas yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* wrth iddo yntau ddadlau nad yw עבד o reidrwydd yn golygu 'caethwas'.<sup>179</sup> Wrth gyfeirio at y defnydd o'r gair fel a geir yn Lefiticus 25:44-46, deil Thomas mai 'gwas' a olygir, a'i fod i wasanaethu 'dros byth', hynny yw, hyd at 'flwyddyn y Jubili', pan ryddheid 'pob gwas':

Mae y gair Hebraeg *ēbēdh* yr hwn a roddir yn yr adnod [Lef. 25:44], yn y rhif luosog. Caethweision sydd yn (Isa. xlii. 1.) yn cael e[u rh]oddi i Grist—felly Isa. liii. 13. Felly yr oedd Zebah yn *ēbēdh*, er hyny yr oedd ganddo ef ei hun ugain *ēbēdhs*,

<sup>177</sup> R. R. Williams, 'Y Tebygolrwydd o Ddilead Caethiwed yn Destyn Diolchgarwch', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1863), 37.

<sup>178</sup> Nodyn golygyddol Everett, 'Caethiwed', 333. Pwyslais yn y gwreiddiol. Dylid nodi fod rhai o'r cyfeiriadau Beiblaidd a geir gan Everett yn anghywir. Dan. 6:20 yn hytrach nag adnod 21, ac Es. 42:13 yn hytrach nag Es. 52 sy'n gywir. Ni chyfeirir at weision na chaethweision yn Salm 18:1, 36:1 na Hag. 1:24.

<sup>179</sup> W. H. Thomas, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1839), 47.

(caethweision,) yr hyn sydd yn profi yn amlwg nad yw y gair caethwas ddim, o angenrheidrwydd, yn cynnwys dyn yn cael ei ddal fel nwyf marsiandaeth, ond dyn neu ddynion dan dreth, neu ammod i gyflawni unrhyw waith neu orchwyl.<sup>180</sup>

Ymhelaetha Thomas ar hyn a datgan y byddai'r 'gwasanaeth-ddynion' o'r cenhedloedd hefyd yn cael eu gollwng yn rhydd yn ystod y Jiwibili, yn wahanol i'r hyn a geir yn Lefiticus ei hun, a ddywed mai'r Israeliad yn unig a ryddheid yn ystod y flwyddyn honno (Lef. 25:39-41).<sup>181</sup>

Roedd datganiadau o'r fath yn gydnaws â'r ffrwd o esboniadaeth Feiblaidd ymysg diddymwyr Cristnogol yr Unol Daleithiau; dadleuent fod unrhyw destun a oedd fel petai'n rhoi sêl bendith ar gaethwasiaeth, mewn gwirionedd, yn cyfeirio at ffurfiau mwy hynaws o 'wasiaeth'. Byddai rhai diddymwyr amlwg megis Theodore Dwight Weld, George Cheever ac Amos Phelps yn cyfeirio at Feibl y Brenin Iago, y fersiwn fwyaf dylanwadol o'r Beibl yn ystod y cyfnod cyn y Rhyfel Cartref, a'r fersiwn lle cynhwysir y gair 'slave' ddwywaith yn unig (Jer. 2:14; Datg. 18:13).<sup>182</sup> Erbyn 1611, pan gyhoeddwyd cyfieithiad y Brenin Iago am y tro cyntaf, roedd y gair 'slave' wedi magu ystyron hiliol, yn dilyn y cynnydd mewn rhagfarnau tuag at bobl dywyll eu crwyn yn ystod y canrifoedd blaenorol.<sup>183</sup> Felly, er mwyn ceisio osgoi'r cynseiliau hiliol hynny, penderfynwyd cyfieithu'r geiriau Hebraeg a Groeg fel 'servant' ac eithrio ddwywaith. Gan hynny, gallai'r diddymwyr gasglu nad oedd braidd ddim trafod caethwasiaeth yn y Beibl.

Diau mai עבד neu amrywiadau ar y gair hwnnw a geir ym mwyafrif yr enghreifftiau a restrwyd yn nodyn golygyddol Everett uchod, ac o ystyried cyd-destun yr adnodau hynny, gellid awgrymu'n gryf nad math o gaethwasiaeth a welir: fe'i defnyddir yn y manau a nodwyd ganddo fel term i ddynodi parch neu er mwyn mynegi darostyngiad i Dduw.<sup>184</sup> Mewn manau eraill o'r Hen Destament, fel yr ydym wedi sylwi eisoes, ni ellir gwadu nad math o gaethwas oedd yr עבד o Hebrëwr pan oedd yn yr Aifft (cf. Deut. 15:15; 16:16; 24:18,

---

<sup>180</sup> Ibid.

<sup>181</sup> Ibid.

<sup>182</sup> Molly Oshatz, *Slavery and Sin: The Fight Against Slavery and the Rise of Liberal Protestantism* (New York: Oxford University Press, 2011), 62.

<sup>183</sup> John T. Noonan, Jr., *A Church That Can and Cannot Change: The Development of Catholic Moral Teaching* (Notre Dame, IN: University of Notre Dame Press, 2005), 23.

<sup>184</sup> Ceir Robert Everett yn nodi sylwadau cyffelyb mewn erthygl yn trafod y 'Cam-ddywediadau' a geir gan gaeth-bleidwyr yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1844), 347: 'Mae yn deilwng o sylw mai "gweision" ac nid "caethweision" yw y cyfieithiad têt a chywir yn Lev. 25. Yr un gair yw ag a gyfieithir "gwas" neu "weision" yn llyfrau y Salmydd a'r Proffwydi, lle y sonia y Salmydd amdano ei hun fel gwas yr Arglwydd—ei bobl fel ei weision—ac y gelwir y Messia yn fynych yn Was ac yn Etholedig Tad.'

22), ac mae'n eglur ddigon mai cyfeirio at gaethwas, sef unigolyn a brynwyd ac a ddisgwyliid gwasanaeth ganddo, yw'r hyn a drafodir yn y deddfau parthed niwed corfforol i'r עבד yn Exodus 21:20, 26, 32.<sup>185</sup> Ond yn unol â'r ysbryd diddymol a gredai fod y Beibl yn destun gwrth-gaethiwol, ymlafniai'r diddymwyr i ddileu neu newid unrhyw beth yn y llyfr hwnnw a allai ymddangos yn bleidiol i gaethwasiaeth.

Fodd bynnag, nid oedd pob Cymro Americanaidd yn osgoi defnyddio'r term 'caethwas' yng nghyd-destun Lefiticus 25. Yn y gyfres 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', a gyhoeddwyd yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, neilltuwyd 'pennod' i drafod arwyddocâd y Deml yn Israel ynghyd â deddfau'r Israeliaid.<sup>186</sup> Gyda hynny, disgrifia T. Ll. Hughes nodweddion y Jiwibili, 'dydd ag yr oedd miloedd o galonau yn Israel yn curo yn grynedig a phryderus am ei weled yn gwawrio'.<sup>187</sup> Nodir y byddai cyni ariannol yn peri i unigolyn 'syrthio i ddyled a thlodi', ei orfodi i werthu ei dir, 'a gorfod gwerthu ei hunan yn gaethwas, ac felly [...] myned yn is na bod yn dlawd ac heb ddim'.<sup>188</sup> Gwelir yma Hughes yn fodlon galw'r Israeliaid hyn yn 'gaethweision' ac yn cydnabod y problemau cysylltiedig â deddf y Jiwibili, megis, gan mai bron bob hanner canrif y digwyddai, golygai hynny y byddai 'dros hanner y boblogaeth na welsent erioed Jubili'.<sup>189</sup> Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'n crybwyll y caethion a ganiateid i'r Israeliaid eu prynu 'o blith y cenhedloedd' – ei ffocws pennaf yw'r hyn a ddigwydd i drigolion cynhenid y wlad pryd caent 'bellach rodio heolydd Jerusalem, ar yr ŵyl fawr, yn w[ŷ]r rhyddion, yn *Freeholders*'.<sup>190</sup>

'Christian abolitionists used the confusion surrounding "servant" and "slave" to deny that anything resembling modern-day slavery had occurred in biblical times', meddai Oshatz, ac yn unol â'r nod hwnnw, â Smith yn ei bregeth yn syth o drafod y term Hebraeg i drafod

---

<sup>185</sup> Dylid nodi y cyfeirir at y caethwas fel עבד ond y gaethferch fel אמה yn Ex. 21:26, 32. Felly hefyd, yn ddiddorol ddigon, yn Lef. 25:6, 44. Am enghreifftiau pellach o'r defnydd amrywiol o אמה ac עבד – fel termau i ddynodi caethion, gweision tŷ, gweision i frenin, addolwyr Duw, ac fel term i ddangos darostyngiad parchus tuag at rywun yn yr Hen Destament, gweler Francis Brown (gol.), *The Brown-Driver-Briggs Hebrew and English Lexicon with an appendix containing the biblical Aramaic* (Peabody, MA: Henrickson Publishers, 2014; pymthegfed argraffiad), 51, 712-5; a David J. A. Clines (gol.), 'עבד', yn Idem. (gol.) *The Dictionary of Classical Hebrew: Volume VI ט–פ* (Sheffield: Sheffield Phoenix Pres, 2007), 200-21.

<sup>186</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol. Pennod LII', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Rhagfyr 1855), 449-51.

<sup>187</sup> *Ibid.*, 449.

<sup>188</sup> *Ibid.*

<sup>189</sup> *Ibid.*

<sup>190</sup> *Ibid.*

‘pa fodd y gweithiai y trefniant o gaethwasanaeth fel yr eiddom ni yn America mewn cysylltiad â’r gosodiadau Iddewig a enwyd.’<sup>191</sup>

Nodir ei bod yn gwbl anghyfreithlon yn ôl deddfau’r Pumlyfr i feddiannu caethion drwy ladrata, fel y gwneid yn America, a sylwir bod ‘llawer o’r gweision hyn [yn Israel] yn gyfoethog, a chanddynt weision eu hunain. Yr oedd i Ziba, gwas Mephibosheth, ugain o weision’.<sup>192</sup> Roedd hynny mor gyferbyniol i sefyllfa’r Affricaniaid Americanaidd, na chaent ‘ddal dim, na meddu dim, ond a berthyn i’r meistr’.<sup>193</sup>

Yn rhan olaf y bregeth, cyfeirir at y Testament Newydd ac at y rhannau hynny y tybid a oedd yn tanseilio hanfod caethwasiaeth, megis yr adnod sy’n condemnio lladrata dynion, ac epistol Paul at Philemon.<sup>194</sup> A thrachefn, sylwir ar y termau a ddefnyddir gan Paul yn ei epistolau:

Pan y mae yr apostol yn cyfarwyddo y meistriaid, pa fodd i ymddwyn tuag at eu gweision a’r gweision tuag at eu meistriaid mae yn golygu yn ddiâu feistriaid a gweision yn ystyr briodol y geiriau, ac nid *caethfeistri* a *chaethweision*.<sup>195</sup>

Cyfeirio at derm megis δούλος a wna Smith yma, a theg fyddai dweud, yn yr un modd â’r עבד uchod, y caiff δούλος ei ddefnyddio mewn amryw ffyrdd; gall fod yn derm sy’n dynodi naill ai cyflwr o gaethwasiaeth, neu ymdeimlad o ‘waseidd-dra’, parch neu ddarostyngiad at rywun o statws uwch, megis brenin a Duw, neu fe all gael ei ddefnyddio’n drosiadol neu’n alegoriol, yn dibynnu’n llwyr ar y cyd-destun lle ymddengys y term. Ond ym marn y gweinidog, nid oes amheuaeth nad cyfeirio at weision a meistri yn eu hystyron plaen a wna ‘Paul’ wrth drafod sut y dylent drin ei gilydd.<sup>196</sup>

---

<sup>191</sup> Oshatz, *Slavery and Sin*, 62; Smith, ‘Caethiwed Ddim yn cael ei gefnogi yn y Bibl’, 333.

<sup>192</sup> Ibid.

<sup>193</sup> Ibid.

<sup>194</sup> Nid ymhelaethir ar y testunau hynny yma gan fod trafodaethau manylach amdanynt ym Mhennod 4 a Phennod 5 isod.

<sup>195</sup> Smith, ‘Caethiwed Ddim yn cael ei gefnogi yn y Bibl’, 334. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>196</sup> Ceir defnydd amrywiol o ‘gaethion’ yn y Testament Newydd gan gynnwys wrth gyfeirio at gaethion unigol (e.e. Math. 8:5; Marc 14:47, 66-69; Luc 7-10; Act. 8:27-29; 12:13-15; 16:16-24; Philemon 10-21), defnyddio caethion fel cymeriadau stoc yn namhegion Iesu (e.e. Luc 16:1-13), ac mewn ffordd alegoriol megis wrth drafod barn eschatolegol Duw (Math. 24:45-51; Luc 12:35-48). Ceir defnydd trosiadol o ‘gaethwas’ a ‘chaethweision’ yn aml yn y llythyrau Paulaid (e.e. Rhuf. 1:1; 1 Cor. 9:19), a chyfeirir at gaethion go iawn hefyd (Gal. 3:28; Col. 3:11, 22; 1 Cor. 7:21-24; Eff. 6:5; 1 Tim. 6:2; 1 Pedr 2:18-21). Am drafodaeth fanwl ynglŷn â’r term a’r amrywiol ystyron ynghlwm ag ef, gweler, e.e., A. Weiser, ‘δουλεία, ας, ή’, yn Horst Balz a Gerhard Schneider (goln), *Exegetical Dictionary of the New Testament Volume I* (Edinburgh: T & T Clark Ltd, 1990), 349-52; ‘δούλος, σύνδουλος, δούλη, δουλεύω, δουλεία, δουλόω, καταδουλόω, δουλαγωγέω, ὀφθαλμοδουλία’ yn Gerhard Kittel (gol.), *Theological Dictionary of the New Testament: Volume II* (cyfieithwyd a golygwyd gan Geoffrey W. Bromiley; Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Company,



Daw Smith â'i anerchiad i glo drwy bwysleisio drachefn fod 'y Llyfr Sanctaidd yn condemnio y sarhad mawr hwn [caethwasiaeth] ar ddynoliaeth', ac o'r herwydd, anoga'r gynulleidfa i weithredu er mwyn y caethion: am eu bod yn coleddu'r efengyl, dylent ymlafnio i hyrwyddo egwyddor cariad brawdol a chyfiawnder i bob un,

hyd oni byddo [i Dduw] yru olwynion ein cerbyd trwy borth angau, a ninau gael ein dwyn i'r tir hwnw lle nad oes galar mwy o'i fewn, a lle y mae y gwas yn rhydd oddiwrth ei orthrymydd, a chariad yn gwneud PAWB YN UN.<sup>197</sup>

Dyma adleisio'r dyhead a fynegwyd tua dechrau'r bregeth parthed dyfodiad y Jiwibili i'r caethion, ac felly, i America'n gyffredinol.<sup>198</sup>

Ceir ymdriniaeth nid annhebyg mewn nifer o destunau eraill sy'n gweld cysylltiad rhwng Eseia 61:1, Luc 4:18 a sefyllfa gyfoes yr Unol Daleithiau. Cysylltid y Jiwibili â'r proffwydoliaethau am y Meseia a chredid y byddai elfennau'r Jiwibili'n nodweddu'r oes a ddeuai. Meddai Coffey:

The Jubilee principle ("Proclaim Liberty throughout the Land") was central to the abolitionists' sense of prophetic vocation. Like Isaiah [(Es. 58:6; 61:1)] and the Jesus of Nazareth [(Luc 4:18)], they were on a mission to "break every yoke" and "release the oppressed." Their activism was empowered by the sense that God was acting alongside them.<sup>199</sup>

---

1964), 261-82. Gweler ymhellach J. Albert Harrill, *Slaves in the New Testament: Literal, Social, and Moral Dimensions* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006), 167-8, 180-2; Benjamin G. Wright, III, 'Ebed/Doulos: Terms and Social Status in the Meeting of Hebrew Biblical and Hellenistic Roman Culture', yn Allen Dwight Callahan, Richard A. Horsley ac Abraham Smith (goln), *Semeia 83/84: Slavery in Text and Interpretation* (Atlanta, GA: The Society of Biblical Literature, 1998), 83-111; a hefyd Bennod 4 isod.

<sup>197</sup> Smith, 'Caethiwed Ddim yn cael ei gefnogi yn y Bibl', 334.

<sup>198</sup> Ceir mewn testunau eraill ddatgan y deuai'r Jiwibili gyffredinol gyda llwyddiant cenhadu heb o reidrwydd sôn am y caethion cyfoes yn America. Er enghraifft, cyflwynwyd cerdd, 'Ap[ê]ll y Genhadaeth', gan E. Harris i'r *Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1861), 143, a gynhwysai'r 'Jubil' yn y nawfed pennill: 'A phan dywyna'r boreu, ddydd Jubil cyrau'r byd, / Pob llwyth, pob iaith, pob cenedl, yn taflu'r mawl yn nghyd, / Ni unwn gyda'r dyrfa, ac mewn soniarus lef, / Ni waeddwn ag un galon, "Gogoniant iddo Ef.' Gwelir defnydd gwahanol o'r 'Jiwibili' mewn ysgrif goffa i 'Owen W. Rowlands', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1868), 34, lle cyfeirir at y pryd y daw'r Ail Ddyfodiad: 'Claddwyd ef [Owen W. Rowlands], fel ei Frawd hynaf, mewn bedd newydd, lle y caiff orphwys o hyn allan hyd nes byddo udgorn Jubili holl gaethion marwolaeth yn bloeddio, ac yna bydd Owen Williams yn eu plith yn iach o'i ben i'w draed.'

<sup>199</sup> Coffey, *Exodus and Liberation*, 108.

Dyna'n wir sy'n nodweddu traethawd Thomas Edwards, Cincinnati, 'Caethiwed Naturiol, ac Ysbrydol'.<sup>200</sup> Dechreua Edwards drwy gynnig esboniad Cristnogol o broffwydoliaeth Eseia 61:1 (sy'n adleisio disgrifiad Eseia 58:6), y deuai'r Meseia i bregethu 'rhyddid i'r caethion, ac agoriad carchar i'r rhai sydd yn rhwym'. Mae egwyddor y Jiwibili'n greiddiol i'r adnod hon oherwydd bod y testun, mewn gwirionedd, yn cyfleu teimladau'r sawl a orfodwyd i aros yn y Gaethglud ym Mabilon (cf. Jer. 34:8, 15, 17) a'r gobaith y byddai Yahweh yn eu rhyddhau'n fuan. Fel y nodwyd eisoes, nid oes sicrwydd a gafodd y Jiwibili erioed ei chadw ond roedd yn drosiad adnabyddus ac effeithiol i ddynodi'r rhyddid a ddeuai i bobl Dduw.<sup>201</sup> Dyna'r cysylltiad a welai Edwards gyda Luc 4:18. Darllenodd Iesu sgrôl Eseia yn y synagog er mwyn dangos mai drwyddo ef yr oedd Duw'n cyfryngu er mwyn gofalu am '[o]llyngdod i'r caethion, a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydddeb'.<sup>202</sup> Lleddfid sefyllfa'r tlawd a'r anghenus a rhyddheid y caethion gyda hyn.<sup>203</sup>

O briodoli hynny i'r sefyllfa gyfoes, dadl Edwards yw y dylid ymdrechu er mwyn yr Affricaniaid Americanaidd oherwydd eu bod mewn caethiwed 'naturiol' ac 'ysbrydol', hynny yw, yn gorfforol gaeth, ac mewn sefyllfa '*afresymol*', wedi eu hamddifadu o addysg, ac o addysg grefyddol yn arbennig.<sup>204</sup> Dyna felly arwyddocâd cyfeirio at destun Eseia, gan ei fod yn atgoffaol o'r caethgludion ym Mabilon yn gorfforol gaeth mewn gwlad ddieithr, ac yn cysylltu â neges Luc 4:18, sef mai trwy Grist yn unig y deuai rhywun yn wirioneddol rydd. Dyna bwysleisio drachefn ddwyochredd yr ymgyrch diddymol ymysg y Cymry Cristnogol hyn – rhaid oedd sicrhau rhyddid corfforol a chrefyddol. Gyda hynny, datgan Edwards y dylai pawb fwrw eu pleidlais o blaid 'cyfiawnder', ac er mwyn '[g]weled teyrnas Crist yn

<sup>200</sup> Thomas Edwards, 'Caethiwed Naturiol, ac Ysbrydol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1854), 207-8.

<sup>201</sup> John D. W. Watts, *Word Biblical Commentary: Isaiah 34-66* (Waco, TX: Word Books, Publisher, 1987), 303.

<sup>202</sup> Edwards, 'Caethiwed Naturiol, ac Ysbrydol', 207; E. Earle Ellis, *The Gospel of Luke: New Century Bible Commentary* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 1996; adargraffiad wedi'i adolygu), 97.

<sup>203</sup> Difyr yw nodi sylw Andre G. Shead, 'An Old Testament Theology of the Sabbatical Year and Jubilee', *The Reformed Theological Review*, 61, rhif 1 (April 2002), 33, mai gyda'r atgyfodiad y gwelir y cysylltiad rhwng Iesu a Lefiticus 25, ac mewn gwirionedd, wireddu'r broffwydoliaeth, meddai: 'It is only here [with the miracle of the resurrection] that the Day of Atonement timing of Leviticus 25:10 makes complete sense. It is also interesting that the word ἄφεσις does not appear again in Luke until after the resurrection (24:27), as if jubilar release was not properly available until then.'

<sup>204</sup> Edwards, 'Caethiwed Naturiol, ac Ysbrydol', 207. Pwyslais yn y gwreiddiol.

llanw y byd'.<sup>205</sup> Ped ymdrechid felly, fe ddeuai'r Jiwbili; 'Gwawried y dydd pan fyddo rhyddid gwladol a chrefyddol dros y ddaear.'<sup>206</sup>

Bu i rai caeth-bleidwyr ddadlau'n groes i hyn gan ddweud na ellid priodoli geiriau Eseia i'r sefyllfa gyfoes am nad oeddent yn berthnasol i gaethwasiaeth yr Affricaniaid Americanaidd ('negroid') na'r Canaaneaidd, ond i gaethwasiaeth yr Hebreaid yn unig.<sup>207</sup> Yn yr un modd, dadleuai eraill fod y rhyddid Cristnogol a geir yn y Testament Newydd yn un pur ysbrydol ('intensely spiritual'), ac felly, mewn gwirionedd, math o waredigaeth ysbrydol ydoedd Jiwbili Lefiticus, yr hyn a gyfeirir ati gan Iesu yn Luc 4.<sup>208</sup> Gellir dweud yn weddol sicr na fuasai Edwards na'r rhelyw o wrth-gaethiwyr Cymraeg America wedi cytuno gyda'r dehongliadau caeth-bleidiol hyn.

Mynegir neges gyffelyb mewn ysgrif a gyhoeddwyd bum mlynedd yn flaenorol i bregeth Smith, a drafodai 'llwyddiant a chynnydd y Blaid Rydd'.<sup>209</sup> Wedi rhestru rhinweddau'r blaid newydd hon, awgryma John Rees ei bod yn ddisgwyliad dwyfol iddynt fel Cymry America bleidleisio o blaid yr ymgeiswyr arlywyddol a wrthwynebai gaethiwed. Roedd caethwasiaeth America'n waeth na 'chaethiwed yr Aifft a Babilon', a deil ei bod yn hen bryd i'r gyfundrefn gael ei dileu.<sup>210</sup> 'Pa Gymro [...] a pha Gristion', gofynna, 'all beidio gwrido, cywilyddio a galaru wrth feddwl fod y fath fasnach annuwiol yn cael ei chario yn mlaen yn America yn y flwyddyn 1849?'<sup>211</sup> O'r herwydd, dylent ymateb i'r alwad ddwyfol:

Cyfeiriaf y darlennydd at y man canlynol o Air Duw, Esaiah 58: 6, "Onid dyma yr ympryd a ddewisiais, dattod rhwymau anwiredd, tynu ymaith feichiau trymion, a gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion, a thori o honoch bob iau." Gwelwn oddiwrth y geiriau hyn mai ewyllys y Duw Goruchaf ydyw i ni wneud yr oll a allom er tori llyffetheiriau gormes, *gollwng y rhai gorthrymedig yn rhyddion a thori bob iau*.<sup>212</sup>

Dichon y buasai'r testun hwn, ynghyd â chysyniad y Jiwbili a'i tanlinellai, wedi ysgogi nifer i ymateb.<sup>213</sup>

---

<sup>205</sup> Ibid.

<sup>206</sup> Ibid., 208.

<sup>207</sup> Megis Priest, *Slavery, as it relates to the Negro or African Race*, 113-5, 267-309.

<sup>208</sup> Megis Jones, *Slavery, Sanctioned by the Bible*, 15-8, 24-6.

<sup>209</sup> John Rees, 'Y Blaid Rydd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1849), 40-1.

<sup>210</sup> Ibid., 41.

<sup>211</sup> Ibid.

<sup>212</sup> Ibid. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>213</sup> Ceir enghreifftiau niferus eraill o ddefnyddio testunau Eseia gyda Lefiticus 25. Er enghraifft, nodir yng nghofnod cyfarfod 'Cymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Piitsburg', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1840), 220, mai ail ddatganiad Mr M. D. Morgan parthed caethwasiaeth oedd ei bod yn

## Jwbili Ddirwestol

Gan fod cysyniad y Jwbili yn dynodi cyfnod o ddathlu mawr, fe'i priodolid hefyd i nifer o elfennau eraill a oedd yn gymaint ran o'r diwylliant cyfoes yn America, gan gynnwys amcanion dirwestol y Cymry. Roedd sicrhau Jwbili i'r caethion Affrican Americanaidd yn hollbwysig i arweinwyr crefyddol Cymry America, a'r beirdd a'r llenorion a rannai'r yn safbwynt, ond roedd hyrwyddo dirwest hefyd yn achos a goleddid yn eang. A chredid mai diwrnod cyffelyb i'r Jwbili Iddewig yn Lefiticus 25 fyddai'r dydd pan ddiosgid hualau alcohol yng Ngogledd America.

Defnyddid y cysyniad mewn emynau a genid mewn cyfarfodydd a chymanfaoedd dirwestol. Er enghraifft, canwyd cân yng 'Nghydmeithas Ddirwestol Gymreig Caerefrog-Newydd' a gyfeiriai at y dydd pan fyddai eu hamcanion dirwestol yn llwyddo fel dydd y Jwbili. Canodd Dafydd Davies y gân honno, a gyfansoddwyd gan Thomas Ieuan ap Ioan o Remsen, i dôn 'Ar hyd y Nos', a cheir ynddi fynegi dyhead am i'r 'DIRWEST FANIAR' gael chwifio, i'r 'Delyn' seinio alawon dirwestol ac i'r meddwon 'sobreiddio'; ac yn y pennill olaf, datgenir bod gwawr y Jwbili ddirwestol hon ar dorri:

Hosanna 'n awr, O seiniwn ninau,  
Dim medd'dod mwy,  
Cawn weled dydd o ryfeddodau,  
Dim medd'dod mwy:  
Y mae'r Jubil-ddydd yn gwawrio,  
Na bydd drygau ynddo 'n trigo,  
Caiff y gwirod ei alltudio,  
Dim medd'dod mwy.<sup>214</sup>

Difyr yw nodi y ceir mewn ambell destun gyfuno Jwbili'r caethion Affrican Americanaidd â llwyddiant dirwest.<sup>215</sup> Yn y gerdd 'Rhyddid' gan J. E. Evans, er enghraifft, cyfeirir at y

---

ddyletswydd arnynt i'w gwrthwynebu oherwydd bod y Beibl, 'y Gair Dwyfol', yn ei hystyried yn bechod, a'r testunau a gyfeiria atynt er mwyn cefnogi'i ddatganiad yw Es. 58:6; 61:1; Deut. 23:15-16; Lefiticus 25. Bu i Robert Everett hefyd bregethu am bechadurusrwydd caethwasiaeth ar sail testun Es. 58:1-6. Gweler 'Sylwedd Pregeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1844), 198-201.

<sup>214</sup> 'CYMDEITHAS DDIRWESTOL GYMREIG CAEREFROG-NEWYDD', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1842), 53. Ceir nifer o destunau cyffelyb, yn cynnwys: 'CYMANFA DDIRWESTOL', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1842), 24; W. Williams, 'PERORIAETH', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1842), 274; 'Anti-Bachus', 'Chwildroad Dirwestol', *Y Seren Orllewinol* (Mehafin 1846), 87.

<sup>215</sup> Roedd cyfnodolyn *Y Dyngarwr* yn arwyddocaol ddigon gan ei fod wedi'i gysegru i ddau achos yn unig, sef diddymiaeth a dirwest. Gweler Hunter, *I Ddeffro*, 103-4.

BACWS ddu a chaethwasanaeth', dau o 'Hen elynion cas Crist'nogaeth', sydd bellach dan erledigaeth yn America:

Mawr yw'r cynhrwf sy'n Amerig,  
O blaid sobrwydd a rhyddhad,  
Y caethion duon gorthrymedig,  
Sydd yn gruddfan yn ein gwlad:  
Gwawried bore, &c.,  
Bore'r hyfryd Jubil ddydd.<sup>216</sup>

### Dathlu cerrig milltir

Defnyddid y Jiwibili yn ogystal i ddynodi carreg filltir arbennig yn hanes cymdeithas neu sefydliad. Er enghraifft, cynhaliwyd 'Cyfarfod Jubili' ar 18 Awst 1846 yn Cincinnati i ddathlu bod dyled yr 'Eglwys Gynulleidfaol' ar 'heol Lawrence' wedi'i thalu'n llwyr. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parch. T. Edwards, Mr John Jones, Turin, a'r Parch. B. W. Chidlaw, ac ymysg yr emynau a ganwyd oedd un a gynhwysodd gysyniad y Jiwibili. Ynddi, delweddir y baich a deimlodd aelodau'r eglwys oherwydd bod yr addoldy'n ddyledus ac yna, fe'i cyferbynnir gyda'r teimlad gorfoleddus a ddaeth yn sgil gollwng yr aelodau o gadwyni'r ddyled honno:

Ni fuom dan y groes  
Yn gruddfan amser hir,  
Ein teml anwyl oedd yn gaeth,  
O fewn i'r dyrus dir:  
Ond gwawriodd hyfryd ddydd,  
Dydd siriol Jubili;  
Ein rhyddid gwerthfawr i ni ddaeth,  
Boed mawl i Un yn Dri.<sup>217</sup>

---

<sup>216</sup> J. W. Evans, 'RHYDDID', *Y Seren Orllewinol* (Medi 1857), 207.

<sup>217</sup> 'Iorwerth', 'Cyfarfod Jubili', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1846), 357. Am enghreifftiau eraill, gweler 'Jubili y Gymdeithas Genadol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1850), 80; 'Capel y Wyddgrug', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mai 1852), 167; Thos. Phillips, 'Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD BRYDEINIG A THRAMOR', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Hydref 1852), 308; Thos. Phillips, 'JUBILI Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD FRYTANAIDD A THRAMOR', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1853), 82; 'Jubili Undeb yr Ysgol Sabbothol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Medi 1853), 368-9; 'LLYFR Y JUBILI', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gorffennaf 1854), 269-70; Thos. Phillips, 'LLYFR Y JUBILI', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mawrth 1860), 110; 'CYFARCHIAD AR DDECHREU Y FLWYDDYN NEWYDD', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1866), 1; Thomas Phillips, 'ADGOFION PERSONOL AM YR YMWELIAD AG AMERICA YN 1866', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1868), 337.

Yn y cyswllt hwn, defnyddid y ‘Jiwbili’ mewn nifer o destunau a gyhoeddwyd yn adran gerddorol (‘Peroriaeth’) *Y Cenhadwr Americanaidd*, a’r rheiny, gan amlaf, yn cyfeirio at llwyddiant yr efengyl.<sup>218</sup> Ond yng nghyd-destun yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth y defnyddid y gair ‘Jiwbili’ amlycaf.

## Casgliad

Gwelwyd yn y bennod hon y modd y byddai caeth-bleidwyr a gwrth-gaethiwyr yn defnyddio deddfau penodol o’r Pumlyfr er mwyn cefnogi eu safbwyntiau eu hunain ynglŷn â pherthynas y Beibl â chaethwasiaeth gyfoes. Teg yw dweud fod mwyafrif helaeth y Cymry a ddefnyddiai’r deddfau hyn yn eu hysgrifau yn coleddu daliadau gwrth-gaethiwol ac o’r herwydd, ni chafwyd cymaint o drafod rhai o ddeddfau’r Pumlyfr, megis hawl y meistr i ddisgyblu ei gaethion. Ond fe gafwyd rhyw ychydig, ac yn hynny o beth, tueddid i bwysleisio’r gwaharddiad ar gipio unigolion i’w darostwng i gaethiwed, breiniau’r caethion yn cael dathlu gwyliau crefyddol, a bod hyd penodol i gyfnod caethwasiaeth yr Hebraeid. Yn y cyswllt hwn, cyfeirient at ddeddf blwyddyn y Jiwbili.

Sylwyd ar y modd y datblygodd y Jiwbili’n gysyniad amlweddog yn fuan yn yr ymgyrch gwrth-gaethiwol ymysg Cymry America. Cyfeiriai’r term at y ddeddf Iddewig honno yn Lefiticus 25 a ddatgan ryddid i’r caethion a’r tir. Roedd y syniad o ddeddf yn datgan rhyddid cyffredinol yn un yr oedd y diddymwyr yn ei goleddu ac felly, buan y mabwysiadwyd term y ‘Jiwbili’ fel un a ddiffinai eu hymdrechion ac a ddynodai eu delfrydau parthed cyflwr y caethion cyfoes. Yn hyn o beth, sylwyd i amryw awduron ddadlau bod sefyllfa’r caethion yn America’n waeth na’r hyn a brofodd yr Hebraeid yn yr Aifft ac yn Israel; ac un darn o dystiolaeth y cyfeirid ato’n aml oedd y termau Hebraeg (עֲבָדִים) a Groeg (δοῦλος) am ‘gaethwas’. Dadleuent mai ‘gwas’ oedd y cyfieithiad cywir, ac felly, nad oedd modd dwyn cysylltiad rhwng ‘gweision’ Israel a chaethion America. Serch hynny, roeddent yn fodlon priodoli’r Jiwbili Iddewig i’r sefyllfa gyfoes a’i defnyddio fel term i dathlu llwyddiant rhyddid ar ôl i Lincoln arwyddo’r Datganiad, yn gyntaf, ac yna, gyda therfyn y Rhyfel Cartref.

Nodwyd y modd y cyfunid cysyniad y Jiwbili gyda syniadau milenaraidd â llwyddiant yr efengyl, gan awgrymu y byddai’r naill, sef ymdrechu er mwyn y caethion, yn fodd o

---

<sup>218</sup> Cynnwys y rhain: M. Noyes, ‘Jubilee’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1840), 214; Lowell Mason, ‘Peroriaeth’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1840), 309; R. Mills, ‘Buddugoliaeth’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1841), 179.

hyrwyddo'r llall. Felly hefyd, gwelwyd y modd y cyfunid y Jiwbili gyda thestunau Beiblaidd eraill, megis Eiseia 61:1 a Luc 4, ac yn wir, â diwinyddiaeth Gristnogol, megis athrawiaeth yr Iawn.

Gan fod y term yn un a ddynodai ryddid, dathliad, a dyfodiad cyfnod o wynfyd, sylwyd fel y priodolwyd y 'Jiwbili' i amcanion dirwestol y Cymry, a'r modd y'i defnyddid er mwyn dynodi digwyddiad arbennig yn hanes cymdeithas, mudiad neu sefydliad.

Diau, felly, fod yr elfen o briodoli cysyniad Beiblaidd i sefyllfa gyfoes yn fodd hwylus i'r Cymry drafod digwyddiadau'r oes. Felly hefyd, yn fodd i greu effaith ddeallusol a theimladol ar y darllenwyr wrth ddwyn cysylltiad cyson rhwng y Beibl a'r byd yr oeddent yn trigo ynddo. Gwelwyd defnydd cyffelyb o fabwysiadu cysyniadau Beiblaidd mewn nifer o ysgrifau eraill gan y Cymry, ac un enghraifft ddiddorol yw'r Gaethglud ym Mabilon, a drafodir yn fanwl yn y bennod nesaf.

### Pennod 3

#### 'I ddwyn y gaethglud fawr yn rhydd'<sup>1</sup>

#### Y Gaethglud ym Mabilon a'r Gaethwasiaeth Americanaidd

Fellow-citizens; above your national, tumultuous joy, I hear the mournful wail of millions! whose chains, heavy and grievous yesterday, are, to-day, rendered more intolerable by the jubilee shouts that reach them. If I do forget, if I do not faithfully remember those bleeding children of sorrow this day, "may my right hand forget her cunning, and may my tongue cleave to the roof of my mouth!" To forget them, to pass lightly over their wrongs, and to chime with the popular theme, would be treason most scandalous and shocking, and would make me a reproach before God and the world. My subject then, fellow-citizens, is AMERICAN SLAVERY.

Dyfywiad o araith a draddodwyd gan Frederick Douglass, y cyn-gaethwas o ddiddymwr, yn Neuadd y Corinthian, Rochester, Efrog Newydd, ar y pumed o Orffennaf 1852, yw'r uchod.<sup>2</sup> Ei brif fwriad gyda'r araith oedd darlunio rhagrith yr Unol Daleithiau a oedd yn parhau i arddel caethwasiaeth ond eto, ar y pedwerydd o Orffennaf yn flynyddol, yn dathlu ei hannibyniaeth a'i rhyddid. Er mwyn pwysleisio'r paradocs hwn, cymer Douglass fel sail i'w ddadl fod yr Unol Daleithiau, bellach, yn ymdebygu i Fabilon, am ei bod hithau wedi 'caethgludo' pobl o'u mamwlad, a gwelir drwy gydol yr araith danllyd gyffyrddiadau ag amryw themâu a gysylltir â chysyniad y 'gaethglud', megis gormes, rheolaeth anghyfiawn, rhyddid a chaethiwed.<sup>3</sup> Yr hyn sy'n hynod ddiddorol yw'r modd y dyfynna Douglass Salm 137 ac adleisio'i chri drwy gydol yr araith wrth gollfarnu'r gaethwasiaeth Americanaidd.<sup>4</sup> Cynigodd y salm honno a'r digwyddiadau sy'n gefndir iddi, sef y Gaethglud ym Mabilon,<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> Robert Everett, 'Cyfarchiad at ein Darllenwyr, Ar Ddechreu y Flwyddyn 1862', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1862), 2.

<sup>2</sup> Gwahoddwyd Frederick Douglass gan Gymdeithas Wrth-gaethiwol Merched Rochester i gyflwyno'r araith hon. Hysbysebwyd y cyfarfod yn eang a daeth rhai cannoedd i'r Neuadd er mwyn gwrandao ar y diddymwr. Gweler 'What to the Slave is the Fourth of July?', a ddyfynnir yn Andrew Scheil, *Babylon Under Western Eyes: A Study of Allusion and Myth* (Toronto, Buffalo, NY a London: University of Toronto Press, 2016), 111. Am ragor o wybodaeth am araith Douglass, gweler James A. Colaiaco, *Frederick Douglass and the Fourth of July* (New York: Palgrave MacMillan, 2006).

<sup>3</sup> Scheil, *Babylon Under Western Eyes*, 111.

<sup>4</sup> Allen Dwight Callahan, *The Talking Book: African Americans and the Bible* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2006), 50.

<sup>5</sup> Mae union ddyddiad cyfansoddi'r salm hon yn parhau i fod yn destun trafod ymysg ysgolheigion. Fodd bynnag, cydnabyddid yn gyffredinol fod Salm 137 yn adlewyrchu cyfnod y Gaethglud. Gweler J. W. Rogerson a J. W. McKay, *Psalms 101-150* (Cambridge: Cambridge University Press, 1977), 150-1; Michael D. Goulder, *The Psalms of the Return (Book V, Psalms 107-150)* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 224-9; Artur Weiser, *The Psalms: A Commentary* (cyfieithiad Herbert Hartwell; Philadelphia, PA: SCM Press, 1962), 795-7; Peter R. Ackroyd, *Exile and Restoration: A Study of Hebrew Thought of the Sixth Century* (Philadelphia, PA a Westminster: SCM Press Ltd,



fodd i Frederick Douglass, ynghyd ag awduron Affrican Americanaidd eraill gwyno am sefyllfa a thrallod y caethion yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod y math o gaethwasiaeth a geid yn yr Unol Daleithiau'n dra gwahanol i'r hyn a brofodd yr Iddewon ym Mabilon,<sup>6</sup> ac er bod y cyd-destunau hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol hefyd yn wahanol, gallai awduron y bedwaredd ganrif ar bymtheg ganfod yn yr adrannau Beiblaidd a grybwyllai'r Gaethglud elfennau a oedd yn ddrych i'w sefyllfaoedd cyfoes. Fel y dywed Callahan, 'Like the ancient Israelites, African Americans experienced a violent exile, and those exiled Africans came to number among a vast, transatlantic African Diaspora.'<sup>7</sup>

Yn yr un modd, gwnaeth y Cymry Americanaidd ddefnydd o hanes y Gaethglud ym Mabilon er mwyn ymateb i gaethwasiaeth gyfoes; ystyried y defnydd hwnnw a wneir yn y bennod hon. Mae gofyn felly oedi a chraffu ar y cofnod Beiblaidd am y Gaethglud yn gyntaf, er mwyn deall yn llawn y math o ddeunydd a oedd wrth law i'r awduron hyn.<sup>8</sup>

## Y Cofnod Beiblaidd

Mae'r hyn a adnabyddir fel y Gaethglud (גולה) ym Mabilon yn un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes yr Iddewon. Dyma'r pryd y collodd y genedl ei hannibyniaeth wleidyddol, ei brenhiniaeth, ac y gohirwyd y gyfundrefn gwltig, ond dyma hefyd y pryd y ganwyd math newydd o Iddewiaeth, un a droes o fod yn grefydd Deml-ganolog i un Torah-canolog. Er bod yr Hen Destament yn trafod arwyddocâd diwinyddol y Gaethglud yn fanwl, bylchog iawn yw'r wybodaeth hanesyddol am y cyfnod hwnnw; rhaid felly dibynnu ar y cofnodion achlysurol a geir i olrhain 'hanes' y Gaethglud.

---

1986), 32-4, 225-6; Adele Berlin, 'Psalms and the Literature of Exile: Psalms 137, 44, 69, and 78', yn Peter W. Flint a Patrick D. Miller, Jr (goln), *The Book of Psalms: Composition and Reception* (Leiden a Boston, MA: Brill, 2005), 65-71.

<sup>6</sup> Nid oedd yr Iddewon yn rhydd ond y farn yn gyffredinol ymysg ysgolheigion yw nad oeddent yn garcharorion nac yn wir yn 'gaethion' ym Mabilon. Gweler y drafodaeth isod.

<sup>7</sup> Callahan, *The Talking Book*, 50. Yn dilyn y dyfyniad uchod dywed Callahan, 'But unlike the captivity of the Judeans, [the African Americans' exile] would not be turned.' Efallai fod hyn yn ddatganiad braidd yn unochrog gan Callahan; mae'n wir i'r alltudion gael y cyfle i ymadael â Babilon a dychwelyd adref ar ôl esgyniad Cyrus, ond yn ôl pob tebyg, ni ddychwelodd ond cyfran fechan o'r sawl a gaethgludwyd. Yn ogystal, roedd yr Iddewon hynny wedi eu gwasgaru mewn gwledydd eraill i'r fath raddau fel na fuasai terfyn ar Wasgariad yr Iddewon yn bosibl.

<sup>8</sup> Am ymdriniaethau llawnach o'r Gaethglud a'r materion dyrys cysylltiedig â hi, gweler, er enghraifft, Rainer Albertz, *Israel in Exile: The History and Literature of the Sixth Century B.C.E.* (cyfieithiad David Green; Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 2003); James M. Scott (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish, and Christian Conceptions* (Leiden, New York a Köln: Brill, 1997); a Lester L. Grabbe (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998).

Er mai canolbwyntio ar hanes y caethgludion o Jwda a wneir yn y bennod hon, y mae'n rhaid hefyd grybwyll yr hyn a ddigwyddodd i'r deyrnas ogleddol, Israel, er mwyn deall y cyd-destun hanesyddol yn llawnach.

Yn ystod yr wythfed ganrif CC, lledaenodd Ymerodraeth Asyria ei dylanwad ar draws y Cilgant Ffrwythlon gan ddarostwng teyrnasoedd yr Arameaid yn Syria a fu'n fygythiad ers blynyddoedd i ddwy deyrnas Israel. Dechreuodd ymgyrch yn Samaria dan law Shalmaneser a'r Asyriaid yn 724 CC a phlygodd Israel, y deyrnas ogleddol, i Sargon II yn 722/1 CC.<sup>9</sup> Yn unol ag arfer Asyria, cafodd poblogaeth Samaria ei halltudio a'i disodli gan garcharorion a ddygwyd o fannau eraill.<sup>10</sup> Nid oedd y bobl a gaethgludwyd o Israel wedi gadael nemor ddim traddodiad ar eu hôl; roeddent naill ai wedi cymathu'n llwyr gyda'r Asyriaid neu wedi cael eu cymysgu gyda'r caethgludion diweddarach o Jwda.<sup>11</sup>

Cyn diwedd y seithfed ganrif roedd grym Asyria'n simsanu: gwrthryfelodd ei deiliaid ac yn 612 CC cwmpodd Ninefe, ei phrifddinas o ganlyniad i ymosodiad gan Fabilon. 'Erbyn 606' roedd gan y Dwyrain Canol feistres newydd',<sup>12</sup> a chyda hynny, cymerodd Joseia fantais ar y terfysg er mwyn ennill annibyniaeth i Jwda, ond roedd gelyn arall yn bygwth y Jwdeaid, sef yr Aifft. Yn dilyn marwolaeth Joseia ym mrwydr Megido, ieuwyd Jwda wrth yr Aifft, ond edwinodd grym yr ymerodraeth honno yn 605 CC pan drechwyd byddin Pharo Necho gan Fabilon ym mrwydr Carchemish, a gwnaed Jwda'n rhan o Ymerodraeth Babilon.

Dechreuodd Jehoiacim dalu gwrogaeth i Nebuchadnesar ond, yn y man, newidiodd brenin Jwda'i safiad: gwrthryfelodd ac, o ganlyniad, ymosodwyd ar Jerwsalem gan fyddin Babilon. Gosodwyd Jehoiachin fab Jehoiacim ar yr orsedd, ac yna, pan ddaeth Nebuchadnesar a'i luoedd yno ym 597 CC, ildiodd Jehoiachin i Fabilon er mwyn ceisio achub Jerwsalem rhag cael ei dymchwel yn llwyr. Gyda hynny, caethgludwyd haen uchaf y gymdeithas, y bobl a fuasai o'r budd mwyaf i rengoedd a chymdeithas Babilon; felly, cymerwyd Jehoiachin, 'ei fam a'i wragedd a'i weinyddwyr a phendefigion y wlad', ynghyd â 'saith mil o wŷr cefnog a mil o grefftwyr a gofaint, y cwbl yn wŷr glew yn medru rhyfela' (2 Bren. 24:15-16).

Dewisodd Nebuchadnesar Sedeceia, ewythr Jehoiachin, yn frenin Jwda ond ofer fu'r dewis. Er gwaethaf rhybuddion gan Jeremeia ac eraill a fynegai agwedd bleidiol tuag at

---

<sup>9</sup> James M. Scott, 'Introduction', yn Idem. (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish and Christian Conceptions*, 1.

<sup>10</sup> Gweler Bustaney Oded, *Mass Deportations in the Neo-Assyrian Empire* (Wiesbaden: Reichert, 1979).

<sup>11</sup> Albertz, *Israel in Exile*, 12.

<sup>12</sup> Gareth Lloyd Jones, *Detholion o Lyfr Jeremeia* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2003), 8.

Fabilon (gan iddynt gredu fod Duw'n gweithredu trwy gyfrwng Babilon), mentrodd Sedeceia ochri gyda'r Aifft (2 Bren. 24:20), daeth byddin Nebuchadnesar yn ei hôl ac ymosod ym 587 CC. Lladdwyd meibion Sedeceia o'i flaen, dallwyd yntau, cyn ei roi mewn cadwynau, a'i ddwyn i Fabilon (2 Bren. 25:7). Aeth mis heibio rhwng concro Jerwsalem a'i distrywio (2 Bren. 25:8), pan ddaeth Nebuchadnesar a chwalu muriau'r ddinas, llosgi'r Deml a chario'i thrysorau ymaith (2 Bren. 25:9-17). Cwmpodd Jerwsalem a, drachefn, caethgludwyd cyfran sylweddol o brif drigolion y ddinas i Fabilon (2 Bren. 25:18-21). Yn dilyn hyn, gosodwyd Gedaleia'n llywodraethwr ar y bobl a adawyd yn Jwda, ond cododd rhai o'r Iddewon penboeth yn erbyn y llywodraethwr, a daeth Ismael, a honnai iddo fod yn perthyn i linach Dafydd, a deg o ddynion gydag ef a 'tharo'n farw Gedaleia a'r Iddewon a'r Caldeaid oedd gydag ef yn Mispa' (2 Bren. 25:25).<sup>13</sup> Perodd hyn i Nebuchadnesar ymateb a chaethgludo cyfran arall ym 582 CC (Jer. 52:30).

Parhaodd y Gaethglud am rai blynyddoedd, ond gyda marwolaeth Nebuchadnesar ym 566 CC gwanhaodd grym Babilon yn arw. Daeth tri brenin gwahanol i'r orsedd o fewn cwta saith mlynedd ac ym 556 CC daeth brenin arall i rym, Nabonidus, a deyrnasodd hyd 539 CC. Roedd Nabonidus yn frenin amhoblogaidd a bu cryn wrthryfela'n ei erbyn. O'r herwydd, manteisiodd Cyrus, brenin Persia, ar yr anghytuno mewnol ac ymosod. Trechwyd Nabonidus a disodlwyd Babilon gan Ymerodraeth Persia. Ym mlwyddyn gyntaf teyrnasiad Cyrus (538 CC), rhoddodd yr hawl i'r Iddewon ym Mabilon ddychwelyd i Jwda (Esra 1:2-3; 6:3-5), gorchmynnodd iddynt ailgodi'r Deml a ddinistrwyd gan y Babiloniaid, a dychwelyd yr holl lestri a ddygwyd o'r Deml. Dywedodd hefyd, os na fynnai'r Iddewon ddychwelyd i Jwda, y dylent o leiaf gyfrannu'n ariannol i gynorthwyo gwaith adfer y wlad (Esra 1:4). Mae'r dystiolaeth sydd gennym, fodd bynnag, yn awgrymu mai lleiafrif oedd yr Iddewon a fanteisiodd ar y cyfle i ddychwelyd.<sup>14</sup>

O droi at y cyfnodolion, ystyrir y modd yr ymdriniodd yr awduron Cymraeg â'r cofnod Beiblaidd hwn. Gan fod 'caethglud' yn air llwythog ac iddo amryw ystyron, trafodir yn gyntaf y modd y dehonglodd y Cymry'r cysyniad yng nghyd-destun hanes yr Iddewon, cyn ystyried y modd y'i defnyddid mewn ffyrdd mwy creadigol wrth drafod caethwasiaeth gyfoes America.

---

<sup>13</sup> Gweler J. M. Miller a J. H. Hayes, *A History of Ancient Israel and Judah* (London: SCM Press, 1986), 421-4, ar gyfer trafodaeth am broblem hanes Gedaleia.

<sup>14</sup> Lester L. Grabbe, "The Exile" under the Theodite: Historiography as Triangulation', yn Lester L. Grabbe (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 96.

## Y גולה 'Hanesyddol'

O gofio mai Anghydfurfwyr, a roddai le canolog i'r Beibl yn eu haddoliad a'u bywydau beunyddiol, oedd mwyafrif helaeth darllenwyr y cyfnodolion Cymraeg dan sylw, nid yw'n syndod i nifer o ysgrifau'n trafod y Beibl fel *hanes* gael eu cyhoeddi. I'r darllenwyr hyn, llyfr yn cynnwys cofnodion ffeithiol ac athrawiaethau a gynigai gyfarwyddyd ar sut i fyw'n gywir oedd y Beibl. Roedd modd, felly, drin rhannau helaeth o'r llyfr fel hanes; gellid dweud mai gwir y Gair a gwir bob gair oedd conglfaen eu syniadaeth grefyddol.

Cafwyd cyfres o draethodau yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* rhwng Awst 1858 a Mawrth 1859 a oedd yn trafod Caethglud yr Iddewon ym Mabilon fel 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol'.<sup>15</sup> Fel rhan o'r gyfres, olrheinir y modd y caethgludwyd holl drigolion Israel i Asyria fel cosb gan Dduw am i'r genedl fod yn euog o eilunaddoliaeth,<sup>16</sup> a hynny er mwyn dangos fod Jwda wedi dilyn yr un trywydd â'r deyrnas ogleddol. Er i Jwda gael brenhinoedd duwiol megis Heseceia a Joseia, 'ac eraill, y rhai fuont yn eu dydd yn foddion i ddiwygio y wlad', nid ufuddhaodd y genedl gyfan, a bu llawer yn euog o'r 'un anwiredd' ag Israel, sef eilunaddoliaeth.<sup>17</sup> Nodir bod Duw wedi anfon proffwydi i alw ar i'r bobl newid eu ffyrdd ond i hynny fod yn ofer:

Parhaodd amynedd Duw yn hir tuag atynt, ac o herwydd ei fod yn hwyrfrydig i ddi, anfonodd ei weision y naill ar ôl y llall atynt i'w cynghori a'u rhybuddio; ond y maent yn gwbl ddiystyr o'r holl rybuddion a'r cynghorion, ac yn y diwedd maent yn cael eu dwyn yn gaeth gan eu gelynion i Babilon, a'u gwlad yn cael gorphwys a mwynhau ei Sabbathau, fel y dywedir; ac mae yn debyg oddiwrth yr ymadrodd hwn, fod y flwyddyn Sabbothol wedi cael ei rhoddi heibio er ys llawer dydd, a'r tir yn cael ei yrru yn ddiorphwys yn groes i gyfraith Duw.<sup>18</sup>

Gwelwn T. Ll. Hughes uchod yn cyflwyno'r rhesymau pam y caethgludwyd yr Iddewon; am iddynt gymryd duwiau eraill ar wahân i Dduw (Jer. 11:9-23), am iddynt dorri'r Sabboth (Jer. 17:19-27) ac am iddynt beidio ag ufuddhau i ddeddf y flwyddyn Sabbothol (Lef.

---

<sup>15</sup> Cyhoeddwyd ysgrifau'n trafod caethgludo trigolion Jwda i Fabilon yn rhifynnau Awst 1858, Ionawr 1859, Chwefror 1859, Mawrth 1859, Ebrill 1859, a hanes dychweliad rhai o'r Iddewon o'r Gaethglud yn rhifynnau Gorffennaf 1859 ac Awst 1859. Roedd cyfresi o'r fath yn gyffredin yn y cyfnodolion enwadol yn yr Unol Daleithiau a'u diben oedd cynnig 'eglhurhad hanesyddol' i'r testunau Beiblaidd, fel y dywedir yn y rhagymadrodd i 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1857), 171.

<sup>16</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1859), 1.

<sup>17</sup> *Ibid.*

<sup>18</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Awst 1858), 285.

25: 1-22).<sup>19</sup> Diddorol yw sylwi mai eilunaddoliaeth yw'r unig reswm a nodir gan Evan F. Jones, Danville, yn ei draethawd ar 'Grefydd yr Iuddewon yn Amser Crist',<sup>20</sup> ac mai torri deddf y flwyddyn Sabothol yw'r rheswm pennaf yn ôl y Parch. David Price, Utica, yn ei erthygl yntau, 'Yr Ardystiad Crefyddol'.<sup>21</sup> Serch hyn, cytuna'r tri mai canlyniad anufuddhau i Dduw oedd anfon yr Iddewon 'am 70 o flynyddoedd i Babilon, lle y dysgwyd iddynt wers nad anghofiasant byth'.<sup>22</sup>

Awgryma'r frawddeg uchod fod Hughes yn credu i'r Gaethglud bara union ddeng mlynedd a thrigain, yn unol â phroffwydoliaeth Jeremeia (Jer. 25:12; 29:10; cf. 2 Cron. 36:21), ac i fwyafrif helaeth y genedl gael ei chaethgludo.<sup>23</sup> Pwysleisir yn ogystal mai cosb dymhorol oedd y Gaethglud: 'Goruchwyliaeth geryddol oedd hon ar Judah, am ei heilunaddoliaeth, er eu diddyfnu oddiwrtho; ond goruchwyliaeth farnol ydoedd ar Israel, i'w dinystrio byth fel cenedl.'<sup>24</sup> Nid oedd Israel i ddychwelyd o'i chaethglud ond roedd Duw'n awyddus i Iddewon Jwda wneud, wedi iddynt gael eu 'diddynfu', eu puro o bechod eilunaddoliaeth.

Ceir yn ogystal ymgais gan Hughes i gysoni'r gwahanol gofnodion am y Gaethglud a geir yn yr Hen Destament wrth gynnwys stori Daniel yn y drafodaeth. Er bod ansicrwydd ynghylch union ddyddiad llyfr Daniel, ei awduraeth a'i gynnwys, nid ymddengys fod Hughes wedi poeni am hynny, ac iddo'i drin fel testun ag iddo werth hanesyddol.<sup>25</sup> Cyflwynna Hughes y stori gyfarwydd am Daniel fel ffeithiau: fe'i cymerwyd i Fabilon a'i ddal yn gaeth 'am agos i 75 o flynyddoedd',<sup>26</sup> bu iddo brofi'i hun yn ddehonglwr breuddwydion medrus, ac iddo gael

---

<sup>19</sup> Ibid.

<sup>20</sup> Evan F. Jones, 'Crefydd yr Iuddewon yn Amser Crist', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Awst 1859), 282.

<sup>21</sup> David Price, 'Yr Ardystiad Crefyddol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mehefin 1860), 199. Testun ei bregeth yw Neh. 9:38 a phwysigrwydd y cyfamod a wnaeth Duw gyda'r Iddewon. Noda y trefnodd Duw 'i'r ddaiar gael Sabboth, (Lef. xxvi. 34); ond ni adawai Israel, yn eu gwrthgiliad, i'r tir orphwys. Am esgeuluso hyn yn *benaf* y dygwyd hwynt i Babilon; a chafodd y tir ddeg o Sabbothau yn y 70 mlynedd y buont hwy yno.' Gweler, ymhellach, Bennod 2 uchod.

<sup>22</sup> Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1859), 1.

<sup>23</sup> Wrth drafod datganiad Cyrus i'r Iddewon ddychwelyd i'w mamwlad yn 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1859), 41, pwysleisir drachefn, 'Y pryd hynny mae y 70ain mlynedd, amser Caethiwed Judah yn dyfod i fyny, ac ar ei esgyniad i'r orsedd mae Cyrus yn cyhoeddi eu rhyddhad.' Hon oedd y farn gyffredin ymysg y Cymry Americanaidd, fel y gwelir mewn testunau eraill, megis 'Palestina', *Y Seren Orllewinol* (Ionawr 1847), 16: 'Ond yn mhen y tymhor o saith deg o flynyddoedd pobl Juda a gawsant eu dychwelyd, a chymmerasant feddiant o'r holl wlad, yr hon, o herwydd yr amgylchiad hwnw, a elwid Judea.'

<sup>24</sup> Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1859), 1.

<sup>25</sup> Mae nifer o ysgolheigion yr Hen Destament bellach yn credu fod llyfr Daniel yn perthyn i gyfnod oddeutu'r ail ganrif CC. Gweler ymhellach John E. Goldingay, *Word Biblical Commentary: Daniel* (Waco, TX: Thomas Nelson, Inc., 1989).

<sup>26</sup> Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1859), 1.

ei gyfrif ‘gan un o’r ysgrifenyddys santaidd ag oedd yn cydoesi âg ef, yn un o’r tri rhagoraf a fu ar y ddaiar erioed’.<sup>27</sup>

Ceir hefyd ffug hanesyn yn yr erthyglau wrth i Hughes drafod y cyfnod pan simsanodd Babilon. Dywed, pan ddaeth Cyrus i Fabilon, iddo gyfarfod Daniel a oedd yn ‘enwog am ei ddoethineb a’i fedrusrwydd i drin achosion dyrys llywodraeth’, ac iddo gynnig i Daniel ymuno gyda’i lys. Yn dilyn hynny, ac am i Daniel ddeall ‘fod y 70ain mlynedd yn mron i fyny’, ymroes i weddïo ar Dduw ac ymprydio er mwyn i’r genedl gael gwaredigaeth. Yn ogystal, dywed Hughes fod Daniel wedi ‘cyfryngu gyda Cyrus ar [ran yr Iddewon], ac wedi dangos i’r g[ŵ]r mawr brophwydoliaeth Esaiah am dano [Cyrus] dros gan’ mlynedd cyn ei eni. Esa. xlv. 38.’<sup>28</sup> Er mwyn cadarnhau’r stori hon, cyfeiria’r awdur at Joseffws<sup>29</sup> ac at ddatganiad Cyrus i’r dychweledigion ailgodi’r Deml (Esra 4:1-6). Fodd bynnag, nid ymddengys i Daniel na’r ymgom uchod gael eu crybwyll yn unman yn natganiad Cyrus (Esra 1:2-4) ac mae’n bosibl, felly, mai stori greu yw’r hon a gyflwynodd Hughes.<sup>30</sup>

Diddorol yw nodi hefyd i Hughes arddel y syniad a oedd wedi’i wreiddio’n ddwfn yn ysgolheictod Beiblaidd y ganrif, sef fod Jwda wedi’i rheibio a’i gadael â bron neb ar ôl yn y wlad yn dilyn cyrch Nebuchadnesar. Syniad ‘y wlad wag’ oedd fwyaf poblogaidd yn y cyfnod, a hynny’n bennaf am nad oedd gan ysgolheigion y dystiolaeth archeolegol na’r llawysgrifau o’r Dwyrain Canol sydd gennym heddiw i daflu goleuni ar gyfnod y Gaethglud. Ar wahân i Joseffws, y Beibl oedd eu prif ffynhonnell.<sup>31</sup> Ond a oedd Hughes yn gywir yn awgrymu i’r wlad gael ei gwagio’n llwyr?

Roedd y sefyllfa yn Jwda’n eithaf ansicr ar ôl 587 CC: wedi colli eu harweinwyr a phobl ddysgedig y wlad, a chyda’r Deml wedi’i difrodi, roedd bywyd y bobl a adawyd ar ôl mewn anhrefn. Mae’r farn ynghylch union sefyllfa’r Iddewon a’r niferoedd a oedd yn weddill

---

<sup>27</sup> Ibid., 2.

<sup>28</sup> Hughes, ‘Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Chwefror 1859), 42.

<sup>29</sup> ‘Sicrha Josephus hynny’, medd Hughes. Mae’n bosibl mai cyfeirio at y cofnod a geir yn llyfr 11 *Hynafiaethau yr Iuddewon* a wna yma. Gweler, William Whiston (gol.), *Gweithiau Flavius Josephus, yn cynnwys Hynafiaethau yr Iuddewon, yn nghyda Hanes eu Rhyfeloedd hyd Ddinystr Jerusalem, Traethawd Josephus ar Hades, mewn atebiad i’r Groegiaid; ac Amddiffyniad Josephus i Hynafiaethau yr Iuddewon, yn erbyn Apion; yn nghydag Amddiffyniad i dystiolaethau Josephus, o berthynas i Iesu Grist, Ioan Fedyddiwr, ac Ioan y cyfiawn[:]* Cyfieithiad o’r Groeg a’r Hebraeg, yn nghyda Nodiadau Eglurhaol, Hanesyddol, Bywgraphyddol, a Daearyddol; Testunau Cyfeiriol o’r Ysgrythyrau, ac Amseryddiaeth Cywir yr Amrywiol Hanesion, Hefyd Mynegai Cyflawn o’r Holl Waith (Caernarfon: H. Humphreys, Castle Square, 1860), yn arbennig, 218-9.

<sup>30</sup> Hughes, ‘Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Chwefror 1859), 42.

<sup>31</sup> Hans M. Barstad, *The Myth of the Empty Land: A Study in the History and Archaeology of Judah During the “Exilic” Period* (Oslo: Scandinavian Universtiy Press, 1996), 25.

yn y wlad yn amrywio ymysg ysgolheigion diweddar.<sup>32</sup> Mae rhai megis Benedict W. Anderson yn derbyn y cofnod Beiblaidd ac yn cymryd i'r wlad gael ei difrodi'n llwyr: 'The land was left in such a wreck that even under favorable conditions it would have taken years to recover.'<sup>33</sup>

Cred C. C. Torrey, fodd bynnag, na fu fawr o ddifrod yn Jwda am nad oedd y Babiloniaid yn dinistrio er mwyn difa.<sup>34</sup> Mae Hans Barstad, er nad yw mor eithafol â Torrey, sy'n amau a fu Caethglud o gwbl, yn casglu yn *The Myth of the Empty Land*, fod y Gaethglud wedi digwydd ond, er hynny, i fwyafrif y boblogaeth aros yn Jwda. Nid yw'r dystiolaeth archeolegol ddiweddar yn awgrymu diwedd ar fywyd a diwylliant Jwda ac er bod dychweliad wedi digwydd, nid oedd yn ddigwyddiad mor fawr ag y tybid ar sail Esra-Nehemeia.<sup>35</sup> Erbyn heddiw, mae ysgolheigion yn cytuno fod mwyafrif poblogaeth Jwda wedi'i gadael yn y wlad. Os derbynnir hyn a bod yr Iddewon yn Jwda'n fwy niferus na'r rhai ym Mabilon, gellid awgrymu fod yr Iddewon a adawyd yn ddigon di-hyder a gwan o ganlyniad i ymgyrchoedd Nebuchadnesar. Roedd dyfodol y genedl i bob pwrpas, felly, gyda'r Iddewon a gaethgludwyd: y teulu brenhinol, yr arweinwyr milwrol a'r gwŷr dysgedig yn cynnwys offeiriad, ysgrifenyddion a phroffwydi.

---

<sup>32</sup> Nid yw'r Beibl yn gyson ynglŷn â'r niferoedd a gafodd eu caethgludo i Fabilon. Ceir Jeremeia'n nodi fod 3,023 wedi cael eu cymryd yn ystod seithfed flwyddyn teyrnasiad Nebuchadnesar (Jer. 52:28), 832 yn ystod deunawfed flwyddyn Nebuchadnesar (Jer. 52:29), a 745 yn ystod trydedd flwyddyn ar hugain teyrnasiad brenin Babilon (Jer. 52:30). Cyfanswm, felly, o 4,600. Ond ceir ffigwr o 10,000 yn 2 Bren. 24:14, ac yn 2 Bren. 24:15-16 nodir fod Nebuchadnesar wedi dwyn 'Jehoiachim, ei fam a'i wragedd a'i weinyddwyr a phendefigion y wlad' ynghyd â 'saith mil o wŷr cefnog a mil o grefftwyr a gofaint, y cwbl yn wŷr glew yn medru rhyfela'. Yn ôl 2 Brenhinoedd, felly, caethgludwyd naill ai 10,000, 8,000, neu 18,000 i Fabilon. Mae'r ffigwr a geir yn Jeremeia'n un rhesymol, meddai John Bright, ond mae'n debyg mai'r dynion yn unig a gyfrifir. Byddai'r cyfanswm o gynnwys y gwagedd a'r plant yn dair neu'n bedair gwaith hyn, fel y dywed Bright, *A History of Israel* (London: SCM Press, 1978; argraffiad wedi'i adolygu), 346. Nodir yn 2 Cronicl 36:20 fod Nebuchadnesar wedi caethgludo pawb 'a achubwyd rhag y cleddyf', ac iddynt fod 'yn weision iddo ef a'i feibion nes y dechreuodd y Persiaid deynasu.' Awgryma'r Cronicydd, felly, fod y wlad wedi'i rheibio ac wedi'i gadael yn llonydd er mwyn iddi gael 'mwynhau ei Sabothau' am '[dd]jeng mlynedd a thrigain.' Mae hyn hefyd wedi bod yn destun trafod ac yn un y mae Barstad wedi ymdrin ag ef yn fanwl. Yn ei farn ef, gormodiaith er mwyn creu effaith sydd yma gan y Cronicydd; rhethreg nid ffeithiau hanesyddol: 'When the ancient writer says "all the people" [were carried off to Babylonia,] he does not mean "all the people," but a large number. And when he refers to a large number, this may simply be because he wants to make a point with regard the importance of what had happened. [...] What we are facing here is a prime piece of ancient Hebrew storytelling, and not an historical account.' *Myth of the Empty Land*, 31. Fodd bynnag, mae problem y niferoedd a ddygwyd yn dal i ennyn trafodaeth hyd heddiw; gweler Albertz, *Israel in Exile*, 81-90, er enghraifft, am drafodaeth ddifyr.

<sup>33</sup> B. W. Anderson, *The Living World of the Old Testament* (Essex: Pearsons Education, 1988; pedwerydd argraffiad), 446.

<sup>34</sup> Gweler, yn arbennig, Charles C. Torrey, *Ezra Studies* (New York: KTAV Publishing House, Inc., 1970), 285-337.

<sup>35</sup> Barstad, *Myth of the Empty Land*, 76-82.

Mae'n wir fod Hughes yn darlunio sefyllfa lle cafodd Jwda'i rheibio o'i thrugareddau a'i thrigolion, ond mae'n cydnabod i rai 'diwerth' gael eu gadael ar ôl: 'Yna mae [Nebuchadnesar] yn casglu holl weddillion y genedl a gallodd gael gafael arnynt, ag a fyddai yn debyg o fod o ryw ddefnydd yn Babilon, a gwasgarodd yr ychydig dlodion diwerth ar hyd y wlad.'<sup>36</sup> Tybed a oedd yntau'n credu fod dyfodol y genedl, i bob pwrpas, gyda'r Iddewon ym Mabilon yn hytrach na chyda'r rhai 'diwerth' yn Jwda, ac i hynny, felly, olygu i'r wlad fod yn 'wag', heb ei thrigolion mwyaf 'gwerthfawr'?

Cyhoeddwyd cyfres gyffelyb i'r 'Hanesyddiaeth Ysgrythyrol' yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, gan ganolbwyntio ar 'Daniel a'i Amserau'.<sup>37</sup> Yn yr un modd â T. Ll. Hughes uchod, ceir ymgais gan awdur sy'n dwyn y ffugenw priodol 'Tacitus', i geisio llunio cofnod manwl o stori Daniel, ei gefndir a'i hanes yn ystod y Gaethglud.

Diddorol yw sylwi ar un gwahaniaeth sylfaenol rhwng cofnod Hughes a 'Tacitus' am hanes Jwda. Deil Hughes, sy'n dilyn ysgolheigion megis John Robinson a Richard Watson,<sup>38</sup> mai 'yn y cyfan, bu pedwar caethgludiad ar y genedl, neu dygwyd hwy i Caldea ar bedair gwaith', yn wahanol i 'Tacitus', sy'n credu mai tri chaethgludiad yn unig a fu.<sup>39</sup> Er mwyn cadarnhau hyn, â 'Tacitus' ati i ddyddio'n union y pryd y caethgludwyd yr Iddewon:

Y symudiad cyntaf yn amser Jehoiacim, mab Josiah, y fl. 3398 O. B., a'r fl. 606 C. C. [...] Yn y flwyddyn hon y dywedir fod y "70 mlynedd" yn dechreu. Yn y symudiad hwn yr oedd Daniel a'r tri llanc; aeth miloedd gyda hwy. [...] Yr ail symudiad oedd yn nyddiau Joacin, neu Jechonia mab Jehoiacim, yr hwn a deyrnasodd dri mis a deg diwrnod. Cymerodd y symudiad hyn le yn y flwyddyn o O. B. 3405, C. C. 599, yn mhen saith mlynedd ar ol y cyntaf. Y tro yma yr aeth Ezeziel y proffwyd a Mordecai [...] cafodd tua 10,000 fyned yn gaeth y waith hon, ac yn eu plith Jechonia y brenin. [...] Y trydydd symudiad a gymerodd le yn amser Zedeceia. [Y]n mhen 11 mlynedd ar ol yr ail, O. B. 3416, C. C. 588; er dechreuad teyrnasiad Dafydd 468; er yr ymraniad yn nyddiau Rehoboam 388; er dinystr teyrnas Israel 134; er sylfaeniad y deml gan

---

<sup>36</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol. Penod LXXIII', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Awst 1858), 285.

<sup>37</sup> Mae'r gyfres yn rhychwantu rhifynnau Mai 1857 hyd at fis Medi 1857 *Y Cenhadwr Americanaidd*.

<sup>38</sup> John Robinson, *A Theological, Biblical, and Ecclesiastical Dictionary: Serving as a general notebook to illustrate the Old and New Testament as a Guide to the practices and opinions of all sects and as a Cyclopaedia of Religious Knowledge* (London: G. Sidney, Northumberland, 1815), 283; Richard Watson, *A Biblical and Theological Dictionary: Explanatory of the History, Manners, and Customs of the Jews, and Neighbouring Nations, with an account of the most remarkable places and persons mentioned in sacred scripture; an Exposition of the Principal Doctrines of Christianity; and notices of Jewish and Christian Sects and Heresies* (London: John Mason, 1832), 237.

<sup>39</sup> T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', (Awst 1858), 286; 'Tacitus', 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1857), 172.



Solomon hyd ddydd ei llosgiad, 424 o flynyddoedd, tri mis ac wyth diwrnod; ac yn mhen 18 mlynedd wedi dechreuad y caethiwed, a 52 cyn ei derfyniad.<sup>40</sup>

Yr hyn sy'n drawiadol yw'r modd y mae 'Tacitus' yn dyddio hanes Jwda, Daniel, ac unigolion amlwg eraill megis Eseciel a Mordecai, i'r union flwyddyn. Yr oedd felly'n dilyn y ffrwd o ysgolheictod Beiblaidd a oedd wedi ceisio dyddio oed y Ddaear a chysylltu digwyddiadau'r Beibl gyda hanes y byd ers y creu. Dyna'n wir yw arwyddocâd yr 'O. B.' Uchod: 'Oed y Byd'. Yn hyn o beth, fe ymddengys fod 'Tacitus' wedi defnyddio system gronolegol yr Archesgob James Ussher wrth ddyddio pryd ddygwyd yr Iddewon i Fabilon.<sup>41</sup>

Dywed 'Tacitus' mai 70 mlynedd oedd hyd y Gaethglud a bod Jwda wedi'i gwagio'n llwyr: mae hyn felly'n tystio i'r modd yr oedd yntau wedi derbyn y cofnod Beiblaidd yn llythrennol. Wedi olrhain hanes Jeremeia a'r Iddewon eraill yn ymfudo i'r Aiffft, casgla 'Tacitus', 'Yn awr wele wlad yr addewid heb yr un o'i hetifeddion; y mae miloedd llawer o honynt yn Babilon a'i holl gylchoedd.'<sup>42</sup>

Mae'n werth crybwyll hefyd yr 'Addysgiadau' a wêl 'Tacitus' yn llyfr Daniel. Yn ogystal â'r pwyslais ar Daniel fel esiampyl o grediniwr a barhaodd yn ffyddlon i'w Dduw mewn amser o adfyd, gwelwn 'Tacitus' yn canfod elfen ddirwestol yn yr hanes: '*Yr oedd Daniel yn llwrymwrthodwr*'.<sup>43</sup> Gwnaeth hyn, mae'n debyg, er mwyn cyd-fynd ag amcanion dirwestol Anghydfurfwyr y cyfnod. Roedd cyfran uchel o'r Cymry Americanaidd, yn yr un modd â'r Cymry gartref, yn cefnogi'r mudiad Dirwest ac yn ymgyrchu'n frwd yn erbyn alcohol. Yn wir, ymddangosodd llawer o ysgrifau yn y wasg gyfnodol yn America'n trafod drygedd meddwdod a chaethwasiaeth ar yr un gwynt. Nid oes ond rhaid meddwl am ail gylchgrawn gwasg Robert Everett, *Y Dyngarwr*, er enghraifft. Byddai pob rhifyn o'r misolyn hwnnw'n rhoi sylw manwl i ddau bwnc yn unig sef 'Dirwest' a 'Rhyddid', dau o ddrygau mawr gwlad fabwysiedig y Cymry.<sup>44</sup> Felly, nid yw'n syndod gweld 'Tacitus' yn cyflwyno

<sup>40</sup> 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1857), 172-3.

<sup>41</sup> Gweler James Ussher, *The Annals of the World* (London: E. Tyler, 1658). Copi electronig: <<https://archive.org/stream/AnnalsOfTheWorld/Annals#page/n0/mode/2up>> (Cyrchwyd 1 Awst 2016). Am drafodaeth ynglŷn â chronoleg Ussher, gweler R. Buick Knox, *James Ussher Archbishop of Armagh* (Cardiff: University of Wales Press, 1967), 105-12.

<sup>42</sup> 'Tacitus', 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1857), 173.

<sup>43</sup> Idem., 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1857), 283. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>44</sup> Am ragor o wybodaeth am *Y Dyngarwr* a'i amcanion dirwestol, gweler Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrws: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), 102-4. Ceir enghreifftiau lu o destunau yn trafod drygedd y ddiad gadarn mewn perthynas â chaethwasiaeth, gan ddadlau ambell dro pa un yw'r gwaethaf. Gweler, er enghraifft, Richard T. Jones, 'Dirwest a Chaethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1844), 302-

neges o'r fath yn yr ysgrif hon: 'Ein dyledswydd a'n braint yw llwrymwrthod [â]r pethau hyn a bod yn dduwiol hefyd.'<sup>45</sup> Gan fod Daniel yn ŵr duwiol ac yn llwrymwrthodwr, rhaid i'r Cymry fod hefyd, awgryma 'Tacitus'.

Prif amcan y Gaethglud, meddai, oedd dangos mai Duw 'sydd ben.' Roedd Duw am ddangos i frenhinoedd Jwda mai ynddo Ef yr oedd y gwir nerth, ac roedd am ddysgu ei fod â'r gallu i ddylanwadu ar genhedloedd eraill: 'mai Duw sydd [â]r llaw gryfaf yn mreniniaeth dynion.'<sup>46</sup> Casgla hefyd fod neges Gristnogol gref i hanes Daniel, ac mai trwy Iesu Grist 'y mae [Duw] yn esbonio y cwbl oblegid hwnw yw Haul y Cyfiawnder.'<sup>47</sup>

### **Y Gaethglud yn America: 'I ddwyn y gaethglud fawr yn rhydd'**<sup>48</sup>

Dyma alwad Robert Everett mewn anerchiad ar ddechrau 1862 ar i'r Cymry weithredu er mwyn y bobl a oedd yn byw mewn caethiwed. Dengys hyn, felly, fod y Gaethglud wedi datblygu'n gysyniad amlhaenog i'r Cymry Americanaidd a oedd yn cyfrannu at y cyfnodolion hyn ac yn eu darllen. Ar y naill law, fel y sylwyd eisoes, yr oedd yn gyfeiriad uniongyrchol at gludiad yr Iddewon i Fabilon, ond ar y llaw arall, yn gyfeiriad at sefyllfa'r caethion yn yr Unol Daleithiau.<sup>49</sup> Gan mai ystyr 'caethglud', yn ôl Thomas Charles, yw 'yr

---

3; Robert Everett, 'Cyfarchiad ar Ddechreu y Flwyddyn 1854', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1854), 1; 'Dadleuaeth – un oedd yno', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1854), 234; 'Meddwod a Chaethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1854), 305; E. Davies, 'Cymanfa Flynyddol Efrog Newydd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1854), 393; 'Cynadledd Gymraeg yn Holland Patent', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1854), 437; David Price, 'Y Daith Trwy y Gorllewin', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1858), 247; Robert Everett, 'Gorseddfainc Anwiredd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1862), 365-8. Roedd yr arfer o drafod drygedd alcohol a chaethwasiaeth ar yr un gwynt, ac yng nghyd-destun y Beibl, yn weddol gyffredin ymysg trigolion di-Gymraeg yr Unol Daleithiau yn ogystal. Gweler ymhellach, John L. Merrill, 'The Bible and the American Temperance Movement: Text, Context, and Pretext', *The Harvard Theological Review*, 81, rhif 2 (April 1988), 145-70.

<sup>45</sup> 'Tacitus', 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1857), 283.

<sup>46</sup> Idem., 'Daniel a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1857), 330.

<sup>47</sup> Ibid. Ceir neges nid annhebyg mewn erthygl sy'n trafod 'Y tri llangc yn Babilon', yn *Y Seren Orllewinol* (Hydref 1863), 220-3.

<sup>48</sup> Robert Everett, 'Cyfarchiad at ein Darllenwyr, Ar Ddechreu y Flwyddyn 1862', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1862), 2.

<sup>49</sup> Caiff y term 'caethglud' ei ddefnyddio hefyd mewn cyd-destunau eraill nad ydynt yn sôn am y Gaethglud ym Mabilon na sefyllfa'r Affricaniaid yn America. Er enghraifft, ceir ambell erthygl yn disgrifio pobl nad ydynt yn byw bywyd Cristnogol fel petaent yn byw mewn 'caethglud' pechod, megis Jos. George, 'Dedwyddwech y Nef', *Y Seren Orllewinol* (Ionawr 1850); 'Llwyddiant Mawr yn California', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1867), 149; Dewi Emlyn, 'Y Telynau ar yr Helyg', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1865), 82. Felly hefyd, ceir defnyddio'r gair 'caethglud' yng nghyd-destun carcharorion rhyfel yr Hen Destament, er enghraifft, yn 'Caethfasnach: Ei Hanes a'i diddymiant', *Y Traethodydd yn America* (1858), 71, ceir: 'Meddiennid caethion trwy amryw ffyrdd.

hyn a ddygir, neu a gludir yn gaeth; cludo neu ddwyn dynion yn gaeth, caethiwo', nid yw'n syndod i'r awduron Cymraeg hyn ystyried sefyllfa'r Affricaniaid fel 'y gaethglud fawr' yn America.<sup>50</sup> Beth, felly, oedd y berthynas rhwng y ddwy 'gaethglud' dan sylw yng ngolwg y Cymry Americanaidd, ac i ba raddau yr oedd y wasg gyfnodol ddi-Gymraeg yn gwneud defnydd cyffelyb ohonynt?

Ym mis Medi 1842 ymddangosodd erthygl yn dwyn y teitl 'Caethgludiad Israel a Judah' yn *Y Cenhadwr Americanaidd* gan T. Edwards o Bittsburg. Egyr y darn drwy grybwyll y camsyniad a oedd, fe ymddengys, yn gyffredin yn ystod y cyfnod, mai 'ar unwaith y caethgludwyd Israel', ond fel y dywed Edwards, 'dengys hanesyddiaeth yn wahanol.'<sup>51</sup> Trafodir yn gryno hanes caethgludo Israel gan yr Asyriaid a phwysleisir nad un digwyddiad yn unig oedd hynny. Yr hyn sy'n hynod ddiddorol yw bod Edwards, yntau, yn dyddio digwyddiadau penodol i 'Oed y Byd', er mwyn ceisio'u gosod mewn cyd-destun hanesyddol sicr. Mae'n debyg iddo fod wedi gwneud defnydd helaeth o eiriadur Beiblaidd Richard Watson yn hyn o beth, gan fod rhannau o'r erthygl yn gyfieithiadau o'r geiriadur hwnnw, ond nid yw Edwards yn cydnabod y ffynhonnell wreiddiol.<sup>52</sup> Mae'r tebygrwydd, fodd bynnag, i'w weld yn glir, er enghraifft:

1. Yn y flwyddyn o oed y byd 3264, Tigla-pileses a orchfygodd amrai ddinasoedd ac a gaethgludodd benaeth llwyth Reuben a Gad yn nghyd a llaweroedd eraill, ac hefyd haner llwyth Manasseh, 2 Bren. 15:29.
2. Yn y fl. o oed y byd 3283, Shalmanaster a gymerodd ac a ddiystyriodd Samaria ar ol ei hamgylchynu am dair blynedd mewn modd milwrol. Yna efe a draws blannodd y llwythau oedd Tigla-pileses wedi eu harbed yn y talaethau ger Euphrates. 2 Bren. 18:10, 11. Bernir yn gyffredin na ddychwelodd y deg llwyth o'r ail gaethiwed yma; ond pan y chwilir yn fanwl ysgrifeniadau y prophwydi ceir hanesion am ran fawr o'r Israeliaid yn cael eu nodi yn amlwg, megys yn Hos. 11:11; Amos 9:14; Zech. 9:13; Micah 2:12. Wrth chwilio, ceir hanes mor sicr am ddychweliad rhai o'r deg llwyth, ag am lwythau Judah a Benjamin, iddynt ddychwelyd o'r caethiwed uchod.<sup>53</sup>

In the year of the world 3264, Tiglath-pileser took several cities, and carried away captives, principally from the tribes of Reuben, Gad, and the half tribe of Manasseh, 2 Kings xv. 29. In the year of the world 3283, Shalmaneser took and destroyed Samaria,

---

Yn gyntaf, trwy gaethgludiad, yr hyn fe allai oedd dechreuad caethiwed. Gen. xiv.14.' Er mai'r un gair a ddefnyddir yn y Gymraeg gan yr awdur hwn ar gyfer dwyn rhywun yn garcharor rhyfel, a dadleoli cenedl i wlad arall, termau gwahanol a geir yn yr Hebraeg: y berfenw נשב a geir yn Gen. 14:14 a'r enw benywaidd גולה a ddefnyddir ar gyfer caethglud Jwda ym Mabilon.

<sup>50</sup> Thomas Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol* (Wrexham: Hughes and Son, 1885; seithfed argraffiad), 138.

<sup>51</sup> T. Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1852), 281.

<sup>52</sup> Richard Watson, *A Biblical and Theological Dictionary*, 236-7.

<sup>53</sup> Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', 281.

after a siege of three years, and transplanted the tribes that had been spared by Tiglath-pileser, to provinces beyond the Euphrates, 2 Kings xviii. 10, 11. It is generally believed, there was no return of the ten tribes from this second captivity. But when we examine carefully the writings of the prophets, we find the return of at least a great part of Israel from the captivity clearly pointed out. [...] Hosea xi. 11. [...] Amos ix.14[.]<sup>54</sup>

Wrth i'r traethawd fynd rhagddo, gwelwn Edwards yn dilyn ei drywydd ei hun ac yn dwyn cymhariaeth rhwng Caethglud Israel â'r Affricaniaid: 'Dygid Israel i'r caethiwed idd eu cospi oblegid eu pechodau, ac nid o achos eu lliw.'<sup>55</sup> Nid oedd a wnelo hil neu liw croen ddim â chaethgludo'r Israeliad; caniatodd Duw iddynt gael eu dwyn i gaethiwed, meddai, 'er mwyn diwygio eu pechodau, nid er mwyn elw.'<sup>56</sup> Cyferbyniad uniongyrchol a geir yma rhwng gweithred Duw'n cosbi'i bobl am eu hanufudd-dod, â'r rheswm y dygid yr Affricaniaid i America, sef er mwyn eu gwerthu'n gaeth ac elwa'n economaidd arnynt. Cyfeirir at liw croen yr Affricaniaid a ddygid yn ogystal er mwyn cydnabod y ddadl a ddefnyddid gan lawer i gyfiawnhau perchnogi caethion, sef eu bod o liw gwahanol a bod y liw hwnnw'n dynodi'u 'cyflwr melltgedig'.<sup>57</sup>

---

<sup>54</sup> Richard Watson, *A Biblical and Theological Dictionary*, 236. Mae'n bosibl fod Watson, yntau, yn dibynnu'n drwm ar eiriadur John Robinson, *A Theological, Biblical, and Ecclesiastical Dictionary*. Ceir Edwards yn defnyddio detholiadau helaeth o eiriadur Watson er mwyn gosod sylfaen i'w erthygl cyn dilyn ei gwys ei hun a dwyn cymhariaeth rhwng Caethglud Israel a Jwda, â'r Gaethglud yn America. Buasai Cymry'r cyfnod yn gyfarwydd â'r arfer hon o ddefnyddio testunau eraill heb o reidrwydd eu cydnabod; roedd syniadau am lèn-ladrad y cyfnod yn dra gwahanol i gonfensiynau modern. Gweler, er enghraifft, Robert Macfarlane, *Original Copy: Plagiarism and Originality in Nineteenth-Century Literature* (New York: Oxford University Press, 2007). Serch hyn, ceir un enghraifft ddiddorol yn hanes y Cymry Americanaidd o gyhuddo rhywun o fod yn euog o lèn-ladrad a'r ymrafael dilynol yn achos R. D. Thomas (Iorthryn Gwynedd) a Llewelyn Ioan Evans. Daeth Evans, a oedd yn fardd cymharol ifanc ar y pryd, yn fuddugol yn y brif gystadleuaeth farddonol yn Eisteddfod Daleithiol Wisconsin ym 1857 gan guro'r bardd profiadol Iorthryn Gwynedd. Sylwodd Iorthryn Gwynedd fod dylanwad Milton yn drwm ar y bryddest fuddugol ac fe gyhuddodd Evans o lèn-ladrad. Bu cryn ymrafael wrth i Iorthryn Gwynedd feirniadu Evans yn hallt yn y wasg gyfnodol drwy lythyru dan nifer o ffugenwau gwahanol, ac wrth i Evans ymateb drwy fygwth achos llys am enllib a thrwy gyhoeddi pamffled, *Crach-feirniadaeth; neu Amddiffyniad yn ngwyneb ysgrifau 'Hoffwr Barddoniaeth', yn cynnwys ymchwiliad i egwyddorion beirniadaeth ... natur efelychiad a llenysbeiliaeth* (1859), i feirniadu Iorthryn Gwynedd a'i ddadleuon. Mae'n bosibl mai collwr gwael oedd Iorthryn Gwynedd a'r gwir yw fod dylanwad syniadau a gweithiau Milton yn fawr ar gynifer yn y cyfnod. Gweler ymhellach, Jerry Hunter, Jerry Hunter, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), 35-41. Am drafodaethau diddorol am Ioan Llewelyn Evans, gweler D. Densil Morgan, 'Wales, the Princeton theology and a nineteenth century battle for the Bible', *Journal of Welsh Religious History*, 2, (2002), 51-81, ac Idem., *Wales and the Word: Historical Perspectives on Religion and Welsh Identity* (Cardiff: University of Wales Press, 2008), 55-87.

<sup>55</sup> Edwards, 'Caethglud Israel a Judah', 281.

<sup>56</sup> Ibid.

<sup>57</sup> Gweler Pennod 1.

Yn ail ran yr erthygl, canolbwyntir ar ‘Gaethgludiad Judah’ ac yn yr un modd â’r rhan gyntaf, ceir cyfieithiadau o eiriadur Watson i ddangos y modd yr oedd ‘haneswyr yn coffâu am [y c]aethgludiadau’.<sup>58</sup>

Difyr yw nodi fod gwahaniaethau mawr rhwng ysgrifau T. Ll. Hughes, ‘Tacitus’, a T. Edwards, ynglŷn â phryd a sawl gwaith y caethgludwyd yr Iddewon (gweler tabl ‘Cymharu’r ysgrifau’ isod). Deil Hughes i’r genedl gael ei chludo bedair gwaith ac mae’n dyddio’r digwyddiadau hynny i flynyddoedd ‘Cyn Crist’ (‘C.C.’). Yn wahanol i Hughes, mynna ‘Tacitus’ i’r genedl gael ei chludo ar dri achlysur a defnyddia ddyddiadau ‘C.C.’, sy’n cyfateb i Hughes, ynghyd â dyddiadau ‘Oed y Byd’ (‘O.B.’). Drachefn, yn wahanol i ‘Tacitus’, ond yn debyg i Hughes, ceir Edwards yn nodi i’r genedl gael ei chaethgludo bedair gwaith a defnyddir ‘O.B.’ i ddyddio’r caethgludiadau. Nid yw’r tri’n unfryd unfarn ynghylch sawl caethgludiad a fu nac ychwaith ba bryd ddigwyddodd y rheiny. Mae hyn yn tystio i ba mor ddyrys yw pwnc y Gaethglud a hefyd ba mor iach yr oedd y drafodaeth Feiblaidd Gymraeg yn America fel y gellid cael anghytuno o’r fath. Roedd y tri, mae’n debyg, wedi cael eu dylanwadu gan syniadau ysgolheigaidd gwahanol i’w gilydd.

---

<sup>58</sup> Edwards, ‘Caethgludiad Israel a Judah’, 281. Drachefn, ni chydabyddir y ffynhonnell wreiddiol.

Tabl 1: Cymharu'r ysgrifau

<b>Caethglud yr Iddewon ym Mabilon</b>	<b>T. Ll. Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', Y Cyfaill o'r Hen Wlad (Awst 1858), 286.</b>	<b>'Tacitus', 'Daniel a'i Amserau', Y Cenhadwr Americanaidd (Mai 1857), 172-3.</b>	<b>T. Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', Y Cenhadwr Americanaidd (Medi 1852), 281-2.</b>
<b>Cludiad cyntaf</b>	606 C.C.	3398 O.B. / 606 C.C.	3398 O.B.
<b>Ail gludiad</b>			3401 O.B.
	599/8 C.C.	3405 O.B. / 599 C.C.	
<b>Trydydd cludiad</b>			3406 O.B.
	588 C.C.	3416 O.B. / 588 C.C.	
<b>Pedwerydd cludiad</b>	584/3 C.C.		3416 O.B.

Â Edwards yn ei flaen i gyferbynnu sefyllfa'r Iddewon ym Mabilon â'r Affricaniaid yn yr Unol Daleithiau. Er iddynt gael eu dadleoli yn groes i'w hewyllys, deil Edwards, fod gan yr Iddewon eu breiniau a chryn fesur o ryddid ym Mabilon, yn wahanol i'r Affricaniaid yn America:

Pan yn y gaethglud fawr, fe ganiateid i'r Iddewon gael Henuriaid i benderfynu achosion yn [ô] eu cyfreithiau eu hunain, ac i'w llywodraethu. Nid oedd y Caldeaid mor greulawn ag ydyw yr Americanaid at eu caethion, y rhai na chaniatant i gaeth gael llw yn erbyn dyn gwyn pe gwelai ef yn lladd un o'i gydgredduriaid.<sup>59</sup>

Prin yw'r dystiolaeth am dynged yr Iddewon a gaethgludwyd i Fabilon gan nad yw llyfrau hanes yr Hen Destament yn sôn llawer amdanynt. Serch hynny, gwyddys mai haen uchaf cymdeithas Jwda a ddygwyd (Jer. 29:10; 2 Bren. 25:10). Yr hyn sy'n drawiadol yw bod yr Iddewon wedi cael ymsefydlu mewn cymunedau ar wahân ac nad oedd yn rhaid iddynt

<sup>59</sup> Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', 281.

gymysgu gyda'r trigolion cynhenid o gwbl (Esec. 3:15; Esra 2:59; 9:17). Gallent, felly, gynnwys math o fywyd cymunedol Iddewig yn llwyddiannus mewn gwlad estron, heb orfod cymathu â diwylliant a chymdeithas y Babiloniaid (Esec. 8:1; 14:1; 33:30). Mae llythyr Jeremeia at y caethgludion (Jer. 29:1-14) yn hynod ddadlennol yn hyn o beth.

Dywed y golygydd fod Jeremeia wedi ysgrifennu'r llythyr ychydig flynyddoedd ar ôl y Gaethglud gyntaf ym 597 CC (Jer. 29:2), ac mai ymateb yr oedd y proffwyd i'r hyn a glywodd, sef bod gau broffwydi'n pregethu'r un neges dwyllodrus ym Mabilon ag oedd Hananeia'n ei phregethu yn Jerwsalem (Jer. 29:8). Roedd Jeremeia'n benderfynol o atal ei gydgludwyr yn y Gaethglud rhag cael eu hudo gan neges o'r fath. Celwydd oedd sôn am adferiad buan; nid oedd gan yr alltudion ddewis ond aros a derbyn y byddai'r Gaethglud yn para am amser maith. Ond mae'r cynghorion y mae'n eu rhoi i'r genedl yn awgrymu fod gan y caethgludion gryn fesur o ryddid. Geilw arnynt i godi tai, plannu gerddi, priodi gwragedd, magu plant ac amlhau yno (Jer. 29:5-6). Mae'r llythyr hwn yn awgrymu bod yr Iddewon wedi cael llonydd i fyw eu bywydau'n ddigon didrafferth, er iddynt gael eu gorfodi i aros ym Mabilon. Yr unig eithriad, hyd y gwyddys, yw sefyllfa Jehoiachin a fu'n garcharor am flynyddoedd.<sup>60</sup> Gellid dweud, felly, fod Hughes wedi dehongli'r Beibl yn yr un modd, a chasglu fod byd yr Iddewon yn well na chyflwr caethion America.

Serch hyn, nid yw D. L. Smith-Christopher yn credu y dylid cymryd awgrymiadau Jeremeia'n llythrennol. Deil mai cyfeirio at ddeddfau'r 'Rhyfel Sagral' a geir yn Deuteronomium 20 a wna'r llythyr. Yn y bennod honno, dywedir y byddai'r milwyr a oedd newydd godi tŷ, plannu gardd, neu a oedd newydd ddyweddio, yn cael eu hesgusodi rhag mynd i ryfela (Deut. 20:5-9). Felly, ymgais am gadoediad rhwng y caethgludion a'r caethgludwyr oedd yr hyn a gafwyd gan Jeremeia drwy ddefnyddio delweddau cyfarwydd llyfr Deuteronomium, meddai Smith-Christopher.<sup>61</sup> Yn ddiaw, mae hwn yn ddehongliad diddorol a gwreiddiol ond nid ymddengys fel pe bai wedi cael fawr o gefnogaeth. Serch hynny, mae'n cadw'n gyson gyda bwriad Jeremeia wrth anfon y llythyr, sef annog yr Iddewon i ymsefydlu a pheidio â thynnu'n groes i'r Babiloniaid gan y byddent yno am gryn amser eto. Meddai Gareth Lloyd Jones, 'Er mai gwlad y gelyn oedd Babilon, ohoni y deuai'r waredigaeth a fyddai'n sicrhau dyfodol y genedl. [...] Er eu bod o dan fawd brenin Babilon, yr oedd yr Iddewon yn lled gyfforddus, os nad yn fras.'<sup>62</sup>

---

<sup>60</sup> Ernest W. Nicholson, *The Book of the Prophet Jeremiah: Chapters 26-52* (London: Cambridge University Press, 1975), 45.

<sup>61</sup> D. L. Smith-Christopher, 'Jeremiah as Prophet of Nonviolence', *JSOT*, 43 (1989), 95-107.

<sup>62</sup> Jones, *Jeremeia*, 81.

Y farn gyffredin, felly, yw nad oedd yr Iddewon yn gwbl rydd ond nad oeddent ychwaith yn garcharorion a gawsai eu cam-drin, fel y datgan Rainer Albertz:

Despite the metaphor of “Babylonian captivity,” it must be stressed that the “exiles” were neither prisoners of war in the modern sense, kept in prison camps, nor slaves in the legal sense, meaning that they could be bought and sold. The overwhelming majority were semi free tenants on state land; tied to their plot of ground, they owed their economic status to the crown, to which they owed service. Their status was comparable to that of the Babylonian *ikkaru*. There is no evidence of oppression on ethnic or religious grounds.<sup>63</sup>

Roedd ganddynt yr hawl i addoli Yahweh er bod nifer wedi cael eu temtio fel arall gan i Yahweh ymddangos i rai fel petai wedi diystyrru hawliau’i bobl (Es. 40:27), wedi cefnu arnynt (Es. 50:10), ac wedi anghofio am ei ddinas ei hun (Es. 49:14). Gan fod delwau o dduwiau Babilon yn cael eu cario drwy’r strydoedd gyda thyrfaoedd yn cymeradwyo ac yn dathlu (Es. 46:1-2), ymddangosai i’r Iddewon fod y Babiloniaid wedi llwyddo a bod Yahweh naill ai wedi cefnu arnynt neu’n analluog i ymyrryd mewn hanes (Es. 40:12-30). Am y rhesymau hyn, yr oedd perygl cyson i’r Iddewon gymathu â’r Babiloniaid a throi at y duwiau paganauidd. Nid ymddengys i lawer iawn droi oddi wrth Yahweh, a hynny’n rhannol oherwydd pregethau proffwydi fel yr Ail Eseia.<sup>64</sup>

Cawsai’r caethgludion hefyd y cyfle i fasnachu ac ymgyfoethogi, a phan ddaeth y cyfle iddynt ddychwelyd i Jwda, penderfynodd nifer aros ym Mabilon. Dichon i lawer feddwl y buasai’r daith yn ôl i Jwda’n rhy hir a pheryglus, ac i eraill a oedd wedi cael cyfle i fasnachu a gwneud elw, gasglu nad oedd diben peryglu eu sefyllfa, gan fod mwy o sefydlogrwydd bellach ganddynt ym Mabilon nag a fuasai ganddynt yn Jwda.

Yn wir, ceir cofnod fel y bu i rai Iddewon ymddyrchafu i swyddi o bwys, megis rheoli llog ar faterion busnes fel yn achos y cwmni *Murašû* yn Nippur.<sup>65</sup> Fodd bynnag, awgrym ar sail ffurfiau enwau Iddewig yn unig yw hwn ac nid tystiolaeth fwy sylweddol, fel y dywed M. D. Coogan.<sup>66</sup> Ond mae’r ffaith fod yr alltudion mewn sefyllfa i allu gwneud cyfraniad

---

<sup>63</sup> Albertz, *Israel in Exile*, 101.

<sup>64</sup> Bu’r Ail Eseia’n ddyfal yn ceisio bychanu’r duwiau paganauidd a’u delwau (Es. 46:1; 44:9; Esec. 20:32) a cheisio atal rhagor o Iddewon rhag cael eu hudo gan y temlau paganauidd ysblennydd.

<sup>65</sup> Ceir taleb treth o ddiwedd cyfnod Ymerodraeth Babilon o eiddo cwmni *Murašû* sy’n tystio i hyn. Gweler Pritchard (gol.), *ANET*, 221-2. Am ragor o wybodaeth, gweler Matthew W. Stolper, *Entrepreneurs and Empire: The Murašû Archive, the Murašû Firm, and Persian Rule in Babylonia* (Leiden: Nederlands Historisch-Archaeologisch Instituut te Istanbul, 1985).

<sup>66</sup> M. D. Coogan, *West Semitic Personal Names in the Murašû Documents* (Atlanta, GA: Scholar Press, 1976).



ariannol sylweddol er mwyn ailgodi Jerwsalem (Sech. 6:10-11; cf. Esra. 2:69; 8:30), a'r ffaith mai ychydig a benderfynodd ddychwelyd, yn dangos fod mwyafrif yr alltudion ym Mabilon wedi canfod ffordd o wneud bywoliaeth yn ystod eu caethglud.<sup>67</sup>

Wedi dweud hyn, gwelir cwyn yr Iddewon mewn ambell salm, megis Salm 137, sydd fel petai'n darlunio'r boen meddwl a ddiodefodd y caethgludion wrth gael eu dadleoli'n groes i'w hewyllys. Nid rhyfedd, felly, i destunau o'r fath fod o gryn ddefnydd i'r awduron Cymraeg yn yr Unol Daleithiau.

Gellid deall, felly, pam roedd Edwards yn ystyried fod cyflwr y caethion yn America'n waeth o lawer, ac er mwyn cadarnhau hyn, cyfeiria at y cyfreithiau a ffurfiwyd yn America er mwyn gwahardd caethion rhag tystio mewn achosion llys. Roedd pob talaith ddeheuol yn gwahardd caethion rhag tystio yn erbyn pobl wynion, a chydag ambell eithriad, cawsai'r bobl dduon nad oeddent yn gaeth hefyd eu gwahardd rhag tystio mewn llysoedd.<sup>68</sup>

Sonia Edwards am y llawenydd a ddaeth gyda datganiad Cyrus yn caniatáu i'r Iddewon 'ddychwelyd idd eu gwlad eu hunain', cyn mynegi dyhead am i gyhoeddiad tebyg ddigwydd yn America er mwyn diosg yr iau oddi ar ysgwyddau'r caethion, y sawl a oedd, meddai, yn dioddef 'gwaeth gaethiwed' na'r Iddewon ym Mabilon:

Da fyddai eto i gael ail Gyryd i ddatgan rhyddid i'r *tair miliwn*—sydd mewn gwaeth gaethiwed nag oedd Babilon—yn America, y wlad sydd yn proffesu "RHYDDID" i bob dyn, ac ar yr un pryd yn dal yn gaeth dair miliwn o'r hil ddynol.<sup>69</sup>

Pwysleisir yr eironi yn y dyfyniad hwn fod America rydd 'yn dal yn gaeth dair miliwn o'r hil ddynol', a diddorol yw'r modd y cyfeirir at y caethion fel aelodau o'r teulu dynol ac nid fel 'Affricaniaid.' Dyna eto bwysleisio'r gred boblogaidd ymysg y diddymwyr crefyddol, fod pobun yn perthyn i'w gilydd ac wedi'i greu ar ddelw Duw.<sup>70</sup>

Nid oedd datgan fod y caethion yn America'n dioddef mwy nag a wnaeth yr Iddewon ym Mabilon yn unigryw i'r erthygl hon. Cafwyd datganiad nid annhebyg ddwy flynedd

---

<sup>67</sup> Gweler Joseffws, *Hynafiaethau*, 11.9.

<sup>68</sup> Paul Finkelman, 'United States Slave Law', yn Robert L. Paquette a Mark M. Smith (goln), *The Oxford Handbook of Slavery in the Americas* (Oxford: Oxford University Press, 2016; fersiwn clawr meddal), 437. Gweler hefyd, er enghraifft, Thomas D. Morris, *Southern Slavery and the Law, 1619-1860* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 1981); Mark V. Tushnet, *The American Law of Slavery, 1810-1860: Considerations of Humanity and Interest* (Princeton, NJ: Princeton University Press, 1981); Eugene D. Genovese, *Roll, Jordan, Roll: The World the Slaves Made* (New York: Pantheon Books, 1974; ail argraffiad), 40.

<sup>69</sup> Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', 281. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>70</sup> Gweler Pennod 1 uchod.

ynghynt gan John Rees o Frankfort. Yn ei erthygl, canolbwyntia Rees ar y modd y camdrinnid y caethion gan eu meistri, ac, er mwyn dadlennu hyn, sonia am ddigwyddiad yn Virginia lle cafodd caethwas ei saethu gan ei feistr am iddo wrthod cael ei rwymo er mwyn ei fflangellu. Wedi trafod hynny a chasglu fod caethwasiaeth yn '[d]refniant melldigedig'<sup>71</sup> sy'n gwrthdaro â hanfod Cristnogaeth, mynegir yn groyw fod y math hwn o gaethwasiaeth yn waeth na'r hyn a gafwyd yng ngorffennol yr Iddewon:

Mewn cydmariaeth i'r creulonderau a arferir at gaethion y wlad hon, yr anghyfiawnder a'r gorthrwm a oddefant, mae hyd yn nod caethiwed yr Aifft a'r deng mlynedd a thriugain yn Babilon, yn cael eu taflu i'r cysgod. Ni chaniateir iddynt y radd leiaf o amddiffyniad y gyfraith, a rhoddir pob awdurdod yn llaw eu gormeswyr i'w gorthrymu, eu fflangellu, eu prynu a'u gwerthu, a'u baeddu yn mhob dull a modd, fel yr ysgoger eu hewylllys.<sup>72</sup>

Roedd Edwards, felly, yn dilyn arfer a oedd yn gyffredin yn y wasg drwy gymharu a chyferbynnu caethion America â hanes caethiwus yr Iddewon, a hynny er mwyn darlunio caethwasiaeth Americanaidd fel camwedd gwaeth na chamweddau cyffelyb y gorrffennol.

Cred Edwards, fodd bynnag, fod 'y dydd yn agoshau pan y torir pob iau, ac y gollyngir pob caeth yn rhydd i fwynhau ei wir fraint, o dan ei winwydden ei hun.'<sup>73</sup> Gydag aralleirio Micha 4:4 (cf. Sech. 3:10; 1 Bren. 4:25) a datgan neges obeithiol am y pryd y bydd heddwch a chyfiawnder yn teyrnasu, geilw ar i'r darllenwyr wneud fel yntau a gweddïo 'am i'r waredigaeth fawr [...] gael ei chyflawni.'<sup>74</sup> Difyr yw'r chwarae ag ymadroddion yma, 'y waredigaeth fawr' i'r 'gaethglud fawr' yn America. Mae Edwards yn gwbl ffyddiog y bydd y

---

<sup>71</sup> John Rees, 'Y Gaethfasnach Americanaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1850), 88.

<sup>72</sup> Ibid. Ceir neges gyffelyb mewn erthygl gan Dewi Emlyn yn 'Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1860), 370-4. Yn yr erthygl honno, pwysleisia Dewi Emlyn y modd yr oedd yr Unol Daleithiau'n dioddef yn wleidyddol, yn gymdeithasol a chrefyddol oherwydd y gyfundrefn gaethiwol. Dywed fod cydwybod y Gogledd yn pigo oherwydd trallod y caethion, ac er mwyn dangos drygedd caethwasiaeth America Gristnogol, fe'i cyferbynnir gyda'r arfer ymhlith Mwslemiaid Twrci: 'yn mhlith y Mahometaniaid; ar yr un pryd dysga Mahometaniaeth fod rhyddhau y caethion yn beth da: yn nhalaethau America Gristionogol, ffurfir deddfau i wahardd hyny, fel pe byddai yn beth drwg.' Fe'i cyferbynnir hefyd gyda Rhufain a chasglu: 'Dylai caethiwed America Gristionogol wrido yn mhresenoldeb caethiwed Twrci Fahometanaidd. Bodolai caethiwed yn Rhufain baganaidd, gynt; ond yr oedd rhyddhau caethion yn beth cyfreithlawn yno; a gellid eu gwneud yn ddinasyddion ar ol eu rhyddhau. Ond yn America gristionogol, nid yn unig ymdreched rhwystro neb i ryddhau eu caethion, ond hefyd datgana Uchaflys y wlad nad ydynt, er eu rhyddhau, i gael eu cydnabod yn ddinasyddion. Dylai caethiwed America Gristionogol wrido yn wyneb caethiwed Rhufain baganaidd; a dylai pob Cymro feddo y mymryn lleiaf o barch i uniondeb a breiniau dynol, bleidleisio yn erbyn y fath drefniant anghyfiawn a diraddiol; a hyny er mwyn dyrchafu cymeriad ei wlad fabwysiedig, a dileu ei gwarthrudd i olwg y byd' (t. 372).

<sup>73</sup> Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', 281.

<sup>74</sup> Ibid.

caethion yn cael eu rhyddhau'n fuan ond gŵyr na ddigwydd hynny heb i'w gydgenedl ymdrechu. Mae hon yn gri atgoffaol o'r hyn a gafwyd gan Robert Everett yn 'Beth a all y Cymry Wneud?'<sup>75</sup>

Yn yr erthygl honno, geilw Everett ar i'r Cymry Americanaidd ymateb i'w dyletswyddau moesegol a Christnogol i gofio am y caethion, a cheir manylu ar y prosesau y dylai pob Cristion o Gymro'u dilyn: ymgyfarwyddo â chyflwr y caethion, gweddio drostynt, ffurfio cymdeithasau gwrth-gaethiwol, bwrw pleidlais dros yr ymgeiswyr arlywyddol a wrthwynebai gaethwasiaeth, a chyfansoddi emynau'n hyrwyddo rhyddid i'r caeth. Diddorol yw gweld y modd yr ystyrid gweddi'n rhan anhepgor ac, yn wir, yn rhan greiddiol o'r ymgyrch, gan y byddai'n sicrhau y parhâi'r bobl i feddwl am y caethion pan fyddent y tu hwnt i furiau'r capel neu'r cyfarfodydd gwrth-gaethiwol.<sup>76</sup>

Yr hyn a danlinellir yn erthygl Edwards drwodd a thro yw y bydd America fel gwlad ar ei hennill o ddiosg y 'gwarth' anfoesol sydd wedi bod mor niweidiol i'r Americanwyr yn ogystal â'r caethion. Yn wir, mae Edwards yn cyffwrdd ag arfer nifer o ddiddymwyr Cymraeg Americanaidd a rhai di-Gymraeg y cyfnod, o ddarlunio caethwasiaeth fel pechod gwreiddiol yr Unol Daleithiau – un y mae'n rhaid ei olchi ymaith; a hynny â gwaed erbyn dehongliadau adeg y Rhyfel Cartref.<sup>77</sup> Gwelir yma, felly, y modd y mae'r drafodaeth Feiblaidd yn cwmpasu'r ddau Destament drwy gyfuno dehongliad Cristnogol o'r pechod gwreiddiol a geir yn yr Hen Destament â metanaratif sydd wedi'i gwreiddio yn y Testament Newydd, sef Iesu Grist yn marw i olchi pechodau'r ddynolryw, a chyda hynny'r pechod gwreiddiol.

Gwnaed defnydd effeithiol o'r ddelwedd hon yn ystod cyfnod Kansas Waedlyd (1854-1859), pan ymfudodd nifer o'r Gogledd a'r De i Kansas er mwyn ceisio llywio'r

---

<sup>75</sup> Robert Everett, 'Beth a all y Cymry Wneud?', *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 6-7.

<sup>76</sup> Am drafodaeth fanwl o'r erthygl 'Beth a all y Cymry Wneud?', gweler Jerry Hunter, "'What Can the Welsh Do?' Robert Everett and the Creation of a Welsh-American Abolition Movement, c.1840-4", yn T. M. Charles-Edwards a R. J. W. Evans (goln), *Wales and the Wider World: Welsh History in an International Context* (Donington: Shaun Tyas, 2010), 157-83. Ceir amryw helaeth o erthyglau yn *Y Cenhadwr Americanaidd* yn galw'n gyson ar i'r Cymry weddio a gwneud popeth yn eu gallu er mwyn sicrhau rhyddid i'r caethion, megis erthygl arall gan Everett, 'Gweddio Dros y Caethion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1840), 51. Ceir erthyglau tebyg yn *Y Drych* ac yn achlysurol yn *Y Seren Orllewinol* a'r *Cyfaill o'r Hen Wlad*.

<sup>77</sup> Mynych y cyfeirir at gaethwasiaeth fel 'pechod dirfawr', 'prif bechod ein gwlad fabwysiedig', neu 'y pechod mwyaf ysgeler' yn y cyfnodolion. Gweler, er enghraifft, D. Jenkins, 'Araeth ar Wrthgaethiwed', *Y Seren Orllewinol* (Mai 1847), 102-3; 'Cyflwr Adfydus Ein Gwlad', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1861), 222-7; G. Griffiths, 'Cymanfa y Cynulleidfawyr a Henaduriaethwyr yr Ysgol Newydd yn Wisconsin', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1861), 424-5; Geo. M. Jones, 'Paham yr wyf yn Gristion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1862), 128.

penderfyniad a gâi'r diriogaeth ei derbyn i'r Undeb fel talaith rydd neu gaeth. Fel y disgwylid, a phobl yn arddel dwy agwedd mor gyferbyniol yn yr un man, bu tywallt gwaed.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu Robert Everett yn llythyru â'i fab, a oedd wedi ymgartrefu yn Kansas, a thrafodent yn fynych y brwydro yn y diriogaeth. Mewn amryw lythyrau, pwysleisiai John Robert Everett mai trais a therfysg a nodweddai'r diriogaeth ond mai dyna'n anorfod oedd y ffordd i ddatrys yr anghydfod. Enghraifft o lythyr o'r fath yw'r un wedi'i ddyddio 17 Gorffennaf 1856. Ynndo, mae John Everett yn ymateb i feirniadaeth nifer o'r Gogledd a arddelai heddychiaeth, gan gynnwys ei dad ei hun, a phwysleisio bod angen gweithredu, bellach, mewn ffordd fwy treisgar er mwyn llwyddo:

Yr ydym yn teimlo iau fustlaidd y gorthrymwr—yr haiarn a ddaeth hyd at ein henaid. Pe gallech deimlo fel yr ydym ni yn teimlo, byddech yn barod i esgusodi y rhai sydd wedi cymeryd arfau i fyny i “wneud neu farw” dros ryddid. Gollyngech ddeigrin uwch ben eu gormodaeth, a'ch tosturi a flotiai ymaith eu bai.<sup>78</sup>

Mae'r trosiad o dagrau'n golchi beiau yn rhan o gysyniad a oedd yn ganolog i'r Brotestaniaeth efengylaidd yr oedd John a Robert Everett yn ei phroffesu, sef aberth Crist wedi golchi'r ddynolryw'n lân.<sup>79</sup> Yr hyn a fynegir yn y dyfyniad uchod yw'r tyndra a fodolai yn y mudiad gwrth-gaethiwol. Roedd nifer o ddiddymwyr y Gogledd yn heddychwyr ac felly'n llwyr anghytuno â dulliau treisgar. Fodd bynnag, roedd y gwrth-gaethiwyr a oedd yng nghanol yr helbul yn Kansas wedi gorfod ymateb yn y fath fodd a chefnu ar eu heddychiaeth. Felly, fel y dywed Jerry Hunter, ‘Roedd y ffaith fod y naill garfan yn tywallt gwaed yn peri i'r llall ollwng dagrau.’<sup>80</sup> Ond dywed John Everett hefyd fod dagrau'r diddymwyr

---

<sup>78</sup> ‘Llythyr oddiwrth John R. Everett’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1856), 347.

<sup>79</sup> Hunter, *I Ddeffro*, 200. Roedd nifer o Gymry Americanaidd eraill wedi cyhoeddi dehongliadau cyffelyb yn y wasg gyfnodol. Er enghraifft, yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1864), 338-40, ymddangosodd llythyr gan y Parch. Erasmus W. Jones a oedd ar y pryd yn gaplan yr 21ain Gatradd milwyr o liw. Yn yr un modd â gweinidogion eraill, ystyriai Jones y rhyfel fel dial Duw ar y genedl gyfan am ei phechodau, yn bennaf, am orthrymu'r caethion. Yn y llythyr, galwodd ar i'r darllenwyr ystyried y rhyfel fel ‘ffwrn danllyd boeth’, o ba un y cyfodai cenedl newydd wedi'i phuro o bechod caethwasiaeth. Drachefn, gwelir y syniad fod y Rhyfel Cartref yn rhyfel sanctaidd ac y buasai'r gwaed a dywalltwyd yn golchi ymaith bechod yr Unol Daleithiau cyfan: ‘Mae yr Unol Dalaethau yn awr, y Gogledd fel y De, o dan wialen geryddol Jehofa. Mae gwaedd wylofus pedair miliwn o eneidiau “dros ba rai y bu Crist farw” wedi cyrhaedd clustiau Arglwydd y lluoedd ac wedi llwyddo yn y llys fry. Lled gyndyn ydym wedi bod mae'n wir, i gydnabod llais Jehofa uwch ein penau yn gwaeddi “torwch bob iau a gollwngwech y gorthrymedig yn rhydd!” Bu gorfod i Dduw lindagu y llywodraeth cyn iddi addaw gwneud cyfiawnder â'r negro. Diolch iddo, hyd yn oed am *geryddon!* Credaf fod ein “hymwared yn agoshau.” Caiff ein gwlad ei “hadgenedlu drachefn i obaith bywiol.” O'r bedydd gwaed, cawn “gyfodi i newydd-deb buchedd.” Ar ol y gwyntyllio ofnadwy ceir ni yn wenith mwy pur, a deawn allan o'r “ffwrn danllyd boeth” fel aur wedi ei buro trwy dân’ (t. 340).

<sup>80</sup> Hunter, *I Ddeffro*, 200.

heddychlon yn 'blotio ymaith' feiau'r diddymwyr arfog. Roedd gweithredu yn y fath fodd felly'n cael ei faddau a'i gyfiawnhau.

Mae hyn oll yn rhan o blethwaith diwinyddol dyrys ond mae'i hanfod i'w weld yn gyson mewn ysgrifau: rhaid gweithredu a gollwng gwaed er mwyn golchi pechod gwreiddiol yr Unol Daleithiau ymaith, sef caethwasiaeth. Yn wir, gwelir syniadaeth gyffelyb gan ddiddymwyr di-Gymraeg, megis John Brown, a weithredodd yn derfysglyd er lles y caethion, ac a fu farw o'r herwydd. Ond cyn ei farw, ysgrifennodd, 'I, John Brown, am now quite *certain* that the crimes of this *guilty, land: will never be purged away; but with Blood.*'<sup>81</sup> Roedd geiriau'r diddymwr radicalaidd hwn yn cyfleu'r angen am i waed olchi 'troseddau' America ymaith, yn ogystal â phroffwydo'r hyn a fyddai'n digwydd yn yr Unol Daleithiau o fis Ebrill 1861 ymlaen.

Byddai diddymu caethwasiaeth, y 'gwarth' a'r trefniant anfoesol, meddai Edwards, yn sicr o arwain at heddwch yn y 'Gogledd a'r De', a dywed y bydd gwawr newydd yn golygu 'rhyddid i gyhoeddi efengyl, a dysgu y caethion Americanaidd.'<sup>82</sup> Gyda'r rhyddid hwnnw hefyd, gellid dyrchafu rhai o'r cyn-gaethion yn 'genhadon [...] i gario efengyl i ereill sydd o'r un lliw [â] hwy, b'le bynag y byddont.'<sup>83</sup> Felly, yn ogystal â sicrhau rhyddid, meddai, rhaid oedd anrhegu'r cyn-gaethion â Christnogaeth. O'r herwydd, dylai'r Cymry gofio hyn wrth fwrw eu pleidlais adeg etholiadau arlywyddol. Pwysleisia y dylent ymdrechu i sicrhau y caiff eu 'gweddïau a'[u] pleidlais gyd-weithredu o du rhyddid gwladol a chrefyddol, oblegid fe'u dysgir, "Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel petaech yn rhwym gyda hwynt." Heb. 13:3.'<sup>84</sup> Dyna adleisio'n union alwad Robert Everett yn ei erthygl, 'Gweddïo Dros y Caethion', gan iddo yntau ysgrifennu, 'Y rheol yw, "Cofiwch y rhai sydd yn rhwym megis pe baech yn rhwym gyda hwynt." A thrachefn, "Pa bethau bynag a ewyllysioch wneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy.'"'<sup>85</sup>

Cloir y traethawd ag un alwad derfynol ar i 'holl Gristionogion America' ufuddhau i Air Duw ac felly weithredu dros y caethion yn ymarferol, yn wleidyddol ac yn arbennig, yn

---

<sup>81</sup> Gweler Stephen B. Oates, *To Purge This Land With Blood: A Biography of John Brown* (Amherst, MA: The University of Massachusetts Press, 1984; ail argraffiad), 351. Pwyslais yn y gwreiddiol. Bu cryn ymateb yn y wasg gyfnodol Gymraeg i John Brown, ei weithgarwch terfysglyd a'i farwolaeth. Yn wir, cafodd ei alw'n 'ferthyr' gan lawer. Gweler trafodaeth ddiddorol gan Hunter, *Sons of Arthur*, 82-5.

<sup>82</sup> Edwards, 'Caethgludiad Israel a Judah', 281.

<sup>83</sup> *Ibid.*

<sup>84</sup> *Ibid.*, 282. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>85</sup> Everett, 'Gweddïo Dros y Caethion', 51.

grefyddol: ‘Bydded ein crefydd, a’n holl ddylanwad mewn modd gwladol yn *unol* â’u gilydd, a hynny o blaid rhyddid dros y byd.’<sup>86</sup>

Gwelir defnydd tebyg o gymharu sefyllfa’r caethion cyfoes â’r enghreifftiau nodedig o gaethiwed yn hanes yr Iddewon hefyd mewn cerdd gan Gwilym Oneida, ‘Ystyriaethau ar Gaethiwed ac Anghyfiawnder’.<sup>87</sup> I’r un perwyl â’r darnau a drafodwyd eisoes, diben y gerdd hon oedd beirniadu’r Unol Daleithiau am ei rhagrith yn cynnal y gyfundrefn gaethiwus ond eto’n proffesu ‘rhyddid i bob dyn’.<sup>88</sup> Er mwyn mynegi drygedd y gyfundrefn yn groyw, cyfeiria’r gerdd at y pryd roedd yr Hebreaid yn gaeth yn yr Aifft ond bod Duw wedi’u gwaredu a chosbi’r Pharo a’r Eifftiaid: ‘O’r diwedd fe’u boddwyd bob un!’<sup>89</sup>

Yn y trydydd pennill, dygir cymhariaeth rhwng caethiwed yr Hebreaid yn yr Aifft â’r Affricaniaid yn yr Unol Daleithiau gan gasglu, fel John Rees uchod, mai’r gaethwasiaeth Americanaidd yw’r fwyaf gorthrymus o’i bath:

Yr Aifftaidd gaethiwed a oedd  
Farbaraidd, anghyfiawn i gyd,  
I’w erbyn y rhoddwyd ar g’oedd,  
Ryw eglur ddangosiad o lid;  
Ond gorthrwm America sydd  
Ryw filoedd o’r weithian o’r bron  
’N fwy creulon mwy ffaidd a phrudd,  
Nag welwyd ar diroedd na thon.<sup>90</sup>

Â’r gerdd yn ei blaen i gynnal y gyfeiriadaeth Feiblaidd ond drwy newid ffocws a phriodoli’r taleithiau deheuol i’r Jerwsalem wrthryfelgar fel a geir yn Seffaneia 3:1-5. Mae’r modd y delweddir trigolion y De fel pobl wrthryfelgar dros ugain mlynedd cyn dechrau’r Rhyfel Cartref yn ddiddorol iawn, ac yn awgrymu fod y rhaniadau taleithiol ynghylch caethwasiaeth wedi eu hamlygu’u hunain yn fuan:

---

<sup>86</sup> Edwards, ‘Caethgludiad Israel a Judah’, 282. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>87</sup> Gwilym Oneida, ‘Ystyriaethau ar Gaethiwed ac Anghyfiawnder’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1845), 149-50.

<sup>88</sup> *Ibid.*, 149.

<sup>89</sup> *Ibid.*

<sup>90</sup> *Ibid.*, 150.

Gwae'r Deau 'n anghyfiawn sydd  
Ei meysydd a'i threfydd dan warth,  
Gormesa rai gweiniaid bob dydd  
E glywir eu gwaedd yn mhob parth;  
Fel llewod rhuadwy y tir  
Y mae ei th'wysogion yn hy'  
A'i barnwyr yn fleiddiau yr hwyr,  
Ei hofffeiriaid halogant y ty.<sup>91</sup>

Eir ymlaen i grybwyll arfer pleidleisio trigolion y Gogledd gan fynegi â thristwch fod rhai yno'n 'pleidio caethiwed o hyd'.<sup>92</sup> Yr hyn sy'n waeth yng ngolwg Gwilym Oneida yw bod y pleidleiswyr hyn hefyd yn Gristnogion, 'n eglwysydd y saint.'<sup>93</sup> Mae'n ddigon posibl y cyfansoddwyd y gerdd hon yn sgil ymgyrch arlywyddol 1844, pan etholwyd y Democrat James K. Polk i'r Tŷ Gwyn. Yn yr un ymgyrch arlywyddol, safodd James G. Birney fel ymgeisydd y Blaid Ryddid (*Liberty Party*) ac roedd nifer o Gymry America'n ei gefnogi'n frwd. Dichon fod Gwilym Oneida â'i ddaliadau gwrth-gaethiwol hefyd wedi cefnogi Birney, ac o'r herwydd, byddai yntau, bid siŵr, wedi'i siomi gan ganlyniad yr etholiad. Dyna oedd diben datgan bod y Gogleddwyr wedi 'pleidio caethiwed', am i lawer ohonynt beidio â chefnogi ymgeisydd y Blaid Ryddid.<sup>94</sup>

Yn yr wythfed pennill, try sylw'r gerdd yn ôl at yr Hen Destament ac at gyfnod y Gaethglud. Cyfeirir at y pryd y gorchmynnodd Duw, drwy gyfrwng Jeremeia, i Sedeceia wneud cyfamod â'r holl bobl yn Jerwsalem i ryddhau eu caethion, 'rhag bod neb yn cadw Iddew arall yn gaeth' (Jer. 34:9). Cytunodd pob un i wneud yn ôl ewyllys Yahweh ond newidiodd y bobl eu meddyliau a dwyn yn ôl eu caethion. Esgorodd hyn ar ymateb llawdrwm gan Yahweh. Roedd deddf rhyddhau'r caethion o Hebreaid cyn pen saith mlynedd eisoes wedi'i chyflwyno i'r Iddewon (cf. Ex. 21:2-6; Deut. 15:12-18) ond nid ufuddhaodd eu hynafiaid. Drachefn, nid ufuddhaodd Iddewon Jwda.<sup>95</sup> Canlyniad hynny fu cosbi'r genedl drwy gyhoeddi 'diwrnod rhyddhad i'r cleddyf a haint a newyn!' (Jer. 34:17), a'u rhoi 'yn llaw eu gelynion' (Jer. 34:20).

Caiff yr hanes hwn ei ddefnyddio'n greadigol er mwyn cyd-fynd ag agenda personol Gwilym Oneida. Gwneir yr hanes yn fath o fygythiad i'r Unol Daleithiau. Am i Jwda bechu Duw drwy addoli eilunod, torri'r sabothau a chadw eu cyd-Iddewon yn gaeth, cawsant eu

---

<sup>91</sup> Ibid.

<sup>92</sup> Ibid.

<sup>93</sup> Ibid.

<sup>94</sup> Ibid.

<sup>95</sup> Gweler ymhellach Bennod 2 uchod.

cosbi (Eseia 40:2). Oni fyddai pobun yn America'n gweithredu dros y caethion i sicrhau eu rhyddid, deil Gwilym Oneida y byddent hwythau'n siŵr o brofi barn Duw, yn yr un modd ag y gwnaeth y Jerwsalem wrthgilgar:

Fe ddywed Duw cyfiawn y saint,  
Oni ollyngwch eich caethion yn rhydd,  
Mi rof ryddid cleddyf a'r haint  
A'r newyn echrydus y sydd: Jer. 34:16.  
Rhag enyn fy llid fel y tân,  
A llosgi heb ddiffodd i maes,  
Achubwch y truan a'r gwan,  
O law ei orthrymwr sydd gas. Jer. 21:12.<sup>96</sup>

Eir ymlaen, yn llais Duw, i ddatgan mai teilwng fyddai iddo Ef gael 'Addoliad, Anrhydedd i gyd, / Gan *dduon* fel *gwynion* heb fflach'.<sup>97</sup> Gwneir hyn er mwyn ceisio cymell y darllenydd i ymateb i'r alwad ddwyfol ac ymlafnio i ryddhau'r caethion, gan y byddent hwy, meddai'r bardd, yn sicr o droi at Dduw. Cyfiawnder yw'r hyn y dylai pawb ei geisio a gwneud hynny â pharchedig ofn o'r Arglwydd. Gellid awgrymu i Gwilym Oneida fod wedi cymryd arno rôl proffwyd o'r Hen Destament yn cyfryngu gyda'r dwyfol ac yn mynegi ewylllys y nef i'w gyd-ddyn, sef sicrhau rhyddid (cf. Jer. 34) ac addysg i'r caethion. Roedd y darn hwn, felly, yn enghraifft Gymraeg o jeremeiad, ffurf lenyddol boblogaidd iawn yn y cyfnod a ddefnyddid gan wrth-gaethiwyd i gael eu maen i'r wal.<sup>98</sup>

Wrth i'r gerdd ddirwyn i ben, gofynnir i'r 'Pregethwyr' a'r 'Eglwyswyr', pahan na ddefnyddient eu dylanwad er lles y caethion? Ac fe'i dilynir gan gwestiwn arall, gogleisiol ei naws, 'Ai syn! / Na'ch cofir yn niwedd y byd?'<sup>99</sup> Diben hyn, wrth gwrs, yw herio'r Cristnogion a barhâi i dderbyn caethwasiaeth i newid eu safiad, gan eu hatgoffa y byddent yn cael eu dwyn o flaen eu Duw cyn hir, ac yn gorfod cyfiawnhau eu camweddau.

---

<sup>96</sup> Gwilym Oneida, 'Ystyriaethau ar Gaethiwed ac Anghyfiawnder', 150.

<sup>97</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>98</sup> Roedd y math o lenyddiaeth a oedd yn arddel persona proffwyd, yr hyn a elwir yn 'jeremeiad', i'w weld cyn gynhared â'r ail ganrif ar bymtheg gyda'r Piwritaniaid. Yn wir, parhaodd yn *genre* poblogaidd ac effeithiol gan i lawer o ddiddymwyr, gan gynnwys Frederick Douglass, wneud defnydd helaeth ohono yn eu hareithiau a'u hysgrifau. Diben jeremeiad oedd beirniadu'r gwrandawyr neu'r darllenydd am eu camweddau, nodi'r dyletswyddau disgwylidig ganddynt, a datgan neges obeithiol unwaith yr ymatebid i'r camwedd neu'r pechod dan sylw. Buan y mabwysiadwyd y jeremeiad i ymdrin â phroblem caethwasiaeth. Gweler ymhellach Wilson Jeremiah Moses, *Black Messiahs and Uncle Toms: Social and Literary Manipulations of a Religious Myth* (University Park, PA: Pennsylvania State University Press, 1982) a David Howard-Pitney, *The Afro-American Jeremiah: Appeals for Justice in America* (Philadelphia, PA: Temple University Press, 1990).

<sup>99</sup> Ibid.



Mae'r gerdd yn cloi â dau bennill cryno sy'n cynnig un ergyd derfynol i'r darllenydd. Mae'r pennill cyntaf yn galaru am sefyllfa'r caethion ac yn holi'n ofer, 'O! pwy draetha, / Fel y teimla / Meibion "Yamba"' mewn caethiwed. Yna etyb y cwestiwn gyda neges hynod obeithiol yn y pennill clo, y *bydd* pobl yn gweithredu i sicrhau rhyddid i'r caeth: 'Ond er gwaetha', / Gwlad Columbia, / A'i chyfreithia', / Cant ymwared.'<sup>100</sup>

Yr hyn a oedd yn taro tant gyda'r bardd a'r awduron a drafodwyd uchod oedd bod yr Affricaniaid, fel yr Iddewon gynt, wedi cael eu dadwreiddio o'u mamwlad a'u gosod mewn gwlad newydd. Roedd yr orfodaeth ar i bobl symud yn un y gallai nifer o'r Cymry gydymdeimlo â hi. Dichon na ddygwyd y Cymry i America i'w caethiwo, ond gorfodwyd i nifer ohonynt ymfudo o'u mamwlad am resymau economaidd, gwleidyddol ac ideolegol-grefyddol. Gallent, felly, o leiaf gydymdeimlo â'r syniad o orfod dadleoli am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth.<sup>101</sup>

Yn naturiol, cyfyd y cydymdeimlad hwn â'r caethion gwestiynau difyr ynghylch hunaniaeth y Cymry Americanaidd megis, i ba raddau roedd trafodaethau Cymraeg ynglŷn â drygedd caethwasiaeth yn America yn gysylltiedig â thrafodaethau ynglŷn â hunaniaeth Gymreig Americanaidd?

O fod wedi ymsefydlu yn yr Unol Daleithiau, roedd gan y Cymry her i'w hwynebu: deall eu hunaniaeth newydd fel grŵp deuol (*hyphenated American group*). Ar y naill law, roedd nifer o'r Cymry'n chwerau am iddynt orfod ymadael â'u mamwlad i geisio 'rhyddid', ond ar y llaw arall, ystyrient America'n wlad lawn cyfleon. Gyda hynny, a chan eu bod yn ymfalchïo yn eu traddodiadau ieithyddol a diwylliannol, ceisiwyd trawsblannu nodweddion cynhenid eu mamwlad i dir America. Ymlafnient, felly, i gynnal nifer o nodweddion yr Hen Wlad megis yr iaith Gymraeg, ac arferion crefyddol a diwylliannol, gan hefyd gofleidio eu dinasyddiaeth newydd fel Americanwyr. Yr oedd yn broses ymwybodol ac yn un y gellid ei gwneud yn weddol rwydd, fel y nota Andrew M. Greeley:

---

<sup>100</sup> Ibid.

<sup>101</sup> Defnyddir 'caethglud' hefyd i gyfleu teimlad o alltudiaeth yn America, a chyda hynny fynegi hiraeth dybryd am Gymru, fel a welir yn y gerdd 'C[â]n Newydd' gan Dafydd Davies, *Y Seren Orllewinol* (Mehefin 1852): 'Mi fuo gynt yn Nghymru, yn heini ar fy nhro'd, / [...] Ond 'nawr' rwyf yn y gaethglud, trwm iawn yw'r hanes sy. / I feddwl treulio'm dyddiau yn ngwlad y Negro du.' Ymddengys yn yr achos hwn i Dafydd Davies gael ei anfon i America i wneud gwaith llafurus am iddo dorri'r gyfraith yn y famwlad, a cheir rhybudd ganddo: 'Mi syrthiais i law'r gyfraith, O anferth ddynolryw / Gwae'r awr erioed i'm ganed, a chaffael cenad fyw, / I gael fy llwyr alltudio dros foroedd maith yn lli, / I fod yn was i slafiaid yn mhlith y Negro du.' Ceir hyn hefyd mewn cyfnodolion di-Gymraeg wrth i ymfudwyr eraill o Brydain fynegi teimladau tebyg. Enghraifft o'r fath yw eiddo un Albanwr a arwyddodd ei gerdd ag 'A. L. W', yn 'An Exile's Song', *The North Star* (15 March 1850).

On balance, the United States has been able to absorb so many different ethnic groups because the hyphen in the hyphenated American is, in fact, an equal sign, a way, perhaps, of recalling the land left behind and honouring the culture brought along but also, and more important, a way of proclaiming one's Americanism.<sup>102</sup>

Yn wir, byddai Robert Everett yn pwysleisio rhai agweddau arbennig a gredai a oedd yn ffon fesur i Gymreictod Americanaidd, gan gynnwys arddel crefydd a diwylliant Anghydfurfiol, siarad yr iaith Gymraeg a chyfansoddi yn y famiaith, cefnogi'r mudiad dirwest, ynghyd â gwrthwynebu caethwasiaeth. Gan fod modd cydymdeimlo â'r Affricaniaid a orfodwyd i adael eu mamwlad, ac am eu bod yn perthyn o bell, credai nifer gynyddol o'r Cymry yn ystod y cyfnod dan sylw, y dylai gwrthwynebu caethwasiaeth fod yn un o'u prif amcanion. Ac felly, daethai'n nodwedd o'u hunaniaeth ddeuol.

## Y Gaethglud a Gwleidyddiaeth

Defnyddid hanes y Gaethglud ym Mabilon yn ogystal er mwyn sylwebu ar wleidyddiaeth gyfoes yr Unol Daleithiau. Yn rhifyn Chwefror 1849 *Y Cenhadwr Americanaidd*, ymddangosodd erthygl yn trafod 'Y Blaid Rydd'.<sup>103</sup> Plaid y Ddaear Rydd (*Free Soil Party*) oedd y blaid wrth-gaethiwol newydd hon a gynhwysai nifer o gyn-aelodau'r Blaid Ryddid (*Liberty Party*), Democratiaid y Gogledd, a rhai Chwigiad cydwybodol nad oeddent am ymgyrchu dros Zachary Taylor ar gyfer yr arlywyddiaeth.<sup>104</sup> Prif amcan y blaid oedd sicrhau na fyddai'r drefn gaeth yn cael ei hymestyn i'r taleithiau newydd a ffurfiad yn y tiriogaethau gorllewinol.<sup>105</sup> Er i ymgeisydd y blaid, Martin Van Buren, fetu â chael ei ethol yn arlywydd ym 1848, cafodd y blaid gryn gefnogaeth. Yn wir, llwyddodd i sicrhau 14% o'r bleidlais genedlaethol, ac yn Efrog Newydd, Massachusetts a Vermont, y blaid hon oedd yr ail brif wrthblaid, gan iddi guro'r Democratiaid yn y taleithiau hyn.<sup>106</sup>

---

<sup>102</sup> Andrew M. Greeley, 'Religion and Ethnicity', yn William Scott Green a Jacob Neusner (goln), *The Religion Factor: An Introduction to How Religion Matters* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 1996), 10.

<sup>103</sup> John Rees, 'Y Blaid Rydd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1849), 40-1.

<sup>104</sup> Louis Filler, *The Crusade Against Slavery 1830-1860* (London: Hamish Hamilton, 1960), 188-91.

<sup>105</sup> Robert W. Malick, 'Free Soil Party', yn Spencer C. Tucker (gol.) *American Civil War: The Definitive Encyclopedia and Document Collection* (Santa Barbara, CA: ABA-CLIO, 2013), 720. Gweler ymhellach, Frederick J. Blue, *The Free Soilers: Third Party Politics, 1848-54* (Urbana, ILL: University of Illinois Press, 1973); Joseph G. Rayback, *Free Soil: The Election of 1848* (Lexington, KY: University Press of Kentucky, 1971).

<sup>106</sup> James McPherson, *Battle Cry of Freedom: The Civil War Era* (Oxford: Oxford University Press, 1988), 63.

Yn yr erthygl, ceisia John Rees ddarbwylllo'r darllenydd, er na lwyddwyd i gael ymgeisydd y blaid i'r Tŷ Gwyn yn yr etholiad diweddar, y deuai tro ar fyd yn fuan, 'o herwydd mai yn raddol y mae pob diwygiad moesol yn gweithio ei ffordd yn ein byd ni.'<sup>107</sup> Mae'n ffyddiog yn y blaid newydd ac er mwyn dangos ei phoblogrwydd, cyfeiria Rees at ganlyniad y bleidlais yn Efrog Newydd. Ar yr un gwynt, cyfeirir at sefyllfa'r Iddewon ym Mabilon adeg datganiad rhyddid Cyrus, gan awgrymu y deuai datganiad cyffelyb i'r caethion yn America cyn bo hir oherwydd canlyniadau Efrog Newydd:

Pan glywo y caethion gorthrymedig fod dros *chwech ugain mil* o ddinasyddion Caerefrog Newydd wedi rhoddi eu dylanwad drwy eu pleidlais dros ddyddimu y trefniant gormesol, diamheu genyf y meddiennir hwy â theimladau cyffelyb i'r eiddo plant caethglud Judah ar eu dychweliad o Babilon,—“Pan ddychwelodd yr Arglwydd gaethiwed Sion, yr oeddym fel rhai yn breuddwydio; yna y llanwyd ein genau â chwerthin, a'n tafod â chanu.”<sup>108</sup>

Dyfynnir Salm 126 ar derfyn y dyfyniad uchod, gan y'i cysylltir yn bennaf â'r cyfnod yn y chweched ganrif CC, ar ôl i frenin Persia ganiatáu i'r Iddewon ddychwelyd o'u caethglud.<sup>109</sup> Deil Rees y buasai'r ffaith fod cynifer o ddinasyddion Efrog Newydd wedi pleidleisio dros un a wrthwynebai helaethu caethwasiaeth yn fath o gysur i'r caethion, ac yn galonogol i'r darllenydd hefyd.

<sup>107</sup> Rees, 'Y Blaid Rydd', 40.

<sup>108</sup> Ibid. Cyfeirir at ddatganiad Cyrus a'r llawenydd y tybid a ddaeth yn ei sgil mewn erthygl yn *Y Cenhadwr Americanaidd* fis Mai 1867. Wedi i'r Rhyfel Cartref ddod i ben ac i gaethwasiaeth gael ei gwneud yn anghyfreithlon, dywed William o F[ô]n, yn yr erthygl, 'Llwyddiant Mawr yn Califfornia', 149, 'Y mae teimladau o gyffelyb natur [i'r pan gyhoeddodd Cyrus ei orchymyn i ryddhau plant y gaethglud trwy holl ymerodraeth Caldea] yn meddianu llawer calon yn y wlad hon y dyddiau hyn[.]'

<sup>109</sup> Tueudir i gytuno fod dwy ffordd o ddehongli Salm 126. Gellid ei hystyried fel salm yn edrych i'r dyfodol neu'n bwrw golwg ar y gorffennol pan ddychwelodd yr Iddewon o'r Gaethglud ym Mabilon. Gweler Rogerson a McKay, *Psalms 101-150*, 124-5; J. Day, *Psalms* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1992), 34-6. Yr hyn a bwysleisir yn arbennig mewn amryw esboniadau o'r cyfnod yw mai Duw a ddaeth â'r waredigaeth i'r Iddewon gan iddo weithredu drwy gyfrwng Cyrus. Duw a berodd i'r Iddewon gael eu caethgludo am eu pechodau ac Yahweh a berodd iddynt ddychwelyd. Gweler, er enghraifft, Owen Jones, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynnwys Nodiadau Beirmiadol, ar y Rhanau Anhawddaf eu Deall o Ysgrythyrau yr Hen Destament, a'r Newydd. Wedi eu casglu o waith yr Awdwyr goreu, hen, a diweddar, Gan Owen Jones, Wyddgrug* (Wyddgrug: H. Ac O. Jones, 1840), 106, a ddywed 'Mae yn dra thebyg i'r Salm yma gael ei chyfansoddi gan Ezra, i'w chanu ar ddychweliad yr Iddewon o Babilon'; a Matthew Henry, *Dehongliad, ar Y Bibl Sanctaidd, sef yr Hen Destament a'r Newydd, lle y ceir sylwedd pob pennod yn ei chynnwysiad, y testyn cysegredig wedi ei argraffu yn gyflawn, yn ol y cyfieithiad awdurdodedig, yn wahanranau cyfaddas; a phob gwahanran wedi ei threfnu yn benau priodol: yr ystyr hefyd yn cael ei roddi a'i eglurhau; mewn Sylwadau helaeth ar bob Rhan o'r Pennodau; yn llythrenol ac ysbrydol; gyda lliaws o agoriadau Athrawiaethol ac Ymarferol oddi wrth y cwbl. Cyfrol II* (cyfieithwyd gan y Parch. E. Griffiths, y Parch. G. Burder, a'r Parch. Joseph Hughes; Abertawy: E. Griffiths, 1831).

Serch hyn, fe'n hatgoffir gan Rees nad Van Buren a wnaed yn arlywydd ond caeth-bleidiwr, a phwysleisia effaith niweidiol hyn ar sefyllfa grefyddol yr Unol Daleithiau: '[mae] ei phlant professedig wedi llychwino eu gwisgoedd â gwaed.'<sup>110</sup> Dywed ei bod yn groes i'r efengyl fod Cristnogion wedi cefnogi caeth-bleidiwr, yn enwedig gan mai Duw cyfiawnder yw 'Brenin Seion', yr un a waredodd yr Iddewon o Fabilon.<sup>111</sup> Eir ymlaen i feirniadu'r caethfeistri a'r modd yr oeddent wedi dechrau 'meithrin egwyddorion mor orthrymus [â]'r eiddo Pharaoh', a 'ffurfio mesurau mor waedlyd o'r eiddo Nero, i'r dyben o ysbeilio a llethu tlodion y tir.'<sup>112</sup> Er i'r awdur ddelweddu'r caethfeistri fel pobl orthrymus yn llinach Pharo Exodus a'r Ymerawdwr Nero, erbyn diwedd yr erthygl, cyfeddyf fod 'genym ni y dydd hwn dair miliwn o frodyr a chworydd yn America, a'u gyddfau dan iau caethiwed gwaeth na chaethiwed yr Aifft a Babilon.'<sup>113</sup> Drachefn, mae'n bosibl fod yr awdur yn ymwybodol o'r breiniau a roddwyd i'r Iddewon ym Mabilon, ond efallai mai elfen o ormodiaith sydd yma, yn ceisio chwyddo trallod a gorthrwm y caethion yn America er mwyn cymell y darllenwyr i ymateb, ac i'r darllenwyr hynny nad oeddent wedi cefnogi Van Buren i ailystyried eu safiad gwleidyddol a gwerth eu pleidlais ar gyfer y dyfodol. Ategir at yr apêl drwy atgoffa'r darllenwyr am y modd y trinnid y caethion, 'brodyr' a 'chworydd' y darllenwyr:

yn cael e[u] gyru i lefydd pellenig, eu gweithio a'u baeddu yn waeth nag anifeiliaid y maes, a hyny heb wobwr na thal am eu llafur; ac y mae y chworydd yn buteiniaid i feibion Belial, y rhai sydd yn honi perchenogaeth yn mhersonau y caethion a'r oll sydd eiddo iddynt.<sup>114</sup>

Gellid tybio y buasai datganiad o'r fath wedi cynnau ymateb gan amryw ddarllenwyr. Roedd yr ymadrodd '[m]eibion Belial' yn gyfystyr â galw rhywun yn 'llygredig, aflywodraethus', ac anfoesol, ac felly, buasai'n debygol o fod wedi herio'r darllenwyr i naill ai newid eu hagwedd tuag at 'feibion Belial', neu barhau i'w gwrthwynebu ac ymgyrchu er lles eu 'brodyr' mewn caethiwed.<sup>115</sup>

Ceir enghraifft arall o gyfuno crefydd, gwleidyddiaeth a thrafodaeth hanesyddol am y Gaethglud mewn cyd-destun mwy domestig na'r ysgrif uchod, mewn cerdd sy'n dwyn y teitl, 'Y Dysgwyliad am Ryddid y Caeth'. Sail y gerdd oedd cyhoeddiad Lincoln y buasai'n

---

<sup>110</sup> Rees, 'Y Blaid Rydd', 40.

<sup>111</sup> Ibid.

<sup>112</sup> Ibid.

<sup>113</sup> Ibid., 41.

<sup>114</sup> Ibid.

<sup>115</sup> Charles, *Geiriadur Ysgrythyrol*, 111.

cyflwyno gorchymyn i ryddhau'r caethion yn yr Unol Daleithiau, a thrwy gydol y darn, mynegir y gobaith am wireddu'r gorchymyn hwnnw: yr hyn a wnaed gyda'r Datganiad Rhyddid ar 1 Ionawr 1863. Dywed Laura Griffiths y bydd hanes '[t]eulu Cam, anedwydd lu' yn America'n aros yn hir yn y cof, ond y bydd enw Lincoln hefyd yn aros yn hir os bydd yn gwireddu'i addewid:

Bydd ei enw 'n perarogli  
Yn y byd am oesoedd maith,  
Fe fydd llawer mam o'r gaeth-glud,  
A'i dagrau'n llifo dros ei grudd,  
Yn dysgu i'w baban spelio ei enw  
Saith lythyren gyflawn sydd.<sup>116</sup>

Mae'r drydedd linell uchod yn ddiddorol gan fod y term llwythog '[c]aeth-glud' yn dwyn cysylltiad â hanes yr Iddewon ym Mabilon, a chyda hynny, efallai yn anuniongyrchol, yn cysylltu Abraham Lincoln gyda'r brenin Cyrus. Ond pwysleisir yn y pennill clo fod 'rhywun mwy na Lincoln / A'i fysedd heddyw ar y llyw, / Iesu ydyw, dyma ei enw, / Llywydd mawr y bydoedd yw.'<sup>117</sup> Yn yr un modd ag yr oedd Cyrus yn offeryn yn llaw Yahweh wrth ryddhau'r Iddewon, felly yr oedd Lincoln hefyd yn llaw'r dwyfol wrth ryddhau'r Affricaniaid.

Gobaith a fynegir yn y gerdd uchod gan Griffiths ac yn y gerdd 'Deigryn Hiraeth' gan 'Glaswelltyn', llawenheir fod y gobaith hwnnw wedi'i wireddu pan basiwyd y Datganiad Rhyddid, ond ceir hefyd alaru am farwolaeth annhymig Lincoln, yr un a wnaed yn ferthyr am iddo sicrhau '[d]ydd / Y Jubil hedd':

Mor eon llywiaist long ein gwlad  
Trwy stormydd geirwon dyrys brad,  
Dymchwelaist gaethglyd Cham a'i had,  
Uwch gamp a'i swyn:  
Trugaredd oedd yn llanw 'th fron  
At bawb tra ar y fordaith hon  
I'r gelyn cas rhoist groesaw llon  
Ein merthyr mwyn!<sup>118</sup>

---

<sup>116</sup> Laura Griffiths, 'Y Dysgwyliad am Ryddid y Caeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1862), 416.

<sup>117</sup> Ibid.

<sup>118</sup> 'Glaswelltyn', 'Deigryn Hiraeth Am ein parchus Lywydd ABRAHAM LINCOLN', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1865), 211.

Dengys yr uchod fod cyfeirio at sefyllfa'r caethion Affricanaidd yn yr Unol Daleithiau fel 'y gaethglud' neu'r 'gaethglud fawr' yn ddyfais rethregol gyffredin. Yn wir, ceir mewn cofnod o gynhadledd a gynhaliwyd yn Utica a Steuben (1845) restr o'r penderfyniadau a basiwyd, ac yn eu plith, 'Fod galwad arnom am fwy o gydymdeimlad a chydymegniad, trwy bob moddion cyfreithlon a heddychol, dros y gaethglud fawr sydd o fewn ein gwlad'.<sup>119</sup>

Yn yr un modd â nifer o'r cyfarfodydd cynnar a gynhaliwyd, roedd y cyfarfod hwn yn pwysleisio rheidrwydd ymateb i'r 'gaethglud fawr' mewn ffordd gyfreithlon a heddychol. Wrth i'r blynyddoedd dreiglo, bu newid yn y farn gyhoeddus ynghylch y ffordd y dylid ymateb a daethpwyd i gredu mai trwy godi arfau'n unig y gellid datrys yr anghydfod: yr hyn a welwyd gyda'r Rhyfel Cartref. Credid y dylid gweithredu yn y fath fodd er mwyn cynorthwyo'r 'miliynau o ein cydgreaduraid', sydd wedi'u darostwng 'i'r fath sefyllfa anifeilaidd, ac i ddyoddef y fath greulonderau'.<sup>120</sup> Drachefn, pwysleisir y ffaith i gynifer o gaethion gael eu hamddifadu o addysg a chesglir bod hynny'n 'warthnod' y dylid ei gywiro.<sup>121</sup>

Flwyddyn wedi'r cofnod hwn, cyhoeddwyd erthygl mewn dwy ran gan George Roberts, sef 'Dilead Caethiwed'. Trafodir yn yr ysgrifau hyn pam y dylid dileu caethwasiaeth; ymhlith y rhesymau, y mae'r ffaith fod y caethion yn cael eu gorfodi i lafurio heb dâl, byw mewn cyflwr o anwybodaeth bur, a phwysleisir y buasai dileu caethwasiaeth yn 'agoriad drws eang i roddi addysg grefyddol i filoedd a myrddiynau o eneidiau anfarwol, sydd yn awr tu hwnt i gyraedd dysgawdwyr gwir grefydd'.<sup>122</sup> Deil Roberts hefyd fod y gyfundrefn yn ddrud i'w chynnal, yn ariannol ac yn egwyddorol o ystyried cyflwr moesol y wlad.<sup>123</sup> Mynna fod y gwaith o ddileu caethiwed 'yn galw am unol ac egniol ymdrechadau crïstionogion o bob enw, a phob dyngarwr o bob plaid a sefyllfa'.<sup>124</sup> Cri gyffredin ymysg y diddymwyr Cymraeg mwyaf radical oedd hon ar i bawb groesi'r ffiniau enwadol a chydymdrechu fel *Cristnogion*. Eir ymlaen hefyd i feirniadu gweithgareddau'r Gymdeithas Drefedigaethol Americanaidd drwy fynnu na fyddai symud y caethion i Ganada, Affrica neu ryddhau ychydig ohonynt yn America'n gwneud nemor ddim gwahaniaeth i fodolaeth caethwasiaeth yn y wlad. O'r herwydd, mynna y dylid dileu'r drefn yn llwyr, a'r modd

---

<sup>119</sup> 'Cymanfa Oneida', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1845), 345.

<sup>120</sup> *Ibid.*

<sup>121</sup> *Ibid.*, 346.

<sup>122</sup> Geo. Roberts, 'Dilead Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 135.

<sup>123</sup> *Ibid.*

<sup>124</sup> *Ibid.*, 136.

effeithiolaf o wneud hynny yw drwy ddileu'r 'cyfreithiau ag sydd yn awr yn cadw y gaethglyd mewn rhwymau ac yn gwneuthur ein gwlad yn *d[ŷ] caethiwed*'.<sup>125</sup>

Cyfeiria'r 'gaethglyd' yn y dyfyniad hwn at y sefyllfa ym Mabilon, yn ogystal â sefyllfa'r Hebreaid yn yr Aifft, pan oeddent yn 'nhŷ [eu] caethiwed'.<sup>126</sup> Yn yr un modd â'r testunau a drafodwyd uchod, pwysleisir bod caethwasiaeth yr Affricaniaid yn llinach caethwasiaeth yr Iddewon, ond gellid awgrymu fod gan George Roberts nodyn gobeithiol wrth gyfeirio at y ddwy enghraifft yn hanes yr Iddewon pan y'u delid yn gaeth, am iddynt hefyd gael eu gollwng yn rhydd gan Dduw. Roedd ystyried yr Unol Daleithiau fel yr Aifft orthrymus yn nodwedd gyffredin yn llenyddiaeth Affrican Americanaidd yr oes, a dyma Roberts yn awgrymu pe gwnelai'r cyhoedd eu dyletswyddau Cristnogol, y gwrandawai'r dwyfol a gwaredu'r caethion.<sup>127</sup>

Gellid 'dwyn y gaethglud yn rhydd', meddai Roberts, 'naill ai drwy wrthryfel', trwy 'i'r Brawdlysoedd e[i ch]yhoeddi yn wrth-gyfansoddawl (*unconstitutional*)', fel y gwnaed yn nhalaith Massachusetts, neu drwy 'awdurdod y Gydgynghorfa (*Congress*) a'r Llywodraethfaau (*Legislatures*) a thyna y drefn fwyaf gyffredin'.<sup>128</sup> Golyga hyn fod angen i arlywydd gwrth-gaethiwol gael ei ethol er mwyn dod â chwyldro i lywodraeth yr Unol Daleithiau, yr hyn ddigwyddodd gydag Abraham Lincoln.

Crisielir prif ergyd y ddwy ysgrif wrth gloi gyda'r geiriau, 'Eich brawd, a'ch cyfaill dros y gaethglud Americanaidd'.<sup>129</sup>

Gellid awgrymu, felly, fod cyfuno crefydd a gwleidyddiaeth, â'r Gaethglud yn fodd i'r gwahanol ddisgyrsiau gwrth-gaethiwol ddod ynghyd.

## Y Rhyfel Cartref a'r Gaethglud

Cafwyd sylwadau cryno ond trawiadol gan awdur a arwyddodd ei waith â'r llythrennau 'I.G.', yn rhifyn Gorffennaf 1861 *Y Cenhadwr Americanaidd* yn glŷn â'r 'Rhyfel Bresennol

---

<sup>125</sup> Ibid., 137. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>126</sup> Ceir defnydd mynych o'r ymadrodd hwn yn yr Hen Destament, megis yn Ex. 13:14; 20:2; Lef. 26:13; Deut. 5:6; 6:12.

<sup>127</sup> Gweler ymhellach drafodaethau diddorol Albert J. Raboteau, 'African-Americans, Exodus, and the American Israel', yn Paul E. Johnson (gol.), *African-American Christianity: Essays in History* (London: The Regents of the University of California, 1994), 1-17, ac Eddie S. Glaude Jr., *Exodus!: Religion, Race, and Nation in Early Nineteenth-Century Black America* (Chicago: University of Chicago Press, 2000).

<sup>128</sup> Geo. Roberts, 'Dilead Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 137.

<sup>129</sup> Idem., 'Dilead Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehfin 1846), 171.

[sic.]. Cred 'I.G.' mai barn Duw oedd y Rhyfel Cartref am i America gaethiwo'r Affricaniaid cyhyd; sy'n adleisio'r hyn a geir yn yr Hen Destament gyda Yahweh yn cosbi ei bobl am eu hanufudd-dod iddo, yn arbennig felly, yn hanes caethgludo Israel a Jwda.

Meddai:

Gall fod yn *fflangell* drom i'r *Gogledd* am eu bydolrwydd, a'u ffurfioldeb crefyddol; ond bydd yn *ddinystr* i fasnach, uchelgais, a balchder, a llwyddiant, y *Deheubarth*, am eu rhagrith a'u caledwch, eu twyll a'u creulonderau yn hir orthrymiad y Negro Du.<sup>130</sup>

Diddorol yw gweld fod 'I.G.' yn credu mai cael ei gosbi er mwyn iddo ddysgu o'i gamweddau a fydd hanes y Gogledd ond bydd y De yn cael ei 'ddinystr[io]' yn llwyr; sy'n atgoffaol o'r hyn ddywed T. Ll. Hughes yn 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol' uchod am Israel a Jwda: caethgludwyd y ddwy deyrnas, a rhoddwyd cosb dymhorol i Jwda, nid felly Israel: 'goruchwyliaeth geryddol oedd hon ar Judah [...] ond goruchwyliaeth farnol ydoedd ar Israel.'<sup>131</sup> Gellir gweld lled-gyfatebiaeth, felly, rhwng yr Israel ranedig â'r taleithiau gogleddol a deheuol. Yn yr un modd â'r ddwy deyrnas yn y Dwyrain Canol, roedd y taleithiau wedi ymrannu, a'r ddwy ran yn brwydro yn erbyn ei gilydd. Y gwahaniaeth yw mai'r deyrnas *ogleddol*, Israel, a oedd dan farn ddamniol Duw, ac mai '*Deheubarth*' Gogledd America a oedd dan y lach yn y Rhyfel Cartref, yn ôl 'I.G.'.

Y syniad a fynegir drwy gydol y darn yw bod y De'n dir halogedig, wedi'i lychwino gan 'dwyll, brad, a lladrad, a chelwyddau', ac o'r herwydd, bod angen i'r '*Llywodraeth wisgo ei holl nerth*' mewn 'rhyddid, a Christionogaeth' er mwyn '[ll]wyr ddarostwng y *Gwrthryfel*'.<sup>132</sup> Drwy wneud hynny, rhyddheid y caethion.

### **'A'i hualau ar yr helyg'**<sup>133</sup>

Ceir yn Salm 137 fynegi hiraeth am Jerwsalem a'r ofn a deimlodd y bobl y buasant yn ei hanghofio po hired yr arhosent yn y Gaethglud ym Mabilon (Salm 137:1-6). Ceir hefyd ymdeimlad o ddiymadferthedd, o fethu â dylanwadu ar ddigwyddiadau gwleidyddol, ac o fod

---

<sup>130</sup> 'I.G.', 'Y Rhyfel Bresennol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1861), 253. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>131</sup> Hughes, 'Yr Hanesyddiaeth Ysgrythyrol', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1859), 1.

<sup>132</sup> 'I.G.', 'Y Rhyfel Bresennol', 253. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>133</sup> A. H. Hir, 'Cwynfan Caethion yr America', *Y Seren Orllewinol* (Tachwedd 1854), 170.



ag awydd dial. Yn wir, gwelir drwg-deimlad tuag at y sawl a gafodd aros yn Jwda, y wlad gysegredig. Roedd y sawl a gaethgludwyd yn perthyn i haen uchaf y gymdeithas yn Jwda, ond roeddent bellach wedi colli eu holl eiddo (Esec.11:15; 33:24) a'u hawl i arwain. Diau iddynt deimlo eu bod wedi cael eu hisraddio'n gymdeithasol drwy gael eu hadleoli.<sup>134</sup>

Ni wyddys pryd y cyfansoddwyd y salm ond mae'n amlwg bod ei *Sitz im Leben* yn adlewyrchu cyfnod yr Iddewon yn Mabilon a'r hiraeth a deimlodd rhai am eu mamwlad.<sup>135</sup> Mae hon yn salm sydd wedi cydio yn nychymyg amryw ar hyd y canrifoedd, a llwyddodd i gynnig modd i gaethion y bedwaredd ganrif ar bymtheg gwyno am eu sefyllfaoedd gorthrymus.<sup>136</sup> Roedd y pathos sy'n cael ei fynegi drwy gydol y salm yn taro tant gyda'r caethion a'r gwrth-gaethiwyd, a gwnaeth y Cymry gryn ddefnydd o'r gerdd hon hefyd.

Yn wir, profodd y cyfrwng barddonol yn effeithiol ymysg y diddymwyr a'r caethion, y naill garfan gyda'u caneuon protest a'r llall gyda'u caneuon ysbrydol. Ymhlith yr argymhellion a gyflwynodd Robert Everett ynglŷn â'r hyn y gallai'r Cymry ei wneud er lles y caethion, oedd yr alwad ganlynol ar feirdd Cymraeg America:

Cyfansodder emynau ar ryddid fel y gwneir ar ddirwest, a chaner hwynt yn fynych yn nghynulleidfa yr Arglwydd. Peth yn effeithio yn fawr ar y meddwl dynol yw canu; canu emynau dirwestol a fu yn un moddion neillduol i ddeffroi teimladau priodol yn yr achos hwnw. Gwneir hyny yn yr achos hwn hefyd; dysger ein hieuentid a'n plant bychain o'u mebyd i ganu emynau gwrthgaethiwol, ac i folianu yr Arglwydd am fendithion rhyddid.<sup>137</sup>

Amcan y caneuon neu'r emynau oedd hyrwyddo gwrth-gaethiwaeth a chynnig addysg, gan y pwysleisia Everett y dylai plant eu dysgu a'u canu. Diben hyn wrth gwrs oedd i'w trwytho mewn syniadau gwrth-gaethiwol o oed ifanc a sicrhau momentwm yn yr ymgyrch, gan fod canu, a chanu torfol yn enwedig, yn rym arbennig ynddo'i hun. 'Gwyddai [Everett] fod troi dyfroedd barddonol a cherddorol y Cymry at felin yr achos yn strategaeth

<sup>134</sup> Daniel L. Smith-Christopher, 'Reassessing the Historical and Sociological Impact of the Babylonian Exile (597/587-539 B.C.E.)', yn J. M. Scott (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish, and Christian Conceptions* (Leiden, New York a Köln: E. J. Brill, 1997, 1997), 27-36.

<sup>135</sup> Robert P. Carrol, 'Exile! What Exile? Deportation and the Discourses of Diaspora', yn Lester L. Grabbe (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 69.

<sup>136</sup> Gweler trafodaeth ddiddorol David W. Stowe, *Song of Exile: The Enduring Mystery of Psalm 137* (New York: Oxford University Press, 2016), 68-79.

<sup>137</sup> 'Beth a all y Cymry Wneyd?', *Y Dyngarwr*, 6-7. Difyr yw nodi bod yr awgrymiadau a geir gan Everett yn yr erthygl hon yn atgoffaol o'r datganiadau a gyflwynwyd gan y Gymdeithas Wrth-gaethiwol Americanaidd ym mis Rhagfyr 1833. Am restr o'r datganiadau hynny, gweler Milton C. Sernett, *North Star Country: Upstate New York and the Crusade for African American Freedom* (Syracuse, NY: Syracuse University Press, 2002), 38.

effeithiol, ac felly galwodd ar feirdd gwrth-gaethiwol Cymraeg America i ddilyn esiampl y beirdd hynny a oedd wedi darparu'r mudiad dirwestol â chynifer o emynau a chaneuon Cymraeg.<sup>138</sup> Yn wir, ymatebodd amryw i alwad Everett ac nid yw'n syndod i Salm 137 fod wedi cael effaith ar y ffrwd o farddoniaeth wrth-gaethiwol Gymraeg a gyhoeddwyd yn America.<sup>139</sup>

Cyflwynodd O. E. Jones, Remsen, gerdd o eiddo'i ewythr o Lanfachraeth, Ynys Môn, yn dwyn y teitl, 'Cwynfan Caethion yr America', i'r *Seren Orllewinol* ym mis Hydref 1845. Emyn y dylid ei ganu ar y dôn 'Calon Drom' yw'r gerdd, ac yn unol â chonfensiwn cerddi o'r fath, dechreua A. H. Hir drwy ddarlunio trallod y caethion.<sup>140</sup> Er mwyn pwysleisio gwrthuni'r sefyllfa, cyfeirir at yr arfer ymysg caethfeistri o chwipio'u caethion a hynny heb gydnabod mai 'Corph ac enaid / Dyn' sydd gan y sawl dan ergyd y fflangell.<sup>141</sup>

Eir ymlaen yn yr ail bennill i alw ar y 'Brytaniaid' i glywed y 'gruddfanau'. Efallai bod y gerdd hon yn un a fwriedid ar gyfer cynulleidfa'n ôl yn y famwlad, ond eto, mae'n debyg y buasai'r term 'Brytaniaid' wedi llwyddo i gynnu ymateb ymysg darllenwyr Cymraeg America, gan ei fod yn air mor llwythog fel term cenedlaetholgar, yn atgoffa'r Cymry o'u hanes. Wedi apelio at eu hunaniaeth, geilw'r bardd arnynt i ystyried 'Mawr drueni plant y gaethglud', a thrachefn, buasai'r gair llwythog 'caethglud' hefyd yn debygol o atgoffa'r darllenwyr o hanes caethiwus yr Iddewon.<sup>142</sup>

Awgrymir bod caethwasiaeth yn groes i gyfraith Duw gan i'r 'Bod' roi 'byd o ryddid, / I blant Adda mewn dedwyddwch', a disgrifir y gweithredoedd barbaraid a wneid tuag at y caethion, megis dwyn 'plant oddiar y teulu', a'u gorfodi i weithio dan iau 'estroniaid'.<sup>143</sup> Yn dilyn hyn, ceir pennill llawn cwestiynau rhethregol, a chyda phob llinell, adeiledir at y dyhead mawr, sef dydd gollwng y caethion yn rhydd:

---

<sup>138</sup> Hunter, *I Ddeffro*, 108.

<sup>139</sup> Ceir yn ogystal ddefnydd gwahanol o Salm 137 o dro i dro, er enghraifft, wrth ddelweddu Cristnogion sydd wedi'u 'caethiwo' i bechod: J. H. Evans, 'Cwynfa y Cristion Mewn Caethiwed', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mawrth 1848), 82.

<sup>140</sup> A. H. Hir, 'Cwynfan Caethion yr America', *Y Seren Orllewinol* (Hydref 1845), 154.

<sup>141</sup> *Ibid.*

<sup>142</sup> *Ibid.*

<sup>143</sup> *Ibid.*

Pa bryd diddymir masnach caethion?  
 Pa bryd tynerir moesau dynion?  
 Pa bryd meddyliwch chwi caiff Negro  
 Mewn anrhydedd fyn'd i rodio[?]  
 Pa bryd daw amser Duw Jehofa,  
     I wneud yn rhyddion  
 Y rhai sy'n dynion mewn cadwyna'?  
 O na weler gwawr yn tori  
     Trwy'r greadigaeth,  
 A meddygyniaeth wedi ei geni.<sup>144</sup>

Roedd gan yr emyn amcan arbennig: goleuo'r Cymry a'u cymell i weithredu. Gan y cysylltid argyhoeddiad crefyddol gyda safiad gwrth-gaethiwol, mae'n debyg y buasai wedi ysgogi sawl Cymro Americanaidd i weithredu. Yn wir, dichon y buasai'r cwestiwn, 'Pa bryd daw amser Duw Jehofa' yn enwedig, wedi eu cynhyrfu.

Eir ymlaen wedyn i gyfeirio at weithgarwch un diddymwr a gwleidydd amlwg yr oes, sef Cassius Marcellus Clay o Kentucky. Roedd Clay yn enghreifftio fod diddymiaeth a daliadau gwrth-gaethiwol yn bodoli'n fuan yn y De, a bod llawer yno yn ymgyrchu o'u plaid. Roedd y ffaith hefyd ei fod yn fab i deulu a oedd ymhlith perchnogion planigfeydd a chaethion mwyaf cefnog y dalaith, ac wedi ymgymryd â'r crwsâd yn erbyn caethwasiaeth, yn hynod drawiadol, felly, manteiswyd arno yn y gerdd hon.<sup>145</sup>

Llwydded Meistr CASSIUS enwog,  
 Yn ei ymdrech dra godidog  
 I ddiddymu'r fasnach greulon  
 Sy'n groes i natur Duw a dynion.  
 Rhyfedd fod yr haul ysblenydd,  
     Yn rhoi magwraeth  
 I drefniadaeth mor annedwydd.  
 Mae eisiau gweithio dros y caethion,  
     O dosturi,  
 Er mwyn eu rhoddi oll yn rhyddion.<sup>146</sup>

Daw'r emyn i ben gyda phennill trawiadol yn cynnwys gorchymyn i gaethwasiaeth gael ei diddymu yn 'rhandir brwnt Columbia [...] fel Jamaica'.<sup>147</sup> Mae'r llinellau terfynol, yn enwedig, yn gyfoethog eu hystyron ac yn werth craffu arnynt:

---

<sup>144</sup> Ibid.

<sup>145</sup> Keven McQueen, *Cassius M. Clay "Freedom's Champion": The life-story of the famed Kentucky emancipationist* (Paducah, KY: Turner Publishing Company, 2001).

<sup>146</sup> Hir, 'Cwynfan Caethion yr America', 154.

A boed y fasnach felldigedig,  
A'i lyffetheiriau  
A'i hualau ar yr helyg,  
Fel bo'r creadur rhydd greuedig,  
A'i alluoedd  
Fel y tyfodd yn gyntefig.<sup>148</sup>

Sylwyd eisoes yn y bennod gyntaf ar arwyddocâd yr ymadrodd 'masnach felltgedig' yng nghyd-destun Genesis 9:25, felly, gallwn ganolbwyntio yma ar y llinell, 'A'i hualau ar yr helyg'. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod hon yn aralleiriad o Salm 137:2, 'Ar yr helyg yno bu inni grogi ein telynau'. Diben crogi'r telynau oedd arwyddo na theimlai'r Iddewon y gallent ganu caneuon yr Arglwydd mewn gwlad estron, ac felly'r cyfan a allent ei wneud oedd treulio'u hamser yn hiraethu am Jerwsalem yn wyneb dirmyg y Babiloniaid. Roedd y weithred symbolaidd o grogi telyn ar goeden yn ddelwedd drawiadol a gydiodd yn nychymyg Hir. Gellid awgrymu felly mai diben yr 'hualau ar yr helyg', oedd datgan y dylid rhoi heibio caethwasiaeth, drwy ddiosg hualau'r fasnach felltgedig. Buasai'r defnydd o'r ddelwedd drawiadol hon ynghyd ag islais y salm hiraethus yn ddiaw wedi ysgogi ymateb emosiynol a deallusol. Roedd Salm 137 yn yr achos hwn felly'n ddyfais ddefnyddiol er mwyn i'r beirdd gael eu maen gwrth-gaethiwol i'r wal.

Gwneir defnydd cyffelyb o aralleirio Salm 137:2 yn 'Dedwyddwch y Nef', gan y Parch. Jos. George, Llanfair Caereinion; emyn i'w ganu ar dôn 'Barmouth March', ac un a anfonwyd i'r *Seren Orllewinol* gan Levi Harris, Youngstown, Ohio ydyw. Mae gogwydd yr emyn yn edrych yn frwd at y dydd y bydd caethwasiaeth wedi cilio, a datgenir, bryd hynny, 'Fe geir gweled plant caethiwed / Wedi derbyn gwir ymward; / A'r rhai welwyd gynt yn wylo / 'Nawr [â]'r delyn rhwng eu dwylo'.<sup>149</sup>

Ymddangosodd emyn arall yn dwyn y teitl syml ond trawiadol 'Caethiwed', gan un yn dwyn y ffugenw 'Preswlydd cwr yr anialwch', yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Gorffennaf 1845. Dechreuau'r emyn drwy gyfeirio at sefyllfa druenus y caethion, 'Mae teulu'r gaethglud fawr / Yn ocheneidio'n brudd, / A chwenych maent bob awr / Gael dod o'u rhwymau'n rhydd',<sup>150</sup> a chloir y pennill gyda chwpled, a ailadroddir ar ddiwedd pob pennill, sy'n dyheu am ddyfodiad dydd y Jiwibili:

---

<sup>147</sup> Ibid.

<sup>148</sup> Ibid.

<sup>149</sup> Jos. George, 'Dedwyddwch y Nef', *Y Seren Orllewinol* (Ionawr 1858), 17.

<sup>150</sup> 'Preswlydd cwr yr anialwch', 'Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1845), 214.

O henffych, henffych, fore clir,  
Pryd na bydd gorthrwm yn ein tir.<sup>151</sup>

Mae'n amlwg mai'r gaethwasiaeth Americanaidd sydd dan sylw wrth i'r Preswlydd ragweld y pryd y bydd y wlad yn rhydd o gaethiwed ac y bydd pawb 'o bob lliw' yn gallu bod yn Gristnogion:

Pan [ê]l caethiwed cas  
O'r byd trwy nerth ein Duw,  
Canmolir Iesu a'i ras  
Gan bobloedd o bob lliw[.]<sup>152</sup>

Yn wir, ni chyfeirir yn uniongyrchol at gaethwasiaeth gyfoes America tan i'r bardd gyfarch y Cymry'n union a'u hannog i weithredu ag ysbryd diddymiaeth:

Hoff Gymry, dewch yn rhwydd,  
A bloeddiwch yn ddigudd,  
"Cyfiawnder gaffo lwydd  
"A rhyddid gario 'r dydd,  
"A henffych, henffych, fore clir,  
"Pa bryd na bydd gorthrwm yn ein tir!"<sup>153</sup>

## Babilon

Yn yr un modd â'r term 'caethglud', mae 'Babilon' hefyd yn air llwythog ag iddo nifer o ystyron. Ceir amryw ysgrifau yn trafod Babilon fel y lleoliad daearyddol y dygwyd yr Iddewon iddo ac fel yr ymerodraeth ysblennydd a gwymppodd.<sup>154</sup> Yn ogystal, gwneid defnydd symbolaidd ohoni'n aml er mwyn cyfleu amryw ddrygau gwahanol. Er enghraifft, yr oedd yn arfer poblogaidd defnyddio 'Babilon' i gynrychioli'r Eglwys Gatholig a'r Pab, a'u cysylltu'n aml gyda'r Anghrist.<sup>155</sup>

---

<sup>151</sup> Ibid.

<sup>152</sup> Ibid.

<sup>153</sup> Ibid.

<sup>154</sup> 'Babilon', *Y Seren Orllewinol* (Rhagfyr 1847), 277-9.

<sup>155</sup> Dwy enghraifft yw: E. J. Moses, 'Y Waldensiaid', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1852), 46: '9. Mai Eglwys Rhufain yw y Babilon y sonir am dani yn y Datguddiad, ac mai y pab yw dechreurydd pob cyfeiliornad, ac mai efe yw Anghrist'; J. R., 'Babilon Fawr', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1852), 201: 'Babilon fuasai prif elyn yr eglwys o dan yr hen oruchwyliaeth. Ac onid Rhufain a Phabyddiaeth ydynt brif elynion eglwys y Testament Newydd?'

Yr hyn sy'n berthnasol i'r drafodaeth bresennol yw bod 'Babilon' wedi cael ei defnyddio'n drosiadol i drafod caethwasiaeth. Ceir defnydd o'r fath, er enghraifft, yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* wrth grybwyll y siom a deimlwyd ym 1856 gydag ethol James Buchanan, y Democrat yn arlywydd.<sup>156</sup> Serch canlyniad yr etholiad, deil yr erthygl yn ffyddiog fod 'cwmp y Babilon hon ar gymeryd lle yn mhob rhan o'r byd. Henffych i'r boreu!'<sup>157</sup>

Mewn modd nid annhebyg, cyhoeddwyd cerdd eschatolegol o'r enw 'Cwmp Babilon', gan W. Rees yn *Y Seren Orllewinol* ym mis Ebrill 1848. Ynnddi, defnyddir delweddau llyfr y Datguddiad i ddarlunio barn Duw ar y Ddaear a chwmp 'Babilon', sef yr holl ddrygau bydol, a chyfeirir at gaethwasiaeth fel un o'r drygau hynny. Ond, meddai Rees, daw 'dydd dial' cyn hir, pan ryddheid pawb o afael pechod a dylanwadau'r byd daearol, a phan gaiff y 'Babilon' drygionus ei '[ddal] yn gaeth'.<sup>158</sup>

Gwneir defnydd cyffelyb o'r trosiadau hyn hefyd mewn darn o ryddiaith hynod drawiadol o'r enw 'Gweledigaeth'.

### **'Gweledigaeth' y Bedyddiwr Cwsg**

Yn rhifyn Chwefror 1843 *Y Dyngarwr*, ymddangosodd darn o ryddiaith greadigol yn dwyn y teitl 'Gweledigaeth', gan y Parch. J. P. Harris (Ieuan Ddu), er mwyn darlunio erchyllterau caethwasiaeth gyfoes, ac fel y gwelir maes o law, mae cysylltu'r drefn anfoesol honno â Babilon yn wedd amlwg ar y testun hwn.

Lluniwyd y darn yn null moeswersi ffantasiol *Gweledigaethu y Bardd Cwsg* (1703), Ellis Wynne, testun a oedd yn boblogaidd bob ochr i'r Iwerydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>159</sup> Gwelwn felly'r modd yr oedd Harris wedi manteisio ar eitem o draddodiad llenyddol ei famwlad er mwyn ymateb i un o heriau mwyaf ei wlad fabwysiedig. Felly hefyd, iddo fanteisio ar hen ffurf lenyddol, gan fod traddodiad llenyddiaeth freuddwydiol Gymraeg yn estyn yn ôl cyn belled â chwedlau'r Oesoedd Canol.

Egyr y darn drwy ddilyn confensiynau llythyr: cyfeirir at y golygydd, disgrifir hanes yr awdur yn crwydro ardal berffaith yng nghefn gwlad Swydd Oneida, Efrog Newydd, ac yna newidia'r naws wrth i'r traethydd brofi'r weledigaeth:

---

<sup>156</sup> 'Y Gaethfasnach Americanaidd', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1857), 74.

<sup>157</sup> *Ibid.*

<sup>158</sup> W. Rees, 'Cwmp Babilon', *Y Seren Orllewinol* (Ebrill 1848), 90.

<sup>159</sup> Hunter, *Sons of Arthur*, 63-4.

MR. GOLYGYDD,—Ni ddileuir argraffiadau dwys y weledigaeth a ddarganfyddais yn ddiweddar o'm meddwl, tra côf yn dal ei heisteddle. Un diwrnod wrth synfyfyrion ar ddaioni Duw, pan yn rhodio ar geulannau anial yr Afon Ddu—yn yfed yr awelon adfywiol a chwareuent ar ei hwyneb llon—ac yn mynych wrando y tŵnau peroriaethol, mor fedrus a chwareuai i loni plant y goedwig,—diosgwyd fi o'm gwisgoedd is-loerawl, gorlanwyd fy meddwl â phethau uwch sêr y nef, sef pleserau gwynfa; yn fy myfyrdod ehedwn ar edyn Cerub drwy frôydd Paradwys, a theimlwn fy hun mor ddedwydd a neb o'r côr nefolaidd a gylchynent yr orsedd.<sup>160</sup>

Yn ddiau, mae arddull Ramantaidd yr ysgrifennu a'r modd y gosododd Harris y weledigaeth mewn 'realiti' dychmygol yn adleisio *Gweledigaethu y Bardd Cwsg*; yn yr un modd ag y mae 'tŵnau peroriaethol [y] plant [sy'n chwarae yn y] goedwig' ar lan yr 'Afon Ddu' yn cyfateb i drydar yr adar ar lan yr afon Hafren, y mae persona Harris yn ymdebygu i'r Bardd Cwsg yn crwydro a myfyrio. Dyma eto ddangos fod 'Gweledigaeth' yn Gymreig ei ffurf ond yn Americanaidd ei chynnwys.

Caiff yr elfen Americanaidd honno'i hamlygu wrth i'r darn fynd rhagddo; yn yr un modd ag y caiff y Bardd Cwsg ei gymryd gan angel i weld teyrnasoedd goruwchnaturiol, caiff persona Harris, yntau, ei gymryd 'ar edyn Cerub drwy frôydd Paradwys', ac o wneud hynny, daw i gyfarfod â '[b]oneddwr yn marchogaeth fel ar y cwmwl.'<sup>161</sup> Mae'n bosibl fod yr ymadrodd hwn yn gyfeiriad at Eiseia 19:1, 'Wele'r ARGLWYDD yn marchogaeth ar gwmwl buan, ac yn dod i'r Aifft.' Os felly, gellid awgrymu mai pwrpas defnyddio'r ymadrodd hwn, efallai, oedd er mwyn cyfeirio'n anuniongyrchol at y drwg a'r llygredigaeth a oedd yn bod yn America oherwydd caethwasiaeth. Yn oracl Eiseia, caiff yr Aifft ei dryllio o'r tu fewn am ei chamwri; mae'r Neil yn sychu a'r arweinwyr gwladol yn anghytuno â'i gilydd. Yn yr Unol Daleithiau, yng ngolwg nifer o'r diddymwyr cynnar, roedd caethwasiaeth yn rhannu'r wlad ac yn cael effaith andwyol ar y caethion yn ogystal â'r dinasyddion Americanaidd eu hunain, boed yn gaeth-bleidwyr neu'n wrth-gaethiwyr. O'r herwydd, daw'r '[b]oneddwr' at y traethydd a'i gyflwyno'i hun fel 'DYNGARWR', sydd, ar y naill law, fel y dywed Jerry Hunter, yn bersonoliad o'r cylchgrawn yr ymddangosodd y 'Weledigaeth' ynddo, ac ar y llaw arall, yn ymgorfforiad o un o egwyddorion sylfaenol Cristnogaeth, sef dyngarwch.<sup>162</sup> Gellid, efallai, awgrymu fod yna wedd hunangyfeiriol gyda'r cymeriad, sy'n cysylltu'r testun llenyddol hwn yn agosach â'r cylchgrawn a chyda'r darllenwyr. Yn yr un modd ag y byddai'r

---

<sup>160</sup> J. P. Harris, 'Gweledigaeth', *Y Dyngarwr* (Chwefror 1843), 14.

<sup>161</sup> *Ibid.*

<sup>162</sup> Hunter, *Sons of Arthur*, 64.

Dyngarwr yn goleuo'r traethydd yn y 'Weledigaeth', felly hefyd y byddai cynnwys y cylchgrawn, *Y Dyngarwr*, yn goleuo'r darllenwyr Cymraeg Americanaidd.

Nid cymeriad gwylaidd mohono, fodd bynnag: yn union wedi'r cyfarfyddiad, gwelir ef yn ceryddu'r traethydd am iddo beidio ag ymateb i'r argyfwng yn America:

O ddyn marwol! beth a wnei DI yma? Heddyw yw 'th amser i weithio. Mae dy frawd yn gruddfan mewn caethiwed. Tyred a chanlyn fi.<sup>163</sup>

Yn dilyn hyn, mae'r Dyngarwr fel petai'n cyfiawnhau ei hawl i geryddu'r traethydd drwy restru cyfeiriadau Beiblaidd sy'n nodweddu 'dyngarwch' a'r hyn sy'n ddisgwylidig o bob Cristion da.<sup>164</sup> Dywed ei fod yn 'hanu o ymysgaroedd Duw', ei fod wedi'i 'gerfi[o] yn egwyddorol yn nghyfansoddiad y dyn cyntaf', a bod anufudd-dod Adda ac Efa (y Cwmp) wedi peri i'r 'cythraul mewn digllonedd [ei f]loti[o] allan.'<sup>165</sup> Serch hynny, dywed iddo fod yn bresennol pan naddwyd y Deg Gorchymyn 'â bys [ei d]ad', a hynny er mwyn atgoffa Israel o'r Rheol Aur: 'C[â]r dy gymydog fel ti dy hun.'<sup>166</sup>

Wedi iddo orffen ei gyflwyniad, y mae'r Dyngarwr yn cymryd y traethydd ac yn hedfan 'fel mellten tua'r deheu', i weld rhan o'r wlad honedig rydd. Yno, gwelent gymeriad dieflig yr olwg, sef ymgorfforiad o gaethwasiaeth:

Canfyddais Bendefiges rodresgar mewn gwisg ysgarlad; ei llygaid ydoedd gochion; ei chroen lliwus gwedi gwywo gan belydr yr haul; ei hedrychiad yn sarug a dychrynadwy; yn ei llaw aswy yr oedd fflangell "*Massa*," yn nghyd a haiarn nodi; ac yn ei llaw ddeheu gwpan aur yn orlawn o win; yn ei chylchynu yr oedd gosgorddlû, y rhai a waeddant yn awr ac yn y man, "Mawr yw Arglwyddes y deheu!"<sup>167</sup>

---

<sup>163</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

<sup>164</sup> Unwaith yn rhagor, mae'r darn yn atgoffaol o *Gweledigaethu y Bardd Cwsg*, er enghraifft, wrth i Angel Teyrnas y Gogledd yng 'Ngweledigaeth Uffern' ei gyflwyno'i hun fel creadur nefolaidd a rhestru nodweddion dwyfol ei gymeriad. Gweler Patrick J. Donovan a Gwyn Thomas, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg: Y Rhan Gyntaf* (Llandysul: Gomer, 1991), 91-5.

<sup>165</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

<sup>166</sup> Ibid. Gweler Pennod 4 isod am drafodaeth bellach am y Rheol Aur (Lef. 19:18; Math. 22:39; Marc 12:31).

<sup>167</sup> Ibid. Defnyddir ieithwedd debyg mewn erthygl arall sy'n trafod drygedd alcohol. Yn 'Chwildroad Dirwestol', *Y Seren Orllewinol* (Mehefin 1846), 86-8, mae'r awdur, sy'n dwyn y ffugenw 'Anti-Bachus', yn personoli alcohol i dywysog a anwyd yn Arabia ac a'i haddysgwyd yn 'mhrif-athrofa *Epicurus*'. Eir ymlaen i ddisgrifio pryd a gwedd y tywysog, a difyr yw'r gyfatebiaeth rhyngddo a Chaethwasanaeth uchod: 'Dyn o faintiolaeth cyffredin ydyw, ac o wneuthuriad cadarn; ei lygaid ynt gochion, ei edrychiad yn sarug, cryglyd ei lais, mynglyd ei lefererydd, ac yn anarferol o dew. Mae yn chwanog iawn i gysgu, yn hollol annhrugarog, yn caru llywyddu, ac yn cael ei ganlyn i bob man gan osgorddlu o glefydau' (t. 87).



Roedd penderfyniad Harris i ddarlunio'r 'Bendefiges'<sup>168</sup> hon yn y fath fodd yn greffus iawn gan ei bod yn cyfateb i ddelwedd ystrydebol y *Southern Belle*, ond hefyd, ac yn fwy arbennig, am ei bod yn seiliedig ar butain fawr Babilon llyfr y Datguddiad.<sup>169</sup> Yr hyn a wna'r awdur, 'Ioan' yn y llyfr hwnnw, yw cyflwyno'r 'datguddiad' a gafodd gan yr Iesu byw o gynllun Duw ar gyfer y byd yn y presennol ac yn y dyfodol. Mae'r Datguddiad yn llyfr apocalyptaidd, sy'n llawn delweddau dramatig ac iaith symbolaidd, a gwneud defnydd o'r nodweddion hynny a wnaeth Harris yn ei ddarn. Mae'n werth craffu yn gyntaf ar destun Datguddiad 17, lle disgrifir putain fawr Babilon, cyn trafod y 'Weledigaeth' ymhellach.

Yn y bennod honno, caiff 'Ioan' ei wahodd gan un o'r saith angel a oedd wedi arllwys ffiol a oedd yn llawn llid Duw, i weld y farn ar 'y butain fawr sy'n eistedd ar lawer o ddyfroedd' (Datg. 17:1). Wrth wraidd y weledigaeth hon y mae gweledigaeth dau fwystfil Datguddiad 13, a'r ddwy'n deillio o weledigaeth Daniel 7.<sup>170</sup> Caiff 'Ioan' ei dywys gan yr angel sy'n cynnig iddo ddehongliad alegoriol o'r wraig a'r bwystfil sy'n ei chario. Symbol pwerus yw'r butain fawr o elyniaeth y byd tuag at Dduw, a chyfeirir ati fel 'mam puteiniaid a ffiiaidd bethau'r ddaear' (Datg. 17:4-5). Yn wir, fe'i cyferbynnir â mam arall a geir yn Datguddiad 12, sef Mam y Meseia a'i ddilynwyr, 'y rhai sy'n cadw gorchmynion Duw ac yn glynu wrth dystiolaeth Iesu' (Datg. 12:7). Ond pwy yn union oedd putain fawr Babilon?

Roedd Babilon, i 'Ioan', yn cynrychioli'r ymerodraeth satanaidd a geisiai ei hyrwyddo'i hun fel teyrnas o eilunaddoliaeth, un gyferbyniol i deyrnas Dduw, a'r dehongliad traddodiadol oedd bod 'Babilon' yn cynrychioli Rhufain a'i Hymerodraeth.<sup>171</sup>

Ar ddiwedd y ganrif gyntaf OC, roedd nifer o ddeiliaid yr Ymerodraeth Rufeinig, ac mae'n debyg rhai o ddarllenwyr cyntaf llyfr y Datguddiad, yn cael eu cyflyru i ddychmygu dinas Rhufain fel gwraig hardd ac urddasol. Yn wir, portreadwyd y dduwies Roma, a oedd yn ymgorfforiad o rym y ddinas, fel arglwyddes mewn gwisg ryfel yn lledorwedd ar fryniau Rhufain, gyda blaen ei throed yn cyffwrdd yr afon Tiber a'i llaw'n pwysu ar gleddyf. Ond fel y dywed Catrin Haf Williams, 'gwawdlun o'r dduwies ogoneddus a gyflwynna Ioan, a cheir

---

<sup>168</sup> Personolir caethwasiaeth fel 'pendefiges', 'hudoles' a 'bwystfil' mewn amryw destunau Cymraeg Americanaidd o'r cyfnod. Er enghraifft: 'Yr Adeg Bwysig', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1854), 14; Ioan ab Harri, 'Awdwyr Seis'nig y Bedwaredd-Ganrif-ar-Bymtheg[:] William Wilberforce Byr Hanes o'i Fwyd a'i Amserau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1856), 293.

<sup>169</sup> Hunter, *Sons of Arthur*, 64.

<sup>170</sup> Judith Kovacs a Christopher Rowland, *Revelation: The Apocalypse of Jesus Christ* (Malden, MA: Blackwell Publishing, 2004), 177.

<sup>171</sup> Catrin Haf Williams, *Llyfr Datguddiad* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2002), 110-11.

yma [yn Datguddiad 17] wrth-ddelwedd ohoni fel putain anllad a meddw, er mwyn dryllio ei chyfaredd a'i swyn ar genhedloedd y byd.<sup>172</sup>

Roedd dinas ac Ymerodraeth Babilon yn hen elyn i Dduw. Fel y sylwyd eisoes, Babilon a goncrodd Jerwsalem (587 CC), ei milwyr a ddifrododd y Deml a chaethgludo cyfran o'r Iddewon o'u mamwlad. Hyd yn oed wedi datganiad rhyddid Cyrus (537 CC), parhaodd 'Babilon' i fod yn symbol o ormes. Gellir yn hawdd weld sut y buasai hyn wedi taro nodyn gyda'r diddymwyr wrth iddynt weld aelodau o'r gymdeithas yn pleidio caethwasiaeth yn hytrach na deddfau dyngarol Duw a dysgeidiaeth Iesu. Roedd caethwasiaeth a'i helw bydol mor gyferbyniol i'r deddfau dwyfol. Yn ôl Ben Witherington III, mae'n naturiol, felly, ddehongli'r wraig hon fel y ddinas anghristnogol ac eilunaddolgar, y bwystfil fel yr Ymerodraeth Rufeinig, ei saith ben fel y mynyddoedd y mae dinas Rhufain wedi'i chodi arnynt, a deg corn y bwystfil fel arweinwyr yr Ymerodraeth.<sup>173</sup>

Nodir yn ogystal fod gan y wraig gwpan aur 'yn llawn o ffeidd-dra ac aflendid ei phuteindra hi' (Datg. 17:5). Dylid deall yr enw 'putain' a'r berfenw 'puteinio' yn y bennod hon yng ngoleuni Hosea 4:12-14 a thestunau tebyg, fel anffyddlondeb ac eilunaddoliaeth.<sup>174</sup> Yr awgrym a geir, felly, yw fod y bobl wedi cefnu ar Dduw ac wedi ymroi i serchiadau daearol putain fawr Babilon.<sup>175</sup>

Fel y disgwylid, mae'r butain fawr a'r bwystfil wedi cael eu dehongli mewn amryw ffyrdd ar hyd y canrifoedd. Y dehongliad clasurol oedd mai Rhufain a'i hymerawdwyr a ddarlunnid. Cymerai eraill mai tynged Jerwsalem a ddisgrifid am i'r ddinas golli golwg o'r dwyfol. A chyda gwawr y Diwygiad Protestannaidd, buan y daeth llawer i gredu mai cyfeiriad at y babaeth a'r Eglwys Gatholig oedd yr hyn a geir yn Datguddiad 17.<sup>176</sup> Yn wir, roedd y syniad fod y butain fawr yn cynrychioli'r 'Eglwys Babyddol', ac felly'n tarddu o'r Ymerodraeth Rufeinig, yn boblogaidd iawn ymysg ysgolheigion Beiblaidd Cymraeg hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un sy'n enghreifftio hyn yw David Morgan yn ei esboniad ar lyfr y Datguddiad:

---

<sup>172</sup> Ibid.

<sup>173</sup> Ben Witherington III, *Revelation* (Cambridge, MA: Cambridge University Press, 2003), 216-25.

<sup>174</sup> Er enghraifft, Ex. 31:15-16; Deut. 31:16; Barn. 2:17; 1 Cron. 5:25; Esec. 16:15-26, 28-34; Jer. 2:18-20. Am drafodaeth fanylach, gweler Moshe Halbertal ac Avishi Margalit, *Idolatry* (cyfieithiad gan Naomi Goldburn; Cambridge, MA a London: Harvard University Press, 1992).

<sup>175</sup> David E. Aune, *Word Biblical Commentary: Revelation 17-22* (Nashville, TN: T. Nelson, 1998), 937.

<sup>176</sup> Kovacs a Rowland, *Revelation*, 178-88.

Dywedir yma ei bod yn *butain fawr*—er dangos echryslonrwydd ei phechod, helaethrwydd yr effeithiau a darddent oddiwrthi, a mawredd ei dylanwad drwy ei phuteindra. [...] Mae yn amlwg mai yr eglwys Babaid a olygir wrth y butain fawr hon; oblegid pwy erioed a allodd ddwyn mwy o'r teulu dynol i'w chynnal na hi?<sup>177</sup>

Yr hyn sy'n arwyddocaol i'r drafodaeth bresennol yw fod tystiolaeth i lyfr y Datguddiad gael ei ddefnyddio i feirniadu'r gaethfasnach. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai diddymwyr, fel y Parch. Uzaiiah C. Burnap, yn cyfeirio at adrannau megis Datguddiad 18:3 fel tystiolaeth i gondemnio caethwasiaeth a'r gaethfasnach yn yr Unol Daleithiau.<sup>178</sup>

Nid rhyfedd, felly, i Harris fod wedi defnyddio llyfr y Datguddiad a chymryd fod gan bob oes ei 'Babilon', sef y 'trachwant, y moethusrwydd a'r plaser sy'n denu dynion oddi wrth Dduw ac egwyddorion dyngarol; y pethau sy'n addo cymaint ond yn cyflawni cyn lleied.'<sup>179</sup> A dyna a welir yn y 'Weledigaeth'. Defnyddiodd Harris y math yma o ddehongliad alegoriol er mwyn pwysleisio drygedd y drefn gaeth mewn modd nid annhebyg i destunau a gyhoeddwyd mewn cyfnodolion gwrth-gaethiwol Saesneg America. Er enghraifft, ymddangosodd emyn a oedd i'w ganu mewn cyfarfodydd gwrth-gaethiwol yn *The Liberator*, 1 Mawrth 1844, yn darlunio caethwasiaeth fel merch aflan Babilon: 'She is Babylon's foul daughter.'<sup>180</sup>

Gyda hyn, cyfeiria'r Dyngarwr at y Bendefiges rodresgar (putain fawr Babilon) wrth ei henw priodol, sef 'Caethwasanaeth', ac yn yr un modd ag y mae'r angel yn llyfr y

---

<sup>177</sup> David Morgan, *Esboniad ar y Datguddiad, a chymaint o Lyfr Daniel a fernir sydd yn dal perthynas a'r amseroedd hyn; mewn amryw ddarlithoedd* (Dolgellau: Evan Jones, Heol Meurig, 1844), 318. Pwyslais yn y gwreiddiol. Ceir hefyd ar dudalen 321 feirniadu'r Eglwys Gatholig am ei bod wedi llwyddo ac yn parhau i rwydo dynion i'w chorlan a'u 'caethiwo' yno: 'Yr ail enw [ar dalcen y butain] ydyw *BABILON FAWR*, mewn cyfeiriad at yr hen Babilon gynt yn Caldea, lle bu Israel mewn caethiwed. Onid gormes a chaethiwed ydyw prif nod y Babilon ysbrydol hon? Ped ammheuid hyn, ni byddai raid i ni ond coffâu ei chyfreithiau a'i chanonau gormesol a chaethiwus trwy yr holl oesau. Ymffrostia yn hyn hyd y dydd heddyw, ei bod yn medru cadw ei deiliaid oll mewn cydymffurfiad yn mhob lle trwy ei chyfreithiau gorthrymus, lle bynag y ceir neb am rwymo dynion i gydymffurfiad allanol trwy gredoau, canonau, cyfreithiau, ac awdurdodau dynol, y mae yno Babilon fawr yn ei heffaith[.]'

<sup>178</sup> 'John describes in Revelations, that among the things that he saw which defiled the Church of God, were multitudes of slaves and souls of men. Ev. 18, 13.' L. W. Schribner, *Review of the Rev. U. C. Burnap's Sermon on Bible Servitude* (Lowell, MA: J. G. Pillsbury, 1844), 23.

<sup>179</sup> Williams, *Llyfr Datguddiad*, 112.

<sup>180</sup> 'D. S. W.', 'Hymn', *The Liberator* (1 March 1844). Enghreifftiau eraill o destunau sy'n cyfuno caethwasiaeth â Babilon mewn cyfnodolion di-Gymraeg yw, E. Davies, 'American Slavery', *The North Star* (6 July 1849), lle ceir yn nhrydydd pennill y gerdd, 'Thy red Babylon shall fall' (pwyslais yn y gwreiddiol), ac 'Anti-Slavery Convention', *The Liberator* (1 March 1844), lle trafodir drygedd y gyfundrefn, 'the stealing, selling and buying of the bodies and souls of men, women and children, was what characterized Babylon, the mother of harlots'.

Datguddiad yn esbonio arwyddocâd y symbolau dirgel a wêl 'Ioan', felly hefyd a wna'r Dyngarwr:

ei "gwisg ysgarlad" a ddynoda ei syched am waed; ei "llygaid cochion" a arddangosant ei meddwod; "lliw ei chroen" a brofa boethder yr hinsawdd lle y preswylia; ei hedrychiad "sarug a dychrynadwy" a dystia ei hamddifadrwydd o deimlad dynol; y "fflangell a haiarn nodi yn ei llaw aswy" a arwyddant greulondeb ei llywodraeth; y "gwin yn y cwpan aur yn ei llaw ddeheu" oedd waed yr *Ethiopia* tlawd.<sup>181</sup>

Mae'r drafodaeth fanwl am y Bendefiges rodresgar yn hynod effeithiol yn y rhan hon. Gan fod y caeth yn y taleithiau deheuol eisoes wedi'i alw'n 'frawd' i'r traethydd, buasai'r syniad fod perthynas iddo'n gorfod llafurio mewn hinsawdd boeth, dioddef cael ei chwipio a chael ei haearn nodi megis anifail, yn sicr wedi cael effaith ar ddarllenwyr.

Mae'r ymadrodd olaf yn y dyfyniad uchod, 'y "gwin yn y cwpan aur yn ei llaw ddeheu"' yn gyfeiriad at lyfr Datguddiad 17:4: 'Yn ei llaw yr oedd ganddi gwpan aur yn llawn o ffeidd-dra ac aflendid ei phuteindra hi.' Caiff y caethion gorthrymedig hyn, felly, eu darlunio fel pobl Dduw, yn yr un modd ag y mae 'Caethwasanaeth' yn cynrychioli'r Anghrist.<sup>182</sup>

Yn dilyn hyn, mae'r Dyngarwr yn bwrw'i rwyd yn ehangach i gynnwys yr Unol Daleithiau'n gyffredinol drwy gyfeirio at y llywodraeth; 'Columbia! Columbia! rhyddfreinwyr Columbia a yfodd o win digofaint ei chaethiwed hi!!!'<sup>183</sup> Yn yr un modd ag y meddwod y butain ar waed y saint, felly hefyd y gwnaeth trigolion yr Unol Daleithiau drwy eu difaterwch, yn gadael i'r caethion ddiodeff yn y fath gyflwr. Ceir defnydd cyffelyb o ddisgrifio pobl wedi 'meddwi' ar gaethwasiaeth yn 'Rhyddid a Chaethiwed', erthygl a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Hydref 1848. Yn yr erthygl honno, sy'n gyfieithiad o waith Sterne, datgenir fod pobl wedi 'yfed' caethiwed ar hyd y canrifoedd ond ei fod yn chwerw i gymharu â 'Rhyddid; felus a grasol dduwies'.<sup>184</sup> Bu'r bobl yn euog o feddwi ar gaethwasiaeth ond mynnir y dylent bellach ddilyn y '[dd]uwies brydweddol' honno, Rhyddid.<sup>185</sup> Yn wir, mae'r Dyngarwr yn y 'Weledigaeth' yn gwneud defnydd tebyg o bersonoli drwy briodoli'r bai am gyflwr y caethion i'r '[o]sgorddlû' sy'n dilyn y Bendefiges

---

<sup>181</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

<sup>182</sup> Hunter, *Sons of Arthur*, 65.

<sup>183</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

<sup>184</sup> 'Rhyddid a Chaethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1848), 302.

<sup>185</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

rodresgar, sef pob dinesydd Americanaidd a oedd â'r gallu ganddo i bleidleisio. Roedd gan bob aelod gwrywaidd o'r gymdeithas a oedd o oed cyfreithlon y gallu i newid y drefn, drwy beidio â bwrw eu pleidlais mewn etholiadau arlywyddol dros ymgeiswyr nad oedd yn cefnogi caethwasiaeth, ond hyd yn hyn, nid oeddent wedi gwneud hynny.

Mae'r sylw sy'n cael ei roi'n arbennig i fywyd crefyddol taleithiau'r De hefyd yn ddadlennol. Dywedir bod yna 'gadwyndorch fawr [...] yn canlyn' y Bendefiges rodresgar, a bod 'afiechyd' wedi ymledu 'drwy eglwysi y Talaethau Deheuol'.<sup>186</sup> Cyfeiriad at y ffaith fod llawer o'r caethion yn cael eu gwahardd rhag gweddio a mynychu gwasanaethau ar y Sul yw hwn.<sup>187</sup> Roedd yn bwysig i lawer o'r perchnogion rwystro'u caethion rhag dysgu a meddwl drostynt eu hunain. Drwy atal addysg, ac yn arbennig addysg grefyddol, roeddent yn sicrhau y buasai'r caethion, meddent, 'fel anifeiliaid'. Ar y llaw arall, byddai sawl caethfeistr a gweinidog neu offeiriad yn defnyddio'r Beibl a diwinyddiaeth Gristnogol i gyfiawnhau caethwasiaeth, a dyna arwyddocâd y cyfeiriad at yr 'afiechyd' a oedd wedi ymledu drwy'r eglwysi. Ffordd o geisio atal unrhyw wrthryfela posibl gan y caethion oedd diben y fath reolaeth ideolegol. Ond ni lwyddwyd pob tro. Bu sawl gwrthryfel.<sup>188</sup>

Ceir beirniadaeth wedyn ar strwythurau cyfreithiol yr Unol Daleithiau a'i Chyfansoddiad drwy sôn am 'ei hamrywiol "golofnau marmor"'.<sup>189</sup> Cyfeiriad at y cymal yn Natganiad Annibyniaeth America a oedd fel petai'n cael ei anwybyddu gan bleidwyr caethwasiaeth yw hwn, sef, 'That all men are created equal, that they are endowed by their Creator with certain unalienable Rights, that among these are Life, Liberty, and the pursuit of Happiness.'<sup>190</sup> Erbyn cyfnod cyfansoddi'r 'Weledigaeth', nid oedd caethwasiaeth yn gyfreithlon yn y taleithiau gogleddol, ond roedd y llywodraeth ffederal yn ninas Washington yn parhau i adael i'r taleithiau deheuol gadw'r cyfreithiau hynny a oedd yn caniatáu i'r drefn anfoesol barhau. Roedd y llywodraeth, felly, fel petai'n ei gwrthddweud ei hun: roedd ganddi ei 'hamrywiol golofnau marmor'.

---

<sup>186</sup> Ibid.

<sup>187</sup> Albert J. Raboteau, *Slave Religion: The "Invisible Institution" in the Antebellum South* (New York: Oxford University Press, 2004; argraffiad wedi'i ddiweddarau), 170. Ond fel y dengys y cofnod hwn, ni allai'r meistri lwyddo i rwystro'u caethion rhag gweddio drwy'r amser, a llwyddodd sawl un i 'weddio mewn dirgel'.

<sup>188</sup> Am drafodaeth bellach ynglŷn â gwrthryfeloedd gan y caethion yn ystod y cyfnod cyn y Rhyfel Cartref, gweler, er enghraifft, Eugene D. Genovese, *From Rebellion to Revolution: Afro-American Slave Revolts in the Making of the Modern World* (Baton Rouge, LA: Louisiana State University Press, 1980).

<sup>189</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 15.

<sup>190</sup> *Declaration of Independence: A Transcription*, (4 July, 1776), <<https://www.archives.gov/founding-docs/declaration-transcript>>, (Cyrchwyd 2 Hydref 2016).

Eir ymlaen i drafod sefyllfa'r caethion yn cael eu gwahardd rhag darllen y Beibl yn fanwl: 'Y "Beibl seliedig a'r angel wylofus" a ddynoda omeddiad i'r *negro* droi ei dudalennau cysurlawn'.<sup>191</sup> Dylid nodi fod rhai meistri wedi annog addysg i'w caethion, y meistri hynny a arddelai syniadau 'tadolaeth' (*paternalism*), sef trin eu caethion fel petaent yn deulu estynedig iddynt. Serch hyn, graddol fu datblygiad y fath agwedd a hyd yn oed wedi iddi gydio, byddai'r meistri hynny'n cael eu beirniadu gan eraill a ymlafniai at amddifadu eu caethion o addysg.<sup>192</sup>

Wedi gosod ei farn ar y taleithiau deheuol, y mae'r Dyngarwr yn troi at y Gogledd ac yn galw ar i 'Ddyngarwyr America' weithio er mwyn 'datod [...] seiliau' caethwasiaeth. Mae'r Dyngarwr yn gwbl ffyddiog y bydd hyn yn digwydd ac y bydd 'gwaith llyfr Duw', y ddyletswydd Gristnogol, yn cael ei chyflawni.<sup>193</sup>

Er mwyn cynnau ymateb emosiynol yn y darllenydd, cymherir sefyllfa'r caethion, a 'fu unwaith mor rhydd [â] thithau yn crwydro o'r Niger i'r Nile' yn eu mamwlad gyda'u sefyllfa bresennol yn y 'gaethglud' yn America.<sup>194</sup> Yn y cyd-destun hwn, cyfeirir at gaethwas penodol fel 'un o feibion annhreithiedig Cam'.<sup>195</sup> Mae hyn yn ddefnydd diddorol iawn o'r ymadrodd 'meibion Cham', ac mae'n ddigon posibl mai diben cyfeirio at y caethwas yn y fath fodd oedd er mwyn atgoffa'r Cymry eu bod hwythau'n perthyn i'r Affricaniaid.<sup>196</sup>

Yn dilyn hyn, gwelir y Dyngarwr yn canu pennill o'r gerdd 'Cân y Negro Bach', o eiddo Benjamin Price (Cymro Bach),<sup>197</sup> testun arall a oedd yn boblogaidd ymysg y Cymry bob ochr i'r Iwerydd. Difyr yw gweld fod Harris, a oedd yn fardd medrus ei hun, wedi dewis cynnwys dyfyniad o gerdd Price. Diau iddo wneud hyn oherwydd bod y testun yn un poblogaidd ac yn ffordd o ddangos arwyddocâd llenyddiaeth wrth-gaethiwol drawsatlantig.<sup>198</sup>

---

<sup>191</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 14.

<sup>192</sup> Gweler Lacy K. Ford, *Deliver us from Evil: The Slavery Question in the Old South* (Oxford: Oxford University Press, 2009) am ymdriniaeth ddiddorol â phwnc tadolaeth. Trafodir hanes datblygiad ac amcanion y mudiad, a'r feirniadaeth a fu arni.

<sup>193</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 15.

<sup>194</sup> Ibid.

<sup>195</sup> Ibid.

<sup>196</sup> Gweler Pennod 1 uchod am drafodaeth bellach.

<sup>197</sup> Gweinidog gyda'r Bedyddwyr o Flaenau Gwent oedd Benjamin Price (1792-1854). Am arwyddocâd y gerdd hon a chân arall ddylanwadol o'r enw 'Cwynion Yamba, Y Gaethes Ddu' gan y gweinidog Annibynnol o Lanbryn-mair, Samuel Roberts (1800-1858), gweler dwy erthygl gyfoethog gan E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin* 119 (Haf 2003), 37-60; 'Welsh Ballads and American Slavery', *The Welsh Journal of Religious History*, 2 (2007), 59-86. Gweler hefyd y drafodaeth ym Mhennod 4 isod.

<sup>198</sup> Testun arall hynod boblogaidd bob ochr i'r Iwerydd oedd nofel Harriet Beecher Stowe, *Uncle Tom's Cabin*. Cyhoeddwyd y nofel yn wreiddiol fesul pennod yn *The National Era* rhwng 1851 a 1852 ac wedyn fel llyfr. Cyhoeddodd *Y Cenhadwr Americanaidd* a'r *Cyfaill o'r Hen Wlad* gyfieithiad

Yn ogystal, mae'n bosibl i Harris ddyfynnu'r gerdd hon er mwyn cysylltu'i destun newydd â ffrwd wrth-gaethiwol gyfarwydd, a chyda hynny geisio ymbellhau oddi wrth brif gymeriad y 'Weledigaeth'; cymeriad ffuglennol yw'r traethydd, nid Harris ei hun:

Ai gwir a glywodd Negro tlawd  
Fod plentyn Cymro iddo 'n frawd,  
'R un gwaed a chnawd ein dau?  
Beth! brawd yn 'r Americ deg ei dawn,  
I un sydd gaethwas cyfyng iawn.  
Heb wel'd prydawn rhyddhau.<sup>199</sup>

Drachefn, pwysleisia'r pennill y gred sylfaenol fod dynoliaeth gyfan yn tarddu o Eden, ac felly, fod dyletswydd ar y traethydd a'r darlennydd fel Cymry, Cristnogion, a bodau dynol i weithredu dros y caethion, eu 'brodyr'.<sup>200</sup>

Gyda'r pennill hwnnw wedi'i ganu, y mae'r Dyngarwr yn diflannu ac mae'r Bardd Cwsg Americanaidd yn deffro ar lan yr Afon Ddu. Wedi iddo ddadebru o'r freuddwyd alegoriol, mae'r traethydd yn crisialu un o brif negeseuon y 'Weledigaeth', sef y bobl sy'n gyfrifol am barhad y gyfundrefn gaethiwus, gan mai hwy fyddai'n bwrw eu pleidleisiau dros yr ymgeiswyr arlywyddol a goledda daliadau caeth-bleidiol. Yna, geilw ar i 'Feibion Gwalia' sicrhau na fydd un o'u plith yn cefnogi 'Hudoles' y taleithiau deheuol, ac apelia at y Cymry drwy gyfeirio at ddigwyddiad yn eu hanes, pan wnaed eu cyndeidiau'n gaethion, a'u rhoi 'ar werth yn marchnadoedd Rhufain'.<sup>201</sup> Dyma eto, efallai, gyfeirio at gysyniad y butain fawr, gan mai'r dehongliad clasurol, fel y gwelwyd uchod, oedd mai symbol o Rufain ydoedd, ac felly'n gyferbyniol i'r dwyfol.

Mae'r darn o ryddiaith greadigol yn cloi gydag un alwad derfynol ar i bob 'dyngarwr [fod yn] aiddgar i ddefnyddio ei ddylanwad i ddryllio cadwynau Caethwasanaeth.'<sup>202</sup>

---

fesul pennod o Ionawr 1853 ymlaen, ac ym 1854 cyhoeddodd Robert Everett ei gyfieithiad o'r nofel fel llyfr. Am ragor o fanylion ynglŷn â'r gwahanol gyfieithiadau a fersiynau *Uncle Tom's Cabin*, gweler, er enghraifft, Melinda Gray, "Uncle Tom's Welsh Dress: Ethnicity, Authority and Translation" yn Aliyce von Rothkirch a Daniel G. Williams (goln), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), 173-85.

<sup>199</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 15. Cyhoeddwyd 'Cân y Negro Bach' mewn nifer o gyfnodolion eraill, er enghraifft: *Greal y Bedyddwyr* (Rhagfyr 1830), *Seren Gomer* (Rhagfyr 1830), 369-70, *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1839), 336 a'r *Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1861), 462. Roedd fersiynau'r gerdd a gyhoeddwyd yn America'n amrywio mymryn i'r fersiynau a gyhoeddwyd yng Nghymru gan adlewyrchu'r gwahaniaeth daearyddol.

<sup>200</sup> Atgyfnerthir hyn gan fod trydedd linell y pennill yn atgoffaol o Job 31:15: 'Onid efe a'n gwnaeth ni'n dau yn y groth, a'n creu yn y bru?'

<sup>201</sup> Harris, 'Gweledigaeth', 15.

<sup>202</sup> Ibid.

## Casgliad

Diben y bennod hon oedd ystyried y modd y dehonglai Cymry America'r Gaethglud ym Mabilon fel digwyddiad hanesyddol ac fel cysyniad ag iddo gyfatebiaethau â'r sefyllfa gyfoes yn yr Unol Daleithiau.

Gwelwyd y modd yr ystyriai'r Cymry hyn, yn unol â chonfensiwn syniadaethol cryfaf yr oes, i'r Gaethglud fod yn ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol a berodd i Jwda golli'i thrigolion ac i'r Iddewon ddiodeff yn ei sgil. Serch hynny, bu anghytuno ynghylch union ddyddiadau'r caethgludiadau i Fabilon ac, yn wir, ynghylch nifer y caethgludiadau.

Mewn modd nid annhebyg i awduron Saesneg America, dygodd y Cymry gymhariaeth rhwng enghreifftiau o gaethiwed yn hanes yr Iddewon â'r 'gaethglud' yn America, gan gasglu mai'r sefyllfa Americanaidd oedd y mwyaf gorthrymus o'i bath.

Yn y cyswllt hwn, trafodwyd y defnydd creadigol a wnaed o'r Gaethglud. Ystyriwyd y modd y'i defnyddid gan rai i chwyddo trallod y sawl a oedd mewn caethiwed, yn ogystal â'r modd y priodolid y term 'caethglud' ar gyfer sefyllfa'r Affricaniaid a oedd yn gaethion yn yr Unol Daleithiau.

Roedd defnyddio'r Gaethglud hefyd yn fodd i drafod gwleidyddiaeth America, gan fod hanes caethwasiaeth America'n ymdebygu i hanes Babilon; bu i'r naill a'r llall gipio trigolion o'u mamwlad a'u trawsblannu mewn gwlad newydd ag iaith a diwylliant tra gwahanol. Yr unig wahaniaeth, meddai'r awduron, oedd bod caethglud America'n llawer mwy gorthrymus na'r hyn a brofodd yr Iddewon ym Mabilon. O'r herwydd, dylai trigolion America bleidleisio dros yr ymgeiswyr arlywyddol a wrthwynebai gaethwasiaeth er mwyn dod â 'rhyddid' i'r 'gaethglud fawr'. Roedd defnyddio'r Gaethglud yng nghyd-destun moeseg a gwleidyddiaeth yn fodd i ddod â nifer o ddisgyrsiau am gaethwasiaeth ynghyd mewn testunau cyfoethog a fuasai'n siŵr o fod wedi procio cydwybod y darllenwyr.

Trafodwyd, yn ogystal, y modd y dehonglodd y Cymry Americanaidd 'Fabilon' fel y ddinas y dygwyd yr Iddewon iddi, yr ymerodraeth ysblennydd a gwmpodd, ac fel hanfod pob drygioni ar y ddaear. Gwelwyd, hefyd, y modd y cafodd ei dehongli yng nghyd-destun caethwasiaeth ac ystyriwyd hyn yn arbennig mewn un darn o ryddiaith greadigol, sef 'Gweledigaeth'. Roedd defnyddio'r egwyddor dyngarwch fel prif gymeriad yn effeithiol, gan mai dyna un o elfennau craidd Cristnogaeth. A chan fod y Dyngarwr yn gwrthwynebu Caethwasiaeth, yr awgrym a geir yw bod Cristnogaeth hefyd yn gwrthwynebu'r gyfundrefn



honno. Ystyrir hyn ymhellach yn y bennod nesaf wrth archwilio'r modd y trafodid Iesu, y Testament Newydd a chaethwasiaeth America ar yr un gwynt yn y cyfnodolion.

## Pennod 4

### ‘Hyn ydyw crefydd Crist’<sup>1</sup>

#### Dysgeidiaeth Iesu a’r caethion cyfoes

Gallai’r caeth-bleidwyr a oedd am ganfod sêl bendith ddwyfol ar gaethwasiaeth gyfeirio at yr Hen Destament a’r Testament Newydd, a chanfod myrdd o destunau i ddangos bod y Beibl yn bleidiol i’r arfer honno o gadw unigolion dan iau eraill.<sup>2</sup> Dadleuent fod gan y patriarchiaid gaethion, bod cyfraith Moses yn gofalu am y modd y dylid trin caethion,<sup>3</sup> ac o droi at y Testament Newydd, nodai’r caeth-bleidwyr na fu i Iesu, hyd y gwyddys, lefaru’r un gair beirniadol am yr arfer o gaethiwo pobl, a bod yn y corpws Paulaiddestunau’n datgan y modd y dylai perthynas rhwng meistr a’i gaethwas fod.

Pan ystyrid ffigwr pwysicaf y Testament Newydd yn arbennig, byddai caeth-bleidwyr yn cyfeirio’n fynych at ddistawrwydd Iesu ynghylch y mater, ac yn ei gymryd fel arwydd i’r Meseia dderbyn y gyfundrefn. Fel y dywedodd un o ladmeryddion y gaethfasnach Americanaidd, John Henry Hopkins, esgob Vermont:

while [Jesus] thus rebukes the sins of all around him, and speaks with divine authority, he proclaims himself the special friend and patron of the poor [...] Yet he lived in the midst of slavery [...] and uttered not one word against it!<sup>4</sup>

Nodir yn yr Efengylau i Iesu ddod ar draws ‘caethion’,<sup>5</sup> iddo ddefnyddio delwedd y caethwas a’r meistr yn ei ddamhegion er mwyn cyfleu’r berthynas rhwng Cristion a Duw, y meistr yn y nef, ac iddo ddefnyddio cysyniad caethwasiaeth fel modd i ddarbwylllo credinwyr

---

<sup>1</sup> T. Edwards, ‘C[â]n am Ryddid’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 144.

<sup>2</sup> John Bright, *The Authority of the Old Testament* (London: SCM Press, 1967), 49-50; E. W. Davies, ‘Awdurdod y Beibl’, *Diwinyddiaeth* rhif XXXIX (1988), 28-9.

<sup>3</sup> Gweler Pennod 2 uchod.

<sup>4</sup> John Henry Hopkins, *A Scriptural, Ecclesiastical, and Historical View of Slavery, from the Days of the Patriarch Abraham, to the Nineteenth Century. Addressed to the Right Rev. Alonzo Potter, D.D., Bishop of the Prot. Episcopal Church, in the Diocese of Pennsylvania* (New York: W. I. Pooley & Co., 1864), 15.

<sup>5</sup> Er enghraifft, ‘gwas’ (δοῦλος) yr archoffeiriad yn Marc 14:47, a ‘gwas’ y canwriad yn Math. 8:5-13 (παῖς); Luc 7:1-10 (δοῦλος); In. 4:46-54. Dylid nodi, fodd bynnag, y defnyddir termau gwahanol yn y tair Efengyl i gyfeirio at yr un dan ofal y canwriad y mae Iesu i’w iacháu. Defnyddir παῖς yn Mathew a δοῦλος yn Luc, tra defnyddir υἱὸς yn Ioan. Gall παῖς gyfeirio at blentyn, ‘caethwas’, neu at gariad ifanc, a gall δοῦλος ddynodi ‘caethwas’, neu’n syml, ‘gwas’. Yn wahanol i’r Efengylau Cyfolwg, dywedir yn Ioan mai ‘mab’ y canwriad a iacheir gan Iesu. Gweler trafodaeth ddifyr gan Jennifer A. Glancy, *Slavery as a Moral Problem: In the Early Church and Today* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2011), 10-11.

ei bod yn fwy llesol iddynt fod yn ‘gaethion’ i Dduw yn hytrach na ‘chaethion’ i bechod.<sup>6</sup> Gan fod deunydd digonol gan y caeth-bleidwyr, sut allai’r gwrth-gaethiwyd fod wedi ymateb?

Bu’n rhaid i’r gwrth-gaethiwyd addasu eu strategaeth yn sylweddol wrth iddynt droi at y Testament Newydd am gyfarwyddyd parthed caethwasiaeth. Wedi arddel nifer o ddulliau amrywiol,<sup>7</sup> datblygodd y diddymwyr strategaeth newydd, lai llythrennol o drin y testun Beiblaidd. Gan eu bod yn coleddu agwedd ryddfrydol a nodweddiad gan ddelfrydau democrataidd am hawliau cyfartal, apeliai’r diddymwyr at yr egwyddorion egalitariaidd a ganfyddir yn y Beibl. Ac erbyn y cyfnod dan sylw yn yr astudiaeth hon, roedd dull Beiblaidd y diddymwyr o feirniadu caethwasiaeth wedi datblygu i fod yn un a bwysleisiai egwyddorion penodol, yn arbennig o’r Testament Newydd, a fuasai’n tanlinellu anfoesoldeb caethwasiaeth. I’r diddymwr Cristnogol, nid oedd caethwasiaeth – y system a gadwai unigolion mewn caethiwed er mwyn elw a llafur rhad – yn gydnaws â’r efengyl, â’i phwyslais ar frawdgarwch a chydraddoldeb. Fel y dywed Mark A. Noll, ‘Once established, this principled approach to Scripture became the staple of abolitionism.’<sup>8</sup>

Ond i ba raddau y gellir dweud fod y math hwn o ddehongliad ysgrythurol yn nodweddu gwrth-gaethiwyd Cymraeg America yn ogystal?

Os bu cryn newid yn strategaeth dehongliadau Beiblaidd y gwrth-gaethiwyd Saesneg o’r 1830au ymlaen – o fod yn un llythrennol, a roddai bwys ar destunau unigol yr Ysgrythur i un mwy cysyniadol, a ddibynnai ar ganfod ‘ysbryd yr efengyl’ – ni chafwyd newid i’r fath raddau ymysg Cymry America. Diau iddynt hwythau ddefnyddio cysyniadau o’r fath a phwysleisio egwyddorion a nodweddiad ysbryd yr efengyl ond, fel y gwelir maes o law, parhâi’r Cymry i ddefnyddio adnodau a thestunau Beiblaidd unigol hefyd. Yn wir, bu’r cyfuniad o’r ddeubeth yn nodweddiadol o’r ymdrech wrth-gaethiwol Gymraeg Americanaidd drwy gydol y cyfnod dan sylw. Ond sut oeddent wedi ymateb i’r honiad fod Iesu o blaid caethwasiaeth, gan nad oedd modd apelio at unrhyw destun penodol a dystiai i’r gwrthwyneb?

---

<sup>6</sup> Er enghraifft, Math. 11:30; 20:26-27; Marc 10:43-44; Luc 12:42; 16:1-13; 22:26; In. 8:34-35). Gweler ymhellach, e.e., Jennifer A. Glancy, *Slavery in Christianity* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006), 127-9.

<sup>7</sup> Er enghraifft, bu cyfnod pan geisiwyd esbonio mai’r rheswm na chafwyd condemniad uniongyrchol o gaethwasiaeth gan Iesu, a braidd ddim gan Paul a’r apostolion, oedd oherwydd damcaniaeth yr ‘hedyn yn egino’n dawel’ (the seed growing secretly). Plannwyd hedyn diddymiaeth yn nysgeidiaeth Iesu, fe’i dyfriwyd gan yr apostolion a’r Cristnogion dilynol, yn barod erbyn cyfnod diweddarach, pan wrthwynebid caethiwed. Gweler, e.e., Halvor Moxnes, *A Short History of the New Testament* (London: I. B. Tauris, 2014), 151-4.

<sup>8</sup> Mark A. Noll, *The Civil War as a Theological Crisis* (Chapel Hill, NC: The University of North Carolina Press, 2006), 41.

## Gras Ein Harglwydd Iesu Grist

Elai Crist ar ebol asyn,  
Clywaf s[ô]n, i wel'd cardotyn,  
Nid oes s[ô]n am Grist yn prynu  
Neb yn gaethion i'w was'naethu.<sup>9</sup>

Yn yr un modd â'r dyfyniad uchod o gerdd Daniel Ddu o Geredigion, 'Cwyn y Caethwas', pwysleisiai Cymry America'n aml fod caethwasiaeth yn anfoesol am nad oedd Iesu wedi dweud na gwneud unrhyw beth i arwyddo cefnogaeth ddiamheuol i'r cyflwr hwnnw. Mae'n wir na lefarodd Iesu air o gondemniad am gaethwasiaeth, ond fel y nodir yn y pennill uchod, nid oes cofnod iddo ychwaith fod yn berchen ar gaethion. O'r herwydd, ac o gofio'r holl wersi a bregethodd Iesu ar sail cariad, cydraddoldeb a chyfiawnder, credai'r Cymry gwrth-gaethiwol fod Iesu yn wrth-gaethiwr,<sup>10</sup> a'i fod yn esiampl y dylid ei hefelychu. Yng ngeiriau J. Thomas, Philadelphia:

[am] iddo *wneuthur daioni*—iddo *wneuthur pob peth* yn dda ac yn deilwng o efelychiad; oblegid efe a roddodd i ni esiampl—*berffaith esiampl*—fel y canlynem ar ei [ô] ef mewn pob dyledswydd grefyddol a moesol[.]<sup>11</sup>

Ynghyd â bod yn ysbrydoliaeth i'r gwrth-gaethiwr, apeliai Iesu'r Testament Newydd at feddwl a dychymyg rhai o'r caethion eu hunain fel un a gynrychiolai obaith ac a roddai gysur iddynt. Gwelir hyn mewn nifer o'u caneuon ysbrydol,<sup>12</sup> a difyr yw nodi y ceir caneuon cyffelyb yn y wasg Gymraeg yn ogystal, wrth i feirdd ganu am gyflwr y caethion yn y person cyntaf. Enghraifft ddiddorol o hyn yw 'Cwyn y Caeth' gan Mary Jones o Floyd. Yn y gerdd honno, clywir y caeth yn galaru ei fod wedi'i gadw 'mewn gwlad rydd' yn erbyn ei ewyllys, a chasgla mai'r prif reswm am ei gyflwr yw oherwydd daliadau hiliol yr oes; ailadroddir y rheswm hwnnw, 'am fod fy nghroen yn ddu', ar ddiwedd pob pennill.

---

<sup>9</sup> Daniel Ddu o Geredigion, 'Cwyn y Caethwas', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1846), 368; cyflwynedig gan 'Abdill Glan Ohio'.

<sup>10</sup> Nododd y Parch. William Rowlands, pe buasai trigolion America'n ystyried yn ddwys sefyllfa'r caethion, y troent 'yn wrthgaethiwy[r] ar unwaith, fel ag yr oedd y *Proffwydi* a'r *Apostolion*, ac y mae ein Harglwydd Iesu a Duw Dad.' John Howes, "'Chwedl Effeithiol" *A draddodwyd gan y Parch. Wm. Rowlands*', *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 5. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>11</sup> J. Thomas, 'Buchwedd Iesu', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1846), 4. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>12</sup> Gweler, e.e., Albert J. Raboteau, *Slave Religion: The "Invisible Institution" in the Antebellum South* (New York: Oxford University Press, 2004; argraffiad wedi'i ddiweddarau), 248-9; Lawrence W. Levine, *Black Culture and Black Consciousness: Afro-American Folk Thought from Slavery to Freedom* (Oxford: Oxford University Press, 2007; argraffiad 30 mlwyddiant), 30-55.

Difyr yw nodi y cyfeirir at Iesu yn yr ail bennill a'i gyferbynnu'n llwyr â'r meistri gwynion:

Y caeth yn gwaeddi arbed  
Y fflangell ar fy nghnawd;  
Nid oes ond Iesu'n unig  
All fod yn ffyddlon frawd[.]<sup>13</sup>

Gellid awgrymu bod datgan mai'r Iesu'n unig a oedd yn 'frawd' i'r caethion yn fodd o herio'r Cymry Cristnogol i weithredu'n daerach. O ymateb yn y fath fodd, dangosent eu bod yn ganlynwyr Crist o'r iawn ryw, a thrwy efelychu esiampl Mab y Dyn, deuent yn 'ffyddlon' frodyr a chwiorydd i'r caethion. Yn y cyswllt hwn, ceir Mary Jones yn nodi y teilynga'r caethion eu rhyddid oherwydd eu bod hwythau wedi eu 'hachub' gan aberth Crist:

Yn wir mewn creadigaeth,  
Yr oedd y dyn yn hardd;  
Cyn iddo ef droseddu,  
Pan rodiai yn yr ardd;  
Ond er ei gwypm arswydol,  
Caed gwaed y Ceidwad cu,  
Yn hwn mae rhîn digonol  
I olchi'r Ethiop du.<sup>14</sup>

Gwnaeth aberth Iesu iawn am y Cwypm, ond nid yw'r caethion hyd yn hyn wedi cael mwynhau'r 'rhîn digonol' cysylltiedig. Cyfeiriad at y ffaith fod cynifer o gaethion yn cael eu hamddifadu o ddarllen y Beibl yw hwn. Pasiwyd cyfreithiau mewn amryw daleithiau a waharddai gaethion rhag dysgu darllen ac a gosbai unrhyw un a fyddai'n mentro'u haddysgu. Pe câi'r caethion brofi holl fuddiannau aberth 'y Ceidwad cu', meddai Mary Jones, fe'u hymolchid yn ysbrydol a'u galluogi i fyw fel gwir Gristnogion.

Diddorol yw sylwi i'r bardd ddefnyddio delweddaeth a oedd yn nodweddiadol o nifer o emynau Cymraeg mawr yr oes wrth drafod cyflwr y caethion. Yn 'Ai am fy meiau i', gan John Elias, er enghraifft, ceir y cwpled, 'A'i waed a ylch yr Ethiop du / Yn lân fel eira gwyn',<sup>15</sup> ac yng nghanu William Williams, Pantycelyn, ceir llinellau megis 'Golchi'r aflan, cannu'r Ethiop, / Gwneud yr euog brwnt yn lân.'<sup>16</sup> Defnyddir 'Ethiop' a'r lliw du yn yr

---

<sup>13</sup> Mary Jones, 'Cwyn y Caeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1856), 387.

<sup>14</sup> *Ibid.*

<sup>15</sup> E. Wyn James, *Dechrau Canu: Rhai Emynau Mawr a'u Cefndir* (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Efengylaidd Cymru, 1993), 30.

<sup>16</sup> 'Tyred, Iesu, i'r anialwch', *Llyfr Emynau'r Methodistiaid Calfinaidd a Wesleiaidd* (London: Cymanfaoedd y Ddwy Eglwys, 1927), 414.

enghreifftiau hyn mewn modd negyddol. Yn yr Oesoedd Canol, ceid rhywbeth cyffelyb wrth i nifer o esbonwyr ddehongli Caniadau Solomon 1:5-6, er enghraifft, fel arwydd o ddrygioni cynhenid pobl dduon, ac o'r statws iselradd a ordeinwyd iddynt gan Dduw.<sup>17</sup> Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad ystyriaethau ethnig yn y cyswllt negyddol hwn fyddai flaenaf ym meddwl Mary Jones, na'r emynwyr a nodwyd wrth iddynt gyfeirio at yr 'Ethiop du', fel y dywed E. Wyn James.<sup>18</sup> Yr hyn a fynegir, yn hytrach, yw cyflwr negyddol byw mewn pechod, ynghyd ag anwybodaeth yn achos y caethion, a'u hawl am lanhad ysbrydol. Ond fe ellid dadlau bod ergyd y ddelweddaeth hon i'w chael yn y modd y cyfunid dŵch pechod ar lefel ystyr, a hefyd ar lefel weledol-lythrennol, gan fod croen yr Ethiop yn 'ddu'. Fodd bynnag, yr hyn a bwysleisir gan Griffiths yw hyd nes y deuai dydd eu hymwared, pan gaent brofi effeithiau aberth Crist, parhau i ddyheu am ryddid – corfforol ac ysbrydol – a wna'r caethion.

## **Y Rheol Aur a Chariad**

Un o'r cysyniadau a ddefnyddid amlaf gan ddiddymwyr yr Unol Daleithiau i brofi fod caethwasiaeth yn anghristnogol oedd y Rheol Aur, sef y ddysgeidiaeth, 'Pa beth bynnag y dymunwch i eraill ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy' (Math. 7:12; cf. Luc 6:31). Gan na fyddai unrhyw un yn dymuno bod yn gaeth i rywun arall, roedd y Rheol Aur yn tanseilio hanfod caethwasiaeth; fel y dywedodd y diddymwr George Bourne:

It is impossible for any person to practice human slavery an hour without violating the law of Love, the Golden Rule, and the numerous other similar precepts that abound in the Scriptures, as much so as if he practised murder and other crimes, as every one would acknowledge were he himself enslaved, and as the slightest critical reflection will demonstrate. Thus it is impossible for any slave holder or other person engaged in the support of slavery not to violate the precepts found in such passages as Lev. xix. 13; Deut. xxiv. 14, 15; Mal. iii. 5; Mark x. 19; 1 Thes. iv. 6, &c.<sup>19</sup>

Fel y gwyddys, y Rheol Aur yw un o'r nodweddion sylfaenol a ddiffinia Gristnogaeth. Gan fod iddi wedd ddyngarol gref a'i bod yn ymddangos ym Mathew 7:12 fel crynodeb o holl agweddau moesegol y Bregeth ar y Mynydd,<sup>20</sup> yn ogystal â hanfod yr Hen

---

<sup>17</sup> Adrian Thatcher, *Savage Text: The Use and Abuse of the Bible* (Chichester: Wiley-Blackwell, 2008), 45.

<sup>18</sup> E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), 49.

<sup>19</sup> George Bourne, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument; By a Citizen of Virginia* (New York: S. W. Benedict, 1845), 64-5.

<sup>20</sup> Margaret Davies, *Matthew* (Sheffield: JSOT Press, 1993), 65.

Destament, y ‘Gyfraith a’r proffwydi’, nid oes syndod ei fod yn gysyniad a goleddid gan ddiddymwyr America.

Nid oes syndod ychwaith mai’r cysyniad hwn oedd un o’r rhai a grybwyllid amlaf yn y wasg Gymraeg er mwyn gwrth-brofi cyfreithlonrwydd honedig caethwasiaeth. Ar derfyn amryw gyfarfodydd gwrth-gaethiwol, datgenid penderfyniadau’r cymdeithasau ac yn aml iawn, cyfeirid at y Rheol Aur fel un o’r prif resymau dros ymwrthod â’r gyfundrefn gaethiwol.<sup>21</sup> Enghraifft ddiddorol o hyn yw’r ‘Ardystiad’ a basiwyd gan Gymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Palmyra, Swydd Portage, Ohio ym 1842.

Wedi datgan un o nodweddion eraill Cristnogaeth, sef cydraddoldeb – ‘fod y dynion duon, yn teilyngu rhyddid yn gystal [â] dynion gwynion’, ac wedi pwysleisio y dylai’r Cymry fwrw eu pleidlais yn ystod etholiadau arlywyddol ‘o blaid yr achos gwrthgaethiwol’, cyfeirwyd at y Rheol Aur.<sup>22</sup> Ar y pryd, 52 aelod a oedd gan y gymdeithas, a’r argraff a geir o’r ardystiad yw eu bod yn awyddus i gynyddu eu niferoedd er mwyn sicrhau ‘gwaredigaeth’ i’r caethion. Dyna, mae’n debyg, y rheswm dros gyfeirio at Gymry America ar yr un gwynt â thestun Mathew 7:12:

O! Cymry, cenedl ag sydd wedi ei derchafu hyd y nef o ran breintiau, pa hyd y goddefwch y fath ymddygiad barbaraid yn eich ymyl, heb wneyd dim er ei rwystro? Ai bychan yw genych edrych ar gynnifer o’ch cydgreaduraid, pa rai sydd â gweiddiau fel chwithau, yn cael eu darostwng yn gydradd [â]’r anifeiliaid direswm, a’r gyfrol Ddwylfol yn cael ei chadw oddiwrthyt? O! Chwi sydd yn ymenwi ar enw Crist, cofiwch yr hyn a ddywedodd eich Harglwydd bendigedig wrthyh: ‘Am hynny pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw y gyfraith a’r proffwydi.’ Mat. vii. 12.<sup>23</sup>

Mae adeiladwaith y dyfyniad uchod yn ddiddorol ac yn werth craffu arni. Roedd cyfeirio at falchder cenedlaethol y Cymry’n ddyfais ddefnyddiol gan y gwrth-gaethiwr, a hynny er mwyn pwysleisio’r fath fanteision a ddaeth i’w rhan drwy ymfudo i America. Roedd y manteision hynny’n gyferbyniol i’r hyn a brofai’r caethion; felly, byddai creu’r

---

<sup>21</sup> Megis, ‘Cyfarfod Cenedlaethol y Cymry yn Palmyra, Mawrth 2, 1846’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 149.

<sup>22</sup> Thomas B. Thomas, ‘Cymdeithas Wrthgaethiwawl Palmyra, Ohio’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Tachwedd 1842), 343.

<sup>23</sup> Ibid. Diddorol yw nodi nad Iesu Grist oedd y cyntaf i ddatgan yr egwyddor hon. Mae’r Rheol Aur yn perthyn i linach hynafol ac amrywiol iawn, ac i’w chanfod mewn amryw draddodiadau, gan gynnwys Bwdhaeth, Conffiwisiaeth, Iddewiaeth, Soroastriaeth, yn ogystal â gwledydd yr India a Groeg (o gyfnod Herodotus). Gweler John Nolland, *The Gospel of Matthew: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2005), 329; Ulrich Luz, *Matthew 1-7: A Commentary* (Edinburgh: T & T Clark, 2007), 426. Ond diau fod Cymry America’r oes yn credu i’r Rheol Aur fod yn rhan o arloesedd Iesu a’i ddyseidiaeth ddyngarol.

cyferbyniad hwn rhwng y genedl freintiedig a'u 'cydgredduriaid' sy'n byw dan amodau annheg, ac yn cael eu hamddifadu o addysg a chrefydd, yn fodd o brocio cydwybod y darlennydd. Er mwyn ychwanegu at hynny, cyfeirir at grefydd y Cymry. Gan eu bod yn arddel 'enw Crist', dylent felly ymddwyn yn unol â'i ddysgeidiaeth.

Aiff yr ardystiad rhagddo i alw ar i'r Cymry ddychmygu eu hunain yn gaethion yn dyheu am i'r cenedloedd 'rhyddion yn y wlad' eu cynorthwyo. O fod wedi apelio at y darllenwyr fel Cymry a Christnogion, cyfeirir atynt fel dinasyddion Americanaidd, er mwyn trafod y fraint a oedd ynghlwm â'u dinasyddiaeth, sef yr hawl i bleidleisio. Y modd effeithiolaf i gynorthwyo'r caethion yw i'r Cymry ymdrechu i sicrhau newid deddfwriaethol drwy fwrw eu pleidlais er mwyn 'ethol dynion ag fyddo a'u hymdrech yn erbyn caethiwed i swyddi yn y wladwriaeth'. Unwaith y gwneid hynny, 'delai Jubili i'r caethion'.<sup>24</sup>

Gwelwyd pwyslais cyffelyb ar y Rheol Aur ym merw ymgyrch arlywyddol 1856, ymgyrch arwyddocaol yn hanes yr Unol Daleithiau. Yn dilyn digwyddiadau gwladol diweddar, gan gynnwys pasio Deddf Kansas-Nebraska (1854), a sicrhâi mai drwy gyfrwng sofraniaeth boblogaidd y penderfynid a ddylai Kansas gael ei derbyn i'r Undeb fel talaith gaeth neu rydd, a'r holl frwydro gwaedlyd a ddigwyddodd yn ei sgil rhwng y gwrth-gaethiwy'r caeth-bleidwyr, daeth caethwasiaeth yn un o'r materion a oedd flaenaf ar yr agenda gwleidyddol. O ystyried y cyd-destun hwn, nid yw'n syndod i lythyrwr a arddelai'r ffugenw 'Dyngarwr' agor ei epistol, 'Y Pleidiau ar y Maes', yn *Y Drych a'r Gwyllydydd* (11 Hydref 1856) gyda'r geiriau hynod drawiadol, 'Y mae Armageddon yr Etholiad Llywyddol yn y Talaethau Unedig yn agoshau yn gyflym.'<sup>25</sup>

Noda'r 'Dyngarwr' nad pleidiau ac unigolion fel y cyfryw sydd 'ar y maes y dyddiau hyn; ond, yn fwyaf neillduol, egwyddorion yn gwrthwynebu eu gilydd drwy bersonau a phleidiau.'<sup>26</sup> A'r ddwy brif egwyddor a greda'r 'Dyngarwr' sydd ben-ben â'i gilydd yw 'Caethiwed a Rhyddid'. Gan hynny, ac oherwydd bod '[I]lawer' o Gymry America, meddai, yn 'cloffi rhwng dau feddwl' ynglŷn â thros bwy y dylent bleidleisio, teimla'r 'Dyngarwr' fod rheidrwydd arno i ddweud gair yn arbennig am egwyddor 'Caethiwed'.<sup>27</sup>

Deil mai 'un o'r sefydliadau mwyaf gwarthus a enwir' yw caethwasiaeth, yr hyn sy'n groes i'r dwyfol oherwydd ei fod

---

<sup>24</sup> Thomas, 'Cymdeithas Wrthgaethiwawl Palmyra, Ohio', 343.

<sup>25</sup> 'Dyngarwr', 'Y Pleidiau ar y Maes', *Y Drych a'r Gwyllydydd* (11 Hydref 1856), 325.

<sup>26</sup> Ibid.

<sup>27</sup> Ibid.



yn droseddiad o'r ddeddf dragywyddol a osodwyd i ddyn, sef "gwneuthur i ddynion fel yr ewyllysiem i ddynion wneuthur i ninau." Dyma reol wedi ei seilio ar y berthynas sydd rhyngom â dynion fel ein cydgreaduraid; ac nis gall neb, yn meddu gradd o oleuni, lai na chanfod fod caethwasiaeth yn hollol groes i'r rheol euraidd hon.<sup>28</sup>

Er mwyn tanlinellu drygedd caethwasiaeth, ceir cyfres o gwestiynau rhethregol gan y 'Dyngarwr' yn gofyn sut deimlai'r Cymry pe buasant yn 'sefyllfa y negro caeth' yn cael eu hamddifadu o 'dâl neu wobwr'.<sup>29</sup> Gofynna hefyd, sut deimlai'r Cymro Americanaidd pe gwelai 'ei ferch, ei chwaer, neu ei wraig, yn cael eu gwerthu dan y morthwyl i fyned yn eiddo y cynygiwr uchaf, i borthi blys dynion bwystfilaidd, heb obaith eu gweled mwy?'<sup>30</sup> Diau fod cyfeirio at y trais corfforol a rhywiol a ddioddefai benywod dan law eu meistri'n fodd o sicrhau ymateb emosiynol yn y darllenwyr, a hynny'n arbennig, ymysg y Cymry America gwrywaidd dros 21 oed, y sawl a oedd ganddynt y gallu i bleidleisio.

Aiff y 'Dyngarwr' yn ei flaen i ddweud nad oes gobaith i'r Unol Daleithiau barhau yn y cyflwr hwn am yn hir, oherwydd y gwrthdaro rhwng y ddwy egwyddor, ac am fod Duw wedi'i gythruddo:

Mae y Duw mawr, fel Penarglwydd cyffredinol, yn ymwneyd [â] i holl ddeiliaid drwy DDEDDFAU, ac wedi cysylltu â throseddiad y deddfau hyny, gosbedigaethau anocheladwy, fel y canlyniadau gosodedig i'r cyfryw ymddygiadau. [...] Gan hyny ofer dysgwyl y dianga troseddiad mor amlwg o ddeddf mor gyfiawn ag ydyw caethwasiaeth yn ddigosb. Mae y gosbedigaeth yn addfedu, nid yn unig i'r caethfeistri a chynalwyr mwyaf caethiwed, ond yn gymaint [â] bod y sefydliad yn genedlaethol, y mae lle i ni ofni y bydd y farn yn genedlaethol hefyd.<sup>31</sup>

Dyna, felly, ymhelaethu ar ei ddatganiad agoriadol, y deuai 'Armageddon' yn fuan. Diau fod gwirioneddol ofn ar y 'Dyngarwr' am ddydd y '[g]alanastra a dystryw cyflawn',<sup>32</sup> pan ddeuai barn Duw ar y wlad am iddi dorri'r Rheol Aur, ac felly, sarhau'r dwyfol. O'r herwydd, cred fod angen iddynt, fel dinasyddion yr Unol Daleithiau ynghyd â Christnogion, wneud iawn am eu camweddau a '[d]atod rhwymau yr Affrican truan.'<sup>33</sup>

Daw'r 'Dyngarwr' â'i lythyr i'w derfyn drwy nodi drachefn y byddent yn siŵr o ddioddef rhyw fath o gosb am yr anfadwaith cenedlaethol, a dyfynnir Colosiaid 3:25 er

---

<sup>28</sup> Ibid.

<sup>29</sup> Ibid.

<sup>30</sup> Ibid.

<sup>31</sup> Ibid.

<sup>32</sup> Thomas Charles, 'ARMAGGEDON', yn *Geiriadur Ysgrythyrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol* (Wrexham: Hughes and Son, 1885; seithfed argraffiad), 86.

<sup>33</sup> 'Dyngarwr', 'Y Pleidiau ar y Maes', 326.

mwyn tanlinellu'r rhybudd hwnnw. Ond yn ei frawddeg glo, geilw ar i'r darllenwyr, 'genedl hawddgar', drachefn i fwrw eu pleidlais, 'yn [ô]l eich barn, a seiliwch eich barn ar wirionedd ac nid chwedlau.'<sup>34</sup>

Drwy fod yn berchen ar gaethion, roedd y caethfeistri, meddai'r gwrth-gaethiwyr, yn gweithredu'n gwbl groes i Reol Aur Iesu, fel y datganodd Owen Jones o Philadelphia, 'Mae holl ymddygiad y planyddion yn hollol groes i reol auraid Mab Duw. Mat. vii. 12.'<sup>35</sup> Difyr yw nodi, fodd bynnag, nad oedd y caethfeistri'n credu eu bod yn torri'r rheol honno drwy gadw caethion. Yn wir, credai amryw ohonynt mai'r hyn a orchmynnid gan Iesu, mewn gwirionedd, oedd y dylai'r meistri drin eu caethion yn yr un modd â phe buasent hwythau eu hunain yn gaethion.<sup>36</sup> Hyd y gwyddys, ni chyhoeddwyd unrhyw destun a gynhwysai'r dehongliad hwn yn y wasg Gymraeg yn America. Yn hytrach, defnyddid y Rheol Aur yn aml i ddarlunio bod caethwasiaeth yn niweidiol i'r caethion ynghyd â bod yn sarhad ar y dwyfol; fel y gwelwyd mewn anerchiad i Gymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Pittsburgh gan M. D. Morgans. Yn ogystal â'r rheol honno, cyfeiriodd Morgans at destun arall o anian gyffelyb, a oedd hefyd yn boblogaidd ymysg y gwrth-gaethiwyr Cymraeg, sef 'Câr dy gymydog' (Marc 12:31; Math. 22:39; Luc 10:27; cf. Lef. 19:18); meddai, 'Ein dyledswydd mae yn amlwg, yw caru Duw, a'n cymydog fel ein hunain.'<sup>37</sup>

Yr hyn a bwysleisir gyda'r dyfyniadau uchod yw hanfod Cristnogaeth, sef cariad at Dduw ac at gyd-ddyn (brawdgarwch), a'r cysylltiad rhwng y ddau beth. Fel y dywed Owen Jones (Meudwy Môn) wrth gyfeirio at y Dengair Moesol:

Y mae yr ail lech yn gofyn cariad cywir, calonog, diffuant, a pherffaith at ddynion, fel y gofyna y gyntaf gariad at Dduw; ac y mae yn gofyn i'n cariad at bob dyn ddeillio oddiar gariad at Dduw a chael ei goleuni er ei ogoniant ef[.]<sup>38</sup>

---

<sup>34</sup> Ibid.

<sup>35</sup> Owen Jones, 'Y Gaethfasgnach', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1839), 13.

<sup>36</sup> Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011), 97.

<sup>37</sup> 'Cymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Pittsburgh', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1840), 220. Ceir nifer o gymdeithasau eraill hefyd yn cynnwys y Rheol Aur a'r gorchymyn i garu cymydog yn eu penderfyniadau, megis: 'Cymdeithas Wrth-gaethiwawl Utica', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Mawrth 1842), 89; 'Cymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Holland Patent', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1844), 84.

<sup>38</sup> Owen Jones, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynnwys nodiadau beirniadol ar y Rhanau Anhawddaf eu deall o ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. Wedi eu casglu o waith yr Awdwyr Goreu, Hen, a Diweddar* (Wyddgrug: Hugh ac Owen Jones, 1842), 14.

Yr awgrym a geir, felly, yw bod dangos gofal a chariad tuag at y caethion yn fodd o ddangos cariad ac ufudd-dod at y dwyfol; pan na cherid y caethion, eu cyd-ddyn, sarheid Duw.<sup>39</sup> Roedd i ‘gariad’, felly, wedd ymarferol.<sup>40</sup>

O fod wedi cyfeirio at destunau penodol o’r Beibl a bwysleisiai hyn, gallai Morgans gyffredinolli fymryn drwy ddatgan, ‘Mae efengyl Crist yn ein galw i wrthwynebu caethiwed ein cyd ddynion ac i ymddiffyn eu rhyddid.’<sup>41</sup> Gyda hynny, cyhoeddodd y dylai pobun ymdrechu mewn modd dyngarol i ddileu caethwasiaeth o’r wlad:

[Dylai] Ffyddloniaid a Dyngarwyr ein gwlad [...] ddefnyddio *pob moddion teg, moesol, a chyfiawn*, trwy ddangos mewn rheswm, a thrwy reswm, a thrwy Air Duw, yr angenrheidrwydd o edifeirwch gwladwriaethol, ac hollol lanhad o’n tir oddiwrth y pechod mawr hwn; ac y mae cenhedloedd ereill a gwledydd yn edrych arno felly, ac yn nodi America—ac yn ymestyn bŷs arnom gyda gwarth o’i blegid.<sup>42</sup>

Fel y gwelir o sylw olaf Morgans, roedd gwledydd eraill yn edrych yn ddirmygus ar yr Unol Daleithiau am ei rhagrith, yn proffesu i fod yn wlad rhyddid ac eto’n parhau i arddel y pechod caethwasiaeth. Cafwyd beirniadaeth o’r fath gan Gwilym Hiraethog mewn anerchiad ganddo a alwai ar i Gymry America ymuno yn rhengoedd y diddymwyr, pleidleisio dros wrth-gaethiwyr adeg etholiadau arlywyddol, a gwneud popeth o fewn eu gallu i hyrwyddo diddymiaeth. Anfonwyd yr anerchiad at y tri chyfnodolyn enwadol ac fe’i cyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* a’r *Seren Orllewinol*, ond nid yn *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*. Hysbysodd William Rowlands ei ddarllenwyr i anerchiad Gwilym Hiraethog ddod i law a’i fod yn ‘pleidio rhyddid’, ond i’r golygydd beidio â’i gyhoeddi am fod y llith yn rhy unochrog, yn ‘naill ochrog’, meddai.<sup>43</sup> Nid oedd yn rhoi ‘Chwareu Teg i Bob Ochr’.<sup>44</sup>

Yn rhifyn Ionawr 1857 *Y Cyfaill o’r Hen Wlad*, cyhoeddwyd ysgrif gan R. H. Evans, Sardis, yn trafod ‘Cynnwysiad Yr Ail Lech’, gan gymryd Mathew 22:39 fel ei brif destun. Yn yr un modd â’r awgrym a geid gan M. D. Morgans yn ei anerchiad uchod, egyr Evans ei erthygl gyda’r datganiad trawiadol:

---

<sup>39</sup> Roedd y cysylltiad hwn rhwng trin cyd-ddyn yn wael a sarhad uniongyrchol ar Dduw i’w weld mewn ambell ysgrif arall, megis pregeth Alfred Harris, ‘Darlith ar Foesoldeb’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1850), 144-7.

<sup>40</sup> Ulrich Luz, *Matthew 21-28* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2005), 83.

<sup>41</sup> ‘Cymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig Pittsburgh’, 220.

<sup>42</sup> *Ibid.*, 221. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>43</sup> W. Rees, ‘Anerchiad at y Cymry yn America, Mewn Perthynas i Gaethwasiaeth’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1845), 167-9; *Y Seren Orllewinol* (Mehefin 1845). Cyhoeddodd Gwilym Hiraethog ei Anerchiad yn wreiddiol yn *Y Amserau* (27 Mawrth 1845). Gweler ymhellach drafodaeth ddiddorol gan Jerry Hunter, *I Ddeffro*, 160-3.

<sup>44</sup> Cyfeiriad at un o’r ffugenwau a ddefnyddiai William Rowlands pan gyhoeddai yn y wasg. Gweler ymhellach Bennod 2 uchod.

SWM a sylwedd crefydd yw cariad at Dduw. Ffrwyth crefydd yw cariad at ddynion. Heb gariad at Dduw, nid oes ynom wir gariad at ein cymydog; ac heb gariad at Dduw a'n cymydog, nid oes gronyn o grefydd yn y galon.<sup>45</sup>

Pwysleisia Evans fod cariad yn hanfodol i Gristnogaeth ac, o'r herwydd, y dylai'r Cymry arddel yr egwyddor honno mewn perthynas â'r caethion, a chyda phob cenedl arall, meddai, 'y Sais, y Gwyddel, &c.'<sup>46</sup> Sylwa fod dynoliaeth wedi ei gosod mewn 'gwahanol sefyllfaoedd gan eu Creawdwr', lle mae rhai'n dlawd ac eraill yn gefnog. Gan i'r ysgrif gael ei chyhoeddi yng nghyfnodolyn y Methodistiaid Calfinaidd, gellid awgrymu bod Evans yn arddel syniadau am ragordeiniad a bod Duw wedi pennu cyflyrau pobun. Serch hyn, pwyslais Evans yw na ddylid poeni am y sefyllfa yr oedd rhywun wedi'i osod ynddi, ond y dylid bod yn 'barchus i uwch-radd [ac] yn addfwyn wrth is-radd'.<sup>47</sup> Yn y cyswllt hwn, dywed y dylid arddel y Rheol Aur, a dymuno'r gorau i lwyddiant ysbrydol eraill. Er mwyn sicrhau hynny, dylid gweddio er mwyn eu cyd-ddyn a gofidio am eu haflwyddiant. Yn hyn o beth, cyfeirir at brofiad y caethion yn cael eu hamddifadu o grefydd, a defnyddir egwyddor y Rheol Aur er mwyn mynegi tristwch eu sefyllfa wrth gyflwyno cyfres o gwestiynau rhethregol a gyfeiriai at y darlennydd yn yr ail berson unigol:

A garet ti fyned i'r bedd heb glywed am Iesu Grist a gwerth ei waed? os na wnait, danfon y s[ô]n am dano i'r Negro truan, tlawd! "C[â]r dy gymydog." A garet ti fod mewn caethiwed? os na wnait, gwna dy oreu i gael y trueiniaid ydynt yn gaeth, gorff ac enaid, yn dy ymyl, yn rhydd, ac i godi yr ystaen sydd ar gymeriad ein gwlad, "C[â]r dy gymydog."<sup>48</sup>

Pwysleisio y dylid ymdrechu i ryddhau'r caethion a thrwy wneud hynny, eu hanrhegu â'r Beibl, a wna Evans; gan y byddai hynny'n dangos brawdgarwch. Roedd yr amcan hwn yn un a bwysleisid mewn nifer fawr o destunau a gyhoeddwyd yn y wasg. Dywedid bod caethwasiaeth yn llesteiriol i lwyddiant yr efengyl; pe rhyddheid y caethion, eu haddysgu, a'u hanrhegu gyda'r Gair, yna cynyddai nifer canlynwyr Crist yn sylweddol.

Eir ymlaen i bwysleisio tegwch i gymydog a dangos y cysylltiad rhwng cariad at gymydog a chariad at Dduw: 'Dylem garu ein cymydog fel ni en hunain. Dylem garu Duw yn well na ni en hunain, am fod Duw yn anfeidrol well na ni'. Nodir mai hanfod 'crefydd yw

---

<sup>45</sup> R. H. Evans, 'Cynnwysiad yr Ail Lech', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Ionawr 1857), 13.

<sup>46</sup> *Ibid.*

<sup>47</sup> *Ibid.*

<sup>48</sup> *Ibid.*

bod yn debyg i Dduw, ac efelychiad o Grist a wna Gristion?; o'r herwydd, dylid ymdrechu'n daer i sicrhau cyfiawnder i'r caethion.<sup>49</sup>

Yn y cyswllt hwn, cyfeirir at y digwyddiadau cyfoes yn yr Unol Daleithiau lle gwelid cymaint o wrthdaro ynghylch pwnc mawr yr oes, cyn gofyn:

Beth sydd yn fwy dymunol na heddwch? a chyflawni y gorchymyn hwn a wna ein "heddwch fel yr afon, a'n cyfiawnder fel tonau y môr," a byddai gwlad y ddaear yn fwy tebyg i Wlad yr Hedd—ai y caethion yn rhydd, tawelai yr amrafael yn Kansas, ac ni chlywid s[ŵ]n magnelau, ac arfau rhyfel—sain gynau yn hollti y nen—tân y frwydr yn gweu fel mellt.<sup>50</sup>

Serch hyn, cesglir na ddeuai'r heddwch hwnnw hyd nes yr arddelai trigolion yr Unol Daleithiau'r ail orchymyn mawr yn y Gyfraith. Galwad ar i Gymry America ymateb i'w dyletswyddau a gweithredu er mwyn y caethion a geir gan Evans, a difyr yw nodi na chrybwyllir pleidleisio nac unrhyw agwedd ar wleidyddiaeth yr Unol Daleithiau yn uniongyrchol: dulliau crefyddol a deddfau dwyfol a bwysleisir yn hytrach na'r gyfraith wladol.

Cyfeiriwyd at y Rheol Aur ac egwyddor cariad hefyd yn yr ymrafael a fu rhwng 'Tudur' ac Eos Glan Twrch ar dudalennau'r *Cyfaill o'r Hen Wlad* rhwng Tachwedd 1855 a Gorffennaf 1856 ynghylch 'Caethwasiaeth a'r Beibl'.<sup>51</sup> Pwysleisia 'Tudur' nad oes gair o gondemniad i gaethwasiaeth i'w gael yn unman yn yr Hen Destament na'r Newydd, ac wrth ganolbwyntio ar y Testament Newydd yn benodol, cyfeiria at adnodau o'r corpws Paulaidd (Effes. 6:5-6; Col. 3:11; 4:1; 1 Cor. 7:2; 12:13) a phwysleisio mai caethion a drafodir, nid gweision cyflog, fel y maentumia Eos Glan Twrch a gwrth-gaethiwyr eraill.<sup>52</sup>

Difyr yw sylwi ar lythyr ymateb olaf Eos Glan Twrch a'i sylwadau am ddehongliad 'Tudur' o'r Testament Newydd yn benodol. Deil yr Eos nad yw'r datganiadau Paulaidd a anogai'r caethion i ufuddhau i'w meistri 'mewn ofn a dychryn' (y math o destunau a ddyfynnwyd gan 'Tudur' yn ei lythyr blaenorol) yn gydnaws â'r 'rheol euraidd',<sup>53</sup> a daw â'i ymdriniaeth wrth-gaethiwol o'r Beibl i'w therfyn drwy daeru bod yr efengyl, hanfod y Testament Newydd, yn llwyr wrthwynebu caethwasiaeth. Mynega hyn drwy gyfeirio at un o destunau Beiblaidd hanfodol yr ymgyrch diddymol ymysg Cristnogion America:

---

<sup>49</sup> Ibid., 14.

<sup>50</sup> Ibid.

<sup>51</sup> Am drafodaeth fanylach ynghylch yr ymrafael hwn, gweler Pennod 1 uchod.

<sup>52</sup> 'Tudur', 'Caethwasiaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1855), 428.

<sup>53</sup> Eos Glan Twrch, 'Caethwasiaeth a'r Beibl', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Gorffennaf 1856), 269.

Y mae yr Arglwydd Iesu yn y geiriau isod, wedi egluro y gyfraith a'r prophwydi, a chau allan elfenau caethwasiaeth yn amlwg o dan oruchwyliaeth yr Efengyl. "Am hyny, pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi." Y mae yr un egwyddorion yn rhedeg trwy holl wythienau ysgrifeniadau yr apostolion pan y traethant ar gysylltiad rhwng meistriaid a'u gweision.<sup>54</sup>

Dysgeidiaeth arall gysylltiedig â'r Rheol Aur a chariad a dystiai i wrthwynebiad Iesu i gaethwasiaeth, ym marn y gwrth-gaethiwyr Cymraeg, oedd ysgariad. Wrth i gaethion gael eu prynu a'u gwerthu, cawsai gwŷr a gwragedd eu gwahanu'n groes i'w hewyllys – eu hysgaru. Ni fuasai hyn wrth fodd Iesu gan iddo bregethu, 'Felly, yr hyn a gysylltodd Duw, ni ddylai neb ei wahanu' (Math. 19:6; Marc 10:9).

Dadleuai rhai caeth-bleidwyr y buasai'r dwyfol yn maddau ysgariad yng nghydestun caethwasiaeth oherwydd hawliau eiddo'r meistri. Wrth gyfeirio at gaethion Israel, dywed Thornton Stringfellow:

the divine Lawgiver, in guarding the property rights in slaves among his chosen people, sanctions principles which may work the separation of man and wife, father and children.<sup>55</sup>

Yn gyferbyniol i'r caeth-bleidiwr hwn, ceid amryw destunau yn y wasg Gymraeg a fynnai anghyfreithlonrwydd caethwasiaeth ar y sail ei bod yn halogi sefydliad cysegredig priodas, ac yn chwalu'r uned deuluol. Dyma sylw cyntaf yr awdur a arddelai'r ffugenw 'Iorwerth' yn ei 'Araeth Wrthgaethiwawl' i ddarllenwyr *Y Cenhadwr Americanaidd*:

Nodwn,

1. Fod caethiwed yn cynwys drygau moesol mawrion a niweidiol. Mae priodas yn drefn o osodiad dwyfawl, a dywed y Bibl, "Y peth gan hyny a gysylltodd Duw na ysgared dyn." Ond ysgaru priodasau a wneir pan y gwerthir gw[ŷ]r a gwragedd y naill oddi-wrth y llall. Er fod Duw yn gorchymyn, "Na ysgared dyn," er hyny gwna dynion ysgaru yn groes i air Duw; felly mae Duw a'r caethfeistri yn groes i'w eu gilydd yn fawr yn hyn, a llawer o bethau eraill.<sup>56</sup>

Ymysg y 'pethau eraill' hynny a gyferbynnai'r caethfeistri â Duw oedd eu bod yn esgeuluso'r gorchymyn i garu cymydog, a'u bod yn gorthrymu eu 'cyd-greaduriaid, [drwy] eu gwerthu a'u trin yn annuwiol.'<sup>57</sup> Er mwyn darlunio'r fath orthrwm yn eglur, adroddir yn

---

<sup>54</sup> Ibid., 270.

<sup>55</sup> Thornton Stringfellow, *Scriptural and Statistical Views in Favor of Slavery* (Richmond, VA: J. W. Randolph, 1856; pedwerydd argraffiad gydag ychwanegiadau), 31.

<sup>56</sup> 'Iorwerth', 'Araeth Wrthgaethiwawl', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1845), 332.

<sup>57</sup> Ibid.

gryno hanes caethion yn Cumberland, talaith Maryland, a'r modd y gwerthwyd caethferch briod drwy 'arwerthiad cyhoeddus', a'i gwahanu oddi wrth ei chymar drwy'i chymryd i Orleans Newydd. Ar derfyn yr hanesyn, rhybuddia 'Iorwerth', yn yr un modd â'r 'Dyngarwr' yn *Y Drych a'r Gwyllydydd* uchod, oherwydd y fath arferion a geid yn yr Unol Daleithiau, y bydd y wlad yn siŵr o deimlo barn Duw yn fuan: 'Pa ryfedd fod dynion yn ffeiddio pechod mor ddû, ie pechod sydd yn galw am ddialedd Duw.'<sup>58</sup>

Ymddangosodd pregeth am ysgariad a thestun Mathew 19:6 bedair blynedd cyn araith 'Iorwerth' yn yr un cyfnodolyn. Pwysleisir drwy gydol pregeth T. Edwards na ddylid caniatáu ysgaru am fod priodas yn sefydliad sanctaidd. Cyfeirir at yr uniad cyntaf rhwng Adda ac Efa (Gen. 2:24), a datgenir bod ysgaru dau gymar yn anghywir yn yr un modd ag y buasai torri cysylltiad rhwng agweddau eraill ar grefydd, megis 'galwad yr efengyl [...] ac ufudd-dod i'r efengyl', 'edifeirwch a maddeuant',<sup>59</sup> a 'ffydd yn Nghrist a bywyd tragywyddol'.<sup>60</sup> Ni chyfeirir at sefyllfa'r caethion cyfoes yn unman yn y bregeth, ond yr hyn sy'n ddiddorol yw iddi gael ei chynnwys fel yr ail eitem yn rhifyn Mawrth 1841 *Y Cenhadwr Americanaidd*, yn dilyn ysgrif am 'Yr Affricanes Dduwiol'.

Cyfieithiad o hanesyn a gyhoeddwyd yn nhrydedd gyfrol y *Publications of the American Tract Society* gan y Parch. George Roberts yw 'Yr Affricanes Dduwiol', a cheir yn yr ysgrif ddarlunio 'un o ferched Ethiopia' wedi mynd i ganol coedwig er mwyn gallu gweddïo heb i'w meistr ei gweld. Yn ddiddorol ddigon, noda traethydd yr hanesyn iddo glywed y gaethferch yn gweddïo er mwyn ei meistr yn ogystal ag er ei mwyn ei hun:

"O Arglwydd bendithia fy meistr! Pan mae'n galw arnat i ddamnio ei enaid, paid [â] gwrando arno, paid [â] gwrando arno, ond gwrando fi: achub ef, gwna iddo wybod ei fod yn ddrygionus, ac yna fe wedd[i]a arnat."<sup>61</sup>

Eir ymlaen i adrodd y sgwrs a gafodd y traethydd gyda'r gaethferch ac i'r traethydd ryfeddu at ei phryder am gyflwr moesol ei pherchennog. Er ei sefyllfa, dywed ei bod yn maddau i'w meistr am ei gamweddau a'i bod yn taer weddïo er ei fwyn oherwydd ei 'chariad at Dduw'.<sup>62</sup> Cyfeddyf y traethydd i'r cyfarfyddiad â'r gaethferch grefyddol gael cryn effaith arno am ei bod yn esiampl o Gristion o'r iawn ryw:

---

<sup>58</sup> *Ibid.*, 333.

<sup>59</sup> T. Edwards, 'Sylwedd Pregeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1841), 67. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>60</sup> *Ibid.*, 68. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>61</sup> Geo. Roberts, 'Yr Affricanes Dduwiol', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1841), 65.

<sup>62</sup> *Ibid.*

Y fath ysbryd [â] hwn a raid fod yn wir grefydd, oblegid gwir ysbryd Crist yw [...] Mae'n beth hawdd i siarad a gwedd[i]o—mae geiriau yn bethau ysgafn—ond i garu gelyn a gwneuthur pob peth yn fy ngallu i ddwyn ymlaen ei hapusrwydd personol a thragywyddol, hyn sydd orchestwaith mawr iawn.<sup>63</sup>

Os oedd y gaethferch yn gallu tosturio wrth ei pherchennog, dylai'r genedl Gristnogol hefyd allu maddau i'r meistri am eu camweddau, meddai'r traethydd. Cynrychiola'r gaethferch, a oedd yn ddynes dduwiol a maddeugar, yr holl gaethion hynny yn yr Unol Daleithiau a oedd yn arddel Cristnogaeth yn y dirgel. Buasai'r ffaith fod pregeth yn trafod ysgariad yn dilyn yr ysgrif hon wedi ychwanegu at yr apêl emosiynol at y darllenwyr, drwy wneud i'r darllenwyr feddwl am gaethion crefyddol o'r fath, a geisient fyw'n unol â chrefydd Crist, yn cael eu gorfodi i gyflawni pechod drwy gael eu 'hysgaru' oddi wrth eu tylwyth.

Cynhwyswyd y ddysgeidiaeth hon am ysgariad mewn cofnodion amryw gyfarfodydd gwrth-gaethiwol. Er enghraifft, ymysg y penderfyniadau a basiwyd mewn cyfarfod o weinidogion yng Nghapel Steuben ym mis Mehefin 1842 yr oedd, 'Fod yr arferiad o ysgaru teuluoedd [...] yn ymddygiad annynol ac anghristianogol, ac y dylem wneyd a allom er ei ddilead buan.'<sup>64</sup> Felly, hefyd, mewn ambell gerdd. Er enghraifft, ymddangosodd 'Achwyniadau y Caethion', gan Dewi Emlyn yn yr atodiad a ganolbwyntiai ar 'Yr Etholiad Llywoddol', a gyhoeddwyd yn rhifyn Hydref 1856 *Y Seren Orllewinol*. Fel y nodwyd eisoes, ystyrid ymgyrch etholiad 1856 yn hynod arwyddocaol mewn perthynas â chaethwasiaeth a heddwch gwladol. Roedd yr atodiad yn gogwyddo at ymgeisydd y Gweriniaethwyr, J. C. Frémont, yn hytrach na'r un ymgeisydd arall, gan mai trwy gyfrwng y Gweriniaethwyr y credai golygydd y pamffled, y deuai terfyn i gaethwasiaeth.

Roedd 'Achwyniadau y Caethion' yn fodd o ddarlunio drygedd caethwasiaeth yn America, ac felly ddangos yr angenrheidrwydd i'r Cymry bleidleisio dros yr ymgeisydd a goleddai ddaliadau gwrth-gaethiwol. Wedi trafod rhagrith yr Unol Daleithiau yn cynnal y gyfundrefn gaethiwol ond eto'n 'bostio' i rhyddid', ynghyd â darlunio'r trais a ddiodeffai'r caethion, canolbwyntir ar y wedd Gristnogol yn y pennill clo; yn hyn o beth, nodir bod chwalu'r uned deuluol – 'ysgaru' gwŷr a gwragedd a'u plant – yn weithred groes i'r dwyfol. O'r herwydd, geilw caethwas y gerdd ar i Dduw ei gynorthwyo ef a'i gyd-gaethion:

---

<sup>63</sup> Ibid., 66.

<sup>64</sup> 'Cyfarfod Steuben', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1842), 222.



Mewn gwlad elwir yn Grist'nogol,  
Gwerthir g[ŵ]r oddiwrth ei wraig;  
Gwerthir plant oddiwrth rieni,  
Braidd y credai calon draig;  
Gwerthir merched heirdd i foddio  
Nwydau aflan y dyn gwyn!  
O Dduw 'r nef! pa hyd goddefi  
I ni gael ein trin fel hyn?<sup>65</sup>

## Dysgeidiaeth y Testament Newydd

Yn yr un modd â'r egwyddorion dyngarol a bregethodd Iesu, fel y cofnodwyd yn yr Efengylau, tueddai'r Cymry i gyfeirio at ambell destun o rai o lyfrau eraill y Testament Newydd, ac yn arbennig felly yr epistolau. Fel y nodwyd eisoes, buasai caeth-bleidwyr yn fwy na pharod i droi at y corpws Paulaid (megis Effes. 6:5-9, Col. 3:22-4:1, a'r llythyr at Philemon) er mwyn dangos bod yr apostol wedi rhoi sêl ei fendith ar gaethwasiaeth. Byddai'r gwrth-gaethiwyr hefyd yn troi at yr apostol er mwyn pwysleisio testunau megis Galatiaid 3:28, dehongliad diddymol o 1 Corinthiaid 7:21, ac epistolau eraill.<sup>66</sup>

## Hebreaid 13:3

Un o hoff destunau'r Cymry a bwysleisiai un o ddysgeidiaethau pwysicaf Crist, brawdgarwch, oedd Hebreaid 13:3: 'Cofiwch y carcharorion, fel pe byddech yn y carchar gyda hwy'. Yn y rhan hon o'r epistol, gelwir ar i'r darllenwyr ystyried amryfal rinweddau'r Cristion, a chan sylfaenu'r bennod ar gysyniad brawdgarwch, noda'r llythyrwr fod dyletswydd ar i'r darllenwyr gofio'u cyd-Gristnogion sydd bellach wedi eu carcharu. Difyr

---

<sup>65</sup> Dewi Emllyn, 'Achwyniadau y Caethion', yn yr atodiad, 'Yr Etholiad Llywyddol', *Y Seren Orllewinol* (Hydref 1856), 10.

<sup>66</sup> Mae'r adnod 'Ai caethwas oeddit pan gefaist dy alw? Paid â phoeni; ond os gelli ennill dy ryddid, cymer dy gyfle, yn hytrach na pheidio' (1 Cor. 7:21), wedi profi'n broblematig i esbonwyr ar hyd y canrifoedd, ac wedi cael ei dehongli mewn ffyrdd a gefnogai gaethwasiaeth, yn ogystal â'i gwrthwynebu. Mae testun Groeg yr adnod – δοῦλος ἐκλήθης; μή σοι μελέτω· ἀλλ' εἰ καὶ δύνασαι ἐλεύθερος γενέσθαι, μᾶλλον χρῆσαι – braidd yn amwys ac mae cryn amrywiaeth barn ynglŷn â'r ymadrodd μᾶλλον χρῆσαι. Ceir rhai Beiblau, megis y KJV, NIV, *Y Bibl Cyssegr-lan*, a'r *Beibl Cymraeg Newydd* yn dehongli μᾶλλον χρῆσαι i olygu y dylai'r caeth fanteisio ar y cyfle iddo gael ei 'ryddid', tra bo eraill, megis yr NRSV, yn dehongli'r ymadrodd i olygu y dylai'r caeth aros yn ei gyflwr caethiwus. Anthony C. Thisleton, *The First Epistle to the Corinthians: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 2000), 545-56. Am drafodaeth bellach, gweler, e.e., S. S. Bartchy, *ΜΑΛΛΟΝ ΧΡΗΣΑΙ: First-century slavery and the Interpretation of 1 Corinthians 7:21* (Missoula, MT: Society of Biblical Literature, 1973).

yw sylwi mai cofio'r rhai sydd mewn 'rhwymau' a nodid gan Gymry America: 'Cofiwch y rhai sydd yn rhwym megis pe baech yn rhwym gyda hwy'. Mae'r dewis o'r gair 'rhwym' yn arwyddocaol gan iddo ddwyn i gof y caethion hynny a oedd yn rhwymedig wrth aelwydydd eu meistri.

Mae'r alwad honno i 'gofio' hefyd yn arwyddocaol oherwydd ei bod yn golygu mwy na meddwl yn unig am rywun: fel y noda Peter O'Brien, y mae iddi hefyd ddisgwyliad i weithredu'n ymarferol:

The notion of remembering is stronger than simply calling something to mind since it has to do with a compassionate concern expressed in practical care (Gen. 30:22; Luke 23:42).<sup>67</sup>

O'r herwydd, nid yw'n syndod i Robert Everett gyfeirio at yr adnod hon yn ei ysgrif a alwai ar i Gymry America '[Weddi] Dros y Caethion'. Fel y sylwyd eisoes yn y thesis hwn, roedd gweddi'n rhan anhepgor o'r ymgyrch diddymol ymysg y Cymry ac, yn wir, roedd cyfryngu ar ran y caethion gyda'r dwyfol yn weithred ymarferol o gryn bwys.<sup>68</sup>

Egyr Everett ei ysgrif drwy ddatgan ei bod yn ddyletswydd ar i'w ddarllenwyr gofio'r caethion yn feunyddiol, 'oblegid mawredd y gorthrymder y maent dano'.<sup>69</sup> Er mwyn tanlinellu'r ddyletswydd hon, dyfynna Hebraeid 13:3 a'r Rheol Aur, cyn gofyn i'r Cymry gydymdeimlo'n llwyr â'r caethion, ac ystyried sut y teimlent pe baent hwy yn gorfod byw dan iau meistr:

yn ddieithriaid mewn gwlad estronol, [...] yn agored un amser i gael ein gwerthu yn y farchnadfa fel anifeiliaid y maes;-i gael ein hysgaru, rieni oddiwrth blant, a phlant oddi wrth rieni, brodyr a chworydd &c. oddiwrth eu gilydd, byth i weled eu gilydd mwyach; [...] yn cael ein gwahardd i ddarllain gair yr Arglwydd[?]<sup>70</sup>

Yn dilyn hyn, ymhelaethir ar y rhesymau pam y dylid cofio'r caethion yn eu gweddiâu: oherwydd eu bod 'mor ddiymddiffynol', am 'fod cymmaint yn eu hanghofio', oherwydd 'cymmeriad personol a moesol' y caethion – yn cael eu hamddifadu o foddion crefydd, ac yn bennaf, am ei bod yn ddyletswydd Gristnogol i'r Cymry gofio.<sup>71</sup> Byddai gweithredu yn y fath fodd yn ffordd o ledaenu ysbryd yr efengyl, meddai; '[ein] dwyn i

---

<sup>67</sup> Peter O'Brien, *The Letter to the Hebrews* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2010), 508.

<sup>68</sup> Gweler Pennod 3 uchod.

<sup>69</sup> Robert Everett, 'Gweddi Dros y Caethion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1840), 51.

<sup>70</sup> *Ibid.*

<sup>71</sup> *Ibid.*

deimlo yn addas tuag atynt yn eu hadfyd, ac i weithredu yn effro a diflino yn ofn yr Arglwydd er eu rhyddhad a'u hiechydwrriaeth.<sup>72</sup>

Lluniwyd amryw ysgrifau eraill a ymdriniai â'r testun hwn yn arbennig yng nghydestun sefyllfa gyfoes yr Unol Daleithiau. Er enghraifft, yn rhifyn Hydref 1854 *Y Cenhadwr Americanaidd*, ymddangosodd ysgrif yn dwyn y pennawd 'Y Rhai sydd yn Rhwym', gan D. Owen, a oedd naill ai'n fyfyrwr neu'n ddarlithydd yng Ngholeg Beloit, Wisconsin, pan luniwyd yr ysgrif.

Dechreuau'r awdur drwy alaru fod 'nifer "y rhai sydd yn rhwym," [...] yn Nhalaethau Unedig America, yn agos i *dair miliwn a haner*', a bod rhai caeth-bleidwyr hyd yn oed yn dadlau fod sefyllfa caethion y De yn fwy ffafriol 'na gweithwyr cyffredin Cymru a Lloegr.'<sup>73</sup> Roedd y ddadl hon yn rhan o bropaganda caeth-bleidiol yr oes ac fel rhan o'r ideoleg hon, cyhoeddi delweddau mewn papurau newydd yn fynych, yn darlunio caethion y De'n canu ac yn dawnsio'n llon, a hynny mewn cyferbyniad â'r gweithwyr cyffredin, truenus yr olwg ym Mhrydain.<sup>74</sup>

Gan gyfeirio at gymeriadau *Uncle Tom's Cabin*, cyfeddyf Owen fod ymysg perchnogion caethion y De rai tirion – '[ll]awer Mrs Shelby a St. Clair' – ond myn fod nifer helaeth o rai anhrugarog hefyd – yn 'Haleys' a 'Legrees'.<sup>75</sup> Gyda hynny, dadleua fod sefyllfa'r caethion yn y De, o ran y modd y'u trinnid gan eu meistri, eu hamodau byw, a'u diffyg hawliau, yn waeth na byd 'gweithwyr cyffredin Cymry a Lloegr'.<sup>76</sup> Deil fod y caethion yn cael eu cadw'n anghyfreithlon, a bod y rheswm a rydd 'trigolion *Cristionogol* Talaethau Deheuol ein gwlad' dros gadw'r caethion yn eu rhwymau yn un sylfaenol hiliol; 'oddigerth fod rhai o honynt ychydig yn dduach eu croen na'r Ewropeaid.'<sup>77</sup> Barn Owen yw mai rhagrithwyr yw'r Deheuwyry, yn arddel yr enw 'Cristion' ond eto'n gwneud anghyfiawnder â'u cyd-ddyn, ac ar yr un gwynt, mynega ffolineb ambell ddadl 'wyddonol' o eiddo'r caeth-bleidwyr i gyfiawnhau caethiwo'r Affricaniaid: 'cofiwyf i mi glywed yn ddiweddar am

---

<sup>72</sup> Ibid.

<sup>73</sup> D. Owen, 'Y Rhai sydd yn Rhwym', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1854), 377. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>74</sup> Richard Huzzey, 'When is a Slave Not Really a Slave?', *History Today* (December 2012), 52.

Gweler un o'r enghreifftiau enwocaf, 'Slavery As it Exists in America/Slavery As it Exists in England':

<[http://amhistory.si.edu/petersprints/lithograph.cfm?id=325716&Category=pets&Results\\_Per=10&search\\_all=false](http://amhistory.si.edu/petersprints/lithograph.cfm?id=325716&Category=pets&Results_Per=10&search_all=false)> (Cyrchwyd 1 Medi 2017). Gweler hefyd, Larry E. Tise, *Proslavery: A History of the Defense of Slavery in America, 1701-1840* (Athens, GA a London: The University of Georgia Press, 1987), 242-7.

<sup>75</sup> Owen, 'Y Rhai sydd yn Rhwym', 377.

<sup>76</sup> Ibid.

<sup>77</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

drosedd arall o'r eiddynt [y caethion], sef nad yw rhai o esgyrn y pen yn ymgyfarfod at *right angles!*<sup>78</sup>

Â'r awdur yn ei flaen i ddyfynnu Datganiad Annibyniaeth yr Unol Daleithiau a mynnu fod gan y caethion, hwythau, yr hawl i '*Life, liberty and the pursuit of happiness*',<sup>79</sup> cyn mynegi drachefn ragrith nifer o'r Deheuwyrr, 'yn proffesu crefydd yr addfwyn Iesu!' – amryw o'r rheiny'n 'weinidogion cysegredig y Testament Newydd!' – ac eto'n weithgar mewn caethwasiaeth. Gan adleisio geiriau enwog Wesley, geilw'r system honno y byddai'r Deheuwyrr yn ei chyfiawnhau ar bwys y Beibl, yn "*the sum of all villainies*".<sup>80</sup>

Pwysleisir agwedd arall ar ddysgeidiaeth Iesu yn yr ysgrif, sef cydraddoldeb, a chesglir bod gan yr Affricaniaid yr un teimladau â'r awdur ei hun. Cydnebydd Owen fod rhai theorïau am wahanol darddiadau dynoliaeth bellach mewn bri ond, serch y rheiny, dywed ei bod yn well ganddo 'gymeryd gair syml fy Mibl', bod pawb yn blant Duw. O'r herwydd, geilw ar i'r darllenwyr gofio 'mai brodyr i ni yw "y rhai sydd yn rhwym"'.<sup>81</sup>

Wedi craffu ar sefyllfa'r caethion, try Owen ei sylw at brif ddyletswydd y darllenwyr, sef 'cofio'. Unwaith y gwneid hynny, meddai, 'buan y clywid s[ŵ]n eu cadwynau yn disgyn i'r llawr!'<sup>82</sup> Gan na ddymunai'r darllenwyr brofi brath y fflangell na byw dan ofn gwastadol, dylent ymdrechu er mwyn rhyddhau'r caethion o'u rhwymau.

Drachefn, cyfeirir at *Uncle Tom's Cabin*, ac at gymeriad Mr. Haley, y meistr creulon a brynodd Uncle Tom, er mwyn darlunio'r modd y dioddefai'r caethion wrth gael eu masnachu megis anifeiliaid. Difyr yw sylwi i Owen gyfeirio at nofel Beecher Stowe ddwywaith er mwyn gwneud sefyllfa'r caethion yn fyw ym meddwl y darllenwyr. Dengys hyn arwyddocâd y nofel ac effaith bosibl llenyddiaeth, gan mai drwy gyfrwng y nofel honno yn bennaf y byddai llawer o ddarllenwyr ysgrif Owen, fel nifer o Ogleddwyr eraill, wedi cael cip ar fyd caethion y De.

Gyda drygedd y gyfundrefn wedi'i ddarlunio, deil fod disgwyl i'r Cymry America '*wneyd pob ymdrech deg a chyfreithlon er eu rhyddhau*', a myn na ddylid rhoi gormod o bwys ar deitlau megis '*abolitionist*', ond, yn hytrach, weithredu.<sup>83</sup> Erbyn y cyfnod hwn, roedd i'r epithet hwnnw ystyron negyddol yng ngolwg rhai. Pobl radicalaidd oedd y diddymwyr;

---

<sup>78</sup> Ibid.

<sup>79</sup> Ibid., 378.

<sup>80</sup> Ibid. Dyfynnid geiriau John Wesley yn aml mewn cyfarfodydd gwrth-gaethiwol ac ysgrifau yn y wasg. Er enghraifft, 'Nodion. "Swm Pob Dyhirwch."', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1857), 290.

<sup>81</sup> Owen, 'Y Rhai sydd yn Rhwym', 378.

<sup>82</sup> Ibid.

<sup>83</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

rhai a weithredent mewn modd eithafol er mwyn cael eu maen i'r wal. Casgla Owen nad oes diben bellach gynnal yr ystrydeb honno:

Os wrth “*abolitionist*” yr ydys i ddeall un yn gwneuthur ei oreu er rhyddhau “y rhai sydd yn rhwym” ar y cyfandir Americanaidd, nid oes yn yr *epithet* hyny yr arswyd lleiaf yn fy ngolwg i.<sup>84</sup>

Ailadroddir galwad Robert Everett yn ei anerchiad ar i Gymry America gofio'r caethion yn eu gweddiâu, a chan ddyfynnu geiriau Williams, Pantycelyn, myn Owen y bydd Duw'n sicr yn ymateb i ymbiliau Cymry America:

Ni fethodd gweddi daer erioed  
A chyrhaedd hyd y nef[.]<sup>85</sup>

Aiff Owen rhagddo i gyfeirio at feirniadaeth arall ar y diddymwyr, sef eu bod yn euog o gymysgu crefydd a gwleidyddiaeth, a datgan, ‘Na ddychmyger mai pwnc politicaidd, heb fod yn dal berthynas â Cristion ac â gorsedd gras, ydyw hwn.’<sup>86</sup> O'r herwydd, cynghora'r darllenwyr i gofio am y caethion pan fyddent ‘*wrth y ballot box*’.<sup>87</sup>

Daw Owen â'i ysgrif i derfyn â chyfres o gwestiynau rhethregol sy'n bwrw amheuaeth ar weithredoedd diweddar Cristnogion America, gan awgrymu, er eu bod wedi hyrwyddo'r efengyl mewn gwledydd tramor, nad ydynt wedi gofalu'n ddigonol am ‘y rhai sydd yn rhwym’ adref yn yr Unol Daleithiau:

A yw Cymdeithasau Cenhadol, a Thraethodol, a mân gymdeithasau eraill nas gellir eu henwi yma, wedi “cofio y rhai sydd yn rhwym” megis ag y dylasant? A yw Eglwys y Duw byw wedi eu “cofio” fel ag y gorchymynir iddi wneuthur? Gwyn fyd na buasem yn alluog i ateb y gofyniadau pwysig hyn yn gadarnhaol.<sup>88</sup>

Yn yr un modd â'r testunau a drafodwyd gan Everett ac Owen Jones, cyflwynid mewn ambell gerdd drawiadol y ddyletswydd i gofio, fel a fynegir yn Hebraeid 13:3, ar ffurf gweddi. Enghraifft o'r fath yw cerdd gan Robert Maurice o Trenton, sy'n dwyn teitl cyffelyb i ysgrif D. Owen uchod, ‘Cofiwch y Rhai sydd yn rhwym’.<sup>89</sup> Yn y pennill cyntaf, apelir at y Cymry ‘mwyneiddlon’ i ystyried y ‘creulonder, gorthrymder, a thrais’ a oedd yn bod yn

---

<sup>84</sup> Ibid., 379. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>85</sup> Ibid.

<sup>86</sup> Ibid.

<sup>87</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>88</sup> Ibid.

<sup>89</sup> Robert Maurice, “Cofiwch y rhai sydd yn rhwym.”, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1842), 341.

America, ac oherwydd y trallod hwnnw, deil y dylai'r Cymry ymdrechu i sicrhau nad âi 'dwys gwynion y Caethion' yn angof. Yn yr ail bennill, yn hytrach nag annerch y Cymry drachefn, gelwir ar Dduw, a cheir yma weddi seiliedig ar yr adnod Feiblaidd dan sylw ar ffurf barddoniaeth:

O cofia 'r tylodion yn dirion, O Dad!  
Rhai 'n chwerw garcharwyd gaethgludwyd o'u gwlad,  
A gwrando 'n gwedd[i]au, effeithiau gwir ffydd,  
A threfna 'i bob Negro gael rhodio 'n [w]r rhydd.<sup>90</sup>

Drachefn, ymddangosodd Hebreaid 13:3 fel testun arwyddocaol mewn cyfarfodydd cymdeithasau gwrth-gaethiwol. Enghraifft drawiadol o hynny yw gweithrediadau'r 'Cyfarfod Gweinidogion' a gynhaliwyd yng Nghapel Uchaf, Steuben, yr addoldy lle roedd Robert Everett yn weinidog ar y pryd. Ar ddechrau ail ddiwrnod y cyfarfod, pregethodd y Parch. J. Griffiths ar destun Hebreaid 13:3, gan sylwi 'mewn modd dwys a goleu ar sefyllfa caethion ein gwlad[,] y modd y dylem eu cofio, a phaham y dylem eu cofio.'<sup>91</sup> Difyr yw sylwi ar ail bregeth y dydd, a draddodwyd am 2 y prynhawn gan y Parch. J. Howes, sef 'Iago 1:25, "Perffaith gyfraith rhyddid."<sup>92</sup> Sefydlwyd ym mhregeth Griffiths y dylai'r gweinidogion gofio am y caethion, ac ym mhregeth Howes datganwyd bod cyflwr y caethion yn gwbl groes i'r Beibl, sy'n datgan 'perffaith gyfraith rhyddid'. Yr efengyl yw'r 'berffaith gyfraith' hon,<sup>93</sup> a chan fod caethwasiaeth yn gwbl groes i'r efengyl, yr awgrym a geir yw y dylid gweithredu i wrthwynebu'r gyfundrefn. Yn wir, llwyddwyd, yn ôl ysgrifennydd y gymdeithas, i ennyn cefnogaeth gan y gynulleidfa gyfan, 'oddieithr pump neu chwech'.<sup>94</sup>

## **Actau 17:26**

Dadl arall a oedd yn gysylltiedig ag egwyddorion brawdgarwch, cydraddoldeb a chyfiawnder, ac yn seiliedig ar yr hyn a fynegir yn groyw yn Actau 17:26, oedd ei bod yn anghywir i'r naill berchnogi'r llall oherwydd bod pawb yn tarddu o'r un man.

Yn y rhan hon o lyfr yr Actau, nodir mai Duw a greodd y byd a'r cyfan sydd ynddo. Manylir yn arbennig ar y bodau dynol, a phwysleisir eu bod yn perthyn i'w gilydd am eu bod

---

<sup>90</sup> Robert Maurice, "'Cofiwch y rhai sydd yn rhwym.'", *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1842), 341.

<sup>91</sup> 'Cyfarfod Steuben', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1842), 222.

<sup>92</sup> *Ibid.*

<sup>93</sup> Owen Jones, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd*, 131.

<sup>94</sup> 'Cyfarfod Steuben', 222.

yn tarddu ‘o un gwaed’ (Act. 17:24-26). Seilir y gred hon ar Genesis 1 i 3, lle creodd Duw Adda ac Efa, ac, felly, gellid casglu mai yn Eden y tarddodd y ddynoliaeth (cf. Luc 2:28; Rhuf. 5:12).<sup>95</sup> Wrth ddatgan hyn, roedd Paul yn mynd yn fwriadol groes i fydolwg Groegiaid ei oes, a gredent nad oedd cydraddoldeb o’r fath rhwng y cenhedloedd i fod, gan yr ystyrient eu hunain o safon uwch na hiliau eraill y byd, y barbariaid.<sup>96</sup> Oherwydd y pwyslais hwn ar darddiad cyffredin dynoliaeth gyfan, ac felly’r ymdeimlad o gydraddoldeb rhwng y cenhedloedd, dyfynnid testun Actau 17:26 yn fynych gan ddiddymwyr Cymraeg a Saesneg America fel beirniadaeth ar y gyfundrefn gaethiwol.<sup>97</sup> Ac yn wir, defnyddid y cysyniad hwn yn aml ymysg yr Affricaniaid Americanaidd, fel y noda Demetrius K. Williams:

The universalist themes aptly congeal in this speech. Such important ideals of human unity could not go unnoticed by African Americans in search of authoritative support for their arguments and rhetoric of freedom and equality. For this reason, Acts 17:2[6] became a touchstone for their religious-political rhetoric of human unity and equality.<sup>98</sup>

Yn yr un modd â’r egwyddorion eraill a drafodwyd eisoes, cyfeirid at destun Actau 17:26, neu rydd-ddyfynnwyd yr adnod, fel rhan o benderfyniadau amryw gyfarfodydd gwrth-gaethiwol hyd at y Rhyfel Cartref. Enghraifft ddiddorol o gyfarfod o’r fath yw’r un rhyngengwadol a gynhaliwyd yn Farmington, 15 Mehefin 1843. Roedd y nod hwn o oresgyn ffiniau enwadaeth yn un a arddelid gan nifer o Gymry America gwrth-gaethiwol. Dyna un o brif amcanion Robert Everett wrth iddo sefydlu *Y Dyngarwr*, a gwelwyd yn ystod ei oes fer gyfraniadau gan weinidogion a chrefyddwyr o wahanol enwadau. Yn wir, ymddangosodd

---

<sup>95</sup> Beverly Roberts Gaventa, *The Acts of the Apostles* (Nashville, TN: Abingdon Press, 2003), 251.

<sup>96</sup> David G. Peterson, *The Acts of the Apostles* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2009), 496.

<sup>97</sup> Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship*, 97. Hon oedd prif ddadl yr ysgrif gyntaf a luniwyd yn America i ymosod mewn modd systematig ar gaethwasiaeth, *The Selling of Joseph. A Memorial* (1700), gan y barnwr o Biwritan, Samuel Sewall. Ymgais i ymateb i’r dadleuon ar bwys y Beibl a ddefnyddid i gyfiawnhau caethwasiaeth hiliol yn America yn ystod y cyfnod trefedigaethol ydoedd, ac egyr Sewall ei draethawd gyda’r datganiad fod pawb yn tarddu o’r un man a bod ganddynt yr un hawliau sylfaenol i fod yn rhydd: ‘It is most certain that all Men, as they are the Sons of Adam, are Coheirs; and have equal Right unto Liberty, and all other outwards Comforts of Life.’ Sewall, *The Selling of Joseph. A Memorial* (Boston, MA: Bartholomew Green, and John Allen, 1700), 1.

<sup>98</sup> Demetrius K. Williams, ‘The Acts of the Apostles’, yn Brian K. Blount (gol.), *True to our Native Land: An African American New Testament Commentary* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2007), 235-6.

ambell ysgrif yn y wasg yn dadlau fod enwadaeth yn llesteiriol i lwyddiant diddymiaeth a'r efengyl. Rheitiach o lawer fyddai ymddwyn fel *Cristnogion*.<sup>99</sup>

Daeth nifer 'luosog o weinidogion ac ereill o wahanol enwadau crefyddol' ynghyd a chyhoeddwyd nifer o ddatganiadau parthed caethwasiaeth. Y penderfyniad cyntaf a gyhoeddwyd ganddynt oedd yr egwyddor a welir yn Actau 17:26:

1. Yr ydym yn cydnabod yr hiliogaeth Affricanaidd fel rhan o'r teulu dynol, y rhai a greodd Duw fel y rhoddodd ei Fab i wneud cymod dros eu heneidiau.<sup>100</sup>

Oherwydd yr ymdeimlad hwn o berthyn i'r Affricaniaid Americanaidd, ac am fod 'caethiwed yn iselhaul safon crefydd ymarferol', casglodd y cyfarfod eu '*bod dan rwymau i ddefnyddio [eu] dylanwad moesol, crefyddol, a pholeticaidd er dileu caethiwed*'.<sup>101</sup>

Cafwyd sylwadau cyffelyb gan 'Iorwerth' yn ei ysgrif am 'Wrthgaethiwaeth', a ymddangosodd ym mis Ebrill 1844 yn *Y Cenhadwr Americanaidd*. Fel y gynhadledd yn Farmington, cred 'Iorwerth' fod cysylltiad teuluol rhwng pawb o bob lliw, a bod 'y dyn du mor werthfawr [â]r dyn gwyn. Y Crëwr a'u gwnaeth ill dau. O bridd y ddaear y gwnawd y dyn du [â]r dyn gwyn, yr un modd'.<sup>102</sup> Efelychiad naratifol o Genesis 2:7, lle creodd Duw 'ddyn o lwch y tir' yw'r hyn a geir gan 'Iorwerth', a thrwy hynny, hyrwyddo'r gred mai'r 'un gwaed' hwnnw a grëwyd gan Dduw, ac y tarddodd dynoliaeth gyfan ohono, oedd Adda.<sup>103</sup>

Yn rhifyn Hydref 1843 *Y Dyngarwr*, ymddangosodd erthygl drawiadol gan un a ysgrifennai dan y ffugenw 'Gogleddwr', yn trafod 'Rhagfarn yn erbyn Gwaith Duw'. Sylwa 'Gogleddwr' ar un o'r prif resymau a rwystrai rai o'i gymdogion a wrthwynebant gaethwasiaeth o ran egwyddor rhag gweithredu, sef lliw croen y caethion. Pe buasai'r Cymry yn 'sefyllfa y bobl dduon yn y deau', buasai cymdogion 'Gogleddwr' yn ymdrechu'n ddiplino i'w rhyddhau, ond oherwydd bod y caethion cyfoes 'o genedl arall ac o liw arall, esgeulusir eu hachos'.<sup>104</sup> Myn 'Gogleddwr' fod y fath ragfarnau hiliol, mewn gwirionedd, yn rhagfarn yn erbyn Duw, oherwydd, gofynna, 'Onid Efe a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear?'<sup>105</sup> A chan mai Duw a greodd yr Affricaniaid, nid oes arnynt fai am eu pryd na'u gwedd, meddai:

---

<sup>99</sup> Er enghraifft, John Thomas, 'Undeb a Brawdgarwech', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1856), 367-8.

<sup>100</sup> 'Cynadledd Farmington', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1843), 249.

<sup>101</sup> *Ibid.*, 250. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>102</sup> 'Iorwerth', 'Gwrthgaethiwaeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1844), 104.

<sup>103</sup> *Ibid.*

<sup>104</sup> 'Gogleddwr', 'Rhagfarn yn erbyn Gwaith Duw', *Y Dyngarwr* (Hydref 1843), 74.

<sup>105</sup> *Ibid.*



Beth a all y dyn lliw neu y dyn du wrth ei liw, mwy nag a allaf finau wrth liw fy llygaid neu liw fy ngwallt? Onid y Creawdwr doeth a daionus a ffurfiodd bawb, ac a greodd y gwahanol liwiau fel pob peth arall?<sup>106</sup>

Roedd cyfeirio at darddiad cyffredin dynoliaeth yn fodd i ‘Gogleddwr’ oresgyn rhagfarnau hiliol ei gymdogion, a chyn terfynu, cyflwyna sylw ychwanegol i wirioneddol herio’r darllenwyr. O fod wedi sefydlu bod y Cymry a’r Affricaniaid yn perthyn i’w gilydd, gan eu bod yn tarddu ‘o un gwaed’, dylai’r Cymry ymdrechu er mwyn eu teulu estynedig, ond ni wnaent. Gan hynny, datgan y ‘Gogleddwr’ ei amheuaeth a fuasai’r Cymry hynny mewn gwirionedd yn ymdrechu er mwyn eu cyd-genedl pe buasent hwy yn sefyllfa’r caethion:

Yn wir, Mr. Golygydd, yr wyf yn ameu yn fawr am y dyn sydd yn gallu esgeuluso achos yr Affricaniaid a orthrymir, nad esgeulusai hefyd achos y Cymro, pe byddai ei berthynas â’r Cymro yn gyffelyb yr un ag yw â’r Affricaniaid, *a’r cyffredinolrwydd o’i amgylch mor ddirmygus o’r Cymro ag ydynt o’r Negro*. Os nad yw cariad at Dduw ac at eneidiau dynion yn ddigonol i’n cymell yn y naill achos, ni wnai yn y llall ychwaith.<sup>107</sup>

Drachefn, dygir cysylltiad uniongyrchol rhwng y Cymry a’r Affricaniaid Americanaidd gan ddweud y bu i’r ‘Iesu bendigedig [...] farw dros y Negro tlawd yn gystal [â] thros y Cymro’.<sup>108</sup> Cafwyd sylw cyffelyb am ddylanwad aberth Crist mewn cerdd a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* flwyddyn yn ddiweddarach gan Morris Roberts o Remsen. Yn y pennill olaf ond un, geilw’r bardd ar i Gristnogion ofalu am y caethion am eu bod hwythau wedi eu heffeithio gan aberth Crist:

Chwithau Grist’nogion, &c.,  
Dros y rhai caethion O trowch,  
’Honynt lu o blant eich Tad,  
Brynodd Crist a’i werthfawr waed,  
Am eu rhyddid rhowch weddi, O rhowch.<sup>109</sup>

Mae’r pwyslais hwn ar i’r Cymry ymdrechu er mwyn y caethion, waeth beth fo’u lliw, yn atgoffaol o sylwadau Robert Everett yn ‘Beth yw Rhyddid?’ Cred Everett fod

---

<sup>106</sup> Ibid.

<sup>107</sup> Ibid., 75. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>108</sup> Ibid.

<sup>109</sup> Morris Roberts, ‘Y Farchnad ar Ddynion yn Rhandir Columbia’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1844), 81.

‘rhyddid’ yn ‘hawlfraint [...] i bob dyn, o bob lliw, iaith a chenedl, trwy *ddwyfol roddiad*’.<sup>110</sup> Roedd yr hawl i ryddid yn un a oedd yn perthyn i ddynoliaeth gyfan, ac roedd amddifadu unigolyn o’r hawl sylfaenol hwn yn ‘gysegr yspail ar eiddo yr Arglwydd’.<sup>111</sup> O’r herwydd, a chan fod ‘yr hil ddynol yn gydradd’, fel y dywedodd J. J. Jones, Efrog Newydd, yn rhifyn Mai *Y Dyngarwr*, yr oedd dyletswydd ar i’r Cymry ymateb.<sup>112</sup>

Ceisid hyrwyddo’r syniad hwn o berthyn rhwng y Cymry a’r caethion mewn nifer o destunau wrth i awduron gyfeirio at y caethion fel eu ‘brodyr duon’ yn y De,<sup>113</sup> ac yn ‘blant Adda’ a gedwid mewn anwybodaeth ysbrydol.<sup>114</sup> Mae’n debyg y teimlai’r Cymry hyn reidrwydd i newid barn eu cyd-genedl yn America’n fuan, gan na fyddai obaith sicrhau lles yr Affricaniaid Americanaidd tra parheid i arddel daliadau hiliol.<sup>115</sup>

Bu’r adnod hon o lyfr yr Actau’n destun nifer o bregethau hefyd. Er enghraifft, ymddangosodd ‘Darlith’, a draddodwyd gan y Parch. T. Roberts, gweinidog Capel Ebeneser, Freedom, Catteraugus, yn wreiddiol ar 2 Hydref 1856, mewn dwy ran yn *Y Seren Orllewinol* ym 1858. Testun y ddarlith oedd ‘ACTAU 17:2[6]’.<sup>116</sup>

Egyr Roberts ei bregeth drwy gyfeirio at batrwm a welwyd mewn ‘hanesyddiaeth’, wrth i rai o’r ‘ddynoliaeth’ geisio ‘[t]ra-arglwyddiaethu a gorthrymu’ eraill, ac wrth iddynt hwythau, y rhai ‘a orthrymwyd’, geisio taflu ‘ymaith yr iau ormesol oddi ar eu gwarau’.<sup>117</sup> Patrwm a ailadroddid droeon ydyw, ac yr oedd i’w weld yn eglur ddigon yn yr Unol Daleithiau. Gwelir, felly, nad yw Roberts yn llwyr feirniadol o batrwm cymdeithasol o’r fath, a deil ei bod yn anochel y ceir amrywiaeth statws rhwng unigolion: ‘Nid wyf yn ameu nad yw Rhagluniaeth yn codi rhai mewn swyddau ac amgylchiadau yn uwch nâ’u gilydd’.<sup>118</sup> Nid yw hynny, fodd bynnag, yn esgusodi gorthrymu a ‘meddiannu’ y sawl sydd o safle is. O’r herwydd, a chyn dyfynnu Actau 17:26, datgan Roberts mai bwriad Duw yw i bob un fod ‘yn gydraddol â’i gyd-ddyn’.<sup>119</sup>

---

<sup>110</sup> Robert Everett, ‘Beth yw Rhyddid?’, *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 4. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>111</sup> *Ibid.*, 4.

<sup>112</sup> J. J. Jones, ‘Cydraddoldeb’, *Y Dyngarwr* (Mai 1843), 38.

<sup>113</sup> David Howell, ‘Ffeithiau ar Gaethiwed’, *Y Dyngarwr* (Chwefror 1843), 12.

<sup>114</sup> ‘Cymeriad y Gymdeithas Wrth-gaethiwol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1843), 76.

<sup>115</sup> Neges gyffelyb a ddatganodd D. Jenkins, Palmyra yn ei ‘Araeth Ar Wrthgaethiwed’, *Y Seren Orllewinol* (Mai 1847), 104: ‘gwrthoda eraill bleidio yr achos gwrthgaethiwol o herwydd eu bod yn ofni y bydd i’r Negroaid ymgymysgu trwy briodi â’r dynion gwynion.’

<sup>116</sup> T. Roberts, ‘Darlith’, *Y Seren Orllewinol* (Ebrill 1858), 78-80; *Idem.*, ‘Darlith’, *Y Seren Orllewinol* (Mai 1858), 106-8.

<sup>117</sup> *Idem.*, ‘Darlith’, *Y Seren Orllewinol* (Ebrill 1858), 79.

<sup>118</sup> *Ibid.*

<sup>119</sup> *Ibid.*

Yn y cyswllt hwn, cyfeiria at brif ‘bwngc y cyfnod presennol’, sef ‘rhyddid a chaethiwed’, yr hwn sy’n ‘esgyn i fyny hyd yn nod i gysesgr Duw’.<sup>120</sup> Gan i’r bregeth gael ei thraddodi’n wreiddiol ychydig wythnosau cyn etholiad arlywyddol 1856, nid yw’n syndod i Roberts gasglu eu bod yn byw mewn amser terfysglyd oherwydd y gwrthdaro rhwng rhyddid a chaethiwed. Ond â’r Rhyfel Cartref yn prysur ddynesu adeg cyhoeddi’r ddarlith, gwelir perthnasedd geiriau Roberts i 1858 yn ogystal.

Cyfeddyf Roberts nad ydyw ef, fel nifer o Gymry gwrth-gaethiwol yr oes, yn hoff o gymysgu crefydd a gwleidyddiaeth – ‘dwyn gwleidyddiaeth (*politics*) i’r areithfa’ – ond casgla fod y mater dan sylw, ‘rhwng rhyddid naturiol dyn a’i ryddid moesol trwy ras’, yn galw arno i wneud yr union beth. Gan hynny, datgan nad yw caethwasiaeth yn rhywbeth ‘a fwriadwyd gan Dduw’, ei bod yn ‘bechod’ yn erbyn yr Arglwydd, ‘ac yn drais a gorthrymder mwyaf atgas ar ddyn.’<sup>121</sup> Roedd holl hanfod caethwasiaeth yn gwrthdaro gyda gwaith Duw.

Â rhagddo i drafod testun Actau mewn manylder a’i fan cychwyn yw tanlinellu unigoldeb dynoliaeth, ‘Y mae holl genedloedd y ddaear yn gydraddol yn mhob ystyr [...] ar gyfrif eu tarddiad o’r un boncyff, sef Adda.’<sup>122</sup> Yn hyn o beth, cyfeiria at y ddadl hiliol a arddelid gan gynifer yn yr oes, a maentumia nad oes gwahaniaeth yng nghyneddffau dynol unigolion oherwydd lliw eu croen.

Roedd y ddadl fod dynoliaeth yn perthyn i ddsbarthiadau amrywiol oherwydd eu ‘cenedl’ a’u lliw croen yn gyffredin yn yr oes, ac yn destun trafod cyson.<sup>123</sup> Cafwyd ysgrif yn ymddrin â’r union beth yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Ebrill 1853 gan J. Price Jones o Flint Creek, lle cyfeiriodd at *Chambers Information for the People on the Physical History of Man*, yr astudiaeth a osodai ddynoliaeth mewn pum dosbarth, gyda ‘Hil y Caucassiaid’ ar y brig, ‘yr “hil Ethiopiaidd”’ yn drydydd, a’r ‘*Malay race*’ yn y dosbarth isaf.<sup>124</sup> Wedi craffu ar hynny, a chan gyfeirio’n fynych at *Uncle Tom’s Cabin*, trafoda Jones y caethion cyfoes a mynnu na ddylid arddel syniadau hiliol o’r fath a osodai rai cenedloedd yn uwch na’i gilydd

---

<sup>120</sup> Ibid.

<sup>121</sup> Ibid.

<sup>122</sup> Ibid.

<sup>123</sup> Er enghraifft, cyfeiriodd James Freeman Clarke at ddamcaniaethau o’r fath mewn pregeth a draddodwyd ganddo ar ddydd Diolchgarwch 1842, ‘Slavery in the United States’. Wedi cydnabod fod cryn amrywiaeth rhwng cenedloedd y ddynoliaeth, ‘There are many varieties in the human family. The Englishman, Welshman, Scotchman and Irishman are organically different’, haera na ddylai hynny fod yn rheswm i gyfiawnhau gorthrymu’r Affricaniaid. Gweler, Mason Lowance (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader* (New York: Penguin Books, 2000), 68-9.

<sup>124</sup> J. Price Jones, ‘Unigoldeb yr Hil Ddynol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1853), 132.

oherwydd, ““Onid brodyr o un bru ydym? / Ar y cyntaf yn Addaf *un oeddym*.””<sup>125</sup> Roedd dyfynnu’r cwpled hwn, sy’n adleisio geiriau Job wrth iddo geisio’i amddiffyn ei hun yn wyneb y cyhuddiad iddo ddiystyru achos ei weision (Job 31:15), yn fodd i Jones fynegi y dylai’r caethion gael ‘*chwareu teg*’ yn America, oherwydd eu bod yn perthyn i’r un ach â’r Cymry.<sup>126</sup>

Yn yr un modd, a chan fynd yn fwriadol groes i ddadleuon polygenesis yr oes, deil Roberts yn ei bregeth nad yw lliw croen gwahanol yn arwyddo nad yw dynoliaeth gyfan yn tarddu o’r un man. Deil y gall lliw newid gydag amser a’i bod yn bosibl fod yr Affricaniaid yr un ffunud â chyn-dad y ddynoliaeth: ‘nid oes un sicrwydd na phrawf ein bod yn dal perthynas ag Adda yn fwy nâ’r dyn du, o herwydd ni roddir hanes i ni beth oedd lliw ei groen.’<sup>127</sup>

O fod wedi egluro’r tarddiad cyffredin, myn fod pob dyn, o ran ei gyfansoddiad, yn meddu ar ‘yr un tueddiadau a’r un teimladau dynol’.<sup>128</sup> Dengys hynny, felly, fod ‘unrywiaeth’ i genhedloedd y ddaear. Yn hyn o beth, dadleua Roberts yn erbyn safbwyntiau’r caethbleidwyr, a gredent fod yr Affricaniaid yn gynhenid iselradd, heb y gallu meddyliol i fedru byw’n annibynol fel pobl groenwyn; ‘Peth a brawf unrywiaeth cenedloedd y ddaear yw, fod y naill fel y llall yn meddu ar gynheddfau a gallu meddyliol yn ogyfuwch i’w gilydd.’<sup>129</sup> A’r rheswm olaf a rydd dros ‘unrywiaeth cenedloedd y ddaear’, yw i aberth Crist effeithio ar bob un, ac o’r herwydd, i bob creadur dynol gael yr hawl i fwynhau ‘yr iechydwrïaeth’ Gristnogol.<sup>130</sup>

Am weddill y bregeth, trafoda Roberts ‘Anghyfiawnder ac afresymoldeb’ caethwasiaeth, gan nodi, ymysg pethau eraill, nad oedd Duw wedi cynllunio i ddyn ‘berchnogi a chaethiwo dyn arall.—Nid yn unig nad yw ef wedi bwriadu caethiwo, ond o dan yr efengyl y mae hynny yn cael ei wahardd.’<sup>131</sup> Dewisodd Roberts beidio â chydabod y deddfau a roddwyd gan Dduw drwy gyfrwng Moses ynglŷn â sut yr oedd yr Israeliaid i drin eu caethion, ac iddo, yn hytrach, ganolbwyntio ar dystiolaeth y Testament Newydd a maentumio fod yr efengyl yn gwahardd caethiwed, oherwydd bod ‘lladron dynion’ wedi eu

---

<sup>125</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol. Gweler ‘Elusen’, yn Thomas Ll. Jones (gol.), *Ceinion Awen y Cymmry: sef, detholiad o waith y beirdd godidocaf, hen a diweddar; gyda Chyfieithiadau o Ganiadau Seasonig, ac hefyd Bryddestau Cyssefin* (Dinbych: Thomas Gee, 1831), 71.

<sup>126</sup> Jones, ‘Unigoldeb yr Hil Ddynol’, 133. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>127</sup> Roberts, ‘Darlith’, 79.

<sup>128</sup> Ibid.

<sup>129</sup> Ibid., 80.

<sup>130</sup> Ibid.

<sup>131</sup> Roberts, ‘Darlith’, *Y Seren Orllewinol* (Mai 1858), 106.

cynwys yn rhestr drwgweithredwyr Paul (cf. 1 Tim. 1:10). Â yn ei flaen i ddarlunio ‘anghyfiawnder a drygedd caethiwed’ wrth gyfeirio at y modd y masnechid caethion yn nhaleithiau’r De, a’r fath gam-driniaeth a brofent. Cyfeiria’n benodol at ‘yr hyn a elwir y drosglwyddfa ganol (*Middle Passage*)’, a’r fath erchyllterau a brofasai’r Affricaniaid wrth gael eu dwyn i America.<sup>132</sup>

Fel sy’n nodweddiadol o destunau o’r fath, beirnedir rhagrith yr America ‘fostfawr am ei rhyddid a’i breiniau’, a cheir nodyn galarus gan Roberts am y modd y trinnid y caethion cyfoes:

O America, yr hon wyt yn achlesu dy froydd â chwys a gwaed meibion Ham, yr hon y mae awenau dy lywodraeth yn nwyllaw y gorthrymus a’r digydwybod! pa hyd y bydd y fath bethau yn cael eu cofrestru yn dy erbyn?<sup>133</sup>

Fel y sylwyd ym mhennod gyntaf y thesis hwn, roedd i’r ymadrodd ‘meibion Ham’ neu ‘feibion Cham’, amryw ystyron.<sup>134</sup> Yng ngolwg y caeth-bleidwyr, yr oedd yn ymadrodd a atgoffai am y felltith honedig a osodwyd ar ‘Cham’ gan Noa, ac felly’n dystiolaeth hwylus i gyfiawnhau caethiwo’r Affricaniaid. I’r gwrth-gaethiwyr, fodd bynnag, yr oedd yn fodd o ddangos tarddiad dynoliaeth a bod holl genhedloedd y ddaear yn tarddu o dri mab Noa. Gellir awgrymu fod Roberts yn hynod grefftus yma yn ei ddefnydd o’r ymadrodd ‘meibion Ham’, gan ei fod yn atgoffa am darddiad cyffredin dynoliaeth, sef yr union beth a bwysleisia testun ei bregeth, mai ‘o un gwaed’ y creodd Duw ‘bob cenedl o ddynion’, a maentumia arswyd y ffaith fod aelodau o deulu estynedig hil Gomer yn dioddef dan ormes.

Noda fod caethwasiaeth yn peri niwed cyffredinol, a’i bod, mewn gwirionedd, yn faen tramgwydd i ‘lwyddiant yr efengyl.’ Wrth i ‘[g]annoedd o grefyddwyr [... b]rynu a gwerthu dynion’, ac wrth i weinidogion fod yn berchen ar gaethion a phregethu o blaid y gyfundrefn, ni ellid disgwyl llwyddiant crefyddol yn America.<sup>135</sup>

Daw’r gweinidog â’i bregeth i’w therfyn drwy ddatgan y dyletswyddau sydd ar Gristnogion. Dylent weddio ar Dduw i ‘dori cadwynau y caethion’, pleidleisio dros ‘[dd]ynion o egwyddorion’ i’w cynrychioli yn y llywodraeth, ac yn syml, godi eu ‘llais’ a’u ‘llef yn erbyn caethiwed’.<sup>136</sup> Gyda hynny, a chan eu bod yn ddyngarwyr o’r iawn ryw, meddai Roberts, dylai Cymry America a’r Gogledd godi’n erbyn caethiwed:

---

<sup>132</sup> Ibid., 107.

<sup>133</sup> Ibid.

<sup>134</sup> Gweler Pennod 1 uchod.

<sup>135</sup> Roberts, ‘Darlith’, 107.

<sup>136</sup> Ibid., 108.

“Trech gwlad nac arglwydd” medd hen ddihareb Gymbreig, &c. A ydyw yn rhesymol i ddyngarwch sefyll yn segur yn y gogledd, i edrych ar gigyddion y deau yn prynu a gwerthu cig a gwaed dynol? Nac ydyw, frodyr. Am hyny, at ein dyletswydd.<sup>137</sup>

Diau y buasai'r fath rethreg wedi cael cryn effaith ar y gynulleidfa, yn enwedig â Roberts wedi defnyddio'r Beibl i bwysleisio'r cysylltiad 'teuluol' rhwng y Cymry a'r caethion.

Mynegir y gred hon, mai Duw a greodd y byd ac felly bob creadur hefyd, mewn llythyr creadigol trawiadol a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1849). Cynigai'r llythyr, sy'n enghraifft gynnar o ysgrifennu gwyddonias yn y Gymraeg, sylwebaeth am gyflwr moesol yr Americanwyr fel Cristnogion mewn perthynas â chaethwasiaeth. Cyhoeddwyd 'Llythyr un o Drigolion y Lleuad at Drigolion y Ddaear' yn wreiddiol yn *Yr Amserau*, ond gan ei fod yn cyfeirio'n bennaf at y sefyllfa yn America, penderfynwyd ei gynnwys ym misolyn Annibynwyr Cymraeg yr Unol Daleithiau.

Egyr y llythyr gyda'r Lloerolwr, sy'n byw yn Neheubarth y Lleuad, yn cyfarch y darllenwyr fel ei 'gydgreaduraid', oherwydd, er gwaethaf y 'gwahaniaeth sydd rhwng ein naturiaethau, ein ffurfiau corphorol, a'n gallu meddyliol', yr un yw eu Creawdwr.<sup>138</sup> Gan mai'r un Duw sy'n gyfrifol am fodolaeth creaduriaid y lleuad a'r Ddaear, Ef yw 'Brenin' y bydysawd. Eir ymlaen i gyfeirio at '[d]ad cyntaf' y ddynoliaeth, Adda, a'r modd y cwmpodd, ond i Dduw, 'ein Brenin yn ei anfeidrol drugaredd a'i gariad' ofalu am 'arbed' y ddynoliaeth.<sup>139</sup> Wedi olrhain mai'r un Creawdwr a fu'n gyfrifol am greu'r 'lloerolion' a'r 'daearolion', a bod trigolion y Ddaear oll yn hanu o Adda, gallai'r Lloerolwr gyhoeddi ei syndod fod un wlad ar y Ddaear, 'yr hon a ymffrostia yn ngogoniant ei rhyddid, ac uniondeb ei deddfau a'i sefydliadau [...] yn euog o ddal a gwerthu dynion wrth y miloedd, i gaethiwed a chaledwaith.'<sup>140</sup> Cyfeirir hefyd at ddysgeidiaeth Crist am briodas er mwyn galaru am arfer a nodweddi'r wlad honno – America; 'gwahenir fel hyn w[ŷ]r a gwragedd, rhieni a phlant oddiwrth ei gilydd am byth', wrth eu hanfon i gael eu gwerthu mewn marchnadoedd 'i'r uchaf ei gynnyg'.<sup>141</sup>

Traetha'r Lloerolwr ei siom fod y fath ymddygiad yn digwydd mewn gwlad sy'n gyfarwydd â'r grefydd Gristnogol, a chollfarna'r sawl sy'n euog o hynny, drwy ddwyn i gof stori'r creu yn Genesis a thestun Actau 17:26 ar yr un gwynt:

---

<sup>137</sup> Ibid.

<sup>138</sup> 'Lloerolwr', 'Llythyr Un o Drigolion y Lleuad at Drigolion y Ddaear', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1849), 14.

<sup>139</sup> Ibid., 15.

<sup>140</sup> Ibid.

<sup>141</sup> Ibid.

Beth? dynion, plant yr un Tad Nefol, â'r un Tad Daearol, yn ymddwyn fel hyn at eu gilydd! Dynion mewn gwlad ag y mae gwybodaeth o enw ac ewyllys eu Creawdwr yn eu dwylaw;—dynion a broffesant barch ac ufudd-dod i'w Duw, a adeiladant demlau, ac a gynullant at eu gilydd i'w addoli ynddynt;—dynion a ymffrostiant yn rhyddid eu llywodraeth, a sefydliadau goleaedig eu gwlad, yn gallu ymfwystfileiddio fel hyn! Ie, a'r llywodraeth hono yr ymffrostir fel hyn ynddi yn cydnabod ac awdurdodi y peth!! Yr wyf yn meddwl mai America y galwodd fy hysbysydd y wlad honno,—Wel, aed ei henw yn ddiareb ac yn chwibaniad drwy y bydoedd.<sup>142</sup>

Datganiad hynod drawiadol a geir gan y Lloerolwr a gellid awgrymu bod awdur y llythyr yn cyfleu'r teimlad ymysg y Cymry yn y famwlad, a oedd bellach yn byw mewn gwlad rydd, yn synnu at ymddygiad yr Americanwyr yn parhau i arddel caethwasiaeth. Gan mai llythyr agored ydoedd, ei amcan, bid siŵr, oedd cael effaith ar gynifer o bobl â phosibl.

Difyr hefyd yw sylwi i'r llythyrwr nodi mai Cymraeg yw unig iaith y lloerolwr. Roedd hon hefyd yn ffordd o gyfleu'r syniad o gyffredinoldeb rhwng trigolion y lleuad a thrigolion y Ddaear. Yn ogystal, efallai ei fod yn fodd o apelio at falchder cenedlaethol y Cymry. Gan fod llinach hil Gomer yn hynafol, yn un y gellid ei holrhain at Dduw ei hun, fel y gwelwyd ym mhennod gyntaf y thesis hwn, roedd eu hiaith hefyd yn un hynafol. Tybed ai arddel y syniad mai'r Gymraeg oedd yr hen iaith a siaredid cyn y cymysgu yn stori Tŵr Babel oedd awdur y llythyr creadigol hwn?<sup>143</sup>

Waeth bynnag am hynny, y mae'n eglur ddigon mai pwysleisio undod y ddynoliaeth am ei bod wedi'i chreu gan Dduw ac yn tarddu o Adda, yw diben y llythyr. Gan fod pobun yn perthyn, ni ddylai unrhyw un gam-drin ei gymydog, ac yn ddiau, ni ddylai gaethiwo 'ei frawd'.<sup>144</sup>

Gwelir yr alwad hon hefyd mewn nifer o gerddi, a'r rheiny'n aml yn rhai a gyflwynid ar ffurf ymson caethwas neu gaethferch. Enghraifft o'r fath yw 'Y Plentyn Du yn America', gan 'Elizabeth' o Remsen. Egyr y gerdd â'r caeth yn ymholi ynghylch y rheswm y mae yn ei gadwynau, oherwydd, hyd y gwyddai, Duw a'i creodd:

---

<sup>142</sup> Ibid.

<sup>143</sup> Tarddai'r gred hon o'r diddordeb cynyddol ym maes hynafiaeth y Gymraeg. Aeth nifer o ysgolheigion y gwledydd Celtaidd ati i geisio profi mai eu hiaith hwy oedd yr iaith gyntefig, a bod pob iaith arall wedi tarddu ohoni. Ym marn rhai ysgolheigion, megis William Owen Pughe, y Gymraeg oedd yr iaith wreiddiol. Meddai Huw Walters, 'Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol' yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), 331: 'O ganlyniad daeth yn ffasiynol ystyried y Gymraeg yn rhodd gyntefig ddwyfol. Hon oedd iaith Gardd Eden ac iaith y nefoedd a dyna paham y brithir cyfnodolion y cymdeithasau Llundainig â thraethodau meithion ar destun fel "The progress of the colonization of Europe from the dispersion of Babel to the commencement of history" a "The Welsh language and its affinity to the oriental languages, and those of the south of Europe."'

<sup>144</sup> 'Lloerolwr', 'Llythyr Un o Drigolion y Lleuad at Drigolion y Ddaear', 15.

Ai am fy mod yn ddu fy lliw  
Yr wyf fel hyn yn gaeth?  
Os nad wyf wyn wyf blentyn Duw  
Ac ef yn wir a'm gwnaeth.<sup>145</sup>

Ac yn y trydydd pennill, cyfeirir at ddysgeidiaeth Iesu Grist bod dynoliaeth gyfan yn tarddu o'r un cyn-dad:

Os gwir a ddywed Iesu Grist  
Trwy yr apostol Paul\* \*Act. 17: 24.  
Mai o'r un gwaed gwnaed teulu dyn  
Pa'm byddaf mwy yn ol.<sup>146</sup>

Yr un math o holi rhethregol a welir yn 'Ymson (*Soliloquy*) y Caethwas', sef detholiad o bryddest fuddugol Llew Llwyfo yn Eisteddfod Cendl (4 Hydref 1854):

Pe cawn genad mi ofynwn—  
P'le mae'r hawl i'm trin fel hyn?—  
Nid yw'n drosedd, mi debygwn,  
Fod dyn yn ddu yn lle yn wyn;  
Nid oes llawer o wahaniaeth  
Rhyngwyf fi a'r meistr hwn  
Yn ngwneuthuriad fy naturiaeth,  
Eto rhaid i'm dwyn fy mhwn.<sup>147</sup>

### Cenhadaeth Gristnogol Cymry America

Ynghyd â hyrwyddo'r egwyddorion egalitaraidd a sylfaenai'r ymgyrch gwrth-gaethiwol, gan gynnwys y Rheol Aur, brawdgarwch, a tharddiad cyffredin dynoliaeth, cyhoeddid testunau amrywiol a alwai'n uniongyrchol ar i Gymry America fel Cristnogion ymateb er mwyn eu cyd-ddyn, y caethion. Enghraifft nodedig o hyn yw ysgrif gyfoethog Robert Everett, 'Beth a all y Cymry Wneud?'<sup>148</sup> Nodir yn yr ysgrif ddeg gorchymyn y gwrth-gaethiwr Cymraeg, a'r gred oedd, pe cyflawnid hyn, y rhyddheid y caethion. Dechreuau Everett drwy ddatgan y dylai pob Cymro ymgylchiwyddo ag amgylchiadau'r caethion a chofio amdanynt yn eu gweddïau. Dylid gwneud yn hysbys safiad gwrth-gaethiwol y Cymry a, gyda hynny, ymdrechu i

<sup>145</sup> 'Elizabeth', 'Y Plentyn Du yn America', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1863), 357.

<sup>146</sup> *Ibid.*

<sup>147</sup> 'Ymson (*Soliloquy*) y Caethwas', *Y Drych a'r Gwylidydd* (7 Mehefin 1856), 177. Cyhoeddwyd hefyd yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Chwefror 1856), 66. Gweler y feirniadaeth ar y bryddest yn 'Eisteddfod Cendl', *Yr Amserau* (25 Hydref 1854), 2.

<sup>148</sup> Robert Everett, 'Beth a all y Cymry Wneud?', *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 6-7.



‘wrthwynebu y rhagfarn a goleddir yn ein gwlad yn erbyn yr Affricaniaid a’u hiliogaeth, o herwydd eu lliw.’<sup>149</sup>

Cyfeirir yn benodol at y gweinidogion, ‘[g]weision yr Arglwydd Iesu’ yn y pumed pwynt, gan eu cynghori i ddilyn esiampl pob ‘diwygiad moesol’ mewn hanes, a chymryd arnynt rôl fwy gweithredol yn yr ymdrech i ryddfrenio’r caethion. Oherwydd mai ‘mewn undeb y mae grym’, dylid ffurfio cymdeithasau gwrth-gaethiwol a sicrhau ymdrech dorfol. Gyda hynny, dylid apelio at y llywodraethwyr drwy ddeisebu ac i bob Cymro America ddefnyddio ‘ei bleidlais dros y caethwas’ adeg etholiad.<sup>150</sup>

Y ddau bwynt olaf yw y dylid cyfansoddi ‘emynau ar ryddid fel y gwneir ar ddirwest’, a sicrhau bod gan wragedd a merched Cymraeg America lais a dylanwad yn yr ymgyrch. Ailgyflwynid y datganiadau hyn droeon mewn sawl cyfnodolyn.<sup>151</sup>

Nodir mewn amryw destunau fod parhad caethwasiaeth yn llygredigaeth ar gyflwr moesol yr Unol Daleithiau,<sup>152</sup> ac yn wir, bod cadw’r caethion mewn cyflwr o anwybodaeth – parhau ‘i gadwyno meddyliau y trueiniaid’<sup>153</sup> – yn llesteiriol i ffyniant Cristnogaeth:

Mae [caethwasanaeth] yn bechod yn erbyn moesoldeb, am ei fod yn cau y caethion mewn anwybodaeth. Mae o gylch tair miliwn yn y wlad hon (sef gwlad oleu efengyl,) yn cael eu cadw mewn tywyllwch dudew am eu Creawdwr, am eu dyledswydd tuag ato, ac am ffordd o iachawdwriaeth i’w heneidiau, o herwydd mae y rhan amlaf o’r caeth-feistriaid yn gwrthod pob math o addysg; ac hefyd pregethu a darllen yr ysgrythurau i’r caethion[.]<sup>154</sup>

Trafodir mewn ysgrif a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* fis Gorffennaf 1846 sefyllfa’r caethion yn cael eu hamddifadu o’r efengyl ar yr un gwynt â chymharu’r caethfeistri Americanaidd â’r ‘ysgrifenyddion a Phariseaid rhagrithwyr’, y sawl a wrthwynebent ddysgeidiaeth Crist.<sup>155</sup> Mae’r gymhariaeth hon yn drawiadol oherwydd, yng ngolwg ‘Iorwerth’, roedd yr Iddewon hynny nad oeddent am goleddu’r newydd da yn mynd yn groes i ewyllys Duw, yn yr un modd ag yr oedd y caethfeistri yn America drwy wrthod

---

<sup>149</sup> Ibid., 6.

<sup>150</sup> Ibid.

<sup>151</sup> Er enghraifft: ‘Egwyddorion a Mesurau’, *Y Dyngarwr* (Mai 1843), 38-9.

<sup>152</sup> John Rees, ‘Y Gaethfasnach Americanaidd’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1850), 87-8.

<sup>153</sup> D. Griffiths, Ieu., ‘Caethwasiaeth Americanaidd’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1848), 168. Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn *Y Cronicl*.

<sup>154</sup> D. Jenkins, ‘Araeth ar Wrthgaethiwed’, *Y Seren Orllewinol* (Mai 1847), 102-3. Gweler hefyd, e.e., David Harries, ‘Cymanfa y T. C. yn Ohio a Gorrlewinbarth Pennsylvania’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Tachwedd 1861), 437.

<sup>155</sup> ‘Iorwerth’, ‘Y Caethfeistri Americanaidd, a’r Ysgrifenyddion a’r Phariseaid’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1846), 201.

goleuo'u caethion yn yr efengyl. Ymysg y cyffelybiaethau a ddygir rhwng y meistri yn y taleithiau deheuol ar y naill law, a'r ysgrifenyddion a'r Phariseaid ar y llaw arall, y mae'r cyhuddiad eu bod oll wedi cyfrannu at gynnal anwybodaeth grefyddol – ac yn achos America, wedi 'myned dros fôr i ledrata dynion', a'u gwerthu'n gaethion er mwyn sicrhau y byddent 'yn fwy llygredig nag oedd[ent] o'r blaen'. Yn hyn o beth, cyfeirir at destun Mathew 23:15:

Gwae chwi Ysgrifenyddion a Phariseaid rhagrithwyr; canys amgylchynu yr ydych y m[ô]r a'r tir i wneuthur un proselyt; ac wedi y gwneuler ef, yr ydych yn ei wneuthur yn fab uffern yn ddau mwy na chwi eich hunain.<sup>156</sup>

Oherwydd bod Iesu wedi sefyll yn gadarn yn wyneb beirniadaeth yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, felly hefyd y dylai'r Cymry America yn wyneb yr heriau amrywiol a oedd yn cynnal caethwasiaeth gyfoes; gan gynnwys y dadleuon seiliedig ar y Beibl gan gaethbleidwyr 'duwiol', a'r nifer o Gristnogion America, gan gynnwys y Cymry, a fyddai'n gwrthod caniatáu i'w capeli gynnal cyfarfodydd gwrth-gaethiwol.<sup>157</sup> Roedd y gymhariaeth hon â'r 'ysgrifenyddion a'r Phariseaid, rhagrithwyr' hefyd yn arwyddocaol am ei bod yn fodd o danlinellu paradocs yr Unol Daleithiau – yn rhagrithio drwy gynnal caethwasiaeth ond ar yr un pryd yn datgan ei bod yn 'land of the free.'

Cred gyffredinol oedd y dylid ymdrechu'n daer er mwyn rhyddhau'r caethion, oherwydd drwy wneud hynny, ymresymai nifer o Gymry y cynyddid nifer y Cristnogion yn yr Unol Daleithiau.<sup>158</sup> Er enghraifft, mewn llythyr yn trafod 'Y Gaethfasnach Americanaidd', a ymddangosodd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Tachwedd 1848, nodi John Rees ei bod yn ddyletswydd ar i'r Cymry anelu at ddiddymiaeth:

nes gwelom gadwynau y caethwas wedi eu dryllio, a rhyddid cyffredinol wedi ei estyn i "bawb o bobl y tir." Y mae yn amhosibl i ni ystyried America yn wlad rydd tra y mae ynnddi y dydd hwn dair miliwn o'i brodorion genedigol wedi cael eu hysbeilio o'u rhyddid a'u dwyn dan iau haiarnaidd caethiwed[.]<sup>159</sup>

Datgan John Rees yn eglur yn nes ymlaen yn ei lythyr fod amddifadu'r caethion o grefydd yn warth o'r mwyaf, ond awgrymir hynny yn y dyfyniad uchod yn ogystal, wrth iddo

---

<sup>156</sup> Ibid., 202.

<sup>157</sup> Ibid.

<sup>158</sup> A. Harris, 'Dyledswydd Cristionogion. *I ganiatau eu capeli er cynal cyfarfodydd gwrthgaethiwol ynnddynt*', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1848), 247.

<sup>159</sup> John Rees, 'Y Gaethfasnach Americanaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1848), 330-1.

fynnu bod rhyddid yn hawl sylfaenol i ‘bawb o bobl y tir’. Diau fod hyn yn adlais bwriadol o sylwadau Everett ynglŷn â natur ‘rhyddid’, ac o’r ymadrodd adnabyddus hwnnw, ‘Beibl i bawb o bobl y byd’.<sup>160</sup> Roedd dosbarthu Beiblau yn rhan o’r dyngarwch crefyddol a nodweddai Anghydfurfiaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Drwy roddi’r fath bwyslais ar arwyddocâd Ysgolion Sul, astudiaethau Beiblaidd a chyhoeddi catecismau,<sup>161</sup> credai’r Cymry ei bod yn ddyletswydd arnynt i hyrwyddo’r efengyl, a thrwy hynny, gynyddu’r niferoedd yng nghorlan Cristnogaeth. Eu rhesymeg, fel yr awgryma’u harwyddair, oedd y dylid anrhegu pob un â’r Gair, oherwydd unwaith y derbynid Beibl, derbynid yr allwedd i ryddid ysbrydol. Gan i Rees aralleirio’r ymadrodd hwnnw uchod, dichon ei fod yntau, fel nifer helaeth o wrth-gaethiwyr Cymraeg a di-Gymraeg America, o’r farn y dylid anelu at ryddid corfforol ynghyd â rhyddid ysbrydol y caethion, a bod y naill cyn bwysiced â’r llall.<sup>162</sup>

At y diben hwn, felly, dylai’r Cymry ymgynnull yn eu haddoldai i drafod mater caethwasiaeth, a chyd-ymlafnio i’w dileu. Noda Rees mai’r unig ffordd i sicrhau diddymiad y gyfundrefn, a sicrhau ‘*barn a chyfiawnder*’ yn y byd yw drwy bleidlais.<sup>163</sup> Yn hyn o beth, cyfeiria at yr anghytuno cyson a fu rhwng y diddymwyr a’r gwrth-gaethiwyr cymedrol parthed cynnal cyfarfodydd i drafod pwnc mawr y dydd mewn capeli. Ym marn amryw, ni ddylid cymysgu crefydd a gwleidyddiaeth; pwnc gwleidyddol ydoedd caethwasiaeth ac yn y cylchoedd hynny y dylai gael ei ddatrys.<sup>164</sup> Yn wir, dadl rhai oedd, am nad oedd yn y Beibl

---

<sup>160</sup> Tueudir i briodoli’r geiriau hyn i naill ai Robert Williams, *Y Pandy Isaf, Rhiwaedog, Meirionydd*; gweler O. M. Edwards (gol.), *Beirdd y Bala* (Llanuwchllyn: Ab Owen, 1911), neu Robert Davies (Bardd Nantglyn), ‘Awdl ar farwolaeth ein diweddar frenin Sior y Trydydd’, *Diliau Barddas; sef, Gwaith Barddonawl: yn cynnwys Odlau, Cywyddau, Englynion, Carolau, a Dyriau, ar wahanol destunau* (Dinbych: Thomas Gee, 1827), 23.

<sup>161</sup> Cyhoeddwyd nifer o destunau yn y wasg a drafodai bwysigrwydd Ysgolion Sul, dysgu ac addysgu. Enghraifft o destun o’r fath gan un o ladmeryddion yr Ysgol Sul, B. W. Chidlaw, yw ‘Cenhadaeth yn achos yr Ysgol Sabbothol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1847), 52-3.

<sup>162</sup> Cf. ‘Addysg Crefyddol y Caethion’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1854), 322-3. Mae hwn yn faes hynod ddiddorol ac yn un y dylid ei astudio ymhellach, ond nid dyma’r lle i’w drafod mewn manylder gan fod angen ystyried amryw agweddau cysylltiedig, megis hanfod y mudiad cenhadol, y rhesymeg ddiwinyddol dros ledaenu’r Gair a’r mathau o ddulliau dosbarthu a chenhadu a arferid.

<sup>163</sup> John Rees, ‘Y Gaethfasnach Americanaidd’, 331.

<sup>164</sup> Gweler Jerry Hunter, “‘What Can the Welsh Do?’: Robert Everett and the Creation of a Welsh-American Abolition Movement, c.1840-4’, yn T. M. Charles-Edwards a R. J. W. Evans (goln), *Wales and the Wider World: Welsh History in an International Context* (Donnington: Shaun Tyas, 2010), 174-83, sy’n awgrymu cyd-destun gwleidyddol penodol i’r cyhuddiad o bregethu ‘politics o’r pulpod’.

air am wleidydda, na ddylent hwythau ymwneud â'r fath beth.<sup>165</sup> Ym marn Rees, ac amryfal wrth-gaethiwyr eraill, fodd bynnag, nid oedd modd mynd i'r afael â'r mater yn llwyddiannus *oni bai* yr ystyrid dulliau crefyddol a gwleidyddol ar y cyd. I'r perwyl hwnnw, felly, deil y dylai 'eglwysi Cymreig ei hystyried yn fraint i rod-di eu haddoldai' i drafod y pwnc.<sup>166</sup>

Daw Rees â'i lythyr i ben drwy ddyfynnu cwpled agoriadol y gerdd 'Y Creulonder o Fflangellu Benywod', o eiddo Samuel Roberts, Llanbryn-mair.<sup>167</sup> Diau fod dyfynnu'r geiriau trawiadol hyn yn fodd o herio daliadau Cristnogol y Cymry America a oedd braidd yn anfoddog i weithredu drwy ddulliau gwleidyddol yn ogystal â chrefyddol:

“Pe bai genyt deimlad, pe byddit yn Gristion,  
Fe wridai dy wyneb, fe waedai dy galon.”<sup>168</sup>

Yn yr un modd â Rees, gelwid yn aml ar i weinidogion yn benodol ymarfogi yn wyneb yr her gyfoes. Gan eu bod yn arweinwyr cymdeithasol, roedd eu gweithredoedd i fod yn esiampl i weddill Cymry America. O'r herwydd, cyhoeddodd testunau'n annerch y gweinidogion i ymateb i'w dyletswyddau:

Dewch weinidogion dewrion Duw,  
I ddadleu dros y gwir,  
Yn erbyn y caethiwed sy  
Yn lledu ar ein tir;  
Ni ddylem gofio y rhai sydd yn rhwym  
Mewn cadwyn dyn yn drist,  
A'u caru megis ni sy'n rhydd  
Hyn ydyw crefydd Crist.<sup>169</sup>

Fel y noda T. Edwards yn y pennill uchod, yr oedd disgwyl i weinidogion ymuno yn rhengoedd diddymol America ac ymgymryd â'r gwaith mewn modd dewr, gan y buasai nifer o heriau yn eu hwynebu, megis beirniadaeth gan wrth-gaethiwyr cymedrol ac adwaith o du'r caeth-bleidwyr. Cred Edwards hefyd y dylai'r gweinidogion ymateb gan mai dyna yw disgwyliad 'crefydd Crist', a chyfeirir at Hebreaidd 13:3 a'r gorchymyn i garu cymydog i gadarnhau hynny.

---

<sup>165</sup> Byddai sylwadau o'r fath yn peri i nifer ymateb. Er enghraifft, cyhoeddodd Robert Everett yr erthygl 'Llywod-ddysg y Bibl' yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1844), 265-8, er mwyn dangos bod y ddadl na chynhwysai'r Beibl air am wleidyddiaeth yn un gwbl ddisail.

<sup>166</sup> John Rees, 'Y Gaethfasnach Americanaidd', 331.

<sup>167</sup> Gweler O.M. Edwards (gol.), *Gwaith Samuel Roberts (S. R.)* (Llanuwchllyn: Ab Owen, 1906), 34.

<sup>168</sup> Rees, 'Y Gaethfasnach Americanaidd', 331.

<sup>169</sup> T. Edwards, 'C[â]n am Ryddid', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1846), 144.

Ddwy flynedd cyn cyhoeddi'r gerdd hon, ymddangosodd galwad gyffelyb ar ffurf rhyddiaith yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, wrth i Robert Everett annerch gweinidogion Cymraeg America. Gan roi heibio enwadaeth, a'r ddiwinyddiaeth amrywiol a goledent, apelia Everett at y gweinidogion fel *Cristnogion*. O wneud hynny, datgan fod caethwasiaeth yn 'bechod o'r rhyw ffeiddiaf', a'i bod yn ddyletswydd gyffredinol iddynt ei gwrthwynebu. Drwy wneud hynny, deil y buasai'r gweinidogion yn llwyddo i '*amddiffyn yr efengyl*'.<sup>170</sup>

Mae caethwasiaeth, meddai, yn 'wrth-efengylaidd', am fod ei tharddiad mewn lladrata, gan y cipiwyd 'y bobl dduon o Affrica' a'u dwyn i America dan amodau ffaidd: "*the horrors of the middle passage*"; felly hefyd, am ei bod yn 'gwahardd y Gair Dwyfol' i'r caethion.<sup>171</sup> Sylwyd eisoes ar y pwys a roddai'r Cymry ar addysgu'r caethion, ac yn arbennig felly, mewn pynciau crefyddol. Cydnebydd Everett, fodd bynnag, fod rhai caethion yn cael clywed rhan o'r Beibl mewn pregethau, ond na chlywent 'yr "holl GYNGOR"'; mae'n bosibl mai cyfeirio at y math o bregethau caeth-bleidiol a glywai rhai caethion a bwysleisiai ufudd-dod i feistri, a wna'r gweinidog yma.<sup>172</sup>

Â Everett yn ei flaen i nodi bod 'gweision yr Arglwydd wedi eu gosod *er amddiffyn dynoliaeth a moesoldeb*', a chan ddyfynnu geiriau adnabyddus John Wesley, datgan ei bod yn ddyletswydd arnynt i wrthwynebu'r '[c]rynswth o'r holl ysgelerderau'.<sup>173</sup> Drwy amddiffyn dynoliaeth a'i chyflwr moesol, dylent ofalu am y rhai a orthrymir (cf. Diar. 31:8), cofio am y rhai sy'n rhwymedig yn y De (cf. Heb. 13:3), a cheisio lles y caethion (cf. Math. 25:42).<sup>174</sup>

Drachefn, cyfeirir at gyflwr ysbrydol y caethion a maentumio, oherwydd bod ganddynt 'eneidiau', y dylai'r gweinidogion geisio eu lles, ac un ffordd o wneud hynny yw drwy ofalu iddynt gael budd o 'addysgiadau Sabbothol' ysgol Sul. Yn y cyswllt hwn, ac fel ei ddatganiad olaf, diffinia Everett eu swyddogaeth fel gweinidogion a phwysleisio'r newid y gallent ei gymell:

5. Mae y *dylanwad* a fedd gweision yr Arglwydd yn rhy werthfawr i'w gollu. Nid oes genym ddim i ymffrostio yn ddynol ynddo, Anwyl frodyr; ond y mae dylanwad yn perthyn i'n swydd oruchel ac i ninau ynddi, yr hyn a roddwyd i ni gan Dduw, a dylai gael ei ddefnyddio o blaid pob achos sydd yn dal perthynas [â] dinystr pechod, llwydd efengyl, a chadwedigaeth eneidiau.<sup>175</sup>

---

<sup>170</sup> Robert Everett, 'At Weinidogion yr Efengyl. *O'r gwahanol enwadau crefyddol yn mhlith y Cymry yn America*', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1844), 176. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>171</sup> Ibid.

<sup>172</sup> Ibid.

<sup>173</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>174</sup> Ibid.

<sup>175</sup> Ibid., 177. Pwyslais yn y gwreiddiol.

Nid oes amheuaeth nad yw Duw o’u plaid, a phed ymddygent yn unol â’r disgwyl, deuai llwyddiant yn fuan: fe dorai wawr y Jiwbili:

mae Duw trosom, mae ei ragluniaeth yn gweithio o du y caethwas, mae y fasnach yn cael ei rhoi i fynu a chaethfeistri diwygiedig yn dyfod i bleidio yr achos, mae miliynau yn cael eu rhyddhau mewn gwledydd ereill, mae cydwybodau pawb o du ein llwyddiant, mae gwawr llwyddiant eisoes yn chwarae ar y terfyngylch, a diau y ceir clywed udgorn y Jubili cyffredinol cyn bo hir iawn. Anwyl frodyr, deffrown a byddwn ffyddlawn.<sup>176</sup>

## Casgliad

Profodd mudandod Iesu am fater caethwasiaeth yn ddefnyddiol i’r ddadl gaeth-bleidiol gyfoes. Gan na ddywedodd Iesu air i feirniadu’r gyfundrefn, ac iddo ddefnyddio delweddau’r caethwas a’r meistr yn ei ddamhegion, gellid casglu nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i’r arfer o berchnogi pobl. Tystiolaeth bellach a oedd yn hwylus i’r caeth-bleidwyr oedd na feirniadodd yr apostolion y gyfundrefn ychwaith, ac i amryw destunau ymddangos yn y corpws Paulaidd a drafodai’r berthynas ddisgwylidig rhwng meistri a’u caethion.

Serch hynny, ymatebodd y gwrth-gaethiwyr a chanfod ym mudandod Iesu farn dra gwahanol i’r hyn a gredai’r caeth-bleidwyr. Ystyriai’r gwrth-gaethiwyr ddistawrwydd Iesu yng nghyd-destun ei ddysgeidiaeth am gariad, cyfiawnder a chydraddoldeb, ac o wneud hynny, canfyddent ‘ysbryd yr efengyl’ – yr hyn a hydreiddiai drwy’r ysgrythurau. Gyda hynny, gallent gasglu na fu i Iesu feirniadu’r gyfundrefn yn uniongyrchol ond bod anian ei ddysgeidiaethau’n amlwg yn gwrthdaro gyda’r arfer lle byddai un yn gorfod byw dan iau gorthrymus, fel yn yr Unol Daleithiau.

‘This egalitarian reciprocity ethic became the imperative key to unlock the meaning of Jesus’ silence on slavery’, meddai Harrill,<sup>177</sup> ac fe ellid casglu bod y math hwn o ddehongliad Beiblaidd yn nodweddu mwyafrif helaeth Cymry America yn ogystal, ar wahân i ambell eithriad megis ‘Tudur’, a fynnai bwysleisio testunau o’r epistolau Paulaidd fel tystiolaeth fod y Testament Newydd wedi rhoi sêl ei fendith ar gaethwasiaeth.

Sylwyd yn y bennod hon yr apeliai’r Cymry at yr egwyddorion dyngarol hynny a bwysleisiai frawdgarwch, cydraddoldeb a thrugaredd – nodweddion dysgeidiaeth Iesu – ac y

---

<sup>176</sup> Ibid.

<sup>177</sup> J. Albert Harrill, *Slaves in the New Testament: Literary, Social, and Moral Dimensions* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006), 170.

cyfeirid atynt fel hanfodion Cristnogaeth, ‘ysbryd yr efengyl’, neu ‘grefydd Crist’. Yn ddiddorol ddigon, fodd bynnag, sylwyd bod y Cymry, yn ogystal ag arddel y cysyniadau dyngarol hyn, wedi parhau i fod yn weddol destunol yn eu dadleuon, yn wahanol i’r duedd wrth-gaethiwol grefyddol Saesneg yn America.

Ymysg y math o destunau y tueddid i gyfeirio atynt yr oedd Mathew 7:12, lle ceid y Rheol Aur, a Marc 12:31, yr ail orchymyn mawr, a’r rheiny’n sylfaenu un o brif ddysgeidiaethau Iesu: cariad. Gyda’r testunau hynny a chysyniad cariad ar flaenau’u bysedd, gallai Cymry America ddadlau bod caethwasiaeth gyfoes yn wrthgyferbyniol i hanfod Cristnogaeth. Enghraifft a drafodwyd yn y cyswllt hwn oedd Mathew 19:6, safbwynt Iesu am ysgariad, ac y buasai’r modd yr ‘ysgerid’ Affricaniaid oddi wrth eu priod a’u plant wrth gael eu prynu a’u gwerthu yn groes i ddysgeidiaeth Iesu.

Ystyriwyd rhai testunau a gafwyd o eiddo canlynwyr Iesu, ac un o’r rhai mwyaf poblogaidd ymysg y Cymry oedd Hebraeid 13:3. Gwelent yn yr adnod honno alwad i gofio’r caethion – ‘y rhai sydd yn rhwym’ yn y De, ac i wirioneddol gydymdeimlo gyda hwy. Nodwyd bod i’r weithred honno o ‘gofio’ wedd ymarferol a bod hynny’n rhan anhepgor o’r ymgyrch diddymol.

Sylwyd yn ogystal ar wedd arall ar ddysgeidiaeth Iesu, sef cydraddoldeb, yn arbennig felly yn nhestun Actau 17:26. Roedd y testun hwnnw, sy’n datgan mai Duw a greodd y byd a’i holl greaduriaid, a bod y ddynoliaeth gyfan yn tarddu o un cyn-dad – o ‘un gwaed’ – yn boblogaidd ymysg y gwrth-gaethiwyr oherwydd ei bod yn fodd o danseilio hanfod caethwasiaeth. Gan fod pobun yn perthyn i’w gilydd, ni ddylai’r meistri barhau i gadw eu caethion oherwydd eu bod yn cam-drin eu teulu eu hunain.

Roedd hyn oll yn rhan o ddysgeidiaeth Crist, a chyda hynny, gallai’r Cymry gasglu nad oedd yr Iesu’n bleidiol i gaethwasiaeth ac, yn wir, fod yr efengyl yn gyferbyniad i’r gyfundrefn gaethiwol. Gan hynny, mynnent fod dyletswydd arnynt fel pobl a berthyn i’r un teulu dynol â’r caethion ac, fel Cristnogion, i weithredu er mwyn y rhai ‘sydd yn rhwym / Mewn cadwyn dyn’, gan mai dyna ‘ydyw crefydd Crist’.<sup>178</sup>

---

<sup>178</sup> Edwards, ‘C[â]n am Ryddid’, 144.

## Pennod 5

### ‘[D]ylem ufuddhau i Dduw o flaen ufuddhau i ddynion’<sup>1</sup>

#### Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850 ac ymateb gwasg Gymraeg America

Cynigai'r wasg gyfnodol fforwm hygyrch i Gymry America ymateb i ddigwyddiadau gwladol diweddar. Ceid trafod etholiadau arlywyddol, natur gaeth neu rydd taleithiau unwaith y'i ffurfid, a deddfau gwladol newydd mewn cryn fanylder. Ymdriniwyd yn helaeth â Chyfraith Maine (1851) ac â Deddf Kansas-Nebraska (1854), er enghraifft; a cheid ymateb hynod fywiog ar dudalennau'r wasg Gymraeg Americanaidd i Gyfraith y Caeth Ffoëdig (*Fugitive Slave Law*), a basiwyd ar 18 Medi 1850. Yn wahanol i weddill y thesis hwn, yn hytrach na chymryd testun neu gysyniad Beiblaidd fel sail i'r drafodaeth, yn y bennod hon, ystyrir y gyfraith wladol honno a basiwyd ym mis Medi 1850 fel maen prawf er mwyn astudio'r modd yr ymatebwyd iddi ar seiliau Beiblaidd.

Yn y bôn, cyfraith a ofalai am hawliau eiddo'r caethfeistri oedd hon. Pe bai caethwas neu gaethferch yn cael eu dal yn ffoi o'u caethiwed, rhaid oedd eu dal a'u trosglwyddo i'r awdurdodau lleol yn ddi-ffael er mwyn iddynt gael eu dychwelyd at eu meistri. Gwneid hyn hyd yn oed ar dir taleithiau rhyddion y Gogledd. Fodd bynnag, nid oedd hon yn ddeddf unigryw: yn wir, yr oedd mewn llinach nifer o gyfreithiau cyffelyb.<sup>2</sup>

Cafwyd cysail y gyfraith hon mewn cymal yn y Cyfansoddiad a ddiogelai hawl cyfreithiol perchennog neu gyflogwr i adfeddiannu unrhyw un a ddihangai o'u gwasanaeth. Datgan Erthygl IV, Adran 2, cymal 3:

---

<sup>1</sup> 'E.R.', 'CYFARFOD GWRTH-GYFRAITH Y CAETH FFOEDIG', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1851), 84.

<sup>2</sup> Cyn gynhared â 1643, ceid Trefedigaethau Unedig Lloegr Newydd yn gofalu am ddychweliad caethion ar ffo. Dywed Adran 8 Erthyglau Conffederasiwn Trefedigaethau Unedig Lloegr Newydd, a gyhoeddwyd ar 29 Awst 1643: 'It is also agreed that if any servant run away from his master into any other of these confederated Jurisdictions, that in such case, upon the certificate of one magistrate in the Jurisdiction out of which the said servant fled, or upon other due proof; the said servant shall be delivered, either to his master, or any other that pursues and brings such certificate of proof.' Dyfynnir yn Jon L. Wakelyn (gol.), *America's Founding Charters: Primary Documents of Colonial and Revolutionary Era Governance, Volume 1* (Westport, CT: Greenwood Press, 2006), 276. Yn dilyn y Chwyldro Americanaidd (1775-1783), ceisiwyd pasio cyfraith yn ymwneud â chaethion ffoëdig ym 1784 ond yn aflwyddiannus. Serch hyn, ym 1787, datganwyd Gorchymyn Gogledd-Orllewin (*Northwest Ordinance*) a ofalai am hawliau'r caeth-berchnogion. Gweler ymhellach, er enghraifft, Paul Finkelman, *An Imperfect Union: Slavery, Federalism, and Comity* (Union, NJ: The Lawbook Exchange, 2000). Yn ogystal, pasiwyd Cyfraith y Caeth Ffoëdig ym 1793. Gweler y drafodaeth isod.



No Person held to Service or Labor in one State, under the Laws thereof, escaping into another, shall in Consequence of any Law or Regulation therein, be discharged from such Service or Labor, but shall be delivered up on Claim on the Party to whom such Service or Labor may be due.<sup>3</sup>

Gan y dadleuai rhai fod peth amwysedd i'r cymal hwn yn y Cyfansoddiad, pasiodd y Gyngres fesur ym 1793 a ddaeth yn gyfraith maes o law, a roddai'r hawl i berchnogion caethion ddwyn achos llys yn erbyn y rhai yr oeddent yn honni oedd yn gaethion ffoëdig (*fugitive slaves*) er mwyn profi mai eu heiddo hwy oedd y cyhuddedig. Mewn gwrandawriadau o'r fath, ni fyddai'r unigolion a gyhuddid o fod yn ffoedigion yn cael tystio drostynt eu hunain nac ychwaith yn cael gwrandawriad teg gyda rheithgor yn bresennol.<sup>4</sup>

Roedd hyn yn wrthun i nifer o wrth-gaethiwyr a datganodd amryw ohonynt eu hanfodlonrwydd, yn enwedig o'r 1830au ymlaen wrth i fudiad y diddymwyr gynyddu mewn nifer a dylanwad. Ymatebodd amryw daleithiau gogleddol i gyfraith 1793 drwy lunio mesurau a ofalai am y caethion ffoëdig o fewn eu terfynau a thrwy fygwth cosb ar unrhyw un a geisiai eu herwgipio. Gwaharddwyd swyddogion taleithiol rhag cynorthwyo unrhyw un a oedd wedi dal ac estraddodi caethion ffoëdig, a cheisiwyd gofalu bod gan y sawl a ddygid i'r llys dan gyhuddiad o fod yn ffoaduriaid yr hawl i dystio drostynt eu hunain, yr hawl am *Habeus Corpus*, ac am wrandawriad gyda rheithgor. Pasiwyd deddfau o'r fath yn Vermont, Massachusetts ac Ohio ym 1843, Connecticut ym 1844, Pennsylvania ym 1847, ac Ynys Rhode ym 1848.<sup>5</sup>

Beirniadwyd y gyfraith hon hefyd yn y wasg. Er enghraifft, cyhoeddwyd ysgrif yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, a oedd yn seiliedig ar sylwadau a gyhoeddwyd yn rhifyn 17 Ionawr 1843 y *Liberty Press*, yn trafod 'Deiseb Dros Ddilead "Deddf 1793"'. Y brif gŵyn a leisir yw bod y gyfraith honno'n 'gwneud dinasyddion y Taleithiau Rhyddion yn weision i'r caethfeistri',<sup>6</sup> a'i bod 'yn erbyn y ddeddf gyffredin (*common law*) trwy holl wledydd cred—[yr] hon [sy'n] ystyried pob dyn yn onest, yn ddiniwed, a rhydd, hyd oni ddangosir y

---

<sup>3</sup> *The Constitution of the United States of America*, Article IV, Section 2, Clause 3 (1787): <<https://www.archives.gov/founding-docs/constitution-transcript>> (Cyrchwyd 5 Mawrth 2017).

<sup>4</sup> Gweler y gyfraith, 'Fugitive Slave Law of 1793 SECOND CONGRESS—SESS. 2, CHAP. 7, 1793 Statute 2, February 12, 1793' yn Mason I. Lowance Jr. (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader* (New York: Penguin Books, 2000), 322-3.

<sup>5</sup> Jason K. Duncan, 'Fugitive Slave Laws', yn Malcolm J. Rohrbough (gol.), *Encyclopedia of American History: Expansion and Reform 1813 to 1855, Volume 5* (New York: Facts on File, Inc., 2003), 154.

<sup>6</sup> Robert Everett, 'DEISEB DROS DDILEAD "DEDDF 1793"', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1843), 72.

gwrthwyneb trwy brawf teg'.<sup>7</sup> Cloir yr ysgrif drwy alw ar i 'ddinasyddion y Taleithiau rhyddion ystyried yn ddifrifol a phwyllog' gyfraith 1793 a 'deisebu dros ei dilead', er mwyn sicrhau cael 'y 13 Talaith Gogleddol, megys Canada yn wlad rydd i bob lliw, a iaith, a chenedl fel eu gilydd.'<sup>8</sup> Mae'r sylw olaf hwn yn nodweddu'r ymgyrch cynnar ymysg y diddymwyr: rhaid oedd ceisio gofalu am ryddid yn nhaleithiau'r Gogledd yn gyntaf cyn mentro rhyddfrefinio'r De yn ogystal.

Esgorodd y mesurau taleithiol a'r deisebu ar ymateb tanllyd o du'r De wrth i berchnogion caethion feirniadu'r Gogledd am gynorthwyo'r ffoedigion, hyrwyddo diddymiaeth, hybu gweithredu'n anghyfreithlon, ac amharchu hawliau eiddo. Nid oes sicrwydd ynghylch union nifer y caethion a lwyddodd i ffoi i'r Gogledd neu Ganada, ond dywedid bod rhai cannoedd wedi llwyddo i ddianc o'u 'tŷ caethiwed', drwy ddilyn y Rheilffordd Danddaearol (*Underground Railroad*). O'r herwydd, cododd y De ei lais a phwyso'n drwm ar i'r Gyngres ymateb. Canlyniad hynny fu pasio cyfraith newydd parthed caethion ffoedig, a honno'n llymach nag un 1793.

Pan gyflwynwyd y mesur, cwynodd nifer o Seneddwyr y Gogledd nad oedd y gyfraith arfaethedig yn gofalu'n ddigonol am yr Affricaniaid Americanaidd rhyddion, y sawl a fuasai mewn perygl gwastadol o gael eu dwyn i gaethiwed ar gam. Serch hyn, ofer fu eu hymdrechion, a phasiwyd Cyfraith Caeth Ffoedig 1850 fel rhan o gyfaddawd y Gyngres a geisiai gadw'r ddysgl Undebol yn wastad.<sup>9</sup>

Yn yr un modd â'i rhagflaenydd, nod y gyfraith hon oedd sicrhau dychwelyd unrhyw un a gafwyd yn euog o fod yn gaeth ffoedig at eu perchennog. Fel y soniwyd eisoes, roedd y gyfraith ychydig yn llymach na chyfraith 1793, a byddai unrhyw un a gawsai ei ddal yn cynorthwyo'r caethion, boed drwy roddi lloches neu gynhaliaeth iddynt, yn cael ei gosbi â dedfryd o garchar hyd at 6 mis a dirwy o hyd at \$1000. Yn yr un modd, byddai swyddog ffederal na fuasai'n arestio'r sawl a gyhuddid o fod yn ffoaduriaid, yn cael ei gosbi gyda dirwy o hyd at \$1000. Fodd bynnag, byddai unrhyw swyddog a ddaliodd caethwas, yn aml yn derbyn bonws neu ddyrchafiad am ei waith. Roedd yr awdurdodau llywodraethol ym mhob man dan rwymedigaeth gyfreithiol i arestio unrhyw un a oedd dan amheuaeth o fod yn

---

<sup>7</sup> Ibid., 74.

<sup>8</sup> Ibid.

<sup>9</sup> Fel rhan o Gyfaddawd 1850, ynghyd â chreu cyfraith newydd yn ymwneud â chaethion yn ffoi, derbyniwyd Califfornia i'r Undeb fel talaith rydd, rhoddwyd statws diriogaethol i Fexico Newydd ac Utah, gan ganiatáu sofraniaeth y bobl yn y tiroedd hynny, datryswyd y ddadl parthed y ffiniau rhwng Mexico Newydd a Texas, a diddymwyd y fasnach mewn caethion yn Washington.

ffoadur, ac nid oedd gan y cyhuddedig yr hawl i ofyn am wrandawriad llys gyda rheithgor nac ychwaith dystio drosto'i hun.<sup>10</sup>

Y cyfan roedd yn rhaid i berchennog ei wneud er mwyn adfeddiannu'r sawl a ddihangodd o'i feddiant oedd darparu affidafid i'r comisiynydd ffederal, neu gael tyst o statws i gefnogi honiad y caethfeistr.<sup>11</sup> Yn fynych, gan na fyddai'r sawl a gyhuddid o fod yn gaethion ffoedig yn cael eu rhoi ar brawf teg, byddai amryw unigolion rhyddion yn cael eu dwyn i gaethiwed ar gam.<sup>12</sup>

## Effaith y Gyfraith

Un canlyniad i Gyfraith Caeth Ffoedig 1850 oedd sicrhau i bwnc caethwasiaeth ddod i sylw dinasyddion gwrth-gaethiwol yr Unol Daleithiau, gan fod y gyfraith genedlaethol newydd yn eu gorfodi hwythau i gynnal y gyfundrefn yng Ngogledd America.

Y farn ymysg diddymwyr oedd ei bod yn gyfraith annynol, am ei bod yn rhoi'r hawl i farsialiaid ffederal anfon minteioedd i grwydro taleithiau rhyddion y Gogledd ac erlid ffoaduriaid, ac felly, ar un wedd, annog hela caethion. Yn wir, ceir beirniadu'r arfer hwn o erlid caethion ar gefn ceffylau â chymorth cŵn a hyfforddwyd yn arbennig at y gwaith yn y wasg gyfnodol.<sup>13</sup> Yr hyn a godai wrychyn y Gogledd yn ogystal oedd bod y llywodraeth ffederal yn Washington yn gyfrifol am dalu'r costau ychwanegol i ganlyn ffoaduriaid, nid y taleithiau deheuol perthnasol.

Beirniadodd nifer o ddiddymwyr y gyfraith yn gyhoeddus am ei bod yn rhwystr arall yn ymdrechion y gwrth-gaethiwyr, a'i bod yn cryfhau grym caethfeistri'r De. Ond gyda hyn, penderfynwyd anufuddhau i'r ddeddf.<sup>14</sup> Ynghyd â'r unigolion radicalaidd a fuasai'n gwrthod plygu i'r gyfraith, cafwyd rhai taleithiau gogleddol yn pasio rhagor o fesurau i ofalu am

---

<sup>10</sup> Gweler y gyfraith, 'Fugitive Slave Law of 1850 THIRTY-FIRST CONGRESS—SESS. 1, CHAP. 60, 1850 September 18, 1850', yn Lowance (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader*, 325-31.

<sup>11</sup> *Ibid.*, 329-30.

<sup>12</sup> *Ibid.*

<sup>13</sup> Defnyddid nifer o dermau yn y wasg gyfnodol Gymraeg ar gyfer y cŵn hyn a hyfforddwyd i erlid y caethion ffoedig, gan gynnwys, 'cwn [*sic.*] gwaedlyd (*bloodhounds*)', e.e. yn "'Beth a allwn ni wneud?" Dilead Caethiwed yn y Tiriogaethau', *Y Dyngarwr* (Hydref 1843), 65; 'bytheugi (*bloodhound*)', e.e. yn "'MR. TINCUM'", *Y Dyngarwr* (Hydref 1843), 77; 'gwaedgwn', e.e. 'Gwaedgwn', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1854), 151; a 'cŵn Negroaidd', e.e. 'Cwn Negroaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1854), 151.

<sup>14</sup> Maldwyn A. Jones, *The Limits of Liberty: American History 1607-1980* (New York: Oxford University Press, 1988; pedwerydd argraffiad), 194.

hawliau personol unigolion oddi fewn i'w ffiniau.<sup>15</sup> Yr hyn sy'n eironig yw bod nifer yr achosion o unigolion yn cynorthwyo caethion i ffoi wedi mwy na dyblu ar ôl pasio cyfraith 1850, yn ôl yr hanesydd Robert Cover.<sup>16</sup>

Daeth Canada'n gynyddol bwysicach ym meddwl a dychymyg y caethion. Nid oedd rhyddid i'w gael bellach yn y Gogledd, felly, ystyrid Canada fel gwlad rhyddid diamodol. Yn wir, nodwedd gyffredin o'r traddodiad crefyddol ymysg y caethion oedd eu bod yn eu huniaethu eu hunain â'r Hebreaid yng Ngwlad yr Aifft, dan orthrwm y Pharo Americanaidd, ac yn dyheu am waredigaeth a chyrraedd Gwlad yr Addewid; digwydd bod, roedd enw'r wlad honno, Canada, yn ymdebygu i Ganaan.<sup>17</sup> Meddai Albert J. Robateau, 'Canaan referred not only to the condition of freedom but also to the territory of freedom—the North or Canada.'<sup>18</sup> Creodd y cysylltiad hwn â'r Hebreaid ymdeimlad o gymundeb etholedig ymysg y caethion fel pobl Dduw dan orthrwm. Roedd yr hunaniaeth hon yn cyferbynnu'n ffyrnig â'r propaganda hiliol a leisid gan gaeth-bleidwyr a fynnai fod sefyllfa'r caethion, fel bodau eilradd i bobl groenwyn, wedi'i phennu gan y dwyfol. Drwy ddefnyddio'r ddelweddaeth Feiblaidd a themlo cysylltiad â'r Hebreaid, gallai'r caethion fynegi'n groyw eu gobaith am waredigaeth o 'Aifft y Negro',<sup>19</sup> a chyrraedd y 'wlad yn llifeirio o laeth a mêl'. Defnyddiwyd y ddelweddaeth hon hefyd cyn 1850 pan ystyriwyd y Gogledd yn hafan i'r caethion, fel y sylwodd Frederick Douglass, wrth drafod eu caneuon ysbrydol:

---

<sup>15</sup> Stanley W. Campbell, *Slave Catchers: Enforcement of the Fugitive Slave Law, 1850-1860* (Chapel Hill, NC: The University of North Carolina Press, 1970), 170-86.

<sup>16</sup> Robert M. Cover, *Justice Accused: Antislavery and the Judicial Process* (New Haven, CT a London: Yale University press, 1975), 191.

<sup>17</sup> Gweler, e.e., Renford Reese, 'Canada: The Promised Land for U.S. Slaves', *The Western Journal of Black Studies*, 35, rhif 3 (October 2011), 208-17; Lawrence W. Levine, *Black Culture and Black Consciousness: Afro-American Folk Thought from Slavery to Freedom* (New York: Oxford University Press, 2007; argraffiad 30ain mlwyddiant), 30-55; David W. Kling, *The Bible in History: How the Texts Have Shaped the Times* (New York: Oxford University Press, 2004), 193-229.

<sup>18</sup> Albert J. Raboteau, 'African-Americans, Exodus, and the American Israel', yn Paul E. Johnson (gol.), *African-American Christianity* (London: The Regents of the University of California, 1994), 14.

<sup>19</sup> Ymddangosai'r ymadrodd trawiadol hwn o dro i dro yn y wasg. Er enghraifft, yn rhifyn Hydref 1856 *Y Seren Orllewinol*, cyhoeddwyd pecyn yn cynnwys casgliad o ysgrifau o wahanol gyfnodolion yn trafod caethwasiaeth America ac yn rhoi sylw i'r ymgyrch arlywyddol cyfredol. Ymysg y testunau, y mae ysgrif a gyhoeddwyd yn *Y Cymro Americanaidd*, 'Hil Gomer a Melldith Amer[: P]ump o Bethau Dwys i'w Hystyried gan Holl Gymry Y Talaethau Unedig'. Yng ngolwg awdur yr ysgrif, R. L. Herbert, Utica, dewis 'pa un ai *Rhyddid* ai *Gorthrwm* a lywodraetha' yn yr Unol Daleithiau a wneir wrth fwrw pleidlais. Ac yntau'n wrth-gaethiwr, y mae'n hyrwyddo J. C. Frémont, yr ymgeisydd arlywyddol ar ran y Gwerinieithwyr ar draul yr ymgeisydd ar ran y Democratiaid, James Buchanan, oherwydd pe buasai Buchanan yn llwyddo, meddai, buasai'r gallu caethiwol yn ymestyn, 'bydd iddi [system caethwasiaeth] uffernol gyssegru ychwaneg o'r cyfandir eto yn chwareufa creulondeb—yn Aifft y Negro' (t. 8).

A keen observer might have detected in our repeated singing of

“O Canaan, sweet Canaan,  
I am bound for the land of Canaan,”

something more than a hope of reaching heaven. We meant to reach the *North*, and the North was our Canaan.<sup>20</sup>

Yn sgil y gyfraith newydd hefyd cafwyd nifer o ddatblygiadau llenyddol o bwys, a'r enwocaf o ddigon yw nofel fawr Harriet Beecher Stowe, *Uncle Tom's Cabin* (1852). Dechreuwyd cyhoeddi'r nofel fesul pennod yn y papur newydd gwrth-gaethiwol *The National Era* ym 1851, a'i chyhoeddi ar ffurf llyfr y flwyddyn ganlynol. Roedd y nofel yn ymosodiad chwyrn ar gaethwasiaeth, a gwerthodd oddeutu 300,000 o gopiau ym 1852, a dwy filiwn ychwanegol yn America yn ystod y degawd dilynol.<sup>21</sup> Cafodd ei throsi'n ddramâu ac yn ganeuon, a'i chyfieithu i nifer o ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg. Cafwyd nifer o drosiadau yng Nghymru, a chyhoeddwyd fersiwn Gymraeg Americanaidd ohoni ar ffurf cyfresi yn *Y Cenhadwr Americanaidd a'r Cyfaill o'r Hen Wlad* – gyda'r ddau gylchgrawn yn dechrau'r cyhoeddi cyfresol yn Ionawr 1853.<sup>22</sup> Maes o law, cyhoeddwyd cyfieithiad Cymraeg Americanaidd Robert Everett ar ffurf llyfr ym 1854.<sup>23</sup>

---

<sup>20</sup> Frederick Douglass, *Life and Times of Frederick Douglass: Written by Himself* (Boston, MA: De Wolfe & Fiske Co., 1892), 196-7.

<sup>21</sup> Claire Perfait, *The Publishing History of Uncle Tom's Cabin, 1852-2002* (Aldershot: Ashgate, 2007).

<sup>22</sup> Cyhoeddwyd y nofel yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* dan y pennawd, 'CABAN 'N EWYTHR TWM; (Uncle Tom's Cabin;) NEU, FYWYD NEGROAIDD YN NHALEITHIAU CAETHWASAWL AMERICA', ac yn *Y Cenhadwr Americanaidd* dan y teitl, 'BWTHYN F'EWYTHR TOM; NEU FYWYD YN MHLITH YR ISELRADD. GAN MRS. H. B. STOWE. [A gyhoeddir trwy hawlfraint oddiwrth yr Awdures.]'. Fel y dengys yr is-bennawd, cafodd Robert Everett ganiatâd Harriet Beecher Stowe i gyhoeddi'r nofel. Yn ei llythyr at Everett, dywed Stowe, 'You have my full permission to translate Uncle Tom into Welch anddo [*sic.*] any thing with it in that language that shall seem to you most fit and desirable.' Dyfynnir yn Jerry Hunter, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007), 179. Ymysg yr addasiadau Cymraeg a gyhoeddwyd ym Mhrydain yr oedd: Hugh Williams, *Caban F'Ewyrth Twm* (Llundain: John Cassell, 1853); William Rees [Gwilym Hiraethog], *Aelwyd F'Ewyrth Robert: Neu, Hanes Caban F'Ewyrth Tomos* (Dinbych: Thomas Gee, 1853); Thomas Levi, *Crynodeb o Gaban 'Newythr Twm* (Abertawe: J. Rosser, 1853); David Roberts (Dewi Ogwen), *Caban f'ewyrth Tomos, neu, Hanes Caethwas Crist'nogol: sef, Dynoethiad o'r gaethfasnach yn ei gwahanol gysylltiadau; yr hyn a rydd olwg ar brynwyr a gwerthwyr dynion, teimladau rhwygedig y gwerthedig, pan werthir rhieni oddiwrth eu plant, a phlant oddiwrth rieni, brodyr oddiwrth eu gilydd, &c.: yr ymdrechion a wneir am ryddid; yn nghyda'r creulondeb a arferir wrth ddal y ffoaduriaid, &c.* (Caernarfon: Hugh Humphreys, 1853?). Nid yw'r gwaith olaf hwn yn cynnwys dyddiad ond cyhoeddwyd hysbysebion am y llyfr cyn gynhared â rhifyn 23 Mawrth 1853 *Yr Amserau*. Mae E. G. Millward, *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar lenyddiaeth Oes Victoria* (Llandysul: Gomer, 1991), 90, hefyd yn rhestru cyfieithiad Dewi Ogwen fel un a gyhoeddwyd cyn *Aelwyd F'Ewyrth*

Roedd y nofel yn effeithiol yn cynnau ymateb ymysg y Gogleddwyr am iddi gyflwyno stori a apeliai at galon ynghyd â chrebwyll y darllenwyr. Derbyniodd gryn ganmoliaeth yn y wasg Gymraeg, â Gwilym Hiraethog yn nodi ei fod yn ‘llyfr ag sydd yn debygol, i.e, yn sicr o wneud mwy tuag at ddiddymu y ffeidd-dra o gaethwasiaeth na dim a wnaed erioed yn y ffordd hono o’r blaen.’<sup>24</sup>

Cafodd y nofel gryn effaith ond er mawr syndod, efallai, ni chafwyd cymaint o wrthwynebiad i Gyfraith Caeth Ffoëdig 1850 yn syth. Yn wir, roedd nifer helaeth y Gogleddwyr yn fodlon ei goddef er mwyn cadw’r ddysgl yn wastad a’r Undeb yn gyflawn. Fel y dywed Stanley Campbell:

public opinion in the northern states toward the Fugitive Slave Law was ambiguous, but on the whole it was acquiescent. A group composed mostly of abolitionists was opposed to the law under any circumstances and vowed to resist its enforcement in any way it could. There were those who were sympathetic toward southern complaint of noncompliance with the provisions of the Fugitive Slave Law and actively supported its enforcement. By far the greater majority, however, although unsympathetic with the harsh provisions of the law, was willing to acquiesce in the return of fugitive slaves to their owners in order to maintain good relations with the South and to prevent disruption of the Union.<sup>25</sup>

Ond fel y mae Campbell yn awgrymu, roedd rhai wedi eu cythruddo gan y gyfraith yn syth, yn bennaf am ei bod, yng ngolwg nifer, yn gwrthdaro â’r gyfraith Gristnogol i garu cymydog a gofalu am gyd-ddyn. Roedd y gyfraith a grëwyd gan ddyn, felly, yn gwrthdaro â’r gyfraith a roddwyd gan y dwyfol.

---

*Robert.* Yn ogystal, fel y mae Millward yn ei nodi, roedd *Uncle Tom’s Cabin* a’r trosiadau Cymraeg, yn enwedig addasiad Gwilym Hiraethog, yn ddylanwadol ar ffyniant y nofel Gymraeg; ‘yn hwb grymus i dwf ffuglen yn Gymraeg ac fe’i defnyddid yn aml fel prawf y gallai’r “nofel” fod yn llesol ac yn fuddiol.’ *Ibid.*, 91.

<sup>23</sup> Robert Everett, *Caban F’Ewythr Twm; neu, Fywyd yn mhlith yr Iselradd. Gan Harriet Beecher Stowe. Gyda Naw-ar-hugain o Gerffluniau* (Remsen, NY: J. R. Everett, 1854). Bu cryn alw yn y wasg am i gyfieithiad Everett gael ei gyhoeddi. Am drafodaeth ynghylch dylanwad cyfieithiadau *Uncle Tom’s Cabin* ar y Cymry, a rhai nodweddion ar y cyfieithiadau, yn arbennig felly, y modd o drosi iaith y caethion, gweler erthygl David Willis, ‘Cyfieithu Iaith y Caethweision yn *Uncle Tom’s Cabin* a Darluniadau o Siaradwyr Ail Iaith mewn Llenyddiaeth Gymraeg’, *Llên Cymru*, 39 (2016), 56-72.

<sup>24</sup> ‘Golygydd Yr Amserau’, ‘Homili ar Lywodraeth yr Unol Dalaethau’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1852), 373.

<sup>25</sup> Campbell, *Slave Catchers*, 49.

## Y Cymry Americanaidd a'r Caethion Ffoëdig

'The reaction against the passage of the Fugitive Slave Law was generally confined to certain minority groups and geographical areas in the northern states', meddai Campbell, ac ar sail cyfnodolion Cymraeg Gogledd America, gellir awgrymu fod y Cymry ymysg y grwpiau lleiafrifol hyn a ymatebodd ar unwaith.<sup>26</sup>

Cafwyd un o'r ymatebion cyntaf gan y wasg gyfnodol yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Tachwedd 1850, pan gyhoeddodd Robert Everett drafodaeth fanwl am y gyfraith newydd. O'r dechrau'n deg, gwelir y diddymwr yn datgan ei farn yn ddi-flewyn-ar-dafod:

Trwy osodiadau y ddeddf farbaraidd yma, gwneir pob person yn yr Unol Daleithiau yn *helwr a daliwr caethion*, gymaint [â] neb o'r môr-ladron sydd yn dylyn y cyffelyb alwedigaeth ar ororau Affrica.<sup>27</sup>

Prif gŵyn Everett, felly, oedd bod *pob* dinesydd gwrth-gaethiwol yn America'n cael eu gorfodi, yn ôl y gyfraith 'farbaraidd' newydd i gynnal caethwasiaeth, a hynny'n groes i'w safiad.

Â Everett yn ei flaen i drafod y gyfraith fesul dosran gan bwysleisio'i gwrthuni, cyn cynnwys cyfieithiad o ddatganiadau 'Cymdeithasfa Gynulleidfaol Caerefrog Newydd', cyfarfod a gynhaliwyd yn ninas Efrog Newydd ar 8 Hydref 1850 i wrthwynebu'r gyfraith.<sup>28</sup>

Difyr yw sylwi'n benodol ar y rheswm cyntaf a rydd y Gymdeithasfa i wrthod '[c]ydnabod y gyfraith', sef 'O herwydd ei bod yn groes i orchymyn pendant Duw, Deuteronomium 23:15, 16, "Na ddyro at ei feistr was a ddiangodd oddiwrth ei feistr; gyda thi y trig yn dy fysg, yn y fan a ddewiso, yn un o'th byrth di, lle bydd da ganddo; ac na chystuddia ef.["]'<sup>29</sup> Roedd y datganiad hwn a deddf Deuteronomium yn mynd yn gwbl groes i'r gyfraith wladol, a phriodol fyddai craffu ar y ddeddf Feiblaidd honno'n fanylach.

### Deuteronomium 23:15-16

Mae'r Beibl yn gofalu am ddychwelyd anifeiliaid strae ac eiddo colledig eraill (cf. Ex. 23:4; Deut. 22:1-3), ond ceir yma, yn Deuteronomium 23:15-16 (adn. 16-17 yn yr Hebraeg)

---

<sup>26</sup> Ibid., 49-50.

<sup>27</sup> Robert Everett, 'SYLWEDD "DEDDF Y FFOEDIGION."', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1850), 346.

<sup>28</sup> Nodir yn yr erthygl i'r datganiadau hyn gael eu cyhoeddi eisoes yn y *New York Evangelist* (24 Hydref 1850).

<sup>29</sup> Everett, 'SYLWEDD "DEDDF Y FFOEDIGION."', 347.

ddeddfu ynghylch peidio â dychwelyd caethwas crwydredig. Nid yw'n eglur, fodd bynnag, ai Hebrëwr yw'r caethwas dan sylw. Yn wahanol i Deuteronomium 15:1-18, lle ceir deddfau sut i drin caethion, ni chyfeirir at y caethwas yn Deuteronomium 23:15-16 fel 'brawd', אָה (cf. Deut. 15:2; Lef. 25:39), 'cymydog', רֵעַ (cf. Deut. 15:2), nac fel 'Hebrëwr', עֲבָרִי (cf. Deut. 15:12; Ex. 21:2). Oherwydd hynny, ac am nad yw'r deddf yn galw ar i genedl Israel ddychwelyd yr unigolyn a grwydrodd, y farn ymysg mwyafrif ysgolheigion Beiblaidd yw mai caethwas wedi ffoi o wlad arall i Israel a drafodir.<sup>30</sup> Hwn yn wir oedd y dehongliad a goleddid gan rai o esbonwyr Beiblaidd mawr y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nododd Meudwy Môn, er enghraifft, 'Nid caethion a ddiangent oddiwrth feistri Hebreidd a olygir yma; ond rhai a fföent o fysg y cenedloedd cymmydogaethol at yr Hebreidd.'<sup>31</sup>

Dylid gadael i'r caethwas ymsefydlu yn unrhyw le y dymunai, ond ni nodir y dylid ei gynorthwyo; y cyfan y dylid ei wneud yw peidio â'i niweidio. Yr hyn y mae'r deddf yn ei gofalu amdano, felly, yw i'r unigolyn hwnnw, sydd mewn sefyllfa simsan, gael byw yn annibynnol a pheidio â chael ei ecsbloetio.<sup>32</sup>

<sup>30</sup> Er enghraifft, hon yw barn Anthony Phillips, *Deuteronomy* (Cambridge: Cambridge University Press, 1973), 241; Gerhard von Rad, *Deuteronomy: A Commentary* (cyfieithiad Dorothea Barton; Philadelphia, PA: The Westminster Press, 1966), 147; A. D. H. Mayes, *Deuteronomy: Based on the Revised Standard Version* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 1981), 319; J. A. Thompson, *Deuteronomy: An Introduction and Commentary* (London: Inter-Varsity Press, 1974), 241; Jack R. Lundbom, *Deuteronomy: A Commentary* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2013), 654-5. Mae Lundbom hefyd yn cyfeirio at awgrym a geir gan rai ysgolheigion mai Israeliaid oedd y caethwas mewn gwirionedd, ond ei fod yn un a werthwyd i feistr dramor, ac iddo rywsut lwyddo i ffoi yn ei ôl i'w famwlad. Yn hyn o beth, sylwa Samuel Greengus, *Laws in the Bible and in Early Rabbinic Collections: The Legal Legacy of the Ancient Near East* (Eugene, OR: Cascade Books, 2011), 117: 'The biblical law might even reflect a populist attitude of sympathy to the condition of chattel slaves; this would be especially likely if the fugitive was in fact a native Israelite who was sold into foreign bondage.' Awgryma eraill, fodd bynnag, mai ymateb i achos o gaethwas o Israeliaid yn ffoi oddi wrth ei feistr creulon yn Israel a wneir. Am y dehongliadau gwahanol hyn, gweler, e.e., D. Patrick, *Old Testament Law* (London: SCM, 1986), 133; Moshe Weinfeld, *Deuteronomy and the Deuteronomistic School* (Winona Lake, IN: Oxford University Press, 1992; adargraffiad), 272, n. 5; Christopher J. H. Wright, *Deuteronomy: New International Biblical Commentary* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, 1996), 249.

<sup>31</sup> Owen Jones, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynwys nodiadau beirmiadol ar y rhanau anhawddaf eu deall o ysgrifthyrau sanctaidd yr Hen Destament, a'r Newydd. Wedi eu casglu o waith yr Awdwyr gorau, hen, a diweddar. Cyfrol 1* (Wyddgrug: H. ac O. Jones, 1838), 315. Dyma'r farn hefyd ymysg rhai o'r esbonwyr di-Gymraeg mwyaf dylanwadol, megis John Kitto, *The Pictorial Bible being the Old and New Testaments according to the authorized version illustrated with steel engravings and many hundred wood-cuts representing landscape scenes, and subjects of natural history, costume and antiquities with original notes, explanatory of passages commented with the History, Geography, Natural History, Literature and Antiquities of the Sacred Scriptures. A new edition with additional notes, based on the discoveries of recent travellers in four volumes. Vol. 1* (London: W. and R. Chambers, 1855), 530.

<sup>32</sup> von Rad, *Deuteronomy*, 147; Greengus, *Laws in the Bible*, 117.



Mae ysgolheigion yn weddol gytûn fod hon yn ddeddf unigryw a'i bod yn mynd yn groes i ethos cyfreithiol yr hen Ddwyrain Agos drwy wahardd dychwelyd caethwas a ffordd oddi wrth ei feistr.<sup>33</sup> Cynnwys nifer o gytundebau rhyngwladol yr hen Ddwyrain Agos gymalau sy'n ymdrin â chaethion yn dianc ac yn pwysleisio'r rheidrwydd i'w dychwelyd. Gwobrwyd y sawl a'u dychwelai, a chosbid y sawl a fyddai'n rhoi lloches i gaeth neu a fyddai'n ei gynorthwyo ar ei ffoedigaeth. Er enghraifft, nodir yn neddf 17 Ur-Nammu a deddf 22 yr Hethiaid y gwobrwyd y sawl a ddychwelo gaeth ffoedig, ond yn wahanol i gyfreithiau Lipit-Ishtar a Hammurabi, ni ddywedir bod gorfodaeth arnynt i wneud hynny. Cyfyd deddfau 12-13 Lipit-Ishtar ddirwy ar unrhyw un a roddo loches i'r ffoedig, a'r gosb am y drosedd hon, yn ôl Cod Hammurabi 16, yw'r gosb eithaf.<sup>34</sup>

Mae'r gwaharddiad hwn rhag dychwelyd caethion o estroniaid yn nodweddu unigrywiaeth Israel, a chyda hynny, ei hufudd-dod i Yahweh a'i rhwymedigaeth i gyfraith y nef. Wedi'r cyfan, gwarddodd Yahweh ei genedl etholedig o'i chaethiwed yn yr Aifft ac addo na ddychwelai Israel fyth i fyw dan yr iau Eifftaidd. Oherwydd y cof cenedl hwn, y mae'r Israeliaid i adael i'r caethion ymsefydlu yn unrhyw le y dymument. Dyna adleisio agwedd nodweddiadol ar lyfr Deuteronomium: Israel fel gwlad noddfa, a chyda hynny, fan lle na orthrymir y ffoedig. Digwydd y berfenw hwn, 'gorthrymu', גר amryw weithiau yn yr Hen Destament mewn perthynas â'r modd y dylai Israeliaid drin ei gilydd (e.e. Lef. 25:14, 17), y modd y dylent drin eraill (Esec. 18:7, 16), ac, yn arbennig, y modd y dylent drin y sawl sy'n byw ar ymylon cymdeithas – y weddw, y tlawd a'r amddifad, a'r estroniaid preswyl yn eu mysg (Ex. 22:21; Lef. 19:33; Jer. 22:3; Esec. 18:12; 22:7, 29). Roedd yr Israeliaid, felly, i gofio am eu hanes fel cenedl wrth ddod ar draws ffoedigion ac, yn unol â hynny, ymateb yn y modd mwyaf priodol drwy beidio â'u gorthrymu.

Ymddengys mai sylfaen y ddeddf dan sylw yw Exodus 22:21, a'r cymhelliad dros wahardd dychwelyd caethion yw'r cof cenedl i'r Hebraeid fod mewn caethiwed yn yr Aifft, ac, felly, iddynt fod yn גר, yn 'estroniaid' mewn gwlad ddieithr. Byddai'r ffoadur o estron, y גר, felly, yn cael ymsefydlu yn unrhyw le y dymunai yn Israel.<sup>35</sup> Ar sail hyn a phwyslais

<sup>33</sup> R. Westbrook, 'Slave and Master in Ancient Near Eastern Law', *Chicago-Kent Law Review*, 70, rhif 4 (June 1995), 1670-4; Ronald E. Clements, *The Book of Deuteronomy: A Preacher's Commentary* (Peterborough: Epworth Press, 2001), 106.

<sup>34</sup> Greengus, *Laws in the Bible*, 119-20. Gweler ymhellach rai deddfau cyffelyb yn Pritchard, *ANET*, 160 (LI, 12), 163 (Deddfau Eshnunna, 49-50) a 190 (Deddfau'r Hethiaid, 22-24). Ceir sylwadau diddorol hefyd yn Isaac Mendelssohn, *Slavery in the Ancient Near East: A Comparative Study of Slavery in Babylonia, Assyria, Syria, and Palestine from the middle of the third millennium to the end of the first millennium* (Westport, CT: Greenwood Press, Publishers, 1978; adargraffiad), 58-64.

<sup>35</sup> Mayes, *Deuteronomy*, 319.

Deuteronomium ar hawliau dynol, deil Daisy Yiun Tsai y byddai statws y ffoëdig yn newid o fod yn gaethwas i fod yn ‘estron’, meddai:

In this sense, this law intends to protect the interest of the resident alien. The law demonstrates that the land is a permanent asylum not only for the Hebrew slaves who escaped from Egypt, but also for all escaped slaves. The land promises include freedom from involuntary enslavement, free choice of a living place, and dignity.<sup>36</sup>

Fodd bynnag, mae’n amheus a ellid ystyried pob caethwas ffoëdig yn gydradd ag ‘estroniaid preswyl’, er bod y ddau yn cynrychioli pobloedd mewn gwendid a than anfantais gymdeithasol.<sup>37</sup>

Yr unig beth tebyg i ddeddf Deuteronomium yn yr hen fyd oedd arfer rhai temlau o roi noddfa i gaethion a fuasai’n ffoi rhag eu meistri treisgar.<sup>38</sup> Yn yr achos hwnnw, fodd bynnag, noddfa dros dro ydoedd, â’r bwriad o gael y meistri a’r caeth i gymodi neu i’r caeth gael ei werthu i berchennog newydd.<sup>39</sup> O’r herwydd, deil Hector Avalos, ‘not all Near Eastern cultures returned fugitives’.<sup>40</sup>

Serch hyn, casgla Samuel Greengus, fel mwyafrif ysgolheigion Beiblaidd:

The laws of Deut. 23:16-17 thus represent a radical departure from ancient Near Eastern conventions. [...] The biblical law may perhaps be viewed as a form of “*quiet protest*,” expressing sympathy to fugitive slaves by taking no overt steps to assist in their recapture. This was about as much as a person could legally do in those ancient times. Deuteronomy 23:16-17 is therefore stated purely as a moral injunction, without adding any earthly punishment to be imposed upon those who did not heed but chose to continue with customary norms of apprehension and return of runaways with the expectation of reward from the owner.<sup>41</sup>

Oherwydd y ‘brotest dawel’ a geir yn y ddeddf hon, y testun Beiblaidd hwn oedd yr un y byddai diddymwyr America’n dueddol o droi ato er mwyn gwrthwynebu Cyfraith y

---

<sup>36</sup> Daisy Yiun Tsai, *Human Rights in Deuteronomy: With Special Focus on Slave Laws* (Berlin: Walter de Gruyter, 2014), 64.

<sup>37</sup> Ronald E. Clements, ‘Deuteronomy’, Leander E. Keck (gol.), *The New Interpreter’s Bible*, Cyfrol II (Nashville, TN: Abingdon Press, 1998), 462.

<sup>38</sup> Jeffrey Tigay, *The JPS Torah Commentary: Deuteronomy* דברים (Philadelphia, PA: The Jewish Publication Society, 1996), 215.

<sup>39</sup> Gweler, e.e., Christensen, *Deuteronomy 21:10-34:12*, 550; W. Westermann, *Slave Systems of Greek and Roman Antiquity* (Philadelphia, PA: The American Philosophical Society, 1955), 17-8, 38-41; J. C. Greenfield, ‘Asylum at Aleppo: A Note on Sefire III, 4-7’, yn M. Cogan ac I. Eph’al (goln), *Ah, Assyria ... Studies in Assyrian History and Ancient Near Eastern Historiography Presented to Hayim Tadmor* (Jerusalem: Magnes Press, Hebrew University, 1991), 277-8.

<sup>40</sup> Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011), 90.

<sup>41</sup> Greengus, *Laws in the Bible*, 121. Fy mhwyslais.

Caeth Ffoëdig.<sup>42</sup> Gan fod y ddeddf a roddwyd i'r Hebreaid gan Dduw yn cyferbynnu'n llwyr â'r gyfraith ddiweddar a ffurfiwyd gan yr Unol Daleithiau, byddai diddymwyr yn pwysleisio rheidrwydd ufuddhau i'r gyfraith uwch yn hytrach na deddfwriaeth y wlad.<sup>43</sup>

Dyna fyrdwn y datganiad a ddyfynnid gan Everett yn ei ysgrif. Yn wir, mewn cyfarfodydd gwrth-gaethiwol a gynhelid i ymateb i'r gyfraith newydd, bron yn ddi-ffael, byddai testun Deuteronomium 23:15-16 yn cael ei ddatgan fel un o'r rhesymau niferus dros anufuddhau i'r gyfraith.<sup>44</sup> Roedd hwn yn nodweddiadol o'r wasg gyfnodol Gymraeg, fel y gwelir isod, ac o wasg gyfnodol Saesneg America. Er enghraifft, cyhoeddwyd yn *The National Era* grynhead o gyfarfod a gynhaliwyd yn Green County, Ohio, gan gynulleidfa Eglwys Massie's Creek, ac ymysg y penderfyniadau a basiwyd gan y cyfarfod oedd bod unrhyw weithgaredd dynol a fyddai'n mynd yn groes i'r gyfraith ddwyfol yn ddirym, a bod y gyfraith honno a basiwyd yn ddiweddar gan y Gyngres yn gwrthdaro ag ewyllys Duw:

1. *Resolved.* That there is a God who rules over men, and *His law is supreme*, and that human enactments which conflict with this *higher law* are null and void.

2. *Resolved.* That the late law of Congress for the reclamation of fugitive slaves is in direct conflict with the law of God – Deut. 23d and 15th, “Thou shalt not deliver unto his master the servant who is escaped unto thee;” therefore we are bound to obey the latter and repudiate the former.<sup>45</sup>

Mewn gwirionedd, yr oedd y math o 'benderfyniadau' a basiwyd mewn cyfarfodydd gwrth-gaethiwol Cymraeg yn ymdebygu'n fawr i'r rhai a gyhoeddwyd gan gymdeithasau Saesneg America. Yn aml, beirnedid y gyfraith newydd am iddi wneud pawb yn gyfrannog yn y 'pechod' o gaethwasiaeth, am ei bod yn diddymu'r hawl am *Habeus Corpus* a gwrandawriad gyda rheithgor, ac am iddi fynd yn groes i'r Cyfansoddiad a gwrthdaro gyda'r dwyfol. Y farn

---

<sup>42</sup> Er enghraifft, Nathaniel Colver, *The Fugitive Slave Bill; or, God's Laws Paramount to the Laws of Men* (Boston, MA: J. M. Hewes, 1850), 13-4; Joseph P. Thompson, *The Fugitive Slave Law, Tried by the Old and New Testaments* (New York: Mark H. Newman & Co., 1850), 34-5.

<sup>43</sup> Er enghraifft, Charles Beecher, *The Duty of Disobedience to Wicked Laws. A Sermon on the Fugitive Slave Laws* (Newark, NJ: J. McIvaine, 1851), 8. Cafwyd hefyd bregethau cynharach a ddadleuai yn erbyn caethwasiaeth fel system ac yn hynny o beth, gyfeirio at destun Deut. 23:15-16, megis un George Bourne, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument; By a Citizen of Virginia* (New York: S. W. Benedict, 1845), 59-60.

<sup>44</sup> O ran y cyd-destun esboniadaeth Feiblaidd ehangach yn yr Unol Daleithiau, dylid nodi y bu i rai gwrth-gaethiwyr ddadlau bod testun Deut. 23:15-16 yn un problematig ac o'r herwydd na ddylid, ac na ellid apelio'n haearnaidd ato er mwyn ymateb i Gyfraith 1850. Enghraifft o'r fath yw Moses Stuart (gweler isod). Yn wahanol i hyn, nid ymddengys i'r Cymry godi unrhyw amheuaeth ynghylch defnyddio'r testun hwn o'r Pumlyfr.

<sup>45</sup> 'Green County, Ohio. (Abridged.)', *The National Era* (6 February 1851), 24. Pwyslais yn y gwreiddiol. Cymharer hefyd gyda 'Public Meetings at the North', *The National Era* (19 December 1850), 204.

ymysg y diddymwyr Cymraeg a Saesneg hyn, felly, oedd y dylid plygu i ‘allu’ neu ‘gyfraith uwch’, yn hytrach na chyfraith y wlad, a ofalai am hawliau eiddo’r caethfeistri yn hytrach na lles y caethion.

## Y Gyfraith Uwch

Perodd gofalu am hawliau eiddo’r caethfeistri ar draul daliadau crefyddol a moesegol y gwrth-gaethiwyr i nifer o ddiddymwyr gasglu nad oedd y llywodraeth ffederal bellach yn amddiffyn hawliau sifil *holl* ddinasyddion y wlad, a’i bod yn defnyddio deddfwriaeth i gynnal system caethwasiaeth. Gan ragdybio nad oedd caethwasiaeth yn mynd law yn llaw â’r gyfraith ddwyfol, gallai diddymwyr ddadlau fod parchu awdurdod Duw a chadw ei orchmynion yn golygu y gellid ymwrthod â deddfau gwladol anfoesol, a hynny heb gyfaddawdu dim ar eu teyrngarwch i’r Tad nefol. Sail y rhagdybiaeth hon oedd athrawiaeth y gyfraith uwch, ac fe’i hyrwyddid ymysg diddymwyr yr Unol Daleithiau ar ôl pasio’r gyfraith.

Enwogwyd y cysylltiad rhwng y gyfraith uwch a’r ymgyrch gwrth-gaethiwol yn dilyn sylwadau Seneddwr Efrog Newydd, William H. Seward parthed agweddau caeth-bleidiol Cyfaddawd 1850. Mewn araith a draddododd ar lawr y Senedd ar 11 Mawrth 1850, mynnodd Seward y dylid ufuddhau i gyfraith uwch na’r Cyfansoddiad, ac o’r herwydd, na ddylid arddel elfennau caeth-bleidiol y Cyfaddawd.<sup>46</sup> Cyhoeddwyd yr araith a’i hargraffu droeon, gan iddi daro tant gyda chynifer. I’r sawl a wrthwynebai gaethwasiaeth, roedd y pwys a roddai Seward ar y gydwytod Gristnogol yn hytrach na’r ddyletswydd wleidyddol yn cydfynd â’u dadleuon. Yn yr un modd, un o’r agweddau gwaethaf ar Gyfraith y Caeth Ffoëdig oedd ei bod yn gwneud y Gogledd yn gyfrannog ym mhechodau’r De, fel y dywedodd y diddymwr Henry Ward Beecher, ‘the North was to have the guilt and the South the profits of Slavery’.<sup>47</sup> Fodd bynnag, i’r sawl a gydymdeimlent â’r De, roedd galwad Seward ar i bobl weithredu yn enw’r ‘gyfraith uwch’, yn gyfystyr ag annog gweithredu’n anghyfreithlon, yn anghyfansoddiadol, ac amharchu cyfraith gwlad.

---

<sup>46</sup> John M. Taylor, *William Henry Seward: Lincoln’s Right Hand* (Washington, DC: Brassey’s, 1991), 83-86. Am drafodaeth ddifyr ynglŷn â dylanwad athrawiaeth y gyfraith uwch ar Seward, gweler Jane H. Pease, ‘The Road to the Higher Law’, *New York History*, 40, rhif 1 (April 1959), 117-36.

<sup>47</sup> Dyfynnir yn Debby Applegate, *The Most Famous Man in America: The Biography of Henry Ward Beecher* (New York: Doubleday, 2006), 245.

Esgorodd sylwadau Seward ar ymatebion lu. Cafwyd nifer o weinidogion a chyfranwyr papurau newydd yn adleisio galwad y Seneddwr.<sup>48</sup> Y ddadl gan nifer oedd bod cynorthwyo i ailgaethiwo caethion ffoëdig, sef yr hyn a ddisgwyliid gan y gyfraith, yn golygu fod pobun yn cyfrannu at barhad caethwasiaeth America. Byddai amryw weinidogion y Gogledd yn datgan eu gwrthwynebiad ar y sail na ddylid parchu unrhyw awdurdod seciwlar a allai gymeradwyo'r fath 'gydgynllwyn' â chynorthwyo hela caethion.<sup>49</sup> Gan hynny, byddai nifer o weinidogion yn datgan yn eu pregethau a'u hysgrifau diwinyddol mai eu pennaf deyrngarwch oedd i gyfraith uwch Duw ac nid i gyfraith wladol America.<sup>50</sup> Yn y cyd-destun hwn, felly, dadleuent mai'r gyfraith fel a geir yn Deuteronomium 23:15-16 oedd yr un y dylid ei hufuddhau, nid yr un a anogai hela caethion.

Dridiau ar ôl i'r Arlywydd Fillmore arwyddo Cyfraith y Caeth Ffoëdig, mynnodd y Parch. Theodore Parker, gweinidog radicalaidd gyda'r Undodwyr, fod dyletswydd ar i bobl ufuddhau i Dduw a'i gyfraith yn gyntaf.<sup>51</sup> Bu i Charles Beecher gyflwyno pregeth yn pwysu ar Deuteronomium 23:15-16, Mathew 25:33-26 ac athrawiaeth y gyfraith uwch.<sup>52</sup> A bu i'w chwaer, Harriet Beecher Stowe, gyhoeddi stori fer ym mis Awst 1850 yn *The National Era*, 'The Freeman's Dream: A Parable', yn darlunio'r gwrthdaro rhwng cyfraith gwlad a chyfraith nef, ac yn pwysleisio y dylid plygu'n gyntaf i'r grym anfeidrol.<sup>53</sup> Defnyddid yr

---

<sup>48</sup> Megis 'Selections. The "Higher Law."', *National Anti-Slavery Standard* (23 January 1851). Ceir enghreifftiau pellach yn John R. McKivigan, *The War Against Proslavery Religion: Abolitionism and the Northern Churches, 1830-1865* (Ithaca, NY: Cornell University Press, 2009), 267-8 nodyn 34.

<sup>49</sup> *Ibid.*, 153-4.

<sup>50</sup> Ceir enghreifftiau o'r defnydd o athrawiaeth y gyfraith uwch ymysg y diddymwyr di-Gymraeg yn America yn L. H. Sheldon, *The Moral Responsibility of the Citizen and Nation in Respect to the Fugitive Slave Bill* (Andover, MA: John D. Flagg, 1851), 12-4, 18-9; Rufus W. Clark, *Conscience and Law. A Discourse Preached in the North Church, Portsmouth, New Hampshire on Fast Day, April 3, 1851* (Boston, MA: Tappan & Whittemore, 1851), 3-5, 16; William Hosmer, *The Higher Law, in its relations to civil government: with particular reference to slavery, and the Fugitive Slave Law* (Auburn, NY: Derby & Miller, 1852), 28-9.

<sup>51</sup> Ethan J. Kytte, *Romantic Reformers and the Antislavery Struggle in the Civil War* (New York: Cambridge University Press, 2014), 46. Seiliodd ei ddadl ar athroniaeth Ramantaidd gan ddatgan cyn belled ag y mae deddfau gwlad yn gyfiawn ac yn gydnaws â moesoldeb dyn, dylid eu harddel. Ond os ydynt yn anghyfiawn, dylid eu gwrthod oherwydd bod eu hufuddhau yn bechadurus. Gweler Neil Brody Miller, 'Higher Law and Antislavery', yn Peter Hinks a John R. McKivigan (goln), *Encyclopedia of Antislavery and Abolition* (Westport, CT: Greenwood Press, 2007), 329.

<sup>52</sup> Charles Beecher, *The Duty of Disobedience to Wicked Laws: A Sermon on the Fugitive Slave Law* (New York: John A. Gray, 1851), 7-8, 21-2.

<sup>53</sup> Harriet Beecher Stowe, 'The Freeman's Dream: A Parable', *The National Era* (1 August 1850), 121. Dywedir mai'r gred hon fod yna allu uwch na chyfraith y Gyngres a Chyfansoddiad yr Unol Daleithiau a ysgogodd Beecher Stowe i lunio *Uncle Tom's Cabin* maes o law. Gweler Perfait, *The Publishing History of Uncle Tom's Cabin, 1852-2002*, 14.

athrawiaeth hon hyd yn oed mewn achosion llys barn a oedd yn ymwneud â chaethion ffoëdig, yn enwedig erbyn diwedd y 1850au.<sup>54</sup>

Fodd bynnag, cafwyd cryn feirniadu'r defnydd o'r athrawiaeth hon yng nghyd-destun y caeth ffoëdig gan amryw, yn cynnwys caeth-bleidwyr a gwrth-gaethiwyr cymedrol. Enghraifft o'r feirniadaeth yw sylwadau Lewis Green, a oedd ar y pryd yn llywydd Prifysgol Transylvania, mewn anerchiad ganddo ym 1856. Mewn iaith gref, rhybuddiodd y diddymwyr y dylid gochel rhag apelio at y gyfraith uwch fel rheswm i wrthsefyll caethwasiaeth:

That Higher Law, to which they now appeal, as superseding all human legislation cannot be found in the word of God. They must seek it, high; in the perverted reason, the diseased conscience, or the mad passions of men. Amidst the wild uproar of these tumultuous and unjust passions, all human law, all written constitutions, will be as paper bulwarks before the sweep of a hurricane.<sup>55</sup>

Ystyriai Green, fel nifer o gaeth-bleidwyr a gwrth-gaethiwyr cymedrol, y byddai'r math o ddiddymiaeth a anogai syniadau am gydraddoldeb a rhyddfrenio caethion ar unwaith, yn esgor ar wrthdaro a rhaniadau cymdeithasol peryglus. Dichon fod yr ofnau hyn yn wir, ac iddynt gael eu gwireddu. Serch hynny, a serch y feirniadaeth gyson, datblygodd athrawiaeth y gyfraith uwch yn un o gonglfeini'r ddadl yn erbyn Cyfraith y Caeth Ffoëdig, yn enwedig felly, yn y wasg gyfnodol Gymraeg; a'r hyn a welir yn ysgrif Everett yw un o'r enghreifftiau cynharaf o'r defnydd o'r athrawiaeth hon.

Yn dilyn nodi penderfyniadau'r Gymdeithasfa, cynigia Everett sylwadau am 'deimladau y wlad' parthed y gyfraith, a deil fod y Gogledd yn unfryd unfarn yn ei gwrthwynebu. Teg fyddai dweud fod Everett yn gywir yn datgan bod llawer yn y Gogledd yn anghytuno â'r gyfraith o ran egwyddor, ond mae'n debyg nad oedd y gweinidog yn llygad ei le'n awgrymu fod pawb yn 'unlleisiol [...] mewn gwrthwynebrwydd i'r ddeddf hon', oherwydd, fel y sylwyd eisoes, roedd mwyafrif y Gogleddwyr, yn enwedig yn y blynyddoedd cyntaf wedi pasio'r gyfraith, yn fodlon ei goddef.<sup>56</sup> Mae'n debyg mai ysbryd diddymol Everett a'i hysgogodd i ddatgan hynny, am mai dyna'n wir yr oedd ef a'i gyd-ddiddymwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn mawr obeithio. Ac er mwyn ceisio dwyn perswâd ar y Cymry mwy cymedrol a ddarllenai'r *Cenhadwr Americanaidd*, terfyna Everett ei ymdriniaeth gyda

---

<sup>54</sup> Gweler Steven Lubet, *Fugitive Justice: Runaways, Rescuers, and Slavery on Trial* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University Press, 2010), lle trafodir tri achos llys ym 1851, 1854 a 1859 yn fanwl, a'r modd y daeth dadl y gyfraith uwch yn rhan gynyddol o arfogaeth cyfreithwyr wrth i'r degawd fynd rhagddo.

<sup>55</sup> Dyfynir yn Alfred L. Brophy, *University, Court & Slave: Pro-slavery thought in Southern Colleges & Courts & the Coming of Civil War* (New York: Oxford University Press, 2016), 60.

<sup>56</sup> Everett, 'SYLWEDD "DEDDF Y FFOEDIGION."', 347.

dyfyniad a gyfieithwyd ganddo o waith Henry Ward Beecher, y diddymwr enwog o weinidog:

[“]Os bydd, yn nhrefn rhagluniaeth Duw, i ffoedigion ofyn am fara neu lety, dillad neu gludiad, oddiar ein dwylaw ni, caiff fy mhlant fy hun oddef eisiau bwyd yn hytrach na hwy, caiff fy nghnawd fy hun deimlo awch yr oerfel cyn y byddant hwy yn fyr o ddillad. Myfi a wnaif eu lletya, eu dirgel guddio, neu eu prysuro ar eu ffoedigaeth; a thra dan fy ngofal a’ m cyfarwyddyd, cant fod i mi fel fy nghnawd a’ m gwaed fy hun [...] Rhwymau a dirwyon a fyddant yn anrhydedd a bri, a’ r carcharu a’ r dyoddef a drosant yn fynedfeydd i enwogrwydd a chlod!”<sup>57</sup>

Yn ddiau, mae’r fath rethreg yn awgrymu gweithredu’n radicalaidd, yn groes i’r gyfraith, ac nid yw hynny’n syndod o gofio bod Everett ei hun wedi cynorthwyo caethion ffoedig yn y gorffennol, ac efallai, fel y mae Jerry Hunter wedi awgrymu, roedd aelwyd yr Everettiaid yn ‘orsaf’ ar y Rheilffordd Danddaearol.<sup>58</sup>

### **Mewn undeb mae nerth**

Ynghyd ag adwaith unigolion i’r gyfraith, cafwyd ymateb gan gymdeithasau. Yng ngeiriau Campbell:

Opposition to passage of the Fugitive Slave Law was not limited to a few individuals. Much of early opposition was manifested by large groups of concerned citizens who drew up resolutions denouncing the enactment as unconstitutional and an abomination upon the American people.<sup>59</sup>

Sylwyd eisoes ar gyfarfod o’r fath yn ysgrif Everett wrth iddo ddyfynnu penderfyniadau Cymdeithasfa Gynulleidfaol Efrog Newydd, a chynhaliwyd cyfarfodydd cyffelyb gan y Cymry. Er enghraifft, lai na mis wedi pasio’r gyfraith, cafwyd cyfarfod ‘mawr a chyffrous’ ar 7 Hydref 1850 yn Eglwys y Tabernacl ym Mhittsburgh gan Gymry’r ardal.<sup>60</sup>

Y cyntaf i annerch y gynulleidfa, ac a ‘ysgythrod y gyfundraeth gaethiwol a’r ddeddf warthus ddiweddar’, oedd William Thomas, ‘diweddar o Virginia’.<sup>61</sup> Yn y cyfnod hwn, roedd Virginia’n dalaith gaeth ac roedd ei Seneddwr, James Murray Mason, yn weithgar yn llunio

---

<sup>57</sup> Ibid.

<sup>58</sup> Hunter, *I Ddeffro*, 57-9, 114. Cafwyd cofnod o gaethwas ffoedig o’r enw George French yn annerch cynulleidfa yn un o gapeli Everett, Capel Uchaf, Steuben, yn *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 8.

<sup>59</sup> Campbell, *Slave Catchers*, 51.

<sup>60</sup> M. D. Morgans, ‘GWRTHGAETHIWED. CYFARFOD MAWR A CHYFFROUS.’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1850), 376.

<sup>61</sup> Ibid.

drafft o'r gyfraith dan sylw. Difyr, felly, yw gweld i un a arferai fyw yn y dalaith honno fod mor barod i feirniadu cyfraith a fuasai'n fuddiol i Virginia a thaleithiau cyffelyb.

Difyr hefyd yw sylwi i Thomas ddarfod ei anerchiad drwy ddyfynnu 'a darllen i ni Rhuf. [1]3:1-7, yn ddigon tawel.'<sup>62</sup> Sylwedd yr adnodau hynny yw Paul yn pwysleisio ufuddod i lywodraethwyr: 'Y mae yn rhaid i bob un ymostwng i'r awdurdodau sy'n ben. Oherwydd nid oes awdurdod heb i Dduw ei sefydlu, ac y mae'r awdurdodau sydd ohoni wedi eu sefydlu gan Dduw' (Rhuf. 13:1-2). Ymddengys hyn braidd yn baradocsaid: ar y naill law, dyma William Thomas yn beirniadu'r gyfraith wladol, ond ar y llaw arall, mae'n darllen testun a bwysleisia pwysigrwydd ufuddhau i lywodraeth a'i deddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r hyn sy'n allweddol yw sylwi i Thomas ddarllen yr adnodau hynny o epistol Paul 'yn ddigon tawel.'<sup>63</sup> Diben y sylw hwnnw, efallai, oedd cyfleu'r tyndra a fodolai rhwng arddel egwyddorion moesegol a dyngarol drwy gefnogi'r caethion yn eu hymdrechion i ffoi rhag y fflangell, a pharchu hawliau dinasyddol ac ufuddhau i lywodraeth ffederal a sicrhâi, gyda'i chyfreithiau, barhad caethwasiaeth.

Wedi dweud hyn, mae'n bosibl bod trefn y cyfarfod yn cymell y rhai a oedd yn ei fynychu i redeg darlleniad William Thomas yn erbyn yr hyn a ddywedodd y Parch. John Howes, y nesaf i annerch y gynulleidfa, ac iddynt gasglu mai dyfyniad Beiblaidd yr olaf oedd y mwyaf priodol yn y cyd-destun presennol.

Roedd y Parch. John Howes yn ddiddymwr amlwg ymhlith y Cymry a bu'n bresennol yng Nghapel Uchaf, Steuben, pan anerchwyd diddymwyr Cymraeg y dalgylch gan y caethwas ffoedig, George French.<sup>64</sup> Testun anerchiad Howes oedd Deuteronomium 23:15-16: "“NA DDYRO AT EI FEISTR WAS A DDIANGODD ATAT ODDIWRTH EI FEISTR; GYDA THI Y TRIG, YN DY FYSG, YN Y FAN A DDEWISO, YN UN O'TH BYRTH DI, LLE BYDD DA GANDDO.””<sup>65</sup> Fe ellid awgrymu mai diben y dyfyniad hwn oedd tansilio'r testun Beiblaidd a ddarllenwyd gan William Thomas.

Fel y sylwyd eisoes, roedd testun Deuteronomium 23:15-16 ymhlith conglfeini'r ddadl grefyddol yn erbyn Cyfraith y Caeth Ffoedig, oherwydd bod y gyfraith honno'n mynd yn gwbl groes i'r ddeddf hon a roddwyd gan y dwyfol drwy gyfrwng Moses. Diben cyfeirio at y testun hwn yn arbennig, felly, oedd annog y Cymry i gofio'u cynhysgaeth Iddewig-Gristnogol a chynorthwyo'r caethion yn eu fföedigaeth, a chyda hynny, ufuddhau i Gyfraith

---

<sup>62</sup> Morgans, 'GWRTHGAETHIWED', 376.

<sup>63</sup> Ibid.

<sup>64</sup> 'E.', 'Caethwas Ffoedig yn Steuben---Deiseb i'r Eisteddfod', *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 8.

<sup>65</sup> Ibid.



Moses yn hytrach na chyfraith America.<sup>66</sup> Er mwyn ategu at hyn, cyflwyna Howes bum datganiad am y gyfraith newydd:

1. Fod y ddeddf uchod (*fugitive slave law*) yn afresymol.
2. Yn greulon.
3. Yn anysgrythyrol.
4. Yn groes i Gyfansoddiad yr Unol Daleithiau.
5. Ei bod yn ddeddf na ellir ymostwng iddi AM FOD GALLU UWCH YN GWAHARDD.<sup>67</sup>

Dyna bwysleisio'n gryno'r gred fod y gyfraith wladol yn gwrthdaro â'r dwyfol, ac adleisiwyd rhai o'r datganiadau hyn yn y 'penderfyniadau' a basiodd y cyngor ar derfyn y cyfarfod. Yn eu plith, eu bod yn galw ar i gyfnodolion gyhoeddi 'enwau y dyhirwyr ysgeler a fyddant mor amddifad o egwyddorion dynol [â] derbyn swydd *Commissioner* [sic.],<sup>68</sup> sef y swyddogion a fuasai'n penderfynu pa un ai mynd yn rhydd ynteu i gaethiwed yr âi'r unigolion a ddygwyd o'u blaen dan gyhuddiad o fod yn gaethion ffoedig. Yn yr un modd, dylid gwneud yn hysbys pa rai o Gynrychiolwyr talaith Pennsylvania a bleidleisiodd o blaid y gyfraith yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr, am eu bod, bellach, yn 'annheilwng o gefnogaeth *Cristionogion* byth mwyach.'<sup>69</sup> Gwelir yma fod aelodau'r cyfarfod yn disgwyl i Gynrychiolwyr y dalaith fod yn wleidyddion crefyddol, a sicrhau fod popeth a wneid ynglŷn â gwleidyddiaeth yr Unol Daleithiau'n cyd-fynd â'r gydwybod Gristnogol. Am i'r Cynrychiolwyr hyn fethu gwneud hynny, nid oeddent bellach yn deilwng o gefnogaeth.

Fel pedwerydd datganiad Howes, datgenir bod y gyfraith

---

<sup>66</sup> Enghraifft ddi-Gymraeg ddiddorol o ddefnyddio'r adnodau hyn fel sylfaen i ddadl yn erbyn y gyfraith yw pamffled L. Maria Child, *The Duty of Disobedience to the Fugitive Slave Act: An Appeal to the Legislatures of Massachusetts* (Boston, MA: The American Anti-Slavery Society, 1860). Dyfynnir Deut. 23:15 fel is-bennawd ar glawr y traethawd a difyr yw sylwi i Child ystyried ei bod yn *ddyletswydd* ar i bobl anufuddhau i'r gyfraith. Mynegwyd neges gyffelyb gan rai o'r Cymry hefyd; er enghraifft, y penderfyniad cyntaf a basiwyd mewn cyfarfod yng Nghapel Peniel, Remsen (14 Chwefror 1851) oedd, 'Ein bod yn cydwybodol farnu mai ein dyledswydd yw gwrthsefyll "cyfraith y caeth ffoedig" ac ymdrechu drwy bob moddion cyfreithlon i'w dirymu a'i dileu'. Gweler 'E.R.', 'CYFARFOD GWRTH-GYFRAITH Y CAETH FFOEDIG', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1851), 84.

<sup>67</sup> Morgans, 'GWRTHGAETHIWED', 376.

<sup>68</sup> *Ibid.*

<sup>69</sup> *Ibid.* Pwyslais yn y gwreiddiol. Roedd yr arfer hwn o enwi'r sawl a bleidleisiodd o blaid y gyfraith hefyd i'w gael ymysg y gwrth-gaethiwyr di-Gymraeg, e.e. Samuel May a Henry Wadsworth Longfellow, *The Fugitive Slave Law and its Victims* (New York: American Anti-Slavery Society, 1856), 2: 'The names of the NORTHERN men who voted for this cruel kidnapping law should not be forgotten.' Ceir rhestr lawn o enwau'r Seneddwyr a'r Cynrychiolwyr adeg pasio'r gyfraith a'r modd y pleidleisiant (tt. 2-5).

yn groes i Gyfansoddiad yr Undeb [...] drwy ei bod yn dileu gweithred yr *Habeus Corpus*, yr hon y dywed y Cyfansoddiad nas gellir ei dileu, a phrawf drwy reithwyr yr hyn a sicrha y Cyfansoddiad i bawb, a attelir oddiwrth ddsbarth lluosog y tir, drwy'r ysgrif annglyfiawn a enwir yn gyfraith.<sup>70</sup>

Bu i'r cyfarfod hwn, fel llawer o gyfarfodydd ac unigolion gwrth-gaethiwol eraill, ddadlau bod Cyfraith y Caeth Ffoëdig yn anghyfansoddiadol, er bod amodi ynghylch dychwelyd unigolion a oedd dan rwymedigaeth i wasanaethu eraill i'w weld yn y Cyfansoddiad. Roedd y dadleuon hyn, yn wir, yn fodd o bontio'r crefyddol a'r cyfreithiol-Gyfansoddiadol. Gwelwn felly fod y math yma o ddadlau cyfreithiol wedi'i ieuo wrth y dadleuon â sylfeini crefyddol.

Diddorol hefyd yw craffu ar y sylw am weithred yr *Habeus Corpus*, sef y writ a sicrhâi fod unigolyn yn cael gwrandawriad teg mewn llys er mwyn penderfynu a oedd wedi'i arestio'n gam neu'n gymwys. Ni chawsai'r caethion fwynhau'r hawl hwn, a hynny, meddai'r gwrth-gaethiwr, yn groes i'r Cyfansoddiad, a ddywed:

The privilege of the Writ of Habeas Corpus shall not be suspended, unless when in Cases of Rebellion or Invasion the public Safety might require it.<sup>71</sup>

Gallai'r caeth-bleidwyr oresgyn y datganiad uchod drwy nodi mai hawl ar gyfer dinasyddion llawn America oedd hwn, a chan mai 'pethau' ac nid pobl oedd y caethion, yn ôl y gyfraith, nid oeddent yn gymwys i'r fraint uchod. Hefyd, gallent gyfeirio at y cymal na cheid *Habeus Corpus* 'when in Cases of Rebellion or Invasion the public Safety might require it.' Dichon y buasai'r caeth-bleidwyr, a rhai gwrth-gaethiwr mwy cymedrol, yn ystyried caethion yn crwydro'r taleithiau'n fygythiad i'r cyhoedd, yn enwedig oherwydd yr agwedd gyffredin ar hiliaeth yn yr Unol Daleithiau a ystyriai'r Affrican Americanaid fel pobl anwaraidd a llac eu moesau. Mewn gwirionedd, roedd y ffaith fod rhywun wedi ffoi oddi wrth ei feistr yn fath o wrthryfela.

Ar derfyn yr ysgrif ceir cofnod o gyfarfod arall a gynhaliwyd yng nghapel Carmel, Pittsburgh ar 5 Tachwedd 1850. Drachefn, trafodwyd y gyfraith ac fe'i beirniadwyd yn llym mewn anerchiad gan y Parch. James Price, Ohio, ac mae'r cofnod o araith y gweinidog hwn yn tystio i'r modd yr oedd y Cymry hyn ymysg gwrth-gaethiwr mwyaf radicalaidd y Gogledd:

---

<sup>70</sup> Morgans, 'GWRTHGAETHIWED', 376.

<sup>71</sup> *The Constitution of the United States of America*, Article I, Section 9, Clause 2 (1787): <<https://www.archives.gov/founding-docs/constitution-transcript>> (Cyrchwyd 5 Mawrth 2017).

Dywedodd fod dyledswydd ar bob dyn i ufuddhau i gyfraith y tir, os na fydd yn groes i air Duw a chydwybod. Ond i'r gwrthwyneb, pa gyfraith bynag a groesai ei gydwytod a gair yr Arglwydd yr âi efe i garchar ac i angeu cyn y rhoddai y fath ufudd-dod. "Rhaid ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."<sup>72</sup>

Roedd dyfynnu Actau 5:29 (cf. Act. 4:19-20) yn hynod arwyddocaol. Yn y rhan honno o lyfr yr Actau, ceir Pedr o flaen aelodau'r Sanhedrin yn datgan ei fod ef a'i gyffelyb, fel Cristnogion cynnar, yn parchu awdurdod uwch nag awdurdod yr urdd Iddewig honno.<sup>73</sup> Yr hyn a ddysgir yn yr adnod hon yw y dylai Cristnogion ddarostwng i'r awdurdodau llywodraethol, gan gydnabod fod yr arweinwyr politicaidd a'r sefydliadau wedi eu gosod gan Dduw er lles y gymdeithas (cf. Rhuf. 13:1-7; 1 Pedr 2:13-17), ond, ar yr un pryd, na ddylent wadu eu dyletswydd i ufuddhau'n gyntaf i ewyllys Duw a chyfreithiau teyrnas nef. Pan fyddai gweithredoedd yr awdurdodau daearol yn gwrthdaro â'r dwyfol, ni ddylid eu gwrthwynebu.<sup>74</sup> Roedd dyfynnu Actau 5:29, felly, yn ddatganiad o radicaliaeth y Cymry ac yn fodd i gyfleu'r tensiwn a deimlai nifer rhwng parchu'r Gair a phlygu i'r llywodraeth.

Cafwyd cofnod o gyfarfod arall i drafod y gyfraith gan Gymry Utica ar 6 Tachwedd 1850 yn yr un rhifyn o'r *Cenhadwr Americanaidd*. Fel rhan o'r cyfarfod hwnnw, cyflwynwyd nifer o benderfyniadau ynglŷn â tharddiad y gyfraith a'r modd y dylid ymateb iddi.

Pasiwyd bod 'y gaethfasnach yn bechod yn erbyn Duw a dyn, [ac] mai ariangarwch ydyw ei gwreiddyn, fel pob drwg arall.'<sup>75</sup> Diddorol yw sylwi eu bod hwythau o'r farn fod masnachu caethion yn 'bechod', yn gamwri o'r mwyaf ac yn drosedd ddwbl yn erbyn Duw a chyd-ddyn, a chan fod y wlad yn cynnal y pechod hwnnw gyda'r gyfraith hon, awgrymir mai'r unig ddewis moesol sydd ganddynt yw anwybyddu'r gyfraith newydd er mwyn ufuddhau i'r gyfraith uwch.<sup>76</sup> Roedd y gred mai ariangarwch a oedd wrth wraidd caethwasiaeth hefyd yn gyffredin ymysg y gwrth-gaethiwyr Cymraeg a di-Gymraeg.<sup>77</sup>

---

<sup>72</sup> Morgans, 'YR AIL GYFARFOD GWRTHGAETHIWOL', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1850), 376.

<sup>73</sup> Drwy wneud hynny, mae'n cwestiynu awdurdod moesegol y Sanhedrin ac yn honni, fel y gwnaethai nifer o athronwyr o Socrates ymlaen, fod gallu uwch yn bod ac mai hwnnw yw'r un y dylid ei barchu'n gyntaf. Loveday C. A. Alexander, *Acts in its Ancient Literary Context[:] A Classicist Looks at the Acts of the Apostles* (London: T & T Clark International, 2005), 195.

<sup>74</sup> David G. Peterson, *The Acts of the Apostles* (Nottingham/Grand Rapids, MI: Apollos/Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2009), 220-1.

<sup>75</sup> 'E.G.', 'ADOLYGIAD AR DDEDDF Y FFOEDIGION', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Rhagfyr 1850), 375.

<sup>76</sup> Yn yr un modd, byddai Robert Everett yn datgan mewn nifer o ysgrifau bod caethwasiaeth yn 'drosedd ddwbl', fel y dywed Jerry Hunter, *I Ddeffro*, 107.

<sup>77</sup> Er enghraifft, 'ARAETH. Y Parch. Henry Ward Beecher o flaen y Gymdeithas Wrthgaethiwol Americanaidd a Thramor', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1851), 209-12; 'Amseroedd

Cyhoeddwyd eu bod ‘fel rhydd ddinasyddion o’r Unol Dalaethau, a charwyr breintiau cyfartal, yn anghymeradwyo cyfraith y caethion ffoedig’, ond eto, credent na ddylid gwneud dim a fuasai’n ‘wrthgyfansoddiadol’ er mwyn ei dirymu, ‘oblegid fod genym lwybrau eraill mwy effeithiol, a mwy unol â’n hegwyddorion gwladol a chrefyddol, ac â Chyfansoddiad Undeb y Talaethau’.<sup>78</sup>

Ymddengys y penderfyniad dilynol, fodd bynnag, fel petai’n gwrthddweud yr uchod, oherwydd anogir y sawl a oedd yn bresennol i ‘[r]oddi bwyd, dillad, llety, arian, cyfarwyddiadau a dyogelwch’ i’r caethion, ‘mor bell ag y gallwn heb droseddu y cyfansoddiad.’<sup>79</sup> Dyna gyfleu’r gwrthdaro cyson a wynebai’r diddymwyr hyn; ar y naill law, dylid gweithredu’n unol ‘â’[r e]gwyddorion gwladol’, sef y gyfraith, ond ar y llaw arall, fel yr awgrymir yma, dylid cynorthwyo’r caethion ar eu ffœdigaeth, gweithred sydd mewn gwirionedd yn mynd yn groes i Erthygl 4, Adran 2 y Cyfansoddiad, ac i Gyfraith y Caeth Ffoedig:

And be it further enacted, That any person who shall knowingly and willingly obstruct, hinder, or prevent such claimant, his agent or attorney, or any person or persons lawfully assisting him, her, or them, from arresting such a fugitive from service or labor, either with or without process as aforesaid, or shall rescue, or attempt to rescue, such fugitive from service or labor, from the custody of such claimant, his or her agent or attorney, or other person or persons lawfully assisting as aforesaid, [...] or assist such person so owing service or labor as aforesaid, directly or indirectly, to escape from such claimant, his agent or attorney, or other person or persons legally authorized as aforesaid; or shall harbor or conceal such fugitive, so as to prevent the discovery and arrest of such person, after notice or knowledge of the fact that such person was a fugitive from service or labor as aforesaid, shall, for either of said offences, be subject to a fine not exceeding one thousand dollars, and imprisonment not exceeding six months, by indictment and conviction before the District Court of the United States[.]<sup>80</sup>

Wedi cyflwyno’r penderfyniad uchod ynglŷn â chynorthwyo’r caethion, cyfeirir at ddylanwad pregethwyr a grym y wasg gyfnodol drwy ddatgan y dylid mynegi ‘gwrthuni, creulonder, ac anysrytholrwydd y gyfraith i’n cydgenedl, o’r areithfâu a thrwy ein

---

Enbyd’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Medi 1856), 341-2; “‘Llaw Duw yn yr Argyfwng (*Crisis*) Presennol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ionawr 1858), 3-8; Jas. H. Rowlands, ‘Y Caethwas’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1860), 421-2; ‘Dim ond Enill arianol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1861), 347-8.

<sup>78</sup> ‘E.G.’, ‘ADOLYGIAD AR DDEDDF Y FFOEDIGION’, 375.

<sup>79</sup> *Ibid.*

<sup>80</sup> ‘*Fugitive Slave Law of 1850* THIRTY-FIRST CONGRESS—SESS. 1, CHAP. 60, 1850 *September 18, 1850*’, adran 7. Dyfynnir yn Mason I. Lowance (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader* (New York: Penguin Books, 2000), 328.

cyhoeddiadau'.<sup>81</sup> Gwelir bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wireddu, gan i gofnodion y cyfarfod ymddangos yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, a dichon fod amryw weinidogion a fynychodd y cyfarfod wedi mynd ati i feirniadu'r gyfraith o'u pulpudau.

Tra oedd nifer o drigolion y Gogledd – a rhai o'r rheiny'n wrth-gaethiwyr cymedrol – yn fodlon goddef y gyfraith er mwyn cynnal yr Undeb, roedd y Cymry a fynychai'r fath gyfarfodydd o farn dra gwahanol ac yn fodlon gweithredu'n radicalaidd er mwyn eu 'cydwybodau'.<sup>82</sup>

Y penderfyniad olaf a ddatganwyd yn y cyfarfod oedd:

Ein bod yn bwriadu, drwy bob moddion cyfreithlon, ymdrechu cael dileu y gyfraith Pharoaidd mor fuan ag y byddo modd, ac yn anog pob sefydliad Cymreig drwy yr Unol Dalaethau, i gynnal cyfarfodydd a phasio penderfyniadau yn ei hannghymeradwyo, yn nghyd ag uno i wedd[i]o am i Dduw wneud ein barnwyr, ein deddfwyr, a'n traethwyr yn gyfiawn, a rhoddi i ni "nefoedd a daear newydd," yn y rhai y bydd "cyfiawnder yn teyrnasu."<sup>83</sup>

Mae'r penderfyniad hwn yn ddiddorol am sawl rheswm. Datgenir drachefn y dylid dileu'r gyfraith 'drwy bob moddion cyfreithiol', er gwaethaf y ffaith yr anogir y gynulleidfa, ychydig benderfyniadau'n flaenorol, i gynnig lloches a gofal i'r ffoaduriaid, sef gweithredu'n groes i'r gyfraith. Gwelir bod Pharo llyfr Exodus wedi cael ei droi'n ansoddair er mwyn disgrifio'r math o gyfraith yw'r hon y dylid ei dileu. Roedd defnyddio'r ansoddair llwythog ei ystyr hwnnw yn fodd o atgoffa'r darllenwyr o gaethiwed yr Hebreaid yng Ngwlad yr Aifft, o ba mor orthrymus oedd y Pharo hwnnw, a hefyd, gynnig llygedyn o obaith, gan mai'r hyn ddigwyddodd i'r Hebreaid yn y pen draw oedd ffoi'n llwyddiannus dan ymyrraeth ddwyfol.<sup>84</sup> Dyna agwedd ddiddorol arall ar y datganiad, sef pwysigrwydd cyfryngu gyda'r dwyfol drwy gyfrwng gweddi. Roedd grym gweddi'n rhan anhepgor o'r ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth, gan fod modd galw ar i'r Bod Mawr ynghyd â'r llywodraeth ddaearol gynorthwyo'r caethion yn eu trallod.<sup>85</sup>

Wedi'r datganiadau, cafwyd dwy araith i gloi'r cyfarfod, y naill gan Alfred Harris, a bwysleisiodd 'annghyfiawnder y gyfraith', a fynnodd mai'r De a fuasai ar ei 'golled pe dryllid yr undeb', a thrachefn, y dylid ufuddhau i Dduw yn hytrach na dyn.<sup>86</sup> Y llall gan

---

<sup>81</sup> 'E.G.', 'ADOLYGIAD AR DDEDDF Y FFOEDIGION', 375.

<sup>82</sup> *Ibid.*

<sup>83</sup> *Ibid.*

<sup>84</sup> Ceir mewn manau eraill gyfeirio at y caethfeistri neu'r caethfasnachwyr fel 'Pharöaid'. Gweler, er enghraifft, Evans Watkins, 'Gohebiaeth o Gymru', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1846), 399.

<sup>85</sup> Gweler y drafodaeth am weddio a'r ymgyrch diddymol yn Mhennod 3 uchod.

<sup>86</sup> 'E.G.', 'ADOLYGIAD AR DDEDDF Y FFOEDIGION', 375.

Edward Davies, a gyfeiriodd yn uniongyrchol at y Cymry a galw arnynt i gofio, cydymdeimlo a chynorthwyo ‘ein brodyr y caethion, pan yn ceisio dianc o balfau yr arthod a chrafangau y llewod creulon o gaethfeistri.’<sup>87</sup>

Daw’r cofnod i ben â sylw sy’n dangos beiddgarwch y cynulliad hwn yn datgan y fath ‘benderfyniadau’, drwy alw ar i bawb a oedd yn bresennol i beidio ag adrodd wrth yr awdurdodau pe deuent ar draws caethion yn dianc, nac ychwaith adrodd am unrhyw un a wyddent a fuasai’n cynorthwyo’r caethion ar eu fföedigaeth: ‘Terfynai gan obeithio na byddai i neb eu datguddio i’w gelynyon, na gomedd rhoddi pob help iddynt i ffoi o derfynau caethiwed ac o gyrhaedd ei greulonderau.’<sup>88</sup>

### **Y Cymry Americanaidd: Radicaliaid oeddent bob un?**

Ar sail y testunau a drafodwyd eisoes, ymddengys fod y Cymry’n chwyrn yn erbyn y gyfraith a’u bod yn barod i’w gwrthwynebu, ond ai dyna oedd agwedd holl Gymry America?

Pan ystyrir, er enghraifft, gynnwys *Y Cenhadwr Americanaidd a’r Cyfaill o’r Hen Wlad* yn ystod y misoedd cyntaf wedi pasio’r gyfraith, sylwir bod y ddau gyfnodolyn, yn yr un modd â’u golygyddion, yn gogwyddo i gyfeiriadau gwahanol.

Am flynyddoedd, pan fyddai Everett yn pleidio diddymiaeth, byddai William Rowlands yn cefnogi cynlluniau’r Gymdeithas Drefedigaethol a’i hamcan o ryddhau’r caethion er mwyn eu hallforio i drefedigaeth rydd yn Affrica. Yn wir, mae safiad William Rowlands i’w weld ym mha faint o ofod a roddai’r *Cyfaill o’r Hen Wlad* i’r gyfraith dan sylw. Cydnabuwyd y gyfraith newydd a chynnwys hanesion am gaethion yn ffoi o’r De mewn amryw rifynnau,<sup>89</sup> ond ni chafwyd trafodaethau manwl am y gyfraith a fo’n gyffelyb i’r rhai a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* tan ddiwedd 1852, bron i ddwy flynedd ar ôl ei phasio.<sup>90</sup>

Teg dweud fod hyn yn adlewyrchu gogwydd y golygydd, a gwelir barn Rowlands yn glir yn ei anerchiad ar ddiwedd 1851 wrth iddo nodi mai ‘Go dymhestlog ydyw Deddf y Caethyn Ffoedig yn ei gweithrediadau, ond y mae undeb y Taleithau, dan ei dylanwad, yn

---

<sup>87</sup> Ibid. Roedd y fath ieithwedd wrth ddarlunio’r caethfeistri yn nodweddiadol o nifer o ysgrifau gwrth-gaethiwol. Gweler ymhellach isod.

<sup>88</sup> ‘E.G.’, ‘ADOLYGIAD AR DDEDDF Y FFOEDIGION’, 375.

<sup>89</sup> Er enghraifft: ‘Deddf y Caethyn Ffoedig a’r Methodistiaid Esgobaethol’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Ionawr 1851), 32; ‘Caethion Ffoedig yn Canada’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Awst 1851), 258; ‘Deddf y Caethyn Ffoedig yn cael ei Gwrthwynebu’, *Y Cyfaill o’r Hen Wlad* (Hydref 1851), 319.

<sup>90</sup> Rhiannon Heledd Williams, *Cyfaill Pwy o’r Hen Wlad?: Gwasg Gyfnodol Gymraeg America, 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017), 138-41.

ymddangos braidd yn gadarnach nag ydoedd flwyddyn yn [ô]l.<sup>91</sup> Gellid casglu, felly, fod Rowlands, fel nifer o drigolion eraill y Gogledd, yn ddigon bodlon goddef y gyfraith er mwyn cadw'r Undeb yn gyfan. Fodd bynnag, erbyn ei gyfarchiad ar ddiwedd 1852, a'r Democratiaid wedi sicrhau llwyddiant yn yr etholiad arlywyddol diweddar, ceir mymryn o newid yn agwedd y gweinidog wrth iddo gydnabod yn gynnill nad oedd y gyfraith wedi llwyddo i dawelu'r dyfroedd, a bod perygl dybryd i'r sefyllfa wladol waethygu erbyn diwedd y degawd.<sup>92</sup> Yn wir, erbyn 1856, roedd Rowlands a'r *Cyfaill o'r Hen Wlad* wedi dechrau cefnogi'r Gweriniaethwyr. Ar sail hyn, felly, gellid awgrymu i Rowlands fod ar daith o'r naill safbwynt i'r llall yn ystod y cyfnod, ac i'r gyfraith hon fod yn ddylanwadol yn newid y math o wrth-gaethiwaeth a arddelai.<sup>93</sup>

Yn wir, gellir cymharu safbwynt cynnar William Rowlands â'r hyn ddywed John R. McKivigan am rai '[c]onservative clergymen' y cyfnod:

One historical study comparing northern ministers who defended the Fugitive Slave Law with those who opposed it finds that the former were older, from the socially dominant denominations of their region, and from churches with theologies that placed less emphasis on individual conscience.<sup>94</sup>

Wrth gwrs, mae'n rhaid cydnabod nad oedd y sefyllfa mor seml â hyn, ond mae casgliad McKivigan yn taro tant gydag agwedd William Rowlands, a gogwydd *Y Cyfaill o'r Hen Wlad*, misolyn yr enwad a roddai bwys ar athrawiaethau megis rhagordeiniad, a llai, efallai, ar y gydwibod unigol. Dengys hyn, felly, fod y gwahaniaethau enwadol yn parhau i rannu barn ynglŷn â'r ymgyrch gwrth-gaethiwol, yr union beth y ceisiodd Robert Everett ei oresgyn gyda chyhoeddi *Y Dyngarwr* bron i ddegawd yn flaenorol.

Yn wir, o ystyried y darlun Americanaidd yn ehangach, roedd yr ymateb ymysg diwinyddion, gweinidogion, a Christnogion y Gogledd yn gyffredinol yn amrywio'n fawr. Roedd nifer o ddiwinyddion naill ai'n fodlon goddef y gyfraith am eu bod yn cefnogi caethwasiaeth, yn llwyr wrthwynebu'r gyfraith o ran egwyddor, neu'n wir, yn datgan y dylid

---

<sup>91</sup> William Rowlands, 'Rhagdraeth. Rhag. 1, 1851', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (1851).

<sup>92</sup> Meddai Rowlands: 'Yr ydym ni yn y Taleithiau Unedig newydd gofnodi etholiad cyffredinol. Rhoddir yr awenau llywodraethol yn nwyllaw y blaid a elwir Democratiaid, am bedair blynedd yn dechreu y pedwerydd o Fawrth nesaf. Perodd effaith yr etholiad siomedigaeth lem i lawer; eto rhaid cyfaddef fod yr unfrydedd yn rhyfeddol. Mae yn amlwg erbyn hyn, fod wedi ei adael o'r dechreu yn nghyduniad y Talaethau, beth ag a fygythia ddryllio yr undeb ryw ddiwrnod: rhydd y deng mlynedd nesaf brawf tanllyd ar ei barhad. Prin rhaid dweud mai at Gaethwasiaeth yr ydym yn cyfeirio.' 'Rhagdraeth, Rhag. 1, 1852', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (1852).

<sup>93</sup> Gwelid y newid yn ei agwedd amlycaf gyda thwf y blaid Weriniaethol ymysg y Cymry yn y 1850au. Williams, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad?* 141-50.

<sup>94</sup> McKivigan, *The War Against Proslavery Religion*, 154.

derbyn y gyfraith ond heb o reidrwydd gytuno'n llwyr â chaethwasiaeth. Un enghraifft ddiddorol o hyn yw ymateb yr Athro Moses Stuart, aelod o Athrofa Ddiwinyddol Andover ac un o ysgolheigion Beiblaidd amlycaf ei oes.<sup>95</sup> Yn ei bamffled *Conscience and the Constitution*, anogir pobl i ufuddhau i'r gyfraith newydd, gan ddadlau bod cynnal undeb y Taleithiau, y 'gymuned bwysicaf', yn dibynnu'n llwyr ar ufudd-dod i'r gyfraith ffederal.<sup>96</sup> Cyfeiria at rai testunau Beiblaidd gan gynnwys Deuteronomium 23:15-16 ac epistol Paul at Philemon i gefnogi'r ddadl. Mewn perthynas â Deuteronomium 23:15-16, dywed Stewart mai'r 'ffoedig' dan sylw yn yr adnodau hynny oedd y sawl a ddaethai o wlad arall i dir Israel. Byddai unrhyw gaeth Hebreig a ddihangodd o fewn terfynau Israel, ar y llaw arall, yn cael eu dychwelyd at eu meistri'n ddi-ffael. Gan hynny, felly, casgla y dylid dychwelyd y caethion Affrican Americanaidd gan mai oddi fewn i derfynau Gogledd America'r oeddent yn ffoi, ac nid o wlad arall.

Nid oedd Stuart yn llwyr bleidiol i barhad caethwasiaeth; yn wir, yr oedd yn gefnogol i'r syniad o ryddfrenio caethion yn raddol, a chyda hynny, ddirwyn y system i ben. Er hyn, yr oedd yn gyndyn i gollfarnu'r system oherwydd nad oedd gair o gondemniad i'w gael yn yr un o'r ddau Destament, ac felly, yr oedd o'r farn nad oedd y gyfundrefn ei hun yn 'bechadurus'. Wedi dweud hynny, cyfaddefodd fod y modd y triniau nifer o berchnogion caethion eu 'heiddo' yn bechadurus, drwy eu hamddifadu o addysg, priodas a theulu.<sup>97</sup> Yn hyn o beth, yr oedd Stuart yn rhannu'r un ofn â nifer o Ogleddwyr ac – fe ellid dweud, ar sail sylwadau William Rowlands uchod – rhai Gogleddwyr Cymraeg hefyd, sef y buasai rhyddhau'r caethion ar unwaith yn arwain at fflyd o fewnfudwyr i'r Gogledd ar raddfa y tu hwnt i bob rheolaeth. Roedd hynny, a'r agwedd hiliol a nodweddi nifer helaeth o

---

<sup>95</sup> Gweler trafodaeth gyflwyniadol ddiddorol a llyfryddiaeth berthnasol yn Laura Mitchell, "Matters of Justice between Man and Man"[:] Northern Divines, the Bible, and the Fugitive Slave Act of 1850', yn John R. McKivigan a Mitchell Snay (goln), *Religion and the Antebellum Debate over Slavery* (Athens, GA: University of Georgia Press, 1998), 139-53. Enghraifft ddiddorol arall yw'r Parch. John C. Lord a alwodd ar i'w braidd yn Buffalo, Efrog Newydd ufuddhau i Gyfraith y Caeth Fföedig ar sail Rhuf. 13:1-7 a Math. 22:15-22. Nid oedd Lord o blaid caethwasiaeth ond mynnodd nad oedd hawl gan ddinasyddion yr Unol Daleithiau i'w gwrthwynebu. Yn ddiddorol ddigon, esgorodd pregeth Lord ar ymateb gan yr Arlywydd Millar Fillmore a anfonodd lythyr (dyddiedig 13 Ionawr 1851) at Lord yn diolch iddo 'for the service you have done my country'. Dyfynnir yn *Memoir of John C. Lord, D. D. Pastor of the Central Presbyterian Church for thirty-eight years* (Buffalo, NY: The Courier, Printers, 1878), 31-2.

<sup>96</sup> Moses Stuart, *Conscience and the Constitution with Remarks on the Recent speech of the Hon. Daniel Webster in the Senate of the United States on the subject of Slavery* (Boston, MA: Crocker & Brewster, 1850).

<sup>97</sup> Emerson B. Powery, 'The Bible, Slavery, and Political Debate', yn Frances Flannery a Rodney A. Werline (goln), *The Bible in Political Debate: What Does it Really Say?* (London: Bloomsbury T & T Clark, 2016), 144.



Ogleddwyr, yn golygu mai'r farn ymysg nifer oedd y dylid rhyddfrefinio'r caethion yn raddol. Ond bu cryn newid i'r farn gyffredin hon yn ystod y blynyddoedd dilynol, gyda'r ymateb cynyddol i Gyfraith y Caeth Ffoëdig, dadfeiliad y blaid Chwigaid, y terfysg yn Kansas-Nebraska yn dilyn Deddf 1854, a thwf y blaid Weriniaethol.<sup>98</sup> Gwelir hyn gyda'r math o ddeunydd a gyhoeddiid yng nghyfnodolion Cymraeg a di-Gymraeg y Gogledd.

### ***Y Drych i safiad y Cymry?***

Ymddangosodd beirniadaeth ar y gyfraith newydd yn rhifyn cyntaf *Y Drych*, mewn erthygl gan y golygydd, 'Deddf y Crwydriad Caethwasawl'.<sup>99</sup>

Yn yr un modd ag amryw drafodaethau eraill, cwyna'r erthygl hon fod gorfodaeth gyfreithiol ar i bobl y Gogledd blygu i gaethfeistri'r De a dychwelyd caethion ffoëdig: 'nid ydym yn cymeradwyo gwaith y Gydgynghorfa yn creu deddf i attafaelu un dyn wedi y diango i Dalaith Rydd.'<sup>100</sup> Ond beirnedir hefyd weithgareddau'r diddymwyr 'penboethlyd', sef Robert Everett a'i gyfeillion. Meddai John Morgan Jones, golygydd *Y Drych*, 'Nis gallwn gydweled mewn un modd â'r Gwrthgaethyddion penboethlyd Gogleddol sydd yn cefnogi ereill llawn mor ddiogwyddor [â] hwy eu hunain, i ledrata y caethion oddiar eu meistriaid'.<sup>101</sup> Cyfeirio at y diddymwyr hynny a oedd yn fodlon torri'r gyfraith er mwyn rhyddhau'r caethion yn y taleithiau deheuol oedd y golygydd. Yn hyn o beth, roedd y papur newydd yn rhannu safiad cyffelyb i nifer o drigolion y Gogledd a oedd yn fodlon goddef y gyfraith. Fel y dywed Jerry Hunter, 'Roedd yn cerdded y tir canol.'<sup>102</sup> Ond roedd y tir canol hwnnw'n dechrau newid ac yn gogwyddo fwyfwy at y diddymwyr, heb o reidrwydd gyd-fynd yn llwyr â'u gweithgareddau a'u daliadau eithafol. Sylwyd ar y newid yn y 'tir canol' ar lefel genedlaethol hefyd mewn llythyr a gyhoeddwyd fis Mawrth 1851 gan y Parch. Erasmus W. Jones, yn nodi,

Ond drwy drugaredd mae pethau wedi cyfnewid i raddau helaeth. 'Does neb yn ofni'r "gag" ddim yn hwy. [...] Mae ein holl Newyddiaduron, oddieithr dau, yn condemnio

---

<sup>98</sup> McKivigan, *The War Against Proslavery Religion*, 150.

<sup>99</sup> 'Deddf y Crwydriad Caethwasawl.—Yr Etholiadau.' *Y Drych* (2 Ionawr 1851), 5

<sup>100</sup> *Ibid.*

<sup>101</sup> *Ibid.*

<sup>102</sup> Hunter, *I Ddeffro*, 177.

caethiwed mewn iaith llawer llymach nag a glywid erioed o enau'r "Cenhadwr," hyd yn nod yn nyddiau poethaf ei weithrediadau.<sup>103</sup>

## Ymgom

Trafodir y gwahanol safbwyntiau a goleddid gan Gymry America tuag at y gyfraith newydd mewn ymgom a luniwyd gan awdur a oedd yn dwyn y ffugenw 'Gwladgarwr'. Sgwrs rhwng dau gyfaill, Owen a Morgan, yn ymateb i ddigwyddiadau gwladol diweddar ydyw. Er mai ymgom ddychmygol sydd yma, llwydda 'Gwladgarwr' i ddangos yr amrywiaeth barn a geid yn y cyfnod ymysg y Cymry America parthed Cyfraith y Caeth Ffoëdig: cynrychiola Owen, ar y naill law, y bobl hynny nad oedd ganddynt eto farn bendant ynglŷn â'r mater, ac ar y llaw arall, cynrychiola Morgan y Cymry hynny a deimlai reidrwydd ufuddhau i'r gyfraith newydd. Nid oes gan Morgan unrhyw amheuaeth nad yw'r gyfraith yn ddilys oherwydd bod y Cyfansoddiad yn cynnwys cymal ynghylch dychwelyd unigolion sydd dan rwymedigaeth i wasanaeth:

Nid fe ellir, ond fe *raid*—"shall be delivered"—yr hyn, mor belled ag y mae y cyfansoddiad yn myned sydd yn awdurdodi y gydgynghorfa, ac yn gorchymyn iddynt wneyd y cyfryw gyfreithiau ag a fydd yn cario allan y cyfansoddiad fel cyfamod rhwng y gwahanol daleithiau.<sup>104</sup>

Noda yn ogystal i gyfreithiau eraill gael eu ffurfio'n seiliedig ar y cymal hwn, sef Gorchymyn Gogledd-Orllewin 1787 a Chyfraith Caeth Ffoëdig 1793, a difyr yw gweld Morgan yn dwyn cymhariaeth rhwng cyfreithiau 1793 a 1850, gan gasglu bod amodau'r olaf yn fwy derbyniol:

Yn [ô]l gweithred 1793, gallai y caethfeistr ddal y caeth ffoedig trwy rym, (*force*,) ac heb ofyn dim i awdurdodau y lle ei delid; tra y mae cyfraith 1850 yn gofyn iddo yn gyntaf geisio gweithredau cyfreithiol.<sup>105</sup>

Ymateba Owen drwy faentumio bod y gyfraith yn amddifadu'r caethion ffoëdig o'r hawl am *Habeus Corpus* ac etyb Morgan na fu gan y caethion erioed yr hawl hwnnw. Cyfeiria Owen hefyd at y ddirwy a godid ar y sawl na fuasai'n cynorthwyo dal ffoedigion a

---

<sup>103</sup> Erasmus W. Jones, 'LLYTHYR I'R CENHADWR', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1851), 86.

<sup>104</sup> 'Gwladgarwr', 'Ymddyddan Rhwng Owen a Morgan', *Y Drych* (29 Mawrth 1851), 98. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>105</sup> *Ibid.*

bod ‘yr holl gostau perthynol [...] yn dyfod allan o’r *Drysorfa Gyhoeddus!*’.<sup>106</sup> Er mai felly’n union yr oedd hi, myn Morgan mai’r ‘*perchenog sydd i dalu y gost*’.<sup>107</sup>

Datgan Owen iddo gael ei synnu gan sylwadau ei gyfaill, ac o glywed hynny, esbonia Morgan ei resymau dros barchu’r gyfraith newydd. Dywed ei fod yn gwrthwynebu caethwasiaeth ond bod cynnal y taleithiau’n unedig yn fater pwysicach na rhyddfrefinio’r caethion:

Nid wyf yn amddiffyn y gyfraith yn gyfanswm, nac yn wir ddim o honi, pe gellid rhywfodd yn dawel ddyddymu caethiwed, a’r holl gyfreithiau perthynol iddo; ond yr wyf yn caru ein gwlad, a lles ein gwlad, a’n gwlad i gyd—nid rhan ond yr oll o honi. [...] Y mae cadwedigaeth yr Undeb yn beth neillduol o bwysig i ni fel gwladwriaeth.<sup>108</sup>

Mewn gwirionedd, yr oedd hon yn agwedd ddigon cyffredin yn yr oes, ac yn achos Morgan, teimla fod ganddo hyd yn oed fwy o ddyletswydd i ufuddhau i gyfraith y wlad oherwydd ei fod wedi’i mabwysiadu drwy ddod yn Gymro Americanaidd. Yn wir, tua dechrau’r sgwrs, dywed, ‘YR UNDEB sydd yn cael ei gyfrif yn etifeddiaeth anmhrisiadwy gan ddynion penaf a doethaf ein gwlad’.<sup>109</sup>

Cyn terfynu’r ymddiddan, cyfeiria Owen at y Beibl ac, yn arbennig, at destun Deuteronomium 23:16, ‘sydd yn sicr yn bendant’ ei ystyr. Cytuna Morgan fod y testun yn gwbl eglur ei ergyd, ond dywed fod adnod arall hefyd sydd cyn sicred ei hergyd, yr un sydd ‘yn cyfarwyddo meistr y caeth pa fodd i sicrhau ei was yn dragywyddol, trwy roddi mynawyd trwy ei glust i’r post’ (Ex. 21:6; Deut. 15: 17).<sup>110</sup> Daw’r sgwrs i ben yn syth ar ôl cyfeirio at y testunau hyn, mae’n debyg, gan fod y naill a’r llall yn sylweddoli oferedd dadlau ymhellach gan fod eu tystiolaeth yn deillio o’r un ffynhonnell awdurdodol. Dyna enghreifftio yn ogystal y ffaith fod yr un llyfr yn cael ei ddefnyddio bob ochr i’r ddadl am gaethwasiaeth, ac na fyddai modd i’r naill ochr gael goruchafiaeth ar y llall o bwysio ar y Beibl.

---

<sup>106</sup> Ibid. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>107</sup> Ibid. Pwylais yn y gwreiddiol.

<sup>108</sup> Ibid.

<sup>109</sup> ‘Gwladgarwr’, ‘Ymddyddan Rhwng Owen a Morgan’, 98.

<sup>110</sup> Ibid. Gweler ymhellach Bennod 2 uchod.

## Ysgrif Greadigol

Yn rhifyn Dygwyl Dewi 1851 *Y Drych*, cyhoeddwyd ymateb creadigol arall i'r gyfraith ar ffurf ysgrif gan y llenor Ioan Caerloyw o Boston, yn trafod hanesyn diweddar o'r ddinas honno, dan y teitl, 'Cipiwyd yr Oenig o Balf yr Arth!'

Olrhain achos o hela caethwas o'r enw Shadrach Minkins, a ddihangodd o'i gaethwasanaeth yn Norfolk, Virginia ym mis Mai 1850, ac a ymsefydlodd yn Boston, a wna'r ysgrif.<sup>111</sup> Wedi cyrraedd y ddinas honno, daeth Shadrach yn weinydd yn y Cornhill Coffee House a byw fel dyn rhydd, ond gyda hyn, daeth John De Bree, ei berchennog, i wybod ym mhle roedd ei gaethwas, a'i ganlyn.<sup>112</sup> Delweddir hanes De Bree yn dyfod i'r Gogledd i hawlio'i 'eiddo', gydag iaith ddramatig sy'n delweddu'r caethfeistr fel arth wedi colli un o'i chenawon, mewn ffordd nid annhebyg i Edward Davies yn ei anerchiad i Gymry Utica uchod:

Arth mawr ysgethrog, mewn cynddeiriogrwydd am golli un o'i chenawon, a ddaeth yma wedi blaenlymu ei ewinedd ar faen llif[i]o y ["*Fugitive Slave Law*." Nis gwn pa un ai Hari ai Dan ai Twm ai Lewis oedd yn troi y maen iddo, neu a oedd y pedwar wrthi hi. "I Boston â thi yn awr," meddai y Llywydd *damweiniol*, "brath a rhwyga os na chai dy genaw"[.] Deuddeg o'r gloch ddydd Sadwrn y 15fed, ymddangosodd y creadur rheibus o flaen yr *U. S. Commissioner*, gyda ei ysgythrddaint gloywon, yn barod i chwythu plwm i galon yr hwn a'i gwrthwynebai. "Collais fy nghanaw," meddai yn ngorphwylldra ei natur, "ac yma y diangodd. Yr wyf yn enw y maen llif[i]o, yr ewinedd a hogodd, a'r gw[ŷ]r sydd yn ei droi, yn galw arnoch i ddychwelyd fy eiddo i'm meddiant." "Fath un yw dy genaw?" meddai y *Commissioner*. "Y mae efe odd *allan* ar fy llun a'm delw i; oddi *mewn* DU YDYW." "Rhaid boddio hwn," meddai'r swyddog "onide bydd yn waeth arnom nag y bu ar blant Jerico gynt pan ddaeth dwy o'i rywogaeth i'w plith allan o'r coed."<sup>113</sup>

Yn dilyn disgrifio'r meistr fel anifail rheibus wedi hogi ei ewinedd, cyfeirir at y warant a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd George Ticknor Curtis a'r modd yr arestiwyd Shadrach ar 15 Chwefror 1851. Diddorol yw sylwi ar y gyfeiriadaeth at y Gaethglud ym Mabilon yn y disgrifiad o'r modd y daliwyd y ffoadur; 'ymafl[w]yd yn[ddo] fel y gwnaeth

---

<sup>111</sup> Ceir hanes Shadrach Minkins yng nghyfrol Gary Collison, *Shadrach Minkins: From Fugitive Slave to Citizen* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1998). Ceir cofnod am stori Shadrach hefyd mewn erthygl yn dwyn y teitl, 'Caethwas Ffoedig yn cael ei ddal a'i ryddhau', yn *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1851), 88-9.

<sup>112</sup> Dywed yr ysgrif mai John DeBree ei hun a ddaeth i'r Gogledd i gyrchu'r caethwas, ond yn ôl Collison, *Shadrach Minkins*, 110, John Caphart, y cwnstabl o Norfolk, Virginia, a ddaeth i Boston gyda dogfennau cyfreithiol DeBree a phŵer atwrnai yn ei feddiant i ganlyn y caethwas.

<sup>113</sup> Ioan Caerloyw, 'CIPWIYD YR OENIG O BALF YR ARTH!', *Y Drych* (1 Mawrth 1851), 66. Pwyslais yn y gwreiddiol.

ceisbyliaid Nebuchodo[no]sor â'r g[ŵ]r o'r un enw ar wastadedd Dura'.<sup>114</sup> Dengys hyn fod y defnydd o destunau a chysyniadau Beiblaidd yn rhan arwyddocaol o ddadansoddiad creadigol Ioan Caerloyw.

Difyr hefyd yw'r sylw crafog a geir uchod, mai'r 'Llywydd *damweiniol*' sy'n rhoi sêl ei fendith ar weithgareddau'r helwyr caethion.<sup>115</sup> Cyfeiriad yw hyn at y ffordd y daeth Millard Fillmore yn arlywydd – o ganlyniad i farwolaeth Zachary Taylor, yr arlywydd etholedig, ac yntau ond ar ddechrau ei dymor. Tybed ai awgrymu y mae Ioan Caerloyw na fyddai'r sefyllfa hon yn bod pe buasai Taylor wedi bod ynghlwm â phroses ffurfio Cyfraith y Caeth Ffoëdig?

Dygydd Shadrach i'r llys ar gyfer gwrandawriad dan law'r Comisiynydd Curtis ond penderfynwyd gohirio'r gwrandawriad tan 18 Chwefror. Yn ystod yr eisteddiad cyntaf hwnnw, meddai'r ysgrif, ymgasglodd torf o Affricaniaid Americanaidd rhyddion y tu allan i'r adeilad, ac wrth i'r llys ddechrau gwagio, 'bwrlymodd cant o w[ŷ]r lliw i mewn, dan groch waeddi, "*Tear him away!*"'.<sup>116</sup> Bu ffrwgwd yn y llys ond llwyddwyd i ddwyn Shadrach oddi yno; 'Aethant [â]r oenig yn iach ddiangol, gan orfloeddi banllefau goruchafiaeth.'<sup>117</sup> Yn hyn o beth, ceir mymryn o hiwmor gan Ioan Caerloyw, wrth iddo fychanu'r caethfeistr drwy ddisgrifio'r 'arth' yn mynd i guddio yng nghanol y ffrwgwd, a 'sugno ei fawd, fel y gwnelai ei gyndad ar hinos gauaf yn ogof y ceubren.'<sup>118</sup>

Yn dilyn y cyrch, aethpwyd â Shadrach i Cambridge, Massachusetts, cyn ei gynorthwyo i gyrraedd Canada.<sup>119</sup> Ymlodaenodd y sôn am ei ffœdigaeth fel tân eithin drwy'r taleithiau gan ysgogi mwy o Affricaniaid Americanaidd rhyddion a gwrth-gaethiwyr eraill i weithredu a mentro'n daerach yn erbyn y gyfraith. Mae'r stori hon ymhlith yr enwocaf am gaethion yn ffoi, gan iddi ddarlunio'r modd y llwyddwyd i gipio caethwas o afael marsialwr ffederal mewn llys barn, ac am y ffaith na chosbwyd y sawl a gynorthwyodd Shadrach i ddianc.<sup>120</sup>

Clodforir gweithredoedd y bobl am ddwyn Shadrach i'w ryddid gan Ioan Caerloyw, gan ddweud bod yr Affricaniaid Americanaidd hynny yn '*Yankees* o waed a chalon [...] rhai na chydymffurfient â deddf echrys greulon y caethion ffoedig, am yr un rheswm mawr, ei

---

<sup>114</sup> Campbell, *Slave Catchers*, 149; Ioan Caerloyw, 'CIPIWYD YR OENIG O BALF YR ARTH!', 66.

<sup>115</sup> Ibid.

<sup>116</sup> Ibid.

<sup>117</sup> Ibid.

<sup>118</sup> Ibid.

<sup>119</sup> Campbell, *Slave Catchers*, 148-50.

<sup>120</sup> Ibid., 151.

bod yn milwrio yn erbyn deddf ac uchel freiniau Goruchaf Dduw y nefoedd'.<sup>121</sup> Drachefn, dyna gyfleu'r gwrthdaro a fodolai ymysg diddymwyr rhwng cyfraith America ac ewyllys Duw, a phwysleisir bod y stori hon yn esiampl i eraill ei dilyn: rhaid yw dygnu ymlaen yn ddi-baid oherwydd eu bod, fel Cristnogion, dan rywmedigaeth foesol i wrthwynebu'r awdurdodau, yn yr un modd ag fel yr aeth Daniel 'yn groes i gyfraith y Mediaid a'r Persiaid', ac megis '[g]wrolion yr oes Apostolaidd'.<sup>122</sup> Drwy wneud hynny, meddai Ioan Caerloyw, gwneir yn unol â'r hyn a orchmynnir yn Actau 5:29: "Rhaid i ni ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."<sup>123</sup>

Yn ogystal, roedd yr Affricaniaid Americanaidd hynny a achubodd Shadrach o'i anffawd yn 'Yankees o waed a chalon'. Yr awgrym a geir, felly, yw mai hwy a weithredodd fel *gwir* 'Americanwyr', fel deiliaid y wlad 'rydd', am iddynt ofalu am eu cyd-greadur – yr hyn na wnaeth y dynion gwynion a oedd ynghlwm wrth yr achos llys.

### **'RHYDDID yn gaeth yn nhir ei gwlad!'**

Cyfansoddodd Ieuan Ddu (J. P. Harris) gerdd yn dwyn y teitl 'Gwrthdroad (*Apostrophe*) I Ryddid', a hynny, meddai, 'wedi darllen Cyfraith y Caethwas Ffoedig, a chael ar ddeall lywod-ddysg Platform Baltimore yn 1852.'<sup>124</sup>

Prif ffocws y gerdd ar ei hyd yw rhagrith yr Unol Daleithiau, y wlad a ymffrostiai yn ei rhyddid, yn parhau i oddef caethwasiaeth, a mynegir y paradocs hwn yn y llinellau agoriadol:

RHYDDID yn gaeth yn nhir ei gwlad!  
Ië, tir ei bro—fu iddi'n fad!!<sup>125</sup>

Ymestynnir y ddelwedd hon o America rydd yn gaethferch drwy gydol y gerdd, ac oherwydd bod y wlad yn proffesu 'Rhyddid i bawb' yn 'arwydd air', a'i bod wedi methu gwireddu hynny, ceir Ieuan Ddu'n galaru am y modd y llychwiniwyd America gan y gyfundrefn gaethiwol. Er bod y wlad gyfan wedi datblygu, y tiroedd wedi ffrwythloni, a'r 'llynoedd a'r afonydd' yn 'llon', clywir 'ochain' America, 'Mewn artaith [...] y fynud hon.'<sup>126</sup> Cloir gyda

---

<sup>121</sup> Ibid.

<sup>122</sup> Ioan Caerloyw, 'CIPIWYD YR OENIG O BALF YR ARTH!', 66.

<sup>123</sup> Ibid.

<sup>124</sup> Ieuan Ddu, 'Gwrthdroad (*Apostrophe*) I Ryddid', *Y Seren Orllewinol* (Mehefin 1853), 124.

<sup>125</sup> Ibid.

<sup>126</sup> Ibid.

chwpled trawiadol yn crynhoi prif ergyd y gerdd – gan fod America gyfan, ‘the land of the free’, yn dal i arddel caethwasiaeth, yr oedd, mewn ffordd, wedi’i ‘chaethiwo’ ei hun:

Dan rwymau gwarth mae’r dduwies gain  
O Oregon hyd dalaeth “Maine”.<sup>127</sup>

## Hysbysebu

Cafwyd datganiadau nid annhebyg mewn testunau eraill yn ystod y blynyddoedd dilynol wrth i nifer y caethion a fentrau ffoi gynyddu’n gyson. Yn wir, oherwydd bod cymaint yn dianc yn ddyddiol, nid oedd yn anghyffredin gweld mewn papurau newydd a chyfnodolion caethbleidiol, hysbysebion am gaethion a oedd wedi ffoi, a’r rheiny’n cynnig gwobr i’r sawl a’u daliai.

Roedd y weithred o hela pobl am wobwr yn wrthun i nifer, ac amlygwyd hyn yn *Y Drych a’r Gwyllydydd* ar 30 Mai 1857 pan gyhoeddwyd cyfieithiad o hysbyseb o’r *Holston Gazette*, ‘Edrycher allan am Ffoedigion!’<sup>128</sup>

O dan y pennawd, ceir delwedd o gaethwas yn rhedeg gydag ysgrepan dros ei ysgwydd, caethferch yn ei ddilyn ac yn cipedrych dros ei hysgwydd hithau ar y ci anferthol sy’n eu canlyn. Dywed yr hysbyseb y rhoddir \$500 yn wobwr i’r sawl a ddaliai ‘Job Sak a Nel Salli, sef gŵr a gwraig ieuanc, a ddiang[as]ant oddiar y tanysgrifiwr, Mai 1af, a thybir eu bod wedi eu ffoi i Ohio, neu rai o’r Talaethau rhyddion.’<sup>129</sup> Eir ymlaen i fanylu ar nodweddion y caethion: Job yn ‘ddyn ieuanc pur heinyf, a chraith wen ar ei dalcen, ac mae Salli yn lled fer, ac heb fod yn loëwddu.’<sup>130</sup> Gellid awgrymu i’r golygydd fod yn graff yn dewis yr hysbyseb hwn i’w gyfieithu oherwydd y manylion hynny am y caethion. Roedd y ‘[g]raith wen’ ar dalcen Job yn awgrymu iddo ddioddef anffawd, o bosibl dan law ei feistr – felly’n cyfleu’r fath drais a ddioddefai rhai caethion; ac mae’r sylw am Salli fel un ‘heb fod yn loëwddu’ hefyd yn ddadlennol. Yr awgrym a geir yw bod y naill riant i Salli’n wyn a’r llall yn ddu – efallai fod hyn hefyd yn fodd i atgoffa’r darllenwyr o’r ffaith fod nifer o blant yn cael eu geni o ganlyniad i gaethferch ddu yn cael ei threisio gan ei meistr gwyn. Ceid nifer o ddiddymwyr a gwrth-gaethiwyr o bob math yn yr oes hon yn aml yn sôn am y ffaith fod caethferched yn dioddef trais rywiol.

---

<sup>127</sup> Ibid.

<sup>128</sup> ‘Edrycher allan am Ffoedigion!’, *Y Drych ar Gwyllydydd* (30 Mai 1857), 172, 174.

<sup>129</sup> Ibid. 172.

<sup>130</sup> Ibid.

Daw'r hysbyseb i ben gyda'r frawddeg drawiadol, 'Diame[u] y gellir eu dâl gyda phrysurdeb â ch[w]n hela gwaedlyd.'<sup>131</sup> Mae'n bosibl i'r golygydd fod yn graff drachefn yn cam-gyfieithu'r gair 'bloodhounds' yn fwriadol i 'gŵn hela gwaedlyd', yn hytrach na 'gwaetgwn', a hynny er mwyn cael cryn effaith ar y darlennydd. Gellid dadlau fod y cyfieithiad cwmpasog yn fwy trawiadol na'r gair cyfansawdd, y cyfieithiad 'cywir'.

Yn dilyn hyn, ceir ychydig sylwadau gan y golygydd a'r rheiny'n mynegi ei safiad yn groyw. Dywed gyda thristwch a mymryn o goegni, 'Dichon y llwydda Mr. Martin [y perchennog] i adfeddiannu ei "eiddo," cyn cyfarch ei ddarllenwyr a gofyn, 'Onid yw yr ymadrodd, fod bodau dynol yn "werth o naw i ddeuddeg cant o ddoleri mewn unrhyw farchnad," yn echryslon i feddwl am dano?'<sup>132</sup>

Trafodir yn ogystal hanesyn o Louisville, Kentucky, lle cyhuddwyd pedwar caethwas o lofruddiaeth. Er i'r llys eu cael yn ddiuog, nid oedd y caethfeistri'n fodlon, a bu cythrwfl o'r herwydd. Canlyniad hynny fu i un caethwas gymryd ei fywyd a chrogwyd y tri arall, cyn cynnau tân oddi tanynt.<sup>133</sup>

Diau mai diben cyhoeddi'r hysbyseb a'r sylwadau dilynol oedd goleuo'r Cymry uniaith ynglŷn â'r fath ymdrechion a wnâi'r caethfeistri er mwyn adfeddiannu eu 'heiddo', yn ogystal â mynegi beirniadaeth am hynny. Mae'n ddiddorol nodi bod *Y Drych a'r Gwyliedydd* wedi defnyddio hysbyseb caeth-bleidiol mewn modd a oedd yn tanseilio galwad yr hysbyseb; yn hytrach nag annog darllenwyr i gynorthwyo dal y caethwas ffoedig, codai'r cyfieithiad ymwybyddiaeth ynglŷn ag anghyfiawnder y drefn o dan gyfraith 1850.

### '[L]ladron yw dynion y Dê'<sup>134</sup>

Ym marn nifer yn y cyfnod, roedd ufuddhau i'r gyfraith yn gydnaws â dwyn pobl i'w caethiwed. Cyfeirid at hyn o dro i dro fel lladrata dynion, a bod y sawl a fyddai'n ufuddhau i'r gyfraith ac yn dychwelyd caethion ffoedig yn euog o fod yn 'lladron dynion'.<sup>135</sup> Roedd yr

---

<sup>131</sup> Ibid.

<sup>132</sup> Ibid.

<sup>133</sup> Ibid., 174.

<sup>134</sup> Wm. T. Williams, 'Drygedd Caethiwed, a Llef am Ymwared', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1844), 243.

<sup>135</sup> Disgrifiodd William Lloyd Garrison y caethfeistr fel 'MAN-STEALER'. Gweler, 'Declaration of the National Antislavery Convention (1833)', yn Lowance (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader*, 119. Am ragor o wybodaeth a thrafodaeth am hyn yn y cyd-destun Cymraeg Americanaidd, gweler, Hunter, *I Ddeffro*, 106-7.



ymadrodd hwnnw, sy'n deillio o un o lythyrau bugeiliol y corpws Paulaidd (1 Tim. 1:10), yn nodwedd o'r rethreg wrth-gaethiwol effeithiol yn y cyfnodolion.

Yr hyn a geir yn 1 Timotheus 1:9-10 yw'r awdur yn rhestru'r drwgweithredwyr mwyaf a'r camweddau gwaethaf mewn bod, ac yn datgan mai i'r anghyfiawn, y sawl sy'n euog o gyflawni'r pechodau a restrwyd, y rhoddwyd y gyfraith. Diben hyn oedd darlunio'n eglur yr elfennau anfoesol mewn cymdeithas, a'i gwneud yn hysbys pa fath o bobl a oedd yn euog o weithredu'n anghristnogol; fel y dywed Towner:

In this application, the list identifies not of vices (as in Rom 1:29-31) but rather the people known for them (cf. 1 Cor 6:9-10). This personalized slant emphasizes the moral character and creates a portrait of godless human activity that is precisely the opposite of the image of Christian activity characterized in 1:5 by love.<sup>136</sup>

Ymysg y sawl sy'n euog o gyflawni'r 'godless human activity' hyn, y mae llofruddwyr, puteiniaid, a 'lladron dynion' (ἀνδραποδιστής). Mae rhestr y 'pechaduriaid' yn adnodau 9 i 10 yr epistol yn adleisio cynnwys a threfn y Dengair (Ex. 20:2-7), ac felly, mae ἀνδραποδιστής yn dwyn i gof yr wythfed gorchymyn, 'Na ladrata'.<sup>137</sup> Er bod peth amheuaeth gan rai ynghylch union ystyr ἀνδραποδιστής, yn bennaf am mai unwaith yn unig yr ymddengys yn y Testament Newydd,<sup>138</sup> nid oedd gan Gymry'r bedwaredd ganrif ar bymtheg unrhyw amheuaeth nad cyfeirio at gipwyr a masnachwyr caethion a wneir yn 1 Timotheus 1:9-10. Er enghraifft, nododd Iago Trichrug (James Hughes):

---

<sup>136</sup> Phillip H. Towner, *The Letters to Timothy and Titus* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 2006), 124.

<sup>137</sup> Yn ôl George W. Knight III, *New International Greek Testament Commentary: The Pastoral Epistles* (Grand Rapids, MI: Eerdmans, 1992), ystyr ἀνδραποδιστής yw "'slave dealer" or "kidnapper" [...] With this term the eighth commandment is represented, again in accord with the expansion and application of the law elsewhere in the OT, i.e., Ex. 21:16 (cf. Dt. 24:7). Paul hereby forbids, as does the OT, this particular act in regard to slavery but, like the OT elsewhere, also regulates the existing state of slaves and masters (cf. Eph. 6:5-9; Col. 3:22-4:1; 1 Tim. 6:1, 2; Tit. 2: 9, 10). The apparent inconsistency may be explained by recognizing that in the latter case both the OT and Paul are only speaking of conduct appropriate within an existing social practice, without condoning that practice (cf. the analogy of divorce, Dt. 29:1ff.; Mt. 19:8).'

<sup>138</sup> Mae Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship*, 124-6 yn nodi bod nifer o gyfieithiadau amrywiol o'r gair ἀνδραποδιστής ac, o'r herwydd, bod amryw ddehongliadau gwahanol hefyd. Gan hynny, mae'n amheus ynghylch union ystyr y gair – ai 'lladron dynion', 'herwgipwyr', neu 'gipwyr' mewn ystyr arall a olygir? Cydnabyddia Towner, *The Letters to Timothy and Titus*, 125 y broblem ond ei gasgliad ef yw: "'Slave traders" (or "kidnappers"; only here denotes those engaged in the business of kidnapping or stealing people and selling them into slavery.' Gweler ymhellach J. Albert Harrill, *Slaves in the New Testament: Literary, Social, and Moral Dimensions* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006), 119-44.

Lladron dynion i'w defnyddio mewn Sodomiaeth, neu ynte i'w gwerthu yn gaethion, fel y [bu] *cristionogion* Brydain yn gwneyd yn hir â'r Affricaniaid truain: mae deddf Duw yn cyfeirio ei melltithion arswydus yn erbyn y pechod gorthrwm a rhyfygus hwn, ac yn erbyn pawb sydd yn ymarfer âg ef, y cristion yn gyntaf, a'r pagan hefyd: "Na ladrata" medd y ddeddf: a'r gwaethaf o bob lladrad yw lladrata dynion: cryned y dynion hyn, yn werthwyr ac yn brynwyr hefyd. Gwel Exod. 21.16.<sup>139</sup>

Ceid mewn amryw ysgrifau ddadlau bod y perchnogion caethion cyfoes eu hunain yn 'lladron dynion', am eu bod yn parhau i brynu a gwerthu'r sawl a ddygwyd draw o Affrica, a'u disgynyddion. Datgenir hyn yn groyw mewn araith hynod drawiadol o eiddo Edward Davies, llanc 17 oed, at 'y Cymry yn America':

Ond dywed rhyw un, "Nid oes neb yn dwyn caethion o Affrica yn ein dyddiau ni; gan hyny, nid yw eu gwerthu yn ddrwg yn y byd. Gan mai eu meistriaid a'u magasant a chan mai eu heiddo hwy ydynt, onis gallant eu gwerthu i'r neb y mynont?" Na allant; nid yw "dau can' mlynedd" (fel y dywedodd un g[ŵ]r enwog) wedi eu "sancteiddio" yn eiddo iddynt, ac nis gwna dau cant eto eu gwneud yn fwy cyfiawn eiddo iddynt nag oedd eu hynafiaid i'r rhai a'u lladratasant yn y dechreu o Affrica. Gosododd Paul "ladron dynion" yn y rhestr dduaf o ddynolryw ar y ddaear, 1 Tim. 1: 10, ac yr oedd y rhai a ladratasant y caethion sydd yn America yn gyntaf yn "lladron dynion;" felly y mae y rhai sydd yn eu dal eto yn "lladron dynion." [...] os yw y caethfeistri yn y De yn dal y caethion yn groes i'w hewylllys, fel y mae yn ddiameu eu bod – os ydynt yn eu gorfodi i'w gwasanaethu heb eu cydsyniad hwy i hyny, "lladron dynion" ydynt yn [ô] iaith y Bibl.<sup>140</sup>

Nid oedd gan Gymry America ychwaith amheuan ynghylch priodoli'r drwgweithredwyr a restrir yn 1 Timotheus 1:9-10, â'r sawl a fuasai'n ufuddhau i Gyfraith y Caeth Ffoëdig, yr 'annuwiol a'r pechadurus' (1 Tim. 1:9). Ym marn y Cymry gwrth-gaethiwol hyn, byddai'r sawl a ddychwelai gaethion ffoëdig yn gweithredu'n gyffelyb i fasnachwyr caethion drwy eu cipio o'u rhyddid a pheri iddynt gael eu hieuo wrth feistri'r De.

Mewn nifer o erthyglau a gyhoeddwyd yn dilyn Medi 1850, gelwid ar i Gymry America gofio'r caethion ffoëdig a'u cynorthwyo, ac mewn ambell ysgrif ceid hanes rhai yn gwneud yr union beth. Cyhoeddwyd llythyr gan un yn dwyn y ffugenw arwyddocaol 'Canlynwr Iesu' yn *Y Cenhadwr Americanaidd*: dywed iddo ddod ar draws caethwas ar ffo ac iddo'i gynorthwyo oherwydd, meddai, 'Credais mai fy nyledswydd oedd porthi y

<sup>139</sup> James Hughes, *Y Testament Newydd, Gyda noda eglurhaol ar bob adnod; wedi eu detholi, a'u cyfieithu i'r Gymraeg, Gan y Parch. James Hughes, Gweinidog yr Efengyl yn Llundain; allan o waith Poole, Scott, Guyse, a Doddridge; y'nglyd a holl Nodau Cyfeiriol y dywededig Barch. T. Scott. Cyfrol 1* (Wyddgrug: J. Lloyd, 1835), 1080.

<sup>140</sup> Edward Davies (Cyflwynedig gan H. P. Jones), 'At y Cymry yn America', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1845), 110.

newynog'.<sup>141</sup> Eir ymlaen i drafod trallod y caethion yn y taleithiau deheuol a'r modd y caent eu fflangellu a'u hamddifadu o grefydd; yr union amgylchiadau y byddai'n rhaid i'r caethion a ddychwelwyd i'r De eu dioddef. Gyda hynny, a chan gyfeirio at destunau Beiblaidd a bwysleisia ufudd-dod i gyfraith uwch, gofynna'r canlynwr:

Pa Gymro na theimlai pe gwelai ei rai bychain—anwyliaid ei fynwes—yn cael e[u] gwerthu fel anifeiliaid i borthmyn dynion, i gael eu dwyn ymaith i bellder byd nas gwyddai i ba le ac na byddai ganddo obaith o'u gweled mwy[?]<sup>142</sup>

Mae'r ymadrodd 'porthmyn dynion' uchod yn drawiadol gan iddo ddelweddu'n effeithiol y math o amodau anifeilaidd a ddioddefai'r caethion wrth iddynt gael eu prynu a'u gwerthu, a hefyd am ei fod yn dwyn i gof yr ymadrodd 'lladron dynion'.<sup>143</sup>

Yn dilyn hyn, datgan yr awdur y bydd ef yn cynorthwyo'r caethion ffoëdig ar bob cyfle oherwydd yr alwad ddwyfol i wneud hynny – 'Uchel lais sydd atom o'r nef ac o'r ddaear yn y mater gwir deilwng hwn.'<sup>144</sup> Difyr yw nodi i 'Canlynwr Iesu' gynnwys y darllenwyr yn y frawddeg hon, gan awgrymu'n gryf fod dyletswydd arnynt hwythau fel Cristnogion, canlynwyr Iesu, i gynnig cymorth 'tra byddo gwaed yn rhedeg drwy [eu g]wythiennau.'<sup>145</sup> Difyr hefyd yw sylwi i'r canlynwr gredu bod yr alwad arnynt i weithredu'n dyfod o'r nef, yn ogystal â'r ddaear, sy'n dwyn i gof eiriau Duw yn Genesis 4:10, "'Y mae llef gwaed dy frawd yn gweiddi arnaf o'r pridd[?]'".<sup>146</sup> Diau y buasai awgrymu bod y sawl a fyddai'n gweithredu i gynyddu dioddefaint y caethion drwy eu dychwelyd i'w caethiwed yn debyg i Cain yn llofruddio Abel, wedi taro tant dwfn yn y darllenwyr ac wedi procio'r gydwybod Gristnogol.<sup>147</sup>

Mewn gwirionedd, roedd hon yn ddyfais effeithiol i gyfeirio at berchnogion caethion hyd yn oed cyn pasio'r gyfraith dan sylw. Mewn erthygl sy'n gasgliad o ddyfyniadau o anerchiad a draddodwyd gan y Parch. E. Smith, Pittsburgh ar 19 Mawrth 1843 a ddatganai fod 'Caethiwed ddim yn cael ei gefnogi yn y Bibl', trafodir y sefyllfa yn yr Unol Daleithiau

---

<sup>141</sup> 'Canlynwr Iesu', 'Y Caethddyn ar Ffoedigaeth', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1851), 277.

<sup>142</sup> Ibid.

<sup>143</sup> Defnyddir yr ymadrodd 'porthmyn dynion', mewn ambell ysgrif arall yn y wasg gyfnodol. Gweler, e.e., lythyr pwerus John Rees, Frankfort, 'Y Gaethfasnach Americanaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mawrth 1850), 87.

<sup>144</sup> 'Canlynwr Iesu', 'Y Caethddyn ar Ffoedigaeth', 277.

<sup>145</sup> Ibid.

<sup>146</sup> Ibid.

<sup>147</sup> Roedd defnyddio'r ymadrodd hwn ac amrywiadau arno, sy'n atgoffaol o stori Cain ac Abel, yn nodweddiadol gyffredin o ysgrifau'r Cymry, e.e. "'A'u Gwaedd hwynt a ddaeth i fynu i glustiau Arglwydd y Lluoedd.'" , *Y Cenhadwr Americanaidd* (Awst 1843), 236.

yng nghyd-destun adrannau amrywiol o'r ysgrythurau. Ac wrth gyfeirio at sylwadau'r 'apostol' yn 1 Timotheus 1:10, datgan y gweinidog nad oes amheuaeth fod 'Paul yn condemnio caethiwed dan ei enw ysgrythyrol, gan [iddo] ei osod allan fel y ffeidd-dra mwyaf a enwir yn mhlith dynion.'<sup>148</sup> Diau y byddai hyn wedi effeithio ar y darllenwyr, gan fod yr apostol yn ddiddymwr, dylent hwythau fel Cristnogion da arddel safbwynt cyffelyb parthed y 'lladron dynion' cyfoes.

Flwyddyn yn ddiweddarach, cyhoeddwyd cyfieithiad o lythyr gan y Parch. Luther Lee, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn *The True Wesleyan* ac a ymatebai i sylwadau gweinidog a geisiodd ddadlau achos caethwasiaeth ar seiliau Beiblaidd.<sup>149</sup> Prif ddadl Lee yw mai hanfod caethwasiaeth o'i tharddiad yw 'lladrata dynion', a phwysleisia fod hynny'n sylfaenol groes i'r dwyfol. Cyfeirir at ddeddfau Exodus (20:15; 21:16) ac at 1 Timotheus 1:9-10 gan ddatgan, 'Yr ysgrythyrau hyn ydynt ddigonol i brofi fod dyn-ladrad yn bechod dirfawr [a ... b]od y Gaethwasanaeth yn cynwys ynddi y cyfryw ddyn-ladrad.'<sup>150</sup> Dywed Lee mai tarddiad y 'caethiwed Americanaidd' yw hanes lladrata pobl 'ar ororau Affrica', a bod cyfreithiau'r Unol Daleithiau'n anghymeradwyo '[m]orladrad', ond eto, dygid rhagor o gaethion i'r Amerig a pharhau'r gyfundrefn. Nodir nad oes 'hawl gyfiawn i gaethion' fod ar dir America, a phwysleisir bod unrhyw un a aned i rieni caethion hefyd yn gaeth oherwydd yr hyn a wnaeth y cipwyr i'r rhieni.<sup>151</sup> Yn hyn o beth, cred fod y caethfeistri yn gyfystyr â lladron dynion – yn yr un modd ag y mae'r cipwyr a'r masnachwyr – gan iddynt gynnal y lladrad drwy gadw caethion. Dichon fod hyn yn safbwynt a goleddid gan nifer o Gymry America'r cyfnod.

---

<sup>148</sup> 'Caethiwed ddim yn cael ei gefnogi yn y Bibl', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1843), 334. Yn wir, aethai rhai gwrth-gaethiwyd di-Gymraeg America cyn belled â honni bod yr apostol yn coleddu daliadau diddymol gan fod 'lladron dynion' (caeth-bleidwyr) yn cael eu cynnwys yn 1 Tim. 1:10. Er enghraifft, nodwyd yn J. Blanchard a N. L. Rice, *A Debate on Slavery: Held in the city of Cincinnati, on the first, second, third, and sixth days of October, 1845, upon the question: Is slaveholding in itself sinful, and the relation between master and slave, a sinful relation?* (Cincinnati, OH: W. H. Morris & Co. Publishers, 1846), 426, 'I refer to 1 Tim. i, 10. "The law was made for man-stealers" &c. In abolishing slavery, you abolish that calling of the men-stealer, and in abolishing that calling you abolish slavery.'

<sup>149</sup> Luther Lee, 'Y Gaethwasanaeth yn Lladrad Dynion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Chwefror 1844), 48-50. Cyhoeddwyd y llythyr gwreiddiol, 'The Rev. Alexander McCaine', yn *The True Wesleyan* (25 November 1843), 85.

<sup>150</sup> Lee, 'Y Gaethwasanaeth yn Lladrad Dynion', 48. Ceir datganiad cyffelyb ymhlith penderfyniadau cymdeithasau gwrth-gaethiwol. Er enghraifft, nododd 'Cymdeithas Wrthgaethiwol yn Tennessee', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1842), 187: 'Ein bod yn ei hystyried yn ddyledswydd ar bob cristen i ddefnyddio pob moddion priodol i symud ymaith y pechod o gaethiwed o ein hanwyl wlad, a bod rhoddi *llaw cymdeithas* i'r caethfeistr yn cyfiawnhau *dyn-ladrad*, a phechodau G<sup>W</sup>ARTHUS ereill.'

<sup>151</sup> Lee, 'Y Gaethwasanaeth yn Lladrad Dynion', 48.

Yn dilyn hyn, try Lee ei sylw at amryw agweddau eraill er mwyn tystio i anghyfiawnder caethwasiaeth. Cyfeirir at yr ‘Argrafflen Fawr (*Magna Charta*)’ a’r egwyddor fawr ‘fod pawb dynion wedi eu creu yn gydradd’.<sup>152</sup> Nodir bod yr ‘hawl i ryddid’ yn un cyffredinol ac ategir at hyn drwy grybwyll agwedd ar athroniaeth y ddeddf naturiol a geiriau enwog John Wesley:

A oes gan un dyn byw hawl i ddefnyddio arall fel ei gaethwas? Nis gall hyny fod, hyd yn nod, a rhoi heibio y Datguddiad dwyfol. [...] Rhyddid sydd iawnder pob creadur dynol gan gynted ag yr anadlo y fywiol awyr; ac nis gall un ddeddf ddynol ei ddifeddiadu o’r hawl hono sydd ddeilliedig o ddeddf natur.<sup>153</sup>

Y darn olaf o dystiolaeth a gyflwyna Lee yw’r Datganiad Annibyniaeth a ddywed ‘Pawb dynion a enir yn gydradd’.<sup>154</sup> Buasai dyfynnu geiriau llawn ysbryd diddymol Wesley, a chyfeirio at y Datganiad Annibyniaeth wedi cael cryn effaith ar y darllenwyr.

Daw’r llythyr i ben drwy bwysleisio drachefn fod yr hawl i ryddid yn un gyffredinol ac felly y dylid ymwrthod ag awdurdod y ‘ffug-berchenog’.<sup>155</sup> Y ‘ffug-berchnogion’ hyn a enwir gan Lee yw ‘Y Parchedig, yr Yswain, neu yr Anrhydeddus’ – y sawl a oedd yn unigolion o fri a chryn barch ganddynt mewn cymdeithas; y sawl a oedd naill ai’n berchen ar gaethion eu hunain neu’n fodlon dadlau o blaid hawl y caethfeistri.<sup>156</sup>

Wedi hyn, cloir gan gyfeirio at effaith y ‘drefniant gaethiwol’ ar ‘blant bychain diniwed’, a phwysleisir anghysondeb y sefyllfa lle cosbid y sawl a aethai i ‘Affrica a lladrata plentyn a’i ddwyn yn gaeth’ i America, pan ganiateid lladrata ‘plant wrth y canoedd a’r miloedd yn y wlad hon’.<sup>157</sup>

Defnyddid yr ymadrodd ‘lladron dynion’ hefyd yng nghyd-destun patrymau pleidleisio Cymry America ac, yn arbennig, wrth feirniadu’r sawl a dystient eu bod yn Gristnogion, ond eto, a fuasai’n bwrw eu pleidlais dros ymgeiswyr arlywyddol caeth-bleidiol. Enghraifft effeithiol o hyn yw eiddo Richard T. Jones yn ei anerchiad at y Cymry yn rhifyn Medi 1844 *Y Cenhadwr Americanaidd*, dri mis cyn yr etholiad a fuasai’n gweld y Democrat o Tennessee, James K. Polk, yn esgyn i’r Tŷ Gwyn:

---

<sup>152</sup> Ibid.

<sup>153</sup> Ibid., 49.

<sup>154</sup> Ibid.

<sup>155</sup> Ibid., 50.

<sup>156</sup> Ibid.

<sup>157</sup> Ibid.

Pe bai bosibl uno goleuni a thywyllwch, Crist a Belial, yn hyn y mae ei wneud, sef i un sydd yn proffesu ei fod yn caru Crist ac ar yr un pryd yn dewis lladron dynion i lywodraethu y bobl!<sup>158</sup>

Yng ngolwg Jones, roedd caethwasiaeth megis ‘Belial’, yn llwyr gyferbyniol i Gristnogaeth ac roedd y llywodraethwyr hynny a oedd yn bleidiol i gaethwasiaeth yn gydradd â ‘lladron dynion’, hyd yn oed os nad oeddent yn berchen ar gaethion; roedd y ffaith bod y llywodraethwyr hyn naill ai’n cefnogi neu’n fodlon goddef y system yn gytras â rhoi sêl eu bendith ar ladrata dynion o’u mamwlad er mwyn eu gwerthu’n gaethion. Byddai’r rhethreg Feiblaidd hon wedi ysgogi rhai Cymry America i feddwl ddwywaith cyn bwrw eu pleidlais.

Ceir Robert Everett hefyd mor ddiweddar â 1862 yn beirniadu’r modd y sicrhaodd y llywodraeth barhad caethwasiaeth yn America drwy gynnal ei seiliau gyda gorseddfainc ‘anwiredd “*yn lle cyfraith*”’, hynny yw, drwy ddatgan y ddeddf ym Medi 1850 yn lle’r gyfraith Gristnogol i garu cymydog. Datgan Everett yn ogystal mai dwyn dynion i’w caethiwo yw’r ffurf waethaf o ladrata, ac nad oes ganddo amheuaeth nad cyfeirio at yr arfer o gipio a darostwng unigolion i gaethiwed yw’r hyn sydd gan Paul mewn golwg yn 1 Timotheus 1:10, meddai:

“Lladron dynion” y mae yr Arglwydd yn ei air yn galw caeth-ddalwyr a chaethfeistri, a cheir eu henwau yn y rhestr dduaf o ddrwg-weithredwyr o fewn Llyfr Duw.<sup>159</sup>

Roedd y math hwn o ddisgwrs hefyd yn gyffredin ym Mhrydain. Yn ystod yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth o’r tiriogaethau Prydeinig, er enghraifft, cyhoeddwyd ysgrif yn rhifyn Ionawr 1833 *Y Dysgedydd*, ‘Hysbysiad, a llef at yr ystyriol’ gan y Parch. Arthur Jones, Bangor yn trafod cyfarfod a gynhaliwyd gan Gynulleidfawyr Llundain ynglŷn â’r ymdrech i ddiddymu caethwasiaeth. Dywed Jones fod yr ymdrech honno’n nodweddu cyfarfodydd ‘y Wesleyaid, y Presbyteriaid, a’r Bedyddwyr’, a’u bod oll yn gresynu’n arw at

<sup>158</sup> Richard T. Jones, ‘Gair at y Cymry’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1844), 270.

<sup>159</sup> Robert Everett, ‘Gorseddfainc Anwiredd’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Medi 1862), 329. Mewn modd nid annhebyg i’r uchod, nodir mewn nifer o ysgrifau eraill mai ‘ladrata dynion’ yw’r math gwaethaf o ladrata. Er enghraifft, yn ‘Caethfasnach: Ei Hanes a’i Diddymiant’, *Y Traethodydd yn America* (1858), 85, cyfeirir at y modd y defnyddiodd yr Esgob Samuel Horsley destun 1 Tim. 1:9-10 yn Nhŷ’r Arglwyddi i drafod pwnc caethwasiaeth yn y Senedd Prydeinig: ‘Y gair gwreiddiol am ladron dynion yw *‘ανδροπο δισταις* a’i ystyr ydyw *rhai yn masnachu mewn dynion*. Cynnwys hyn, gan hynny, ladroniaeth o’r fath waethaf, a mwyaf ysgeler. Y mae y neb sydd â llaw yn y fasnach yn cael eu condemnio gan y gair arlywyddol hwn. Rhestrir hwy gyda’r “tadleiddiaid a mamleiddiaid,” a chyda’r “lleiddiaid dynion” yn gyffredin. Cryned holl gaethfasnachwyr dan daranfollt gair Duw.’ Pwylsais yn y gwreiddiol. Gweler sylwadau gwreiddiol Esgob Horsley yn *The Speeches in Parliament of Samuel Horsley, LL. D. F. R. S. F. A. S. Late Bishop of St. Asaph* (Dundee: Robert Stephen Rintoul, 1813), 253-8. Enghraifft debyg o ddefnyddio ‘lladron dynion’ yw eiddo ‘Iorwerth’, ‘Rhesymau Dros Fod yn Wrth-gaethiwr’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Hydref 1844), 302.

yr arfer o fasnachu caethion. Er mwyn mynegi hyn, cyfeiria at adnodau Exodus 21:16, Deuteronomium 24:7 ac 1 Timotheus 1:9-10, ac mewn perthynas â'r olaf, dywed:

*Lladron dynion, medd gair yr Arglwydd, ond perchenogion y caethion (fel y galwant eu hunain) a ddywedant fod ganddynt hawl ynddynt, eu bod wedi eu prynu! Nid oedd hawl i'w gwerthu gan y lladron cyntaf! Ac felly, er iddynt eu prynu, lladrad ydyw! Prynu lladrad yw eu prynu hwy!*<sup>160</sup>

Datganwyd neges debyg mewn llythyr gan y Parch. E. Jones, Caerdydd (Ieuan Gwynedd) a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Gorffennaf 1851. Cyfeirir at y caethion yn ffoi yn yr Unol Daleithiau a'r modd y bu i nifer o 'weinidogion ac Eglwysi' benderfynu peidio â 'dal cymdeithas â phleidwyr caethiwed', y sawl a fuasai'n ufuddhau i Gyfraith 1850. Yn dilyn hyn, ceir ergyd o frawddeg gan y gweinidog yn datgan na ellid cael cyfaddawd rhwng Cristnogion yng ngwir ystyr y gair â'r bobl a fyddai'n dychwelyd caethion ffoedig: 'Mae yn ofidus y rhaid cymeryd mesurau fel hyn, ond y mae yn anhawdd cyfeillachu fel brodyr crefyddol â lladron dynion.'<sup>161</sup>

### **'Gomer' a 'Dyledswydd Dyn'**

Cyhoeddwyd llythyr yn trafod 'Dyledswydd Dyn' yng nghyd-destun ffurfiad y gyfraith newydd i erlid caethion ffoedig yn *Y Drych* ar 22 Mawrth 1851, gan un yn dwyn y ffugenw llwythog 'Gomer'. O'r dechrau'n deg, dywed 'Gomer' fod trigolion yr Unol Daleithiau wedi methu yn eu dyletswyddau drwy roddi heibio unrhyw ddaliadau diddymol a phlygu i'r 'gyfraith annghyfiawn' a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Deil fod y gweinidogion wedi methu yn eu gwaith oherwydd eu 'dull cyffredin yn awr yw dysgu dynion i ymorphwys yn hollol ar gyfiawnder un arall, ar ffydd yn unigol ac nid yw gweithredoedd da ddim o un lles, nad ydynt ond bratiau budron'.<sup>162</sup> Cred 'Pe buasai dynion yn gwneuthur eu dyledswyddau, ac yn caru cyfiawnder, buasai y gyfraith hon wedi ei dileu.'<sup>163</sup> Beirniedir 'pregethwyr yr efengyl' am beidio â gweithredu yn erbyn y gyfraith hon ac am blygu'n ufudd i ddeddfwriaeth y wlad, a chan ddyfynnu Deuteronomium 23:15, casgla 'Gomer' fod y gweinidogion hyn wedi pechu:

<sup>160</sup> Arthur Jones, 'Hysbysiad, a llef at yr ystyriol', *Y Dysgedydd* (Ionawr 1833), 19.

<sup>161</sup> 'Llythyr oddiwrth y Parch. E. Jones, Caerdydd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Gorffennaf 1851), 220. Dyna'n wir yw byrdwn nifer o ysgrifau a gyhoeddwyd yn y wasg ddi-Gymraeg yn y cyfnod, megis 'The Manstealing law', *The North Star* (24 October 1850); 'Look out for Slave-hunters and the U. S. Marshal!', *The Liberator* (7 March 1851); 'A Dialogue Between a Slaveholder and the Bible', *Frederick Douglass Paper* (9 July 1852).

<sup>162</sup> 'Gomer', 'Dyledswydd Dyn', *Y Drych* (22 Mawrth 1851), 90.

<sup>163</sup> *Ibid.*

‘Pa faint mwy pechadurus yw peidio â ufuddhau i’r gyfraith nefol, yr hon sydd yn dywedyd, “Na ddyro at ei feistr was a ddiangodd oddiwrth ei feistr.”’<sup>164</sup> Dull uniongyrchol yn unig a fuasai wedi sicrhau llwyddiant, awgryma ‘Gomer’.

O fod wedi trafod eu methiant ar y llwyfan cyfreithiol, cyfeiria ‘Gomer’ at ymgyrch creiddiol yr eglwys, sef cenhadu. Deil nad yw’r ‘rhai sydd [â’r] enw crefyddol’ yn cyflawni eu dyletswyddau oherwydd eu bod, gyda’r ‘Bibl Gymdeithas’ yn ymlafnio at gyflwyno’r efengyl i bobl mewn gwledydd eraill, ond eto yn esgeuluso’r caethion anwybodus yn eu gwlad eu hunain. Mae’r sefyllfa mor annealladwy, ac wrth gloi ei lythyr, dyfynna Diarhebion 8:1 er mwyn cyfleu ffolineb eu harfer: “Onid yw doethineb yn gwaeddi, a deall yn llefain” yn erbyn anghysondeb y blaenoriaid hyn?”<sup>165</sup>

Esgrodd sylwadau cignoeth ‘Gomer’ ar ymateb gan un a lofnododd ei lythyr â’r llythrennau ‘R.I.J.’ Beirnedir ‘Gomer’ gan ‘R.I.J.’ am ei farn ynglŷn â gwaith gweinidogion a ‘dysgawdwyr ein hoes’ a ganolbwyntiai ar ledaenu’r efengyl. Yn ôl ‘R.I.J.’, nid oes disgwyl i’r gwŷr eglwysig hyn ymyrryd mewn modd mor uniongyrchol ag y disgwyliai ‘Gomer’, ac er mwyn cefnogi ei safbwynt, cyfeiria at esiampl yr apostolion. Deil mai diddymwyr oedd yr apostolion, yn ddiau, ond nad oeddent wedi mynd ati i ddadlau achos diddymiaeth yn gyhoeddus oherwydd nad dyna’r ffordd effeithiolaf o gael y maen i’r wal. Meddai:

Yr ydoedd yn yr oes honno [oes yr apostolion], ac yn y gwledydd lle y teithient hwy, y fath beth a chaethwasanaeth; ac y mae yn anhawdd i ni ddychmygu fod yno gaethwasanaeth heb ryw beth tebyg i Ddeddf y Caethion Ffoedig. Yr wyf yn barnu mai *abolitionists* oedd yr apostolion o ran eu barnau mor wirioneddol [â] Gomer; ond eto nid ydynt wedi ysgrifenu dim ar y pwnc, ac nid oes crybwylliad am dano yn yr un o’r pregethau a gofrestrir gan yr ysgrifwyr ysbrydoledig. Paham? Meddyliwyf mai yr achos oedd, eu bod yn gwybod mai y ffordd effeithiolaf i newid arferion dynion oedd trwy newid eu calonau. Ac felly yn lle myned i ddadleu â hwynt am dda neu ddrwg arferion penodol o’r eiddynt, ymdrechent gael eu meddyliau at ffeithiau pwysig yr efengyl, ac felly y gwnelid iddynt ymadael o’u gwirfodd â’u ffyrdd pechadurus, pan y buasai yn llafur ofer ymgecru â hwynt yn eu cylch.<sup>166</sup>

Ar sail y sylwadau hyn, teg fyddai awgrymu fod ‘R.I.J.’ yn wrth-gaethiwr cymedrol a oedd yn anghydweld ag amcanion ‘radicalaidd’ y diddymwyr. Aiff yn ei flaen i feirniadu’r modd y gwrthwynebodd ‘Gomer’ Gyfraith y Caeth Ffoedig, sef drwy ddyfynnu testun o’r ‘hen oruchwyliaeth’.<sup>167</sup> Barn ‘R.I.J.’ yw mai cyfraith ar gyfer cenedl benodol oedd cynnwys

---

<sup>164</sup> Ibid.

<sup>165</sup> Ibid.

<sup>166</sup> ‘R.I.J.’, ‘Sylwadau ar Lythyr Gomer’, *Y Drych* (12 Ebrill 1851), 113.

<sup>167</sup> Ibid.



Deuteronomium, ac os yw ‘Gomer’ yn dymuno beirniadu caethwasiaeth, dylai ddelio â’r ‘gyfndraeth yn wyneb egwyddorion y Testament Newydd. Cristionogaeth yw y ffaith fwyaf a ymddangosodd erioed yn ein byd ni i ddangos Iaw[n]derau a Chyfartaledd y ddynoliaeth.’<sup>168</sup>

Ar yr un gwynt, dywed fod beirniadaeth ‘Gomer’ ar y ‘Bibl Gymdeithas yn hynod anhapus’. Cydnebydd ei fod yn deall safbwynt ‘Gomer’, bod y gymdeithas yn ymdrechu mwy er mwyn cyflwyno’r efengyl i eraill yn hytrach nag ymlafnio er y caethion adref, ond try tu fin y gyllell a gofyn paham nad yw ‘Gomer’ mor frwd dros hyrwyddo’r efengyl ag ydyw er rhyddhau’r caethion. Eir ymlaen i gasglu bod perygl y gallai ‘symudiadau penboethiaid rhai dynion’, sef gweithredu’n uniongyrchol fel y mae ‘Gomer’ yn awgrymu, weithio’n groes i’r caethion; ‘yn lle tueddu i gael y caethion yn rhydd, yn tueddu yn hytrach i dynhau eu cadwynau.’<sup>169</sup>

### ‘Rhwymau Cymdeithas’

Pwysleisio na ddylid ufuddhau i’r gyfraith oherwydd ei bod yn ‘*stripio* [y caeth ffoëdig] o’r hyn a gysylltodd Duw â’i natur, drwy ei ymddifadu o fwynhad breintiau cymdeithas a’i ystyried yn gydwastad â chreaduriaid afresymol’, yw byrdwn araith O. Baxter, Whitesboro, a gyhoeddwyd yn *Y Cenhadwr Americanaidd* fis Ebrill 1851.<sup>170</sup>

Cymer Baxter fel sail i’w araith, ‘Rhwymau Cymdeithas’, syniadaeth sy’n atgoffaol o athroniaeth Aristoteles: ‘Mae dyn yn greadur cymdeithasol, wedi ei gynysgaeddu â galluoedd ac â thueddiadau priodol i hyny.’<sup>171</sup> Gan fod y caethion yn fodau dynol a bod ‘cymdeithas ddynol’ o ddwyfol roddiad, deil Baxter y dylid ymlafnio at gynorthwyo cyd-ddyn mewn cymdeithas. Disgrifir truenusrwydd sefyllfa’r caethion yn cael eu cadw ‘mewn tywyllwch ac anwybodaeth[, eu h]ymddifadu o *ddyogeliad personol*’, a bod ‘c[ŵ]n pwrpasol yn cael eu gollwng i erlid ar [eu hôl] a dynion creulon yn barod i ergydio eu drylliau’ atynt.<sup>172</sup>

---

<sup>168</sup> Ibid.

<sup>169</sup> Ibid., 114.

<sup>170</sup> O. Baxter, ‘Rhwymau Cymdeithas’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1851), 108.

<sup>171</sup> Ibid. Gweler cyfieithiad T. A. Sinclair, *Aristotle[:] The Politics* (London: Penguin Books, 1992; adargraffiad), 59-61. Hon yw’r unig elfen gyffelyb i Aristoteles y mae Baxter yn ei thrafod – nid yw’n crybwyll yr agweddau mwy dyrys yn ysgrifau’r athronydd, megis y syniad a fu’n ddylanwadol ar nifer o Awstin Sant hyd at y trefedigaethwyr yn eu triniaeth o’r Brodorion yn America, sef ‘caethwasiaeth naturiol’. Gweler ymhellach Lewis Hanke, *Aristotle and the American Indians: A Study in Race Prejudice in the Modern World* (Chicago: Henry Regnery Company, 1959).

<sup>172</sup> Baxter, ‘Rhwymau Cymdeithas’, 108. Pwyslais yn y gwreiddiol.

Rhestrir nodweddion cymdeithas, ac ar y brig, y mae rhyddid yn ei amrywiol ffurfiau ynghyd â chyfiawnder i bawb o bob oed, cefndir, a lliw – ‘y du yn gystal [â]’r gwyn, y melyn yn gystal [â]’r coch.’<sup>173</sup> Eir ymlaen i ddatgan bod hyn yn ‘ddylesdwydd nid yn unig oherwydd rhwymau dyn i ddyn ond hefyd o herwydd ei rwymau i Dduw.’<sup>174</sup> Yn y cyd-destun hwn, ac wedi dyfynnu’r Rheol Aur, trafodir y gyfraith newydd mewn manylder a chasglu ei bod yn ‘niweidiol i gymdeithas’. Mewn modd nid annhebyg i Ioan Caerloyw uchod, delwedd y gyfraith ‘fel rhyw anghenfil rheibus yn barod i ysglyfaetha ar deuluoedd diniwaid’, ond nodir i nifer o ffoedigion lwyddo i ‘ochelyd ei *balfau haiarnaid*’, a ‘dianc fel am eu bywyd i’r Canadas, lle nas gall y bwystfil fyned.’<sup>175</sup>

Drachefn, pwysleisir bod cymdeithas yn ddwyfol roddiad a bod pobun dan rwymau cymdeithas a rhwymau dwyfol i wrthwynebu’r gyfraith. Dyfynnir Deuteronomium 23:15-16 i gadarnhau hyn a daw Baxter â’i araith i ben drwy herio’i gynulleidfa i benderfynu ai ochri â Duw ynteu’r gyfraith wladol a wnaent: “‘Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei [ô]l ef; ond os Baal, (*cyfraith y caeth ffoedig*), ewch ar ei [ô]l yntau.” Mae cyfnod wedi gwawrio arnom i ddangos ein hochr.’<sup>176</sup>

### ‘Gwroldeb Moesol’

Cyfunir yr ymadrodd ‘lladron dynion’ â’r ddyletswydd i anufuddhau i Gyfraith 1850 mewn traethawd a ddaeth i’r brig yn Eisteddfod Wisconsin, Rhagfyr yr un flwyddyn, sef ‘Gwroldeb Moesol’. Yn y traethawd hwnnw, mae’r Parch. G. Griffiths, Delafield yn pwysleisio’r rheidrwydd i blygu i ‘*Dduw yn hytrach nag i ddynion*’, ac yn nodi bod angen i bob un feddu ar gryn wroldeb ‘i ddilyn yn ddiysgog argyhoeddion ei gydwybod’.<sup>177</sup> Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu’n unol ag ewyllys Duw, cyfeirir at eiriau’r enwog John Wesley, a gasglodd fod caethwasiaeth ‘yn “*grynsyth pob ysgelerder*”’,<sup>178</sup> ac olrheinir yn fras hanes caethwasiaeth ar dir America. Yn hyn o beth, cyfeirir at enghraifft gynnar o gymundeb

---

<sup>173</sup> Ibid.

<sup>174</sup> Ibid.

<sup>175</sup> Ibid., 109.

<sup>176</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>177</sup> G. Griffiths, ‘Gwroldeb Moesol’, *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1860), 164. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>178</sup> Ibid., 167. Pwyslais yn y gwreiddiol. Difyr yw nodi y cyfeirwyd at sylwadau John Wesley parthed ‘lladron dynion’ yn *Y Dyngarwr* (Ionawr 1843), 8: ‘Wrth anog ei frodyr i ochelyd bod yn gyfranog o’r pechod o gaethiwed, John Wesley a ddefnyddiai y iaith gyffrous ag awchlym ganlynol: “Lladron dynion” y gwaethaf o bob lladron, mewn cydmariaeth iddynt y mae lladron pen y ffordd fawr a thorwyr tai yn ddiniwed; a *phrynwyr* dynion ydynt yn hollawl gyd euog â *lladron* dynion.”

eglwysig a ddangosodd ‘wroldeb moesol’, pan fu i ‘eglwys Henaduriaethol America’ farnu yn eu cyffes ffydd ‘[o]ddeutu can mlynedd yn [ô]l’, mai pechod ydoedd caethwasiaeth:

1 Tim. 1:10, *I ladron dynion y rhoddwyd y gyfraith*. Yr ydoedd y pechod hwn, yn mysg yr Iuddewon, yn gwneyd y troseddwyd yn agored i farwolaeth, Ex.21:16: ‘Yr hwn a ladratao ddyn, ac a’i gwertho, neu os ceir ef yn ei law ef, rhodder ef i farwolaeth.’ Ac y mae yr Apostol yma yn eu doddi yn mysg y pechaduriaid mwyaf. Mae y gair a ddefnyddia, yn wreiddiol, yn cynwys pawb fydd ganddynt ran yn nygiad neb o’r teulu dynol i gaethiwed, *neu yn eu cadwraeth mewn caethiwed*.<sup>179</sup>

Fodd bynnag, beirnedir yr Eglwys Bresbyteraidd am iddi, bellach, fod ‘yn rhy lwfr i ddweyd dim yn ei erbyn [caethwasiaeth], a than ddylanwad ofn gwasaidd *wedi dileu y dyfyniad blaenorol o’u llyfr dysgyblaeth*. Y fath yw y dirywiad sydd wedi cymeryd lle yn y corff hwnw’, ac â’r awdur rhagddo i nodi’n feiddgar fod hwn yn ddirywiad cyffredinol yn America.<sup>180</sup> Mae’r adran hon o’r traethawd, mewn gwirionedd, yn gyfieithiad o drafodaeth a gyhoeddwyd yn y pamffled *Report on the Discussion on American Slavery*, ym 1836. Nid yw Griffiths yn cydnabod y ffynhonnell wreiddiol ond mae’n ddadlennol gweld iddo deimlo fod y sylwadau a wnaed gan George Thompson ym 1836 yr un mor berthnasol i gyd-destun Unol Daleithiau America 1859 – wedi pasio Cyfraith 1850 ac wrth i’r Rhyfel Cartref ddynesu.<sup>181</sup>

Er mwyn darlunio’r ‘dirywiad’ sydd wedi digwydd, cyfeirir at yr hyn ddigwyddodd mewn eglwys Bresbyteraidd yn Brooklyn naw mlynedd yn flaenorol pan bregethodd y Parch. Dr. Spencer, ar sail testunau Rhufeiniaid 13:1-7 a Titus 3:1, bwysigrwydd ufuddhau i gyfraith America ‘a doddi mewn ymarferiad *gyfraith y caeth ffoedig*’.<sup>182</sup> Casgla Griffiths mai ‘Athrawiaeth cythreuliaid bob iod o honi’ yw hyn, a myn na ellid cytuno mewn unrhyw ffordd â sylwadau’r Dr. Spencer. Yn dilyn hynny a thrafodaeth bellach am gymeriad unigolyn moesol mewn byd pechadurus, datgenir yn groyw genhadaeth Griffiths, a fuasai wedi taro tant gyda’r diddymwyr ond hefyd, oherwydd yr hinsawdd gymdeithasol ddyrys yr oeddent yn byw ynddi, gyda chyfran o’r darllenwyr mwy cymedrol:

Gwregyswch lwynau eich meddwl, a chymerwch atoch holl arfogaeth Duw i’w gwrthsefyll. Byddwch ffyddlon hyd anghydwylled i’r hyn sydd dda. Ymdrechwch hyd at waed, os rhaid, drosto – yna fe goronir eich ymegniadau [â] llwyddiant sicr – ni bydd

<sup>179</sup> Griffiths, ‘Gwroldeb Moesol’, 167. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>180</sup> Ibid. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>181</sup> *Report of the Discussion on American Slavery, in Dr. Wardlaw’s Chapel, Between Mr. George Thompson, and the Rev. R. J. Breckinridge, of Baltimore, United States, on the Evenings of the 13th, 14th, 15th, and 17th June, 1836* (Glasgow: David Prentice and Co., 1836), yn arbennig, 83.

<sup>182</sup> Griffiths, ‘Gwroldeb Moesol’, 170.

eich llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Gwobrwyir chwi [â] thystiolaeth cydwybod dda yn awr, a chysur cryf wrth farw, a chymeradwyaeth Iesu yn y farn ddiweddaf[.]<sup>183</sup>

Nid oedd amheuaeth gan Griffiths, felly, fod anufuddhau i'r gyfraith wladol yn weithred foesegol gywir, yn fodd o sicrhau cydwybod lân a gwobr gan yr Arglwydd yn y byd a oedd i ddod. Yn wir, mae'r geiriau hyn sy'n cloi'r ysgrif fel petaent yn darogan y brwydro a oedd ar droed, pan fyddai'n rhaid i nifer ymdrechu 'hyd at waed'.

Roedd yr ymadrodd Beiblaidd 'lladron dynion', felly, yn ddyfais rethregol effeithiol ac yn un a chanddi ystyr a esblygwyd gyda digwyddiadau gwladol. Ar y naill law, yr oedd yn gyfeiriad at y modd y dygwyd yr Affricaniaid o'u mamwlad a'u gwerthu i gaethiwed yn America, ond yn dilyn pasio cyfraith 1850, fe'i priodoliod i unrhyw un a blygai i'r gyfraith honno: roedd cynorthwyo mewn unrhyw ffordd i ddychwelyd y caethion at eu meistri yn weithred a deilynga i'r 'euog' gael eu galw'n 'lladron dynion'.<sup>184</sup>

Roedd y cysyniad hwn yn amlwg ym meddwl a dychymyg y Cymry Americanaidd o bob math. Fe'i defnyddid yn ofalus mewn cyfraniadau i'r cyfnodolion, ond fe'i defnyddid yn ogystal mewn testunau preifat, anghyhoeddedig, megis mewn dyddiaduron milwyr. Mewn cofnod gan Evan Davis, milwr gyda byddin y Gogledd, disgrifir ei frwydr gyntaf, sef yr un yn Perryville, Kentucky (8 Hydref 1862) mewn ffordd ddramatig a gonest iawn.

---

<sup>183</sup> Ibid.

<sup>184</sup> Noder bod trafodaeth o fath gwahanol yn y taleithiau caethion eu hunain ynglŷn â 'lladrata dynion'. Dadleuai rhai fod yr ymadrodd yn cyfeirio at *fasnachwyr* caethion ac nid y *perchnogion*. Er mwyn herio dadl y diddymwyr, dywedent os mai 'lladron dynion' yw'r sawl sy'n berchen ar gaethion, yna, roedd Abraham a'r holl batriarchiaid eraill yn yr HD yn 'lladron dynion', ac felly'n bechaduriaid; roedd hyn yn amlwg yn anghywir, meddent. Roedd rhai o'r Deheuwyd eu hunain yn cydnabod bod masnachwyr caethion yn bobl anfoesol a chelwyddog; er enghraifft, Frederic Bancroft, *Slave Trading in the Old South* (New York: Frederik Ungar, 1931; adargraffiad), 265-81 a Michael Tadman, *Speculators and Slaves: Masters, Traders, and Slaves in the Old South* (Madison, WI: University of Wisconsin Press, 1989), 179-201. Mater o 'berchnogi dynion' oedd caethwasiaeth, gweithred Gristnogol dderbyniol, ond yr oedd masnachu anghyfreithlon mewn caethion yn fater o 'ladrata dynion', meddai Harrill, J. Albert, 'The Use of the New Testament in the American Slave Controversy: A Case History in the Hermeneutical tension Between Biblical Criticism and Moral Debate', *Religion and American Culture: A Journal of Interpretation*, 10, rhif 2 (Summer 2000), 171. Yn wir, gallai'r caeth-bleidwyr droi tu fin y gyllell ar y gwrth-gaethiwyr a dweud fod 1 Tim. 1:10 yn beirniadu 'lladron dynion', sef y diddymwyr a fuasai'n cipio neu'n cynorthwyo caethion i ffoi oddi wrth eu gwir berchnogion yn y De. Gweler Albert Taylor Bledsoe, *An Essay on Liberty and Slavery* (Philadelphia, PA: J. B. Lippincott & Co., 1856), 358; James A. Sloan, *The Great Question Answered; or, Is Slavery a Sin in Itself?* (Memphis, TN.: Hutin, Gallway, 1857), 211-4; Fred A. Ross, *Slavery Ordained of God* (Philadelphia, PA: J. B. Lippincott, 1857), 140-9; John Fletcher, *Studies on Slavery, in Easy Lessons* (Natchez, MI: Jackson Warner, 1852), 570-2. Fodd bynnag, ni welir olion o'r drafodaeth hon yn llenyddiaeth Gymraeg Americanaidd y cyfnod, ac eithrio, efallai, sylw John Morgan Jones, yn 'Deddf Crwydriad Caethwasawl', 5, a ddywed mai'r hyn a wnâi 'Gwrthgaethyddion penboethlyd y Gogledd' fyddai '[ll]adrata y caethion oddiar eu meistri', wrth eu cynorthwyo i ffoi.

Ysgrifennodd Davis y geiriau hyn union flwyddyn yn ddiweddarach pan oedd yn glaf mewn ysbyty. Mewn iaith fywiog, disgrifir y brwydro gwaedlyd a'r 'cŵn angau yn cyfarth' o'i gwmpas, a'r weithred o ladd gelyn, '[c]odi a thanio cynhwysiad ein gynau i wynebau y gelyn [...] yr hyn a wnaethom gyda chalon.' Wedyn, cyfeirir yn uniongyrchol at filwyr y De, ac mae'r enw a rydd arnynt yn dwyn i gof 1 Timotheus 1:10: 'anelai ein llygaid heb wyro at fyddin *lladron rhyddid*'.<sup>185</sup>

Dengys hyn y fath raddau yr oedd y Cymry Americanaidd wedi eu trwytho yn y syniadaeth a ystyriai'r caeth-feistri'n 'lladron dynion', a bod 'rhethreg wrthgaethiwol Cymry America wedi dilyn milwyr fel Evan Davis i faes y gad.'<sup>186</sup> Dengys hyn hefyd y datblygiad a fu rhwng y defnydd o'r ymadrodd Beiblaidd a seiliwyd ar 1 Timotheus 1:10, 'lladron dynion', â'r defnydd o'r ymadrodd 'lladron rhyddid', sy'n dangos cyfeirio at drafodaethau eraill ar ragorfreintiau rhyddid yn ei amrywiol ffurfiau. Nodwedda hyn y modd yr amlygwyd 'rhyddid' mewn sawl math o ddisgwrs a oedd yn trafod rhinweddau honedig yr Unol Daleithiau.

### **Persbectif y Testament Newydd**

Parhaodd yr anniddigrwydd ynghylch Cyfraith y Caeth Ffoëdig am weddill y degawd, ac yn wir, hyd at gyfnod y Rhyfel Cartref. Gwelir hyn gyda chyhoeddi erthygl yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Ebrill 1862 gan George M. Jones o Newburgh, Ohio, a drafodai'r gyfraith a 'P[h]aham yr wyf yn Gristion'. Difyr yw gweld bod y ddadl hon a seiliwyd ar y Testament Newydd wedi ymddangos yn ystod y rhyfel pan oedd trafodaethau ymysg diddymwyr yn gyffredinol yn glŷn ag ieuo'r Rhyfel Cartref yn ffurfiol â diddymiaeth.<sup>187</sup> Er hynny, mae'n bosibl mai dyna hefyd amcan Jones wrth gyhoeddi'r ysgrif hon.

Fel y disgwyliid, ag erthygl o'r fath yn cael ei chyhoeddi yn *Y Cenhadwr Americanaidd*, roedd Jones yn chwyrn ei wrthwynebiad i gaethwasiaeth. Er mwyn mynegi hyn, cyfeiria at yr egwyddorion dyngarol sy'n sylfaenu ei Gristnogaeth, sef y gorchymyn i garu cymydog (Lef. 19:18; Marc 12:31) a'r Rheol Aur (Math. 7:12), a chyferbynnir hynny â '[ph]rif bechod ein gwlad fabwysiedig yn y dyddiau presenol, sef caethiwed.'<sup>188</sup> Pwysleisir

---

<sup>185</sup> Dyddiadur Evan Davis Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru Ffacs. 647. Fy mhwyslais. Gweler Jerry Hunter, *Lluch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004; ail argraffiad), 81-83.

<sup>186</sup> Hunter, *Lluch Cenhedloedd*, 83.

<sup>187</sup> McKivigan, *The War Against Proslavery Religion*, 199.

<sup>188</sup> Geo. M. Jones, 'Paham yr wyf yn Gristion', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1862), 128.

pechadurusrwydd caethwasiaeth yn rhwystro ‘y negro sydd yn gaeth yn neheu-dir ein gwlad’ rhag ei ryddid, a rhesyma Jones, gan fod y ‘negro yn ddyn’, fod yr awdur ‘fel eraill o dan rywmau i wneud fy ngoreu tu ag at ei ryddhau ef.’<sup>189</sup> Eir ymlaen i drafod y ‘pechod’ hwnnw yng nghyd-destun cyfraith a basiwyd dros ddegawd yn flaenorol, sef y Caeth Ffoëdig, yr un a fu’n arwyddocaol yn cynnal y gyfundrefn gaethiwol yn America, a deil Jones fod ‘cyfraith uniawn y nef yn ei chondemnio [Cyfraith y Caeth Ffoëdig], ac yn cyfiawnhau’ y caethion a fyddai’n dianc ‘o afaelion gorthrymus caethiwed’.<sup>190</sup>

Gan fod Duw wedi creu ‘o un gwaed bob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear’ (Act 17:26), rhesyma Jones, ‘y mae yn rhaid fod y genedl negroaidd i mewn yn yr hil ddynol’ ac felly, dylid ymlafnio i ryddhau’r ‘negro’.<sup>191</sup> Dichon y buasai dyfynnu’r adnod hon wedi taro tant gyda’r darllenydd. Roedd y persbectif Beiblaidd hwn – sy’n seiliedig ar Genesis 1-5 lle creodd Duw Adda ac Efa a sicrhau olyniaeth iddynt (cf. Luc 3:38; Rhuf. 5:18) – yn greiddiol i feddwl y gwrth-gaethiwyd. Gan fod pobun yn hanu o’r un cyff, yr oedd pawb yn gydradd. Roedd yr adnod hon yn fynegiant o gredo’r Cristnogion cynnar, a hwnnw’n gredo cyferbyniol i’r Groegiaid gynt, a oedd o’r farn eu bod o statws uwch na phob cenedl arall, y rhai a elwid ganddynt yn ‘farbariaid’. O gymhwyso hynny i’r sefyllfa gyfoes, gellid awgrymu mai diben dyfynnu’r adnod hon oedd dadlau yn erbyn ‘goruchafiaeth hiliol’ a chyda hynny, hyrwyddo’r syniad fod dynoliaeth yn ei holl amrywiaeth yn gytras am ei bod yn tarddu o Adda ac Efa, ‘o un gwaed’.<sup>192</sup>

Yn hyn o beth, mae’n bosibl fod Jones yn adweithio yn erbyn yr agwedd a nodweddai’r caethfeistri a’u cefnogwyr, sef goruchafiaeth y dyn gwyn – y gred fod ganddynt berffaith hawl i ddarostwng yr Affricaniaid Americanaidd oherwydd y gwahaniaethau hiliol. Yn wir, credai nifer o gaeth-bleidwyr ei bod yn llesol i’r Affricaniaid fod yn gaethion, am nad oedd ganddynt y gallu na’r crebwyll i fedru byw fel pobl annibynnol, fel pobl wyn.<sup>193</sup> Yr unig

---

<sup>189</sup> Ibid.

<sup>190</sup> Ibid.

<sup>191</sup> Ibid.

<sup>192</sup> Peterson, *Acts of the Apostles*, 496-7. Dylid nodi fod y traddodiad Groegiaid hefyd yn credu i ‘dduw’ greu’r hil ddynol gyfan ond bod y rhaniad hwnnw rhwng y ‘Groegiaid’ a’r ‘barbariaid’ mor llywodraethol fel na ellid ystyried pawb yn gydradd er gwaethaf y ffaith eu bod yn rhannu’r un creawdwr. Gweler, e.e., Richard I. Pervo, *Acts: A Commentary* (Minneapolis, MA: Fortress Press, 2009), 436; F. F. Bruce, *The Acts of the Apostles: The Greek Text with Introduction and Commentary* (London: The Tyndale Press, 1951), 336-7.

<sup>193</sup> Enghraifft o ysgrif yn mynegi’r gred fod yr Affricaniaid o anian isel yw honno o eiddo’r caeth-bleidiwr a’r gweinidog o Virginia, Thornton Stringfellow, *Slavery, Its Origin, Nature, and History Considered in the Light of Bible Teachings, Moral Justice, and Political Wisdom* (New York: John F. Trow, 1861), 10-11: ‘The African race is constitutionally inferior to the white race. Experience proves this in all the conditions and countries they have ever occupied. The African has left no memorial

ffordd i oresgyn y fath agwedd, awgryma Jones, yw drwy gydnabod bod dynoliaeth gyfan yn perthyn i'r un ach, a chan hynny, nad oes un hil wedi'i dyrchafu uwchlaw hil arall. Fel y dywed David G. Peterson, 'A sense of racial superiority can only be overcome by recognising the unity of the human race in terms of its origin and God's purpose in creating us.'<sup>194</sup>

Cred Jones fod y caethion yn gydradd â phob cenedl arall ond sylwa fod rhai yn amau hyn, ac yn casglu fod 'y negro i raddau yn is na'r dyn gwyn.'<sup>195</sup> Cyfeddyf fod y caethion o statws eilradd o ran gwybodaeth oherwydd eu bod wedi eu hamddifadu o addysg, ond myn 'n[a]d yw hynny yn un prawf fod eu galluoedd meddyliol yn llai.'<sup>196</sup> Dyma fynd yn fwriadol groes i'r sawl a ddadleuai fod yr Affricaniaid yn gynhenid eilradd.

Yr hyn sy'n hynod ddiddorol yw i Jones feirniadu Cyfraith y Caeth Ffoëdig drwy beidio â thrafod testun poblogaidd megis Deuteronomium 23:15-16, ond yn hytrach, ddewis cyfeirio at epistol Paul at Philemon.

### **Philemon ac Onesimus**

Defnyddid yr epistol at Philemon fynychaf er mwyn cefnogi Cyfraith y Caeth Ffoëdig. Dylid nodi, fodd bynnag, nad ymddengys i'r testun hwn gael ei ddefnyddio cyn amled ag y disgwylid yng nghyd-destun cyfraith 1850. Yn dilyn astudio dros ddeg a thrigain o bregethau a gyhoeddid ynglŷn â'r gyfraith rhwng 1850 a 1851, casglodd Laura Mitchell mai llond llaw ohonynt yn unig a gyfeiriodd at destun Philemon.<sup>197</sup> Serch hyn, deil Demetrius K. Williams fod y llythyr hwn yn 'ready resource in particular for the American Protestant church's

---

which proves his capacity to improve, unaided by a superior race, or to progress when improvements have been given him. [...] My purpose, thus far, has been to show that African slavery in the United States is a social and political necessity, and to show that it is just to the African, as it accords to him, in a form best adapted to his nature, more than an equivalent for his service, or labor: and that it is in accordance with the obligation to "do good to all men," and to "do to others as we would they should do unto us." [...] Slavery, or control by the will of another, in some form, and to the extent which varying circumstances make proper, is now, and has been in all ages, an indispensable necessity.'

<sup>194</sup> Peterson, *Acts of the Apostles*, 497.

<sup>195</sup> Jones, 'Paham yr wyf yn Gristion', 128.

<sup>196</sup> Ibid.

<sup>197</sup> Laura Mitchell, "'Matters of Justice between Man and Man"[:] Northern Divines, the Bible, and the Fugitive Slave Act of 1850', 146. Os nad oedd Philemon yn destun eithriadol o boblogaidd yn y trafodaethau am y gyfraith hon, yr oedd yn ddylanwadol yn negawdau cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl Larry R. Morrison, yr oedd Philemon ymysg y testunau Beiblaidd a ystyrir fel 'the foundation for the Biblical defense of slavery', Morrison, 'The Religious Defense of American Slavery Before 1830', *The Journal of Religious Thought*, 37, rhif 2 (1980-1981), 20. Yn wir, mae lle i gredu y defnyddid yr epistol hwn i gyfiawnhau Cyfraith Caeth Ffoëdig 1793. Gweler Morrison, 'The Religious Defense of American Slavery Before 1830', 20.

response to the Fugitive Slave law of 1850, because *they read the letter as a depiction of their own historical and judicial situation*'.<sup>198</sup>

Y llythyr hwn at Philemon yw'r byrraf o'r corpws Paulaidd – cwta 335 gair yn y Roeg – ac yn ôl A. Patzia, y mwyaf personol o blith epistolau Paul.<sup>199</sup> Awgrymwyd gan rai mai llythyr cyhoeddus ydoedd gan i unigolion eraill gael eu crybwyll yn y cyfarchiad ynghyd â Philemon, gan fod iddo iaith gyfreithiol sy'n nodweddu llythyrau cyhoeddus, ac am ei fod yn ymddrin â phwnc a fuasai'n effeithio ar y gymuned eglwysig yn ehangach.<sup>200</sup> O'r herwydd, dywed R. P. Martin, 'this brief epistle is to be seen not so much as a private letter of Paul as an individual [...] but as an apostolic letter about a personal matter.'<sup>201</sup>

Yr hyn a geir yn y llythyr yw Paul, sydd wedi'i garcharu, yn dychwelyd 'caethwas ffoëdig' o'r enw Onesimus at ei feistr, Philemon. Ymadawodd y 'caethwas' â'i feistr, fe ymddengys, dan amodau gwael – awgrymwyd gan rai i Onesimus a Philemon gael ffrae, neu'n wir i Onesimus ddwyn oddi ar ei feistr wrth ymadael â'r aelwyd.<sup>202</sup> Tra dan ofal yr apostol, cafodd Onesimus dröedigaeth a cheir Paul yn yr epistol yn ei ddychwelyd fel un 'yn fwy na chaethwas', yn 'frawd' yn yr efengyl. Hwn yw'r dehongliad traddodiadol.<sup>203</sup> Er bod astudiaethau diweddar gan ysgolheigion Beiblaidd wedi codi amheuaeth ynghylch rhai agweddau ar y dehongliad hwn, megis ai caethwas oedd Onesimus mewn gwirionedd, ac os felly, ai caethwas Philemon ynteu Archippus ydoedd, ac ai wedi ffoi oddi wrth Philemon ynteu wedi'i yrru gan ei feistr at Paul i gynorthwyo'r apostol ydoedd. Ond gan mai'r dehongliad traddodiadol hwn a oedd fwyaf mewn bri yn America'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, canolbwyntir yma ar y dehongliad hwnnw ac ymateb y Cymry iddo.<sup>204</sup>

---

<sup>198</sup> Demetrius K. Williams, "'No Longer as a Slave": Reading the Interpretation History of Paul's Epistle to Philemon', yn Matthew V. Johnson, James A. Noel, a Demetrius K. Williams (goln), *Onesimus Our Brother: Reading Religion, Race, and Culture in Philemon* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2012), 33. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>199</sup> A. Patzia, 'Philemon, Letter to', yn Gerald F. Hawthorne a Ralph P. Martin (goln), *Dictionary of Paul and His Letters* (Downers Grove, ILL: Intervarsity Press, 1992), 703.

<sup>200</sup> Patzia, 'Philemon', 705.

<sup>201</sup> R. P. Martin, *Colossians and Philemon* (London: Oliphants, 1974), 144.

<sup>202</sup> Er i rai amau dilysrwydd awduraeth a diben y llythyr hwn, mae trwch helaeth o ysgolheigion Beiblaidd yn credu ei fod yn perthyn i'r ganrif gyntaf ac mai'r apostol ei hun oedd yr awdur. Yr enghraifft amlycaf o herio awduraeth Paul yng nghyd-destun Philemon yw F. C. Baur ac Ysgol Tübingen yn yr Amlaen. Sylfaenwyd eu dadl ar y gred fod cysylltiad agos rhwng yr epistol at Philemon a hwnnw at y Colosiaid a ddyddiwyd i'r ail ganrif OC. Peter T. O'Brien, *Word Biblical Commentary: Colossians, Philemon* (Nashville, TN: Thomas Nelson, Publisher, 1982), 269.

<sup>203</sup> Meddai Joseph A. Fitzmyer, *The Letter to Philemon: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2000), 17: 'most older commentators from the time of John Chrysostom have explained Phlm as a case relating to a runaway slave.'

<sup>204</sup> Yn y cyfnod diweddar, awgrymwyd gan John Knox (ac mewn modd nid annhebyg, Sarah C. Winter) fod Onesimus wedi'i anfon at Paul gan Philemon er mwyn cynorthwyo'r apostol tra oedd yn



Ceir Paul, felly, yn y carchar ‘o achos yr Efengyl’ (Philem. 13) wedi cyfarfod Onesimus, yr hwn a lwyddodd i ddylanwadu arno a’i droi’n Gristion. Cyflëir hyn wrth i Paul gyfeirio at y caethwas fel ei blentyn a’i ystyried ei hun ‘yn dad [ysbrydol] iddo’ (Philem. 10). Cyfeddyf y buasai wedi hoffi cadw Onesimus gydag ef ond gwyddai nad oedd hawl ganddo wneud heb ganiatâd Philemon, a hefyd oherwydd ei fod dan rywmau’r gyfraith imperialaidd i ddychwelyd caethwas ffoëdig at ei feistr.

Wedi sefydlu hynny, a chan ddefnyddio dyfeisiau rhethregol craff, cyflwyna’r apostol ei gais at Philemon ar sail cariad.<sup>205</sup> Dywed nad yw am ddefnyddio’i awdurdod apostolaidd ond, yn hytrach, ei fod am alw yn enw cariad brawdol ar i’r meistr ystyried ei gais ar ran

---

y carchar, ac mai’r hyn a geir yn y llythyr yw Paul yn gofyn i Onesimus gael aros gydag ef yn hwy. Gweler John Knox, *Philemon among the Letters of Paul: A New View of Its Place and Importance* (Chicago: University of Chicago Press, 1935); Sarah C. Winter, ‘Paul’s Letter to Philemon’, *New Testament Studies*, 33 (1987), 1-15. Mae rhai, megis J. Albert Harrill, *Slaves in the New Testament*, 11-12, wedi canmol yr awgrym hwn gan nodi, ‘Perhaps Onesimus served in a function on behalf of Philemon’s congregation similar to that of Ephroditus on behalf of the congregation at Philippi.’ Serch hyn, mae llawer wedi canfod gwendidau yn namcaniaeth Knox, megis John G. Nordling, ‘Onesimus Fugitivus: A Defense of the Runaway Slave Hypothesis in Philemon’, *Journal for the Study of the New Testament*, 41 (1991), 106. Theori arall a gyflwynwyd, a oedd â’i gwreiddiau yn nehongliadau ddiddymwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel y gwelir maes o law, yw honno o eiddo Allen D. Callahan, ‘Paul’s Epistle to Philemon: Toward an Alternative Argumentum’, *The Harvard Theological Review*, 86, rhif 4 (1993), 357-76; Idem, *Embassy of Onesimus: The Letter of Paul to Philemon* (Valley Forge, PA: Trinity Press International, 1997). Gan na ddefnyddir y gair ‘ffoadur’ yn unman yn y llythyr, perodd hynny i Callahan ystyried esboniad hanesyddol amgen ar gyfer yr hyn sy’n digwydd yn Philemon. Daeth i’r casgliad mai’r hyn a geir yw ‘a story of the estrangement of two Christian brothers, Onesimus and Philemon.’ *Embassy of Onesimus*, ix. Beirniadwyd y ddamcaniaeth hon gan rai megis J. D. G. Dunn, *The Epistle to the Colossians and to Philemon: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI a Carlisle: Wm. B. Eerdmans, 1996), 335, a J. A. Fitzmyer, *The Letter to Philemon: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2000), 19. Cyflwynwyd theori arall gan Peter Arzt-Grabner, ‘Onesimus *erro*: Zur Vorgeschichte des Philemonbriefes’, *Zeitschrift für die Neutestamentliche Wissenschaft*, 95 (2004), 131-43. Dadleua Arzt-Grabner nad oedd Onesimus yn ffoadur (*fugitivus*) ond nad oedd ychwaith wedi cael caniatâd gan Philemon i aros yng ngofal yr apostol cyhyd. Awgryma felly y dylid ystyried Onesimus megis ‘caethwas triwant’ (*erro*). Damcaniaeth arall sydd wedi derbyn cryn gefnogaeth yn ddiweddar yw *amicus domini*. Peter Lampe, ‘Leine “Sklavenflucht” Des Onesimus’, *Zeitschrift für die Neutestamentliche Wissenschaft*, 76 (1985), 135-8, oedd y cyntaf i gyflwyno’r theori hon sy’n ceisio esbonio pam na alwyd Onesimus yn ‘ffoadur’ yn y llythyr. Ymadawodd Onesimus â Philemon er mwyn canfod *amicus domini*, un a fuasai’n cyfryngu ar ei ran gyda’i feistr, sef Paul. Mae nifer wedi canmol y theori hon gan gynnwys Demetrius K. Williams, ‘No Longer as a Slave’, 22. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, cafwyd Ryan Lokkesmoe yn ei draethawd PhD yn dadlau yn erbyn theori *amicus domini*. Gweler, Lokkesmoe, ‘Finding Onesimus: Recovering the Story of a First-Century Fugitive Slave’ (Traethawd PhD, Prifysgol Denver, 2015), yn arbennig 226-37. Am drosolwg o rai o’r damcaniaethau hyn ac eraill, gweler D. Francois Tolmie, ‘Tendencies in the Research on the Letter to Philemon since 1980’, yn D. Francois Tolmie (gol.), *Philemon in Perspective: Interpreting a Pauline Letter* (Berlin a New York: Walter de Gruyter, 2010), 1-27.

<sup>205</sup> Am drafodaeth ynglŷn â’r modd y llwydda Paul i ddefnyddio’i awdurdod apostolaidd yn anuniongyrchol drwy gyfrwng ei rethreg, ei ddisgwrs a’i iaith drosiadol, gweler, e.e., Chris Frilingos, ‘“For My Child, Onesimus”: Paul and Domestic Power in Philemon’, *Journal of Biblical Literature*, cyf. 119, rhif 1 (Gwanwyn 2000), 91-104.

Onesimus. Roedd gan Paul hawl, yn unol â chyfraith Rhufain, i fod yn eiriolwr ar ran y caethwas a oedd am ddychwelyd at ei feistr,<sup>206</sup> ac roedd ganddo hawl ychwanegol i eirioli ar ran Onesimus am ei fod bellach 'yn frawd' yng Nghrist.

Gelwir ar i Philemon dderbyn Onesimus yn ôl, 'nid fel caethwas mwyach, ond fel un sy'n fwy na chaethwas, yn frawd annwyl – annwyl iawn i mi, ond anwylach fyth i ti fel dyn ac fel Cristion' (Philem. 16). Nid gofyn i Philemon dderbyn Onesimus yn ôl fel dyn rhydd nac ychwaith ofyn iddo'i ryddhau a wna'r apostol; yn hytrach, galw ar i'r meistyr gydnabod y statws newydd sydd gan Onesimus fel Cristion a wna. Cydnabyddir yn adnod 11 fod Philemon wedi ystyried Onesimus unwaith yn 'ddi-fudd' (ἄχρηστος), ond darbwylla Paul fod Onesimus bellach yn 'fuddiol' (εὐχρηστος) i'r ddau ohonynt, ond yn arbennig i Philemon. Apelia Paul yn ofalus at hynawsedd cymeriad Philemon (adnodau 4-7) gan bwysleisio'r newid a fu yng nghymeriad y 'caethwas',<sup>207</sup> a sicrha y byddai'n digolledu Philemon am unrhyw golled ariannol a ddaeth i'w ran yn sgil absenoldeb y caethwas.<sup>208</sup>

Pan ddywed Paul y byddai'n fodlon gwneud iawn am Onesimus, y mae'n atgoffa Philemon ei fod yntau'n 'ddyledus' i'r apostol, gan mai drwy Paul y trodd Philemon at Grist. Yn ôl Norman R. Peterson, roedd gwneud hyn yn ffordd o drawsnewid sefyllfa Philemon o fod yn echwynnwr Onesimus i fod yn ddyledwr i Paul, ac felly, ei osod dan orfodaeth foesebol i gyd-fynd â chais yr apostol.<sup>209</sup> Mae Paul yn obeithiol yr ymateba Philemon yn gadarnhaol a hyd yn oed 'wneud mwy' nag y mae yn ei ofyn (Philem. 21). Mae rhai esbonwyr wedi cymryd yr adnod hon i ddynodi disgwyliad yr apostol i Philemon ryddhau'r caethwas, ond nid oes consensws ymysg ysgolheigion, fel y mae Owen Evans yn nodi, 'Y mae'n fwy na thebyg mai'r gymwynas ychwanegol y dymuna Paul oddi wrth Philemon yw

---

<sup>206</sup> Lampe, 'Keine "Sklavenflucht" des Onesimus', 135-7.

<sup>207</sup> Owen Evans, *Y Llythyrau Paulaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984), 148.

<sup>208</sup> Dywed rhai i Onesimus ddwyn oddi ar ei feistr cyn iddo ffoi. Gweler, e.e., G. B. Caird, *Paul's Letters from Prison (Ephesians, Philippians, Colossians, Philemon) in the Revised Standard Version* (Oxford: Oxford University Press, 1976), 222-3. Deil Laura L. Sanders, 'Equality and Request for the Manumission of Onesimus', *Restoration Quarterly*, 46, rhif 2 (2004), 112, fod y llythyr â'i iaith dechnegol yn adlewyrchu dogfennau cyfreithiol dyled (φειλη) yr oes. Yn hytrach na chasglu i Onesimus ddwyn arian Philemon, awgryma Sanders i Onesimus syrthio'n gaethwas yn wreiddiol oherwydd cyni ariannol personol. Meddai, 'Thus when Paul says he will repay and notes that he is writing by his own hand, he seems to be accepting Onesimus's debt as his own in a formal way. The ultimate outcome would be Onesimus's freedom from debt, therefore his freedom from slavery.' Â chymryd fod damcaniaeth Sanders yn gywir, a bod Onesimus yn gaethwas oherwydd dyled, tybed a ellid dadlau fod Paul wedi prynu'r caethwas oddi wrth Philemon drwy dalu ei ddyledion?

<sup>209</sup> Norman R. Peterson, *Rediscovering Paul: Philemon and the Sociology of Paul's Narrative World* (Eugene, OR: Wipf and Stock Publishers, 2008; ail argraffiad), 74-8.

caniatáu i Onesimus, heb newid ei statws cymdeithasol fel caethwas, gyflawni'r weinidogaeth Gristnogol y cred Paul ei fod yn gymwys iddi.<sup>210</sup>

Ni wyddys beth oedd canlyniad y cais. Damcanwyd i Onesimus gael ei drin yn deg, 'fel brawd' gan Philemon, iddo gael pregethu'r efengyl a datblygu i fod yn weinidog o bwys. Yn hyn o beth, tuedda rhai i gysylltu'r caethwas o Gristion hwn â'r Onesimus a ddaeth yn esgob Effesus erbyn amser Ignatius.<sup>211</sup> Yn ôl F. F. Bruce, nid oes amheuaeth y rhyddhawyd Onesimus oherwydd pe na chawsai ei ryddid ni fyddai'r epistol wedi'i gynnwys yn y Canon.<sup>212</sup> Ond byddai rhyddhau caethwas a redodd i ffwrdd yn anghydnaws ag arfer yr oes gan y buasai un a redodd ymaith, ac a gafodd ei ddal a'i ddychwelyd yn siŵr o fod wedi cael ei gosbi, naill ai drwy ei fflangellu neu ei warthnodi. Dichon pe rhyddheid Onesimus, y byddai caethion eraill yr aelwyd yn edliw i'r un a fentrodd yn groes i'r meistr gael ei wobrwyo â'i ryddid. Yn wir, pe bai'r holl gaethion yn cael tröedigaeth, a fyddai hynny'n golygu y byddent hwythau'n cael eu rhyddhau? Diau pe gwneid hynny y byddai hunan-barch a statws Philemon yn gostwng oherwydd bod nifer y caethion yn arwydd o gyfoeth.<sup>213</sup> Yn ogystal, pe bai'r holl gaethion yn cael eu rhyddhau, byddai wedi bod yn anos cynnal cyfarfodydd eglwysig yn nhŷ Philemon.<sup>214</sup>

---

<sup>210</sup> Evans, *Y Llythyrau Paulaid*, 149. Oherwydd bod Onesimus bellach wedi'i droi'n Gristion, deil Sanders, 'Equality and Request for the Manumission of Onesimus', 133, ei bod yn anochel y câi ei ryddhau. I gryfhau ei dadl, cyfeiria at astudiaeth S. S. Bartchy, *MAAION XPHEAI: First-Century Slavery and 1 Corinthians 7:21* (Missoula, MT: Scholars Press, 1973), 88-96, sy'n dangos fod rhyddhau caethion yn arfer cyffredin yn y cyfnod hwn, yn rhannol, am y byddai o fudd ariannol i'r meistr. Byddai caethion yn gweithio'n fwy diwyd o fod wedi cael addewid i'w rhyddhau a byddai'r meistr yn gwneud elw pe bai'n rhaid i'r caethwas dalu am ei ryddid. Yn ogystal, gallai rhyddhau caethion fod o fantais ariannol i'r meistri am na fyddent yn gorfod gofalu am gynhالياeth yr unigolion hynny mwyach. Gyda'r elw hwnnw hefyd gallent fuddsoddi mewn mwy o gaethion a sicrhau parhad y system; gweler John M. G. Barclay, 'Paul, Philemon and the Dilemma of Christian-Slave Ownership', *New Testament Studies*, 37, rhif 2 (April 1991), 168. Serch hynny, gallai ansicrwydd wynebu'r caeth pe derbynai ei ryddid, oherwydd efallai y byddai'n gadael gofal ei feistr heb nemor ddim wrth gefn. Yn hyn o beth, teg fyddai awgrymu fod aros yn gaeth mewn rhai achosion yn fwy manteisiol i'r unigolyn na chael ei ryddhau. O leiaf mewn caethiwed, byddai gan yr unigolyn sicrwydd am loches, dillad a chynhالياeth am fod y meistr wedi buddsoddi ynddo am ei lafur; gweler E. W. Davies, *Prophecy and Ethics: Isaiah and the Ethical Traditions of Israel* (Sheffield: JSOT Press, 1981), 72-5.

<sup>211</sup> Evans, *Y Llythyrau Paulaid*, 149.

<sup>212</sup> F. F. Bruce, *Paul, Apostle of the Free Spirit* (Exeter: Paternoster, 1977), 406.

<sup>213</sup> Barclay, 'Paul, Philemon and the Dilemma of Christian-Slave Ownership', 176.

<sup>214</sup> 'It is impossible to imagine someone like Gaius or Philemon offering hospitality to a whole church (Rom 16.23; Phlm 2) without the aid of slaves: one could not maintain a house sufficient to accommodate a significant number of guests on a regular basis without the assistance of slaves, at least in door-keeping, cooking and serving at table.' Barclay, 'Paul, Philemon and the Dilemma of Christian-Slave Ownership', 166.

Dadl yr ysgolhaig Affrican Americanaidd Lloyd Lewis yw y dylid darllen Philemon yng ngoleuni llythyr Paul at y Galatiaid, yn arbennig felly Galatiaid 3:1-4:7. Yr hyn a fynegir wrth y Galatiaid yw nad oes gwahaniaeth rhwng unigolion unwaith iddynt droi at Grist. Caiff pob rhwystr cymdeithasol ei oresgyn fel bod pob person yn gytras am iddynt gael eu bedyddio a ‘gwisgo Crist amdanynt’ (Gal. 3:27). Drwy ddefnyddio iaith deuluol, cyflëir y neges nad yw o bwys o ba safiad cymdeithasol a daearol y mae unigolion gan eu bod oll yn frodyr a chwiorydd ysbrydol yng Nghrist. Nid yw sefyllfa Onesimus, meddai Lewis, mor negyddol ag y tybid. Er iddo gael ei anfon yn ôl yn gaethwas, y mae i’w dderbyn ‘fel brawd’.<sup>215</sup> O ystyried Philemon yng nghyd-destun y Galatiaid casgla Lewis:

Here [...] is a chance for black exegetes to claim Philemon as their own and as an indication of good news and of a new arrangement for blacks. I believe that African American people who study the Bible and who are concerned with issues of human freedom and liberation can take heart from Paul. Careful examination of his language shows that his ambiguity may not be so much a matter of his indecision as his unwillingness to canonize the social roles found in his environment.<sup>216</sup>

Nid yw Paul, felly, yn ceisio dwyn perswâd ar Philemon i ryddhau’r caethwas, ond yn hytrach yn gofalu y byddai newid sylfaenol yn eu perthynas, heb o reidrwydd newid eu sefyllfaoedd cymdeithasol. Dylai Onesimus gael ei drin fel ‘brawd’ ysbrydol, ond fel ‘caethwas’ yn gymdeithasol. Byddai hynny, meddai Craig S. de Vos, yn tanseilio’r drefn batriarchaidd a hierarchaidd a nodweddi’r gymdeithas Roegaidd-Rufeinig.<sup>217</sup> Ond mae’n anodd dychmygu sut y byddai meistr a chaethwas yn y cartref yn gallu cymryd arnynt eu bod ill dau’n gydradd, hyd yn oed os oedd Onesimus i’w ‘dderbyn fel brawd’, gan y byddai’n parhau’n gaethwas. Casgla eraill mai’r allwedd i ddeall galwad Paul yn y llythyr yw ei gred eschatolegol; gan mai ‘mynd heibio y mae holl drefn y byd hwn’ (1 Cor. 7:31), yr hyn a oedd o bennaf bwysigrwydd oedd gofalu troi cynifer at Grist, a bod yn ‘rhydd’ yn yr efengyl.<sup>218</sup>

---

<sup>215</sup> Lloyd A. Lewis, ‘An African American Appraisal of the Philemon-Paul-Onesimus Triangle’, yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we Trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis: Fortress Press, 1991), 236-44.

<sup>216</sup> Ibid., 246.

<sup>217</sup> Craig S. de Vos, ‘Once a slave, always a slave? Slavery, manumission and relational patterns in Paul’s letter to Philemon’, *Journal for the Study of the New Testament*, 82 (2001), 89-105.

<sup>218</sup> Emerson B. Powery, ‘The Bible, Slavery, and Political Debate’, yn Frances Flannery a Rodney A. Werline (goln), *The Bible in Political Debate: What Does it Really Say?* (London: Bloomsbury T & T Clark, 2016), 146.

Fel y gwelir, oherwydd y gwahanol agweddau amwys ar yr epistol, datblygodd nifer o theorïau a dehongliadau cyferbyniol.<sup>219</sup> Serch hyn, yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, byddai amryw yn troi at yr epistol hwn at Philemon ac yn canfod ynddo wers sylfaenol, sef bod yr apostol yn parchu hawliau eiddo meistr, ei fod yn ufuddhau i gyfraith gwlad, a'i fod yn dychwelyd caethwas ffoedig. Yr oedd, felly, yn destun cyfleus i gaeth-bleidwyr droi ato er mwyn cyfiawnhau eu hawl i erlid caethion ffoedig.<sup>220</sup> Yn wir, fe'i gelwid gan nifer o gaeth-bleidwyr y Mandad Paulaidd (*Pauline Mandate*) o blaid cyfreithiau dal caethion.<sup>221</sup>

Gan mai'r dehongliad traddodiadol hwn – a ddywed mai caethwas ffoedig a ddychwelwyd at ei feistr oedd Onesimus – oedd y mwyaf dylanwadol ar dir esboniadol America, sut oedd George M. Jones yn ei ysgrif wedi defnyddio'r testun hwn at ddibenion gwrth-gaethiwol?

Yn gyntaf, dywed Jones, 'A chaniatáu fod Paul yn cefnogi y gaeth-wasanaeth Rufeinig, nid yw hyn yn un prawf dros y gaethwasiaidd Americanaidd'.<sup>222</sup> Beirniadu'r arfer ymysg y caeth-bleidwyr crefyddol o droi at yr epistolau Paulaidd i gefnogi caethwasiaeth gyfoes a wna Jones yma. Roedd yn arfer cyffredin gan rai gyfeirio at adnodau megis, 'Chwi gaethweision, ufuddhewch ym mhob peth i'ch meistri daearol' (Col. 3:22), ynghyd â'r llythyr hwn at Philemon i ddadlau fod Paul yn goddef, os nad yn wir, yn cefnogi caethwasiaeth.<sup>223</sup> Fodd bynnag, deil Jones, yn yr un modd ag eraill,<sup>224</sup> nad oes cymhariaeth rhwng 'erchylldra caethwasiaeth America' a'r gyfundrefn Rufeinig am eu bod yn perthyn i gyfnodau a diwylliannau gwahanol.<sup>225</sup>

Serch hyn, deil Jones, 'wrth ystyried yr epistol at Philemon yn ystyriol', y gellir casglu nad oedd 'Paul yn bleidiol i'r gaethwasiaeth hono', sef caethwasiaeth Rhufain –

---

<sup>219</sup> Fel y casgla Ilaria L. E. Romelli, *Social Justice and the Legitimacy of Slavery: The Role of Philosophical Asceticism from Ancient Judaism to Late Antiquity* (Oxford: Oxford University Press, 2016), 108, 'On so scanty and ambiguous a basis, however, certainty cannot be reached. [...] To complicate the picture, there is only one other passage that deals with juridical slavery in Paul's authentic letters; all the others come from letters that are attributed to him but are probably, or certainly, not by him'.

<sup>220</sup> David L. Migliore, *Philippians and Philemon: Belief: A Theological Commentary on the Bible* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2014), 194.

<sup>221</sup> Harril, *Slaves in the New Testament*, 168.

<sup>222</sup> Jones, 'Paham yr Wyf yn Gristion', 129.

<sup>223</sup> Dylid nodi fod peth amheuaeth ynghylch awduraeth yr epistol at y Colosiaid, a'r farn ymysg nifer o ysgolheigion cyfoes yw nad Paul a'i lluniodd. Fel y dywed Owen E. Evans, 'ceir ymhlith beirniaid modern nifer helaeth sy'n cyfrif Colosiaid yn waith "deutero-Paulaidd" yn hytrach nag yn waith dilys gan yr Apostol ei hun.' *Y Llythyrau Paulaidd*, 130. Am drafodaeth ynglŷn ag awduraeth yr epistol hwn ynghyd â llyfryddiaeth bellach, gweler, e.e., R. McL. Wilson, *A Critical and Exegetical Commentary on Colossians and Philemon* (Cornwall: T & T Clark Int., 2005), 9-18.

<sup>224</sup> Gweler y drafodaeth ym Mhennod 3 uchod.

<sup>225</sup> Jones, 'Paham yr Wyf yn Gristion', 129.

ychwaith. A phwysleisia'r elfen Gristnogol yn hanes Onesimus. Nid ei ddychwelyd fel caethwas a wnaeth Paul, ond fel un yn 'fwy na chaethwas, yn frawd annwyl', sef brawd yn yr efengyl. Oherwydd bod Philemon, yntau, yn Gristion (hefyd yn sgil dylanwad Paul), dylai faddau i Onesimus a'i dderbyn yn ôl fel un sy'n gydradd ag ef, gan nad oes yng Nghrist Iesu 'rhagor rhwng Iddew a Groegiad, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw' (Gal. 3:28). Dyna'n wir fyrdwn gweddill yr ysgrif. Byddai derbyn Onesimus yn ôl fel Cristion yn hytrach na chaethwas yn tanseilio holl hanfod caethwasiaeth.

Agwedd ddiddorol arall ar ddehongliad Jones o'r epistol, sydd hefyd yn nodweddiadol o ddehongliadau rhai o ddiddymwyr America, yw nad oedd Onesimus yn gaethwas mewn gwirionedd: 'ni a welwn fod y deisyfiadau a'r ymbiliau a ddanfonir gan Paul at Philemon dros Onesimus yn profi tu hwnt i amheuaeth mai nid caethwas oedd efe.'<sup>226</sup> Mae'n bosibl bod Jones yn golygu nad caethwas ydoedd Onesimus mwyach, gan iddo fod wedi'i droi'n Gristion, ond mae modd ei ddehongli mewn ffordd arall yn ogystal, o gofio rhai o'r dehongliadau Cymraeg a di-Gymraeg amgen a oedd yn America.

Yn ôl J. A. Harrill, Albert Barnes ym 1846 oedd y cyntaf i fwrw amheuaeth ynghylch statws Onesimus a chasglu nad caethwas mohono.<sup>227</sup> Ymysg y rhesymau pam mae dehongliadau'r caeth-bleidwyr yn anghywir, ym marn Barnes, y mae'r ddadl na ellid dweud yn gwbl hyderus mai caethwas oedd Onesimus oherwydd bod ansicrwydd ynghylch union ystyr y gair δοῦλος. Dywed mai 'servant' a geir yn y Beibl, ac awgryma fod cryn wahaniaeth rhwng δοῦλος oes yr apostol a gwas neu gaethwas cyfoes America.<sup>228</sup>

Cafwyd dehongliad nid annhebyg i un Barnes mewn pamffled cynharach gan George Bourne, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument by a Citizen of Virginia* (1845).<sup>229</sup> Yn y gwaith hwnnw, nodir nad oes tystiolaeth fod Philemon yn gaethfeistr, 'Nor is there any evidence that Onesimus was a slave, but the reverse.'<sup>230</sup> Ar yr un gwynt, dywed fod rhai'n dadlau ar sail yr ymadrodd 'yn y cnawd', fel a geir yn adnod 16, 'that Onesimus was a natural brother of Philemon.'<sup>231</sup>

---

<sup>226</sup> Ibid.

<sup>227</sup> Harrill, *Slaves in the New Testament*, 168; Albert Barnes, *An Inquiry into the Scriptural Views of Slavery* (Philadelphia, PA: Perkins & Purves, Chestnut Street, 1846), 318-31.

<sup>228</sup> Cf. E. Smith, 'Caethiwed Ddim yn Cael ei Gefnogi yn y Bibl', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1843), 331. Gweler Pennod 2 uchod.

<sup>229</sup> Bourne, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument*.

<sup>230</sup> Ibid., 82.

<sup>231</sup> Ibid., 83. Mae'r ddamcaniaeth hon i'w chael ymysg ysgolheigion cyfoes, megis Callahan, *Embassy of Onesimus*. Trafododd Callahan y dehongliad hwn hefyd mewn erthygl gynharach o'i eiddo, 'Paul's Epistle to Philemon: Toward an Alternative Argument', *The Harvard Theological Review*, 86, rhif

Mewn gwirionedd, cyflwynwyd dadleuon cyffelyb i rai Bourne mewn erthygl gynharach yn *Y Cenhadwr Americanaidd* ym mis Ebrill 1844. Yn y rhifyn hwnnw, cyhoeddwyd sylwadau'r Parch. E. Smith i ateb y cwestiwn, 'A oedd Onesimus yn Gaethwas?' Yn yr erthygl, dywedir nad oedd Philemon yn gaethfeistr oherwydd ei fod yn byw 'Yn Colossa, yn Asia Leiaf, *Ile nad oedd neb caethion* yn yr oes hono. [Y ffaith hon a brofir yn anwrthwynebadwy trwy hanesyddiaeth.]<sup>232</sup> Drachefn, dywedir nad caethwas i Philemon oedd Onesimus, ond yn hytrach, ei frawd. Dyna'n wir arwyddocâd cyfeirio at Onesimus fel 'gwas', meddai: 'Y brawd hynaf, yn ôl yr arferion Patriarchaidd oedd y Penteulu; a'r plant ereill, tra dan oed, a elwid yn weision. Yr oedd Onesimus yn yr olwg yma yn was, a Philemon yn feistr.'<sup>233</sup>

Gwelir cryn debygrwydd rhwng sylwadau'r Parch. E. Smith uchod â'r hyn a ddywed y gweinidog a'r diddymwr o Kentucky, John Gregg Fee yn ei bamffled, *An Anti-Slavery Bible Manual*:

There is evidence in the epistle that Onesimus was a natural brother to Philemon—a younger brother, bound to the elder. This was very common in that age. Paul calls him “a brother beloved, especially to me, but how much more unto thee both IN THE FLESH, and in the Lord.” And history informs us that he [Onesimus] was afterwards Bishop of Ephesus. “Ignatius, writing concerning him, praises God that the church of Ephesus had so good a Bishop.”<sup>234</sup>

Roedd y gred hon i Onesimus ddod yn weithgar yn efengyleiddio (cf. Col. 4:9) os nad yn wir, yn esgob, yn boblogaidd yn yr oes, gan iddi ddelweddu'r modd y gallai unigolyn o'r statws isaf gael ei ddyrchafu i swydd o awdurdod drwy gyfrwng bedydd. Nodwyd yn llyfr Joseph Milner am hanes yr Eglwys mai dyma'n union a ddigwyddodd i Onesimus;

---

4 (October 1993), 357-76. Ym marn Callahan (*Embassy of Onesimus*, ix), edrydd epistol Paul at Philemon 'a story of the estrangement of two Christian brothers, Onesimus and Philemon.' Fodd bynnag, nid yw'r dehongliad hwn wedi derbyn llawer o gefnogaeth. Ceir Ben Witherington III, *The Letters to Philemon, the Colossians, and the Ephesians: A Socio-Rhetorical Commentary on the Captivity Epistles* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2007), 62-3, er enghraifft, yn dadlau mai camdehongliad o rethreg Paul yn y llythyr a berodd i Callahan gyflwyno'r ddamcaniaeth hon.

<sup>232</sup> Cyflwynedig gan Geo. Lewis, 'A oedd Onesimus yn Gaethwas?', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Ebrill 1844), 109. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>233</sup> Ibid.

<sup>234</sup> John Gregg Fee yn ei bamffled, *An Anti-Slavery Bible Manual* (New York: Arno & New York Times, 1848), 112-3.

The character he gives us of their bishop Onesimus raises our idea of him to a great degree. [...] Onesimus probably was the fugitive slave of Philemon, a growing plant in St. Paul's time.<sup>235</sup>

Cafwyd sylwadau cyffelyb gan Robert Everett mewn ateb i ymholiad gan D. O. Jones, Pittsburgh ym mis Mehefin 1844. Gofyn a wna Jones ai ymddygiad Paul yn dychwelyd Onesimus â 'llythyr caredig gydag ef' ynteu 'ymddygiad yr *abolition* yn America yn cynorthwyo y caeth i ffoi i Ganada a'u cuddio yn lladradaidd mewn coedydd a thai' yw'r gorau i 'effeithio er daioni ac yn [ô]l ewyllys Duw'.<sup>236</sup> Gellid awgrymu, ar sail ei sylwadau, fod D. O. Jones yn wrth-gaethiwr cymedrol, gan iddo ofyn, 'oni byddai ymddygiad yr apostol yn debycach o lwyddo er rhyddhad y caeth?' Cloir ei ymholiad drwy alw am ateb gan 'un pwylllog, a chall', ac 'nid rhyw *abolition* penboeth.'<sup>237</sup>

Yn groes i ddymuniad Jones, fodd bynnag, cafwyd sylwadau yn dilyn yr ymholiad gan un '*abolition*[ist] penboeth', sef golygydd *Y Cenhadwr Americanaidd*. Yn ei ateb, cyfeiria Everett at sylwadau'r Parch. E. Smith, a gyhoeddwyd yn rhifyn Ebrill y flwyddyn honno, a dywed ei fod yntau o'r un farn:

nad oedd Onesimus yn "gaethwas" i Philemon—nad oedd caethiwed yn bodoli yn y rhan hyny o'r byd yn yr oes apostolaidd—mai un o frodyr ieuengaf Philemon oedd Onesimus, ac felly ei fod yn ei wasanaeth, ond nid yn *gaeth-was*—ac fod Hanesiaeth Eglwysig yn profi yr adnabyddid Onesimus (yn fuan wedi ei ddychweliad i ffydd yr efengyl) wrth y cymeriad o "esgob Berea" ac nid caethwas Philemon.<sup>238</sup>

Darlleniad pur ddiddymol, felly, a hynny'n gydnaws â'r dehongliadau a geid gan ddiddymwyr yr oes.<sup>239</sup> Roedd y farn hon i'w chanfod hefyd yn y wasg wrth-gaethiwol Saesneg. Er enghraifft, sylwyd mewn llythyr gan un yn dwyn y ffugenw 'SENEX' yn *The National Era*, 'Onesimus was the brother or servant of Philemon, perhaps both.'<sup>240</sup>

---

<sup>235</sup> Joseph Milner, *History of the Church of Christ. Volume the first. Containing the three first centuries* (Boston, MA: Farrand, Mallory, and Co. Suffolk Buildings, 1809), 157.

<sup>236</sup> D. O. Jones, 'GOFYNIADAU', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1844), 177.

<sup>237</sup> Ibid.

<sup>238</sup> Robert Everett, 'GOFYNIADAU', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1844), 177. Pwyslais yn y gwreiddiol. Cynhwysodd Everett y dehongliad hwn mewn erthygl a gyhoeddwyd ganddo'n ddiweddarach yn y flwyddyn: 'Cam-ddywediadau', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1844), 347.

<sup>239</sup> Enghraifft arall o destun yn nodi bod Onesimus a Philemon yn frodyr yw pamffled John Lawrence, *The Slavery Question* (Dayton, OH: Vonnieda & Kumler, Agents, 1854; ail argraffiad), 141: 'Onesimus was a relative of Philemon, probably a natural brother,—brother "in the flesh;" as may be inferred from Philem., verse 16.'

<sup>240</sup> 'SENEX', 'The Case of Onesimus. To the Editor of the *National Era*', *The National Era* (2 June 1853), 86.



Mae'r dehongliadau hyn yn hynod ddiddorol ac yn dra gwahanol i'r darlleniad traddodiadol mai caethwas ffoëdig a gafodd dröedigaeth dan adain Paul, ac a ddychwelwyd at ei feistr oedd Onesimus: y dehongliad traddodiadol hwnnw a goleddid gan nifer o esbonwyr Beiblaidd mwyaf dylanwadol yr oes, megis Thomas Scott, Adam Clarke a Richard Watson,<sup>241</sup> ac ymysg diwinyddion Cymraeg amlwg, gan gynnwys Thomas Charles, Iago Trichrug a Meudwy Môn.<sup>242</sup> Ynghyd â'r diwinyddion Cymraeg hyn, roedd nifer o weinidogion Cymru hefyd yn arddel y dehongliad traddodiadol am Philemon, fel y gwelir gan y Parch. John Jones (Idrisyn) yn ei *Ddehonglydd Beirniadol*. Dylid nodi y ceir peth amheuaeth gan Idrisyn ynghylch union statws Onesimus wrth iddo nodi yn ei gyflwyniad i'r epistol, '*Meddylir* mai caethwas iddo ef [Philemon] oedd Onesimus yr hwn a ddiangasai o'i wasanaeth, ac a ddaeth i Rufain[.]'<sup>243</sup> Serch hynny, ceir datganiad ganddo sy'n sicr yn cydfynd â'r dehongliad traddodiadol wrth sylwi'n benodol ar adnod 16: yr oedd Philemon i dderbyn Onesimus yn ôl '*Nid fel gwas[:]* Nid fel caethwas ffoedig, i fod yn wrthddrych gŵg a sorian; *eithr uwchlaw gwas*—fel brawd Cristionogol, hynod o anwyl i mi, ac yn fwy felly o

<sup>241</sup> Thomas Scott, *The Holy Bible; containing the Old and New Testaments, according to the authorized version: with explanatory notes, practical observations and copious marginal references, by the late Rev. Thomas Scott, Rector of Aston Sandford, Bucks. A New Edition, with the author's last corrections and improvements; and eighty-four illustrated maps and engravings. Volume VI.* (London: James Nisbet and Co., 1866), 315, 317. Gweler, hefyd, Thomas Scott, *The Theological Works of the Rev. Thomas Scott, Author of a Commentary on the Bible* (Edinburgh: Stirling & Kenney, and Wagh & Innes, 1829), 478; Adam Clarke, 'Philemon', *Adam Clarke's Commentary on the Bible*, 6 chyfrol: 'There is no reason to believe that Onesimus was of the kindred of Philemon; and we must take the term flesh, here, as referring to the right which Philemon had in him.' <<http://www.studydrive.org/commentaries/acc/philemon-1.html>> (Cyrchwyd 28 Ebrill 2017); Richard Watson, *A Biblical and Theological Dictionary: Explanatory of the History, Manners, and Customs of the Jews, and Neighbouring Nations. With an account of the most remarkable places and persons mentioned in sacred scripture; an exposition of the principal Doctrines of Christianity: and notices of Jewish and Christian sects and heresies.* (New York: H. Waugh and T. Mason, 1833; argraffiad diwygiedig Americanaidd), 717, 745.

<sup>242</sup> Thomas Charles, 'PHILEMON', yn *Geiriadur Ysgrythyrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol* (Wrexham: Hughes and Son, 1885; seithfed argraffiad), 760; James Hughes, *Y Testament Newydd, Gyda nodau eglurhaol ar bob adnod; wedi eu detholi, a'u cyfieithu i'r Gymraeg, Gan y Parch. James Hughes, Gweinidog yr Efengyl yn Llundain; allan o waith Poole, Scott, Guyse, a Doddridge; y'ngghyd A holl Nodau Cyfeiriol y dywededig Barch. T. Scott*, Cyfrol 1 (Wyddgrug: J. Lloyd, 1835), 1080; Owen Jones, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynnwys nodiadau beirniadol ar y rhanau anhawddaf eu deall o ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament, a'r Newydd. Wedi eu casglu o araith yr awdwy'r gorau, hen, a diweddar, gan Owen Jones*. Cyfrol III (Wyddgrug: H. ac O. Jones, 1858), 462-3.

<sup>243</sup> John Jones (Idrisyn), *Y Dehonglydd Beirniadol, neu eglurhad manwl ar bob adnod yn y Testament Newydd, er gwasanaeth yr Ysgolion Sabbothol* (Wrexham: Hughes & Son, 1865; pumed argraffiad), 695. Fy mhwyslais. Mae Idrisyn hefyd yn nodi, ar sail epistol Ignatius, i Onesimus ddod yn esgob: 'Y mae yn debyg i Philemon nid yn unig faddeu i Onesimus, ond ei ryddhau hefyd; canys crybwylla Ignatius am dano wedi hyny fel esgob Ephesus.'

lawer i ti, trwy ei fod yn dal perthynas â thi yn y cnawd[.]<sup>244</sup> Cyhoeddwyd ambell ysgrif yn y wasg gyfnodol Gymraeg ym Mhrydain hefyd a gefnogai'r dehongliad traddodiadol hwn.<sup>245</sup>

Ar sail yr ymdriniaeth hon o destun Philemon, felly, gellid awgrymu i ddehongliadau'r Cymry Americanaidd a drafodwyd uchod gael eu dylanwadu gan yr hinsawdd ddiddymol a liwiau gangen nodedig o esboniadaeth Feiblaidd yn yr Unol Daleithiau. Gellid awgrymu hefyd, efallai, fod yn yr oes hon fath o esboniadaeth Feiblaidd ddiddymol Gymraeg Americanaidd a oedd yn wahanol i'r hyn a geid gan y Cymry yn y famwlad – a hynny oherwydd y cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol lle roedd caethwasiaeth yn fater hollbresennol.

## Casgliad

Roedd Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850 yn drobwynt yn yr ymgyrch diddymol yn yr Unol Daleithiau. Graddol fu'r adwaith beirniadol iddi gan y byddai nifer yn ei goddef er mwyn cadw'r ddysgl Undebol yn wastad. Serch hyn, cafwyd cryn ymateb o du diddymwyr radicalaidd yn syth, a buan yr ymunodd gwrth-gaethiwy'r eraill i fynegi eu hanniddigrwydd â'r gyfraith. Fel y sylwyd yn y bennod hon, roedd Cymry America ymysg y bobl gyntaf i ymateb.

Felly, fel rhan o'r ymateb hwn, cyfeirid at y Beibl fel testun awdurdodol er mwyn gwrthwynebu'r gyfraith newydd a ofalai am hawliau eiddo caethfeistri'r De. Roedd testunau Deuteronomium 23:15-16 ac Actau 5:29 yn hynod arwyddocaol yn hyn o beth. Roedd y naill yn esgusodi unrhyw un na ddychwelai gaeth ffoëdig, ac, mewn gwirionedd, yn gysylltiedig â'r llall, a ddywed na ddylid ufuddhau i ddeddfwriaeth y llywodraeth a aethai'n groes i'r gyfraith uwch. Gan i Dduw ddatgan na ddylid dychwelyd caeth ffoëdig (Deut. 23:15), dylid felly ufuddhau i'w gyfraith Ef, cyn y gyfraith wladol (Act. 5:29).

<sup>244</sup> Ibid., 696. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>245</sup> Er enghraifft, 'Cymdeithas y Traethodau Crefyddol', *Yr Amserau* (16 Tachwedd 1853), 274. Fel rhan o'r cyfarfod hwnnw a gynhaliwyd yng Nghapel y Trefnyddion Calфинаidd yn Rose Place, Lerpwl, cafwyd anerchiad gan y Parch. Henry Rees. Wrth draddodi, cyfeiriodd at epistol Paul at Philemon a sylwi, 'Lled anhawdd fuasai i Onesimus ymddangos gerbron Philemon—hen *slave* wedi dianc oedd—yn waglaw; ond edrychwch arno yn troi ei wyneb tua thy [*sic.*] ei hen feistr, [...] a gallwn dybied [oherwydd llythyr Paul] nad oedd nemawr berygl i Onesimus orfod myned o dan y chwip fel caethion America ar ôl [*sic.*] hyn.' Disgrifir mewn ysgrif gan un awdur a arwyddodd ei waith â 'J.R.', 'Y Llythyr at Philemon', *Y Cronicl* (Tachwedd 1849), 323-30, Onesimus, 'gwas' Philemon, yn gymeriad anonest a diog a ddygodd oddi wrth ei feistr yn dianc i Rufain ac yn digwydd clywed pregeth gan Paul. Gyda hynny, iddo gael tröedigaeth a bodloni dychwelyd at ei feistr ar yr amod y câi lythyr i eirioli ar ei ran gan yr apostol. Difyr yw nodi nad ystyria 'J.R.' Onesimus yn gaethwas fel y cyfryw, ac iddo yntau gredu bod y 'gwas' a Philemon yn perthyn gwaed i'w gilydd (t. 327).

Testun arall a oedd yn hoff gan ambell Gymro gwrth-gaethiwol oedd epistol Paul at Philemon. Dadleuai'r caeth-bleidwyr mai'r hyn a welir yn yr epistol yw Paul yn dychwelyd Onesimus, caethwas ffoëdig, at ei feistr. Nid felly'r diddymwyr. Gan fod amwysedd i'r testun, ceid amryw ddehongliadau, ac ystyriwyd yn benodol y darlleniad diddymol a faentumiai fod Philemon ac Onesimus yn frodyr. Dychwelyd Onesimus fel Cristion at ei frawd mawr a wnaeth Paul: dyna ddadl y gwrth-gaethiwyr. Roedd y darlleniad hwn yn unigryw i'r diddymwyr, ac yn wir, yn enghreifftio gwahaniaethau rhwng esboniadaeth Feiblaidd Cymry'r famwlad, a arddelai'r darlleniad traddodiadol – mai caethwas ffoëdig ydoedd Onesimus – a dehongliadau'r Cymry America diddymol – mai dau frawd oeddent. Roedd dadlau mai brodyr oedd Philemon ac Onesimus yn fodd o danseilio tystiolaeth Feiblaidd y caeth-bleidwyr, ac yn fodd o hyrwyddo'u cred mai cyfrol wrth-gaethiwol oedd y Beibl, er gwaethaf yr adrannau lu a awgrymai'r gwrthwyneb.

Gwelwyd yn y bennod hon y modd yr esgorodd cyfraith wladol ar ymateb tanllyd, ac i nifer bwysu ar y Beibl er mwyn mynegi eu barn. Yn wir, gwelwyd hefyd ddefnydd o'r testunau a'r themâu Beiblaidd a drafodwyd ym mhenodau blaenorol y thesis hwn, mewn testunau amrywiol wrth ymateb i'r gyfraith a aethai'n groes i'r gallu uwch. Gan fod cyfraith ddiweddar yr Unol Daleithiau'n gwrthdaro â'r dwyfol, gallai'r Cymry gasglu y dylid ufuddhau i Dduw yn hytrach na dynion.

## Diwedd glo

Ond y mae ymdrech diflino y dyddiau hyn i wneud y tair [plaid wleidyddol: y Democratiaid, y Dimwybyddion a'r Gweriniaethwyr] yn un, ac aberthu pob gwahaniaeth, er mwyn sicrhau y fuddugoliaeth o blaid eu pwnc mawr, sef Caethiwed; am hynny, Werinwyr, 'byddwn bybur, ac ymwrolwn'—mae'r Beibl o'n tu.<sup>1</sup>

Brawddeg glo erthygl newyddiadurol a gyhoeddwyd yn *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* ym mis Hydref 1860, a drafodai'r etholiad arlywyddol a gynhelid ddechrau'r mis canlynol – yr etholiad a sicrhâi mai Abraham Lincoln a fuasai'n esgyn i'r Tŷ Gwyn – yw'r uchod. Mae'r dyfyniad fel petai'n crisialu pwnc canolog y thesis hwn, gan ei fod yn dangos yn eglur y modd yr oedd y dadleuon Beiblaidd yn ganolog i'r ffordd yr oedd Cymry America wedi ymateb i un o'r prif heriau a wynebai'r Unol Daleithiau. Bu iddynt adweithio mewn dull gwleidyddol drwy arddel eu pleidlais a chefnogi ymgeiswyr gwrth-gaethiwol. Ond gan fod problem caethwasiaeth yn fater crefyddol hefyd, credent fod ganddynt ddyletswydd Gristnogol i weithredu a bod y Beibl yn eu hannog i ymdrechu'n erbyn y drefn gaeth. Yn wir, tanlinellu'r wedd hon oedd diben dyfynnu 2 Samuel 10:12 uchod.<sup>2</sup> Dengys hyn drachefn pa mor ddylanwadol oedd Cristnogaeth ar gymdeithas America. Gan fod hynny hefyd yn adlewyrchiad o'r meddylfryd Anghydfurfiol ymysg y Cymry, nid rhyfedd, felly, i ieithwedd Feiblaidd a rethreg ddiwinyddol fritho'r dweud yn y cyfnodolion.

Dangosir yn y traethawd hwn fod crefydd yn ganolog i'r ddadl genedlaethol am gaethwasiaeth, a bod y wasg gyfnodol Gymraeg yn gyfrwng bywiog a roddai lwyfan i'r gwahanol ddisgyrsiau, gan gyfrannu, felly, at yr ymdrech barhaus i newid agwedd y cyhoedd Cymraeg tuag at 'bechod mwyaf ysgeler' y wlad.

Roedd y wedd grefyddol hefyd yn greiddiol i'r disgyrsiau a nodweddi'r bau gyhoeddus ddiddymol. Yn yr un modd â diddymwyr radicalaidd Saesneg America a ddefnyddiai'r ysgrifbin a'r diwylliant print i greu 'pau gyhoeddus' – cymuned o ddarllenwyr a fuasai â diddordeb mewn darllen a chyfrannu at drafodaeth gyfredol am gaethwasiaeth – aeth y Cymry ati hefyd i geisio hyrwyddo syniadau gwrth-gaethiwol drwy ddefnyddio dulliau

---

<sup>1</sup> 'Y Llywyddiaeth', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Hydref 1860), 395.

<sup>2</sup> Difyr yw nodi mai'r hyn a geir yn yr adnod wreiddiol yw 'bydd bybyr' a bod awdur yr erthygl hon wedi newid 'bod' o'r ail berson unigol yn y modd gorchmynnol i'r person cyntaf lluosog yn y modd gorchmynnol, 'byddwn bybyr', er mwyn cynnwys y darllenwyr ynghyd â'r awdur ei hun, ac i fod yn gydnaws â'r 'ymwrolwn' dilynol. Difyr hefyd yw nodi y ceir cryn newid yng ngeirfa'r adnod mewn rhai fersiynau diweddar y Beibl. Er enghraifft, noda'r Beibl Cymraeg Newydd (1988): 'Bydd yn wrol! Byddwn ddewr'.

cyffelyb.<sup>3</sup> Gan fod eu daliadau Cristnogol mor gryf, daeth crefydd yn nodweddiadol o'r bau gyhoeddus ddiddymol Gymraeg ac, o'r herwydd, y neges a fynegid drwodd a thro yn y cyfnodolion oedd bod caethwasiaeth yn gwbl groes i'r dwyfol, fel y datganodd George Roberts yn groyw yn ei ysgrif, 'Dilead Caethiwed': 'Caethiwed yw amddiffynfa gadarn *prif elyn* Duw a dynion yn ein gwlad; ac nid oes i ni feddwl y rhydd i fynu ei gastell heb wrthwynebu hyd a allo.'<sup>4</sup>

Mae'r thesis hwn, felly, wedi ceisio taflu goleuni ar agwedd ar hanes crefyddol a chymdeithasol Cymry America sydd heb ei thrin a'i thrafod yn helaeth yn y gorffennol. Yn ddiau, mae ysgolheigion megis Jerry Hunter, E. Wyn James a Rhiannon Heledd Williams wedi gwneud gwaith gwirioneddol arloesol ym maes llên a diwylliant Cymry America, ond hyd yn hyn, ni chafwyd astudiaeth gyflawn a ganolbwyntia ar ymateb crefyddol y mewnfudwyr Cymraeg i un o bynciau llosg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Sylwyd drwy gydol y thesis mai'r farn a fynegid gryfaf yn y wasg gyfnodol Gymraeg oedd bod y Beibl yn anghytuno â chaethwasiaeth. Nid oedd yr adnodau lu a ganolbwyntia ar sut y dylid trin caethion, nac ychwaith y ffaith fod ambell gymeriad nodedig yn y Beibl yn berchen ar gaethion, wedi mennu dim ar y safbwynt hwn. Yn wir, dengys y drafodaeth a geir yma y byddai'r rhan fwyaf o arweinwyr, awduron a llythyrwyr crefyddol Cymraeg yr Unol Daleithiau wedi ymateb i honiad bod y gyfrol sanctaidd yn cymeradwyo'r drefn fel '[e]nllib o'r mwyaf ar y Bibl'.<sup>5</sup>

Er mwyn astudio'r modd y gallai'r Cymry hyn gasglu nad oedd y Beibl yn bleidiol i gaethiwed, cymerwyd testun neu thema benodol fel sail pedair pennod gyntaf y thesis. Gwnaed hyn i werthfawrogi'r ffordd yr oedd testunau, delweddau a rethreg Feiblaidd yn arwyddocaol i fynegi'r safbwyntiau Cymraeg Americanaidd, yn ogystal ag ystyried yn llawn y math o effaith a gawsai pob testun a thema unigol.

Agwedd ddiddorol y sylwyd arni yn y bennod gyntaf yw'r modd y defnyddiai'r Cymry ddadleuon Beiblaidd y caeth-bleidwyr at ddibenion gwrth-gaethiwol. Gwelwyd hyn yn arbennig gyda'r enwau a ddefnyddient i gyfeirio at wahanol genhedloedd. Yn wahanol i'r caeth-bleidwyr, a ddefnyddiai'r ymadrodd 'hil Cham' i danlinellu'r felltith honedig ar yr

---

<sup>3</sup> Robert Fanuzzi, *Abolition's Public Sphere* (Minneapolis, MN: University of Minneapolis Press, 2003), 44-6; Jerry Hunter, 'Ymestyn Ffiniau'r "Bau Gyhoeddus" Ddiddymol: Gwasg yr Everettiadaid a Henry Highland Garnett', yn Daniel G. Williams (gol.), *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2010), 30.

<sup>4</sup> Geo. Roberts, 'Dilead Caethiwed', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1840), 186. Pwyslais yn y gwreiddiol.

<sup>5</sup> 'Y Traethawd Junius, Rhif 5', *Y Dyngarwr* (Rhagfyr 1843), 94.

Affricaniaid cyfoes fel cyfiawnhad i'w darostwng i gaethiwed, cyfeiriai'r Cymry at yr Affricaniaid fel disgynyddion Cham er mwyn pwysleisio tarddiad cyffredin dynoliaeth. Roedd y gred fod dynoliaeth gyfan yn perthyn i'r un ach yn arwyddocaol i'r gwrth-gaethiwy'r oherwydd bod hynny'n gwneud pawb a oedd ynghlwm â masnachu Affricaniaid Americanaidd yn euog o gam-drin eu teulu eu hunain. Yn hyn o beth, cyfeiriai'r Cymry atynt eu hunain yn aml fel 'hil Gomer' – disgynyddion mab hynaf Jaffeth, brawd Cham. Gallent felly bwysleisio bod pob cenedl yn tarddu o'r un man, bod dynoliaeth gyfan yn perthyn i'w gilydd, a chyda hynny, ysgogi hil Gomer yn America i ymdrechu'n daer er mwyn eu teulu estynedig, yr Affricaniaid Americanaidd.

Roedd mwyafrif helaeth y Cymry a gyfrannai i'r cyfnodolion hyn o safiad gwrth-gaethiwol, er, yn wir, i raddau amrywiol. Roedd y defnydd o'r ymadrodd 'hil Cham' mewn perthynas â 'hil Gomer' yn arwyddo'r daliadau hynny. Fodd bynnag, sylwyd hefyd ym mhenodau cyntaf y thesis y ceid eithriadau prin o dro i dro, fel y llythyrwr hwnnw a arddelai'r ffugenw 'Tudur'. Roedd 'Tudur' o'r farn nad oedd y Beibl yn condemnio caethwasiaeth ac, o'r herwydd, bod y gyfundrefn yn dderbyniol yn America. Teg fyddai dweud bod gwrth-gaethiwaeth yn adlewyrchu'r farn gyffredin ymysg hil Gomer, ond bod eithriad fel 'Tudur' yn hynod arwyddocaol am ei fod yn awgrymu nad oedd holl Gymry America yn gwrthwynebu caethwasiaeth, hyd yn oed wrth i'r Rhyfel Cartref ddynesu. Dengys hefyd fod rhai – diau mai lleiafrif oeddent – wedi parhau i barchu hawliau eiddo'r caethfeistri, ac wedi defnyddio'r Beibl i gyfiawnhau caethwasiaeth yn y Gymraeg.

Trafodwyd yn yr ail bennod y modd y cydiodd term a chysyniad arall o'r Beibl yn nychymyg y Cymry: y Jiwibili. Roedd y deddfau niferus yn y Pumllyfr a amodai sut i drin caethion yn dystiolaeth hwylus i'r caeth-bleidwyr gefnogi eu dadl, ond bu i'r gwrth-gaethiwy'r hefyd wneud defnydd o'r deddfau hynny at ddibenion cwbl wrth-gaethiwol. Y ddeddf a apeliai'n fawr at ddychymyg y Cymry, ac a oedd yn un o arwyddeiriau'r diddymwyr Saesneg a'r caethion eu hunain, oedd blwyddyn y Jiwibili. Roedd cynnwys y ddeddf yn cynnig delfryd i'r gwrth-gaethiwy'r ymlafnio tuag ati, a gwelwyd yn y bennod hon pa mor effeithiol fu'r cysyniad hwnnw'n ysgogi gweithgarwch llenyddol a gwleidyddol. Yn yr un modd, cydiodd cysyniad 'y gaethglud' ym meddwl Cymry America, fel y trafodwyd yn y drydedd bennod. Credid y gellid dwyn cymhariaeth rhwng yr Affricaniaid a gipiwyd o'u mamwlad a'u dadleoli ar gyfandir America, â phrofiad yr Iddewon yn cael eu cymryd yn groes i'w hewyllys o Jwda i Fabilon. Gwelwyd amrywiaeth barn ynglŷn â sawl caethglud a fu a sut brofiad oedd hynny i'r Iddewon. Ar y naill law, ystyrir ei fod yn ddigwyddiad

trychinebus a danseiliodd annibyniaeth yr Iddewon, ond ar y llaw arall, credid bod ganddynt gryn fesur o ryddid a breiniau yn ystod eu 'caethglud' ym Mabilon. O'r herwydd, gallai amryw gyfranwyr gasglu bod 'caethglud' yr Affricaniaid yn America'n waeth na'r 'caethglud' ym Mabilon, ac yn wir, yn waeth na'r modd y triniwyd yr Hebreaid yng Ngwlad yr Aifft.

Archwiliwyd yn y bedwaredd bennod ddefnydd y Cymry o'r Testament Newydd ac yn arbennig eu dealltwriaeth o ddysgeidiaeth Iesu mewn perthynas â chaethwasiaeth. Gan na lefarodd Iesu'r un gair o gondemniad, dadleuai'r caeth-bleidwyr ei fod felly'n fodlon goddef y gyfundrefn. Yr wrth-ddadl a gyflwynid gan y diddymwyr Cymraeg a Saesneg oedd bod corff dysgeidiaeth Iesu a hanfod Cristnogaeth yn gynhenid gyferbyniol i gaethwasiaeth. Gan hynny, ceid amryw'n galw ar i'r darllenwyr weithredu 'yn enw cyfiawnder, dynoliaeth a Christionogaeth',<sup>6</sup> ac yn dadlau oni weithredai Gristnogion, na ddeuai waredigaeth fyth i'r caethion: 'A phwy a ddysgwylir i'r maes at hyn os na ddaw Cristionogion?'<sup>7</sup>

Sylwyd ar y gwahaniaeth mewn dulliau dehongli'r Beibl ymysg y gwrth-gaethiwyr Cymraeg a Saesneg. Wrth i ymgyrch diddymiaeth ddatblygu, yn enwedig o'r 1830au ymlaen, esblygodd dull y gwrth-gaethiwyr Saesneg o ymdrin â'r Beibl o fod yn destunol i fod yn fwy cysyniadol â'r pwys ar ganfod 'ysbryd yr efengyl'. Ni chafwyd newid i'r un graddau ymysg Cymry America. Yn wir, yr hyn a nodweddai'r Cymry gwrth-gaethiwol oedd eu tuedd i gyfeirio at destunau penodol y Beibl yn ogystal â hyrwyddo egwyddorion dyngarol cyffredinol a nodweddai ddysgeidiaeth Iesu.

Nodwedd arall a'i hamlygodd ei hun oedd bod peth gwahaniaeth rhwng y math o esboniadaeth Feiblaidd a geid ymysg y Cymry yn America a'r Cymry yn y famwlad. Gwelwyd hyn, er enghraifft, yn y bumed bennod gyda'r dehongliadau amrywiol o epistol Paul at Philemon. Perodd union berthynas Philemon â'r δούλος, Onesimus, i nifer o ddehongliadau gael eu cyflwyno. Dilynai amryw Gymry America'r ffrwd esboniadol ddiddymol a fynnai mai brawd Philemon ydoedd Onesimus ac nid ei gaethwas. Roedd y darlleniad hwnnw'n fodd o ddangos nad oedd Paul mewn gwirionedd wedi rhoi sêl ei fendith ar gaethwasiaeth am nad oedd wedi dychwelyd caethwas at ei feistr, ond yn hytrach, frawd bach at ei frawd mawr. Tua'r un cyfnod, ceid darlleniadau 'traddodiadol' ymysg Cymry'r famwlad, a ddeallai mai caethwas ffoedig oedd Onesimus ac i Paul ei dychwelyd at ei feistr.

---

<sup>6</sup> 'Cynadledd Genedlaethol Gwerinwyr Cymreig Pennsylvania', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1856), 437.

<sup>7</sup> T. B. T., 'Cymdeithas Wrthgaethiwawl Palmyra, Ohio', *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (Tachwedd 1842), 343.

Dengys hyn, felly, y modd y gallai esboniadau Beiblaidd amrywio'n fawr yn ôl cyd-destunau cymdeithasol a daearyddol.

Sylwyd hefyd yn y bennod hon ar radicaliaeth rhai Cymry America, a'r dylanwad a gawsent ar nifer o'u cydwladwyr wrth iddynt annog anufuddhau i'r gyfraith wladol. Gan fod Cyfraith Caeth Ffoëdig 1850 yn gorfodi'r gwrth-gaethiwyr i weithredu'n groes i'w daliadau, pwysleisid ei bod yn dderbyniol anufuddhau i'r gyfraith wladol oherwydd bod caethwasiaeth yn groes i Gristnogaeth, ac am fod Duw wedi gorchymyn gofalu am gaethion ffoëdig yn Deuteronomium 23:15. Gwell fyddai ufuddhau i Dduw yn hytrach na dynion.

Teg fyddai dweud bod y Beibl ei hun yn thema sy'n rhedeg fel llinyn arian drwy'r thesis hwn. Ymgyrch i ollwng y caethion o'u cadwynau ydoedd un y diddymwyr yn anad dim, ac un ddadl gyson dros sicrhau rhyddid i'r Affricaniaid Americanaidd oedd am iddynt ddiodeff anghyfiawnder drwy gael eu hamddifadu o'r Gair. Roedd hynny'n gymhelliant ychwanegol i'r Anghydfurfwyr Cymraeg weithredu, gan y byddai ymlafnio at ryddfrenio'r caethion yn gorfforol yn golygu eu rhyddhau'n ysbrydol hefyd.

Yng nghyd-destun y testunau a'r themâu Beiblaidd unigol, crybwyllwyd rôl yr eglwysi a'r gweinidogion yn ogystal yn yr ymdrech wrth-gaethiwol. Roedd y capel yn fan grefyddol a diwylliannol pwysfawr, a daethai'n lleoliad anhepgor ar gyfer cynnal cyfarfodydd gwrth-gaethiwol. Roedd y gweinidogion hefyd yn allweddol – yn arweinwyr cymdeithasol o bwys, yn hoelion wyth y wasg gyfnodol ac yn lladmeryddion yr ymgyrch diddymol. Ond cafwyd cryn drafod a gwrthdaro ynglŷn â rhan crefydd yn yr ymrafael am gaethwasiaeth. Dadleuai rhai mai mater gwleidyddol yn unig ydoedd a bod trafod caethiwed yn yr eglwysi'n fater o gymysgu crefydd â gwleidyddiaeth.<sup>8</sup> Serch hyn, teimlai nifer gynyddol o Gymry America, yn enwedig wrth i'r 1850au dreiglo heibio, ei bod yn rheidiol iddynt ystyried caethwasiaeth o bersectif crefydd, gan y byddai goblygiadau moesegol enfawr yn bod o adael i'r gyfundrefn barhau.

Mae'r thesis hwn, felly, yn ymgais i gynnig cyfraniad gwreiddiol at faes academaidd cyffrous sy'n parhau i dyfu. A chan fod 2015 yn nodi canrif a hanner ers i lywodraeth yr Unol Daleithiau gadarnhau'r Trydydd Gwelliant ar Ddeg i'r Cyfansoddiad, a ddiddymodd gaethwasiaeth, ymddengys fod testun y thesis yn amserol. Yn 2015 hefyd, pasiodd

---

<sup>8</sup> Er enghraifft: 'Cyhoeddiad yn erbyn Golygydd y Cenhadwr', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Tachwedd 1844), 348; 'Gwrthgaethiwaeth Politicaidd', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mehefin 1847), 171-2; 'Gwrthgaethiwed Politicaidd', *Y Seren Orllewinol* (Mehefin 1847), 141-2; 'Abolisioniaeth ac Abolisioniaid', *Y Drych* (15 Awst 1863), 248; D. Davies [Dewi Emllyn] (gol.), *Cofiant y Diweddar Barch. Robert Everett, D. D. a'i briod, Steuben, Swydd Oneida, N.Y. Yn Nghyd a Detholion o'i Weithiau Llenyddol* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1879), 184-5.



llywodraeth y Deyrnas Unedig Ddeddf Caethwasiaeth Fodern er mwyn mynd i'r afael â'r math newydd o gaethwasiaeth sy'n dyfod yn fwyfwy cyffredin.<sup>9</sup> Er bod tuedd gan rai i feddwl mai mater yn perthyn i oes dywyll yn y gorffennol yw caethwasiaeth, y gwir yw ei fod yn bwnc cyfoes sydd bellach wedi hawlio'i le ar yr agenda gwleidyddol a moesegol.

Yn sgil archwilio rôl anhepgor y Beibl yn y trafodaethau am gaethiwed y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyfyd cwestiynau ynghylch rôl y Beibl a chrefydd yn gyffredinol yn yr ymateb diweddar i gaethwasiaeth fodern, ac i ba raddau y mae'r wasg gyfnodol bellach wedi'i britho gan ieithwedd a syniadaeth Feiblaidd?

Yr hyn sy'n nodweddiadol yw'r gostyngiad sylweddol a fu ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn nifer y cyfnodolion Cymraeg a gyhoeddiad yn America ac, yn wir, yng Nghymru. Bellach, nid oes yr un cyfnodolyn Cymraeg ei iaith yn yr Unol Daleithiau. Mae papur newydd *Y Drych* yn parhau dan yr ennw *Ninnau*, ond ar wahân i'r teitl, ni cheir fawr o Gymraeg ar ei dudalennau. Gellid dadlau hefyd fod y wasg gyfnodol brint bellach ar drai yng Nghymru. Yr arwydd amlycaf o hyn yw bod y papur cenedlaethol, *Y Cymro*, bellach wedi darfod ei gylchrediad am y tro.<sup>10</sup>

Er hyn, cafwyd trafod mater caethwasiaeth fodern mewn rhai rhifynnau o'r *Cymro* cyn iddo ddod i ben; felly hefyd, mewn rhai cyfnodolion eraill megis y cylchgronau ar-lein, *Golwg360* a *Cymru Fyw*.<sup>11</sup> Fodd bynnag, prin y defnyddid cynseiliau crefyddol neu destunau

---

<sup>9</sup> Cadarnhawyd y Trydydd Gwelliant ar Ddeg ar 6 Rhagfyr 1865. Gweler:

<<https://www.archives.gov/founding-docs/amendments-11-27>> (Cyrchwyd 24 Medi 2017). Pasiwyd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ar 26 Mawrth 2015:

<[http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/pdfs/ukpga\\_20150030\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/pdfs/ukpga_20150030_en.pdf)> (Cyrchwyd 24 Medi 2017). Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (International Labour Organization) a'r sefydliad 'Walk Free', mewn partneriaeth â Chyfundrefn Ryngwladol Ymfudo (International Organization for Migration) amcangyfrifwyd i oddeutu 40.3 miliwn o bobl dros y byd i gyd ddioddef o gaethwasiaeth fodern yn ei hamrywiol ffurf yn 2016: 'Global estimates of modern slavery: Forced labour and forced marriage', (Geneva: International Labour Organization, 2017): <[http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/publication/wcms\\_575479.pdf](http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/publication/wcms_575479.pdf)> (Cyrchwyd 24 Medi 2017).

<sup>10</sup> 'Y Cymro – ar werth am y tro olaf?', *Golwg360* (29 Mehefin 2017)

<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/268458-y-cymro-ar-werth-am-y-tro-olaf>> (Cyrchwyd 1 Tachwedd 2017); 'Papur Y Cymro ar werth am y tro olaf', *Cymru Fyw* (29 Mehefin 2017)

<<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40437202>> (Cyrchwyd 1 Tachwedd 2017); Dylid nodi, fodd bynnag, bod ymdrech gyfredol gan fudiad 'Cyfeillion y Cymro', ac mae cynlluniau addawol i atgyfodi'r *Cymro* erbyn Mawrth 2018, ond bydd yn newid o fod yn wythnosolyn i fod yn fisolyn. 'Y Cymro yn dychwelyd ym mis Mawrth 2018', *Golwg360* (27 Tachwedd 2017)

<<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/506617-cymro-dychwelyd-mawrth-2018>> (Cyrchwyd 27 Tachwedd 2017).

<sup>11</sup> Er enghraifft, Karen Owen, 'Caethwasiaeth Cymru: Ymgyrch gan yr heddlu', *Y Cymro* (16 Hydref 2015), 3; 'Cyfraith newydd yn erbyn caethwasiaeth', *Golwg360* (25 Awst 2013)

<<https://golwg360.cymru/newyddion/prydain/119982-cyfraith-newydd-yn-erbyn-caethwasiaeth>> (Cyrchwyd 3 Hydref 2017); 'Cymru "ar flaen y gad" wrth daclo caethwasiaeth', *Golwg 360* (9

Beiblaidd i drafod y broblem gyfoes yn y cyfnodolion hyn. Tueddai'r erthyglau newyddiadurol sylwebu ar y mater a chyflwyno'r ffeithiau heb fath o rethreg grefyddol. Diau fod hyn yn adlewyrchu'r newid aruthrol yn hinsawdd grefyddol Cymru, gan iddi ddilyn trywydd cyffelyb i weddill Prydain a thyfu'n wlad gynyddol seciwlar. Gellid dadlau hefyd nad oes bellach angen defnyddio egwyddorion yr efengyl neu gyfeirio at rannau o'r Beibl i danlinellu anfoesoldeb caethwasiaeth gan fod hynny'n nodweddu'r *Zeitgeist* bresennol.

Mae grym crefydd yn y wasg wedi edwino, ond mae arweinwyr crefyddol ac eglwysi wedi parhau i ymateb i'r broblem gyfoes drwy ddefnyddio'r ysgrythurau. Yn anerchiad y cyn-Archesgob Barry Morgan i Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym mis Medi 2016, er enghraifft, trafodwyd y defnydd o'r Beibl mewn materion cymdeithasol cyfoes. Er mai'r prif destun dan sylw oedd perthynas pobl o'r un rhyw, cyfeiriodd y cyn-Archesgob at gaethwasiaeth a nodi bod y Beibl yn gwrthwynebu'r gyfundrefn. Yn ddiddorol ddigon, yr oedd un ddadl ganddo'n adleisio'r hyn a gyflwynid gan Gymry America: 'oherwydd [mae'r] Ysgrythurau yn eu cyfanrwydd [...] yn erbyn gormes, gorthrwm a chamdriniaeth.'<sup>12</sup>

Enghraifft arall o ymateb gan grefyddwyr, yw y cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant yng Nghadeirlan Aberhonddu ar 8 Gorffennaf 2016 gan yr Eglwys yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o gamdriniaeth y mae pobl yn ei dioddef, gan gynnwys caethwasiaeth, masnachu mewn pobl a chamdriniaeth ar-lein. Ynghyd â chodi ymwybyddiaeth am yr heriau cyfoes a nodwyd, diben y diwrnod hyfforddiant oedd sicrhau cynnal trafodaeth am rôl yr eglwys fel noddfa yng nghanol yr agweddau negyddol hyn ar gymdeithas, a phwysleisio dyletswydd Cristnogion i gynorthwyo'r sawl sydd dan anfantais.<sup>13</sup>

Yn yr un modd ag y penderfynwyd canolbwyntio ar gyfnod hanesyddol cyfyngedig, felly hefyd oherwydd cyfyngder gofod yn yr astudiaeth hon, rhaid oedd canolbwyntio ar ddetholiad o themâu a thestunau Beiblaidd. Ar gyfer ymchwil pellach, byddai'n ddiddorol archwilio'r defnydd a wnaed yn y cyfnodolion o gysyniadau Beiblaidd eraill. Er enghraifft, ceid testunau'n trafod dyfodiad y Rhyfel Cartref fel 'rhyfel sanctaidd'. Cyfeirid hefyd yn achlysurol at rai caethferched a gordderchwragedd y Beibl, megis Hagar. Yn y cyswllt hwn, gellid ymchwilio'n fanylach i rôl y merched yn yr ymgyrch diddymol Cymraeg gan ystyried

---

Mawrth 2017) <<https://golwg360.cymru/newyddion/gwleidyddiaeth/256786-cymru-ar-flaen-y-gadwrth-daclo-caethwasiaeth>> (Cyrchwyd 3 Hydref 2017); 'Galwad i daclo caethwasiaeth yng Nghymru', *Cymru Fyw* (23 Ionawr 2015) <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/30943405>> (Cyrchwyd 3 Hydref 2017); 'Arestio pump mewn cyrch caethwasiaeth fodern ym Mhenfro', *Cymru Fyw* (17 Mai 2017) <<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39953571>> (Cyrchwyd 3 Hydref 2017).

<sup>12</sup> <<http://cristnogaeth21.cymru/anerchiad-yr-archesgob/>> (Cyrchwyd 20 Hydref 2017).

<sup>13</sup> <<http://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/news/2016/06/o-gaethwasiaeth-i-ddigidol-yr-eglwys-yn-rhoi-sylw-i-berylon-cam-driniaeth/>> (Cyrchwyd 20 Hydref 2017).

yn arbennig pa fath o destunau a ddefnyddient hwy. Er enghraifft, a fyddent yn tueddu i ddefnyddio rhai testunau neu gysyniadau penodol yn fwy nag eraill, a sut yr oedd hynny'n ymdebygu neu'n wahanol i arferion y diddymwyr gwrywaidd.

Trywydd posibl arall fyddai dwyn cymhariaeth rhwng defnydd Cymry America o destunau Beiblaidd a chysyniadau Cristnogol wrth ymateb i gaethwasiaeth yr oes, â'r defnydd a wnaed ymysg cymunedau eraill yn America a siaradai iaith Geltaidd. Er enghraifft, y mae Sheila M. Kidd eisoes wedi dechrau gwneud gwaith i'r ymateb ymysg Albanwyr Gaeleg i gaethwasiaeth ym Mhrydain ac America.<sup>14</sup> Difyr o beth, felly, fuasai ystyried a oedd unrhyw gyfatebiaethau neu wahaniaethau nodweddiadol rhwng dulliau'r gwahanol genhedloedd Celtaidd yn y gwasgariad o drin y Beibl mewn perthynas â chaethwasiaeth.

Ymgais yw'r thesis hwn, felly, i daflu goleuni ar agwedd ar faes llên a diwylliant Cymraeg America nad yw wedi'i thrafod mewn cryn fanylder yn y gorffennol. Gan fod y Beibl yn ffynhonnell awdurdodol yn y disgyrsiau bob ochr i'r ddadl am gaethwasiaeth America, arwyddocâd y thesis hwn yw amlygu'r drafodaeth grefyddol honno ar dudalennau gwasg Gymraeg America, a chyda hynny ddangos pa mor debyg neu wahanol yr oedd defnydd y Cymry America o rai themâu a thestunau Beiblaidd i'r defnydd ymysg y caethbleidwyr a'r gwrth-gaethiwyr Saesneg. Felly hefyd, i ba raddau yr oedd yr Americanaid Cymraeg hyn yn debyg neu'n wahanol i ysgolheictod Beiblaidd diweddar.

Fodd bynnag, y mae union gyfraniad y Beibl a Christnogaeth at yr ymdrech i ddiddymu caethwasiaeth wedi cael ei herio gan rai ysgolheigion diweddar, megis Hector Avalos, a ddywed:

Biblical and Christian ethics were not a major factor in explaining the triumph of abolitionism between 1775 and 1863 or in any other period. The Bible had been around for some 1800-1900 years before that, and slavery had predominated during that time.<sup>15</sup>

Diau i amryw ffactorau ddylanwadu ar y broses i ddiddymu caethwasiaeth, a bod gan Avalos sail i'w ddadl, yn enwedig o gofio i'r Beibl gael ei gamddefnyddio gan gynifer i gyfiawnhau caethwasiaeth gyhyd. Serch hyn, nid oes amheuaeth nad oedd y Beibl, moeseg

---

<sup>14</sup> Ymysg ei hastudiaethau diweddar, y mae: S. M. Kidd, 'Displacing clearance? A nineteenth-century essay on slavery', yn G. Munro a R. A. V. Cox (goln), *Cànan & Cultar / Language & Culture. Rannasachadh na Gàidhlig 4* (Edinburgh: Dunedin Academic Press, 2006), 55-66; Sheila M. Kidd, 'Early Gaelic periodicals: knowledge transfer and impact', yn C. O Baoill a N. McGuire (goln), *Proceedings of Rannasachadh na Gàidhlig 6* (Aberdeen: University of Aberdeen, 2013), 177-206.

<sup>15</sup> Hector Avalos, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011), 285.

Gristnogol ac yn wir, y diwylliant Anghydfurfiol yn arwyddocaol i Gymry America wrth iddynt ymateb i gaethwasiaeth gyfoes. Er bod eithriadau prin i'w cael, roedd mwyafrif hil Gomer yr Unol Daleithiau'n wrth-gaethiwyr a gredai fod y Beibl yn llwyr 'o'[u] tu'. Yn wir, y gred gyffredin oedd bod angen cefnogaeth gan y dwyfol, ynghyd â gweithredu eu hunain, er mwyn dod â thro ar fyd. A chyda Datganiad Rhyddid Lincoln a therfyn y Rhyfel Cartref, credai cyfran helaeth yr Americanwyr Cymraeg fod Duw wedi gwranddo ar eu gweddïau, ac iddynt hwythau gyflawni eu dyletswydd Gristnogol; fel y casglodd y Parch. E. R. Lewis (Iorwerth Callestr) mewn llythyr i'r *Cenhadwr Americanaidd* ym mis Mai 1865:

Yr ydym yn gweled fod miliynau gwedd[i]au pobl Dduw trwy'r byd yn cael eu hateb, mewn modd digon amlwg i'r mwyaf anghrediniol weled. [...] Ceir rhyddid ac iawnder mwy, i bob lliw a gradd. [...] Ein dymuniad cywir fel Crist'nogion ddylai fod, cydnabod llaw yr Arglwydd yn ddiolchgar yn yr oll. Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd, i *ddynion* ewylllys da.<sup>16</sup>

---

<sup>16</sup> E. R. Lewis, 'Y Newyddion Da', *Y Cenhadwr Americanaidd* (Mai 1865), 152. Pwyslais yn y gwreiddiol.

# Llyfryddiaeth

## Ffynonellau Cynradd

### Cyfnodolion

#### *Canolog*

*Y Cenhadwr Americanaidd*

*Y Cyfaill o'r Hen Wlad*

*Y Drych*

*Y Dyngarwr*

*Y Seren Orllewinol*

*Y Traethodydd yn America*

#### *Cysylltiedig*

*Frederick Douglass' Paper*

*Greal y Bedyddiwr*

*National Anti-slavery Standard*

*The Liberator*

*The National Era*

*The North Star*

*The True Wesleyan*

*Y Dysgedydd*

*Y Gwladgarwr*

*Yr Amserau*

### Llyfrau a phamffledi crefyddol sy'n trafod caethwasiaeth

Allen, Isaac, *Is Slavery Sanctioned by the Bible?* (Boston, MA: American Tract Society, 1860).

Barnes, Albert, *An Inquiry into the Scriptural Views of Slavery* (Philadelphia, PA: Perkins & Purves, Chestnut Street, 1846).

Beecher, Charles, *The Duty of Disobedience to Wicked Laws. A Sermon on the Fugitive Slave Law* (Newark, NJ: J. McIvaine, 1851).

Blanchard, J., a N. L. Rice, *A Debate on Slavery: Held in the city of Cincinnati, on the first, second, third, and sixth days of October, 1845, upon the question: Is slave-holding in itself sinful, and the relation between master and slave, a sinful relation?* (Cincinnati, OH: W. H. Morris & Co. Publishers, 1846).

Bledsoe, Albert Taylor, *An Essay on Liberty and Slavery* (Philadelphia, PA: J. B. Lippincott & Co., 1856).

Bledsoe, Albert Taylor, 'Liberty and Slavery; or, Slavery in the Light of Moral and Political Philosophy', yn E. N. Elliott (gol.), *Cotton is King, and Pro-slavery arguments; Comprising the writings of Hammond, Harper, Christy, Stringfellow, Hodge, Bledsoe, and Cartwright, on this important subject* (Augusta, GA: Pritchard, Abbott & Loomis, 1860), 269-458.

Bourne, George, *A Condensed Anti-Slavery Bible Argument; By a Citizen of Virginia* (New York: S. W. Benedict, 1845).

Brookes, Iveson L., *A Defense of Southern Slavery, against the Attacks of Henry Clay and Alex'r Campbell* (Hamburg, SC: Robinson and Carlisle, 1851).

Child, David, *Oration in Honor of Universal Emancipation in the British Empire, Delivered at South Reading, August First, 1834* (Boston, MA: Garrison and Knapp, 1834).

Child, L. Maria, *The Duty of Disobedience to the Fugitive Slave Act: An Appeal to the Legislatures of Massachusetts* (Boston, MA: The American Anti-Slavery Society, 1860).

Clark, Rufus W., *Conscience and Law. A Discourse Preached in the North Church, Portsmouth, New Hampshire on Fast Day, April 3, 1851* (Boston, MA: Tappan & Whittemore, 1851).

Coleman, Elihu, *A Testimony against the Anti-Christian Practice of Making Slaves of Man, wherein it is shewed to be contrary to the dispensation of the law and time of the Gospel, and very opposite both to grace and nature* (New-Bedford, MA: Abraham Sherman, 1825; adargraffiad).

Colver, Nathaniel, *The Fugitive Slave Bill; or, God's Laws Paramount to the Laws of Men* (Boston, MA: J. M. Hewes, 1850).

Crummell, Alexander, 'The Negro Race Not Under a Curse: An Examination of Genesis IX. 25', *The Future of Africa, being Addresses, Sermons, etc., etc., Delivered in the Republic of Liberia* (New York: Negro Universities Press, 1862), 327-54.

Dabney, Robert L., *A Defense of Virginia, and through her, of the South, in Recent and Pending Contests against the Sectional Party* (New York: E. J. Hale & Son, 1867).

Fee, John Gregg, *An Anti-Slavery Bible Manual* (New York: Arno & New York Times, 1848).

Fletcher, John, *Studies on Slavery, in Easy Lessons* (Natchez, MI: Jackson Warner, 1852).

Flournoy, J. J., *A Reply, to a Pamphlet, Entitled "Bondage, a Moral Institution, Sanctioned by the Scriptures and the Saviour, &c., &c." So far as it attacks the principles of Expulsion. With no defense, however, of Abolitionism* (Athens, GA: Sine nomine, 1838).

Hamilton, W. T., *The Duties of Masters and Slaves Respectively: or Domestic Servitude as Sanctioned by the Bible: A Discourse, delivered in the Government-Street Church, Mobile, Ala* (Mobile, AL: F. H. Brooks, 1845).

Hopkins, John Henry, *A Scriptural, Ecclesiastical, and Historical View of Slavery, from the Days of the Patriarch Abraham, to the Nineteenth Century. Addressed to the Right Rev. Alonzo Potter, D.D., Bishop of the Prot. Episcopal Church, in the Diocese of Pennsylvania* (New York: W. I. Pooley & Co., 1864).

Hosmer, William, *The Higher Law, in its relations to civil government: with particular reference to slavery, and the Fugitive Slave Law* (Auburn, NY: Derby & Miller, 1852).

Jones, John Richter, *Slavery, Sanctioned by the Bible. The First Part of a General Treatise on the Slavery Question* (Philadelphia, PA: J. P. Lippincott & Co., 1861).

Lawrence, John, *The Slavery Question* (Dayton, OH: Vonnieda & Kumler, Agents, 1854; ail argraffiad).

Priest, Josiah, *Bible Defense of Slavery; or the origin, history, and fortunes of the Negro race, as deduced from history, both sacred and profane, their natural relations—moral, mental, and physical—to the other races of mankind, compared and illustrated—their future destiny predicted, etc.* (Louisville, KY: J. F. Brennan, 1851).

Ross, Fred A., *Slavery Ordained of God* (Philadelphia, PA: J. B. Lippincott, 1857).

Scribner, L. W., *Review of the Rev. U. C. Burnap's Sermon on Bible Servitude* (Lowell, MA: J. G. Pillsbury, 1844).

Sewall, Samuel, *The Selling of Joseph* (Boston, MA: Bartholomew Green and John Allen, 1700).

Sloan, James A., *The Great Question Answered; or, Is Slavery a Sin in Itself?* (Memphis, TN: Hutin, Gallaway & Co., 1857).

Stringfellow, Thornton, *Scriptural and Statistical Views in Favor of Slavery* (Richmond, VA: J. W. Randolph, 1856; pedwerydd argraffiad gydag ychwanegiadau).

Stringfellow, Thornton, *Slavery, Its Origin, Nature, and History Considered in the Light of Bible Teachings, Moral Justice, and Political Wisdom* (New York: John F. Trow, 1861).

Stuart, Moses, *Conscience and the Constitution with Remarks on the Recent speech of the Hon. Daniel Webster in the Senate of the United States on the subject of Slavery* (Boston, MA: Crocker & Brewster, 1850).

Thompson, Joseph P., *The Fugitive Slave Law, Tried by the Old and New Testaments* (New York: Mark H. Newman & Co., 1850).

Walker, David, *Walker's Appeal, in four articles, together with a Preamble to the Coloured Citizens of the world, but in particular and very expressly to those of the United States of America. Written in Boston, in the State of Massachusetts, Sept. 28<sup>th</sup>, 1829* (Boston, MA: Printed for the author, 1829).

Weld, Theodore D., *The Bible Against Slavery. An Inquiry into the Patriarchal and Mosaic Systems on the subject of Human Rights* (New York: The American Anti-Slavery Society, 1838; pedwerydd argraffiad).

*Report of the Discussion on American Slavery, in Dr. Wardlaw's Chapel, Between Mr. George Thompson, and the Rev. R. J. Breckinridge, of Baltimore, United States, on the Evenings of the 13th, 14th, 15th, and 17th June, 1836* (Glasgow: David Prentice and Co., 1836).

## **Esboniadau a Geiriaduron Beiblaidd**

Barnes, Albert, *Notes on the Book of Revelation: Explanatory and Practical* (London ac Edinburgh: Gall & Inglis, 1852).

Calmet, Augustin, *Calmet's Dictionary of the Holy Bible* (Boston, MA: Crocker & Brewster, 1835; seithfed argraffiad).

Charles, Thomas, *Geiriadur Ysgrythyrol: yn cynnwys hanesiaeth, duwinyddiaeth, athroniaeth, a beirniadaeth ysgrythyrol* (Wrexham: Hughes & Son, 1885; seithfed argraffiad).

Clarke, Adam, 'Philemon', yn *Adam Clarke's Commentary on the Bible*, 6 chyfrol, <<http://www.studylight.org/commentaries/acc/philemon-1.html>>; cyrchwyd 28 Ebrill 2017.

Henry, Matthew, *Dehongliad, ar Y Bibl Sanctaidd, sef yr Hen Destament a'r Newydd, lle y ceir sylwedd pob pennod yn ei chynnwysiad, y testyn cysegredig wedi ei argraffu yn gyflawn, yn ol y cyfieithiad awdurdodedig, yn wahanranau cyfaddas; a phob gwahanran wedi ei threfnu yn benau priodol: yr ystyr hefyd yn cael ei roddi a'i eglurhau; mewn Sylwadau helaeth ar bob Rhan o'r Pennodau; yn llythyrenol ac ysbrydol; gyda lliaws o agoriadau Athrawiaethol ac Ymarferol oddi wrth y cwbl. Cyfrol II* (cyfieithiad y Parchn. E. Griffiths, G. Burder a Joseph Hughes; Abertawy: E. Griffiths, 1831).

Hughes, James [Iago Trichrug], *Y Testament Newydd, Gyda noda eglurhaol ar bob adnod; wedi eu detholi, a'u cyfieithu i'r Gymraeg, Gan y Parch. James Hughes, Gweinidog yr Efengyl yn Llundain; allan o waith Poole, Scott, Guyse, a Doddridge; y'nghyd a holl Nodau Cyfeiriol y dywededig Barch. T. Scott, Cyfrol I* (Wyddgrug: J. Lloyd, 1835).

Jones, John [Idrisyn], *Y Dehonglydd Beirniadol, neu eglurhad manwl ar bob adnod yn y Testament Newydd, er gwasanaeth yr Ysgolion Sabbothol. Cyfrol I. O Genesis hyd Deuteronomium* (Wrexham: Hughes & Son, 1865; pumed argraffiad).

Jones, Owen [Meudwy Môn], *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynnwys nodiadau beirniadol ar y rhanau anhawddaf eu deall o ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament, a'r Newydd. Wedi eu casglu o waith yr Awdwyr gorau, hen, a diweddar. Cyfrol I* (Wyddgrug: H. ac O. Jones, 1838).

-----, *Esboniad ar y Bibl Sanctaidd, yn cynnwys nodiadau beirniadol ar y rhanau anhawddaf eu deall o ysgrythyrau sanctaidd yr Hen Destament, a'r Newydd. Wedi eu casglu*



*o waith yr Awdwyr gorau, hen, a diweddar, gan Owen Jones. Cyfrol III* (Wyddgrug: H. ac O. Jones, 1858).

Kitto, John, *The Pictorial Bible being the Old and New Testaments according to the authorized version illustrated with steel engravings and many hundred wood-cuts representing landscape scenes, and subjects of natural history, costume and antiquities with original notes, explanatory of passages commented with the History, Geography, Natural History, Literature and Antiquities of the Sacred Scriptures. A new edition with additional notes, based on the discoveries of recent travellers in four volumes. Vol. 1* (London: W. & R. Chambers, 1855).

Morgan, David, *Esboniad ar y Datguddiad, a chymaint o Lyfr Daniel a fernir sydd yn dal perthynas a'r amseroedd hyn; mewn amryw ddarlithoedd* (Dolgellau: Evan Jones, Heol Meurig, 1844).

Robinson, John, *A Theological, Biblical, and Ecclesiastical Dictionary: Serving as a general note-book to illustrate the Old and New Testament as a Guide to the practices and opinions of all sects and as a Cyclopaedia of Religious Knowledge* (London: G. Sidney, Northumberland, 1815).

Scott, Thomas, *The Holy Bible containing the Old and New Testaments, according to the Authorized Version; with explanatory notes, practical observations, and copious marginal references, by Thomas Scott, Rector of Aston Sandford, Bucks* (Boston, MA: Samuel T. Armstrong, and Crocker and Brewster, 1824).

-----, *The Holy Bible; containing the Old and New Testaments, according to the Authorized Version: with explanatory notes, practical observations and copious marginal references, by the late Rev. Thomas Scott, Rector of Aston Sandford, Bucks. A New Edition, with the author's last corrections and improvements; and eighty-four illustrated maps and engravings. Volume VI* (London: James Nisbet and Co., 1866).

Watson, Richard, *A Biblical and Theological Dictionary: Explanatory of the History, Manners, and Customs of the Jews, and Neighbouring Nations, with an account of the most remarkable places and persons mentioned in sacred scripture; an Exposition of the Principal Doctrines of Christianity; and notices of Jewish and Christian Sects and Heresies* (London: John Mason, 1832).

-----, *A Biblical and Theological Dictionary: Explanatory of the History, Manners, and Customs of the Jews, and Neighbouring Nations. With an account of the most remarkable places and persons mentioned in sacred scripture; an exposition of the principal Doctrines of Christianity: and notices of Jewish and Christian sects and heresies* (New York: H. Waugh and T. Mason, 1833; argraffiad diwygiedig Americanaidd).

Williams, Robert, *Corph o Dduwinyddiaeth, neu Draethawd ar Etholedigaeth a Rhagarfaethiad; a'r pynciau eraill sydd yn ymddibynnu ar hynny, megis y gosodir allan yn y ddau Destament: sef yr Hen a'r Newydd* (Bangor: John Brown, 1831).

## Cyhoeddiadau eraill

Allen, William Frances, *Slave Songs of the United States* (New York: Cosimo, 2009; argraffiad gwreiddiol ym 1867).

Brown, William W. (gol.), *The Anti-Slavery Harp: A Collection of Songs for Anti-Slavery Meetings Compiled by William W. Brown, A Fugitive Slave* (Boston, MA: Bela Marsh, 1849; ail argraffiad).

Davies, D. [Dewi Emlyn] (gol.), *Cofiant y Diweddar Barch. Robert Everett, D. D. a'i briod, Steuben, Swydd Oneida, N.Y. Yn Nghyd a Detholion o'i Weithiau Llenyddol* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1879).

Davis, Evan, *Dyddiadur Rhyfel Cartref Evan Davis, Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru Ffacs. 647.*

Davies, Robert [Bardd Nantglyn], *Diliau Barddas; sef, Gwaith Barddonawl: yn cynnwys Odlau, Cywyddau, Englynion, Carolau, a Dyriau, ar wahanol destunau* (Dinbych: Thomas Gee, 1827).

Derfel, R. J., *Brad y Llyfrau Gleision* (Rhuthyn: L. Clarke, 1854).

Douglass, Frederick, *Life and Times of Frederick Douglass: Written by Himself* (Boston, MA: De Wolfe & Fiske Co., 1892).

Emory, John (gol.), *The Works of the Reverend John Wesley, A. M., cyf. IV* (New York: J. Emory and B. Waugh, 1831).

Everett, Robert, *Caban F'Ewythr Twm; neu, Fywyd yn mhlith yr Iselradd. Gan Harriet Beecher Stowe. Gyda Naw-ar-hugain o Gerfluniau* (Renssen, NY: J. R. Everett, 1854).

Garrison, William Lloyd, *Selections from the Writings and Speeches of William Lloyd Garrison* (Boston, MA: B. F. Wallcut, 1852).

Horsley, Samuel, *The Speeches in Parliament of Samuel Horsley, LL. D. F. R. S. F. A. S. Late Bishop of St. Asaph* (Dundee: Robert Stephen Rintoul, 1813).

Levi, Thomas, *Crynodeb o Gaban 'Newythr Twm* (Abertawe: J. Rosser, 1853).

Jones, Thomas Ll. (gol.), *Ceinion Awen y Cymmry: sef, detholiad o waith y beirdd godidocaf, hen a diweddar; gyda Chyfieithiadau o Ganiadau Seisonig, ac hefyd Bryddestau Cyssefin* (Dinbych: Thomas Gee, 1831).

Lord, John C., *Memoir of John C. Lord, D. D. Pastor of the Central Presbyterian Church for thirty-eight years* (Buffalo, NY: The Courier, Printers, 1878).

May, Samuel a Henry Wadsworth Longfellow, *The Fugitive Slave Law and its Victims* (New York: American Anti-Slavery Society, 1856).

Milner, Joseph, *History of the Church of Christ. Volume the first. Containing the three first centuries* (Boston, MA: Farrand, Mallory, and Co. Suffolk Buildings, 1809).

More, Hannah ac Eaglesfield Smith, *The Sorrows of Yamba; or, the Negro Woman's Lamentation* (London: J. Marshall et al., 1797).

Rees, William [Gwilym Hiraethog], *Aelwyd F'Ewythr Robert: Neu, Hanes Caban F'Ewythr Tomos* (Dinbych: Thomas Gee, 1853).

Roberts, David [Dewi Ogwen], *Caban f'ewythr Tomos, neu, Hanes Caethwas Crist'nogol: sef, Dynoethiad o'r gaethfasnach yn ei gwahanol gysylltiadau; yr hyn a rydd olwg ar brynwyr a gwerthwyr dynion, teimladau rhwygedig y gwerthedig, pan werthir rhieni oddiwrth eu plant, a phlant oddiwrth rieni, brodyr oddiwrth eu gilydd, &c.: yr ymdrechion a wneir am ryddid; yn nghyda'r creulondeb a arferir wrth ddal y ffoaduriaid, &c.* (Caernarfon: Hugh Humphreys, 1853?).

Scott, Thomas, *The Theological Works of the Rev. Thomas Scott, Author of a Commentary on the Bible* (Edinburgh: Stirling & Kenney, and Wagh & Innes, 1829).

Sheldon, L. H., *The Moral Responsibility of the Citizen and Nation in Respect to the Fugitive Slave Bill* (Andover, MA: John D. Flagg, 1851).

Stowe, Harriet Beecher, *Uncle Tom's Cabin; or, life among the lowly* (Boston, MA: John P. Jewett and Company, 1853).

Stroud, George M., *A Sketch of the Laws Relating to Slavery in the Several States of the United States of America* (Philadelphia, PA: Kimber and Sharpless, 1827).

Thomas, R. D. [Iorthryn Gwynedd], *Hanes Cymry America; a'u sefydliadau, eu heglwysi, a'u gweinidogion, eu cerddorion, eu beirdd a'u llenorion: yn nghyda thiroedd rhad y llywodraeth a'r reilffyrdd; gyda phob cyfarwyddiadau rheidiol i ymfudwyr i sicrhau cartrefi rhad a dedwyddol. Cyfrol I* (Utica, NY: T. J. Griffiths, 1872).

Ussher, James, *The Annals of the World* (London: E. Tyler, 1658),  
<<https://archive.org/stream/AnnalsOfTheWorld/Annals#page/n0/mode/2up>>; cyrchwyd 1 Awst 2016.

Watson, Richard, *Sermons and Sketches of Sermons, Vol. 1* (New York: B. Waugh and T. Mason, 1836).

Whiston, William (gol.), *Gweithiau Flavius Josephus, yn cynnwys Hynafiaethau yr Iuddewon, yn nghyda Hanes eu Rhyfeloedd hyd Ddinystr Jerusalem, Traethawd Josephus ar Hades, mewn atebiad i'r Groegiaid; ac Amddiffyniad Josephus i Hynafiaethau yr Iuddewon, yn erbyn Apion; yn nghydag Amddiffyniad i dystiolaethau Josephus, o berthynas i Iesu Grist, Ioan Fedyddiwr, ac Ioan y cyfiawn[;] Cyfieithiad o'r Groeg a'r Hebraeg, yn nghyda Nodiadau Eglurhaol, Hanesyddol, Bywgraphyddol, a Daearyddol; Testunau Cyfeiriol o'r Ysgrhythrau, ac Amseryddiaeth Cywir yr Amrywiol Hanesion, Hefyd Mynegai Cyflawn o'r Holl Waith* (Caernarfon: H. Humphreys, 1860).

Williams, Hugh, *Caban F'Ewyrth Twm* (Llundain: John Cassell, 1853).

## **Ffynonellau Eilaidd**

### **Llyfrau**

Ackroyd, Peter R., *Exile and Restoration: A Study of Hebrew Thought of the Sixth Century* (Philadelphia, PA a Westminster: SCM Press Ltd., 1986).

Albertz, Rainer, *Israel in Exile: The History and Literature of the Sixth Century B.C.E.* (cyfieithiad David Green; Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 2003).

Alexander, Loveday C. A., *Acts in its Ancient Literary Context[:] A Classicist Looks at the Acts of the Apostles* (London: T & T Clark International, 2005).

Alter, Robert, *The Five Books of Moses* (New York: W. W. Norton & Company, 2008).

Anderson, Benedict, *Imagined Communities: Reflections on the Origin and Spread of Nationalism* (London: Verso, 2016; pedwerydd argraffiad).

Anderson, B. W., *The Living World of the Old Testament* (Essex: Pearsons Education, 1988; pedwerydd argraffiad).

Applegate, Debby, *The Most Famous Man in America: The Biography of Henry Ward Beecher* (New York: Doubleday, 2006).

Armstrong, Karen, *In The Beginning: A New Interpretation of Genesis* (London: Vintage Books, 2011; ail argraffiad).

Aune, David E., *Word Biblical Commentary: Revelation 17-22* (Nashville, TN: T. Nelson, 1998).

Avalos, Hector, *Slavery, Abolitionism, and the Ethics of Biblical Scholarship* (Sheffield: Sheffield Phoenix Press, 2011).

Bancroft, Frederic, *Slave Trading in the Old South* (New York: Frederick Ungar, 1931; adargraffiad).

Barstad, Hans M., *The Myth of the Empty Land: A Study in the History and Archaeology of Judah During the "Exilic" Period* (Oslo: Scandinavian University Press, 1996).

Bartchy, S. S., *ΜΑΛΛΟΝ ΧΡΗΣΑΙ: First-Century Slavery and 1 Corinthians 7:21* (Missoula, MT: Scholars Press, 1973).

Beale, G. K., *The Book of Revelation: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI/Carlisle, Cumbria: Wm. B. Eerdmans Publishing Co./Paternoster Press, 1999).

Beare, Francis Wright, *The Gospel according to Matthew: A Commentary* (Oxford: Basil Blackwell Publisher, 1981).

- Bellinger, Jr., W. H., *New International Biblical Commentary: Leviticus and Numbers* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, Inc., 2001).
- Bergsma, J. S., *The Jubilee from Leviticus to Qumran: A History of Interpretation* (Leiden a Boston, MA: E. J. Brill, 2007).
- Berman, Joshua A., *Created Equal: How the Bible Broke with Ancient Political Thought* (New York: Oxford University Press, 2008).
- Blight, David W., *Frederick Douglass' Civil War: Keeping Faith in Jubilee* (Baton Rouge, LA: Louisiana State University Press, 1991; argraffiad clawr meddal).
- Blue, Frederick J., *The Free Soilers: Third Party Politics, 1848-54* (Urbana, IL: University of Illinois Press, 1973).
- Botham, Fay, *Almighty God Created the Races: Christianity, Interracial Marriage, and American Law* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina, 2009).
- Bright, John, *A History of Israel* (London: SCM Press, 1978; argraffiad wedi'i adolygu).  
-----, *The Authority of the Old Testament* (London: SCM Press, 1967).
- Brophy, Alfred L., *University, Court & Slave: Pro-slavery thought in Southern Colleges & Courts & the Coming of Civil War* (New York: Oxford University Press, 2016).
- Brown, Francis (gol.), *The Brown-Driver-Briggs Hebrew and English Lexicon with an appendix containing the Biblical Aramaic* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, 2014; pymthegfed argraffiad).
- Bruce, F. F., *The Acts of the Apostles: The Greek Text with Introduction and Commentary* (London: The Tyndale Press, 1951).
- Bruce, F. F., *Paul, Apostle of the Free Spirit* (Exeter: Paternoster, 1977).
- Budge, E. A. Wallis, *A History of Ethiopia* (London: Methuen, 1928).  
----- (gol.), *The Queen Sheba and Her Only Son Menyelek* (Cambridge, ON: In Parenthesis Publications, 2000).
- Caird, G. B., *Paul's Letters from Prison (Ephesians, Philippians, Colossians, Philemon) in the Revised Standard Version* (Oxford: Oxford University Press, 1976).
- Callahan, Allen Dwight, *Embassy of Onesimus: The Letter of Paul to Philemon* (Valley Forge, PA: Trinity Press International, 1997).  
-----, *The Talking Book: African Americans and the Bible* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2006).
- Campbell, Stanley W., *Slave Catchers: Enforcement of the Fugitive Slave Law, 1850-1860* (Chapel Hill, NC: The University of North Carolina Press, 1970).

Cassuto, Umberto, *A Commentary on the Book of Exodus* (cyfieithiad Israel Abrahams; Jerusalem: Magnes Press, 1967).

-----, *A Commentary on the Book of Genesis* (cyfieithiad Israel Abrahams; Jerusalem: Magnes Press, 1964).

Childs, Brevard S., *The Book of Exodus: A Critical, Theological Commentary* (Philadelphia, PA: Westminster Press, 1974).

Chirichigno, Gregory C., *Debt-Slavery in Israel and the Ancient Near East* (Sheffield: JSOT Press, 1993).

Christensen, Duane L., *Word Biblical Commentary: Deuteronomy 21:10-34:12* (Nashville, TN: Thomas Nelson Publishers, 2002).

Clements, Ronald E., *The Book of Deuteronomy: A Preacher's Commentary* (Peterborough: Epworth Press, 2001).

Coffey, John, *Exodus and Liberation: Deliverance Politics from John Calvin to Martin Luther King Jr.* (New York: Oxford University Press, 2014).

Cohen, H. Hirsch, *The Drunkenness of Noah* (Tuscaloosa, AL: University of Alabama Press, 1974).

Colaiaco, James A., *Frederick Douglass and the Fourth of July* (New York: Palgrave MacMillan, 2006).

Collison, Gary, *Shadrach Minkins: From Fugitive Slave to Citizen* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1998).

Conway, Alan a T. Arwyn Watkins, *Hanes yr Unol Daleithiau* (Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1965).

Coogan, M. D., *West Semitic Personal Names in the Murašû Documents* (Missoula, MT: Scholar Press, 1976).

Cover, Robert M., *Justice Accused: Antislavery and the Judicial Process* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 1975).

Davies, Eirug, *Y Winllan Well: America'r Cymry* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2015).

Davies, E. W., *Biblical Criticism: A Guide for the Perplexed* (London: Bloomsbury, 2013).

-----, *New Century Bible Commentary: Numbers* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 1995).

-----, *Prophecy and Ethics: Isaiah and the Ethical Traditions of Israel* (Sheffield: JSOT Press, 1981).

- Davies, Margaret, *Matthew* (Sheffield: JSOT Press, 1993).
- Davis, David Brion, *Inhuman Bondage: The rise and fall of slavery in the New World* (New York ac Oxford: Oxford University Press, 2006).
- , *The Problem of Slavery in the Age of Revolution 1770-1823* (New York ac Oxford: Oxford University Press, 1999).
- , *The Problem of Slavery in Western Culture* (New York ac Oxford: Oxford University Press, 1988).
- Day, J., *Psalms* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1992).
- de Vaux, R., *Ancient Israel: Its Life and Institutions* (London: Darton, Longman & Todd, 1961).
- Donovan, Patrick J. a Gwyn Thomas, *Gweledigaethau y Bardd Cwsg: Y Rhan Gyntaf* (Llandysul: Gomer, 1991).
- Dunn, J. D. G., *The Epistle to the Colossians and to Philemon: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI a Carlisle: Wm. B. Eerdmans, 1996).
- Eaklor, Vicki Lynn (gol.), *American Anti-Slavery Songs: A Collection and Analysis* (Westport, CT: Greenwood Press, 1988).
- Edwards, James R., *The Gospel according to Mark* (Grand Rapids, MI a Cambridge: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2002).
- Edwards, O. M. (gol.), *Beirdd y Bala* (Llanuwchllyn: Ab Owen, 1911).
- (gol.), *Gwaith Samuel Roberts (S. R.)* (Llanuwchllyn: Ab Owen, 1906).
- Ellis, E. Earle, *The Gospel of Luke: New Century Bible Commentary* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 1996; adargraffiad wedi'i adolygu).
- Epstein, I. (gol.) *Hebrew-English Edition of the Babylonian Talmud* (cyfieithiad Jacob Schachter ac H. Freedman; London: The Soncino Press, 1969).
- Evans, Craig A., *Word Biblical Commentary: Mark 8:27-16:20* (Nashville, TN: Thomas Nelson, 2001).
- Evans, D. Gareth, *A History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1989).
- Evans, Owen, *Y Llythyrau Paulaid* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984).
- Evans, Theophilus, *Drych y Prif Oesoedd, yn ddwy ran* (Croesoswallt: W. Edwards, 1795; ail argraffiad).
- Fager, Jeffrey A., *Land Tenure and the Biblical Jubilee: Uncovering Hebrew Ethics through the Sociology of Knowledge* (Sheffield: JSOT Press, 1993).

Fanuzzi, Robert, *Abolition's Public Sphere* (Minneapolis, MN: University of Minneapolis Press, 2003).

Filler, Louis, *The Crusade Against Slavery 1830-1860* (London: Hamish Hamilton, 1960).

Finkelman, Paul, *An Imperfect Union: Slavery, Federalism, and Comity* (Union, NJ: The Lawbook Exchange, 2000).

Fish, Stanley, *Is There a Text in this class?: The Authority of Interpretive Communities* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1980).

Fitzmyer, J. A., *The Letter to Philemon: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2000).

Ford, Lacy K., *Deliver us from Evil: The Slavery Question in the Old South* (Oxford: Oxford University Press, 2009).

Fox, Richard Wightman, *Jesus in America: Personal Savior, Cultural Hero, National Obsession* (New York: Harper SanFrancisco, 2004).

Freedman, H. a Maurice Simon (goln), *Midrash Rabbah, Genesis* (London: The Soncino Press, 1939).

Gagnon, Robert A., *The Bible and Homosexual Practice: Texts and Hermeneutics* (Nashville, TN: Abingdon Press, 2001).

Garnsey, Peter, *Ideas of slavery from Aristotle to Augustine* (New York: Cambridge University Press, 1999; adargraffiad).

Garrett, Duane A., *A Commentary on Exodus* (Grand Rapids, MI: Kregel Publications, 2014).

Gaventa, Beverly Roberts, *The Acts of the Apostles* (Nashville, TN: Abingdon Press, 2003).

Genovese, Eugene D., *A Consuming Faith: The Fall of the Confederacy in the Mind of the White Christian South* (Athens, GA: University of Georgia Press, 1998).

-----, *Roll, Jordan, Roll: The World the Slaves Made* (New York: Pantheon Books, 1974; ail argraffiad).

-----, *From Rebellion to Revolution: Afro-American Slave Revolts in the Making of the Modern World* (Baton Rouge, LA: Louisiana State University Press, 1980).

Glancy, Jennifer A., *Slavery as a Moral Problem: In the Early Church and Today* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2011).

-----, *Slavery in Christianity* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006).

Glaude Jr., Eddie S., *Exodus!: Religion, Race, and Nation in Early Nineteenth-Century Black America* (Chicago: University of Chicago Press, 2000).



Goldenberg, David M., *The Curse of Ham: Race and Slavery in Early Judaism, Christianity, and Islam* (Princeton, NJ ac Oxford: Oxford University Press, 2003).

Goldingay, John E., *Word Biblical Commentary: Daniel* (Waco, TX: Thomas Nelson, Inc., 1989).

Goulder, Michael D., *The Psalms of the Return (Book V, Psalms 107-150)* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998).

Grabbe, Lester L. (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998).

Grant, Susan-Mary, *A Concise History of the United States of America* (New York: Cambridge University Press, 1993; adargraffiad).

Graves, Robert a Raphael Patai, *Hebrew Myths: The Book of Genesis* (Manchester: Carcanet, 2005; ail argraffiad).

Greenberg, M., *The Hap/biru* (New Haven, CT: American Oriental Society, 1955).

Greengus, Samuel, *Laws in the Bible and in Early Rabbinic Collections: The Legal Legacy of the Ancient Near East* (Eugene, OR: Cascade Books, 2011).

Halbertal, Moshe ac Avishi Margalit, *Idolatry* (cyfieithiad Naomi Goldburn; Cambridge, MA a London: Harvard University Press, 1992).

Hanke, Lewis, *Aristotle and the American Indians: A Study in Race Prejudice in the Modern World* (Chicago: Henry Regnery Company, 1959).

Hannaford, Ivan, *Race: The History of an Idea in the West* (Baltimore, MD: John Hopkins University Press, 1996).

Harrill, J. Albert, *Slaves in the New Testament: Literary, Social, and Moral Dimensions* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2006).

Haynes, Stephen R., *Noah's Curse: The Biblical Justification of American Slavery* (New York: Oxford University Press, 2002).

Holifield, E. Brooks, *Theology in America: Christian Thought from the Age of the Puritans to the Civil War* (New Haven, CT a London: Yale University Press, 2003).

Holub, Robert C., *Reception Theory* (London: Routledge, 2010).

Houtman, C., *Exodus: Volume 3*, (Leuven: Peters Publishers, 1999).

Howard-Pitney, David, *The Afro-American Jeremiah: Appeals for Justice in America* (Philadelphia, PA: Temple University Press, 1990).

Hunter, Jerry, *I Ddeffro Ysbryd y Wlad: Robert Everett a'r Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth Americanaidd* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2007).

-----, *Llwch Cenhedloedd: Y Cymry a Rhyfel Cartref America* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2004; ail argraffiad).

-----, *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh Writing from the Civil War* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).

Hyatt, J. Philip, *Commentary on Exodus* (London: Oliphants, 1971).

James, E. Wyn, *Dechrau Canu: Rhai Emynau Mawr a'u Cefndir* (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Efengylaidd Cymru, 1993).

Janzen, J. Gerald, *Exodus* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 1997).

Johansen, Jerald Ray, *A Commentary on the Pearl of Great Price* (Bountiful, UT: Horizon Publishers & Distributors, Inc., 1998; trydydd argraffiad).

Johnson, Thomas F., *1, 2, And 3 John* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, Inc., 1993).

Jones, Aled a Bill Jones, *Welsh Reflections: Y Drych & America 1851-2001* (Llandysul: Gomer, 2001).

Jones, Aled Gruffydd, *Press, Politics and Society: A History of Journalism in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1993).

Jones, Aled Llion, *Darogan: Prophecy, Lament, and Absent Heroes in Medieval Welsh Literature* (Cardiff: University of Wales Press, 2013).

Jones, Gareth Lloyd, *Detholion o Lyfr Jeremeia* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2003).

Jones, Maldwyn A., *The Limits of Liberty: American History 1607-1980* (New York: Oxford University Press, 1988; pedwerydd argraffiad).

Jones, T. M., *Llenyddiaeth Fy Ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry* (Treffynnon: P. M. Evans a'i Fab, 1893).

Jones, William D., *Wales in America: Scranton and the Welsh 1860-1920* (Cardiff: University of Wales Press/University of Scranton Press, 1993).

Jordan, Winthrop, *White Over Black: American Attitudes toward the Negro* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 1968).

Kaiser, Jr., Walter C., *Toward Old Testament Ethics* (Grand Rapids, MI: Zondervan, 1991).

Kidd, Colin, *The Forging of Races: Race and Scripture in the Protestant World, 1600-2000* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006).

Kling, David W., *The Bible in History: How the Texts Have Shaped the Times* (New York: Oxford University Press, 2004).

Knight III, George W., *New International Greek Testament Commentary: The Pastoral Epistles* (Grand Rapids, MI: Eerdmans, 1992).

Knox, John, *Philemon among the Letters of Paul: A New View of Its Place and Importance* (Chicago: University of Chicago Press, 1935).

Knox, R. Buick, *James Ussher Archbishop of Armagh* (Cardiff: University of Wales Press, 1967).

Kovacs, Judith a Christopher Rowland (goln), *Revelation: The Apocalypse of Jesus Christ* (Malden, MA: Blackwell Publishing, 2004).

Kugel, James L., *The Bible as it Was* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1997).

Kugel, James L., *Traditions of the Bible: A Guide to the Bible as it was at the start of the Common Era* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1998).

Kytle, Ethan J., *Romantic Reformers and the Antislavery Struggle in the Civil War* (New York: Cambridge University Press, 2014).

Levine, Lawrence W., *Black Culture and Black Consciousness: Afro-American Folk Thought from Slavery to Freedom* (New York: Oxford University Press, 2007; argraffiad 30ain mlwyddiant).

Lewis, Jack P., *A Study of Interpretation of Noah and the Flood in Jewish and Christian Literature* (Leiden: E. J. Brill, 1978).

Lewis, Ronald L., *Welsh Americans: A History of Assimilation in the Coalfields* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 2008).

Lieu, Judith M., *The Theology of the Johannine Epistles* (Cambridge a New York: Cambridge University Press, 1991).

Lings, K. Renato, *Love Lost in Translation: Homosexuality and the Bible* (Bloomington, IN: Trafford Publishing, 2013).

Lowance Jr., Mason I. (gol.), *Against Slavery: An Abolitionist Reader* (New York: Penguin Books, 2000).

----- (gol.), *A House Divided: The Antebellum Slavery Debates in America, 1776-1865* (Princeton, NJ ac Oxford: Princeton University Press, 2003).

Lubet, Steven, *Fugitive Justice: Runaways, Rescuers, and Slavery on Trial* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 2010).

Lundbom, Jack R., *Deuteronomy: A Commentary* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2013).

Luz, Ulrich, *Matthew 1-7: A Commentary* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2007).

-----, *Matthew 21-28: A Commentary* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2005).

Macfarlane, Robert, *Original Copy: Plagiarism and Originality in Nineteenth-Century Literature* (New York: Oxford University Press, 2007).

Martin, R. P., *Colossians and Philemon* (London: Oliphants, 1974).

Mayes, A. D. H., *Deuteronomy: Based on the Revised Standard Version* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 1981).

McKivigan, John R., *The War against Proslavery Religion: Abolitionism and the Northern Churches, 1830-1865* (Ithaca, NY: Cornell University Press, 2009).

McPherson, James, *Battle Cry of Freedom: The Civil War Era* (Oxford: Oxford University Press, 1988).

McQueen, Keven, *Cassius M. Clay "Freedom's Champion": The life-story of the famed Kentucky emancipationist* (Paducah, KY: Turner Publishing Company, 2001).

Mendelssohn, Isaac, *Slavery in the Ancient Near East: A Comparative Study of Slavery in Babylonia, Assyria, Syria, and Palestine from the middle of the third millennium to the end of the first millennium* (Westport, CT: Greenwood Press, Publishers, 1978; adargraffiad).

Merrill, Walter M. (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume III: No Union with Slaveholders, 1841-1849* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1973).

Merrill, Walter M. (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume V: Let the Oppressed Go Free* (Cambridge, MA: The Belknap Press of Harvard University, 1979).

Meyer, Henry, *All on Fire: William Lloyd Garrison and the abolition of slavery* (New York: St Martin's Press, 1998).

Midgley, Clare, *Women Against Slavery: The British Campaigns, 1780-1870* (London a New York: Routledge, 1992).

Migliore, David L., *Philippians and Philemon: Belief: A Theological Commentary on the Bible* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2014).

Milgrom, J., *Leviticus 23-27: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2001).

Miller, J. M. a J. H. Hayes, *A History of Ancient Israel and Judah* (London: SCM Press, 1986).

- Millward, E. G., *Cenedl o Bobl Ddewrion: Agweddau ar lenyddiaeth Oes Victoria* (Llandysul: Gomer, 1991).
- Morgan, D. Densil (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004).
- , *Wales and the Word: Historical Perspectives on Religion and Welsh Identity* (Cardiff: University of Wales Press, 2008).
- Morris, Jon (gol.), *Nennius: British History and the Welsh Annals* (Surrey: Phillimore & Co. Ltd., 1980).
- Morris, Thomas D., *Southern Slavery and the Law, 1619-1860* (Chapel Hill, NC: University of North Carolina Press, 1981).
- Moses, Wilson Jeremiah, *Black Messiahs and Uncle Toms: Social and Literary Manipulations of a Religious Myth* (University Park, PA: Pennsylvania State University Press, 1982).
- Moxnes, Halvor, *A Short History of the New Testament* (London: I. B. Tauris, 2014).
- Nelson, Richard D., *Deuteronomy: A Commentary* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 2002).
- Nicholson, Ernest W., *The Book of the Prophet Jeremiah: Chapters 26-52* (London: Cambridge University Press, 1975).
- Noll, Mark A., *America's God: From Jonathan Edwards to Abraham Lincoln* (New York: Oxford University Press, 2002).
- , *The Civil War as a Theological Crisis* (Chapel Hill, NC: The University of North Carolina Press, 2006).
- Nolland, John, *The Gospel of Matthew: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2005).
- Noonan, Jr., John T., *A Church That Can and Cannot Change: The Development of Catholic Moral Teaching* (Notre Dame, IN: University of Notre Dame Press, 2005).
- North, R., *Sociology of the Biblical Jubilee* (Rome: Pontifical Biblical Institute, 1954).
- Noth, M., *Exodus: A Commentary* (cyfieithiad J. S. Bowden; Philadelphia, PA: Westminster Press, 1962).
- Oates, Stephen B., *To Purge This Land With Blood: A Biography of John Brown* (Amherst, MA: The University of Massachusetts Press, 1984; ail argraffiad).
- O'Brien, Peter T., *Word Biblical Commentary: Colossians, Philemon* (Nashville, TN: Thomas Nelson, Publisher, 1982).

Oded, Bustaney, *Mass Deportations in the Neo-Assyrian Empire* (Wiesbaden: Ludwig Reichert, 1979).

Oshatz, Molly, *Slavery and Sin: The Fight Against Slavery and the Rise of Liberal Protestantism* (New York: Oxford University Press, 2011).

Parfitt, Tudor, *Black Jews in Africa and the Americas* (Cambridge, MA a London: Harvard University Press, 2013).

Parris, David Paul, *Reception Theory and Biblical Hermeneutics* (Eugene, OR: Pickwick Publications, 2009).

Patrick, Dale, *Old Testament Law* (Atlanta, GA: John Knox Press, 1985).

Paul, S., *Studies in the Book of the Covenant in the Light of Cuneiform and Biblical Law* (Leiden: E. J. Brill, 1970).

Perfait, Claire, *The Publishing History of Uncle Tom's Cabin, 1852-2002* (Aldershot: Ashgate, 2007).

Pervo, Richard I., *Acts: A Commentary* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2009).

Peterson, David G., *The Acts of the Apostles* (Nottingham/Grand Rapids, MI: Apollos/Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2009).

Peterson, Thomas Virgil, *Ham and Japheth: The Mythic World of Whites in the Antebellum South* (Metuchen, NJ a London: The Scarecrow Press, Inc. and The American Theological Library Association, 1978).

Peterson, Norman R., *Rediscovering Paul: Philemon and the Sociology of Paul's Narrative World* (Eugene, OR: Wipf and Stock Publishers, 2008; ail argraffiad).

Phillips, Anthony, *Deuteronomy* (Cambridge: Cambridge University Press, 1973).

Pritchard, J. B. (gol.), *Ancient Near Eastern Texts: Relating to the Old Testament* (Princeton, NJ: Princeton University Press, 1955; ail argraffiad).

Propp, William H. C., *Exodus 19-40: A New Translation with Introduction and Commentary* (New York: Doubleday, 2006).

Raboteau, Albert J., *Slave Religion: The "Invisible Institution" in the Antebellum South* (New York: Oxford University Press, 2004; argraffiad wedi'i ddiweddarau).

Rawley, James A., *Race and Politics: "Bleeding Kansas" and the Coming of the Civil War* (Lincoln, NE a London: University of Nebraska Press, 1979).

Rayback, Joseph G., *Free Soil: The Election of 1848* (Lexington, KY: University Press of Kentucky, 1971).

- Rhys, Robert, *Llên y Llenor: James Hughes ('Iago Trichrug')* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2007).
- Robertson, John M., *Christianity and Mythology* (London: Watts & Co., 1910; ail argraffiad).
- Rogerson, J. W. a J. W. McKay, *Psalms 101-150* (Cambridge: Cambridge University Press, 1977).
- Romelli, Ilaria L. E., *Social Justice and the Legitimacy of Slavery: The Role of Philosophical Asceticism from Ancient Judaism to Late Antiquity* (Oxford: Oxford University Press, 2016).
- Roth, Martha T., *Law Collections from Mesopotamia and Asia Minor* (Atlanta, GA: Society of Biblical Literature, 1997; ail argraffiad).
- Ruchames, Louis (gol.), *Racial Thought in America, vol. 1, From the Puritans to Abraham Lincoln* (Boston, MA: University of Massachusetts Press, 1969).
- (gol.), *The Letters of William Lloyd Garrison, Volume IV: From Disunionism to the Brink of War, 1850-1860* (Cambridge, MA: Belknap Press of Harvard University, 1976).
- Sale, Maggie Montesinos, *The Slumbering Volcano: American Slave Ship Revolts and the Production of Rebellious Masculinity* (Durham, NC a London: Duke University Press, 1997).
- Scheil, Andrew, *Babylon Under Western Eyes: A Study of Allusion and Myth* (Toronto, Buffalo, NY a London: University of Toronto Press, 2016).
- Schwartz, Regina M., *The Curse of Cain: The Violent Legacy of Monotheism* (Chicago a London: Chicago University Press, 1997).
- Scott, James M. (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish, and Christian Conceptions* (Leiden, New York a Köln: E. J. Brill, 1997).
- Sernett, Milton C., *North Star Country: Upstate New York and the Crusade for African American Freedom* (Syracuse, NY: Syracuse University Press, 2002).
- Sinclair, T. A. (gol. a chyfieithydd), *Aristotle: The Politics* (London: Penguin Books, 1992; adargraffiad).
- Sinha, Manisha, *The Slave's Cause: A History of Abolition* (New Haven a London: Yale University Press, 2016).
- Smith, J. Shelton, *In His Image, But ... Racism in Southern Religion, 1780-1910* (Durham, NC: Duke University Press, 1972).
- Sollors, Werner, *Neither Black nor White yet both: Thematic Explorations of Interracial Literature* (Cambridge, MA: Harvard University Press, 1997).
- Stopler, Matthew W., *Entrepreneurs and Empire: The Murašû Archive, the Murašû Firm, and Persian Rule in Babylonia* (Leiden: Nederlands Historisch-Archaeologisch Instituut te Istanbul, 1985).

Stowe, David W., *Song of Exile: The Enduring Mystery of Psalm 137* (New York: Oxford University Press, 2016).

Swartley, Willard, *Slavery, Sabbath, War and Women: Case Issues in Biblical Interpretation* (Scottsdale, PA: Herald Press, 1983).

Tadman, Michael, *Speculators and Slaves: Masters, Traders, and Slaves in the Old South* (Madison, WI: University of Wisconsin Press, 1989).

Taylor, John M., *William Henry Seward: Lincoln's Right Hand* (Washington, DC: Brassey's, 1991).

Thatcher, Adrian, *Savage Text: The Use and Abuse of the Bible* (Chichester: Wiley-Blackwell, 2008).

Thisleton, Anthony C., *The First Epistle to the Corinthians: A Commentary on the Greek Text* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 2000).

Thomas, Hugh, *The Slave Trade: The History of the Atlantic Slave Trade, 1440-1870* (London: Simon & Schuster Inc., 1997).

Thompson, J. A., *Deuteronomy: An Introduction and Commentary* (London: Inter-Varsity Press, 1974).

Tigay, Jeffrey, *The JPS Torah Commentary: Deuteronomy דברים* (Philadelphia, PA: The Jewish Publication Society, 1996).

Tise, Larry E., *Proslavery: A History of the Defense of Slavery in America, 1701-1840* (Athens, GA a London: The University of Georgia Press, 1987).

Torrey, Charles C., *Ezra Studies* (New York: KTAV Publishing House, Inc., 1970).

Towner, Phillip H., *The Letters to Timothy and Titus* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans, 2006).

Tsai, Daisy Yiun, *Human Rights in Deuteronomy: With Special Focus on Slave Laws* (Berlin: Walter de Gruyter, 2014).

Tushnet, Mark V., *The American Law of Slavery, 1810-1860: Considerations of Humanity and Interest* (Princeton, NJ: Princeton University Press, 1981).

von Rad, Gerhard, *Deuteronomy: A Commentary* (cyfieithiad Dorothea Barton; Philadelphia, PA: The Westminster Press, 1966).

-----, *Genesis: A Commentary* (cyfieithiad John H. Marks; Kent: W. & J. Mackay & Co. Ltd., 1963).

Wakelyn, Jon L. (gol.), *America's Founding Charters: Primary Documents of Colonial and Revolutionary Era Governance, Volume 1* (Westport, CT: Greenwood Press, 2006).



Walters, Ronald G., *The Antislavery Appeal: American Abolitionism After 1830* (New York a London: W. W. Norton & Company, Inc., 1978).

Watts, John D. W., *Word Biblical Commentary: Isaiah 34-66* (Waco, TX: Word Books, Publisher, 1987).

Weinfeld, M., *Deuteronomy and the Deuteronomistic School* (Winona Lake, IN: Oxford University Press, 1992; adargraffiad).

-----, *Social Justice in Ancient Israel and in the Ancient Near East* (Jerusalem: Magens Press / Minneapolis, MN: Fortress Press, 1995).

Weiser, Artur, *The Psalms: A Commentary* (cyfieithiad Herbert Hartwell; Philadelphia, PA: SCM Press, 1962).

Wellhausen, J., *Prolegomena to the History of Ancient Israel* (New York: Meridan Books, 1957).

Wenham, Gordon P., *Word Biblical Commentary: Genesis 1-15* (Waco, TX: Word Books, 1987).

Westbrook, R., *Studies in Biblical and Cuneiform Law* (Paris: J. Gabalda, 1988).

Westermann, C., *Genesis 1-11: A Commentary* (cyfieithiad John J. Scullion; Minneapolis, MN: Augsburg, 1985).

-----, *Slave Systems of Greek and Roman Antiquity* (Philadelphia, PA: The American Philosophical Society, 1955).

White, Eryn M., *The Welsh Bible* (Stroud, Gloucestershire: Tempus, 2007).

Whitford, David M., *The Curse of Ham in the Early Modern Era: The Bible and the Justification for Slavery* (Burlington, VT: Ashgate, 2009).

Williams, Catrin Haf, *Llyfr Datguddiad* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2002).

Williams, David, *Cymru ac America/Wales and America* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1975; pedwerydd argraffiad).

Williams, Glanmor, *Religion, Language, and Nationality in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1979).

-----, *Samuel Roberts, Llanbrynmair* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1950).

-----, *Y Baradwys Bell?* (Caerdydd: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig, 1976).

Williams, Rhiannon Heledd, *Cyfaill Pwy o'r Hen Wlad? Gwasg gyfnodol Gymraeg America 1838-1866* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2017).

Wilson, R. McL., *A Critical and Exegetical Commentary on Colossians and Philemon* (Cornwall: T & T Clark Int., 2005).

Witherington III, Ben, *Revelation* (Cambridge, MA: Cambridge University Press, 2003).

-----, Ben, *The Letters to Philemon, the Colossians, and the Ephesians: A Socio-Rhetorical Commentary on the Captivity Epistles* (Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 2007).

Wright, Christopher J. H., *Deuteronomy: New International Biblical Commentary* (Peabody, MA: Hendrickson Publishers, 1996).

Zuckerman, Benedict, *A Treatise on the Sabbatical Cycle and the Jubilee* (New York: Sepher-Hermon Press, 1974; adargraffiad).

*Llyfr Emynu'r Methodistiaid Calфинаidd a Wesleiaidd* (London: Cymanfaoedd y Ddwy Eglwys, 1927).

### **Penodau ac Erthyglau mewn llyfrau**

Balmer, Randall, 'Casting Aside the Ballast of History and Tradition: White Protestants and the Bible in the Antebellum Period', yn Vincent L. Wimbush (gol.), *African Americans and the Bible: Sacred Texts and Social Textures* (New York a London: The Continuum International Publishing Group Inc., 2000), 193-200.

Baumgarten, Albert I., 'Myth and Midrash: Genesis 9:20-29', yn Jacob Neusner (gol.), *Christianity, Judaism and Other Greco-Roman Cults: Part 3, Judaism Before 70* (Leiden: E. J. Brill, 1975), 55-71.

Berlin, Adele, 'Psalms and the Literature of Exile: Psalms 137, 44, 69, and 78', yn Peter W. Flint a Patrick D. Miller, Jr (goln), *The Book of Psalms: Composition and Reception* (Leiden a Boston, MA: E. J. Brill, 2005), 65-71.

Carrol, Robert P., 'Exile! What Exile? Deportation and the Discourses of Diaspora', yn Lester L. Grabbe (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 62-79.

Clements, Ronald E., 'Deuteronomy', yn Leander E. Keck (gol.), *The New Interpreter's Bible*, Cyfrol II (Nashville, TN: Abingdon Press, 1998), 271-552.

Clines, David J. A. (gol.), 'עֲבָד', yn *The Dictionary of Classical Hebrew: Volume VI ט–פ* (Sheffield: Sheffield Phoenix Pres, 2007), 200-21.

Copher, Charles B., 'The Black Presence in the Old Testament', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 1991), 146-64.

Davies, E. W., 'Land: Its Rights and Privileges', yn R. E. Clements (gol.), *The World of Ancient Israel: Sociological, Anthropological and Political Perspectives* (Cambridge: Cambridge University Press, 1989), 349-69.

-----, 'Reader-Response Criticism and Old Testament Studies', yn Robert Pope (gol.), *Honouring the Past and Shaping the Future[:] Religious and Biblical Studies in Wales Essays in Honour of Gareth Lloyd Jones* (Leominster: Gracewing, 2003), 20-37.

Duncan, Jason K., 'Fugitive Slave Laws', yn Malcolm J. Rohrbough (gol.), *Encyclopedia of American History: Expansion and Reform 1813 to 1855, Volume 5* (New York: Facts on File, Inc., 2003), 154.

Felder, Cain Hope, 'Race, Racism, and the Biblical Narratives', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 1991), 127-45.

Finkelman, Paul, 'United States Slave Law', yn Robert L. Paquette a Mark M. Smith (goln), *The Oxford Handbook of Slavery in the Americas* (Oxford: Oxford University Press, 2016; fersiwn clawr meddal), 424-46.

Goldenberg, David M., 'What did Ham do to Noah?', yn Mauro Perani (gol.), *The Words of a wise man's mouth are gracious (Qoh. 10, 12)* (Berlin: Walter de Gruyter, 2005), 257-66.

Grabbe, Lester L., "'The Exile" under the Theodite: Historiography as Triangulation', yn Lester L. Grabbe (gol.), *Leading Captivity Captive: 'The Exile' as History and Ideology* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 80-100.

Gray, Melinda, 'Uncle Tom's Welsh Dress: Ethnicity, Authority and Translation', yn Aliyce von Rothkirch a Daniel G. Williams (goln), *Beyond the Difference: Welsh Literature in Comparative Contexts* (Cardiff: University of Wales Press, 2004), 173-85.

Greeley, Andrew M., 'Religion and Ethnicity', yn William Scott Green a Jacob Neusner (goln), *The Religion Factor: An Introduction to How Religion Matters* (Louisville, KY: Westminster John Knox Press, 1996), 3-14.

Greenfield, J. C., 'Asylum at Aleppo: A Note on Sefire III, 4-7', yn M. Cogan ac I. Eph'al (goln), *Ah, Assyria ... Studies in Assyrian History and Ancient Near Eastern Historiography Presented to Hayim Tadmor* (Jerusalem: Magnes Press, Hebrew University, 1991), 272-78.

Hoftijzer, J., 'Some Remarks to the Tale of Noah's Drunkenness', yn B. Gemser *et. al.*, *Studies on the Book of Genesis* (Leiden: E. J. Brill, 1958), 22-7.

Hunter, Jerry, "'What Can the Welsh Do?": Robert Everett and the Creation of a Welsh-American Abolition Movement, c.1840-4', yn T. M. Charles-Edwards a R. J. W. Evans (goln), *Wales and the Wider World: Welsh History in an International Context* (Donnington: Shaun Tyas, 2010), 157-83.

-----, 'Ymestyn Ffiniau'r "Bau Gyhoeddus" Ddiddymol: Gwasg yr Everettiaid a Henry Highland Garnett', yn Daniel G. Williams (gol.), *Canu Caeth: Y Cymry a'r Affro-Americaniaid* (Llandysul: Gomer, 2010), 26-38.

Jones, Aled, 'The Welsh Newspaper Press', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *A Guide to Welsh Literature, 1800-1900*, cyfrol 5 (Cardiff: University of Wales Press, 2000), 1-23.

Jones, Maldwyn A., 'Welsh Americans and the Anti-Slavery Movement', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* (1985), 105-29.

Kaiser Jr., Walter C., 'The Book of Leviticus', yn E. Keck (gol.), *The New Interpreter's Bible*, cyfrol 1 (Nashville, TN: Abingdon Press, 1994), 985-1191.

Kidd, S. M., 'Displacing clearance? A nineteenth-century essay on slavery', yn G. Munro a R. A. V. Cox (goln), *Cànan & Cultar / Language & Culture. Rannasachadh na Gàidhlig 4* (Edinburgh: Dunedin Academic Press, 2006), 55-66.

Kidd, Sheila M., 'Early Gaelic periodicals: knowledge transfer and impact', yn C. O Baoill a N. McGuire (goln), *Proceedings of Rannasachadh na Gàidhlig 6* (Aberdeen: University of Aberdeen Press, 2013), 177-206.

Lewis, Lloyd A., 'An African American Appraisal of the Philemon-Paul-Onesimus Triangle', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we Trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 1991), 232-46.

Levine, Baruch A., 'The Clan-Based Economy of Biblical Israel', yn William G. Dever a Seymour Gitin (goln), *Symbiosis, Symbolism, and the Power of the Past: Canaan, Ancient Israel and Their Neighbors from the Late Bronze Age through Roman Palaestina* (Winona Lake, IN: Eisenbrauns, 2003), 445-53.

Malick, Robert W., 'Free Soil Party', yn Spencer C. Tucker (gol.) *American Civil War: The Definitive Encyclopaedia and Document Collection* (Santa Barbara, CA: ABA-CLIO, 2013), 720.

Martin, Clarice J., 'The *Haustafeln* (Household Codes) in African American Biblical Interpretation: "Free Slaves" and "Subordinate Women"', yn Cain Hope Felder (gol.), *Stony the Road we trod: African American Biblical Interpretation* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 1991), 206-31.

Miller, Neil Brody, 'Higher Law and Antislavery', yn Peter Hinks a John R. McKivigan (goln), *Encyclopedia of Antislavery and Abolition* (Westport, CT: Greenwood Press, 2007), 327-30.

Mitchell, Laura L., "'Matters of Justice between Man and Man'[:] Northern Divines, the Bible, and the Fugitive Slave Act of 1850", yn John R. McKivigan a Mitchell Snay (goln), *Religion and the Antebellum Debate over Slavery* (Athens, GA: University of Georgia Press, 1998), 134-65.

Morris, L. L., 'Atonement', yn Sinclair B. Ferguson a David F. Wright (goln), *New Dictionary of Theology* (Downers Grove, ILL: Inter-Varsity Press, 1988), 54.

Patzia, A., 'Philemon, Letter to', yn Gerald F. Hawthorne a Ralph P. Martin (goln), *Dictionary of Paul and His Letters* (Downers Grove, ILL: Intervarsity Press, 1992), 703.

Powery, Emerson B., 'The Bible, Slavery, and Political Debate', yn Frances Flannery a Rodney A. Werline (goln), *The Bible in Political Debate: What Does it Really Say?* (London: Bloomsbury T & T Clark, 2016), 141-54.

Pressler, Carolyn, 'Wives and Daughters, Bond and Free: Views of Women in the Slave Laws of Exodus 21.2-11', yn Victor H. Matthews, Bernard M. Levinson a Tikva Frymer-Kensky (goln), *Gender and Law in the Hebrew Bible and the Ancient Near East* (Sheffield: Sheffield Academic Press, 1998), 147-72.

Raboteau, Albert J., 'African-Americans, Exodus, and the American Israel', yn Paul E. Johnson (gol.), *African-American Christianity* (London: The Regents of the University of California, 1994), 1-17.

Rashkow, Ilona N., 'Daddy-Dearest and the "Invisible Spirit of Wine"', yn Athalya Brenner (gol.), *Genesis: The Feminist Companion to the Bible* (Sheffield: Sheffield University Press, 1998), 82-107.

Rhys, Robert, 'Llenyddiaeth Gymraeg y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), 251-74.

Sarna, Nahum, 'The Anticipatory Use of Information as a Literary Feature of the Genesis Narratives', yn Richard Elliott Friedman (gol.), *The Creation of Sacred Literature: Composition and Redaction of the Biblical Text* (California a London: University of California Press, 1981), 76-84.

Scott, James M., 'Introduction', yn James M. Scott (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish and Christian Conceptions* (Leiden, New York a Köln: E. J. Brill, 1997), 1-4.

Smith-Christopher, Daniel L., 'Reassessing the Historical and Sociological Impact of the Babylonian Exile (597/587-539 B.C.E.)', yn J. M. Scott (gol.), *Exile: Old Testament, Jewish, and Christian Conceptions* (Leiden, New York a Köln: E. J. Brill, 1997), 7-36.

Stell, Dorah O'Donell, 'Exodus', yn Carol A. Newsom a Sharon H. Ringe (goln), *The Women's Bible Commentary* (London a Louisville, KY: SPCK / Westminster/John Knox Press, 1992), 26-35.

Tolmie, D. Francois, 'Tendencies in the Research on the Letter to Philemon since 1980', yn D. Francois Tolmie (gol.), *Philemon in Perspective: Interpreting a Pauline Letter* (Berlin a New York: Walter de Gruyter, 2010), 1-27.

van der Ploeg, J., 'Slavery in the Old Testament', yn P. A. H. Boer (gol.), *Congress Volume, Uppsala 1971* (Leiden: E. J. Brill, 1972), 72-87.

Walters, Huw, 'Y Gymraeg a'r Wasg Gylchgronol', yn Geraint H. Jenkins (gol.), *Gwnewch Bopeth yn Gymraeg: Yr Iaith Gymraeg a'i Pheuoedd 1801-1911* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999), 327-52.

Weiser, A., ‘δουλεία, ας, ἦ’, yn Horst Balz a Gerhard Schneider (goln), *Exegetical Dictionary of the New Testament Volume I* (Edinburgh: T & T Clark Ltd., 1990), 349-52.

Williams, Demetrius K., “‘No Longer as a Slave’: Reading the Interpretation History of Paul’s Epistle to Philemon”, yn Matthew V. Johnson, James A. Noel, a Demetrius K. Williams (goln), *Onesimus Our Brother: Reading Religion, Race, and Culture in Philemon* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2012), 11-45.

-----, ‘The Acts of the Apostles’, yn Brian K. Blount (gol.), *True to our Native Land: An African American New Testament Commentary* (Minneapolis, MN: Fortress Press, 2007), 213-48.

Williams, Rhiannon Heledd, ‘Whose Friend from the Old Country? The Welsh-Language American Press and National Identity in the 19th Century’, yn Michael Newton (gol.), *Celts in the Americas* (Sydney, NS: Cape Breton University Press, 2013), 270-82.

Wright, III, Benjamin G., ‘Ebed/Doulos: Terms and Social Status in the Meeting of Hebrew Biblical and Hellenistic Roman Culture’, yn Allen Dwight Callahan, Richard A. Horsley ac Abraham Smith (goln), *Semeia 83/84: Slavery in Text and Interpretation* (Atlanta, GA: The Society of Biblical Literature, 1998), 83-111.

Wright, Christopher J. H., ‘Jubilee, Year Of’, yn David Noel Freedman (gol.), *The Anchor Bible Dictionary: Volume 3 H-J* (New York: Doubleday, 1992), 1025.

‘δοῦλος, σύνδουλος, δούλη, δουλεύω, δουλεια, δουλόω, καταδουλόω, δουλαγωγέω, ὀφθαλμοδουλία’, yn Gerhard Kittel (gol.), *Theological Dictionary of the New Testament: Volume II* (cyfieithwyd a golygwyd gan Geoffrey W. Bromiley; Grand Rapids, MI: Wm. B. Eerdmans Publishing Co., 1964), 261-82.

### **Erthyglau mewn cyfnodolion**

Aaron, David H., ‘Early Rabbinic Exegesis on Noah’s Son Ham and the So-Called “Hamitic Myth”’, *Journal of the American Academy of Religion*, 63, rhif 4 (Winter 1995), 721-59.

Alexander, J. B., ‘A Babylonian Year of Jubilee?’, *Journal of Biblical Literature*, 57 (1938), 75-9.

Barclay, John M. G., ‘Paul, Philemon and the Dilemma of Christian-Slave Ownership’, *New Testament Studies*, 37, rhif 2 (April 1991), 161-86.

Bartour, Ron, ‘American Views on Bible Slavery: 1835-1865, A Comparative Study’, *Slavery and Abolition*, 4 (1993), 41-55

Bassett, Frederick W., ‘Noah’s Nakedness and the Curse of Canaan, a Case of Incest?’, *Vetus Testamentum*, 21, rhif 2 (April 1972), 232-37.

Bradley, L. Richard, ‘The Curse of Canaan and the American Negro’, *Concordia Theological Monthly*, 42 (1971), 100-110.

- Callahan, Allen D., 'Paul's Epistle to Philemon: Toward an Alternative Argumentum', *The Harvard Theological Review*, 86, rhif 4 (1993), 357-76.
- Carmichael, C., 'The Sabbatical/Jubilee Cycle and the Seven-Year Famine in Egypt', *Biblica*, 80 (1999), 224-39.
- Cartwright, Michael G., 'Ideology and the Interpretation of the Bible in the African-American Christian Tradition', *Modern Theology*, 9, rhif 2 (April 1993), 141-58.
- Casperson, Lee W., 'Jubilee, and the Temple of Solomon', *Vetus Testamentum*, 53, rhif 3 (July 2003), 288-95.
- Ciosáin, Niall Ó, 'The Print Cultures of the Celtic Languages, 1700-1900', *Cultural and Social History*, 10, rhif 3 (2013), 346-67.
- Davies, D. Eirug, 'Llyfrau a Phamffledi Cymraeg a gyhoeddwyd yn yr Unol Daleithiau', *Llên Cymru*, 26 (2003), 106-36.
- Davies, E. W., 'Awdurdod y Beibl', *Diwinyddiaeth*, XXXIX (1988), 18-40.
- de Vos, Craig S., 'Once a slave, always a slave? Slavery, manumission and relational patterns in Paul's letter to Philemon', *Journal for the Study of the New Testament*, 82 (2001), 89-105.
- Fensham, F. C., 'Widow, Orphan and the Poor in Ancient Near Eastern Legal and Wisdom Literature', *Journal for Near Eastern Studies*, 21 (1962), 129-39.
- Frilingos, Chris, "'For My Child, Onesimus": Paul and Domestic Power in Philemon', *Journal of Biblical Literature*, 119, rhif 1 (Spring 2000), 91-104.
- Ginzberg, E., 'Studies in the Economics of the Bible', *Jewish Quarterly Review*, 22 (1932), 343-408.
- Gnuse, Robert, 'Jubilee Legislation in Leviticus: Israel's Vision of Social Reform', *Biblical Theology Bulletin*, 15 (1985), 43-8.
- Harrill, J. Albert, 'The Use of the New Testament in the American Slave Controversy: A Case History in the Hermeneutical tension Between Biblical Criticism and Moral Debate', *Religion and American Culture: A Journal of Interpretation*, 10, rhif 2 (Summer 2000), 149-86.
- Horowitz, V., "'His Master Shall Pierce His Ear with an Awl" (Exodus 21:6): Making Slaves in the Bible in Light of Akkadian Sources', *American Academy for Jewish Research*, 58 (1992), 47-77.
- Huzzey, Richard, 'When is a Slave Not Really a Slave?', *History Today*, (December 2012), 48-55.
- James, E. Wyn, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790-1840', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), 37-60.

-----, 'Welsh Ballads and American Slavery', *The Welsh Journal of Religious History*, 2 (2007), 59-86.

Kawashima, Robert S., 'The Jubilee, Every 49 or 50 Years?', *Vetus Testamentum*, 53, rhif 1 (January 2003), 117-20.

-----, 'The Jubilee Year and the Return of Cosmic Purity', *The Catholic Quarterly*, 65 (2003), 370-89.

Keller, Ralph A., 'Methodist Newspapers and the Fugitive Slave Law: A New Perspective for the Slavery Crisis in the North', *Church History*, 43, rhif 3 (September 1974), 319-39.

Lemche, Niels P., 'Andurārum and Mīšarum: Comments on the Problem of Social Edicts and their Application in the Ancient Near East', *Journal for Near Eastern Studies*, 38, rhif 1 (January 1979), 11-22.

-----, "'Hebrew Slave": Comments on the Slave Law Ex xxi 2-11', *Vetus Testamentum*, 25 (1975), 129-44.

-----, 'The Manumissions of Slaves—The Fallow Year—The Sabbatical Year—The Jubel Year', *Vetus Testamentum*, 26, rhif 1 (1976), 38-59.

Levinson, Bernard M., 'The Birth of Lemma: The Restrictive Reinterpretation of the Covenant Code's Manumission Law by the Holiness Code (Leviticus 24:44-46)', *Journal of Biblical Interpretation*, 124 (2005), 617-39.

Merrill, John L., 'The Bible and the American Temperance Movement: Text, Context, and Pretext', *The Harvard Theological Review*, 81, rhif 2 (April 1988), 145-70.

Morgan, D. Densil, 'Wales, the Princeton theology and a nineteenth century battle for the Bible', *Journal of Welsh Religious History*, 2, (2002), 51-81.

Morrison, Larry R., 'The Religious Defense of American Slavery Before 1830', *The Journal of Religious Thought*, 37, rhif 2 (1980-1981), 16-29.

Na'aman, Navid, 'Ḥabiru and Hebrews: The Transfer of a Social Term to the Literary Sphere', *Journal of Near Eastern Studies*, 45 (1986), 271-88.

Nordling, John G., 'Onesimus Fugitivus: A Defense of the Runaway Slave Hypothesis in Philemon', *Journal for the Study of New Testament*, rhif 41 (January 1991), 97-119.

Owen, Karen, 'Caethwasiaeth Cymru: Ymgyrch gan yr heddlu', *Y Cymro*, (16 Hydref 2015), 3.

Pankhurst, Richard, 'The History of Bareya, Šanqella and Other Ethiopian Slaves from the Borderlands of the Sudan', *Sudan Notes and Records*, 58 (1997), 1-43.

Pease, Jane H., 'The Road to the Higher Law', *New York History*, 40, rhif 1 (April 1959), 17-36.



- Phillips, A. C., 'The Laws of Slavery: Exodus 21.2-11', *Journal for the Study of Old Testament*, 30 (1984), 51-66.
- Reese, Renford, 'Canada: The Promised Land for U.S. Slaves', *The Western Journal of Black Studies*, 35, rhif 3 (October 2011), 208-17.
- Rice, Gene, 'The Curse that Never Was (Genesis 9:18-27)', *Journal of Religious Thought*, 29, rhif 1 (1972), 5-20.
- Ross, Allen P., 'Studies in the Book of Genesis Part 1: "The Curse of Canaan"', *Bibliotheca Sacra*, 137 (1980), 223-40.
- Sanders, Laura L., 'Equality and Request for the Manumission of Onesimus', *Restoration Quarterly*, 46, rhif 2 (2004), 109-14.
- Shead, Andre G., 'An Old Testament Theology of the Sabbatical Year and Jubilee', *The Reformed Theological Review*, 61, rhif 1 (April 2002), 19-33.
- Shufelt, J. Ernest, 'Noah's Curse and Blessing. Gen. 9:18-27', *Concordia Theological Monthly*, 17, rhif 10 (1946), 737-42.
- Smith-Christopher, D. L., 'Jeremiah as Prophet of Nonviolence', *Journal for the Study of the Old Testament*, 43 (1989), 95-107.
- Sprinkle, Joe M., 'Law and Narrative in Exodus 19-24', *Journal of the Evangelical Theological Society*, 47, rhif 2 (2004), 235-52.
- Stein, S., 'The Laws on Interest in the Old Testament', *Journal of Theological Studies*, 4 (1953), 161-70.
- Steinmetz, Devora, 'Vineyard, Farm, and Garden: The Drunkenness of Noah in the Context of Primeval History', *Journal of Biblical Literature*, 113, rhif 2 (1994), 193-207.
- Taylor, Michael, 'British Proslavery Arguments and the Bible, 1823-1833', *Slavery and Abolition*, 37, rhif 1 (2016), 139-58.
- Walters, Huw, 'Gwasg Gyfnodol y Bedyddwyr Cymraeg yn America: ei thwf a'i thranc', *Llên Cymru*, 32 (2009), 161-90.
- Westbrook, R., 'Slave and Master in Ancient Near Eastern Law', *Chicago-Kent Law Review*, 70, rhif 4 (June 1995), 1631-76.
- Whitford, David, 'A Calvinist Heritage to the "Curse of Ham": Assessing the Accuracy of a Claim about Racial Subordination', *Church History and Religious Culture*, 90, rhif 1 (2010), 25-45.
- Williams, Daniel, 'Hil, Iaith a Chaethwasanaeth; Samuel Roberts a "Chymysgiad Achau"', *Y Traethodydd*, 159 (2004), 92-106.

Williams, Rhiannon Heledd, “‘Cyfunwn Hil Gomer?’”: Diwylliant Eisteddfodol yr 1850au’, *Tu Chwith*, 39 (August 2013), 130-42.

Willis, David, ‘Cyfieithu Iaith y Caethweision yn *Uncle Tom’s Cabin* a Darluniadau o Siaradwyr Ail Iaith mewn Llenyddiaeth Gymraeg’, *Llên Cymru*, 39 (2016), 56-72.

Winter, Sarah C., ‘Paul’s Letter to Philemon’, *New Testament Studies*, 33 (1987), 1-15.

Wolff, Hans Walter ‘Masters and Slaves: On Overcoming Class Struggle in the Old Testament’ [cyfieithiad Gary Stansell], *Interpretation*, 27, rhif 3 (July 1973), 259-72.

### **Traethodau Ymchwil**

Evans, Paul DeMund, ‘The Welsh in Oneida County, New York’ (Traethawd MA, Prifysgol Cornell, 1914):

<http://www.rootsweb.ancestry.com/~nyunywh/upstatenywelsh/OneidaWelsh.pdf>

Foulkes, Eleri, ‘Y Berthynas rhwng yr Ymgyrch yn erbyn Caethwasanaeth a’r Ymgyrch dros Hawliau Merched â Datblygiad Hunaniaeth Cymry America yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg’ (Traethawd MA heb ei gyhoeddi, Prifysgol Bangor, 2009).

Lokkesmoe, Ryan, ‘Finding Onesimus: Recovering the Story of a First-Century Fugitive Slave’ (Traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Denver, 2015).

Williams, Rhiannon Heledd, ‘Cyfaill Pwy o’r Hen Wlad? y wasg gyfnodol Gymraeg America a hunaniaeth Cymry America, 1838-66’ (Traethawd PhD, Prifysgol Bangor, 2012).

### **Darlithoedd Cyhoeddus**

Jones, Bill, “‘Raising the Wind’”: Emigrating from Wales to the USA in the late nineteenth and early twentieth centuries’ (Caerdydd: Ysgol y Gymraeg, 2004).

### **Gwefannau**

‘Anerchiad yr Archesgob’, <http://cristnogaeth21.cymru/anerchiad-yr-archesgob/>; cyrchwyd 20 Hydref 2017.

‘Arestio pump mewn cyrch caethwasiaeth fodern ym Mhenfro’, *Cymru Fyw*, 17 Mai 2017, <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/39953571>; cyrchwyd 3 Hydref 2017.

‘Cyfraith newydd yn erbyn caethwasiaeth’, *Golwg360*, 25 Awst 2013, <https://golwg360.cymru/newyddion/prydain/119982-cyfraith-newydd-yn-erbyn-caethwasiaeth>; cyrchwyd 3 Hydref 2017.

‘Cymru “ar flaen y gad” wrth daclo caethwasiaeth’, *Golwg 360*, 9 Mawrth 2017, <https://golwg360.cymru/newyddion/gwleidyddiaeth/256786-cymru-ar-flaen-y-gad-wrth-daclo-caethwasiaeth>; cyrchwyd 3 Hydref 2017.

*Declaration of Independence: A Transcription*, (4 July, 1776),  
<<https://www.archives.gov/founding-docs/declaration-transcript>>; cyrchwyd 2 Hydref 2016.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, 26 Mawrth 2015,  
<[http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/pdfs/ukpga\\_20150030\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2015/30/pdfs/ukpga_20150030_en.pdf)>; cyrchwyd 24 Medi 2017.

‘Galwad i daclo caethwasiaeth yng Nghymru’, *Cymru Fyw*, 23 Ionawr 2015,  
<<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/30943405>>; cyrchwyd 3 Hydref 2017.

‘Global estimates of modern slavery: Forced labour and forced marriage’ (Geneva: International Labour Organization, 2017), <[http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/publication/wcms\\_575479.pdf](http://www.ilo.org/wcmsp5/groups/public/---dgreports/---dcomm/documents/publication/wcms_575479.pdf)>; cyrchwyd 24 Medi 2017.

“Gwaed a syniadau newydd” yn Y Cymro’, *Golwg 360*, 25 Medi 2017,  
<<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/276622-gwaed-a-syniadau-newydd-yn-y-cymro>>; cyrchwyd 1 Tachwedd 2017.

James Henry Hammond, ‘The “Mudsill” Theory’, 4 Mawrth 1858,  
<<http://www.pbs.org/wgbh/aia/part4/4h3439t.html>>; cyrchwyd 23 Ebrill 2017.

‘O gaethwasiaeth i ddigidol – yr Eglwys yn rhoi sylw i beryglon cam-driniaeth’,  
<<http://cym.eglwysyngnghymru.org.uk/news/2016/06/o-gaethwasiaeth-i-ddigidol-yr-eglwys-yn-rhoi-sylw-i-beryglon-cam-driniaeth/>>; cyrchwyd 20 Hydref 2017.

‘Papur Y Cymro ar werth am y tro olaf’, *Cymru Fyw*, 29 Mehefin 2017,  
<<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/40437202>>; cyrchwyd 1 Tachwedd 2017.

*The Constitution of the United States of America*, Article I, Section 9, Clause 2 (1787),  
<<https://www.archives.gov/founding-docs/constitution-transcript>>; cyrchwyd 5 Mawrth 2017.

*The Constitution of the United States of America*, Article IV, Section 2, Clause 3 (1787),  
<<https://www.archives.gov/founding-docs/constitution-transcript>>; cyrchwyd 5 Mawrth 2017.

‘Y Cymro – ar werth am y tro olaf?’, *Golwg360*, 29 Mehefin 2017,  
<<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/268458-y-cymro-ar-werth-am-y-tro-olaf>>; cyrchwyd 1 Tachwedd 2017.

‘Y Cymro yn dychwelyd ym mis Mawrth 2018’, *Golwg360*, 27 Tachwedd 2017,  
<<https://golwg360.cymru/newyddion/cymru/506617-cymro-dychwelyd-mawrth-2018>>; cyrchwyd 27 Tachwedd 11 2017.

Y Trydydd Gwelliant ar Ddeg, 6 Rhagfyr 1865, <<https://www.archives.gov/founding-docs/amendments-11-27>>; cyrchwyd 24 Medi 2017.

## **Beiblau**

Y Beibl Cymraeg Newydd (1988)

Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig (2004)

Y Bibl Sanctaidd (cyfieithiad Peter Williams; 1770)

Y Bibl Cyssegr-lan (1620; fersiwn 1851)

The King James Version (1611; fersiwn 2000)

The New International Version (1978; fersiwn 2011)

The New Revised Standard Version (1989; fersiwn 2011)